Historian's Office Library

The Church of Jesus Christ
of Latter-day Saints

Vault
M205.5
M19We
v.8
Items 1-12

Rare
Call M205.5
No. U19W
v.8
1855

Statistical 31

Presented to
The Church Historian Office
Great Salt Lake City, U. T.
by the Author,
Dan Jones.

Udgorn Seion Office
Swansea, Wales,
Jan'y. 1856.

Digitized by the Internet Archive
in 2011 with funding from
Corporation of the Presiding Bishop, The Church of Jesus Christ of Latter-day Saints

http://www.archive.org/details/udgornseionneuse00unse

UDGORN SEION,

NEU

SEREN Y SAINT;

YN CYNNWYS

EGWYDDORION "GORUCHWYLIAETH CYFLAWN-DER YR AMSEROEDD,"

MEWN

TRAETHODAU, LLYTHYRON, HANESION, PRYDYDDIAETH, &c.

"A mi a osodais wylwyr arnoch chwi, gan ddywedyd, Gwrandewch ar sain yr udgorn."—JER. VI, 17.

"Holl drigolion y byd, a phreswylwyr y ddaear, gwelwch pan gyfodo efe faner ar y mynyddoedd, a chlywch pan udgano ag udgorn."—ESA. XVIII, 3.

CYFROL VIII.

ABERTAWY:
ARGRAFFWYD, CYHOEDDWYD, AC AR WERTH GAN D. JONES.
1855.

Tra y gwelir ymbleidiau, cenfigenau, a gau-grefyddau wedi gwau sachlen ddu dew i amdoi wynebpryd awyrgylch gwlad anghrist â chaddug, drwy yr hon ni thewyna belydr o oleuni "Haul cyfiawnder" yn uniongyrchol, arweinia *Seren y Saint* bererinion blant y nef o gam i gam drwy ddyrys anialwch y byd i'w nhoddfa glud i blith "sôr y boreu" yn Seion.

Tra y mawrygwn ein braint fwy-fwy, o gyfrol bwy gilydd o gael cyd-filwrio a'n cyd-filwyr, crefwn ou cymhorth i udganu yn groewach a phereiddiach ar *ddechreu* ein cyfrol ddyfodol, ar nad pwy udganwr a'i diwedda.

"Adref, adref, blant yr Arglwydd,
Galwad sydd i dd'od yn ebrwydd,"

fydd blaenaf, uchaf, ac olaf lais eich HUDGORN, nad pwy a fo, nes adref y delo y gwanaf o blant Seion. Sain cywir, sŵn clir, a grymusder y gwir i dreiddio i galonau ein darllenwyr rhodded Nêr i bwy bynag a chwytho drwy HUDGORN SEION yw, ac a fydd taeraf ac olaf weddi, eich—

GOLYGYDD.

CYNNWYSIAD.

Ai Duw a ddanfonodd Joseph Smith 78
Amlwreigiaeth yn Utah 135
Amrywiaethau, &c., 16, 31, 48, 64, 80, 96, 112, 143, 160, 176
192, 208, 223, 303, 319, 351
Annerchiad ymadawol y Llywydd Thomas Jeremy . 121
Annerchiad ymadawol yr Henuriad Wm. Willis . . 125
Annerchiad yr Anrhydeddus Lywodraethwr B. Young 161, 181
Appwyntiad Colonel Steptoe yn Lywodraethwr ar Utah . 77
Araeth y Llywydd B. Young 17, 33, 49
Araeth y Llywydd J. M. Grant 305, 321
Arian-dŷ 147
At Llywyddion Cynnadleddau a Changenau . . 250
At Riaint 1
Barddoniaeth,—
Annerchiad Chwaer at ei Chyd-ieuengtyd . 239
Ansawdd Arwyddion yr Amserau . . 55
Awydd am Seion 287
Breuddwyd am golled gŵr daionus . . 228
Cyflafan Sebastopol 202
Deseret 391
Dychweliad yr Alltud 142
Hiraeth am Seion 14, 318
Molawd i Wirfoddoliad Môn ac Arfon . . 383
Peunillion 95
Syrthiad Babilon 127
Bradwriaeth yn erbyn Amherawdwr y Ffrancod . 125
Cais at ateb gofyniadau Amos Clark . . 217, 279
Cofnodion Cymmanfa Gyffredinol . . . 273
Cyfarwyddiadau ar yr Ymfudiad . . . 22
Cyflawniad o Brophwydoliaethau Joseph Smith . . 177
Cymmanfaoeddd,—
Dyffryn Conwy 118, 216
Ddeheuol Penfro 213
Ddwyreiniol Morganwg 63
Llanelli 175

Llanrwst 54
Llansawel 158
Ogleddol Penfro 212
Orllewinol Mor anwg . . . 157
Sir Aberteifi 175
Sir Ddinbych 215
Sir Feirionydd 215
Sir Fflint 214
Cymmeriad i'r Saint 140
Darlith ar Wladgarwch 167
Darlith yr Apostol Orson Hyde 81, 97
Deiseb at Lywydd yr Unol Daleithiau . . . 145
Deuddegfed Epistol Cyffredinol . . 241, 257, 268
Dyfyniad o Hanes ymweliad y Brif Lywyddiaeth â Manti, &c 316
Dyfyniad o Lythyron G. A. Smith 317
Dyfyniad o Lythyr o'r Dyffryn 86
Dyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg . . 245
Ein Hamseroedd Cyd-oesol 110
Erlidigaeth grefyddol a'i effeithiau . . . 112
Frwythwch ac Amlhewch 193
Gair o Ddinas y Llyn Halen at y Saint yn Nghymru . 36
Galwad am Wirfoddoliaid 13
Golygyddiaeth.—Y Flwyddyn Newydd—Yr wythfed gyfrol o'r Udgorn 8.—Annerchiad at Lywyddion y Cynnadleddau Cymreig—Yr Ymfudwyr Eleni 25.—Yr Ymfudiad 39. Newyddion o Utah—Cymmanfa Gyffredinol Dinas y Llyn Halen Mawr—Y Tafleni Cyfrifiadol 56.—Arwyddion yr Amserau—Pregeth y Llywydd Kimball—Y Gymmanfa ddiweddar 72.—Llwyddiant yr Efengyl yn Nghymru—Y "Mormon" Dychweliad y Brawd Willis—Swyddfa y "Millennial Star" 88.—At Bregethwyr yr efengyl—Y Saint ymfudol—Yr Ymfudiad dyfodol—At Lywyddion Cynnadleddau 105.—Ymfudiad Eleni 120.—Y Ddadl yn Abertawy 136.—Y Gwirfoddo iaid 152.—D. Ym. Barhaus a'r Deml—Y Ddadl yn Abertawy—Newyddion Tramor 169.—Newyddion o'r Dyffryn—Diwedd y Chwarter 185.—Y Cynnrychioliad Hanner Blynyddol 200.—Pregethu yr efengyl—Appwyntiadau 216.—At Lywyddion Cynnadleddau a Changenau 233.—Epistol y Brif Lywyddiaeth—Newyddion o'r Dyffryn—Y Gwirfoddoliaid—Bro Morganwg—At Lywyddion y Cynnadleddau 248.—Epistol y Brif Lywyddiaeth 365.—Llwyddiant Eglwys Dduw yn Nghymru 281.—Newyddion o Utah—Newyddion Tramor 296.—

Ymweliad y Golygydd â Gwynedd 312.—Ymfudo—Y Ddyled am Lyfrau 328.—Newyddion o Utah 345. Cip-drem ar sefyllfa yr Eglwys yn Nghymru 361.—Yr Ymfudiad—Clwyf yn mhlith y Cwartheg—Y Môr a'i donau yn rhuo Terfysgwyr 376.—Newyddion i Ymfudwyr—"Udgorn Seion" am y Flwyddyn ddyfodol—Y Dyledion am Lyfrau—At y Llywyddion—Marwolaeth y Llywydd Orson Spencer 392.—Yr Ymfudiad—Cyfnewidiadau ac Etholiadau 404.

Gwlad Israel ac addewid Israel 388
Gwroldeb Mormoniaidd 327
Gwrth-brofion Cyhuddiadau Gwrth-Formonaidd . . 154
Hanes Eisteddfod Cymmadledd Aberatwy . . 31
Helyntion y byd rhyfelawg 207
Herriad P. P. Pratt 191
Hysbysiad i Lywydd, Senedd a phobl yr Unol Daleithiau 173
Iachâd drwy'r Efengyl 199
Iachawdwriaeth Feunyddiol 220
Llofruddiad Joseph ac Hyrum Smith . . . 42
Llwyddiant yr efengyl yn Texas . . . 328
Llwyddiant yr efengyl yn Taleithiau . . . 6
Llythyrau.—
At Bregethwyr y Saint . . . 189
O Ddinas y Spanish Fork . . . 275
Oddiwrth Samuel Evans . . . 53
Oddiwrth yr Henuriad T. Jeremy . . 201
Oddiwrth yr Henuriad T. Martill . . 348
O'r Dyffryn . . . 186, 244
O Sir Fôn . . . 238
Y Brawd Henry Harris . . . 278
Y Chwaer Daniels . . . 377
Y Chwaer Jeremy . . . 46
Y Llywydd H. C. Kimball at ei fab yn Lloegr . 291
Y Llywydd Young at y Llywydd F. D. Richards 274
Etto . . . 401
"Mân bethau" . . . 102
Marwolaeth yr Amerawdwr Nicholas . . 94
Mordwyad yr afon Colorado . . . 196
Mr. P. P. Pratt . . . 139
Mynegiad Cyfrifiadol . . . 81, 247
Mynegiad o'r Llyfrau sydd ar werth . . 159
Newyddion o'r Rhyfel . . . 126, 142
Newyddion o Utah . . . 363
Rhoddion at y Deml . . . 259
Rhwymo Llyfrau . . . 111
Rhybudd i'r Saint . . . 235
Rhybudd i'r Ymfudwyr . . . 47

Rhyfel rhwng y Taleithiau a'r Indiaid Gorllewinol . 285
Sylwadau, &c 65
Sylwer ac efelycher a ganlyn 203
Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg . 272
. 288, 302, 320, 335
Talwch cieh dyledion 91
Tiriad y llong "Juventa" 204
Torriad yr Undeb Americanaidd 382
Tystiolaeth. Ffydd, ac Ymddiried 289
Y Beibl—Pwy a saif wrtho 129
Y D. Y. Barhaus 58, 385
Y Flwyddyn Newydd 10
Ymadyddan 132
Ymddyddan rhwng Sectyddwr, Mormoniad, ac Anffyddiwr 299
Ymholiadau i egwyddorion 199
Yn mha beth y creda y Mormoniaid 225
Yr "Amserau" a'i Furgyn yn ei geg . . . 337, 353
Yr "Eurgrawn Ysgrythyrol" 351
Yr Ymfudiad 369
Y Taleithiau Unol a'u Masnachaeth ddynol . . . 229

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. I.] IONAWR 6, 1855. [Cyf. VIII.

AT RIAINT.

"Hyffordda blentyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy â hi," ebe y gwr doeth gynt; ac er na allwn danysgrifio ei air gyda yr un sicrwydd ag y gwna ef, o herwydd fod plant ein hoes ni yn gyfnewidiol eu mheddyliau; etto teimlwn i wasgu at y rhai a wnaethpwyd gan Dduw yn rhiaint, y pwysigrwydd o ddysgu y ffordd iawn eu hunain, ei rhodio, a thrwy eu hesiamplau a'u cynghorion i ddysgu eu plant i wneuthur felly hefyd. Nid yw y rhai a ystyriant eu plant yn *ail* i unrhyw roddion o eiddo Duw iddynt yn eu hiawn brisio, nac o ganlyniad, yn deilwng o honynt; ac ni esgusoda y Rhoddwr na'r rhoddion mo y rhiaint a ddysgwyliant i ereill gyflawni at eu plant hwy y dyledswyddau a ofyna natur a Duw natur iddynt hwy i'w cyflawni en huuain.

Calon pwy dad neu fam a all beidio gofidio pan y gwel eu llygaid lygredigaeth yr oes ieuanc; clustiau pwy na ferwina wrth glywed eu cabledd, eu screchiadau a'n direidi? Nid digon trwchus muriau ein tai rhag ein syfrdanu gan eu mwstwr annyoddefol. Plant yw tenantiaid ein carchardai, ac ysglyfaeth erogbrenau ein gwlad! Gwir fod ysgolion dirif braidd drwy ein gwlad; eithr beth well er hyny? Carcharau i'r plant y'nt, o'r rhai yr hiraethant am ryddid i ymgynhenu am y feistrolaeth o ddysgu direidi i'w gilydd; rhiaint a ddylent addysgu moesoldeb a dyscyblu meddyliau eu plant; iddynt hwy y rhoddes yr Hwn a'u pïa awenau llywodraeth; hwy a allant ac a

ddylent arwain eu meddyliau tyner yn y ffordd uniawn. Esiamplau y rhieni, pe dechreuid yn brydlon, a arweinient y meddyliau tyner a blagurol y ffordd a ddewisent, a phe felly, ennilient ddylanwad y rhai hynaf, i fod yn ysgolfeistri effeithiol i'r ieuengach o'r a'u cyd-chwareuyddion.

Beth a ddysgwylia y rhieni hyny a gefnogant eu plant i ormesu ar a chablu plant eu cymmydogion, ond y gwnant felly â'u gilydd pan eu cyffroir; ac o dipyn i ychwaneg deuant ddigon gwyneb galed i "dalu yr hen chwech" i'w rhieni eu hunain. Os clywa plant eu tad neu eu mham yn dweyd anwiredd, neu os gwelant hwynt yn gwnethur unrhyw anonestrwydd, diau y dylanwada yn gryf i ladd eu hymddiried ynddynt, neu i ddilyn eu hesiampl hwynt. Ymblesera rhieni mewn manau yn gweled eu plant yn erlid, yn gwawdio ac yn llabyddio dieithriaid anghall neu estroniaid hyd yr heolydd, heb gofio nemawr mai felly y telir iddynt hwythau yn ol yn ei dro; a gwaeth fyth, gwelsom riaint yn ddiwyd a selog iawn yn casglu plant yr heolydd ynghyd, ac yn eu danfon i'r fan lle y pregethai gwas i Ddnw yr efengyl, gyda gorchymyn caeth i floeddio, wban, a gwneyd trwst, fel na chlywai neb ddim a ddywedai! Pa faint gwell y rhiaint hyny na y rhai a yrent eu plant gynt i waeddi "dos i fyny moelyn," ar ol yr hen brophwyd gynt? Ac oni fuasai mwy amynedd Duw, tebyg fuasai y canlyniad etto; pwy rieni na arswydai rhag mai felly y bydd os na ddiwygiant. Hysbysir ni fod rhieni yn cael eu dysgu i hyny o le uwch—y mae genym enwau Peirch a annogant o'u pwlpudau i anfon plant i floeddio ar ol, a lluchio baw at bregethwyr o wahanol farnau iddynt hwy; ïe, "yn yr oes oleu hon!" Beth ond codi oes o erlidwyr crefydd yw hyn? Bywyd pwy, a feiddio fod o wahanol farn, fydd ddiogel pan dyfo yr oes hon o blant yn ddynion? O "Gristionogaeth," O riaint "Cristionogol," fel y galwch eich hunain, gweithiwch yn gyntaf wareiddiwch, yn lle y fath anwareiddiwch, â hyny i'ch plant rhag cywilydd i'n gwlad!

Wrth y Saint, y rhai a gydnabyddant y plant yn rhoddion yr Arglwydd ac yn ogoniant i'w rhieni, dywedwn,—gan fod "ymarferiadau drwg yn llygru moesau da," ymwnewch i gadw eich plant hyd y bo modd oddiwrth ddylanwad ac arferion Babilonaidd a llygriadau plant yr oes; mynych y clywwn blant y

Saint yn cael eu herlid o blith ereill, gan rai yn lluchio ar eu hol, gan waeddi yr "hen Saint," neu ryw beth gwaeth ar eu hol; a da hyn o'r drwg, os ceidw hwynt o'r fath gwnmiaeth lygredig; diau mai eu rhieni a ddysgodd hyn i'w plant, a hwy ddelir yn gyfrifol; pe dysgasent hwy yn groes darfyddasai yr effaith. yr hyn a galonoga y Saint i'r ddyledswydd o ddylanwadu ar eu plant eu hunain i'w harwain yn y ffordd iawn.

I'r Saint ffyddlon, mae y dydd eisoes wedi gwawrio iddynt i ymddidoli eu plant a'u hunain o blith y fath lygredigaeth andwyol, a diau fod y rhiaint a adnabyddaut y pwysigrwydd o'r testun yn hiraethu am weled eu hunain a'u hanwyl blant yn Seion heddychol, lle y dysga rhieni "pur o galon" eu plant i fod felly hefyd. Ond hyd hyny, y mae ganddynt waith i'w wneuthur i gadw eu meddyliau rhag llygru, a'u nhwydau rhag cynnyddu yn affywodraethol cyn hyny; y mae dylanwadau arferion, iaith, a thraddodiadau, yn ffurfio eu cymmeriadau yn awr—o ddydd i ddydd; a pho hwyaf y gadewir iddynt, po fwyaf fydd gofid eu rhiaint i'w dadwneyd. Mae dylanwadau yn cael eu creu ar ein plant oddiwrth bethau na feddylia eu rhieni yn fynych; a'i tybied yr ystyria y fam pan yn hongian rhyw hen bictwr i guddio y pared, yn dynodi Crist yn sefyll yn yr afon, a Ioan yn arllwys dwfr o gragen arno, fod hyn yn magu cred yn y plant mai dyna y dull cywir o fedydd? A ystyria y tad fod ei blentyn 5 mlwydd oed yn syllu yn graff arno ef yn difyru ei hun yn ei gadair ddwyfraich, ei bibell hir yn ei ben, a'r mwg yn gymylau o'i amgylch, ac yna yn rhedeg o'r neillidu i'w efelychu ef yn hyn; a'i fod ef drwy hyny yn magu arferiad niweidiol, ac efallai rhy anhawdd ei gorchfygu yn ei blentyn ei hun? Niweidiol arw i blant yw lluniau y diafol a'i gyrn ceimion, ei gynffon laes a'i garnau, crea farn mai dyna y fath yw a bara arswyd ar lawer a'i dilyna ar hyd eu hoes, a diau fod y darluniau Pabaidd o lun angylion ag adenydd ganddynt a welir hyd parwydydd y tai, wedi peri i'r werin gredu mor ddiysgog fod gan angylion adenydd, fel mai ofer ceisio eu hargyhoeddi. Mae llawer o luniau ereill hollol anwireddus yn cario dylanwad niweidiol ar yr oes sydd yn codi ag y gall pob rhiaint eu hadnabod a'u symud eu hunain.

Eithr nid lluniau yw y gwaethaf eu dylanwad ar blant; mewn gair, mae Catechisms yr oes yn gwenwyno mwy ar fedd-

yliau plant nâ'r oll a geir i'w nhiweidio! Profiad a'n gorfoda i'r penderfyniad hyn ; cofus am ei wersi, ei gwestiynau, a'i atebion hyd heddyw, megys "O ba beth y creodd Duw y byd?" Ateb. "*O ddim!*" Hawyr! beth geir yn fwy afresymol, —yn fwy anmhosibl nâ hyna? Etto, ac er na cheir adnod i'w brofi, dywed Catechism hyny, a dyna ddigon i'r plentyn, ac hyd y nod iddo pan yn ddyn, hyd nes yr alltudia rheswm, er gwaethaf dylanwad traddodiad, y fath gelwydd o'r grêd. Cymmysgir cynnifer anwireddau a chyfeiliornadau mor amlwyol yn esboniadau gau athrawon ysgolion Suliol, a chan Gatechisms pob sect ar a welsom, fel y mae cariad at les yr oes yn newyneb yr esiamplau a welsom yn ein cymhell i berswadio rhiaint i beidio gadael i'r fath wenwyn suro meddyliau eu plant; na chadwch hwynt yn eich tai, ac na adewch i'ch plant fyned i'r ysgolion a orfoda arnynt ddysgu y fath bethau niweidiol, onide y cyntaf peth a wyddoch pan y byddoch chwi am gychwyn tua Seion bydd eich plant wedi magu casineb at y gwirioneedd, wedi gwreiddio yn nhraddodiadau Babilonaidd yn rhy ddwfn i chwi allu eu codi oddiyno. Yn lle gadael i'ch plant fyned i gapeli neu eglwysi sectyddol er boddio eich perthynasau na neb ereill, deuwch a hwynt yn eu hieuengtyd i'r fan lle y ciywant athrawiaethan iachus, ac y cyfarwyddir eu mheddyliau yn ffyrdd yr Arglwydd; yn lle Catechisms sectyddol, y rhai a'u dysgant fod y Beibl yn cynnwys holl feddwl Duw, nad oes doniau ysbrydol i'w cael, ac mai cabledd yw ceisio dadgudd iadau oddiwrth Dduw yn awr, &c., rhoddwch yn eu dwylaw "Gatechism Jaques," yr hwn a'u gwna yn ddoethach yn nhrefn Duw i achub dyn nag a ddichon holl ddoethineb ddynol ein hoes ei wneuthur. Yn lle darllen esboniadau nac ystoriau cenadol, nac hanesion ffugiol i gynhyrfu teimladau, nac i ddenu eu ceiniogau i anfon nac i gynal yn y gwledydd pellenig genadon sectyddol i wenwyno meddyliau Paganiaid, ac i'w cymhell hwynt i erlid gwir weision Duw, a gwrthod ei genadwri anfonedig Ef atynt, fel y gwna y gau athrawon hyn drwy y byd braidd yn awr ; gwell i chwi geisio gan eu mheistr hwy, neu eich mheistr chwi, un o'r ddau, eu cymmeryd o ffordd cadwedigaeth y byd, a rhoddi UDGORN SEION, Llyfr Athrawi eth a Chyfammodau, Llyfr Mormon, yr Eurgrawn, neu draethodau, o'r rhai y meddwch amrywiaeth mewn gwahanol ieithoedd yn

awylaw eich plant: arweinia y rhai hyn hwynt i gredu ac ufyddhau i ddatguddiadau Duw yn olynol, heb oriod chwiliofiam y bennod a'r adnod i brofi pob peth, ond cymydda eu ffydd i fyw ar *bob* gair *a ddaw* o enau yr Arglwydd; tra y dysga y lleill hwynt fel ein dysgwyd ein hunain i anghredu gwirioneddau; a phwy sydd heb destun gular yn ngwrthwynebrwydd ei draddodiadau blaenorol i ddatguddiadau Duw? Arbedwn ein plant o'r cyffelyb berygl tra maent o fewn ein cyrhaedd.

Dywenydd genym ddeall fod Llywyddion Cynnadleddau yn gosod Llywyddion Cangenau o dan eu gofal i gadw ysgol ar foreu Sul i ddysgu plant, a'r bobl a ddelo yno i ddarllen, a cheisiwn gan rianf gefnogi y gwaith canmoladwy hwn drwy anfon eu plant yno yn gyssen, a myned eu hunain hyd y gellir; y mae eich plant yn debyg iawn o fyned gyda eu cydnabod i ysgol arall os nad ânt i ysgol y Saint, ac nid yn unig gwenwynu eu bara, ond cynnefinant â'r lle fel dafad â'i chynnefin lc, pe b ti ben craig, fei na adawo am y dolydd brasaf; felly eich plant ond odid, os i ysgol sectyddol y gadewch iddynt fyned, ar nad yno yr ânt i wrando pregethu, ac felly nid yn unig chwychwi a'u collwch, ond pera eich esgeulusdod i chwi ddraen yn eich mynwes, ac ysbryd sectyddol o dan eich crongl wyd, mwy anynad na defni parhaus na thŷ myglyd. Pa gyssyltiad sydd rhwng Ysbryd Duw ag ysbryd y byd hwn? Dim, ond dieithria yr olaf blant oddiwrth eu rhieni anwylaf, a gesyd hadau chwerwedd lle y bo. Diddadl y dalia Duw y rhieni yn gyfrifol am eu dysgyblaeth ar eu plant eu hunain; ac yn Seion yn enwedig deallir hyn yn effeithiol: a gwyn fyd y rhai a arbedant iddynt eu hunain y gwarth o deulu anufydd yno, drwy fod wedi dysgu y gwersi dyladwy iddynt yma, tra y mae hyny yn hawdd ei wneuthur. Cofus am chwedl briodol i brofi yr egwyddor hon, a ddywedir am Turpin yr ysbeiliwr nodedig. Pan un tro y cwympodd ei dad ei hun yn ysglyfaeth iddo, er heb ei adnabod, begiai am ei fywyd; atebai Turpin ef drwy ei arwain at bren anferth yn y goedwig, ac addaw arbed ei fywyd os plygai efe hwnw lawr. Gan na allai addawodd ei arbed os gwnelai efe blygu gwialen fain oedd ar ei bwys, yr hyn a wnaeth yn hawdd gan hòni ei ryddid. "Dôs fy nhad," ebe efe, "a dysg wers oddiwrth hyna i blygu y gweddill o'th deulu tra y gelli yn lle eu gadael i dyfu yn anmhlygedig fel y gwnaethost

â mi; myfi yw Richard Turpin dy fab." Diau fod calon y tad yn teimlo y sèn, a'i theimlo yn waeth wrth ddeall ei fod yn achos o ddrwg na allai ei ddad-wneyd, a dysga hyn wersi effeithiol i rieni yn awr.

Addurner eich llyfrgelloedd, eich byrddau, a'ch ysgolion gan lyfrau o waith awduron ysbrydoledig, y rhai a appwyntiwyd gan Dduw yn arweinyddion i chwi; canys y rhai a addaswyd gan ysbrydoliaeth i'ch dysgu yw y rhai addasaf hefyd i gyfarwyddo eich plant yn mhen ŷ ffordd, fel pan yr heneiddiont na ymadawont o honi; eithr fel y cyflawner hwynt o'r Ysbryd Glân, y tyfont yn iachus. doeth a heinyf, ac y byddont yn gedyrn golofnau yn nheyrnas Dduw, i anrhydeddu enwau a choffawdwriaeth y rhieni a'u dysgodd ar ben y ffordd, yn mhlith cenedloedd a ddêl; ac fel y cynnyddont eich teyrnasoedd, ac y lliosogant eich deiliaid yn ddiderfyn, yr hyn a fyddo rhan pob rhiaint ffyddlon yn nheyrnas Dduw, drwy Iesu Grist Amen.

LLWYDDIANT YR EFENGYL YN Y TALEITHIAU.—SEFYDLIAD CYNNADLEDD GYMREIG, AC ARGOELION ADDAWWOL.

Minersville, Ohio, Tach. 20, 1854.

Anwyl Frawd Jones.—Wele fi unwaith etto yn defnyddio adeg er eich anneroh trwy ychydig linellau o'r Americ. Yr wyf yn teimlo syched am gael clywed oddiwrthych yn fynych er cael peth o'ch helynt, a chael hanes am y gwirionedd a'i ganlyniadau yn mhlith fy nghyd-genedl yn ngwlad fy nam, Derbyniasom lythyr caredig a serchus oddiwrthych, dyddiedig Medi 13, a da iawn oedd genyf i glywed ei gynnwysiad, ac yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar iawn i chwi am eich cynghorion, a'ch sylw manwl o honom fel Canghen yn y lle hwn.) Gobeithiwn na thramgwyddwch am ein bod yn eich blino mor fynych â'n llythyron. Y teimladau uchod sydd yn fy nghymell fel y caf fwynhau rhagor o'ch cynghorion a'ch addysgiadau hyfrydol. Nerth a gaffwyf fi a'r holl Saint i fyw yn ein hol yw fy ngweddi yn barhaus.

Yr ydym wedi anfon llythyr at y Llywydd yna er cael clywed pa le y mae y Llywydd nesaf atom, ac er cael ychydig

gynghorion hefyd. Os cawn ar ddeall fod Orson Spencer yn Cincinnatti, yr ydym yn penderfynu, os bydd yn bosibl, i gael ganddo dalu ymweliad â ni yma. Yr ydym yn credu y gwna efe leshâd cyffredinol i ni, er fod yma yn barod well argoelion am lwyddiant ar y gwaith da hwn nag a welais yma erioed o'r blaen. Mae yma yn awr ddwy Gangen, ac felly mae yma Gynnadledd, yr hon sydd dan fy ngofal i, a Joseph Joseph, gynt o Pendarren, yn llywyddu y Gangen yn fy lle, ac Elias Thomas yn llywyddu y llall, ac yr ydym yn bwriadu sefydlu Cangen etto heb fod yn hir. Yr ydym yn ychwanegu mewn rhifedi yma o hyd, drwy fod brodyr a chwiorydd yn ymdynu atom. ond ychydig ydym wedi fedyddio hyd yn hyn, ond yr ydym yn credu y bedyddiwn ein cyd-gendl yn lluoedd cyn bo hir. Mae yma laweroedd o'n cyd-genedl yn ymddangos fel pe baent yn credu yr Efengyl. Yr ydym wedi sefydlu cylch yma yn awr, er i'r swyddogion i ddilyn eu gilydd i bregethu yn mhob man lle eu croesawir â drysau agored i'r perwyl, ac y mae awydd a syched yn yr holl swyddogion am gael troi yn eu cylch. Llawen genyf allu dweyd fod cynnifer o weision medrus mor awyddus a phenderfynol i weithio yn ngwaith Duw. Awdwr y gwaith a fendithio ein llafur nes dwyn yr holl onestion eu calonau yn ddeiliaid o'i deyrnas ; y mae undeb a chariad yn cynnyddu yn ein plith, a'n taer ddymuniad yw iddo barhau o hyd felly.

Dymunwn i chwi barhau yn eich sylw o honom, er y byddwn yn anfon ceisiadau at y llywyddiaeth nesaf atom, bydd ein hyder ynoch chwi yn parhau yr un.

Mae y gweithfeydd glo yma ar *stop* er ys dau fis, ac heb un argoel am iddo gychwyn, a hyny yn unig o eisieu dwfr yn afon Ohio; y mae wedi gwneuthur haf sych iawn yma eleni, y sychaf a welwyd er ys 16 o flynyddau, ac y mae yn parhau yn sych iawn o hyd. Felly, y mae amgylchiadau tymmorol yn myned yn dywyllach, dywyllach o hyd, o herwydd nad oes yma ddim i gludo y glo ffwrdd ond mewn badau ar yr afon. Mae y nwyfan yn ddrutach lawer nag y buasent pe buasai yr afon yn uchel.

Y mae Joseph Joseph yn dymuno ei gofio yn fawr at Dafydd ei frawd a'i deulu, ac at yr holl Saint. Mae Daniel Llywellyn, gynt o Pendarren, ynghyd a John Llywellyn ei gefnder yn

cofio atoch, ac at yr holl Saint yn Pendarren. Hefyd, y mae Wm. Evans yn cofio atoch.

Terfynaf y tro hwn gan gyflwyno i chwi fy serch am cariad gwresocaf.

Ydwyf, eich brawd yn Nghrist.

THOMAS M. RICHARDS.

[Dyddanus fydd gan ein darllenwyr ddeall fod sêl frwdfrydig yr efengyl yn ysu ein brodyr yn yr Americ, ac y fod cystal gobeithion o'u blaen; yr Hwn a ddalia allweddau bob calonau a fendithio eu llafur i argyhoeddi y miloedd o Gymru a'u hamgylchynant, a chwytho wreichion tân yr efengyl i oleuo miloedd Cymry Wisconsin, Pensylfania, Caerefrog Newydd, a a phob Cymro gwasgaredig trwy y cyfandir. Yn neillduol, crëa hyn ddyddordeb mawr i'r sawl a fwriadant ymfudo yno. Da genym glywed hefyd fod y brawd John James, gynt Gweinidog y Bedyddwyr yn Nghefn Coed y Cymmar, yn y fan uchod. yn gadarn yn y ffydd, ac yn selog i achub ereill o reffynau gau draddodiad.—GOL.]

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, IONAWR 6, 1855.

Y FLWYDDYN NEWYDD.—Wrth sengu ar drothwy y flwyddyn newydd hon i edrych yn ngwynebau, ac wrth grafangu ein hysgrifell i gerfio ein meddylddrychau ar feddyliau ein darllenwyr lliosog, mae mawredd ein cyfrifoldeb yn ymrythu yn ein llygaid, a'r pwysigrwydd o gyflawni dyledswyddau y cylch ein gosodwyd ynddo yn ein symbylu yn mlaen er hyny i wneuthur a allom; ymddiriediad yn ngallu yr Hwn a'n pïa, ac yn eiriolaeth ein cyd-weithwyr drosom a'n calonoga i ddechreu ar waith y flwyddyn hon gyda mwy o awydd a hyder nag a feddiannasom erioed o'r blaen.

Bygythia y flwyddyn 1855 fod yr un fwyaf argoelfawr i'n gwlad ni, os nad i wledydd y byd, o'r holl flynyddau mynedol. Er fod genym wledydd cedyrn a galluog yn gyd-weithwyr selog, mae un o brif allnoedd y ddaear, ar nad faint chwaneg, yn bygwth ein niwed, ac hyd yn hyn wedi difrodi ardderchogrwydd ein byddinoedd—"Ymffrost y byd," ac yn beiddio holl Ewrop i ryfel, nad yw efe wedi braidd ddechreu etto. Mwy na thebyg fod gogoniant a llwyddiant os nad rhyddid y genedl rymus hon yn y dafol a'i gwrthbwysa yn drymach na dim a fu i'w herbyn; ac ymddengys fod yr elfenau daearol, wybrenawl, a morawl yn elynion mwy angeuol nag yw Nicholas o Rwsia, er ei holl rwysg! Ni ddymunem ddychrynu neb, ac ni allwn, canys y mae difrodaeth ein byddinoedd yn rhy amlwg i'w guddio o wydd y byd,—pan y mae yr holl gatrawdau a'ânt i faes y rhyfel yn methu gwneuthur i fynu y rhif cyntaf a diriodd yno. Cyduna pob argoelion i gyfenwi hwn yn rhyfel mawr, a diau fod miliynau yn estyn eu gyddfau ac yn rhythu eu llygaid yn awyddus i weled ei ganlyniadau.

Rhy alarus yw cwynfanus leisiau dyoddefyddion y rhyfel i lanw tudalenau ein Hudgorn bychan; er nad ystyria y rhai a ddeallant ragfynegiadau yr Hollwybodol drwy ei weision,—y rhai y "rhoddwyd iddynt i wybod arwyddion yr amserau," a'r rhai ydynt wedi bod yn eglur ragfynegu y dydd rhyfel, erchyll ddydd y marwol bla a'r haint, a dydd y newyn du, pan y gwaeddai pawb ereill "Heddwch heddwch;" nid ystyria y cyfryw, meddwn, fod hyn oll ond "dechreu gofidiau," ac ond dechreu "gwaghâu y ddaear o'i thrigolion." Ac mor bell o ddysgwyl i'r rhyfel a'r barnedigaethau argyhoeddi y byd i gredu yr efengyl, ni'n siomir drwy hysbysiad brodyr sydd yn y rhyfel fod cyndaredd y gweddill mor erwinol yn erbyn teyrnas Dduw, fel na chlywir ond rhegfeydd a bygythion y milwyr yn adleisio drwy eu gwersylloedd am hir amser wedi yr enwir enw "Saint y Dyddiau Diweddaf;" ac y mae y brodyr sydd yno mor gaethiwus fel na chaiff dau o honynt byth braidd gyfarfod â'u gilydd i weddio! Prawf hyn nad argyhoedda cyflafan rhyfel mo galon y dyn anonest, a chyflawna y gair a ddywed, "Er hyn oll nid edifarhâ dynion i roddi y gogoniant i Dduw, eithr mellidithiant Dduw o herwydd eu dyoddefiadau."

Yn ngwyneb cyflwr cyffrous ein byd gwelir gwerth Seion

heddychol; mewn gwrthgyferbyniad i andwyol ddylanwadau gau-grefyddau, y rhai a ddiluwiant y byd â gwaed, iawn brisier bur ddysgeidiaeth y nef, yr hon a duedda i heddychu dyn â'i gyd-ddyn—ei elyn, â'i Dduw yn gyntaf; yr hon gyfraith a ddeilliaw yn awr o Seion Duw, udganu yr hon i drigolion ein gwlad yw prif amcan ein HUDGORN eleni etto.

Gyd-filwyr yn myddin yr Iesu, ein dyledswydd yw udganu arnoch, "Dilynwch sain yr *Udgorn*; ein pleser mwyaf fydd cyd-filwrio â chwi yn nheyrnas y Gwaredwr; a galwn ar yr oll i wisgo am danynt holl arfogaeth Duw, gan gofio fod cywirdeb calon, purdeb buchedd, a gwroldeb ysbryd yn anhebgorol er i'n Brenin goroni ein llafur â llwyddiant. Gwersi dyladwy fyddo cyflwr presennol y byd i'n coffhâu nad oes i *ni* yma ddinas barhaus; mai dyeithriaid ydym yn Babilon yn ceisio gwlad well yn y gorllewin fyd, lle y mae cyflawnder a hêdd yn teyrnasu; dyfodiad barnau Duw ar y byd a'n gwnelo yn wyliedyddion effro a dyngarol i rybyddio ein cyd-ddynion a orweddant mewn tywyllwch, o'u perygl; hyn yw ein dyledswydd a'n braint; i ni yr ymddiriedwyd hyn o waith, a'n *pleser* fyddo ei wneuthur â'n holl allu.

YR WYTHFED GYFROL O'R UDGORN.—Galwn sylw difrifolaf Llywyddion a Dosparthwyr Cynnadleddau a Changenau at y ddyledswydd bwysig o gynnyddu cylchrediad yr UDGORN. Hysbys i bawb yw mai ar yr ammod o gymmeryd tri am dair ceiniog yn lle un am ddwy a dimai, ei werthir am geiniog, yr hyn yw y pris iselaf a'i cynnalia; eithr ni werthir cymmaint yn awr am geiniog ag a werthwyd gynt am ddwy geiniog. O herwydd hyn gorfodwyd ni i'w gyhoeddi bob bythefnos, yr hyn a ddyry fantais arall i'r derbynwyr i ddyblu eu rhif. Dysgwyliwn atebiad yn ddioed erbyn ein nesaf.

Y FLWYDDYN NEWYDD.

(Allan o'r "Star.")

CYN y cyrhaeddo ein rhifyn presennol o'r "*Seren*" ei sefyllfa osodedig yn y ffurfafen foesol, bydd y Flwyddyn Newydd wedi gwawrio ar ein darllenwyr. Mae y planedau cylchdro-

edig yn eu cyssylltiad â'u gilydd yn brysio cyflawniad y prophwydoliaethau sydd yn perthyn i adeiladaeth a phrynedigaeth Seion, ac ymddanghosiad yr Arglwydd yn ei ogoniant.

Tueddbena yr holl hunan-ymwadiad, erlidigaethau, ymdeithiau, gweddiau, caledion, aberthau, degymau, cyssegriadau, cynnysgaeddiadau, ac mewn gair holl ymdrechiadau y Saint ffyddlon yn y cyflawniad o hyn. Cymhella wasgfeuon allanol y byd y Saint i ffyddlondeb, ac i gynnyddu eu cymdeithas gyda Duw, fel y caffont ei Ysbryd Ef, yr hwn a'u galluoga i sefyll. tra yr ysgubir ymaith gydag ymguddfan celwydd bawb nad ydynt seiliedig ar graig dadguddiad, gan y dysclaerdeb a ragflaena ddyfodiad Crist, gyda'r Saint gogoneddedig, i deyrnasu ar y ddaear. Yn ystod pob Blwyddyn olynol cynnyddir y gwrthdarawiad sydd rhwng ffyrdd Duw a dyn yn rhyfeddol, a gofyna i'r cyflawnion frysio tuag ystafelloedd yr Arglwydd, os ymgysgodant rhag ystorom ei ddigofaint Ef. Gwybydda y rhai a gysgant tra ar eu gwyliadwraeth, fod y Priod-fab wedi myned i mewn, a'r drws wedi ei gau. Y rhai a rodiant yn y tywyllwch ganol dydd a brofant, pan ddêl y nos, nad oes olew Duw ganddynt yn eu lampau, tra nad oes amser yn hwy i fyned a phrynu. Y doeth a ddealla, ac yn lion y rhodda yr oll a fedda am y maes a gynnwysa y perl, a chloddia yn ddiffiin nes ei gael. Yn amlycach o hyd gwelir mai y ffordd i fywydau tragywyddol yw y ffordd sydd yn dod i fyny o'r cystudd mawr, ac yn dwyn i'w thramwywyr burdeb a glanweidd-dra gerbron Duw.

Y rhai a newynant ac a sychedant nm gyflawnder a weithiant eu ffordd yn mlaen, o'r flwyddyn newydd allan, gyda sêl adnewyddol, hyd nes eu llenwir â chyflawnder heddweh a gwirionedd, ac y digonir eu heneidiau â daioni Duw. Er cael hyny, rhaid iddynt gadw eu hwynebau fel y gallestr tua Seion, gan herio pob gwrthwynebiad, hyd nes yn nhŷ yr Arglwydd y dysgant ei ffyrdd, ac y dechreuant rodio yn berffeithiach yn ei lwybrau Ef.

Y mae Seion yn ymestyn ei chortynau ac yn cryfhau ei hestynfeydd, a chysura y rhai nad allant ond ymgasglu mewn rhan, i wybod y gallant aros yn un o'i hestynfeydd hyd oni allant gychwyn i Fynydd Tŷ yr Arglwydd.

Fel yr ymddengys tân wedi ei gynneu yn fychan, ac na rodda

ond ychydig gynhesrwydd o bell, tra yn union ar ei bwys y dichon ei ddylanwad fod yn annyoddefol, felly yr ymddengys y tân a gynnenodd yr Arglwydd ar y ddaear yn fwyaf dymunol i'r ffyddloniaid yn yr Ynysoedd Prydeinig, a gwledydd pellenig ereill; agoshâd graddol a alluoga lawer i oddef ei ddylanwadau toddawl ac ymestynawl, yn well na throsglwyddiad rhy gyflym o'u cyflwr gwreiddiol. Y byddai Ef yn lanhawr a phurwr ei bobl megys arian, oedd addewid Duw; ac i'r dyben hyn mae y Saint yn ymneillduo oddiwrth y byd, ac yn ymgasglu ynghyd fel eu profir megys aur, saith gwaith trwy dân. Ond och! gynnifer sydd yn cilio yn ol o'r ffwrnais, a'u rhinweddau a'u drygau yn anymranedig o hyd, ac heb eu puro; i'r gwrthwyneb, y maent yn galetach, ac o ganlyniad yn annheilyngach nag o'r blaen i ddybenion dewisol y nefoedd. Pa wellhânt mae y Saint drwy yr holl fyd wedi wneyd yn y flwyddyn fynedol?

Gair yr Arglwydd yw i ymgasglu, a thra yr ymlosga ysbryd ymgasglu o'n mewn, gwyddom hefyd ei fod yn llanw mynwesau miloedd o'r Saint. Teimlwn fod yr Arglwydd yn wir wedi gwrandaw llef y rhai gormesedig o'i bobl, a'i fod yn agor y drysau i'w gwaredigaeth. Ymnesâodd yr amser yn nes i ymgasglu gallu Tŷ yr Arglwydd yn rhwymau y cyfammod tragywyddol, dyledion yr Offeiriadaeth, a gallu undebaidd Glân Ysbryd yr Addewid, fel y gorchfygir galluoedd y tywyllwch, y dinystrir y drygionus, ac y rhwymir Satan hyd oni chwblheir amcanion yr Arglwydd.

Po gyntaf y gweithreda yr holl Saint yn ol y gorchymyn hwn, ac yn ol pob gorchymyn arall, po rhwyddaf yr agorant gyfeillach â'r nefoedd, ac á hyd yr ysbrydoedd, hyd nes y mwynhâ pawb a ddewisant orfoleddau bywyd tragywyddol, o Adda i waered hyd yr etifeddion diweddaf o farwoldeb ag a gânt y fraint o weithio allan eu hiachawdwriaeth ar y ddâear hon.

Gwyr y Saint, drwy dystiolaeth yr Ysbryd o'u mhewn, mai yr Americ yw y wlad lle y sefydlir teyrnas Dduw yn gyntaf, lle yr adeiladir tŷ yr Arglwydd, ac y chwifir baner i'r cenedloedd, a lle yr arddanghosir dylanwad gweithredawl, cymdeithasol, a gwladwriaethol ei Deyrnas Ef yn nghyntaf.

Dichon y gofynir,—A oes eisieu cymhell y Saint i adael y

wlad hon? Nac oes ar lawer o honynt, eithr yn hytrach mae eisieu tymheru eu hawydd â barn a doethineb, fel na fethont, trwy ormod o frys, i gyflawni yr hyn a chwennychant mor fawr. Y mae rhai a allent, pe buasent wedi myfyrio ychydig yn fwy ar drefn bywiolaeth, a pheidio gwario eu moddion, pan y bendithiodd yr Arglwydd hwynt, i geisio byw yn gydradd a'n cymmydogion na adnabyddasant fendithion yr Efengyl, eithr a lafuriant i foddhau balchder y byd hwn, fod yn Seion er yr hir amser yn mwynhau ei hendithion a'i breintiau.

Bron mewn cyssylltiad â'r dosparth hwn y mae dosparth arall o Saint, a deimlant mai anmhosibl yw myned hyd nes y meddianno y gwr gyflawnder digonol o ddillad, y wraig ychydig ychwaneg o wisgoedd hardd, a rhaid iddynt gael pethau blasus i'w gwneyd yn gysurus. Dengys y fath bersonau ar unwaith nad oes ganddynt ond ychydig ymddiried ynddynt eu hunain, na ffydd yn Nuw a'i waith ychwaith. Os erfyniant gael bob amser ddillad gwych a phethau cysurus ar hyd ffordd yr iachawdwriaeth, gwell yw iddynt aros lle y maent, canys fe â gwaith yr Arglwydd yn mlaen cystal, ac efallai, ychydig yn well hebddynt nag â hwynt. Os na chyfod y fath bersonau yn enw yr Arglwydd, ac ymysgwyd eu hunain, ni chânt byth ddigon o ffydd ac ymdrech i gyrhaedd ond iachawdwriaeth fychan iawn. Tra yr arosant ac y pendrwmant, derbynia y diwyd eu bendithion. Mae y ffordd i Seion yn myned yn anhawddach, a chyn y byddont hwy yn ddigon hysbys o hyny bydd y drws yn nghau, a hwythau yn rhy hwyr.

Cyf. Wm. Lewis.

GALWAD AM WIRFODDOLIAID!

Hysbyswn y swyddwyr yn myddin yr Iesu ein bod yn curo i fyny am *wirfoddoliaid* yn awr, i ymbarotoi erbyn yr agoro y tymmor rhyfelawg yn y gwanwyn, i ymosod ar greulonach gelyn nag yw Nicholas o Rwsia, o gymmaint ag yw marwolaeth dragywyddol yr enaid yn waeth nâ marwolaeth y corff. Mae mawr anghen amryw gatrawdau o ddewrion i fyned i'r maes; am hyny, rhybyddiwn holl filwyr ffyddlon Brenin y breninoedd i wisgo am danynt, yn y cyfamser, holl arfogaeth yr efengyl,

fel y byddont yn rymus wyr, trwy gleddyf dau-finiog ei Ysbryd Ef, i dynu cestyll o draddodiadau andwyol y llall i lawr, a gosod banerau efengyl Crist i chwifio yn holl ardaloedd Cymru Tru y mae yr holl fyd braidd yn galw am wirfoddoliaid i faes y frwydr i ladd eu cyd-ddynion, y mae *Udgorn* yr efengyl yn galw am *wirfoddoliaid* hefyd i fyned allan yn fyddinoedd i achub bywydau dynion drwy eu heddychu â Brenin yr hedd, a chael maddeuant pechodau yn rhâd! Frodyr! ieuainc yn neilldnol—pwy a aiff? Beth meddwch? "Pwy a â, pwy a â?'

Pleser ydyw hysbysu fod genym nn Llywydd eisoes, sef J. Richards, yn ymbarotoi i'r frwydr, a rhoddwn gommisiwn iddo i go li byddin mor liosog a all o filwyr dewr a elant gydag Ef, ac, yn enw ein Brenin dywedwn, rhwydd hynt iddo! Hefyd, y mae genym enwau swyddwyr selog a phrofiadol, sef John Roberts, Jeremiah Jeremiah, a Dafydd Lewis o Gwm-ynys-y-fuwch, y rhai ydynt wedi enlistio i'r gatrawd ogleddol, ac yn parotoi erbyn y gwanwyn! Frodyr! ymdrechwch gael catrawd llawn o ddynion ffyddlon i gymmorthwyo Saint Gwynedd eleni etto, fel y caffo yr efengyl ei swnio o Fenni i Fôn, yn fuddugoliaethus ar yr holl gamgyhuddiadau, a'r gau draddodiadau a'u gwrthwynebant hi. Dysgwyliwn boethach *Campaign* yn yr hâf nesaf nag a fu hyd yn hyn, a galwn am enwau y gwirfoddoliaid mor gynted ag y gallont eu danfon o hyn hyd yr amser hyny. Rhyfel yw y rhyfel hwn sydd *raid* ei ymladd; canys mae y Brenin ar ddyfod, i'r Hwn y rhaid i bob glin blygu, ac y rhaid i bob tafod gyffesu; dedwydd yw yr hwn a deilynga ei goroni ganddo Ef â choron anniflanedig y bywyd! Welegyfle i bawb ei chael! Pwy a filwria am dani?

ENGLYNION.—HIRAETH AM SEION.

Fy mron am Seion y sydd—,dan ofid
Annifyr yn uswydd,
Aml dro anobeithio bydd,
I weled ei heolydd.

Braidd ag wylo'n brudd galon—yn dra blin,
Tan dryblith dych'mygion,
A'r wedd yn dwyn arwyddion
O erchyll frwd archoll y fron.

Poen gaeth pwn yw gweithio,—a phoenus
'Run ffunud gorphwyso;
'N fynych pan âf i huno,
Arwain cur fydd rhan y co'.

Bob noswyl, dysgwyl y daw—o'r rhengoedd,
Ryw angel i'm ceisiaw,
I roi un drem ar y Dyffryn draw,
Mewn hoen a nii'n hunaw.

Wedi hyny dihunaf—ydd ageg,
'Mreuddwydion adgofiaf,
Rhin na ched o rhai'n ni chaf,
Yn y Deml poen a deimlaf.

Taer geisiais un tro o gwsur—ei weled,
Dysgwyliais mewn llafur;
Pan nad oes serch cwpanaid sur,
Yn coffa fydd pob cyffyr.

Rhin y serch o'r ynys hon—ehedodd,
Ryw adeg i Seion;
Fy hynaws serch ni fŷn sôn,
Am aros rhwng creigiau Meirion.

'N dlawd fy nynsawd y sydd.—Ow! adyn
Rhwymedig yr Dafydd;
Byw erch heb serch y sydd,
Bod ag enw byw digynnydd.

Diwyr hanes, ond er hyny,—mae genyf
I'm cynnal i fyny,
Wybodaeth y cowaeth cu,
Dug wawl i'm diogelu.

Mawr ydyw, dyma'r adeg,—a'm daliodd
O'm duloes yn ddifreg,
O fewn y dyn mae'n sylfaen deg,
O! nefol ragorol garreg.

Dyma anferth nerth yn wir,—ei rhinwedd
I'r enaid ganmolir;
Dwyn 'wyllys dan iau ellir,
I 'wyllys hon a'i lles hir.

A hon genyf ni wnaf gwyno,—Iesu
Arosaf i weithio;
Aml waeddaf, pâr im' lwyddo,
Amen fyth mwy, hyny fo.

DAVID ROBERTS.

AMRYWIAETHAU, &c.

YCHWANEG O HANES Y SAINT YN Y RHYFEL.—Mae un o'r brodyr yn y rhyfel wedi ei ladd, a thri wedi eu clwyfo, eithr nid i farwolaeth. Nis gallant gyfarfod na gweled eu gilydd ond anaml. Ni feiddiant sôn am y Saint, gan na chlywir gair am amser wed'yn gan gabledd, rhegfeydd, a llwon ofnadwy y milwyr. Hiraethant am waredigaeth i dir heddychol Seion, lle y cânt gyfarfod eu brodyr yn Nheml yr Arglwydd heb neb i'w hattal. Dysgwyliwn ninnau am yr un fraint, a gweithiwn am dani tra mae hi yn ddydd, canys mae y nos yn dyfod pan na ddichon neb weithio.

PENNILL.

Pan omedd Sant i wneyd ei waith,
Medd galon drist ac enaid caeth,—
Wrth gofio barn a dydd y llid
Ei gliniau wnant ymguro'n nghyd:
Ond am yr hwn sy'n tŷddlon wneyd,
Yn hollol fel mae Duw yn dweyd,—
Medd deimlad rhydd a chalon lon,
Mae heddwch Nêr yn llanw 'i fron.

T. HARRIES.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O RHAG. 28 HYD RHAG. 31.—Griffith Roberts, £1; Jonathan Ellis, £1 10s; D. E. Jones, £30; C. Harmon, £12 12s 2½c; W. Jones, 18s 11c; G. W. Davies, £20; Edward Middleton, £15 18s 10½c; John Davies, £1 16s.

GWELLIANT GWALL.—Yn y rhifyn blaenorol darllener G. W. Davies, £10, *yn lle* £15.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Copt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
At Rialnt	1
Llwyddiant yr Efengyl yn y Taleithiau	6
Golygyddiaeth.—Y Flwyddyn Newydd—Yr Wythfed Gyfrol o'r Udgorn	8
Y Flwyddyn Newydd	10
Galwad am Wirfoddoliaid	13
Englynion,—Hiraeth am Seion	14
Amrywiaethau, &c.	16

ABERTAWY:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 2.] IONAWR 20, 1855. [Cyf. VIII.

ARAETH GAN Y LLYWYDD B. YOUNG.

A draddodwyd yn y Tabernacl, D. Ll. H. Mawr, Chwefror 20, 1853, yn y prydnawn.

Gwir ddedwydd yw y dyn hwnw, y fenyw hono, neu y bobl hyny ag ydynt yn mwynhau breintiau Efengyl Mab Duw, ac a wyddant pa fodd i werthfawrogi ei bendithion hi. Pwy yw y person hwnw, neu y bobl hyny? Pared ydym i ateb, mai "Saint y Dyddiau Diweddaf" ydynt yr unig bobl ar y ddaear, ag sydd gyda ni unrhyw wybodaeth am danynt, i ba rai y rhoddwyd yr Efengyl dragywyddol yn y dyddiau diweddaf hyn; hwynthwy yw yr unig bobl a'i hetifeddant hi, ynghyd a'i holl fendithion a'i breintiau. Nid yw yn wybodus i ni y mwynhâ unrhyw bobl ereill ar wyneb y bellen yma y fendith anmhrisiadwy hon. Gwir yw y mwynhâ holl ddynolryw, i ryw raddau, ei dylanwad; sef ymddangosiadau awdwr, perchenog, a rhoddwr Efengyl y bywyd ac iachawdwriaeth i ddyn syrthiedig.

Mwynhäodd holl hîl Adda, o'i ddydd ef hyd hwn, i raddau mwy neu lai, oleuni, gogoniant, ac amlygiadau goleuni gwynebpryd yr Arglwydd. Eithr ni fwynhasant, bob amser, yr Efengyl gyda'i hordinhadau, ei bendithion a'i breintiau. Dyma yr unig bobl a fwynhânt yn awr y fath anrhegion nodedig. Y mae yr Offeiriadaeth wedi bod ar y ddaear o bryd i bryd, a theyrnas Dduw wedi ei chorfforli i ryw raddau; ond nyni a

allwn ddweyd yn sicr, hwn yw amser yr amserau; yr ydym yn byw yn niwrnod y diwrnodau; yr ydym yn mwynhau bendithion y bendigedigion; a chyflwynir i ni, yn nghyflawnder yr amseroedd, freintiau a ragorant ar bob breintiau a roddwyd hyd yn hyn i ddynol ryw.

Yn yr oruchwyliaeth hon cesglir pob peth yn un, ac er mor ddyeithr a rhyfeddol y dichon hyn ymddangos i'r byd, dyma y bobl offerynol yn llaw Duw i'w dwyn i ben. Gwirionedd yw hwn nad all un wrth-resymeg ei wrth-brofi yn llwyddiannus. Nid oes wahaniaeth pa faint ei caseir, ei herlidir, neu ei dibrisir fel gwaith gwael, dibwys, a phlentynaidd, un gwirioneddol yw, a pharhâ; teyrnas Dduw ar y ddaear yw. Yma mae cynllun yr iachawdwriaeth, yma mae geiriau y bywyd, yma mae goleuni tragywyddoldeb, yma mae yr hysbysrwydd a hyffordda freninoedd, ac a gyfrana farn i lywodraethwyr. Fe'i cynnwysir yma yn nghanol y bobl hyn, ac oddiwrthynt hwy yr ymledaenodd pelydrau y nefol oleuni, doethineb a gwybodaeth ar hyd y ddaear lydan, a thywalltwyd Ysbryd yr Arglwydd yr hwn sydd yn llanw anfeidroldeb ar ei gwyneb, gan roddi goleuni i bob dyn a benyw ar sydd yn dyfod i'r byd hwn.

Frodyr a chwiorydd, a allwn ni ganfod ei fawredd? Cynhyrfwch y cynneddfau meddyliol ac ymresymiadol â pha rai eich cynnysgaethwyd; ymresymwch ar eich profiad mynedol yn yr eglwys hon, ac yna ymofynwch a ydych mor ddedwydd ag y dysgwyliasoch fod; os derbyniasoch yr hyn a geisiasoch; os ydych wedi mwynhau yr hyn oedd i chwi unwaith yn y dyfodol? A pha beth a fyddai eich rhesymol benderfyniadau? Pa beth a ddywedai barn ddeallus wrthych? Pa beth a benderfynai Ysbryd y gwirionedd? Mai yma y mae pelydrau goleuni pur;—yma y mae nefoedd ar y ddaear; ac nid oes un wrth-resymeg, un dealltwriaeth, nac un dylanwad o eiddo daear nac uffern wedi eu cyssylltu a all ei wrth-brofi, na dwyn un resymeg dda i'r gwrthwyneb.

Gellwch esgyn wed'yn at y galluoedd goruchaf, ac ymofyn â'r ddealltwriaeth a leinw fynwes tragywyddoldeb; gellwch ymofyn â Chreawdwr, Corffolwr, a Chynnaliwr y bydyssawd, ein Tad sydd yn y nefoedd, gellwch gymdeithasu â'r osgordd ogoneddus o Saint, angylion, a merthyron, ac ysbrydion dynion cyfiawn wedi eu perffeithio, a thystiant megys ag un llais

am wirionedd y gwaith hwn, â pha un yr ydym ni yn ymwneyd.

O'r ochr arall, nid dim yn llai nâ gallu yr Hollalluog, dim yn llai nâ Glân Ysbryd Iesu Grist a brofa i chwi mai hwn ydyw gwaith Duw. Nis gall dynion anysbrydoledig gan Dduw trwy eu doethineb ddynol ei wrth-brofi, na llwyddo yn ei erbyn. Nis gallant ychwaith, trwy eu doethineb yn unig, ei brofi yn wirionedd iddynt eu hunain, nac i ereill ychwaith.—Nid yw eu hanalluogrwydd i'w gorthrechu yn ei phrofi yn Deyrnas i Dduw; canys y mae llawer o ddysgedigaethau a chyfundraethau ar y ddaear na ammheuir gan ddoethineb y byd, eithr ydynt gyfeiliornus er hyny. Ni all dim yn fyr o allu yr Hollalluog yn goleuo dealltwriaethau dynion egluro y gwirionedd gogoneddus hwn i'r meddwl dynol.

Pan yr oeddych yn eich cartrefleoedd genedigol yn yr hen wledydd ac yn y Taleithiau, cyn y casglasoch gyda phobl Dduw, pa beth oedd eich meddyliau a'ch dysgwyliadau pan yr edrychech yn mlaen ar eich corffoliad gyda'r Saint. Pa beth oedd gweledigaeth eich meddwl, a gweithrediad yr Ysbryd ar eich dealltwriaeth? Pan yr oeddech wedi casglu gyda Saint y Goruchaf, ac wedi cyssylltu fel brawd, chwaer, a chymmydog, gyda'r gymdeithas fendigedig hon, dysgwyliasoch ymddangosiadau yr Arglwydd Iesu Grist; i rodio yn ngoleuni ei wynebpryd, a thrwy allu yr Ysbryd Glân, fod i oraclau y gwirionedd gael eu dadguddio i chwi yn barhaus; y byddech yn y nefoedd yn Seion yr Arglwydd.

Y rhai hyn oeddynt eich dysgwyliadau. Ni ddysgwyliasoch glywed enw y Duw a addolwn yn cael ei gablu o'r boreu hyd yr hwyr. Dysgwyliasoch gael eich gwaredu o glywed cableddau eich cydweithwyr drygionus; oddiwrth ormes eich gwaithfeistri annuwiol, ac oddiwrth erlidigaethau y crefyddwyr penboeth, y rhai oeddynt undebol i'ch dryllio yn ddarnau, a'ch dinystrio yn dymmorol ac yn ysbrydol, pe yn bosibl. Ar y naill ochr eich cneifiwyd, ac ar y llall eich eilliwyd.

Aflonyddwyd chwi gan ymadroddion annuwiol a gweithredoedd ffiaidd eich cymmydogion. Distrywyd eich heddwch, ac ni allasech fwynhau y dedwyddwch hwnw a'ch cyrhaedda yn yr efengyl. Etto teimlasoch ddylanwad Ysbryd y Gwirionedd yn llosgi yn eich calonau, yr hwn a gynneuodd ynoch ddymun-

iad hiraethus am gymmysgu â'r Saint. Llefech, "O na allwn fwynhau cymdeithas y Saint, a dianc o'r lle annuwiol hwn. O na bai genyf fodd i grynhoi fy nheulu bychan, ac i ymdeithio i ymgasgl-fan Saint y Goruchaf"

Dyna oedd eich teimlad a'ch gweddi. - Dysgwyliasoch waredigaeth o uffern, i gael nefoedd gyda'r Saint; i gyfnewid afluneiddiwch am Seion o drefnusrwydd ac o harddwch; poenedigaeth am heddwch a dedwyddwch; cabledd a chythrwfl am lonyddwch a pharch i enw Duw; a newyn am ddigonedd. Mewn gair, dysgwyliasoch gael man lle y byddai pob drygioni wedi darfod, a thristwch ac anwiredd wedi terfynu; a lle yr ymddigrifech heb eich haflonyddu yn ngwenau gwynebpryd eich Harglwydd o ddydd i ddydd. Meddyliaf fy mod wedi rhoddi darluniad cywir o ddysgwyliadau y mwyafrif o'r bobl hyn cyn eu casglu i gorff yr Eglwys.

Yn awr frodyr a chwiorydd, pa beth sydd yn eich rhwystro rhag mwynhau yr oll a ddysgwyliasoch? Rhodda adfyfyriadau pwyllog o'ch meddyliau eich hunain, a phenderfyniadau barn gydmariaethol, yn oleuedig gan Ysbryd yr Arglwydd, atebiad iawn i'r gofyniad hwn. Gallaf ei ateb droswyf fy hun, ac efallai dros lawer o honoch chwi.

Os nad ydwyf yn mwynhau yr oll a ddysgwyliais; os nad yw fy nedwyddwch mor gyflawn ag y dysgwyliais; os nad yw goleuni yr Ysbryd Glân yn fy nghalon i'r graddau a feddyliais; os na chefais yr oll a ddysgwyliais pan yr oeddwn i lawr yn y byd draw yn gymmysgedig â'r drygionus, *mae yr achos ynwyf fy hun*,—yn fy nghalon fy hun,—yn fy nhueddfryd fy hun,—yn ngwendid y natur ddynol; fy ewyllys fy hun sydd yn fy rhwystro rhag mwynhau yr oll, a mwy nag a ddysgwyliais. Meddylddrych anghywir ydyw tybied y dichon ereill fy rhwystro i rhag mwynhau o oleuni Duw yn fy enaid; nis gall holl uffern fy rhwystro rhag mwynhau Seion yn fy nghalon i fy hun, os fy ewyllys yn bersonol a ddyry ufydd-dod i ofyniadau a gorchymynion fy nefol Feistr. Mae Efe wedi gosod cynllun o fy mlaen, yr hwn, os gwnaf yn ei ol a ddwg i mi gymmaint a mwy o nefoedd yn fy nghalon nag a allwn ddysgwyl. Dyna fy atebiad.

Gofynodd y Brawd Erastus ofyniad, h.y., "Os dryga fy nghymmydog fi, a oes gorfodaeth arnaf drwy hyny i ddrygu

fy nghymmydog nesaf?" Dywedaf nac oes. Os sarna frawd fy yd sydd yn addfedu yn y maes, a orfodir fi drwy hyny i redeg trwy a sarnu eich eiddo chwi? Na wneir. Pan ladratao person fy mholion o'r clawdd, a raid i minnau ddwyn eich polion chwi? Os fy nghymmydog neu fy mrawd yn yr Eglwys a dwng, ac a gymmer enw Duw yn ofer, a ganlyna o anghenrhaid fod yn rhaid i minnau ddefnyddio yr un iaith? Os fy mrawd a wna yn ddrwg mewn unrhyw ffordd, ni chanlyna i'm cyfiawnhau i mewn un drwg unigol yn holl weithredoedd fy mywyd.

Chwilied pob Sant y dyddiau diweddaf ei hun, ac ymholed, "A ydwyf fi yn un o'r personau hyny a wnant yn iawn yn mhob peth, er y dichon ereill wneyd yn ddrwg.—A ydwyf fi y person a wasanaethaf yr Arglwydd ynghyd a'm tŷ?—A adawaf fi bob gweithred ddrwg, a phob gair drwg, er y dichon fy nghymmydog, neu fy mrodyr a'm chwiorydd wneyd yn groes?" Gadewch i'r ysbryd sydd o'ch mewn ateb y gofyniadau hyn, ac yn mhob mynwes yr atebiad yw, "bydded i mi fod y person hwnw; bydded i mi wneuthur yn iawn o'r amser hwn allan ac yn dragywydd, heb gyflawni drwg arall." Yna pa beth sydd genych? Mae nefoedd genych yn eich mynwesau eich hunain; y mae Seion genych yn eich calonau; yr ydych wedi cael yr holl ogoniant, yr holl heddwch, yr holl lawenydd, yr holl gysur, a'r holl oleuni a ddysgwyliasoch pan yn gymmysgedig â'r byd drygionus. Os twyllir chwi, pwy a'ch twylla? Os cam-drinir chwi, pwy a'ch cam-drinia? Os hudir chwi o'ch coron yn y diwedd, pwy a'ch twyllodd?

Gellir cymhwyso y gofyniadau hyn mewn gwahanol ffyrdd; gellir eu cymhwyso at weithrediadau masnachol y byd, yn ogystal ag i râs Duw yn y galon, ac iachawdwriaeth yr enaid; i'r diweddaf yn fwyaf neillduol y dymunaf eu cymhwyso. Pwy sydd a dylanwad dros un o honoch er achosi i chwi fethu cyrhaedd iachawdwriaeth yn nefol deyrnas Dduw? Atebaf y gofyniadau hyn fy hun. Os cymmer y Brawd Brigham a myfi lwybr cyfeiliornus, a chael o honom ein cau allan o deyrnas nefoedd, ni feuir neb ond y Brawd Brigham a minnau. Myfi yw yr unig fôd yn y nefoedd, ar y ddaear, neu yn uffern a ellir ei feio. Cymhwysa hyn at bob Sant y Dyddiau Diweddaf.

Gwaith personol yw iachawdwriaeth, myfi yw yr unig berson

a ddichon achub fy hun. Pan ddanfonir iachawdwriaeth ataf, gallaf ei derbyn neu ei gwrthod. Wrth ei derbyn rhoddaf ufydd-dod ac ymostyngiad gwirfoddol i'w Hawdwr mawr, trwy fy holl fywyd, ac i'r rhai hyny a benoda Efe i'm hyfforddi. Wrth ei gwrthod byddaf yn dilyn tueddiadau fy ewyllys fy hun yn hytrach nag ewyllys fy Nghreawdwr. Y mae y cyfryw yn mhlith y bobl hyn ag y dylanwadir, y llywodraethir, ac y tueddir eu mheddyliau, eu gweithredoedd a'u teimladau gan ryw berson neu deulu, ar ba rai yr ymddibynant am addysgiadau tymmorol ac ysbrydol, ac iachawdwriaeth yn y diwedd. Nid ymddibyna y bobl hyny arnynt eu hunain am iachawdwriaeth, eithr ar un tlawd a gwan arall o'u cyd-farwolion. "Nid wyf yn ymddibynu ar un daioni o'm heiddo fy hu meddant, "i'm harwain i mewn i deyrnas y gogoniant, eithr arnoch chwi frawd Joseph, arnoch chwi frawd Brigham, arnoch chwi frawd Heber, neu arnoch chwi frawd James. Credaf fod eich dealltwriaeth goruwch i'm heiddo i, ac o ganlyniad gadawaf i chwi farnu droswyf; mae eich ysbryd chwi yn well nâ fy ysbryd i; am hyny gallwch fy llesoli; ymostyngaf fy hun yn hollol i chwi, a gosodaf ynoch fy holl ymddiried am fywyd ac iachawdwriaeth; lle yr ewch chwi yr âf innau, a lle yr aroswch chwi, yno yr arosaf innau, gan ddysgwyl yr arweiniwch fi i mewn trwy y pyrth i'r Jerusalem nefol.

(*I'w barhau.*)

Cyf. WILLIAM LEWIS.

CYFARWYDDIADAU AR YR YMFUDIAD.

(Allan o'r "Millennial Star.")

BYDD yr YMFUDIAD oddiyma i Utah eleni, drwy Philadelphia a Cincinnatti i St. Louis, ac oddiyno fe'i harolygir gan y Llywydd Erastus Snow. Yr amser i gychwyn fydd Chwefror a Mawrth, a meddylir mai tua dau ŵs fydd amser y daith i St. Louis drwy y ffordd hon, yn lle deg wythnos fel drwy Orleans Newydd.

Cyn belled ag y deallwn, ni wahaniaetha pris y cludiad i Philadelphia ond ychydig oddiwrth bris y cludiad i Orleans Newydd. Oddiyno i Cincinnatti bydd yn £1 10s; i St. Louis

£2 2s—os bydd ymfudwyr yn gwmnioedd, ac yn cael y fantais o wneyd cytundeb; eithr mewn dygwyddiad o bersonau, neu deulu, bydd yn debyg o fod amryw sylltau yn ychwaneg. Costia o St. Louis i'r Wersyllfan tua £1. Nid yw hyn ond cyfrifiad amcanol o'r prisiau, ac ni chynnwysa y lluniaeth.

Gellir cael waggeni da, wedi eu gwneyd i'r pwrpas, yn y cychwyn-le, a gwerthir y rhai cyflawn, sydd a dolau *(bows)* ac estyniadau, am 70 o ddollars (tua £14 10s); heb ddolau ac estyniadau, 67 o ddollars (£13 17s 6c).

Costia waggen a dwy iau dda o ychain, ynghyd a'r ieuau a'r cadwynau £50. Efallai y rhoddir dwy fuwch i mewn am £55.

Diwellir â defnydd pebyll a waggeni genym ni. Gofyna 54 o lathenni i wneyd pabell, a 26 i doi waggen. Mae y defnydd yn 6¾c y llath, a rhoddir ef i'r prynwyr wrth fyned i'r llong yn Lerpwl.

Ni chostia cludiad drwy y ffordd newydd lai na £15, ac efallai £16, ond ni a gymmerwn at ymfudo y cyfryw a dâl £12, *os mai hyny fydd yr oll a fedda*, y gweddill i gael ei dalu yn Utah.

Dylai yr ymfudwyr hyny a ddymunant i mi eu diwallu â gwêdd a waggen, da, pabell, neu dô wagen, anfon yr arian at hyny i mi yn union pan y penderfynant ymfudo.

Dylai gawb a benderfynant groesi y gwastadedd y tymmor hwn, pa un a'i gyda'r cwmni £15, neu trwy dalu £12, anfon i mi yn ddioed £9 yr un, i'm galluogi i barotoi eu gweddeuau, waggeni, &c., ac fel y gwneler y parotoadau cyflymaf yma ac yn St. Louis tuag at iawn gyflawniad o lafur-waith mawr yr ymfudiad presennol. Taler y blaen dâl o £1 fel arferol, gyda y £9.

Gall y rhai nad ydynt yn barod i fabwysiadu y naill na'r llall o'r cynlluniau uchod fyned i St. Louis, Cincinnatti, neu Philadelphia, fel y caniatâ eu meddiannau.

Dylai pawb o Saint y Dyddiau Diweddaf a feddant fwy na digon i dalu eu cludiad i'r lle yr ânt, dalu eu Degwm cyn ymadael o'r wlad hon.

Ymfuda y Gymdeithas Ymfudol Barhaus o hyn allan y dosparthiadau o Ymfudwyr a dalant £10 a £13, ac felly sicrheir iddynt hwythau fanteision a darpariadau y Gymdeithas. Os na chostia y cludiad i'r Dyffryn fwy na £15, bydd y rhai a dalasant hyny yn rhydd o ddyled pan y cyrhaeddant yno; ac os na chostia hyny ad-delir y gweddill yn ol iddynt ar ben eu taith mor foan ag y gellir deall pa faint a gostia y cludiad. Dysgwylir i'r trefn-

iad hwn, nid yn unig hwyluso y daith dros y tir, eithr dros y môr a'r afonydd hefyd. Teimla y Saint yn fwy boddlongar wrth ymddiried holl ofal eu cludiad i ddoeth drefniadau y G. Y. Barhaus. Gofynir £9 yr un am fabanod cyn cychwyn o Lerpwl, ac ystyrir hwynt yn un yn rhif cwmni y waggen. Ystyria y cwmni fod un waggen, dwy iau o ychain, a dwy fuwch, ynghyd a phabell yn ddigonol i gludo deg o bersonau, eu dillad, a'u lluniaeth.

Gall ymfudwyr ereill i Utah, na ddewisant ymfudo dan nawdd y Gymdeithas wneuthur pob darpariadau oddieithr lluniaeth drwyddom ni. Dylid anfon gorchymynion am waggen, &c., ac arian yn gyferbyniol i'r hyn a ymofynir i ni yn ddioed, a chaiff y cyfryw ddangoseg oddiwrthym ni, at ein Swyddog yn St. Louis.

Anfoned pob ymfudwr i ni y manolion canlynol—eu henwau, oedran, galwedigaethau, a'u genedigol wlad.

Gall ymfudwyr i'r Unol Daleithiau yn unig ymfudo yr amser a ddewisont, gan y bwriadwn anfon llong yno pa amser bynag y bydd galwad digonol; ni ofynir ganddynt hwy ond yn unig £1 o flaen dâl.

Dylai y rhai ag ydynt am brynu gweddeuau, &c., anfon eu harian gyda eu blaen dâl o £1, a'u henwau, &c; os bydd hyny yn anmhosibl ar y pryd, hysbysant y dydd y gallant, ac y gwnant anfon yr arian fel y byddo eu gweddeuau, &c., yn barod.

Hysbysed yr ymgeiswyr yr amser y dymunant ymfudo, ac ymdrechwn eu cymmwynasu hyd y gallom; a phan byddom barod, hysbyswn hwynt pa amser i hwylio, a pha bryd i fod yn Lerpwl.

Ymbarotoed y sawl a rybuddiwyd genym ni fod y G. Y. Barhaus wedi anfon am danynt o'r Dyffryn, gogyfer â galwad byrbwyll os bydd raid.

FRANKLIN D. RICHARDS.

[Nid angenrheidiol i ni ychwanegu ar y cyfarwyddiadau eglur blaenorol, ond galw sylw manylaf Llywyddion y Cynnadleddau Cymreig i ymddwyn yn eu hol.

Dymunwn ar Lywyddion Cynnadleddau anfon gwybodaeth i ni yn ddioed pa sawl un sydd yn eu Cynnadleddau a ddymunant anrhegu y G. Y. Barhaus â £10 ar yr ammod o gael eu hymfudo eleni, drwy ymrwymo wrth gychwyn i dalu yn ol i'r Gymdeithas gyflawn bris eu cludiad.—GOL. YR UDGORN.]

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, IONAWR 20, 1855.

ANNERCHIAD AT LYWYDDION Y CYNNADLEDDAU CYMREIG. —Anwylaf gyd-lafurwyr yn ngwinllan yr Iesu,—Cymhellir ni gan yr Ysbryd sydd ynom, yr hwn a brawf rym y cyfammod a'n rhwyma ni yn un, yr hwn a bortreada i'n dealltwriaeth bwysigrwydd ein gwaith, a'r hwn a leinw ein henaid ag awydd i achub dynion i deyrnas ein Duw er mawl iddo Ef; yr Ysbryd hwn a'n hannoga—a'n gorfoda i gyffroi eich meddyliau puraidd y waith hon etto at y dyledswyddau canlynol a orphwysant ar ein hysgwyddau ni oll i'w cyflawni.

Creded ein cyd-oeswyr a gredont am danom; diystyred hunan-ddoethion ein hymdrechiadau hyd y mynont; a chondemnied byd ein tystiolaeth a'm haerllugrwydd os dewisant; ni wna nemawr wahaniaeth, canys, i ni mae yn ffaith, ydyw y mae yn *ffaith ddwyfol brofedig* fod y Duw Hollalluog wedi ymddiried i ni ran o'r oruchwyliaeth olaf, hynotaf, fwyaf, a gogoneddusaf ag a gyflwynwyd erioed i feibion dynion: mae yn ffaith i ni y dryllia Efe, drwy offerynoliaeth rhai mor wael â ni, holl gestyll y fall a'n gwrthwynebant; y dwg Efe drwyddom ni bob gwrthwynebydd yn ddarostyngedig iddo Ef ei hun, ac y sefydla Efe yn yr oes hon lywodraeth o gyfiawnder a hedd yn ffuddugoliaethus ar ddadfeiliadau gwledydd, ac ar garnedd y Babilon fawr. Hysbys i ni yw y ffeithiau hyn Frodyr! Mae ein heneidiau yn ymwybodus, heb os, o hyn drwy brawfiadau annrhaethadwy i ni, ac anneallus i bawb amddifad o Ysbryd y gwirionedd oddi uchod; ac y mae ffaith bwysig arall mewn cyssylltiad â hyny a deilynga ei cherfio ar lechau ein cof, fel nad allom ei hanghofio; hyny yw, ein dwyfol osodiad bob un yn ei gylch i fod yn flaenoriaid—yn *arweinyddion*—yn WELEDYDDION o y fod praidd ein gofal yn dilyn ein hesiamplau ni yn mhob peth a orchymynom iddynt.

Pe gadawsai ein Mheistr mawr nyni yn amddifad o'i feddwl, i *drefnu* cyfundraeth neu i *ffurfio* mesurau ein hunain i ddwyn oddiamgylch yr effeithiau mawreddog o adferiad yr hen i wneuthur y newydd fyd, ac o waghau yr hen a llanw y newydd fyd o'i drigolion yn uwch-angylaidd, ac anfarwol ogoneddus, megys ag y gadawa holl sectwyr byd i ffurfio eu herthyglau, ac i "gloddio iddynt eu hunain bydewau" yn ol eu mympwyau, gofynasai yr enaid ar unwaith, "Pwy sydd ddigonol i'r mawr-waith hwn?" Eithr, o'i ddaioni Ef, nid dyna ein cyflwr ni: rhoddwyd i ni y *cynllun*; portreadodd ei Ysbryd ger gwydd ein dealltwriaeth y *peiriant* perffaith a ddwg hyn oll oddiamgylch, ac a'i cyflawna oll, bob iot, a hyny gyda buandra cyferbyniol i ddiwydrwydd y peirianwyr; rhoddwyd y peiriant hwn megys yn ein dwylaw ni—peirianwyr ydym. Iawn gofiant o hyn a ddengys i ni ein cyfrifoldeb, ac iawn ystyriaeth o hyn a'n calonoga, ïe, a'n symbyla i'r orchestwaith anrhydeddus a berthyna i'n cylchoedd. Gan mai oferwaith yr ystyriem gynygiad o brawfiadau o ddwyfoldeb y gwaith ag sydd wedi ei osod tu hwnt i ddadl yn eich calonau eisoes, atebir prif amcan presennol y cyfarchiad hwn i'r graddau yr ail enyna y ddawn ddwyfol sydd ynoch i fwy diwydrwydd; a llawenhawn o'r herwydd i'r graddau y gwelir mawrion weithredoedd eich Saint gyda phob rhan o waith Duw. A gawn ni y gorfoledd hwn, Frodyr? Gorfoledd gorfoleddusaf gan ein henaid! Oni allwn ni gael genych gredu fod hyny ar eich dwylaw chwi i'w wneuthur! Credwn y gwelwch—y dengys Ysbryd y goleuni i chwi pa le i wella—i ddiwygio, ac i ymegnïo yn y flwyddyn hon yn dra tu hwnt i waith yr hon a aeth heibio. Credwn na raid i ni nodi pob llesgedd sydd wedi bod yn mhob un ac yn mhob peth cyn y ceir gwelliant; eithr hyderwn y bydd adfyfyriadau ar y mynedol, dan ddylanwad Ysbryd y gwaith yn eangu eich calonau, ac yn enyn eich sêl gyda phob mesurau doeth, ac i weled eu bod yn cael eu gweithredu yn effeithiol, er dwyn oddiamgylch y gwelliadau a welwch yn ddaionus.

Sylldrem arno ei hun ynghyd a'i Gynnadledd yn nrych cywir eu gweithredoedd, a welir yn ein cyfrifiad hanner blynyddol—yn nhaflen cyfrifiad y dyledion am lyfrau,—y cyfraniadau at y Gymdeithas Ymfudol Barhaus, ac ail graffiad ar yr hyn a gyfranodd ei Gynnadledd at y *Deml*, a awgryma neu

a ddylai ddysgu i bob Llywydd beth yw y gwersi a deilyngant ei sylw manylaf! Ffeithiau fel hyn, yn uwch nâ sŵn geiriau na llais corwynt, a dystiant yr anghen o'r sylwadau presennol; ac a sefydlant gymmeriad Llywydd Cynnadledd yn effeithiolach nag y dichon dim arall wneuthur. Er na chredwn fod dynion gwell yn ein gwlad nâ'r rhai yr appeliwn atynt, ni chredwn chwaith nad oes gwelliadau a allech chwithau wneuthur, a'r rhai a fyddent yn ogoniant i chwi, ac yn lles i'r Saint a'r byd. Nid oes dim a brawf anallu llywyddol yn fwy nâ *methu* cael gan y rhai a lywyddir gyflawni a geisir ganddynt. Ac nid oes brawf amlycach o anufydd-dod Llywydd nâ ei fod heb osod mewn gweithrediad y mesurau a geisir ganddo. Ei ufydd-dod ef yn gyferbyniol i'w ymdrech a orchfyga wrthryfel, a deilynga ac a ennilla ufydd-dod ereill iddo; tra, o'r ochr arall, os esgeulusa efe y cynghorion a gaiff dysga hyny ereill i'w efelychu drwy anufyddhau i'w gynghorion yntau. Gan na ofynir gan y naill na'r llall o honom ddim ond a ofyna y Duw cyflawn ag sydd yn addaw ein cynnorthwyo i gyflawni hyny, dylai ffyddlondeb a rhinwedd pob un o honom orfodi ein gilydd i gredu mai un-peth yw gorchymyn â gweled y cyflawniad o hono; neu fod y *gwneüthur* yn gyssylltiedig anwahanol â'r *cynghor*. Pe yn y nef yn awr, a arosem ni heb gychwyn hyd yr ail neu'r trydydd alwad? O na, ystyrid hyny yn bechod a ysgymunai yr anufydd o'r lle. Wel, yn ol graddau y wybodaeth, paham nad yw anufydd-dod i'r Offeiriadaeth yma yn bechod? Ac os yn y Llywydd, onid canlyniad naturiol yw dysgwyl i'r Saint fod yn anufydd hefyd? Ymffrost pob Llywydd fyddo cael Saint ei ofal i rodio yn ysbryd y gyfraith, a'u gorchestwaith hwynt fyddo yn glod iddo.

Rhag ofn na ddealla pob Llywyddion i fanylrwydd ddyledswyddau y cylch y troant ynddo; a chan na chawsom amser cynt i gyflawni yr hen ddefod drwy roddi "calenig" i'n cyfeillion, hyderwn yr ystyrir iawn hyfforddiad o'u dyledswyddau yr anrheg o "Galenig" oreu yn awr.

Dylai pob Llywydd wylied dros lesiant tymmorol ac ysbrydol yr oll sydd yn ei Gynnadledd, gyda rhag-ofal tadol: cynghori ac hyfforddi Llywyddion y Cangenau o barthed i bob peth a duedda i ledaenu gwybodaeth o'r efengyl, ac adeiladu yr eglwys mewn purdeb ac mewn nerth; i *weled* fod pob cyng-

horion a roddir, a phob mesurau a amlygir drwy y *Star*, yr Udgorn. neu a ddeuant ato mewn unrhyw ffordd arall oddi wrth ei Lywyddion yn cael eu cario allan yn effeithiol, trwyadl a phrydlon drwy holl Gangenau ei Gymnadledd; galw, ordeinio a danfon y personau cyfaddasaf i addysgu ac i hyfforddi yr Eglwys; galw ac ordeinio dynion i bregethu yr efengyl mewn cylchoedd newydd o fewn ei gyffiniau, fel y caffo pawb o fewn ei gyrhaedd glywed yr efengyl: gwylied yn fanwl na fyddo unrhyw athrawiaethau yn cael eu dysgu yn yr eglwysi yn groes i'r rhai a ddeilliaw oddiwrth y Brif Lywyddiaeth, neu a orchymynir eu dysgu drwy yr awdurdodau rheolaidd a Dadguddiadau Duw; bod yn ofalus na adawo i unrhyw ddysgeidiaeth nac arferiad anfoesol lechu yn unrhyw o eglwysi y Saint, a bod y sawl a wrthodo rodio yn deilwng o'i broffes santaidd, ar ol cael ei rybuddio yn deilwng â gweinidogaeth yr eglwys, yn cael ei ysgaru o blith y cyflawn, fel y byddo eglwys Crist yn bur, ac y cynnyddo mewn gwybodaeth o Dduw drwy ddawn yr Ysbryd Glân; dysgu y cyfoethog i dalu eu Degwm; ymhysbysu ei hunan yn, a chwilio i mewn i ddosparthiad y llyfrau yn ei Gymnadledd ac yn y Cangenau; gosod pawb ar waith i werthu yr argraffedig air hyd y gellir cael eylchrediad i bob llyfrau a gyhoeddir gan yr Eglwys, na byddont yn sefyll ar law yn un man yn ei Gymnadledd, ac na fyddo Dosparthwyr y Cangenau yn eu gwerthu ar goel; bod y Cymdeithasau Traethodau, lle y maent yn cael eu cynnal, a'u sefydlu hyd y gellir lle nad y nt, ac yn iawn ddefnyddio y cyfraniadau i'w dybenion priodol; bod y Cangenau yn gwerthu y *Star* a'r Udgorn sydd ar law. ac yn neilldnol fod y Dosparthwyr yn trosglwyddo yr holl arian sydd yn dûyledus i r Swyddfaâu yn brydlon, fel na rwymer dwylaw y rhai a ddymunant gario y gwaith yn mlaen; rhoddi mesurau doeth mewn gweithrediad i dalu dyled ei Gymnadledd; ac yn neilldnol dybynu ar bob Llywydd i hwylnso a chynnorthwyo yr oll a allo i ymfudio i Seion neu i'r Taleithiau Unol. Yn enwedigol teilynga y Gymdeithas Ymfudol Barhaus, a'r cyfraniadau at y Deml, gefnogaeth rymus a pharhaus pob Llywydd Cynnadledd

Weithian, Frodyr Llywyddol, Gwelwch na raid i chwi fod heb ddim i wnenthur, pan ymweloch â'r Cangenau; wele ychydig o waith i ddechreu, ceir chwaneg erbyn y dybenir hyn.

Etto ni wyddom am ffordd i hebgor un iot o'r uchod, nac i gymmeradwyo y Llywydd a esgeuluso *un gair* o hono; dyled i Dduw ac i'w waith yw yr *oll*, a'n ffyddlondeb gyda yr ychydig ddyledswyddau *bychain* presennol yn unig a'n galluoga i gyflawni, ac i deilyngu i ni oruchwyliaeth dros bethau mwy. Pe cyflawnid hyn bach a cawasom yn y chwarter blwyddyn presennol, ad-dalid i'w gyflawnwyr daliadau can cymmaint o'r nef ac o'r ddaear; os ammheuir, hawdd yw gwneyd prawf, a chael gan Dduw dorri y ddadl. Paham na chawn ddysgwyl y gwneir hyn? Os analluog, Duw anghyfiawn a'i gofyna! Os arswydir rhag effaith y resymeg hon, arswyded y Llywydd a fetha; canys, yr un resymeg a'i prawf ef yn anffyddlon ag a brawf ei Dad Hollalluog yn un â'i air i'w nerthu os ymdrecha fel y dylai.

Bellach, Frodyr, adwaenoch pa Ysbryd a'n gorfoda i'ch cyfarch fel hyn, a'r dyben o hyny hefyd. Llanwed yr Ysbryd hwn eich eneidiau chwithau, a galluoged chwi i gyflawni y dyledswyddau hyn oll hyd y llythyren o honynt. Gwna ni yn eofn i ysgrifenu yn eglur atoch chwi, dan yr ystyriaeth mai rhagorolion ysbrydion y cyn-fyd ydych—am y rhai y dywedodd eich Tad, "Y rhai hyn a wnaf yn *llywodraethwyr*," yn eu prydiau a'u hamserau; ein hymddiriediad yn eich mawredd a'n calonoga i ofyn a dysgwyl llawer o gymhorth genych; fel y gweddai i ddewrion mawreddog llu yr Arglwydd, y rhai a broffesant fod yn gadfridogion byddin annorchfygol, ac ydynt i ddadymchwelyd byd a'i wyneb iawn i fyny mewn byr amser, deuwch a phob swyddog ac aelod a berthyna gyda chwi—deuwch yn mlaen i'r frwydr fawr olaf hon, mor wrol ac anrhydeddus ag y gweddai i'ch proffes. Ag arfau gloewon, arddangosiadol o burdeb calon, â grymusder meibion Duw, yn ymfrwydro am y coronau anniflanedig sydd o'ch blaen—yn eich cyfer—yn adlewyrchu ar eich llygaid eisoes, deuwch yn mlaen. Deuwch yn awr, ïe, deuwch a'ch holl galon a chyda phob arfau y deyrnas, deuwch i faes y frwydr i'n cynnorthwyo i ennill y fuddugoliaeth addawedig a sicr ini! Beth meddwch? Mae'r Brenin yn aros am eich atebiad! Gweled a gaffom o ddymuniad ein calonau, sef gweled pob Cynnadledd fel llu banerog wedi ymwisgo yn holl arfogaeth eu Brenin, yn rhuthro yn mlaen o fuddugoliaethau i fuddugoliaeth dragywydd.

Cynnygiwn y cyfarchiad hwn yn lle llythyr etholiad i'r holl Lywyddion yn eu cylchoedd presennol, ac yn brawf o'n hymddiried ynddynt a'n gobaith drwyddynt am fawr lwyddiant; Ysbryd Duw byddinoedd Israel a orphwyso ar bob un o honoch gyda mwy grymusder a nerth o hyn allan nac oll; a'ch cyneuo â'r tân dwyfol fel marwor oddiar yr allor, nes y byddo eich sêl fel fflam yn cyneu drwy eich holl Gynnadleddau, y sêl a'r ymroad a weddai i, ac a deilynga y mawr-waith sydd yn ein dwylaw; eich calonau a orlifont gan eiriau y bywyd yn eu pryd mewn doethineb ddwyfol dros eich geneuau; cynghorion y Santaidd Un fyddo eich rheol, a'ch hoff waith fyddo porthi ei braidd, coleddu ei ŵyn a gweinyddu iachawdwriaeth i fyd ar drengu; hyn yw ac a fydd taer a pharhaus weddi eich cyd-filwr drosoch oll, yn enw ein Brenin. Amen.

Derbynied y Saint ein "*Calenig*" iddynt hwythau, yr anrheg oreu a allwn roddi, sef eu *Llywyddion* presennol; mawrhewch eich braint o'u cael; gweinyddwch iddynt gysuron o'ch meddiannau i ddiwallu eu hanghenrheidiau, rhodiwch yn unol â'u cynghorion, a byddwch o'r *un* galon â hwynt yn mhob rhan o waith yr Arglwydd; felly yr hwn a'n pïa ni oll a ad-dalo i chwi ar eich canfed.

Ceisiwn gan bob Llywydd anfon i ni yn ddioed enwau yr Henuriaid Teithiol yn ei Gynnadledd.

Hysbysed y Llywydd i ni enw y sawl a ddewiso yn Henuriad Teithiol, ac na anfoner neb o hyn allan heb hyny, ac hyd oni chaffo efe drwydded briodol i hyny yn ol.

Yr Ymfudwyr Eleni.—Hysbyswn y Saint fod ein parchus Gynghorydd, a'n hanwyl gyd-lafurwr er's blynyddau bellach, sef yr Henuriad Thomas Jeremy, yn bwriadu dychwelyd at ei deulu ac i fynwes yr eglwys yn ol i Seion yn y gwanwyn dyfodol. Fel cenadydd u'ydd dros ei Dduw gadawodd y Brawd Jeremy briod a theulu iauanc a lliosog yn Utah; ar ei gost ei hun daeth ar draws cyfandir a thros y môr; er's mwy nâ dwy flynedd bellach mwynhaodd y Saint Cymreig ei wasanaeth ffyddlon a pharhaus drwy ddê a gwynedd, a diau fod miloedd o honynt wedi mwynhau mwy o leshâd, bendithion, a daioni drwyddo nag a allant dalu yn ol iddo; etto, credwn eu bod yn dysgwyl am y cyfle a'r fraint i brofi eu cariad drwy wneuthur

a allant i'w gynnorthwyo i ddychwelyd yn gysurus; wel, dyma eu dymuniad i'r Saint, a rhodded eu Llywyddion bob cyfle iddynt gyfranu at hyn, ac anfoner yr oll yma i ni yn brydlawn.

Cymmerwn y pleser o ofyn eu hynawsedd at ein hanrhydeddus Lywydd Spencer hefyd, yr hwn sydd ar ddychwelyd i Seion; ni fu teilyngach cais o flaen y Saint na hwn; hynodwr hoff a ffyddlon, ceir colled ar ei ol, a gofidia y sawl na thalo y deyrnged a allo i'w gynnorthwyo. Gadawn hyn gyda y Llywyddion i'w ofalu hefyd, ac i'w drosglwyddo yma gyda y llall, a'u cyfraniadau at yr "Henuriaid Tramor" hefyd, yn ol cais y Llywydd Richards.

MYNEGIAD CYFRIFIADOL.

O EGLWYS IESU GRIST O SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF YN NGHYMRU, AM YR HANNER BLWYDDYN YN TERFYNU RHAGFYR 31, 1854.

LLYWYDD,
Dan Jones.

CYNGHORWYR.
Thomas Jeremy. Daniel Daniels.

Cynnadl	*Cang*	*A.*	*H*	*O*	*Ath.*	*Di-Tor*	*Mæ*	*Ym*	*Bed*	*Oll.*	*Llyw.*	
Morganwg Ddwyr.	34	1	270	90	80	54	205	22	49	206	1802	R. Evans.
Morganwg Orllew.	19	1	66	38	24	19	6	3	0	47	483	D. E. Jones.
Sir Fynwy	19	0	80	25	32	18	41	1	6	46	556	T. D. Giles.
Sir Frycheiniog..	7	0	26	7	5	6	18	3	1	10	141	T. Morgans.
Llanelli	11	0	69	13	8	17	7	1	5	30	338	Ben. Jones.
Caerfyrddin	7	1	26	10	6	5	11	1	0	13	155	T. Jenkins.
Gogledd Penfro..	4	0	14	5	2	2	0	1	5	1	52	T. Evans.
Deau Penfro	13	0	32	5	3	9	15	2	8	13	197	John Price.
Sir Aberteifi	5	0	15	4	3	1	0	0	0	6	108	B. Evans.
Sir Feirionydd ..	6	0	14	7	2	1	0	1	0	4	72	J Davies.
Sir Fflint	5	0	20	5	5	3	1	0	0	10	121	E. Davies.
Sir Ddinbych....	5	0	16	5	5	2	3	0	0	7	114	John Parry.
Sir Fôn a Conwy	6	0	24	6	5	4	2	1	0	6	98	Rd. Roberts.
Cyfanrif....	141	3	669	220	180	141	309	36	74	399	4240	

AMRYWIAETHAU, &c.

Yr "*Arweinydd i Seion.*"—Cymhelliwn y Traethawd bychan hwn i sylw y Saint, ac yn neilldnol yr ymfudwyr eleni—ni ddylai un o honynt fod hebddo. Dylai fod yn eu llogellau o

hyd i ateb pob cwestiwn, ac i'w hiawn gyfarwyddo yn mhob amgylchiad; dysga pa fodd i bob dosparth barotoi i gychwyn; pa fodd i ochelyd colledion a chostau hyd y ffordd, ac nid oes gynghor ynddo heb fod yn werth llawer mwy nâ *cheiniog a dimai!* Mae ei gyfarwyddiadau hyd y Taleithiau, ac yn wir i'r sawl a elo yr holl ffordd, mor gywir a defnyddiol eleni ag yr oeddynt y llynedd, hyd y cyrhaedda. Dysged y Saint nad gwir yr hen ddiareb a ddywed, "Goreu y ddysg a brynir trwy brofiad;" mae llawer un wedi methu cyrhaedd Seion o herwydd anghredu y "ddysg" a brofodd ereill; eithr na efelycher hwynt gan Gymro, er mwyn *ceiniog a dimai.*

DYLEDION AM LYFRAU AR Y GWAHANOL GYNNADLEDDAU, AM Y CHWARTER YN TERFYNU, RHAG. 31, 1854.

Sir Fynwy, £46 11s 11¾c; Sir Frycheiniog, £10 10s 3½c; Gorllewin Morganwg, £117 1s; Llanelli, £44 15s 5¾c Caerfyrddin, £25 11s 4½c; Sir Aberteifi, £15 19s 3¼c; Sir Feirionydd, £12 16s 10½c; Sir Fflint, £21 1 8¼c; Sir Ddinbych, £19 9s 2½c; Dyffryn Conwy, £11 13s 11¼c; Sir Fôn, £16 8s 7¼c; Penfro Ogleddol, £6 13s 5¾c; Dwyreiniol Morganwg, £136 15s 6½c; Cangen Gymraeg Livrpool, £3 1s 8½c; Sir Henffordd, £4 8s 7c.—Cyfanswm, 492 19s 0¾c.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O ION. 1 HYD Y 15.—Thomas D. Evans, 17s; Thomas Morgan, £2 10s.

☞ Ymddengys llythyr dyddorol oddiwrth Golygydd blaenorol yr UDGORN, scf yr Henuriad John Davis o'r Dyffryn, yn y rhifyn nesaf.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD
Araeth y Llywydd B. Young	17
Cyfarwyddiadau ar yr Ymfudiad	22
Golygyddiaeth—Anuerchiad at Lywyddion y Cynnadleddau Cymreig— Yr Ymfudwyr Eleni	25
Mynegiad Cyffredinol	31
Amrywiaethau, &c.	31

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

AC

Seren y Saint.

Rhif. 3.] CHWEFROR 3, 1855. [Cyf. VIII.

ARAETH GAN Y LLYWYDD B. YOUNG.

A draddodwyd yn y Tabernacl, D. Ll. H. Mawr, Chwefror 20, 1853, yn y prydnawn.

[Parhad o dud. 524.]

Dymunwn sylwi ar hyn. Darllenwn yn y Beibl fod yna un gogoniant yr haul, arall y lloer, ac arall y sêr. Yn y Llyfr Athrawiaeth a Chyfammodau gelwir y tri gogoniant hyn yn danddaearol, daearol, a nefol yr hwn yw yr uchaf. Bydoedd ydynt wahanol ddosparthiadau, neu drigfanau yn nhŷ ein Tad, Yn awr, ni fydd y dyn hwnw, neu y fenyw hono, na wyddont amgen am allu Duw a dylanwad yr Ysbryd Glân nag i gael eu harwain yn gyfangwbl gan berson arall, gan ddifuddio eu dealltwriaeth eu hunain, a phinio eu ffydd wrth lawes un arall, byth yn alluog i fyned i mewn i'r gogoniant nefol, i gael eu coroni fel y dysgwyliant; ni fyddant yn alluog byth i fyned yn Dduwiau. Nis gallant lywodraethu eu hunain, heb sôn am lywodraethu ereill; eithr rhaid eu cyfarwyddo yn mhob peth bach fel plant. Nis gallant reoli y typyn lleiaf arnynt eu hunain, ond y mae yn rhaid i Iago, Pedr, neu rywun arall eu rheoli. Nis gallant byth ddyfod yn Dduwiau, neu i gael eu coroni fel llywodraethwyr â gogoniant, anllygredigaeth, ac â bywydau tragywyddol. Ni fedrant byth ddal teyrnwialen o ogoniant, mawredd, a gallu yn y deyrnas nefol. Pwy a wnant? Y rhai ydynt ddewr, ac wedi eu hysbrydoli â gwir anymddi-

bynrwydd y nefoedd; a ânt allan yn eofn i wasanaeth eu Duw, gan adael i ereill wneyd fel y mynont; y rhai ydynt yn benderfynol i wneyd yn iawn, pe gwnelai holl ddynolryw yn holloll groes.

A gymhwysa hyn i rai o honoch chwi? Atebed eich calonau. A wyddoch chwi gystal â mi pa beth sydd yn iawn, a pha beth nag sydd? Gwyddoch mewn rhai pethau, ond fe ddichon na wyddoch gystal mewn pethau ereill; eithr egluraf pa beth a feddyliaf, trwy y geiriau canlynol.—Gwnaf yr holl ddaioni a allaf, a'r oll a wn pa fodd i'w wneyd; a chiliaf oddiwrth bob drygioni a adnabyddaf ei fod yn ddrygioni. Gcill pawb o honoch wneyd cymmaint â hyna. Cyfeiriaf fy nghalon at ddoethineb, a gofynaf i'r Arglwydd ei gyfranu i mi; ac os mai ond ychydig a wn, ymwellâf arno. fel y meddianwyf ychwaneg y fory, a chynyddaf felly o ddydd i ddydd, yn ngwybodaeth y gwirionedd, fel y cynnyddodd Iesu Grist mewn corffoliaeth a gwybodaeth, o fabandod i ddynoliaeth; ac os nad wyf yn alluog i farnu droswyf fy hun yn awr, fe ddichon y bydd'af yn mhen blwyddyn etto. Yr ydym wedi ein ffurfio i gynnyddu yn nghyrhaeddiadau dealltwriaeth, a dichonadwy yw i'r Sant lleiaf, drwy ymlyniad diysgog wrth drefn Duw, i gyrhaedd iachawdwriaeth gyflawn a thrwyadl, wrth ei ffyddlondeb ei hun, trwy râs Duw.

Gwn fel yr oedd hi yn swydd Jackson. Y mae teulnoedd yn y ddinas hon a aethant i'r swydd hono er ys 21 neu 22 o flynyddau yn fiaenorol i'r hydref diweddaf, os nad wyf yn camsynied. Gwn pa beth oedd eu teimladau. Eu holl ymgais oedd cael myned i dref Independance, swydd Jackson, lle y dysgwyliasant weled poo pechod a drygioni wedi sychu i fyny—nefoedd wedi ei dechreu ar y ddaear, a therfyn ar holl ofidiau eu marwoldeb. Y dyben hwnw a'u cynhyrfodd hwy i fyned yno. Druain o honynt! Cyn lleied a wyddent am iachawdwriaeth a'r dull i'w chael. Gallaswn innau fod wedi myned yno hefyd, ond yr oedd awydd arnaf i daranu a rhuo allan yr efengyl i'r cenedloedd. Ymlosgodd yn fy esgyrn fel tân ymgauedig, ac felly cefnais ar swydd Jackson i bregethu efengyl yr iachawdwriaeth i'r bobl.

Fel hyny yr oedd teimladau y bobl a aethant i fyny i swydd Jackson; ond nid oedd arnaf fi chwant myned yno; nid ym-

foddlonwn ar ddim ond gwaeddi ar hyd y ddaear pa beth mae yr Arglwydd yn wneyd yn y dyddiau diweddaf hyn.—Yn mhen enyd dechreuodd y gwrthlif hwnw a ffrydio mewn dwy ffordd, a chawsant hwy fwy o ofid yn Independance nag a gawsom ni yn Nhalaeth Caerefrog. Ewynodd a rhuodd arnynt hyd nes eu gorfodwyd i ddianc.

Mae blys arnaf i ofyn i'r personau hyny a yrwyd allan o swydd Jackson, os dyoddefasant gymmaint oddiwrth y cyflawniad o'r gyriad allan ag a ddyoddefasant yn y dysgwyliad o hono flwyddyn cyn ei ddygwyddiad? Chwi a atebech oll, pe y gwybuasech hyny flwyddyn yn mlaen llaw, na allasech ddyoddef y meddylddrych.

Yr wyf am gymhwyso hyn mewn dwy ffordd. Dichon i chwi y rhai nad ydych wedi myned trwy y profedigaethau, a'r erlidigaethau, a'r ymlidiau gyda y bobl hyn o'r dechreuad, ond yn unig wedi darllen yn eu cylch, neu wedi clywed eu hadrodd, feddwl mor ddychrynllyd yr oeddynt i'w dyoddef, a rhyfeddu pa fodd y goddefodd y Saint hwynt oll. Achosai y meddwl am danynt i'ch calonau i ymsuddo o'ch mewn, eich hymenydd i symmud, a'ch corff i grynu, a pharod ydych i waeddi, "Nis gallaswn ei ddyoddef." Yr ydwyf fi wedi bod yn ei boethder, ac ni theimlais yn well yn fy mywyd. Ni theimlais erioed ddihidliad mwy haelionus o heddwch a gallu yr Hollalluog arnaf yn y man llymaf o'r profedigaethau. Nid ydynt ddim i mi.

Clywaf rai pobl yn sôn am eu helbulon, eu gwasgfeuon celyd, a'u haberthau mawrion dros yr efengyl. Ni fu erioed yn aberth i mi. Nid yw unpeth a allaf wneyd neu ddyoddef, ond megys syrthiad pin i'r môr. Tra y rhagora y bendithion, y galluoedd, anrhydedd, llawenydd, gwirionedd, iachawdwriaeth, gogoniant, anllygredigaeth, a bywydau tragywyddol gymmaint ar unrhyw beth a allaf ad-dalu am y fath roddion gwerthfawr ag y gwahaniaetha y dyfnfor mawr mewn eangder, maint, a phwysau ar y pin a ollyngaf iddo.

Pe meddwn i filiynau o gyfoeth i'w gyssegru er adeiladu y bobl hyn, ac y dywedwn, cymmmerwch y cyfan, ac adeiladwch demlau, dinasoedd, ac amddiffynfeydd ag ef, gan amddifadu fy hun o bob ceiniog, a fuasai hyny yn aberthiad? Na fuasai i'm teimladau. Pe gelwid arnaf i bregethu yr efengyl hyd oni fyddai fy ngwallt yn wyn, a'm haelodau wedi gwanychu

gan oedran, hyd onid elwn i waered i'm bedd, ac heb weled fy nhenlu na'm cyfeillion drachefn yn y cnawd; a fyddai hyny yn aberthiad? Na fyddai eithr byddai yn un o'r bendithion mwyaf a gyflwynwyd i farwol ddyn—i gael galw miloedd, efallai filiynau o dywyllwch i olenni, o feddiant Satan ac anghyfiawnder, at egwyddorion gwirioneedd a chyfiawnder yn y bywiol Dduw.

(*I'w barhau.*)

Cyf. William Lewis.

GAIR O DDINAS Y LLYN HALEN AT Y SAINT YN NGHYMRU.

D. Ll. H. Mawr, Hyd. 31, 1854.

Anwyl Frodyr,—Meddaf yr hyfrydwch yn awr o'ch cyfarch o ddyffryn y mynydd coll. Cwthaeddais yma ar y 25ain o fis Medi, yn iach, myfi a'm teulu; ac er fy mawr ddywenydd, canfyddais fod y ddinas yn rhagori mewn harddwch a maintioli ar ddim a ddychymygais am dani. Cefais fy hun yn fuan wedi fy amgylchynu gan yr hen frodyr gynt; a theimlais fy hunan ar unwaith yn gwbl gartref. Hyfrydwch oedd genyf weled y Prophwyd, a chael yr anrhydedd o gyfrinachu ag ef amryw droion. Mae ef yn meddu llygad craff, a barn uniawn; ac yn ei bresennoldeb ef yr adnebydd llawer un ei huuan. Mae yn dirion a mwyn wrth y rhai gostyngedig a gonest, ac yn llew rhuadwy i'r rhai ofnog a drygionus. Gweithredoedd dyn a adnebydd o bell, ac nid hawdd ei dwyllo mewn dim; ac ymddengys fel pe byddai pob dawn wedi cyd-yngyfarfod ynddo.

Mae digon o fywioliaeth i bawb yn y dyffryn hwn, a digon o dir heb ei gymmeryd i gynnal mwy nâ thiri chymmaint o drigolion, heblaw y dyffrynoedd eang ereill sydd oddiamgylch. Wedi treulio y ganaf cyntaf, ceir gweled y tlodion yn dechreu codi eu penau, ac yn dod i feddiannu tai, tiroedd, ac ychain; a phwy ond y nhwy! Ceir eu gweled yn gwenu wrth ganfod y siopwr newydd ddod i mewn wrth ei fodd yn cloddio ffos, y cyfreithiwr yn ymofyn coed o'r kanyon, y meddyg yn trafod cymmrwd, yr ysgrifenydd yn tynu pytatws, a'r pregethwr hyawdl yn tewi sôn. Mae llawer un, er hyny, fel fy hunan, yn

cael dilyn ei gelfyddyd ei hun, heb achos dysgu un newydd. Mae'n gofyn i ddyn fo ldloni i bob peth yma, a gwneyd ei oreu i adeiladu teyrnas Duw: os daw rhywun yma gyda dyben arall, byddai yn well iddo aros yn nhref, a gwasanaethu mammon

Pe canlatäai amser, gallwn roddi hanes ein taith tuag yma, a'r wybodaeth a ddysgais trwy brofiad: ond, efallai y byddai yn well gan lawer i dysgu drostynt eu hunain. gan fod teithwyr tuag yma yn wahanol iawn i'w gilydd yn eu barn. Digon fydd dweyd, fod y daith yn m'ell, y tywydd yn lled dwymn. yr ychain yn ystyfnig, dynion weithiau yn ystyfnicach. y cymmwynaswr yn cael ei dala ag angharedigrwydd, y gwas weithiau yn troi yn feistr, y forwyn yn feistres, a llawnder yn brinder. Ond, y mae'r cyfan yn iawn: tueddu yr oll i brofi a pherffeithio y Saint, a'u parotoi i ddyoddef pethau mwy. Rhaid i bawb a ddeuant i Seion ddyfod er gwell ac er gwaeth. ac ni ll i fwynbau yr oll a ewyllysiant. Cofier y rhaid adeiladu Seion, cyn y mwynheir yr holl bethau y cenir am danynt. Hyd yma, mae teyrnas nefoedd megys rhwyd, yn llawn o bob math o bysgod, o'r brythyll bach dymunol hyd at y *shark* mawr ysglyfaethus.

Mae gwaith Duw yn llwyddo, gwybodaeth yn myned ar gynnydd, a'r diafol a'i lu yn ymgynddeiriogi. Brysied y rhai gonest i Seion mewn amser, fel na fyddont ar ol; canys dydd arswydus sydd yn agoshau. Adeilader y deyrnas, a bydded cyfoeth a gotud yn ail bethau. Gweithreder cyfiawnder, a gwneler i arall yr hyn a ddymunid iddo yntau wneuthur tuag at ei gyd-ddyn. Peidier hod am grebachu y cyfan, a gorthrymu y llawd, canys brodyr unwaed ydym oll, a chyd-etifeddion o ystad Duw. Gweithredwn fel ag i deilyngu gwobr, ac nid cerydd. I Dduw y perthyn ein llwyddiant, ac nid i ni ein hunain; canys mynych y mae trefniadau ac amcanion dyn yn methu. Deuwch yma i fod yn eiddo yr Arglwydd, ac nid yn eiddo eich hunain; ac yna gwenau Duw a fyddant arnoch, a'ch llwyddiant a fydd amlwg.

Bellach, anwyl frodyr, terfynaf hyn o lythyr trwy eich annog i ffyddlondeb a brawdgarwch. Perchwch y Llywyddiaeth sydd arnoch; daliwch i fyny eich Utgorn, a gwrandewch ar ei sain. Bendith Duw a'ch dilyno oll. Fy nghofion atoch i gyd, o'r

Llywyddion D. Jones, Thomas Jeremy, a Daniel Daniels, a llywyddion y Cynnadleddau a'r Cangenau, i lawr hyd yr aelod gwanaf o fewn eich terfynau. Amen.

Eich brawd yn y cyfammod newydd,

JOHN DAVIS.

HANES EISTEDDFOD CYNNADLEDD ABERTAWY.

ANWYL LYWYDD JONES,—Ar ddymuniad taer oddiwrth amryw anfonaf a ganlyn i chwi i'w gyhoeddi yn yr UDGORN.

Gydwladwyr hynaws,—Cyn naliwyd yr Eisteddfod uchod, yn ol yr hysbysiad a roddwyd, ar Ddydd Nadolig, yn Neuadd y Saint, Heol Orange, Abertawy.

Cymmerwyd y gadair yn brydlawn gan J. J. Thomas (Nathan Ddu o Lywel). Cyfododd ac annerchodd yr Eisteddfod gydag araeth fywiog, hyfedr a chymhwysiadol. Adroddodd hefyd ei "Gywydd Annerchiadol" er boddhad y gynnulleidfa. Yna fe annerchwyd yr Eisteddfod gan D. E. Jones, mewn araeth fyr, gynnwysfawr, ac adeiladol i feirdd ieuainc. Yna aethpwyd yn mlaen a'r feirniadaeth ar y gwahanol gyfansoddiadau, yn fyr, yn ddeiledgudd ac ochrawg, ac yn gydwedd gyfiawn farn ag ansawdd a theilyngdod gweithiau awenyddol yr ymgeiswyr.

Y TESTUNAU, A'R CYFANSODDIADAU.

Yr Ymfudiad—Tri ymgeisydd, sef Llwydwedd tan yr Iau Alltud o Geredigion, a Phererin. Dyfarnwyd y wobr i Llwydwedd tan yr Iau; galwyd yr enw, ac atebodd Joseph P. Prosser, Aberamam Alltud o Geredigion yn ail oreu.

Gwladgarwch, Rhyddid, a Gwirionedd—Tri ymgeisydd, sef Bardd Gwawr, Abwyd wyneblwyd, a John Reynolds. Barnwyd Bardd Gwawr y goreu, sef J. P. Prosser, a John Reynolds yn ail oreu. Buasai ymdrechfa boeth rhyngddo ef â Bardd Gwawr, pe na chadwynasai yr awen at gyfansoddiad mor fyr, ar destun mor ddyddorol. Gofaled rhag llaw.

Ymdrechion y Saint yn Nghymru—Dau ymgeisydd, sef Hen Sant, a Brodor o Fflint. Brodor o Fflint oedd y goreu, ond yn annheilwng o'r wobr. Eu profiadau eu hunain ydynt gylch rhy fychan i ddarfelyddu yr amgylchiadau cydfynedol ag ymdrechion y Saint yn Nghymru.

Hiraeth am Seion—Chwech ymgeisydd, sef Erastus, Hiraethus o Fflint, Cwynfanus, R. Conwy, J. Davies o Gaernarvon, a Jupiter. Erastus oedd y goreu; atebodd J. P. Prosser i'r enw, a'r tri olaf yn gyfartal ail oreu. Mae y goreu yn lled wallus, ond nid yw y lleill ond math o duchangerddi cwynfanus ac athrist, ac nid cerddi hiraethus ddymuniadol am Seion. Cynghorwn hwynt i ddarllen ychydig o "Gyfrinach Beirdd Ynys Prydain," gan Iolo Morganwg; gwna les iddynt.

Ymdrechion y Saint yn Nghynnadledd Orllewinol Morganwg—Un ymgeisydd, ond nid llwyddiannus.

Y Trysorfa Ymfudol Barhaus—Dau ymgeisydd, sef Heber, a Gwentwysion. Heber oedd y goreu o lawer, ac yn deilwng o'r wobr. Galwyd yr enw, ac atebodd J. P. Prosser.

Yr Enllibwr—Tri ymgeisydd, sef Nicholas o Rwssia, Phantom, a Chas ganddo Gythraul. Darluniodd Nicholas o Rwssia yr Enllibwr yn lled dda, ond nid i'r nod gofynol er teilyngu y wobr.

Da genym weled tuedd, amcan, ac ymdrech prydyddion a beirdd ieuainc. Cawsom lawer o wallau amrywiol yn y cyfansoddiadau goreu, a llawer o bethau teilwng yn y cyfansoddiadau gwaelaf. Annogwn hwynt i ddiwygiad, mewn ysgrifenyddiaeth, acenyddiaeth, silliadaeth, odliadaeth, mydriadaeth, a chystrawen. Hyn ar gyfiawn lafar y "Gwir yn erbyn y byd," ar air a chydwybod.

DEWI ELFED,
NATHAN DDU.

Y gwobrwyon am werthiad y traethodau a ddyfarnwyd i Thomas Perkins, Llansamlet, Henry John, Treforis, a Mrs. Davies, Abertawy.

Yr adroddiad goreu o Freuddwyd yr Apostol Woodruf oedd yr eiddo Mrs. Walters, College St. Dyfarnwyd iddi y wobr.

Y dadganydd goreu o Gyflafan Nauvoo, oedd Dan Jones, bachgenyn 12 mlwydd oed, mab i D. E Jones. Dyfarnwyd iddo y wobr.

Y dadganiad goreu o "Joseph the Seer," oedd eiddo Miss Sarah Walters o'r Dref hon. Dyfarnwyd iddi y wobr.

Cafodd y gwyddfodolion ddyddanwch mawr wrth wrando Capt. Jones, &c., yn eu hannerch mewn ymadroddion doethion a syn-

wyrgall; ac i lanw y gwahanol ddiffygiadau o eiddo yr ymgeiswyr, cafwyd y pleser o wrando cylansoddiadau Dewi Elfed, a Nathan Ddu. Adroddodd Dewi ei gyfansoddiad ar ymdrechion y Saint yn Nghymmadledd Orllewinol Morganwg, ac un arall i'r Enllibwr yn dra medrus. Adrodd dd a chanodd Nathan Ddu ei gyfansoddiadau destlus yntau.

Yn gymhlith â gwahanol weithrediadau yr Eisteddfod canodd y côr yn fedrus amrywiol o dônau.

Mewn efelychiad perffaith o'r *clarionet*, canodd Mr. Henry John, Treforis, amryw dônau difyrus dros ben. Eos, a Bronwen Glantaf, Dyfed, a ganasant i ni gyda'r fath berfedd dra, nes y dychymygem ein bod yn clywed "Llais nen fawl llys nefolion" Dan Jones (y Cethiydd Cymreig), ac Elen Anghared Jones (Eos Gwalia), ei chwaer, genethig ychydig dros wyth mlwydd oed, a ganasant i ni "*Lord, what love have I*," mor seinol â'r delyn. Hefyd canodd Dan Jones yr "Hiraeth am Seion," ar y dôn "Aderyn pur," er boddlonrwydd cyffredinol.

Gan na chanodd y rhai uchod yn unol â thestunau yr Eisteddfod, ni ellid dyfarnu gwobr iddynt. Er hyny, am eu ffyddlondeb a'u hegnion, gwneir rhyw gydnabyddfaeth iddynt gan Bwyllgor yr Eisteddfod.

Hyn, ynghyd a dadganiad o amryw dônau gan wahanol bersonau, yn gyssylltiedig â melysderau y delyn, a lanwodd fynwesau y presennolion oll â dyddanwch a llawenydd, yn yr hwn deimlad gorfoleddus yr ymadawwyd yn brydlawn, tra y canau y côr "*God save the Queen.*" A. L JONES, *Cofiadur.*

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, CHWEFROR 3, 1855.

YR YMFUDIAD.—Yn ychwanegol at y cyfarwyddiadau a roddwyd yn ein rhifyn diweddaf ar yr Ymfudiad, ac at ba rai crefwn *sylw neillduol* y Llywyddion, fel y gallont iawn gyfarwyddo yr ymfudwyr, dywedwn mai doeth fyddai i'r Saint a

fwriadant ymfudo eleni o Gymru, ymbarotoi i gychwyn yn gynnar yn mis Mawrth, os dewisant gyd-ymdeithio â'n gilydd i Utah. Gan fod doeth drefniad arolygwyr yr ymfudiad presennol yn sicrhau nawdd ac hyfforddiadau yr Henuriaid Americanaidd dychweledig i'r Saint Prydeinig yn fwy nâ chynt, cymhellwn y Saint Cymreig i ymbarotoi, fel y gallont fwynhau cyfarwyddiadau yr Henuriad T. Jeremy ar hyd y daith.

Dylai y sawl a ddewiso i'r Llywydd Snow brynu anifeiliaid a waggeni, iddo anfon yr arian mor fuan ag y bo modd,—erbyn y 14eg o'r mis hwn, neu ei ddiwedd o bellaf.

Cymhella y Llywydd Richards y rhai a feddant fwy o arian nag a fydd yn anghenrheidiol er eu cludo i ben eu taith, i'w cyflwyno iddo ef, ac y caffant ei ddanghoseg ef er eu cael yn ol gan y Llywydd Young; ac felly, nid yn unig byddant yn ddiogel rhag lladron ar hyd y daith, eithr byddant o ddefnydd mawr i ymfudo y Saint tlodion i Seion o hyny cynt. Gwarir llawer o arian gan y Saint yn flynyddol i brynu dilladau costfawr, celfi, llestri china, a llawer o bethau a ellid eu hebgor, yn enwedig yn awr pan y mae y pethau hyn oll i'w cael yno mor hynod o rad; pe benthycid hyny i'r Drysorfa er ymfudo y tlodion, arbedid llawer o golledion a thrafferth i'w cludo, ac fe wnelid lles annysgrifiadwy drwy ymfudo y tlodion â hwynt. Diau y byddai yr arian yn fwy defnyddiol i'r perchenog yno nâ'i gwerth o nwyfau a brynasai pan yn ddibrofiad o'u hangen.

Y galwad canlynol o eiddo y Llywydd Richards a arddengys i'r Saint yr anghenrheidrwydd sydd am iddynt brysuro i gyflawni eu cyfammodau â byd ac eglwys, a gwneuthur eu dyledswyddau tuag at Dduw a'n cyd-ddynion, fel y byddont barod i fyned yn gymmeradwy gan eu cydwybodau eu hunain,—yr awdurdodau eglwysig, a chan Ysbryd Duw. Prawf hyn, fel pob peth arall nad amser i hepian yw ein dyddiau ni,—nad yw cyfnod y diweddglo hynod neppell oddiwrthym, ac y dylai pob un a fyno "fyned i mewn cyn cau y drws," ar draws y Mor Werydd, i wneuthur â'i holl egni yr hyn yr ymaflodd ei ddwylaw ynddo i'w wneuthur, pa un bynag ai rhybuddio ei gymmydogion drwy draethodu, tystiolaethu ac iawn fucheddu, ynte drwy gyflawni unrhyw ddyledswyddau ereill a ofynir ganddo. Pwy sydd wedi gorphen ei waith, ac yn barod i ateb y gwahoddiad a ganlyn gan ddywedyd, "Wele fi, yr wyf yn hollol

barod yn awr?" Pa sawl un o'r Saint sydd yn barod i gychwyn ychwaith pe deuai galwad yn awr o'r Dyffryn i ddod adref oll yn ughôl y Gymdeithas Ymfudol? Oni cheffid llawer mor daer am aros ychydig, eu bod heb dalu am eu llyfrau—eu cyfraniadau, &c., ag yw rhai o'r cyfryw ag yr anfonir am danynt yn awr? Esgus resymol iawn rhag cau drws yr ystafell briodas hono gynt, oedd gan y "morwynion ffol," yn eu golwg eu hunain; etto yr oedd eu hesgeulusdod i barotoi, pan yr oedd amser ganddynt i hyny, yn cau y drws yn eu herbyn. Pwy o'r Saint a'u hefelychant yn awr a feia arall os o herwydd ei esgeulusdod y gadewir yntau ar ol, pan y del y galwad olaf, "Deued yr holl Saint, mae'r llong yn aros?" Ymdrechwn i "brynu yr amser oblegid y dyddiau sydd ddrwg." Ond i ddych welyd, dyfynwn eiriau ein Llywydd ei hun :—

"Mae y Saint a fyddant yn analluog i fyned yn mhellach nâ Philladelphia, Cincinnatti, neu St. Louis, at eu rhyddid i aros yno hyd oni allant fyned yn mhellach. Caffant gymmeradwyaeth a bendith yr awdurdodau eglwysig yn gwneuthur hyny. Caffant gyfarwyddiadau dynion doeth a da a anfonwyd o'r Dyffryn i lywyddu arnynt, ac i wylied dros eu lles.

"Dywedwn wrth yr holl Saint, nac aroswch yma os oes modd genych i groesi y môr. Wedi cyrhaedd hyd y Taleithiau Unol, parhewch i deithio yn y blaen ar hyd y ffordd eich cyfarwyddir ynddi mor gyflym ag y caniatâ eich amgylchiadau. Cadwch eich gwynebau tua Seion. Ymdrechwch yn ddiwyd, a byddwch fyw yn ffyddlon ger bron yr Arglwydd, ac agorir eich ffordd o'ch blaen yn hynod o annysgwyliadwy; a chyrhaeddwch yn y fan a benododd Duw i ddiogelu ei bobl yn gynt nag yr ystyria rhai o honoch yn awr, fod yn bosibl."

LLOFRUDDIAD JOSEPH A HYRUM SMITH!

(Dyfyniad o draethawd sydd yn awr yn y Wasg)

O! yn olygfa alarus a welid ar ddydd angladd J. a H. Smith. Ni fu, ac ni fydd byth, ei chyffelyb; pawb yn bendrist ar hyd yr heolydd, yr holl siopau wedi cau, a phob masnach wedi eu hanghofio. Yn mlaen cyflymais fy nghamrau, nes cyrhaedd tŷ y diweddar Joseph Smith. Ymwthiais drwy y dorf alarus, nes

eyrhaedd yr ystafell lle y dodasid ei gorff ef a'i frawd, (canys yr ceddynt wedi eu dwyn o Carthage y dydd blaenorol); yno gorweddent yn eu heirch, ochr yn ochr—wyr mawreddig, fel y dyoddefasant, ochr yn ochr, o garchar bwygilydd am flynyddau, ac y cyd-lafuriasant, ysgwydd yn ysgwydd, i adeiladu teyrnas yr Emanuel: cariad tragywyddol a'u rhwymasau yn ddiysgog wrth eu gilydd, ac wrth eu Duw hyd angau; ac yn awr, fy llygaid a welai waed y ddau ferthyr duwiol yn ymgymysgu yn un llyn ar ganol y llawr—eu hen fam dduwiol a galarus ar ei gliniau yn ei ganol rhwng y ddau, a'i llaw ar bob un o'i meibion a orweddent mewn gwaed—ei chalon yn mron ymhollti gan arteithiau dirdynawl a gofidiau anysgrifiadwy. Wrth ben y meirw eisteddai priod anwylaidd pob un, ac oddiamgylch eu tad. safai pedwar o blant bychain Joseph, a chwech o blant Hyrum, gan waeddi yn awr ac eilwaith, "Fy nhad anwyl," "Fy nhad anwyl innau," ebe y Heill, heb atebiad yn ol ond adleisiad o'r muriau, "O fy nhad." ac o galonau y mamau,—"Fy mhriod wedi ei ladd;" a'u hen fam yn dwys ochain, "O fy meibion, fy meibion."

Yn mlaen yn awyddus ac yn drist ymwthiai y miloedd yn eu tro, i gael yr olygfa olaf ar eu brodyr anwyl, ag y bu eu cynghorion dwys, a'u dysgeidiaeth nefolaidd, yn fwsig yn eu clustiau, yn llewyrch i'w llwybrau, ac yn llawenydd i'w calonau lawer gwaith. Yn yr heolydd oddiamgylch, teyrnasau dystawrwydd y bedd o'r braidd; ond pawb, foneddig a gwreng, â'u dagrau grisialaidd yn treiglo ar hyd eu gruddiau yn lli'. Yr oedd hyd y nod yr haul a'r elfenau wedi ymlonyddu megys mewn syndod, a holl natur yn edrych ar gynddaredd dyn at rai rhagorol y ddaear yn hon fel yn mhob oes o honi. Cofiaf byth fy nheimladau ar y pryd. Yn awr gwelwn y ddau ddyn mwyaf eu rhinwedd a'u doethineb yn ddiau ar y ddaear, pa rai a welais megys gyneu yn pregethu yn fwynaidd, oddirhwng bariau haiarn eu carchar, efengyl yr hedd i'r rhai a geisient eu lladd; y ddau a safasent fel dwy frwynen yn nghanol ystormydd yn dystion o'r Iesu, er gwaethaf cynddaredd eiddigeddus y wasg, y pwlpudau, a *mobs* yr oes, gan ymuniawni fel y frwynen a'i phen i'r làn ar ol pob awel, gan ddirmygu elw ac enwogrwydd bydol, yn ddiysgog glynasant wrth eu nhôd nes gorphen eu gwaith, ac fel eu brodyr henaf, a'u Blaenor o'u blaen, ni charasant eu

heinioes hyd angau, ni ommeddasant wynebu yn wybodus i'r lladdfa; ond neidiasant ar yr allor waedlyd a *welent* yn eu haros yn Carthage, "fel y caffent adgyfodiad gwell." Ond pwy bin a all ddesgrifio yr olygfa hono a theimladau y miloedd o alarwyr? Yr unig gysur a'u cynnaliai rhag suddo dan yr ormes a'r golled oedd, fod dydd o brysur bwyso yn dod ar hyn hefyd cyn hir,—fod yr hwn sydd a'r glorian gywir yn ei law yn canfod y cyfan, ac y ——, ond ymattaliaf. Hawddach i'r darllenydd ddychymygu nag i mi ddarlunio yr olygfa hon, a'i chanlyniadau.

Ond i ddychwelyd yn ol i Carthage gyda'r hanes, o'r lle y diengais tua thri o'r gloch prydnawn, y 27ain. Dangosa y darluniad a ganlyn yr ymosodiad ar y carchar a sefyllfa y fan, yn eglur, yr hyn a ysgrifenwyd gan un o'r pedwar ag oedd yno ar y pryd, sef Dr. Willard Richards.

"DAU FYNYD YN Y CARCHAR.

"Dichon yr hyn a ganlyn fod dri mynyd yn cael ei gyflawni, ar nad wyf fi yn meddwl ei fod dros ddau; ac ysgrifenais ef ar gais, ac er eglurhâd i'm cyfeillion.

Carthage, Mehefin, 27ain, 1844.

"Saethwyd cawod o fwledi i fyny y grisiau at ddrws ein carchar ar yr ail lawr, a chlywsom sŵn llawer o draed yn ymruthro i fyny. Canasom y drws, a safasom o'r tu fewn i'w erbyn, ac i'w ddala yn nghauad, canys nid oedd arno na chlo na *latch* a ellid ddefnyddio. Drws o *bine* teneu yw; cyn gynted ag y cyrhaeddodd y sŵn traed ben y grisiau, saethasant drwy y drws, a'r belen gyntaf a basiodd rhyngom, ac a brofodd mai llofruddion oedd yno. Ar hyn newidiasom ein hagwedd. Neidiodd Mr. Joseph Smith, Mr. Taylor, a minnau, i'r ochr arall i'r ystafell; a Mr. Hyrum Smith a giliodd ddwy ran o dair ar draws yr ystafell ar gyfer, a'i wyneb at y drws, pan y saethwyd pelen o'r drws, yr hon a aeth drwy ei ben; yn a cwympodd wisg ei gefn ar ei hyd ar lawr, heb symud ei draed. Ymddengys oddiwrth y tyllau yn ei ddillad a'i gorff wedy'n fod pelen arall wedi ei saethu drwy y ffenestr ar y pryd, yr hon a aeth i'w gefn, a thrwy ei gorff, nes sefyll yn ei awrlais, yr hon oedd yn mhoced ddeau ei *waistcoat*, gan ei chwilfriwio yn ddarnau. Rhaid fod y ddwy belen wedi ei daro ar yr un eiliad. Pan

gwympodd, dywedodd yn ddealladwy, "Yr ydwyf yn ddyn marw." Edrychodd Joseph arno, ac a ddywedodd, 'O! fy anwyl frawd tlyrum!" Yna gan agor y drws ychydig fodfeddi i'w law aswy, saethodd â'i law-ddryll ar ar tur i'r fynedfa, o ba le ar y foment hono y daeth pelen ac a rwygodd fynwes Hyrum yn agored, ac aeth i'w ben dau ei ên, ac allan drwy ei goryn, a dryllian ereill yn aneledig ato ar y pryd, ac aeth rhai peleni ereill drwyddo o'r drws. Parhaodd Joseph i saethu â'i law-ddryll i'w gwynebau, gan sefyll o'r naill ochr, a chyrhaedd ei law o amgylch post y drws, ond methodd tri baril a thanio. Safai Mr. Taylor wrth ei ochr a ffon yn ei law, â'r hon y curai flaenau y bagnets a ffroenau y drylliau a hwthid i'r drws. Yn ei ochr ef safwn innau gyda ffon arall, ond ni allwn gyrhaedd i daraw i bwrpas heb fod yn ffroenau y drylliau. Wedi i'r llaw-ddryll fethu, ni feddem fodd i amddiffyn ein hunain; a chan y dysgwyliem ruthriad y terfysgiu i'r ystafell bob mynyd, y drws eisoes yn hanner llawn o ddrylliau, ac yn ymwasgu yn mlaen i'r ystafell, ac heb obaith o un man am achub ein bywydau, ond angau yn sylly yn ein wynebau o'r tnfewn, rhuthrodd Taylor at y ffenestr, yr hon sydd tua 12 neu 15 troedfedd o uchder o'r llawr tuallan. Pan yr oedd ar neidio allan, saethwyd pelen oddifewn i'w glun, ac ar yr un eiliad saethwyd pelen arall oddiallan, yr hon a darawodd ei awrlais, yr hon oedd yn mhoced aswy ei *waistcoat*, gan ei chwilfriwio yn ddarnau, a gadael y bysedd yn sefyll ar 5 o'r gloch, 16 mynydau, a 26 momentau. Grym yr ergyd hon a'i gyrodd yn ol i'r ystafell, a chwympodd i'r llawr, ac a ymdreiglodd o dan y gwely oedd yn ei ymyl, ac yno y gorweddai fel un marw. Er hyn parhaodd rhai o'r drws i saethu ato, ac a rwygasant ddarn o gnawd oddiar ei forddwyd fwy na llaw gwr, ac er y ceisiwn ei arbed fy ngoren drwy guro a gwyro eu drylliau â'm ffon. Fel yr unig obaith, anturiodd Joseph i'r ffenestr, o'r hon y cwympasai Taylor; ond cyn ei chyrhaedd braidd, aeth dwy belen drwyddo o'r drws, ac un arall oddiallan drwy y ffenestr a aeth drwy yn agos i'w galon; ac efe a gwympodd allan, lle yr oedd blaenau bagnets yn ei dderbyn, ac efe a waeddodd yn ddealladwy, 'O Arglwydd fy Nuw.'

"Nid cynt yr aeth ei draed ef o'r ffenestr nag yr oedd fy mhen innau yndi, a'r peleni yn chwibanu o amgylch. Ar hyn

gwaeddasant yn uchel, 'Efe a neidiodd o'r ffenestr,' a'r rhai oedd wrth y drws, ac ar y grisiau, a redasant allan. Ciliais o'r ffenestr pan welais mai ofer fuasai ei ddilyn ef, a neidio ar dros gant o fagnets, pa rai oeddynt erbyn hyn wedi crynhoi o amgylch corff Joseph Smith. Etto yn anfoddlon i'w adael, estynais fy mhen allan drachefn, a syllais yn graff am ychydig i weled a oedd rhyw arwyddion bywyd ynddo; heb gofio fy mherygl fy hun, penderfynais fynu gweled diwedd yr hwn a garwn fel fy hunan. Wedi fy moddloni ei fod ef eisoes yn farw, dros gant o'r terfysglu yn ymruthro arno, ac ychwaneg yn dyfod o'r ochr arall i'r carchar; a chan y dysgwyliwn bob eiliad ddynt ddychwelyd i'r carchar, rhedais at ddrws haiarn y gell, yr hwn oedd wrth ddrws ein hystafell ni, ac wrth yr hwn y safent i saethu, i edrych a oedd clô arno. Pan ar ei gyfer, gwaeddodd Mr. Taylor arnaf, 'Cymmerwch fi gyda chwi;' ac wedi gweled fod y drws hwnw yn agored, dychwelais, a chariais Mr. Taylor yno, sef i'r carchar mewnol, ac a'i dodais i orwedd ar y llawr, ac a daenais fatras drosto, fel na sylwid arno, canys dysgwyliwn y terfysglu i mewn bob eiliad. Sylwais wrth Mr. Taylor,—'Mae hwn yn wely go galed, ond os nad yw eich clwyfau yn farwol, gobeithiaf y cewch chwi fyw i draethu yr hanes.' Dysgwyliwn gael fy saethu bob eiliad, a sefais yn y drws yn barod, deued a ddelai.

"WILLARD RICHARDS."

LLYTHYR ODDIWRTH Y CHWAER JEREMY.

Dinas y Llyn Halen, Medi 31, 1854.

ANWYL BRIOD,—Yr wyf yn achub y cyfleusdra hwn i anfon atoch, rhag ofn na chaf gyfle eleni etto. Yr ydym ni fel teulu yn iach, ac yr wyf yn ddiolchgar iawn i'm Tad nefol am ei ddaioni a'i ofal drosom bob amser. Gwn fod eich gweddiau chwi yn cael eu hateb ar ein rhan fel teulu; nid ydym ninnau yn eich hanghofio chwithau yn ein gweddiau: mae fy nymuniad ar fy nhad nefol i'ch nerthu chwi a'r brodyr ereill yn mhob amgylchiad a'ch cyfarfydda.

Fe gawsom Gymmanfa ryfeddol o dda yma, a buasai yn dda genyf pe buasech chwi yma yn gwrando pregeth y Llywydd B-

Young y dydd diweddaf o'r Gymmanfa. Cawsom glywed pethau na chlywsom o'r blaen, ond nid af i fanylu: os daw y bregeth allan yn argraffedig, mi a'i danfonaf i chwi

Mae y cwmpeini diweddaf o'r Saint wedi dyfod i mewn yr wythnos ddiweddaf, ac yn eu plith yr oedd y brawd Bywater. Mae T. C. Martill, a Henry Harries yn lletya gyda ni; y maent iach ac yn dymuno eu cofio atoch.

Ddoe dechreuwyd adeiladu *bowery* wrth dalcen y Tabernacl, yr hwn fydd yn ddigon helaeth i gynnwys pawb a fydd yn y Gymmanfa. Mae yn y Tabernacl gyfarfodydd da bob Sul. Yr wyf yn meddwl am danoch yn fynych, a pha mor felys y byddech yn derbyn y ddiysgeidiaeth. Mae llawer o bethau rhyfedd iawn ar gymmeryd lle, fel yr ydym wedi cael clywed yn ddiweddar gan y Llywydd Young.

Bu William S. Phillips a'i wraig yma ar swper pan ddaethant i mewn; maent wedi myned i fyw i ddyffryn sydd yn mhellach nâ Box Elder. Mae llawer o'r Cymry wedi aros yma.

Mae yn dda genyf glywed eich bod yn mwynhau iechyd da, yr hyn sydd yn fendith fawr. Yr ydym fel teulu yn cofio atoch, yn enwedig eich Sarah anwyl. Mae teuluoedd y Brodyr Jones a Daniels yn iach. Cofiwch fi atynt yn fawr.

Hyn oddiwrth eich anwyl wraig,

SARAH JEREMY.

RHYBUDD I YMFUDWYR.

DAETH yr hyn a ganlyn i law pan y mae y rhifyn hwn yn myned i'r Wasg.

Lerpwl, Ion. 30, 1855.

O herwydd prinder anghyffredinol o longau i hwylio i Philadelphia, ni allaf anfon ymaith y llongaid gyntaf o Ymfudwyr cyn diwedd Chwefror, neu ddechreu Mawrth. Er hyny, parhaed yr ymgeiswyr i anfon eu henwau a'u harian i mi, ac mi a wnaf yr hyn a allaf i anfon ymaith yr ymfudwyr ar yr amser a ddymunant. Mae genyf ddigon o ymgeiswyr eisoes i lanw un neu ddwy o longau, ac anfonaf yr Ymfudwyr i'r un fan, yr un amser, hyd y bydd yn bosibl. Dylai yr Ymfudwyr wneuthur eu trefniadau â myfi cyn y 15fed o Fawrth, o her-

wydd y mae o bwys iddynt hwy hwylio o'r porthladd hwn cyn diwedd y mis hwnw.

Na ddeued ymfudwyr yma cyn y danfonaf am danynt i ddyfod.

Gweled Bugeiliaid a Llywyddion yn dda i hysbysu hyn yn gyhoeddus drwy Gangenau yr eglwys, ar y cyfleusdra cyntaf.

FRANKLIN D. RICHARDS

AMRYWIAETHAU, &c.

EFALLAI y bydd yn hoff gan ryw fardd i roddi atebiad i'r Englyn canlynol:—

Mawr y sŵn ymeirio sydd,—a gwresog
Yn groesi drwy'r gwledydd:
Pwy wel y fan, pa lé bydd
Llanerch o lè llonydd?

D. ROBERTS.

ENGLYN I'R CWMWL.

Ys mwythawl was amaethon,—yw'r cwmwl,
O'r cymmysg oruchion;
Nwf i'w daith pan yf y dòn,
I fwrw ei laith ddyferion.

YR UN.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O ION. 15 HYD Y 31.—John Williams, Ieu, £1; Chas. Harmon, £1 10s 8¾c; E. Middleton, £3 6s 6c; G. Roberts, £1 1s.

☞ Bu gorfod arnom adael allan lawer o bethau dyddorol o'r rhifyn hwn etto, a hyny o ddiffyg lle.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones, "Udgorn Seion" Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Araeth y Llywydd B. Young	33
Gair o Ddinas y Llyn Halen at y Saint yn Nghymru	36
Hanes Eisteddfod Cynnadledd Abertawy	31
Golygyddiaeth—Yr Ymfudiad	39
Llofruddiad Joseph a Hyrum Smith	42
Llythyr oddiwrth y Chwaer Jeremy	46
Rhybudd i Ymfudwyr	47
Amrywiaethau, &c.	48

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

RHIF. 4.] CHWEFROR 17, 1855. [CYF. VIII.

ARAETH GAN Y LLYWYDD B. YOUNG.

A draddodwyd yn y Tabernacl, D. Ll. H. Mawr, Chwefror 20, 1853, *yn y prydnawn.*

[Parhad o dud. 36.]

YR oeddwn mor barod i fyned trwy y profiadau o'r erlidigaethau a'r ymlidiau yn Swydd Jackson ag oeddwn i fyned trwy y terfysgoedd yn Kirtland, Ohio, yn Swyddau Davies, Caldwel, Missouri, ac yn Illinois, ag oeddwn i ddod hyd y fan yma. A pha beth am hyny? Nis gwn am, ac ni welais un aberth a wnaeth y bobl hyn. Ni fu yr un rhagluniaeth o'r fath o eiddo yr Hollalluog ar nad oedd gymhwysiadol i santeiddio y pur o galon, a'u cyfoethogi â bendithion yn lle melldithion; i'w cyfoethogi, nid yn unig â bendithion daearol, eithr â choronau o ogoniant, anfarwoldeb, a bywydau tragywyddol yn nhresennoldeb Duw.

Yn mha le ynte mae yr aberth a wnaeth y bobl hyn erioed? Ni wnaethant ond cyfnewid sefyllfa waeth am un well, bob tro ag y symudasant; cyfnewidiasant anwybodaeth am wybodaeth, ac anmhrofiad am ei wrthgyferbyniad. Dymunwn i chwi syllu ar y Saint cyn eu halltudio o'u hymgasglfan cyntaf Disgwyliasant am derfyn ar bob pechod yn yr ymgasglfan. Y rhai hyn oeddynt fy nheimladau i fy hun, er na chesglais gyda hwynt ar y pryd; gorfod i mi fyned allan i bregethu,

rhag i'm hesgyrn i ddifa o'm mewn. Eithr mynegaf i chwi yr hyn a wnaethym. Dechreuais gwttogi fy masnach a'm trafodaeth, rhoddais heibio fy nghyfrif-lyfrau, gan ddywedyd, "Ni fydd arnaf eich eisieu mwy." Credais y dylasai y rhai a chwennychent fod yn Saint diledrith, wneuthur pob peth er lledaenu egwyddorion cyfiawnder a heddwch yn mhlith dynion, a bod yn hollol o un galon, ac o un teimlad.

Rhoddais ymaith fy hen lyfrau cyfrifon, o herwydd fy nysgwyliad y byddem yn un teulu, pob un yn chwilio am leshâd ei gymmydog. a'r oll o honom yn ymroddi i wneuthur yr holl ddaioni a ellid wneyd. Cyflawniad ffyddlon o'r egwyddor hon a goronai bobl Dduw â daioni gorlifiadol. Hawdd ydyw i ni feddwl pa fodd y dylasai pethau fod, ond yr anhawsdra yw, nid ydyw pethau bob amser fel y dymunem iddynt fod. Etto pe gallasai y Saint iawn farnu y pryd hwnw oddiwrth ymddangosiadau, medru deall agwedd pethau o'u hamgylch, yr oedd yn amlwg fod gofid a thraffeth yn ymhongian. Gwell oedd na welsont y cwmwl du ag oedd yn barod i dorri yn ffyrnig uwch eu penau.

Yn yr araeth fêr o ddim mwy nâ phump mynyd a roddais yn yr hen *fowery* pan y dirmygodd y barnwr hwnw y bobl hyn, yr oedd yno ddynion a deimlasant fwy yn y dysgwyliad am y canlyniadau o hono yn y dyfodol, nag a deimlodd y cyffredinolrwydd o'r bobl hyn yn nghanol y terfysg. Dychymygasant weled holl uffern wedi ei gollwng yn rhydd arnom, eu hunain wedi eu hongian, eu clustiau wedi eu torri ymaith, eu hymysgaroedd wedi eu tynu allan, a'r holl bobl hyn wedi eu dryllio yn ddarnau.

Wedi iddynt gael amser i fyfyrio, cawsant eu hunain yn fyw o hyd, ac heb eu niweidio, er eu mawr syndod. Dyoddefasant gymmaint a phe buasent wedi eu danfon i eithafion y pwll diwaelod. Dyoddefasant hyny oll o herwydd i mi ddweyd wrth y dyn llygredig hwnw y dylasai gael ei droedio allan o'r Diriogaeth am ei drahausder a'i haerllugrwydd gwyneb galed. Gwn fod y bobl hyn wedi dyoddef mwy wrth y dysgwyliad am ofid yn feddyliol nag wrth fyned trwyddo yn weithredol. Fel yr helaetha Sant ofid dyfodol braidd yn annherfynol tuhwnt i'w gyrhaeddiadau, felly y tybiasant iddynt eu hunain helaethach nefoedd nag a gânt yn Seion yn y graddau presennol o'i

chynnyddiant. Nid ydych yn mwynhau y nefoedd a ddysgwyliasoch.

Bod dynolryw yn gwneyd camsyniadau yn y ddwy ffordd hyn sydd yn wybodus o raid i'r rhai a deimlasant weithrediadau gobaith ac ofn yn eu nhatur. Dyoddefa pobl fwy yn y dysgwyliad am angau nag a wnant yn angau ei hun. Y mae mwy o ddyoddefaint yn yr hyn alwaf yn ofid benthycciol nag sydd mewn gofid ei hun. Ar y llaw arall, dysgwyliasoch fwy o Seion, mwy o ddedwyd iwch, a mwy o ogoniant yn y cnawd, nag a brofwch byth yn ystod y marwoldeb hwn. Mae y rhai ag ydynt dueddol o fyned i'r naill eithafion, braidd yn siwr o fyned i'r eithafion gwrthgyferbyniol, yr hwn bob amser a achosa siomedigaeth, naill ai yn ddymunol neu yn annymunol. Mae yr eithafion hyn wedi achosi cryn drafferth i'r Saint ; ac y mae rhai o ddiffyg amynedd, ac ychydig o feddwl rhesymol, wedi beio am eu siomedigaethau lle na ddylasent. ac wedi gwrthgilio o'r eglwys heb erioed feddwl fod y bai ynddynt hwy eu hunain.

Ar y gwendidau hyn o eiddo y natur ddynol gweithia y diafol weithiau yn lled lwyddiannus. Ond, frodyr, nis gallwn gilio rhagom ein hunain, a thra yr arhoswn yn y tabernacl hwn, fe rwystrir ein gyrfa gynnyddol fwy neu lai gan wendidau andwyol y cnawd marwol. Yn mhen ennyd fe aiff ein cyrff i'n mham ddaear, a derbyniant adgyfodiad, a deuant yn ogoneddus; yna mwynhawn yr oll, a mwy nag y dichon i galon dyn ddychymygu am dano, oddieithr drwy ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân. Bydd hyn yn etifeddiaeth y ffyddloniaid.

Y mae llawer o le i ni oll i ymwellhau. Os dechreuwn o'r dydd hwn allan â gwneuthur yr holl ddaioni a allwn, a pheidio cyflawni un drwg mwyach, cyrhaeddwn yr hyn a ddymunem i'r brodyr bregethu am dano, ac ymdrechu ei sefydlu. Dymunaf iddo gael ei bregethu gan yr esgobion, y diaconiaid, a chan bob swyddog o fewn yr eglwys. Dymunaf i dadau ei ddysgu idd eu plant, a gofynaf i'r pwnc gael ei drafod gan holl gynulleidfaoedd y Saint drwy y byd, h.y., GOSOD YMDDIRIED Y NAILL YN Y LLALL. Cymmerwch hyn yn destun os mynwch, a phregethwch arno mewn gair a gweithred, hyd nes y teyrnasa ymddiried y naill yn yn llall yn gyffredinol yn mhlith y Saint, ac yna fe gyflawnir yr hyn a ddymunaf weled.

Os chwennychwn sefydlu y fath ymddiried ag a fwynheir gan y Duwiau, ymadawn oddiwrth bob gweithred ddrwg, ac oddiwrth gynlluniad pob bwriad drygionus; na ormeswch bytli ar iawnderau eich gilydd, eithr cynnalied pob un ei frawd yn y mwynhâd o'i freintiau a'i iawnderau; gan eu dal mor gyssegredig a'i iawnderau ei hunan. Os ydyw ymddiriediad wedi ei golli, dyna y ffordd ddiogelaf i'w adferyd.

Clywch hyny, chwi bregethwyr, chwi Apostolion a Phrophwydi, chwi Henuriaid, Archoffeiriaid, a Degau-a-thrugain, chwi Offeiriaid ac Athrawon, Diaconiaid ac Esgobion—pob dyn a benyw yn Eglwys Dduw drwy y byd,—dechreuwch bregethu yr ymddyddan hwn gartref, gan ddechren gyda eich calonau eich hunain, taener ei ddylanwad cynhesol a chysurlawn ar led fel pelydrau hyfrydlawn yr haul o denlu i deulu, hyd oni wneir Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf fel calon un gwr.

Dangosaf y modd i osod ymddiried y naill yn y llall trwy gymmeryd yn esiampl blentyn pedair neu bum mlwydd oed. Cania'á y fam i'r plentyn hwnw i berchenogi cist fechan, yn mha un y cadwa ei fân degannau; megys, bron binau, ysnodau, dillad delw, &c. Ystyrir hono gan yr holl denlu yn gist y plentyn. Yn awr gadewch i mi fyned i'r gist hono a chymmeryd unrhyw beth o honi heb ganiatâd y plentyn.

Mater dibwys iawn ydyw hyny, fel y meddyliai rhai; eithr dechreuwch gyda phwynt cyn lleied â hyna i greu ymddiried, a chymmydded o ychydig i lawer. Wragedd, gadewch ystorau eich gwŷr yn llonydd, os na throsglwyddasant hwy i'ch gofal. Wŷr, trosglwyddwch i ofal eich gwragedd yr hyn a berthyna iddynt, ac na chwilotwch eu cistiau heb eu caniatâd. Myfi a allaf ymffrostio yn hyn. Yr ydwyf wedi byw yn y berthynas briodasol yn agos i 30ain o flynyddau, ac ni fum erioed y dyn a agorodd gist fy ngwraig heb ei chaniatâd, oddieithr unwaith, a hyny i gael darlun ag oedd arnaf ei eisieu ar y pryd, ac nid oedd hi gartref i'w gyrhaedd i mi. Hwnw oedd y tro cyntaf erioed yr agorais gist yn fy mywyd a berthynai i'm gwraig neu fy mhlentyn.

Mae cist y plentyn bach mor gyssegredig iddo ef ag yw fy un innau i mi. Pe llwyr gyflawnid yr egwyddor hon gan bob dyn, benyw, a phlentyn yn mhlith y Saint, gwnelai hwynt yn

bobl fendigedig yn wir. Edrychem at ddiogelwch ceffyl neu ych ein cymmydog rhag trengu yn oerni y gauaf; a phe gwelem un dim o'i eiddo mewn perygl, byddem mor ofalus o hono a phe ei perchenogem. Ein hamcan fyddai diogelu pob peth a allem, o eiddo ein cymmydog a'n hunain.

Taled pob dyn ei gyfiawn ddyled. Cyhoedodd Golygydd y "Deseret News" draethawd yn y newyddiadur ynghylch peidio bod mewn dyled neb o ddim. Darllenwch ef, myfyriwch arno, a gweithredwch yn ei ol. Gallaf fod yn nyled pawb o bob peth; hyny sydd un ochr i'r mater, ac i dalu pawb yw y ddyledd. Bwriadaf fod yn nyled pob dyn o garedigrwydd.

Yr wyf wedi siarad yn rhy faith, efallai. Rhoddais destun i chwi oll i bregethu arno, ac i weithredu yn ei ol drwy eich bywyd: cyflawnwch ef yn ffyddlon, ac efe a'ch llesola.

Bendithied Arglwydd Dduw Israel chwi, ac achubed chwi yn ei deyrnas yw fy ngweddi. Amen.

Cyf. Wm. Lewis.

LLYTHYR ODDIWRTH SAMUEL EVANS, GYNT O GANGEN MERTHYR.

D. Ll. H. Mawr, Medi 26, 1854.

Anwyl Frawd Jones,—Hyderaf eich bod yn mwynhau pob cysuron bywyd ac iechyd, a bod eich llafur yn llwyddo yn mhlith ein cydgenedl. Yr Arglwydd grasol a'ch llwyddo chwi a'ch Cynghorwyr, a'r lleill sydd yn llafurio yn ei winllan, yn nghyd a phawb o'r Saint yw fy nghyssion weddi.

Yn awr, gosodaf ger eich gwydd ychydig o'n hanes fel teulu, Daethom dros y môr a'r afonydd yn ddiogel. Cychwynasom o Kansas ar y 3ydd o Fehefin, 1853, a chroesasom y *plains* yn llwyddiannus. Anfonodd y Llywydd Young eidion tew tua 25 o filltiroedd i'n cyfarfod ar y daith, a chafodd pawb eu gwala o gig. Daeth ef a'i Gynghorwyr, ac amryw ereill, i'n cyfarfod yn eu cerbydau ac ar eu ceffylau, a dygasant o'r Ddinas ryw ychydig o bob ffrwythau i ni a gynnyrchir yn y Dyffryn, yn nghyd â'r côr pres, pa rai a chwarenent o'n blaen o eneu yr *Emigration Kanion* hyd y Ddinas hon, lle yr arosasom am o gwmpas chwech wythnos. Cefais gynghor gan y Llywydd

Young i fyned i ddinas Filmore, ac mi a ufyddheais i'w gynghor, ac y mae Duw wedi fy mendithio yn y canlyniad. Yr oeddym y pryd hyny yn nyled y Gymdeithas Ymfudol, ac heb feddu dim, ond yn awr yr wyf yn berchen dwy iau o ychain, waggen, pedair buwch, pedwar o loi blwyddi, a phedwar o loi y flwyddyn hon, pedair o ddefaid, wyth o foch, ac yn agos i gant o ieir. Codasom ar ein tir 111 o fwseli o wenith, ac yr wyf yn ennill o 5 i 6 dollar yn y dydd yn gyffredin; ennillodd John Price a minnau 12 dollar y dydd yn y gauaf diweddaf; ennillodd Samuel a James o 3 i 4 dollar yn y dydd yn yr hâf diweddaf am fugeilio gwartheg. Y mae genym o 20 i 40 o fwsheli o Indian corn, 100 bwshel o bytatws, dwy waggenaid o squashes a phwmpkins.

Yr ydym yn byw yn ein tŷ ein hunain, yr ydym wedi gwneyd o 400 i 500 o gaws yn y flwyddyn hon, heblaw ymenyn. Felly, gwelwch fy mod yn cael fy mendithio tuhwnt i ddim a allwn ddysgwyl, ond ni fendithir neb heb gadw cynghor Duw. Mae y lle hwn yn cymmyddu yn gyflym mewn masnach a cheltyddydau.

Dymunwn fy nghofio at holl Saint Merthyr, yn enwedig y rhai sydd yn byw yn y Bedwaranfach, ynghyd a phawb o'm cydnabod. Dymunwn annog pawb o'm cydgenedl i gredu yr Efengyl, tra y mae hi yn cael ei phregethu iddynt, fel y gallont gael iachawdwriaeth bresennol a dyfodol.

Hyn yw'm dymuniad a'm gweddi yn enw Iesu Grist. Amen.

SAMUEL EVANS,
Gynt o Bedwaranfach, Merthyr.

[Ymddengys amryw lythyrau dyddorol ereill o Utah mor fuan ag y caniatâ pethau ereill le iddynt.—GOL.]

CYMMANFA LLANRWST.

MR. GOL.,—Cynnaliasom ein Cymmanfa yn Neuadd tref Llanrwst. Cawsom amser hyfryd, ond nid gwell nag a gawsom lawer tro o'r blaen. Cynnaliasom ein *Tea Party* y Llun canlynol; daeth tua 50 o'r byd yno, a threiliasom yr amser yn ddifyrus. Y Brawd Parry oedd yn gadeirydd. Rhoddodd W

Davies, Ieu., araeth ar "Ryddid," ac fe ychwanegodd J. Parry ar yr un testun. Yna canwyd "Happy the Day" â "Chyngherddon." Rhoddodd Thomas Roberts araeth ar "Ragorfreintiau Dyn," yna canodd gân ar "Gŵyn yr Amddifad," a chanwyd "March away to Zion."—Araeth gan J. Parry ar "Pa beth y mae y Saint yn gredu."—Adroddwyd pennillon ar "Hynodrwydd yr oes hon."—Cân, "Come to the mountains of Ephraim."—"Cwyn yr annuwiolion o herwydd gwrthod gwrando," yr hwn a gyfansoddais wedi darllen "Peidiwch a'u Gwrando."—Cân "O Babel greulawn," &c.—Araeth ar "Gwymp y Byd" ac "Arwyddion yr Amserau," gan R. Roberts. Talodd John Parry ddiolchgarwch i'r gynnulleidfa, a chanwyd "Nos Da."

Cafodd pawb eu boddio yn dda iawn, ac ymddygodd pawb yn weddaidd, ac os cynnaliwn gyfarfod o'r fath, bydd llawer yn fwy y tro nesaf, meddâi y bobl. Yr oedd Ysbryd yr Arglwydd yn helaeth yn ein plith, a chredaf fod yr oll er gogoniant i Dduw.

Mae y Saint a'r Swyddogion mewn sefyllfa dda, ac wedi addunedu dileu dyled y llyfrau o hyn i ben y chwarter.

Terfynaf yn awr gyda chofio atoch chwi a'r Henuriad Daniels.

Yr eiddoch yn Nghrist,

RICHARD ROBERTS.

ANSAWDD ARWYDDION YR AMSEROEDD.

OCH! beth ydyw'r cynhwrf a'r cyffro
Sy'n mhlith holl deyrnasoedd y byd,
Paham y terfysga'r cenedloedd,
Mewn ysbryd rhyfeloedd a llid;
Mae'r byd, mae'r byd, fel crochan berwedig i gyd.

Cenedloedd yn erbyn cenedloedd,
Sy'n codi mewn digter i gyd;
Cynllwynant a lluniant yn greulon,
I ollwng gwaed dynion mewn llid;
Daeth awr, daeth awr, barn Duw ar Genedloedd y byd.

Och! dyma amseroedd tra blinion,
A'u harwydd a dystia fod Duw

Yn ddigllon, dialgar, a chreulon
Wrth bob anufyddion sy'n fyw;
Och! gwae, och! gwae, dechreuodd awr barn y Duw byw!

Digllondeb tra chreulawn sy'n cyneu,
Yn mynwes Duw'r nefoedd yn awr;
A'i ddialedd sydd drwm ac ofnadwy,
Yn difa trigolion y llawr;
Och! daeth, och! daeth, awr barn a dialedd Duw mawr.

Y ddaear sy'n crynu gan arswyd,
Y farn sydd yn dod ar y byd;
Cyn hir hi a symud fel meddwyn,
Mewn dychryn oblegid y llid;
Mae'r haint, mae'r haint, yn difa fel llewod mewn llid.

Gwyn fyd, O gwyn fyd preswylyddion,
Sy'n trigo yn Seion heb fraw;
Llonychant a mawr ymhyfrydant,
Nid ofnant y llid sy' ger llaw;
O gwnant, O gwnant, heb ofni y llid sy' ger llaw.

Fflint. T. CONWAY.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, CHWEFROR 17, 1855.

NEWYDDION O UTAH.—Ar y 10fed o Dachwedd, cychwynodd y Llywydd Young, a gosgordd o tua 16 o bersonau, ar daith i ymweled â'r sefydliadau deheuol cyn belled â Dinas Manti, lle y pregethodd y Sul canlynol. Maent wedi adeiladu dwy amddiffynfa yno—muriau yr olaf o gerrig, yn 8 troedfedd o uchder, ac yn cyrhaedd oddiamgylch rhan fawr o'r ddinas. Fe gynghorodd y Llywydd hwy i'w hadeiladu yn 15 troedfedd, eu mhelinau llifio a malu oddi fewn iddi. Nos Sul pregethodd yn Fort Ephraim, sefydliad newydd 7 milltir o Ddinas Manti

yn cynnwys tua 30 o deuluoedd. Mae y llafur yn y fan hon ag yn Manti yn rhagorol o dda, a phob argoelion mai dyffryn San Pete fydd ystordŷ Deseret. Cafodd y Llywydd ymweliadau mynych gan *Arrapeen*, yr hwn oedd yn bur gyfeillgar.

Dychwelodd y Llywydd ar y 18fed, wedi teithio 276 o filltiroedd, a gadael yr holl sefydliadau mewn undeb a llwyddiant digyffelyb. Mae y gweithdŷ siwgr yn myned yn mlaen yn gyflym, a llaweroedd o adeiladau mawrion ereill wedi ymddyrchafu yn wyrthiol braidd, hyd nes y cyfnewidia ymddangosiad y trefydd a'r wlad i raddau yn barhaus. Mae y dyeithriaid a anafant yn Utah, wedi dechreu eleni fel arferol, eithr yn gynnarach i dorri tai, siopau, a lladrata anifeiliaid er eu cludo i California. Pasiwyd fod y sawl a elo i'r Mŵn gloddiau yn groes i gynghor yn ei ddiarddelu ei hun o'r eglwys drwy hyny. Mae *foundry* wedi cael ei sefydlu yn y ddinas, lle y bwrir llestri haiarn, &c. Cyrhaeddasai yr olaf o'r ymfudwyr cyn i'r gauaf ddechreu. Mae adeilad pwrpasol i roddi cynnysgaethiad yn cael ei adeiladu ar randir y Deml, ac yn agos a'i gwblhau.

Cymmanfa Gyffredinol Dinas y Llyn Halen Mawr,—A gynnaliwyd ar Hyd. 6, 7, a'r 8. Yr oedd y Tabernacl wedi ei orlenwi gymmaint nes y gorfuwyd y dyrfa i ymranu, a phregethwyd i'r miloedd a ymgrynhoisant wrth yr ochr ogleddol i'r Tabernacl gan amryw o'r Deuddeg, tra y dysgai y Llywydd, ei Gynghorwyr, ac ereill, egwyddorion mawreddog er mawr les a llawenydd i'r dyrfa mewnol; llawer o'r rhai a ddeuant, ond odid, trwy yr Udgorn wedi eu ceir.

Fel arferol, pleidleisiwyd yn unfrydol, er lliosoced oeddynt, i ufyddhau i'r holl awdurdodau eglwysig, ac arwyddwyd cymmeradwyaeth ddieithriad i'r holl fesurau a drefnwyd, a phenderfyniad cyffredinol i gyflawni pob cynghorion a roddwyd iddynt; yr oll o'r rhai a ddanghosasant yn eglur gynnyddiant undeb y Saint, ac mai adeiladiad y Deyrnas yw y nod uwchaf ac egluraf o flaen eu golygon—prif nodwedd eu cymmeriadau, ac ymffrostwaith duwiolion Duw yn ei Seion.

Dywenydd mawr i'r Saint erwydredig trwy y byd fydd deall fod ymdrechiadau teilwng yn cael eu gwneuthur yn Seion ar eu rhan, drwy gyfraniadau i Drysorfa y Gymdeithas Ymfudol Barhaus—mawr yw sêl y Llywyddion o'i phlaid, a'u hawydd i'w

dyledwyr dalu iddi, fel y gallont anfon am y tlodion o gyrau y byd adref drwyddi.

Gohiriwyd y Gymmanfa dan wenau amlwg yr Ysbryd dwyfol a bendith y Llywydd Young, hyd Ebrill 6fed, 1855.

Y "*Tafleni Cyfrifiadol.*"—Dymunir ar y Llywyddion i weled fod y *Tafleni* yn cael eu defnyddio yn mhob Cangen yn rheolaidd; mae lle i ofni oddiwrth yr effeithiau fod esgeulusdod yn bod. Dylai pawb gyfranu at yr oll a ofynir ynddi. Y mae cadw cyfrifiad felly yn creu ymddiried yn y cyfranwyr fod coffadwriaeth yn cael ei gadw o'u cyfraniadau, ac yn rhoddi gwell cyfleusdra iddynt hwythau drwy dderbyn eu cyfraniadau bob yn ychydig yn wythnosol, na phe y gofynid swm mawr pan bo ei anghen. Y tlodion sydd yn cael y *froint* o gario gwaith Duw yn mlaen, a gwyn fyd y ffyddlon yn hyny; prawf Duw, drwy ad-daln yn ddwbl yn ol, y gall gario ei deyrnas yn y blaen drwy offerynau gwael a chyfraniadau bychain ac aml ei blant tlodion. Megys y gwna amledd diferion y moroedd mawrion—amledd mymrynau yddiaear fawr, ac mai momentau a gyfansoddant dragywyddoldeb, felly y gwna dimeuau a cheiniogau wythnosol y Saint tlota swmiau mawrion pan ynghyd, er talu dyled eglwys Dduw—adeiladu Teml—ymfudo lluoedd i Seion, a.eu unrhyw alwad teilwng arall a ddaw atynt. "Na ddiystyrer dydd y pethau bychain," eithr dysger gyfranu yn ol y gallu, rhag bod yn debyg i'r llyffant a elai am y cyntaf â'r falwoden i ben y pren, yn y ddamneg. Nac oeder cychwyn!

Y DRYSORFA YMFUDOL BARHAUS.

(Allan o'r "Millennial Star.")

Hysbys i ni yw fod yma lawer o Saint yn y gwledydd hyn ag ydynt wedi byw yn ffyddlon am hir amser, ac wedi dyfal gyfranu eu hadling tuag at bob gwaith da, ac yn mhlith pethau ereill cyfranasant yn ddifeth at y D. Y. Barhaus, ac etto y maent heb eu casglu adref i Seion, eithr arosant fel carcharorion gobeithiol, yn dysgwyl dydd eu prynedigaeth. Tra yr arosant yn awyddus am eu hamser, gwelsant ereill o'u hamgylch yn cael eu cynnorthwyo i ymfudo, y rhai nad ydynt

debygent hwy, wedi dyoddef yr hyn a ddyoddefasant hwy, nac ychwaith wedi talu cymmaint i mewn i'r Drysorfa.

Dichon y dechreua rhai feddwl eu bod yn eu ffyddlondeb a'u tlodi wedi eu llwyr anghofio gan y Llywyddiaeth yma, ac yn Seion. Pan ddeallir y rhesymau o herwydd pa rai yr ymddengys felly, ynghyd a tharddiad gwreiddiol y cyfryw ymresymiadau, ac eu hystyrir yn well, hyderwn yr attelir unrhyw deimlad annymunol ynghylch y pwnc hwn, a achosa y fath hyder dwys yn nghalonau y Saint

Yn flaenorol i'r trefniadau estynedig presennol, penodwyd y rhifedi a ganiatâwyd i bob Cynnadledd eu hanfon allan, yn ol y gwahanol symiau a gyfranwyd ganddynt.

Mae rhifedi y rhai a anfonir am danynt gan Lywydd y Gymdeithas eleni yn llawer mwy nag y gallasai yr amrywiol Gynnadleddau anfon yn ol y drefn flaenorol, drwy eu cyfraniadau presennol, heb eithriad braidd.

Y flwyddyn ddiweddaf talodd £13 gludiad person drwyodd i'r Dyffryn, a benthycid £3 i gynnorthwyo y rhai nad oedd ganddynt ond £10. Yn y ffordd hono defnyddid £13 yn nwylaw y cwmpeini yn y fath fodd ag yr ymfudai bedwar person â'r drydedd o gludiad un arall; tra nad ymfudent ond un trwy yr hen drefn, heb eu rhanu yn gyffelyb, yr hyn a wnaethpwyd weithiau.

Y gost a gyfrifir wrth ymfudo person y tymmor hwn yw £15; ac yr ydym yn cynnyg rhoddi benthyg £3 i'r rhai nad allant ond codi £12. Cluda £15 yn y ffordd hon bump o bersonau i Utah yn 1855. Drwy weithrediadau y drefn hon cynnyddir yr elw a geir drwy gyfraniad pob ceiniog i'r Drysorfa Ymfudol Barhaus bum waith gymmaint. Danfonir pump o bersonau i Seion yn lle un, i adeiladu tai, cynnyrchu ŷd, ac adeiladu dinasoedd, er cannaliaeth, cysur, ac amddiffyniaeth y lluoedd sydd i'w dilyn, ac i gynnorthwyo i ymbarotoi erbyn y dygwyddiadau hynod ag ydynt eisoes yn taflu eu cysgodau o'n blaen. Efallai y dywed rhai, "Mae hyna yn dda, ond nid yw yn fy nghynnorthwyo i o'r gormes ag wyf yn ddyoddef, nac ychwaith yn fy mreintio ag un fendith gyda'r Saint yn Seion." Ymresymwn ar y pwnc yn y lliw gwaelaf sydd resymol i syllu arno. Dywedwn fod y casgliadau mewn llawer enghraifft yn cael eu rhanu gan y Cynnadleddau rhwng y rhai a feddant

mewn rhan, ddigon i'w cludo eu hunain, a bod y drefn ragorol ei ffurfiad hon ddim yn danfon ond tri pherson, tra na ddanfonasid ond un fel arall; ni ammheua neb, mae yn debyg, nad oes inn o'r tri o leiaf mor deilwng á'r rhai a arosant. Caniatewch hyn, a chawn fod yr un faint o ddaioni yn cael ei wneuthur yn awr drwy anfon yr un hwnw ag oedd gynt, a dau ereill yn cael eu hanfon a allant fod lawn cystal á'r trydydd.

Yn awr Saint, pa fodd y mynwch chwi iddi fod? Un peth sydd yn sier, nad all neb o honom gael ein ffordd ein hunain, yn annibynol ar yr Arglwydd, yn y deyrnas hon. Pe yr ymgynghorid a'ch teimladau personol chwi a minnau, yn annibynol ar bob ystyriaeth arall, a bod y moddion o fewn cyrhaedd er ein boddio, ni fyddai un Sant y Dyddiau Diweddaf yn Nhrydain yn niwedd 1855. Ond nid felly y trefnodd yr Arglwydd; neu os trefnodd felly, ni chyrhaeddodd hyny ein gwybodaeth ni etto. Y goreu o gwbl a allwn ni wneyd, yw gweithio yn yr amser, y lle, a'r ffordd mae yr Arglwydd yn ei ragluniaeth a thrwy ei Ysbryd yn teimlo i gyfarwyddo.

Er ei fod yn debyg fod y drws yn agor yn llydanach lydanach o hyd i'r Saint i gasglu o'r gwledydd hyn, etto gwaith graddol ydyw, sydd yn gofyn amser, llafur, ac arian, ac ni ddysgwyliwn derfyn ar waith yr ymgasgliad am beth amser i ddyfod.

Danfonir am lawer o bersonau yn awr gan eu cyfeillion yn Utah, y rhai a aethant allan hyd yno, a fendithiwyd yn eu llafur ac a roddasant gyfran o'u meddiannau i ymfudo cyfeillion o'r wlad hon drwy Gwmpeini y D. Y. Farhaus. Mae hyn mewn un ystyr wedi ymhelaethu gweithrediadau y Cwmpeini, ac fe ellir tybied am lawer o bersonau á ymfudir fel hyny, mai drwy y rhoddion a gyfranir yma eu hymfudir.

Ni ffurfia y ddau gyfrwng uchod ond rhan o Drysorfeydd y Cwmpeini. Cyfranir cyfran helaeth gan y Saint yn y Dyffrynoedd i'r Drysorfa gyffredinol; ac nis gall neb am eiliad ymholi ai iawn ydyw eu bod i gael eu defnyddio yn gyfangwbl wrth reolaeth Cyfarwyddwyr y Cwmpeini.

Yn olaf, er diweddgloi y pen yma o'n pwnc, dywedwn fod llawn cymmaint o'r rhai anghenus wedi eu dewis i gael eu hanfon allan gan y D. Y. Barhaus, ag a dreuliant yr oll a gyfranwyd gan Saint y wlad hon.

Hyderwn ein bod yn awr wedi dweyd digon i dda gos defnyddioldeb y mesurau sydd yn awr mewn gweithrediad. Sylwn yn nesaf ar rai o'r egwyddorion a gynnwysir yn y pwnc hwn, fel y cryfhaer y gweiniaid, ac y cynnydder eu ffydd.

Y mae un brif egwyddor oddiar yr hon y penderfynodd yr Arglwydd na chaiff ei bobl dynu eu golygon, eithr ei bod hi idd eu mheddiannu yn gyfangwbl, a'u blaenori yn mhob peth a feddyliant, a wnant, ac a ddywedant, a hyny yw, mai rhaid fydd aberthu yn barhaus bob lleshâd personol, os bydd yn anghenrheidiol, er cyflawni y daioni cyffredinol mwyaf.

Gelwir yn barhaus ar y Saint i aberthu eu golygiadau personol i'r rhai hyny sydd goruwch iddynt, eu hamser a'u mheddiannau i chwyddo y D. Y. Barhaus, y Rhoddion at y Deml, ac i hwyluso pob amcan arall sydd er lleshad cyffredinol. Amser i ymegnïo ac aberthu ydyw hwn, ac i'r rhai hyny yn unig a feddiannant eu heneidiau drwy amynedd mewn gwneuthur yn dda, y daw y dydd yr hwn a tydd yn llawn llawenydd a bendith.

Nis gwelwn byth mo holl effaith ein hymdrechiadau, hyd oni allwn ganfod egwyddorion mawrion achos ac effaith, â pha rai y gweithreda yr Arglwydd yn ei ragluniaeth at ei bobl. Yr ydym yn taflu yr ychydig geiniogau neu sylltau a allwn eu hebgor i mewn i'r Drysorfa Ymfudol Barhaus; meddyliwn nad ydynt ond ychydig, ac nad ydynt braidd yn ganfyddadwy yn y swm cyffredinol, eithr nid ydynt ddim yn llai yno, ac fe'u defnyddiwyd i gynnorthwyo rhyw Saint ffyddlawn tua Seion, lle y llafuria yn ddiwyd i barotoi y ffordd i ereill, ac mewn amser ad-dala, nid yn unig yr hyn a dderbyniodd, eithr cyfrana yn haelionus er rhyddhâd i ereill. Cynnorthwyant hwythau ychwaneg yn eu tro, ac fel yr ymdreigla amser yn y blaen, ac y cynnydda yr ymgasgliad, cynnydda yr ychydig a roddwyd mewn ffydd a gostyngeiddrwydd hefyd, a'r daioni a wnaed a amlhâ yn barhaus. Daw y dydd pan y llawenhâ holl ddiwyd weithredwyr daioni yn ffrwyth eu llafur, a digonir eu heneidiau.

Nid yw yn anghenrheidiol i'r Saint edrych i'r dyfodol yn unig am eu gwobr mewn gwneuthur yn dda, canys mae yr Arglwydd yn bendithio y rhai ydynt ffyddlon yn nghyflawniad pob dyledswydd y deg canwaith cymmaint bob dydd a â heibio,

ac yn santeiddio eu gwasgfeuon a'u haberthau er eu lleshâd presennol yn ogystal a'u lleshâd dyfodol. O'r hyn leiaf, felly y profasom ni.

Ychydig o Saint, ar gyfartalwch, sydd wedi marw yn y wlad hon, hyd yn hyn, o'r clefydau heintus a ysgubasant ymaith gynnifer o'u hamgylch. Yn hyn, gweler rhag-ofal yr Arglwydd dros ei bobl. Etto ni all pawb weithredu ffydd ddigonol i orthrechu yr elfenau marwol a'u hamgylchynant. Wel, beth os nad allwn, ni waeth pa bryd, pa le, na pha fodd y byddwn farw, os byddwn yn ffyddlon, ac os cymmerir ni ymaith tra yn cyflawni ein dyledswydd; yna ni ddichon i holl alluoedd y tywyllwch attal gwobrwy ein gweithredoedd da rhag ein canlyn.

Er y dichon i chwi fyned tuhwnt i'r llen, a gosod eich cyrff i lawr yn y wlad hon, yn mlaen yr hwylusa gwaith yr Arglwydd, ar gynnydd mawr yr â yr ychydig a allwch chwithau wneuthur —adeiladir temlau, cesglir Israel, a cheir yn mhlith ei luoedd nerthol un a ymafla yn, ac a gwblhâ eich gwaith anorphenedig chwi. Yna y medwch mewn cyflawnder danteithlawn o ffrwythau eich llafur a'ch lluddest presennol, a'r bara a deflwch yn awr ar y dyfroedd a ddychwela i chwi yn mhen llawer o ddyddiau, wedi cynnyddu deg canwaith cymmaint.

Mae dynion yn rhy barod i farnu gwaith yr Arglwydd wrth eu golygiadau a'u dychymygion eu hunain, a pheidio eangu digon ar eu meddyliau i ganfod y gwaith mawr sydd o'u blaen. Mae yr Arglwydd wedi ail estyn ei law i gasglu Israel, a gwybydded y Saint yn sier mai pan y bydd pethau yn barod y gweithreda Efe mewn modd cyferbyniol i'r gwaith mawr a fydd i gael ei wneuthur, ac ni fetha oi gynlluniau Ef o eisieu moddion. Teyrnasoedd a deimlant ei allu yn gweithredu arnynt er gwaredigaeth ei bobl Ef, a chymhwysir golud dirfawr cenedloedd lawer at y cyflawniad o'r amcan hwn, ac ni fyddant alluog i attal ei law Ef. Nid yw y D. Y. Barhaus ond eginin sefydliad, gallu yr hon a amgylchyna y byd, ac a orfaela brif ffyrdd a llyngesau cenedloedd i gyflawni bwriadau yr Holl-alluog.

Cyf. William Lewis.

CYMMANFA DDWYREINIOL MORGANWG.

Ar y Sul, y 31ain o Ragfyr, cynnaliwyd y Gymmanfa uchod, yn Neuadd y Cymreigyddion, Merthyr. Yn bresennol yr oedd y Llywyddiaeth Gymreig, ac amryw o Lywyddion y Cynnadleddau, &c.

Wedi dechreu y cyfarfod boreuol, hysbysodd y Llywydd Robert Evans ei ddymuniad ar fod Duw trwy ei Ysbryd i lywyddu yn y Gymmanfa hon. Profodd yn eglur fod dyfod i Gymmanfaoedd yn lleshâd mawr i'r Saint, er iddynt allu teimlo yn ddedwydd. Dywedai nad oedd pawb, o bosibl, yn teimlo mor ddedwydd â'u gilydd yno; y rhai sydd yn meddu y teimladau goreu yw y rhai sydd wedi bod yn fwyaf ffyddlon i adeiladu teyrnas Dduw yn y cbwarter mynedol; y mae Duw yn bendithio y cyfryw â theimladau cysurus. Os oes yma rywrai ereill a ddymunant deimlo yn ddedwydd, hydded iddynt ufyddhau i gynghorion Duw trwy ei weision, oblegid oddifry mae y teimladau hyny yn deilliaw oddi wrth Dad y goleuni.

Yna galwyd ar y Llywyddion i ddweyd sefyllfa eu Cangenau, yr hyn a wnaethant yn llawen. Tystiasant eu bod hwy â'r Saint mewn teimladau rhagorol, ac mewn awydd mawr i fedyddio. Bu ffyddlondeb canmoladwy mewn amryw fanau i ddosparthu traethodau, ac y mae ffeithiau yn profi mai yn y lleoedd hyny y mae mwyaf o fedyddio, ynghyd a phob ffrwythau da ereill.

Dangoswyd cymmeradwyaeth unfrydol i holl Lywyddiaethau yr Eglwys, a chafwyd cymmeradwyaeth hollol i bob mesurau a osodwyd gerbron, ynghyd ag addunedau diysgog i'w cario i weithrediad buan.

Yna sylwodd y Llywydd R. Evans ar y fraint a gawsom o glywed yr Efengyl yr hon sydd yn ddadguddiad. Wedi ufyddhau i'w gofyniadau yr ydym yn derbyn ei bendithion; wedi credu a chael ein bedyddio, ynghyd a chael arddodiad dwylaw y derbyniasom yr Ysbryd Glân, a chael gwybodaeth mai dyma waith Duw. Nid oeddem yn gwybod mai hon oedd Efengyl Crist pan yn cael ein bedyddio, eithr wedi hyny ni a gawsom dystiolaeth mewn nerth ac mewn sicrwydd mawr. Felly befyd gyda yr holl orchymynion ereill ag sydd genym i'w cadw: wedi eu cyflawni y cawn ein gwobrwyo, ac y gwelwn eu mawr werth.

Sylwodd hefyd ar y cyssylltiad sydd rhwng y Saint â'u gilydd ac â'r nefoedd, o'r Llywyddiaeth yn Seion hyd y Llywyddiaeth yn Nghymru; fod Duw yn bendithio y Saint trwy y dynion hyn, pa rai sydd yn dal yr Offeiriadaeth. Mae Duw yn rhoddi ei Ysbryd i'r Offeiriadaeth, ac yn ei roddi i'r Saint a ufyddhant iddynt. Felly dysgwylia Efe weled ffrwythau arnom oll, trwy wneuthur fel y mae ei weision yn ein dysgu Nid oes cymmeradwyaeth gan Dduw i neb am wneyd yr hyn a welont hwy yn dda. Nid felly yr oedd Iesu Grist, dywedai nad oedd Efe hyd y nod yn llefaru o hono ei hun, ond yr hyn a ewyllysiai ei dad iddo Felly y dylem ninnau oll wneuthur, fel y mae yn dywedyd wrthym. Nid oes neb o'r brodyr yn gofyn i mi beth sydd i wneyd i'r rhai sydd yn credu. &c., y maent yn gwybod mai trwy eu bedyddio y cânt eu bendithio; felly y dylem ninnau ddeall mai trwy wneuthur fel ein dysgir y cawn y fendith.

(I'w barhau.)

AMRYWIAETHAU, &c.

Cymmanfaoedd y Gogledd.—Cynnelir Cymmanfa Sir Flint ar y 4ydd o Fawrth, Dinbych ar yr 11eg, Dyffryn Conwy ar y 18fed, a Sir Feirionydd ar y 25ain.

Derbyniadau am Lyfrau o Chwef. 1 hyd y 9.—Thos. D. Evans, 12s.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones, "Udgorn Seion" Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Araeth y Llywydd B. Young	49
Llythyr oddiwrth Samuel Evans, gynt o Gangen Merthyr	53
Cymmanfa Llanrwst	54
Ansawdd Arwyddion yr Amseroedd	55
Golygyddiaeth—Newyddion o Utah—Cymmanfa Gyffredinol Dinas y Ll. H. Mawr—Y Tafleni Cyfrifiadol	56
Y Drysorfa Ymfudol Barhaus	58
Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg	63
Amrywiaethau, &c.	64

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

RHIF. 5.] MAWRTH 3, 1855. [CYF. VIII.

SYLWADAU,

Gan y Llywydd Heber C. Kimball, Medi 17, 1854.

ARETH cryn amser heibio er pan y llefarais wrth y gynnulleidfa yma, a theimlaf fel y mae yn o debyg y teimla llawer ereill, po hiraf yr eisteddaf, a pho leiaf a ddywedaf, po fwyaf ym haflonyddir gan ofn. Ai ofn Duw yw? Nage; math o ofn bydol ydyw, —ofn dynol. Yn awr nid oes berson braidd ar nad yw yn meddu y teimladau hyn ar brydiau. Yr wyf yn cofio clywed y Brawd Joseph Smith yn dweyd lawer gwaith fod ei gliniau wedi crynu yn aml fel eiddo Belsasar, pan y cyfodai i lefaru gerbron y byd, a cherbron y Saint.

Cefais addysgiadau yn yr hanes a roddodd y brawd Staines, er nad allasai adrodd yr holl brofiad a gafodd oddiar pan y daeth i'r eglwys hon, er ys tua deuddeg neu bedair blynedd ar ddeg yn ol. Pe gallasai ei gofio oll, a'i adrodd, teilyngai ei brofiad ein sylw manylaf. Y mae yn dda, ac fe'm llesolwyd ganddo. Llesolir fi gan bob peth sydd yn dda; ac mewn ffaith, llesolir fi gan lawer iawn o bethau nad ydynt mor neillduol o dda, canys nid oes dim a welaf ar y ddaear, neu yn y nefoedd, ar nad yw yn perthyn i mi, ac yn rhoddi i mi brofiad. Pan welaf ddyn yn cymmeryd ffordd gyfeiliornus,—y ffordd a arweinia i farwolaeth, y mae yn brofiad i mi, ac agora fy llygaid i ochelyd y cyfryw lwybr. A dysgir ni, os na ddysg dyn drwy addysg, na thrwy esiampl, y bydd ganddo i ddysgu drwy

ei ddyoddefaint. Wrth weled esiampl ddrwg dyn arall y gallaf finnau ochelyd y cyfryw lwybr, a bod yn ddiangol rhag ei drafferthion. Bid siwr, y bydd ei brofiad yn ysgol-feistr i mi; canys os peidiaf ag ymlwybro yr un ffordd, ni ddyoddefaf yr un anhawsderau ag ef.

Yn ystod fy holl ymarweddiad, o'r dydd y clywais gyntaf am Formoniaeth, er ys mwy nag ugain mlynedd yn ol, ni fu genyf ond un dymuniad, a hyny yw, i wneyd yr hyn ym cynghorir, ni waeth i mi pa un ai trwy lais Duw, neu lais ei weision, yr un yw yr oll i mi. Pan yr elom allan fel gweision Duw, ni a ysbrydolir gan yr Ysbryd Glân, ac fe lefara yr Ysbryd Glân y gwirionedd, a hwnw yw gair Duw,—dadguddiad Iesu Grist a llais Duw atom ni ydyw.

Pan y gorchymyna Efe i ni fyned allan a phregethu ei air, a chyhoeddi ei efengyl, ffydd, ac edifeirwch, a bedydd er maddeuant pechodau, ynghyd ac arddodiad dwylaw er derbyn dawn yr Ysbryd Glân, dyweda ei fod yr un fath â phe ei lleferid drwy ei lais Ef ei hun, ac fe arhosa yr un condemniad ar y byd, ac ar y bobl hyny a'i clywant ag nad ydynt yn ei garu, ei gadw, a rhodio ynddo. Hon yw fy nhystiolaeth, ac hon yw y dystiolaeth a ddadguddiodd Duw i ni fel pobl. Pan y danfonodd allan ei ddyscyblion yn ei ddydd Ef, dywedodd "Os na wrandawant arnoch chwi, ni wrandawant arnaf innau; ac os na ufyddhant i chwi, ni ufyddhant i minnau, ac os na ufyddhant i mi, ni ufyddhant i fy Nhad." Felly y mae gyda ni, os na wrandewch ar, ufyddhau i, ac ymarfer â'r pethau a osodir ger eich bron gan y Llywydd Young, a chan ei frodyr, ni ufyddhaech i Dduw pe y llefarai o'r nefoedd. Paham? O herwydd mae yr Hollalluog wedi ei benodi ef yn gynnrychiolwr iddo, yr un cystal ag y penodasom ni Doct. Bernhisel yn gynnrychiolwr drosom ni i'r *Congress*, i osod ger ein bron yr hyn bethau a ofynwn mewn cyssylltiad ag ef. Nid aeth i wneuthur ei ewyllys ei hun, eithr ewyllys y rhai a'i danfonodd ef. Felly y mae gyda y Llywydd Young. Efe yw ein Pen, efe yw ein Llywydd, ein Prophwyd, a'n Harweinydd, ac yn ol penodiad Llywodraeth yr Unol Daleithiau, efe yw ein Llywodraethwr. Yr oedd felly yn flaenorol mewn cylch eglwysig. Ei lais yntau i'r bobl hyn yw llais Duw, yr un gymmaint ag oedd Moses yn Dduw, pan y galwodd ac y gosododd Duw ef i lywyddu yn mhlith plant

Israel. Ei lais ef oedd llais Duw i'r bobl hyny, a phan na wrandawasent, dyoddefasant y gosp. Darllenwn i ddwy fil ar hugain syrthio mewn un diwrnod o herwydd eu gwrthryfel. Gwrthryfelasant yn erbyn Moses, yn erbyn ei gynghor, ac yn erbyn ei lywodraeth; yr hyn oedd, bid siwr, yn wrthryfel yn erbyn y cynmeriad a'i danfonodd ef. Duw a'i danfonodd, ac a'i hawdurdododdd; ac atom ni mae y Llywydd Young wedi ei anfon, ei ordeinio, a'i benodi, gan yr Hollalluog, yn olynydd i Joseph, i arwain y bobl hyn. Dymunaf i'r byd wybod hyn,—i'r bobl sydd yn dyfod i mewn i'r dyffrynoedd hyn yn anghredinwyr mewn Mormoniaeth i gael gwybod pa beth a gredwn. Y mae yn debyg nad oes ond ychydig ddynion yn yr Unol Daleithiau ar na wyddant ein bod yn edrych at y Llywydd Young fel ein harweinydd, ein prophwyd, a'n dadguddiwr. Dymunwn i chwi ddeall fy mod i yn wirioneddol, a chredaf fy mod wedi ei wneyd i hollol foddlonrwydd y bobl hyn. Mi a'i profais drwy fy ngweithredoedd, o'r dydd y daethym i mewn i'r eglwys hyd yr amser presennol.

Yr oedd Joseph Smith yn Brophwyd i Dduw. Cafodd ymweliadau angylion santaidd o'r nefoedd, y rhai a'i hawdurdododd i drosglwyddo yr efengyl i'r genedl hon, cynllun yr iachawdwriaeth, a bywyd tragwyddol, yr hon a wna achub pob dyn a benyw a'i credo, ac a'i hymarfero yn eu bywyd,—yn eu mynediad allan, a'u dyfodiad i mewn. Yr wyf yn gwybod y gwna hi eu hachub. Cawsoch fy nhystiolaeth, a'm tystiolaeth sydd wir, a chwi a'i profwch, bob enaid o honoch a'i hymarfera.

Credwn fod y llyfr hwn, (y Beibl,) yn gyfrif hanesyddol o Iesu Grist, ei Apostolion, a'i Brophwydi. Credwn ei fod yn gyssegredig, ac mae mwyrif dirfawr y bobl hyn yn ei ymarferyd yn weithredol, ac nid oes dyn na benyw yn yr eglwys hon yn ei gredu ar na fedyddiwyd er maddeuant o'u pechodau, a hyny hefyd trwy drochiad, wedi eu claddu gyda Christ trwy fedydd. Wedi gwneuthur hyn, a chael arddodiad dwylaw, galluogir hwy i dderbyn dawn yr Ysbryd Glân, ac y maent wedi eu hawlio ag aelodiaeth yn eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf. Os anrhydeddant yr aelodiaeth hon, gan fod yn ffyddlon, hwy a barhânt ynddi, nid am amser yn unig, eithr am dragywyd loldeb,—yn oes oesoedd. Fy nheimladau a mhenderfyniad i yw parhau hyd y diwedd.

Yr wyf yn awr yn fy mhedwaredd flwyddyn ar ddeg o deugain; yr wyf yn Sant y Dyddiau Diweddaf, yn gyflawn yn y ffydd, ac nid yn unig yn y ffydd, eithr y mae genyf wybodaeth o wirionedd y gwaith hwn. Gwn fod Duw yn fyw ac yn preswylio yn y nefoedd; canys yr wyf wedi gofyn iddo ugeiniau a channoedd o weithiau am bethau, ac yr wyf wedi eu cael Onid yw hyn yn brawf go gadarn ei fod yn fy ngwrando pan y gofynwyf iddo am bethau ac y derbyniaf hwynt; ac onid yw hyna yn brawf ei fod yn fyw ac yn preswylio yn y nefoedd? Meddyliaf ei fod. Tybiaf ei fod yn byw yno, ni allasai fyw yn un man arall, eithr yn mha ran neilldiol y mae yn byw nis gwn yn benodol, er nad yw Efe cyn belled i ffwrdd ag y tybia llawer. Y mae yn agos ar bwys, ei angylion yw cin cymdeithion, y maent gyda ni, ac oddiamgylch ogylch i ni, ac yn gwylied drosom; ac yn gofalu am danom, a'n harwain a'n tywys, ac yn gweinyddu i'n hanghenion yn eu gweinidogaeth, ac yn eu galwad santaidd i ba un eu penodwyd. Hysbysir ni yn y Beibl fod angylion yn ysbrydion gwasanaethgar i weinyddu i'r rhai hyny a fyddant etifeddion iachawdwriaeth.

Mewn gwirionedd, meddaf, edrychwch ar y byd anghredinioi, neu ynte lawer o honynt, credant yn awr mewn *spiritual knockings, spiritual communications*, a *spiritual rappings*, a gofynant i'r un ysbryd am hyn a'r llall, am wybod y naill beth a'r llall; ac "Oni achoswch chwi i'r bwrdd hwn daflu ei goesau i fyny, a'r gadair hon i ddawnsio, a churo fan yma a churo fan draw?" Credant hyn oll, eithr ni chredant y gall Duw gyfrinachu. Ac ar yr un pryd mae y rhai a gyfrinachant â hwy yn ysbrydion halogedig, a gallant wybod hyny, ac etto dywedant y medrant lefaru o'r nefoedd, ac hysbysu y naill beth a'r llall, a dweyd wrthynt pa le mae eu cyfeillion. Os gall ysbrydion drwg wneyd hyn, dymunaf wybod, ar yr un egwyddor, os nad oes gan y cyfiawnion allu i gyfrinachu â phlant. dynion? Ac onid oes gallu gan Dduw i'w wneuthur? Oes, y mae. Mae yr holl fyd yn awr yn ymlawenhau yn y pethau hyn.

Ni chlywais i guro, ac ni welais fwrdd yn dawnsio erioed, ond yn unig fel ei troediais fy hunan. Nid wyf am eu holl guro a'u dawnsio o amgylch i mi.

Ni chred pobi y byd mewn dadguddiad oddiwrth Dduw, a garedant mai dyn ffol oedd Joseph Smith am gymmeryd arno

i gael da lgnddiad uniongyrchol o'r nef, ond etto ymuhaut oll â'r mater hwn, mewn cael dadgnddiadau gan ysbrydion drwg, dialogedig, ac awybodus i raddau, ynghyd a dyncon drwg. Daeth rhai yn ysgrifenyddion ysbrydol trwy fod ysbryd yn ymaflyd yn eu llaw, ac yn ysgrifenu heb eu caniatâd. Ni ddiolchaf i unrhyw berson i gymmeryd fy llaw i, ac ysgrifenu heb fy nghaniatâd: nid ydym ni yn chwennych y fath drafodaeth. Credwn yn eu bodoldeb, ond nid ydynt yn eiddo i ni. Derbyniwn hysbysiadau ar egwyddor arall, a hyny yn uniongyrchol o'r nefoedd, oddiwrth weision, cenadon, neu weinidogion Duw; credwn fod hyn yn well; a bwriadwn ymwneyd â'n crefydd, a chymmeryd ein llywodraethu ganddi.

Mae yn ddrau genyf y gwel y boneddigion a ddaethant i mewn eleni wahaniaeth yn mosaw ac ymddygiadau y bobl yma, yn gyferbyniol i'r dinasyddion a gyd-drigent â hwy o'r blaen. Ni chaniatawn rai ymarferiadau yn ein Dinas ni a ganiatcir ganddynt hwy yn yr Unol Daleithiau, o'r hyn leiaf, yn eu holl ddinasoedd mawrion. Ceisiwn fyw bywyd *rhinweddol* a santaidd, gan wneyd i eraill fel y dymunem i eraill wneyd i ni, ac o herwydd hyny y gŵrwyd llawer o honom o'r Unol Daleithiau; dywedaf lawer o honom, oblegid fod yma lawer na yrwyd yma, eithr a ddaethant wedi yr amser ein gyrwyd ni, ac yr ydym wedi myned trwy lawer iawn o dreialon. Soniodd y Brawd Stains am rai o honynt. Yr oeddwn yn un o'r rhai cyntaf, mewn cyssylltiad â'r Llywydd Young, a ddaeth i'r dyffryn hwn, pan yr oedd yn anghyfanneddle, ac ni allasem fyd y ned gael *map* o'r wlad oddiwrth Fremont, nac oddiwrth un dyn arall or deall y ffordd i'r lle hwn. Yr oeddwn i yn un a gymmorthwyodd i bigo y ffordd. Pan y cychwynasom i ddyfod yma, nid oedd genym fwy o ymborth nag oedd wrth gychwyn gan yr ymfudwyr hyny, i ba rai y danfonasom flawd y tymmor hwn. Nid oedd genym ond 112 pwys yr un, a daethom yma heb ddim, ond yr hyn a gymmwysai ein wageni, ac yn unig fel yr helasom ac y lladdasom helwriaeth. Pan y cyrhaeddasom y rhyd uchaf yn afon Platt ni feddai ein cwmpeini lonaid pen o fara. Edrychai hyny yn galetach i chwi nag amser y *crickets*, etto nid oeddem yn tuchan na grwgnach, canys yr oedd tu hwnt i'r nôd grwgnachol pryd hyny; anfuddiol *fyddai* heio, ni ddarperai hyny buffalo, antelope, deer, nac elk.

Yr ydwyf yn cofio ar un diwrnod, yr wyf yn credu mai pan yr oeddem ar yr afon Platt, i'r Brawd Brigham ddweyd wrthyf,— "Frawd Heber, pa beth a feddyliwch chwi am dani, a ydych chwi yn meddwl yr awn yn mhellach?" Gwn iddo ofyn hyny er fy mhrofi. Atebais, "Y mae arnaf eisieu myned hyd ben draw ein taith, a ffeindio tywod-feini gwŷnion, a gweled pa beth sydd yn y ddaear." Ni fu diwrnod ar nad aethym gydag ef hyd nes y cawsom drigfan. Gwyddwn fod lle yn rhywle, er yr ymddangosai hyny weithiau yn o ddiargoelus, ond yma yr oedd, yn yr uchelder. Y wlad oreu ydyw hi a welais erioed. Yr wyf wedi preswylio yn mharthau goreu yr Unol Daleithiau, ond mae y wlad hon yn well. Yr ydwyf wedi bod yn byw lle y dargan-fyddodd Joseph y llafnau, a lle y gweinyddodd angel yr Arglwydd iddo; calon y byd ydyw, ond a ydyw y lle hwnw gystal â hwn? Nac ydyw. Nid yw yn dechreu cymmyrchu gwenith, ŷd, ceirch, a phob llysieu ereill a chwennycha y galon, fel mae y wlad hon. Yr ydym yn myned i fod yn gysurus yma.

Mae mintai o fyddin yr Unol Daleithiau wedi dyfod yma; gwelwch mor haelionus y cynnygiasant am wenith, ac nid yn unig am wenith, eithr am geirch, barlys, ŷd, clorom, caws, cywion, betys, moron, panas, a phob peth a chwennychant brynu. Ni ddywedwn gymmaint am y masnachwyr, y mae ganddynt hwy ddigon. Cewch weled mor lidia y gwnawn i'r trigolion ansefydledig deimlo y ganaf hwn.

Mor gysurus y teimlant, ac y llawenychant am fyw yn nghanol pobl wŷnion. Ni feddyliasant am foment ein bod yn ddynion a benywod *gwŷnion*, eithr pan y daethant yma, dealiasant, er eu mawr syndod, fod y bobl yn Utah yn eithaf gwŷn, ac yn hollol o'u gwlad hwy eu hunain. Benditbier eich eneidiau, yr ydym ni yn bobl ryddion, nid oes gwlad slafaid yma; ette cyfaddefai ein bod yn slafio yn o galed i godi yr holl bethau gwych hyn. Wel, yn awr, na ddigalonwch, gwnewch eich hunain yn gysurus; ymddygwch yn dda tuag atom ni, ac fe ymddygir yn dda tuag atoch chwithau, ac fe fydd y driniaeth oreu o honoch a gawsoch yn eich bywydau; ond, DWYLAW I FFWRDD. Llefaraf yn union fel y teimlaf. Mae fy nghalon yn dda, cymmwynasgar a rhwydd; ond y mae llaweroedd o ddynion calon-rhwyddach nâ myfi, ac etto y mae llaweroedd nad ydynt gymmaint felly. Y mae gan bob math o ysbrydion bob math o gyrhaeddiadau. Y mae cyn-

nifer o ysbrydion ag a welwch o bersonau, canys y maent oll ag ysbrydion ynddynt; mae rhai yn fwy sarug nâ'u gilydd, ac y mae rhai yn fwy haelionus, cymmwynasgar, a chalon-rwydd, ac yn fwy rhydd oddiwrth hunanoldeb nâ'u gilydd. Os ffaith yw hyna, profa y gellwch chwithau ddyfod yr un mor galon-rwydd â'r rhwyddaf o honynt. Ceisiwn fod ynte, a'r hyn a ddywedaf wrth un Sant a ddywedaf wrth yr holl Saint, ac wrth yr holl bobl a ddaethant i'r dyffryn hwn, byddwch haelionus, byddwch garuaidd, a byddwch yn Saint.

Yr ydym am i chwi fod yn Saint tra yr aroswch yma; canys gwyddoch y modd y gwnelai yr Apostolion, pan yr oeddynt yn mhlith y Rhufeiniaid, gweithredent fel y Rhufeiniaid, a thra yr ydych chwithau yn mhlith y Mormoniaid, gwnewch fel y gwna y Mormoniaid; byddwch galon-rwydd, a byddwch yn bobl *wŷnion*. Yr ydym ni yn bobl wŷnion, ganwyd rhan fawr o honom yn yr Unol Daleithiau, a llawer o honom yn yr Hen Loegr, a'n brodyr a'n chwiorydd ydynt. Daeth fy nhad oddiyno, ac ymladdodd dros, ac a gynnaliodd y wlad hon; os na wnaeth ef, gwnaeth fy nhadau, y mae yn ol yn y llinach yna yn rhywle. Daethom i gyd o'r ben wledydd ac i mewn i wlad newydd, i'r Unol Daleithiau; ac oddiyno yr ydym wedi ymfudo i wledydd mwy newydd fyth, i benau y mynyddoedd fel y dywed y Prophwydi. Dywedasant y cesglid y Saint yn y dyddiau diweddaf, ac yr ydym yn casglu i adeiladu dinas i enw ein Duw ni, ac yr ydym yn myned i adeiladu teml, ac addoldai, fel pan ddeuwch chwi yma y gellwch gyd-addoli â ni, a phan yr ydych yn mhlith y Mormoniaid gwnewch fel y Mormoniaid, gwnewch yn iawn, a chadwch orchymynion Duw. Dywedais lawer gwaith pan y delo dyn i mewn i fy nhŷ, os bydd yn Gatholic, yn Bagan, yn Grynwr, yn Fethodyn; yn Filwr, yn Gadben, yn Llywodraethwr, neu yn Llywydd, y bydd ganddo i ymostwng i dreſn fy nhŷ; a phan y plygaf ar fy ngliniau, byddaf am iddo yntau gyd blygu â mi. Dyna yw fy nghrefydd i, ymostynged a gweddied gyda mi; ac yna os af innau i dŷ dyn arall, os mai sefyll wna i weddio, safaf innau hefyd, a chyd-weddiaf ag ef. Mae hyna yn grefydd dda. Gwnewch fel y gwna y Rhufeiniaid tra yr ydych yn eu mhysg. Gall dyn sefyll, penlinio, neu eistedd a pheidio a gweddio, a bôd mor groes ag y myno, eithr bydded ddarostyngedig i lywodraethwr, neu lywodraeth y cyfryw dŷ, a phan yr elo i deyrnas arall, bydded ddaros-

tyngedig i'r cyfryw deyrnas. Mae Duw yn dweyd os ceidw dyn ei orchymynion ef nad oes anghen iddo dorri cyfraith y tir. Dyna fy nheimladau innau.

Byddwn yn Saint, a chadwn orchymynion Duw, a gofalwn am ein busnes ein hunain. Dyna fy ngretydd i. Yr ydym am i bawb dynion i wneyd hyn, carem i bob menyw i gadw yr un peth; i gadw gorchymynion Duw, a chadw eu hunain yn bur a glân. Ac os nad ydych yn lân, yn bur, ac yn santaidd, cynghorwn chwi i edifarhau am eich pechodau, a myned i gael eich bedyddio er maddeuant o honynt, gan santeiddio eich hunain a derbyn dawn yr Ysbryd Glân, fel y mynega i chwi bethau i ddyfod, gan ddwyn ar gof i chwi bethau a aethant heibio. Dyna fy nghynghor a'm cyfarwyddyd. Bendithied Duw chwi frodyr a chwiorydd, a bendithied yr holl bobl hyn, yn wrryw a benyw, hen ac ieuanc, y dweithr-ddyn, a phawb ereill; bendithied chwi a heddwch a llonyddwch, fel y caffom amser nefolaidd, amser gorfoleddus yn ystod y gauaf dyfodol. Bendithied Duw chwi â'r bendithion hyn, a phob rhai ereill, yn enw Iesu Grist. Amen

Cyf. WILLIAM LEWIS.

UDGORN SEION,

YR

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MAWRTH 3, 1855.

ARWYDDION YR AMSERAU.—Nid cuddiedig oddiwrth olygon "plant y deyrnas" yw y dudew gymylau a dywyllant awyrgylch ein byd; nid canedig eu clustiau hwy rhag ocheneidiau a gruddfanau gwledydd cyfain braidd, ac y mae gormod o derfysg, drygioni, dyoddefiadau, a chlefydau o'u hamgylch o hyd i allu anghofio mai gwawr dydd dïal y Duw mawr yw hyn oll—"dechreuad gofidiau na bu eu bath er pan yw dyn ar y ddaear, ac ni bydd ychwaith." Ni raid edrych i eithafion byd nac at wledydd ereill allan o'n hoff wlad ein hunain, am enghreifftiau o ddadymchweliad Babilon Fawr, ac o allu Duw i waghâu y byd

o'i drigolion. Pa le mae heddyw, gadernid, mawredd a gogoniant y deyrnas "gadarnaf, eangaf, ac ardderchocaf dan haul" —yr hon drwy ystod deugain mlynedd o heddwch a lywodraethai ar foroedd y byd, ar diriogaethau yr hon ni fachludai yr haul ddydd na nos? Er ys llai na blwyddyn yn ol addurnau ei llyngesau wynebau y moroedd dwyreiniol, fel cynnifer o feirch tanllyd yn rhuthro dros forfa gwyrdd i ryfel; a thra yr adleisiai bonllefau ugeiniau o filoedd o ddewrion ar eu byrddau yn ugororau eu gwlad, am fuddugoliaeth ddychymygol ar eu gelynion, y newyddion galarus a diddysgwyl a geir yn ol yw nad oes yn ugweddill ond tua deg mil o'r fyddin wrolaf ac ardderchocaf a adawodd ein gwlad—dim un o bob pump yn gallu ymlwybro fel cysgodau drwy y llaid a amdöa wynebau dros ddeugain mil o'u cyd-filwyr, y mwyafrif o ba rai a fuont feirw o newyn neu o oerfel, tra yr oedd digonedd o ymborth a dillad yn braenu yn eu hymyl. Tra mae y gweddillion o'r fyddin o flaen Sebastopol wedi eu cau rhwng byddinoedd Rhosocach o'r Rwsiaid, megys pe baent Baalsephon a Phihahiroth ar bob llaw, yn aros eu tynghed, ac yn uchel alw ar eu gwlad am gymhorth,—beth a wneir at eu cynnorthwyo? Ar gynnygiad yn Nhŷ y Cyffredin i chwilio i ddirgelion eu gweithredoedd er deall yr achos o'r camwri, yr esgeulusdod os nad y fradwriaeth a achosodd y fath ddifrodaeth ar y fyddin, dinga ein prif Lywodraethwyr tu ol i'r guddlen drwy roddi eu swyddau i fynu pan yr oedd mwyaf o'u hangheu'i weithredu yn effeithiol i achub y gweddill o'r fyddin; a gadawsant y wlad nid yn unig heb fyddin, ond heb lywodraeth hefyd, a gadawsant y genedl heb amynedd braidd i aros yn hwy, nac i ymddiried mewn arall i'w llywodraethu:—boneddig a gwreng—pawb yn unllais a addefant y diffyg o'r gallu llywodraethol anhebgorol er achub y wlad yn y cyfyngder olaf. At arglwydd Palmerston, fel yr unig iachawdwr, edrycha llygaid y wlad—rhoddwyd awenau y llywodraeth yn ei law, a gwnaeth ei oreu i ffurfio llywodraeth. Y canlyniad yw, mae e fenau yr hen lywodraeth mor debyg i ddefnyddiau y ddelw a welodd Nebuchodnosor fel na ddaliant wrth eu gilydd am bythefnos heb fyned yn gyrbibion cilwgith. Pwy na wel fod llaw anweledig yn hyn oll rhy eglur i'w guddio na'i droi yn ol? Pa ryfedd fod y breichiau tragywyddol yn eael eu tynu yn ol, odditanynt, tra mai mewn breichiau o

gnawd dim cryfach nâ'r eiddo arglwydd Palmerston y mae eu hymddiriediad. Mae sefyllfa bresennol ein gwlad yn gyfryw na fu y cyffelyb er pan ei cyfenwyd yn "Brydain *fawr*," a pha hyd y caniata cenedloedd cylchynol iddi wisgo yr enw olaf, amser byr a ddengys. Mae ymdrechiadau mawrion yn cael eu rhoddi ar droed yn awr i gario y rhyfel yn y blaen gyda mwy o fywiogrwydd—bwriedir enlistio 60,000 o bobl ein gwlad yn ystod y flwyddyn hon; mae rhyw gwmpeini o Frainc wedi cynnyg codi byddin o 10 i 25,000 o Ffrancod i fod yn filwyr i Loegr, ac y mae yn debygol y cymmeradwya y llywodraeth eu cynnyg. Un o'r ffeithiau egluraf a allasai Prydain roddi o'i gwendid yn ychwanegol at yr holl elusenau a gaiff ei byddinoedd mewn dillad, ymborth, cymhorth i ofalu am eu cleifion, &c., gan y Ffrancod yw yr ymddibyniaeth hyn arnynt. A pha le yr ymguddia gweledyddion a phroffwydi ein gwlad rhag traethu beth a fydd y diwedd o hyn oll? Pa bryd y gwelant lygad treiddgar—cilddanedd a chrafanc estynedig y "bwystfil a gafodd glwy'â chleddyf ac a fu byw?" Pa lygad-craff a wela "wellhâd y clwyf" hwnw, y modd a'r amser di gwneir, ac a'i mynega i'r byd? Os oedd "dirgelwch yr anwiredd eisoes yn gweithio" er ys deunaw cant o flynyddau yn ol, mae ei olaf gampwaith wrth y drws yn awr ond odid. Ai tybied fod ei "santeiddrwydd" olaf hwn gymmaint mwy oenig nâ'r bleiddiaid yr hanodd o honynt, fel na chwennycha broselytio teyrnas ar unwaith i'w ffydd; neu a feddylir na cheseilia ei "fraich ddeheu ef," yr hwn a'i cadwa ef yn awr ar ei orsedd, mo y praidd a ddiangasant o'i gorlan er's cyhyd, yn awr pan yn ei allu? Ai tybied ei fod ef rhy ddiniwed i godi awenau meirch cerbyd ei ewyrthr o'r llaid, a marchog ynddo tra nad all arall ei rwystro? A'r rhai y rhoddwyd iddynt i ddeall arwyddion yr amserau y gofynwn y pethau hyn!

Tra mae milisia yr holl siroedd mewn ufydd-dod i alwad y llywodraeth, yn fyddinoedd cyfain braidd yn aberthu eu hunain yn ymborth i'r cŵn rhyfel—crytiaid ein heolydd wrth y cant yn yr wythnos yn ambell dref, yn dilyn lleisiau y "*fife* a'r *drum*," a'u gwaed yn berwi yn eu gwythienau am gymmysgu â gwaed eu gelynion ar "faes y frwydr," mae y newyn du, canlynol i ddyryswch masnachnol a gweithfäol, yr hwn sydd yn gyru miloedd o bobl hyd drefydd ein gwlad mewn gwallgof-

rwydd angeuol i dorri i siopau ar eu cyfer am fara i gynnal bywyd, yn fflangell effeithiol arall i chwipio dyoddefyddion ein gwlad yn lluoedd i'r gigyddfa am estyniad einioes. Yn y blynyddoedd mynedol edrychai dyoddefyddion gwledydd Ewrop dros y môr at y cyfandir gorllewinol, fel eu gwaredfan rhag gormes, a'u hystordŷ am luniaeth; eithr mae y dorau hyny wedi cau, y wlad ffrwythlon hono yn ymattal ei chynnyrch, a'i masnachau wedi dyrysu, nes yr oedd yn ddiweddar gant a hanner o filoedd o bobl, yn Nghaerefrog Newydd ei hun, yn begian yn ofer, ar Faer y ddinas i achub eu bywydau rhag marw o newyn; ac ar hyd heolydd dinasoedd gwahanol Daleithiau na wyddent gynt braidd beth i wneuthur â chynnyrch toreithiog eu dyffrynoedd, gwelir yn awr filoedd o bobl ar newynu yn erwydro am damaid o fara heb lygad i dosturio na braich i'w cynnorthwyo. Dylifa miloedd oddiyno tua'r dwyreinfyd, y rhai nid oes iddynt ddewis amgen braidd wedi cyrhaedd, ond chwilio am feddau yn mouwentydd y Rwsiaid. Mor bell o fod wedi cael ei ddigoni ar ysglyfaeth mae yntau, fel y bedd yn gwaeddi "moes, moes" o hyd. Mewn *Ukase* ddiweddar, dealltwn iddo orchymyn i arfogi a gwneuthur pob dyn a all gario arfau yn barod i ryfel, ac y mae yn codi pymtheg *roubles* o dreth ar bob erw o dir, ynghyd a gofyniad am bedair gwaith cymmaint o ymborth a nwyfau rhyfel â'r holl rai blaenorol.

Nid oes argoel heddwch yn hyn; ac er fod Arglwydd John Russel wedi cychwyn yn genadydd heddwch i'r cyngrair gwladwriaethol, tra na chydunant i ammodau amgen nâ gomedd i Rwsia fwynhau Sebastopol dan ei llawn arfau, nid tebyg y cyduna Nicholas i ddim arall, ac felly ni cheir heddwch mor gynted chwaith. Mae Ffrainc yn cryfhau ei byddinoedd yn gyflym, nes yr ymffrostiant fod ganddynt dros 100,000 ar y maes, ac ychwaneg yn myned o hyd; mae yr Amerawdwr ei hun yn bwriadu myned i faes y frwydr yn fuan, er fod galwadau taerion arno i aros gartref rhag ofn chwyldroad yn ei wlad ei hun. Mae chwyldroad bygythiol yn awr yn ngwlad y Sultan, ac hysbysir ni nad oes y ddegfed ran o'i fyddin gyntaf i faes y rhyfel yn awr yn fyw. Mae y taleithiau Ellmynaidd yn dweyd fod ganddynt 52,000 yn barod i frwydr, eithr y *dilemma* gwaethaf oll yw na wyddus,—na wyddant eu hunain etto, o blaid nac yn erbyn pwy y rhyfelant, er fod yn fwy na thebyg y

rhad lant hwythau ryw gŵr o'r chwareulawr cyn hir. Maé y gwledydd dwyreiniol drwy Persia, Affganistan, a'r India yn nhieli o fod yn heddychol—mae gan Nicholas hauwyr hadau bradwriaeth drwy dylyn oll braidd, ac y mae breniu Ava yn gofyn tâl gan Loegr am yr holl wlad a gymmerasant oddiarno. Mewn gair, mae sefyllfa ryfelawgr a mwy bygythiol ein byd yn eglur brofi fod "heddwch eisoes wedi ei gymmeryd oddiar y ddaear." Ychydig flynyddau yn ol, tra yr oedd yr holl fyd mewn heddwch, a'i ddoethion yn addaw parhad hir o hono, fe glywid bachgenyn yn unig yn dyrchafu ei lef, yr hon a adleisiau yn nghoedwigoedd y byd gorllewinol, gan waeddi "rhyfel, rhyfeloedd, a sôn am ryfeloeddd sydd wrth y drws, ac yn fuan trocha y byd eu cleddyfau yn ngwaed eu gilydd, hyd nes y bydd raid i ŵyr bynag na choda ei gleddyf yn erbyn ei frawd ffoi i Seion am heddwch." Pwy, pryd hyny, a'i coeliai? Pwy yn awr a'i ammheua? Pwy o'r sawl a wawdient weledyddion y dyddiau diweddaf, pan rybuddient y byd yn nghanol heddwch fol y cleddyf yn dyfod, a gocliant ac a ufyddhant i'w eu galwad, a dderbyniant yr unig waredigaeth gyrhaeddadwy iddynt?

Er mai gwaeth-waeth mewn drygioni y gyra barnau Duw y byd annuwiol—er fod y newyddiaduron a gyhoeddant gyflawniad manylaf ei brophwydoliaethau ef yn yr un colofnau yn gwaeddi yr "Hen Joe, yr argraffydd," "y cablwr," "y twyllwr a'r gau brophwyd," ac â'r un pin wedi ei drochi yn yr un inc yn haeru mai y "ffieidd-beth mwyaf anfoesol ac anynol" o bob ffug yw y grefydd, yr unig grefydd a ddyry oleuni yn nlaen ar dynghed yr oes, a'r unig un a ddangosa waredigaeth; ac er fod yr oes faich hon yn rhuthro tei march i'r frwydr; er hyn oll, meddwn, dyrchafa plant y goleuni eu penau, gan wybod nad yw yr holl bethau hyn ond nodau arddangosiadol o ddynesiad eu Brenin i'w deyrnas, ac o'r cyfnod gorfoleddus pan y rhoddir y freiniaeth o tan yr holl nefoedd i addfwyn ddyoddefyddion gwawd y byd—plant i Frenin yr holl ddaear. Symbyla hyn oll y Saint i fwy ffyddlondeb, o herwydd mae yr amser yn agoshau pan y dyry prif elyn Seion rwystrau ar eu ffordd, anorchfygol i bawb ond y "pur o galon." Annoga y pethau hyn y Saint i ddiwydrwydd i rybuddio eu cyd-ddynion yn onest, yn sobr, ac effeithiol, gan fod y perygl yn fawr a'r amser yn

brin; a dylai yr holl arwyddion hyn orfodi yr oll i fod yn barod erbyn y delo yr alwad "fel gwaedd hanner nos," ac na ellir eroesi y môr-werydd ar ei ol, y galwad olaf ar y Saint i Seion. Gwŷr parod caffer plant Seion oll.

Pregeth y Llywydd Kimball.—Yr hon a lanwa amryw o dudalenau y rhifyn hwn a deilynga fanwl graffiad ac ufydd-dod y Saint; ynddi gallant bwyso eu hysbrydoedd eu hunain, ac a archwaethant hwy Ysbryd Seion pe yno. Nid ysgafn tystiolaeth tyst mor hyddysg o'i fater. ac mor drwyadl ei brofiad yn ngwaith Duw ag yw efe; eithr pwysa yn nghlorianau gwirionedd eneidiau yr oll a'i hanghreda, pe yn lloned byd ar unwaith.

Y Cymmanfaoedd diweddar.—O herwydd anghyfleusderau gomeddwyd i ni gyhoeddi cofnodion y Cymmanfaoedd diweddar, eithr y mae yn ddywenydd genym gael ar ddeall fod undeb cyffredinol yn ffynu yn mhlith y swyddogion a'r Saint—fod pob Cynnadledd yn cynnyddu eu rhyfedi, ac yn arddangos penderiad i ymegnïo i rybuddio eu cyd-ddynion drwy draethodu a thystiolaethu. Hyderir na siomir ni yn yr addewidion haelionus a roddir i ni o dalu y dyledion sydd am lyfrau i'r ddwy Swyddfa, yr hyn sydd hawdd i'w wneuthur pe talai y Saint ar law am y llyfrau a brynant, a phe ymdrechent werthu y traethodau i'r byd. Mae y profion a geir yn arwyddion yr amseran enbyd hyn, ac yn mhob peth, fod Duw am dorri ei waith yn fyr, yn annogaethol i fod yn barod drwy dalu y dyledion a hôna yr eglwys. Mae yn ddigon cyfiawn i oedi rhoddi cymmeradwyaeth i'r sawl a allo ac ni thalo ei ddyled am lyfrau, i fyned i Gangen, Cynnadledd, nac i wlad arall, ac hyderir y cydwela pob gonest-ddyn yn hyny.

APPWYNTIAD COLONEL STEPTOE YN LYWODRAETHWR AR UTAH.

(Allan o'r "Star.")

Dinas Washington, Ionawr 4, 1855.

At y Llywydd F. D. Richards,—Anwyl Frawd,—Mae yn ddrwg-genyf eich hysbysu i'r Llywydd o'r diwedd wrthod ail-

appwyntio y Llywydd Young i'r swydd a ddeil yn bresennol. *Lieut. Colonel* Steptoe yw yr hwn a benodwyd yn ei le ef.

Ymddengys y Llywydd yn eithaf cyfeillgar, a dywedodd ar ymweliad blaenorol ag ef ei fod wedi derbyn llythyrau oddi wrth Colonel Steptoe, a'r Prif Ynad Kinney, yn llefaru yn anrhydeddus iawn am Lywodraethwr a phobl Utah, ac ychwanegodd, yn mhlith pethau ereill, ei fod yn dymuno gwneyd yr hyn oedd oreu i Lywodraeth a phobl Utah, ac os na phenodai y Llywydd Young, na phenodai neb ond un o'r cymmeriad uchaf, gan gredu y byddai yn well i'n pobl ni fod un o'r fath yn cael ei benodi, canys nid yn unig gwnelai gyfiawnder â ni, eithr llefarai yn dda am danom hefyd, yr hyn a wnelai lawer tuag at symud y rhagfarn sydd yn ein herbyn, ond etto mi gymhellais ail benodiad y Llywydd Young.

Nid oes gan y Llywydd un meddwl i ymyraeth a threfniadau teulaidd ein Tiriogaeth. Llefarodd yn y modd mwyaf canmoladwy am Colonel Steptoe, gan ddweyd ei fod yn foneddwr, ac yn ysgolhaig, a'r dyn mwyaf prydferth a adnabyddodd erioed.

Mae y Colonel yn dal cymmeriad uchel yma, ac yn cyfrif yn mhlith ei gyfeillion yr Anrhydeddus Oruchwyliwr *(Secretary)* y Rhyfel. Gan nad ellid sicrhau ail-appwyntiad y Llywydd Young, yr hyn sydd achos o ofid mawr i ni oll, nis gwn am neb a ystyriwn yn fwy cymmeradwy nâ'r Colonel Steptoe, ond mae ei gyfeillion yma yn credu na wna efe ddderbyn yr appwyntiad.

Yr eiddoch yn barchus,

JOHN M. BERNHISEL.

AI DUW A DDANFONODD JOSEPH SMITH?

(Dyfyniad o draethawd sydd yn awr yn y Wasg.)

Yn drydydd.—Ni buasai adferiad yr "efengyl dragywyddol" i'r ddaear drwy yr angel Moroni o unrhyw fudd i ddynion, oddieithr fod rhyw un wedi cael ei gynnysgaethu ag awdurdod i'w phregethu ac i weinyddu ei hordinhadau. Gallasai Moroni ddadguddio llyfr a gynnwysai drefn brydferth a gogoneddus yr iachawdwriaeth, eithr ni allasai neb ufuddhau, hyd y nod i'w hegwyddorion cyntaf, heb *weinyddwr o ddwyfol awdurdodiad* ac *ordeiniad* i'w phregethu, i fedyddio, arddodi dwylaw er cyflwyno

dawn yr Ysbryd Glân, &c. Eithr a ordeiniodd Moroni Mr Smith i'r apostoliaeth, gan orchymyn iddo weinyddu ordinhadau? Naddo. Eithr paham na chyfiawnodd *awdurdod* drwy *ordeiniad*, yn ogystal â dadguddio yr efengyl dragwyddol iddo? O herwydd nad ymddengys fod ganddo hawl i wneuthur hyny.

Nid yw pob angylion yn gydradd mewn awdurdod—nid y'nt oll yn dal yr un allweddau. Yr oedd Moroni yn brophwyd, eithr nid oes genym hanes ei fod yn dal swydd apostol; ac, os nad oedd, nid oedd ganddo hawl i ordeinio Mr. Smith i swydd na feddiannodd ei hunan. Diddadl iddo wneuthur yr oll a orchymynwyd iddo wneuthur, yr hyn oedd dadguddio "pren Ephraim,"—cronicl ei dadau, yn cynnwys yr efengyl dragwyddol. Pa fodd, ynte, y cafodd Mr. Smith swydd apostol, gan na feddai Moroni hawl i'w ordeinio i'r swydd hono? Tystia Mr. Smith fod Pedr, Iago, ac Ioan wedi dyfod ato yn angylion gwasanaethgar, â thrwy arddodiad dwylaw iddynt ei ordeinio yn apostol, gan orchymyn iddo bregethu, bedyddio, arddodi dwylaw er cyflwyno dawn yr Ysbryd Glân, a gweinyddu holl ordinhadau yr efengyl, megys y gwnaethent hwy eu hunain pan ar y ddaear. A broffesodd Swedenborg, apostolion Irving, neu unrhyw dwyllwyr ereill yn yr oesau tywyll hyn fod yr apostoliaeth wedi ei chyflwyno iddynt gan y rhai olaf a'i meddai—gan angel a feddai y swydd hono ei hunan? Naddo: o ganlyniad, nid ydynt apostolion, eithr twyllwyr. Pe proffesasai Mr. Smith fod wedi derbyn yr apostoliaeth drwy ddadguddiad yr Ysbryd Glân, heb ordeiniad o dan ddwylaw apostol, dealiasem yn eglur mai gau a fuasai ei broffes, ac mai twyllwr a fuasai yntau. Os yn dwyllwr, pa fodd y darganfyddodd Mr. Smith hyn? Paham na ffugiasai yr apostoliaeth heb ordeiniad gan apostol, fel y gwnaeth yr Irvingiaid? Pa fodd y cafodd efe gymmaint mwy o ddoethineb nag oedd gan Mr. Irving, fel ag i ddeall na allasai efe fod yn apostol oddieithr iddo gael ei ordeinio gan apostol? Rhaid i'r sawl a grêd mai gau apostol oedd Mr. Smith, gyfaddef ei fod wedi dangos llawer mwy o ddoethineb nag a wnaeth yr holl gau apostolion a fuont o'i flaen ef, er eu holl ddysgeidiaeth a'u talentau mawrion. Onid yw hyn yn ffurfio rhesymeg gyffelybiaethol arall bur gref i brofi *dwyfoldeb danfoniad Mr. Smith.*

Mae'r fath fanylrwydd â hyn mewn cyflawniad o bethau o'r

fath ddirfawr bwysigrwydd mewn gwrthgyferbyniad i'r ffaith fod miliynau wedi cyfeiliorni ynddynt o'r blaen, yn arddangos rhywbeth yn nwch-*ddynol*,—arddengys *ysbrydoliaeth* yr Hollalluog. Mae purdeb athrawiaeth Mr. Smith—cydgordiad perffaith ei dystiolaeth â'r eiddo Ioan o barthed i'r *modd* yr adferid yr efengyl dragywyddol i'r ddaear. a chyssondeb ei dystiolaeth am y *modd* yr adferwyd yr apostoliaeth yn dystiolaethau cedyrn, yn gydgordiol ardderchog â, ac yn cadarnhau eu gilydd; mae ein tystiolaethau yn amlhau, ac yn cryfhau yn gyfartal i yr ymchwiliad i bob sefyllfa ac amgylchiad cyssylltiedig; ac yn gorfodi argyhoeddiad braidd yn anwrthwynebol ar y meddwl fod Mr. Smith o *ddwyfol* ddanfoniad.

AMRYWIAETHAU, &c.

Dysgai y mamau Rhufeinig i'w mheibion wladgarwch,—i'w mherched ddiweirdeb.—Felly y gwna y mamau yn Utah yn gymhwys.

Yr Ymfudwyr.—Ni feddwn hysbysiad mwy penodol i'r ymfudwyr hyd yn hyn am yr amser i gychwyn, nâ dweyd fod y Llywydd Richards yn addaw gwneyd ei oreu i gael llong i'r oll gyd-hwylio o Liverpool mor agos i ganol mis Mawrth ag y gall gael un. Ceir hysbysiad pellach pan ei cawn.

Derbyniadau am Lyfrau o Chwef. 9 hyd Mawrth 1.—Griffith Roberts, 8s 6c; James Morgan, 15s 9c; John Davies, £1; Isaac Jones, £1 15 6c.

☞ Coffhawn y Llywyddion am y cyfraniadau i gynnorthwyo ymfudiad y Llywyddion rhag-grybwylledig! Anfoner yn brydlawn.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Sylwadau, &c	65
Golygyddiaeth—Arwyddion yr Amseran—Pregeth y Llywydd Kimball—Y Cymmanfaoedd diweddar	72
Appwyntiad Colonel Steptoe yn Llywodraethwr ar Utah	77
At Duw a ddanfonodd Joseph Smith	78
Amrywiaethau, &c	80

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 6.] MAWRTH 17, 1855. [Cyf. VIII.

DARLITH YR APOSTOL ORSON HYDE.

A draddodwyd yn Ninas y Llyn Halen Mawr, Hydref 8, 1854.

Fy anwyl Frodyr a'm Chwiorydd,—Galwyd arnaf y boreu hwn i wneyd ychydig sylwadau ar, a llefaru wrthych ynghylch y dull a'r modd o gasglu pobl Dduw.

Yn y lle cyntaf, i ddangos i chwi nad oes yr un grefydd â'r hon yr ydym yn gyfarwydd, oddieithr crefydd Saint y Dyddiau Diweddaf a ddichon ddwyn oddiamgylch drwy yr ymarferiad â'u gweithrediadau, y cyflawniad o rag-ddywediadau y prophwydi. Arddangosa yr holl gysgodau a'r ffigyrau a ddefnyddir gan ein Harglwydd a'n Hiachawdwr i ddarlunio gwirioneddau, mawrion a phwysig, y bydd yn y dyddiau diweddaf gasgliad y bobl ynghyd. Cesglir hwy gan y sugn-dyniad hynod a ffŷna yn yr amser pan na phwysir hwy i lawr gan dabernaclau marwol, eithr pan yn rhydd o'r clai beichiedig hwn, y sugn-dynir eu hysbrydoedd anfarwol oddiamgylch gorsedd Duw, yno i dderbyn croesawiad i'r gogoniant tragywyddol a barotowyd i'r cyfiawn, neu i gael clywed y ddedfryd arswydus, "Ewch chwi rai melldigedig i dywyllwch eithaf, lle y mae llefain, a wylofain, a rhincian dannedd!"

Ond, gyfeillion, y mae ymgasgliad y bobl i fod yma ar y ddaear. Pan roddo hauwr ei hâd yn y ddaear, y mae yn ei wylied, a'i drin yn ofalus; ni ddysgwylia ei gynheuaf medi mewn rhyw gŵr arall, eithr ar y tir yn mha un yr hauodd ei

hâd, ac yno y mwynhâ ffrwyth ei lafur; nid mewn rhyw wlad arall, ond yma.

Dywed yr Iachawdwr mai tebyg yw teyrnas nefoedd i rwyd a fwriwyd i'r môr, yr hon sydd yn dal pob math o bysgod, yn ddrwg ac yn dda; yn mhen ennyd, dygasant y rhwyd i'r làn, gan gasglu y pysgod da i lestri, a thafiasant y rhai drwg ymaith. Felly y bydd yn y dyddiau diweddaf; yn y diwedd, pan y dygir gorucliwyliaeth yr ymgasgliad i mewn, ac y tynir rhwyd yr efengyl i'r làn, nid mewn rhyw wlad ddyeithr, neu ar fynydd, tu hwnt i derfynau amser ac eangder; eithr ar y làn sydd yn ochri ymyl y dwfr, fel mae y ffigwr hwn yn tystiolaethu, felly ar y ddaear, y bydd ymgasgliad y bobl.

Dywedir wrthym hefyd yn mha ddull yr ymgasglant. Deuant ar fwystfilod cyflym—ar ddromedariaid a chamelod; "A llongau Tarsis a'u dygant adref, a phrif ffordd a agorir i brynedigion yr Arglwydd i rodio ynddi." Nid yw y brif ffordd hono yn un ansylweddol, ac yn arwain i drigfanau yn yr awyr, ond prif ffordd ydyw hi a wneir ar y ddaear; ac fe ddichon fod y rheilffyrdd a wneir yn bresennol yn un achos grymus i effeithio y cyflawniad o'r ymgasgliad. Ar y pwnc hwn y sylwodd y prophwyd pan y dywedodd, "Nid yw cenaw y llew wedi sengu yno, ac nid yw llygad y barcyt wedi ei weled? Yn yr amser hwnw nid ydoedd hi wedi ei hagor, eithr cuddiwyd hi i gael ei hagor yn y dyddiau diweddaf. Ni sengodd cenaw y llew yno erioed; ond, cyn hir, dichon iddo wneyd hyny ar ol ei hagoriad.

Syllai yr hen brophwyd ar gyflymdra cynnyddol llongau, ond fe wnaeth ein cyfleithwyr iddo ddweyd y danfonir cenadon cyflym at y cenedloedd pellenig mewn llongau o lafrwyn. Pa beth a ddeallwn wrth longau llafrwyn. A welwn neu a glywwn ni sôn am longau o'r fath yna, oddieithr y cawell a wnaethpwyd i Moses ymguddio ynddo ar làn afon yr Aifft? A ddarllenasom ni erioed am ddynion, cenadon cyflym yn myned mewn llongau o lafrwyn?

Ffolineb yw; ni wrthsafai llong o'r fath darawiadau y gwyntoedd a'r tònau, ac ni ymfarchogai yn ddiogel drwy ymrafaeliad yr elfenau â'u gilydd fel pe am amherodraeth; neu fel pe byddai tònau a gwyntoedd yn ymarfogi â dialedd hiraethus am weled pwy yn gyntaf a grafangai y brycheuyn lleiaf hwn a ymegnïa am fywyd ar wyneb yr elfen ferwawl. Pwy sydd yn credu

unrhyw beth o'r fath? Mae y drychfeddwl yn anghysson. Eithr pan y syllwn arno drwy ddrych arall, nid yw mor anghysson ac aneglur. Gŵyr y brawd Carn sydd yn bresennol pa fodd y darllena y Beibl Ellymynaeg. Credaf mai pibellau longau y geilw hwynt. Mae y lafrwynen yn gou ac yn tebygoli i bibell, ac ni feddai yr hen brophwyd un arddangosiad arall trwy yr hwn y darluniai ei ddrychfeddwl ond y lafrwynen; er iddo weled llongau ac ynddynt bibellau a cheuafnau *(tubes)* yn rhedeg bob ffordd, ac nid oedd ganddo yr enw "Agerdd-long" i'w henwi. Dywed y danfonid cenadon mewn Pib-longau, gan drych i'r amser y defnyddid grym agerdd er eu gyru. I ba ddefnydd y mae grym agerdd? Ai yn unig er lleshâd dynolryw? Neu a wnaeth Duw hwn yn offeryn pwysfawr er cyflawni ei waith—er hwyluso ei amcanion yn y dyddiau diweddaf? Mae yn ddiddadl mai bwriad y Creawdwr Mawr yw y mater; nid yn unig felly, eithr y mae peth arall mewn cyssylltiad â hyn, a ddywed yr Iachawdwr wrth son am ei ddyfodiad, bydd fel y goleuni boreuol, neu fel mellten a oleua o'r naill ben i'r nefoedd i'r pen arall, felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y Dyn. Pa beth a welwn yn cael ei lunio ar y ddaear i gyflawni bwriadau y nefoedd? Gwelwn y gwyfr trydanawl *(electric wire)* yn rhedeg o un wlad i'r llall, a myfyrir eisoes pa fodd ei osodir yn groes i'r Atlantic i ddwyn yr holl genedloedd i gyfrinach uniongyrchol a'u gilydd. Oni ymddengys hwn fel mellt a gyrhaeddant o'r dwyrain i'r gorllewin? Felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y Dyn. Mae yr hysbysydd trydanawl yn eu dwyn o'r ardaloedd dwyreiniol i'r rhai gorllewinol. Y mae mor gyflym fel y mae araeth a roddir yn ninas Washington am 12 o'r gloch yn cael ei hysbysu yn St. Louis am hanner awr wedi unarddeg yr un diwrnod. Eheda y trydanaeth gymmaint cyflymach nâ'r ddaear, fel y mae hanner awr cyn yr amserau rhwng Washington â St. Louis, felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y Dyn. Neu mewn geiriau ereill, yn y dyddiau diweddaf, bydd i hysbysrwydd ehedeg gyda'r fath gyflymdra, mor gyflym y bydd yn ei ddyfodiad. Yr ydym yn cyduno ein bod yn dynesu at yr amser hwnw yn agos iawn. Yr ydym ar gyrhaedd fel pe byddai i'w gymmydogaeth. Yn awr, meddai Ef, gwyliwch! pan weloch y ffigysbren a'r holl goed yn dechreu deilio, gwybyddwch fod yr hâf yn agos; a phan ddechreuoch weled

y pethau hyn yn dyfod i ben, cyfodwch eich penau a llawenhewch canys y mae eich gwaredigaeth yn agoshau.

Fe ddichon fy mod wedi dechreu yn y pen chwith i'm haraeth, ond os ydwyf, cyrhaeddaf ei phen arall cyn y terfynaf; fel y caffoch ei holl ranau os nertha yr Arglwydd fi drwy eich gweddian. Cewch gynnwysiad a helaethrwydd yr hyn a ofynwyd i mi ei hysbysu, ond rhaid i mi gael fy ffordd fy hun i'w draethu.

Y mae ymgasgliad y Saint ynghyd i gymmeryd lle, "Ond," meddir, "nid ydym yn credu y dygwydda ymgasgliad y bobl yn y dyddiau diweddaf yn llythyrenol; nid ydym yn credu y gweinydda angylion i ni mwyach." Y grefydd hen ffasiwn yw dweyd, "Y mae genym yr oll a ryngodd bodd i'r nefoedd eu rhoddi a phrofir hyny gan yr Hen Feibl anwyl. Arhosed yr angylion mewn gogoniant, a ninnau a arhoswn ar ein ffermydd, ni a awn i'r eglwys o flwyddyn bwy gilydd, ac a adroddwn yr un hen ffregel drosodd a throsodd, hyd onid elom i wared i'n beddau, a hyny yw diwedd ein gwasanaeth yn y cnawd." Oni welwch fod yr holl fyd Cristionogol yn gwrthod gweinidogaeth angylion, Saint y Dyddiau Diweddaf yn eithredig, ac ychydig ereill a gredant yn y pethau hyn?

Y mae amryw yn y dyddiau diweddaf a gredant mewn *Spirit Rapping*, ac yn y fath angylion na feddant eneuau i lefaru. Yr oedd geneuau gan yr angylion a ymwelasant â gweision Duw, a hwy a lefarasant! Beth pe gofynech ofyniad i mi, a bod genyf ddealltwriaeth a genau i gyfrinachu, ond yn lle llefaru achoswn i'r bwrdd neidio, neu troediwn y cadeiriau drosodd, a'r meinciau, &c. Pa beth fyddech chwi yn wybod am dano? Byddech yn gwybod fod y diafol idd ei dalu; gwybyddech fod yno hollol absennoldeb o deimlad da ac o ddoethineb. Crëwyd dyn ar ddelw Duw, ac y mae yr angylion santaidd a amgylchynant yr orsedd, y cenadon fflamllyd er cario ei ewyllys i ddyn, yn ei lun a'i ddelw ef. Pan y gwelodd hyd y nod gweision Duw yn y dyddiau cyntefig un o'r ysbrydion nefolaidd hyn, dechreuasant ymgrymu a'i addoli ef, fel pe mai efe oedd y Duw a grëodd y nefoedd a'r ddaear; ond gorchymynwyd hwynt i addoli Duw. Yno yr oedd, yn sefyll yn nelw yr hwn a'i gwnaeth, a chamsyniodd y prophwyd ef yn lle yr Arglwydd. Mae yr angylion hyn ar lun a delw Duw, ac y mae

dynion hefyd ar ei ddelw. Credaf, pe rhoddai Duw neges i mi gyflwyno i'r bobl, ac na chyflwynwn hi yn gyfreithlawn, y cauai Efe fy ngenau o herwydd na roddwn hi yr un fath ag ei cefais. *Spirit Rappings*, isel radd!

Beth yw y mater? Cymmerodd rhywbeth dychrynllyd le. Pa beth yw? Nis gallwn ddweyd dim wrthych yn ei gylch, ond y mae cynhwrf rhyfeddol; peth rhyfeddol a ddygwyddodd yn nhir Ham. Dywedaf wrthych y bydd y rhai hyny a wrthodant y gwirionedd a gynnygir iddynt gan weision Duw, y rhai sydd yn llefarn yn eglur wrthynt, ddyfod yn adnabyddus ag ysbrydion mwnglaraidd na wyddant ddim er eu lles: am hyny y denfyn Duw iddynt amryfusedd cadarn fel y credont gelwydd; fel y demnir hwy oll y rhai na chredant y gwirionedd, eithr a ymhyfrydant mewn anghyfiawnder. Pan y gwrthodo y bobl y gwirionedd, ânt yn bethau chwareuaidd ysprydion ffyrnig twyllodrus, yn cael eu bwhwman ganddynt fel bwrlwm ar y dôn. Nid yw gwir genadon oddiwrth Dduw yn dyfod yn y ffordd hyny; ond, meddai y byd, "Daeth angylion yn yr hen amser, ond ni ddeuant i'r ddaear mwyach, aethant i'r nefoedd, ac nid oes ychwaneg iddynt i wneuthur yma. Gallaf siarad â gwas y brenin pan nas gallaf siarad â'r brenin ei hun. Gallaf ddynesu at iselach raddau ei ddeiliaid pan na ddichon i mi agoshau at y cylch uchaf. Os gwrthoda dynion weinidogaeth angylion, a pheidio credu yn eu bodoliaeth, na sylwi ar eu geiriau, nis gwn pa fodd y cânt byth fynedfa i mewn at y brenin. Os na chydnabyddant ei swyddwyr, nis gwn pa fodd y llefarant â'r brenin ei hun.

A oes a fyn yr angylion â'r hyn a ddygwydd yn y dyddiau diweddaf? Mae Efe yn gwneuthur ei angylion yn weinidogion, a danfonir hwynt allan i weini i'r rhai hyny a fyddant etifeddion iachawdwriaeth. Mae yr Arglwydd yn holl-bresennol trwy ei ysbrydion gwasanaethgar, yr un fath yn union â rhyw frenin arall, gan yr hwn y mae gweinidogion drwy ei holl lywodraeth, ac y mae gweinidogion Duw yn mhob man; y mae ganddo weision wedi eu gwisgo mewn enawd ar y ddaear, y maent yn myned trwy y tir yn mhob pwynt, y mae Duw yn bresennol yn mhob man gyda hwynt; ac y mae ef yn gwybod pob peth. Pa fodd? Pan y mae ei angylion a'i swyddogion yn dweyd wrtho, fel rhyw lywodraethwr arall. Bum mewn rhai o

gylchoedd a chyfarfodydd gweddio y byd sectyddol, a chlywais eu gweinidog duwiolfrydig yn dweyd, "Tyred bechadur, ymgryma i iau Crist; wele angel ein presennoldeb yn aros am y swydd anrhydeddus o fyned a'r newydd i'r nefoedd, fod un enaid ychwaneg wedi ei droi." Os yw Duw yn ei wybod eisioes, i ba ddefnydd y mae angylion i fyned â'r newydd. Y mae Duw yn gwybod pob peth trwy ei oruchwylwyr, neu ei weision, ac fel hyny y mae Efe yn holl-bresennol. Ond pe gwelech chwi Ef yn gorfforol a phersonol, gwelech berson o'r un llun â chwi eich hunain. Pa fodd yr oedd hi gyda Stephan? A oedd Duw yn wasgaredig i'r pedwar gwynt yn mhob man? Os oedd efe felly yn fanach nag y dichon un cyfrifiad celfyddydol eu desgrifio, nis gallasech ei weled. "Ond Stephan yn gyflawn o'r Ysbryd Glân, a edrychodd yn ddyfal tua'r nef, ac a welodd ogoniant Duw, a'r Iesu yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Ac efe a ddywedodd, Wele, mi a welaf y nefoedd yn agored, a Mab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw Duw." Os oedd Duw heb gorff, rhanau, na nwydau, pa fodd y dcallasai Stephan pa un a oedd efe yn sefyll ar y llaw ddeheu neu ar yr asw, neu ei fod ar un o'r ddwy ochr?

(I'w barhau.)

DYFYNIADAU O LYTHYR O'R DYFFRYN.

Linas yr Helyg, Dyffryn y Ll. H. Mawr.
Hydref 25, 1854.

Fy anwyl Rieni,—Cymmeraf y cyfleusdra presennol i ysgrifenu atoch, gan obeithio eich bod chwi a'r teulu yn iach fel ag yr wyf fi yn bresennol.

Cychwynasom o'r Kansas, tua 13 o filldiroedd y tu yna i'r Dyffryn, ar yr 2il o Orphenaf diweddaf. Gan nad oedd cyfleusdra genym i gael lluniaeth wed'yn cyn cyrhaedd pen y daith, parotoasom fel pe y bwriadem groesi y môr. Cafodd pob un 100 pwys o flawd, 13 pwys o gig moch, afalau sychion, tê, siwgr, &c. Yr oedd deg o honom yn mhob wagen, a 50 o wageni yn ffurfio cwmpeini. Cafwyd llawer o laeth gan y da. Bu llawer o drafferth i ddysgu pa fodd i yru yr ychain, a chafwyd difyrwch mawr wrth ein gweled yn ceisio gwneuthur hyny.

Yr oedd Cadben ar bob deg wagen, a phabell i bob un. Gwyliwyd yn y nos gan chwech o honom ar y tro. Byddem weithiau yn gwneuthur amgau â'r wageni yn y nos yn barod er cael y da i mewn yn y boreu, a phan y gwaeddai y Cadben "*Hitch up your cattle*," cawseeh weled pob un yn brysio a'i dda tua'r wagen. Yr oeddem yn aros ambell ddiwrnod er i'r da i gael gorphwys, a'r henywod i gael golchi, a gwneuthur bara. Yr oeddwn i yn yr un wagen â William Richards o fro Morganwg; gwnaeth ei ferched yr holl olchi, ffwrnio, &c., ag oedd eisieu arnaf. Yr oedd y tywydd yn dwymn ar y dechreu. ac yn sych y rhan fwyaf o'r ffordd. Cododd y tir yn raddol hyd o fewn 200 o filltiroedd i'r Dyffryn. Yr oeddem y pryd yma yn 7000 o droedfeddi yn uwch na lefel y môr. ac yr oedd y tywydd yn lled oer. Gwelsom y *buffaloes* ar hyd y gwastadedd mor liosog â'r da ar hyd mynyddoedd Cymru. Yr Indiaid oedd ein cymmydogion. Ni chawsom un gofid o'u herwydd. Un dydd cyn i ni gyrhaedd Fort Laramie, lladdasant mewn brwydr 30 o'r milwyr oedd yno,—yn agos yr oll ag oedd yno. Dychrynodd hyny beth arnom, eithr cawsom fyned heibio heb wrthwynebiad. Gwelsom lawer o ryfeddodau ereill sydd rhy faith i'w nodi. ond mi a ddywedaf wrthych, deuwch ac edrychwch arnynt.

Danfonwyd wageni o'r Ddinas i'n cyfarfod, 300 o filldiroedd, wedi eu llwytho â lluniaeth fel na fu eisieu arnom. Cyrhaeddasom Ddinas y Llyn Halen Mawr ar y laf o Hydref. Gwelais luoedd o Saint a adwaenwn.

Mae y Ddinas wedi ei gosod yn y modd mwyaf ardderchog; rhoddir erw o dir at bob tŷ, costia ddolar a hanner yn gyffredin. Ennillir o 8 i 9 swllt y dydd am weithio. Pris y gwenith yw 8 swllt, a'r pytatws yn 4 swllt y bwshel, y cig yn 5 ceiniog y pwys. ac y mae y mwyrif yn gwneyd eu caws a'u hymenyn eu hunain. Mae y dillad yn ddrud.

Ymsefydlais i yn y lle hwn, sef Dinas yr Helyg, 15 o filltiroedd o Ddinas y Llyn Halen Mawr. Cefais waith i ladd gwair am 15 swllt y dunell, a chael dewis fy lle mewn maes o 12 neu 15 milltir ei faint: lleddais dunell y dydd. Dyma le i ffarmio; ceir tir am ddim ond talu am ei fesur, yr hwn a gynnyrcha y gwenith blasusaf a brofais erioed. Ceir un bwshel o bob saith am ddyrnu. Codir y ceirch, yr *Indian corn*, a'r pytatws goreu

yma, ynghyd a betys at wneyd siwgr. Mae yma ffrwythau na welais i erioed o'r blaen, sef y melons, a water melons; fe fwyteir llawer o honynt yn oer: maent yn debyg en blas i bêr y wlad yma. Cynnyrchir pob peth yma at gynnaliaeth dyn ac anifail. Nid oes eisieu tiroedd eang, o herwydd fod digon o dir porfa i'r anifeiliaid tuallan i'r lle y rhoddir y gwenith, &c. Mae bugeiliaid yn bugeilio y da, ac yn cael eu talu gan bob ffarmwr yn ol rhifedi ei dda. Ceir digon o wair heb gauad y caeau gwair, ond myned allan i'w dorri. Nid oes ei eisieu ond am y rhan fyraf o'r gauaf, ac felly nid oes achos i ddyn ddefnyddio ei dir i godi dim ond cnwd. Yr wyf yn meddwl am rai yna na wyddant pa fodd i gael tir, er boddloni talu yn ddrud am dano, y dichon eu bod yn fy ammheu, ac yn meddwl ein bod yn anghytuno â'n gilydd am y tir, ond y gwir wyf yn ddywedyd; fe gynnygiwyd 5 erw amgauedig i mi am weithio 16 o ddiwrnodau, ond dywedwyd wrthyf ei fod yn rhy ddrud. Mae yma bob chwareu teg i ddyn i fyw yn ol yr hyn a weithia, heb neb i fyw ar ei gost neu ei gaethiwo, eithr y mae cyfleusdra ganddo i fod cyfuwch â neb sydd yma drwy ei ymdrech. . . .

Dywedwch wrth y rhai a ddeuant yma nesaf am ddyfod â bachau ynghyd a rhwydau pysgota.

Yr wyf mor iach yma ag y bum erioed. . . . Bydded i chwi ufyddhau i'r efengyl, a dyfod yma. Cofiwch fi at fy ngyfeillion, a derbyniwch hyn oddiwrth

Eich anwyl fab,

EVAN MORGAN.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MAWRTH 17, 1855.

LLWYDDIANT YR EFENGYL YN NGHYMRU.—Hysbysir ni gan amryw Lywyddion Cynnadleddau eu bod wedi trefnu cyfarfod i holl Saint pob Cangen ddyfod ynghyd y nos Lun cyntaf, a'r

trydydd nos Lun o bob mis, i weddio am fendith yr Hwn a bia y gwaith ar ymdrechiadau ei blant drwy ein gwlad er achub eneidiau eu cyd-ddynion, a deallwn ei fod Ef yn cydnabod eu hymgais ac yn ateb eu gweddiau yn rasol, drwy dywallt ei Ysbryd Glân yn helaeth yn y cyfarfodydd hyny; ac o amryw fanau clywwn ei fod Ef yn cyfranu ei ddoniau ysbrydol ar y Saint yno, ac yn eu nherthu i argyhoeddi eu cymmydogion yn effeithiol. Mewn manau ceir bywyd adnewyddol i'r llesg, a doniau i'r rhai a fuasent ddiffrwyth yn hir; dosperthir traeth, odau i'r sawl a elo i'w gwerthu, ac yn y cyfarfod canlynol daw a'r tâl am danynt, a chaiff ychwaneg i wneuthur yr un modd. Felly gwertha rhai Cangenau yr holl draethodau a gaffant, a cheisiant chwaneg, a'r effaith o hyny sydd amlwg ar y prynwr a'r gwerthwr—mwynhâ yr olaf fwy-fwy o Ysbryd y gwaith, a llawenhâ yn ffrwyth ei lafur pan yn gweled y lleill yn dyfod yn aelodau o eglwys Dduw. Er mai dydd ychydig eiriau yw y dydd prysur hwn, a dydd i weithio yn gystal a gweddio, ettoc cofied y Saint bob amser gyssylltu y ddau ynghyd, canys er pob peth, "Duw sydd yn rhoddi y cynnydd." Dymunwn bob llwyddiant i'r cyfarfodydd hyn lle eu cynnelir, a dysgwyliwn na cheir Cangen hebddynt yn hir, nac aelod a all eu hosgeuluso. Pwy na wela y grym a fyddai yn ngweddiau ffyddlog a thaerion y Saint oll drwy ein gwlad ar yr UN AWR yn nghlystiau ein Tad; a phwy na phrophwyda orlifiad bendithion yn gyferbyniol i hyny? Gweddied, ïe, cyd-weddied y sawl a wyddant pa fodd i gael atebiad i'w gweddiau, nes cael y llwyddiant a deilynga y genadwri bwysig a gyhoeddwn.

Mae yr oll a welwn ac a glywwn yn y cylchoedd hyn, a'r hyn a ddeallwn oddiwrth Lywyddion Cynnadleddau ereill, yn brofion melys fod Duw yn llwyddo ei waith. Mae cynhwrf cyffredinol yn dechreu, yr esgyrn meirw yn ymysgwyd, ac yn treiglo i ddyfroedd bedydd yma, a manau ereill—traethodau, dan fendith Iôr yn deffro byd ac eglwys, a duwioldeb y Saint yn ennill parch ac ufydd-dod i'w crefydd.

"Y Mormon,"—Yw enw newyddiadur a gyhoeddir yn wythnosol gan yr Apostol John Taylor yn Ninas Caerefrog Newydd, U. D. America, ac yn ol yr enghraifft a geir o gynnwysiad ei rifyn cyntaf, yr hwn a'n cyrhaeddodd yn ddiweddar, ynghyd

a'n hadnabyddiaeth ni, a miloedd ereill drwy y ddau gyfandir, o fedrusrwydd ei Olygydd, teimlwn bleser mawr yn cymhell "Y Mormon" i sylw ein darllenwyr, gan obeithio y teimla ein dosparthwyr yr unrhyw bleser yn lledaenu ei gylchrediad hyd y gallant. Dyrchafa hwn, fel y dylai pob Mormon, ei lais nerth ei ben i waeddi yn nghlystiau ei chamgyhuddwyr, "Chwareu teg i Formoniaeth;" llanwir ei enau â'i detholion egwyddorol, hanesyddol, cartrefol a thramor, cymdeithasol, gwladwriaethol, crefyddol, philosophyddol a pholiticaidd hi, ac addawa bleidio pob gwir, a gwrthwynebu pob gau, deued o ba le y delo.

Ni all eyhoeddiad o'r fath, o dan olygyddiaeth mor alluog, ac yn nghanol newyddiaduron mor elyniaethus i Formoniaeth, beidio bod o fawr les i achos y gwirionedd, a chynnydda ei ddefnyddioldeb yn yr ystyriaeth o'i bleidgarwch i Utah; ac fel cyfarwyddwr i'r holl Saint yngwyneb y cyfnewidiad yn yr Ymfudiad drwy y Taleithiau dwyreiniol bydd yn anmhrisiadwy i'r ymfudwyr. Er mwyn y rhai na allant ei gael dyfynwn o'i ddetholion i dudalenau ein UDGORN weithiau.

Ei bris i dderbynwyr blynyddol yw 13s yn flaen-dâl, neu 4½c y rhifyn fel y canlyn, pris y cyhoeddiad 2c, llythyr-doll 2, elw i'r dosparthwr 0½c. Nid yw hyn yn cynnwys y cludiad o Liverpool i'r derbyniwr, disgyn hyny arno ei hunan yn ychwanegol. Anfoner at F. D. Richards am dano, a chyfarwyddyd manwl y dosparthwr.

Dychweliad y Brawd Willis.—Dywenydd genym ddeall trwy lythyr oddiwrth yr Henuriad Willis ei fod ef wedi tirio yn Liverpool yn iach a chalonog ar y dydd laf o'r mis hwn. Nid anadnabyddus i ddarllenwyr y *Star* a'r UDGORN yw enw a gweithredoedd anturus y Cenadydd ffyddlon hwn yn mherfeddion yr India bell; ei ymroadau diflino i gyhoeddi cenadwri y nef i drigolion eulun-addolgar y byd dwyreiniol, yngwyneb pob anrywiaeth o rwystrau ac anhawsderau a roddwyd ar ei ffordd gan genadon sectyddol gau Gristionogaeth, gan ystyfnigrwydd traddodiadau paganiaeth oesol, a chan hinsawdd afiachus y parthau hyny o'r byd, a anwyla ei goffadwriaeth yn nghroniclau cyssegredig plant Duw, a diau y crëa lawenydd ynddynt i glywed fod y brawd Willis yn bwriadu ymweled â'r Saint Cymreig, yn mhlith pa rai y cafodd ei gynnysgaethu ag

Offeiriadaeth Mab Duw, ac o ba le yr anturiodd ar ei genadiaeth i'r India, ac hyderwn yr arddengys y Saint Cymreig eu caredigrwydd a'u haelioni cyssefin trwy ddiwallu anghenrheidiau a dangos y sirioldeb a allant at y Brawd Willlis pan y daw i'n plith, gan gofio geiriau ein Hiesu gofalus, "Yn gymmaint a'i wneuthur i un o'r rhai hyn, fy mrodyr, yn wir, i mi y gwnaethoch."

Swyddfa y "Millennial Star."—Bwriada y Llywydd F. D. Richards symud ei Swyddfa o "15, Wilton St.," i "36, Islington, Liverpool," lle y dymuna gyfarwyddo pob llythyrau atto ar, ac ar ol y dydd 1af o Ebrill nesaf.

Nid yw y ffaith o fod y Swyddfa bresennol wedi myned yn rhy gyfyng i wneuthur busnes prif Swyddfa yr eglwys yn Ewrop yn gwirio dim ar brophwydoliaethau lliosog gau brophwydi ein hoes am drancedigaeth buan a bollol Mormoniaeth, eithr y mae yn brawf arall at bob peth a welir o'i chynnyddiad digyffelyb; ac fel yn hyn, felly y mae yn mhob peth a man arall, estyna ei chortynau, a gwaedda o hyd ac yn uwch "Moes chwaneg o le." Llwyddiant a chwaneg o gynnydd i'n Llywydd a'i waith dwyfol. nes y byddo Swyddfa fwyaf y dref yn rhy fach iddo; ac i Formoniaeth nes byddo y ddaear fach hon yn rhy gyfyng i'w hufyddion, yw dymuniad gwaelaf pob cariwr y gwir ar ei rhan.

TALWCH EICH DYLEDION.

GAN Y LLYWYDD FRANKLIN D. RICHARDS.

Tra mae y Saint yn ymegnïo â phob gewyn er cael digon o fodd i ymfudo eu hunain, a'r rhai a ymddibynant arnynt. nid anfuddiol fyddai i ni gynnyg ychydig o sylwadau mewn cyssylltiad â'r ddwys ystyriaeth o dalu dyledion.

Ac yn gyntaf, caniatawn fod dymuniad awyddus yn mhob un sydd ag unrhyw honiad i'r teitl o Sant am ddileu ei ddyledion arianol, ac ymadael â gwlad ei enedigaeth yn ddyn rhydd ac anymddibynol, mor bell ag y perthynant hwy, gan adael dylanwad iachus ar ei ol.

Da fyddai i'r Saint, pe ei gwnelent yn bwnc, mor aml ag yw

ddichonadwy, i osod eu holl oruchwylion masnachol ar ddu a gwŷn, hyny yw, mynu eu hymrwymiadau a'u tâl-brawfiadau *(receipts)* ar bapyr, canys y mae yn anghysurus a thrafferthus iawn i ymfudwr gael ei rwystro, ar ei ymadawiad o'i wlad enedigol, trwy ryw esgus wael, tarddedig oddiar ryw hen drafodaeth fasnachol a setlwyd yn onest er ys blynyddau yn ol, ac sydd yn annhrofedig yn awr, eithr am ba un ni fedd y dyoddefydd druan un ddangoseg o'r taliad. Gan fod Satan yn hollol wrthwynebol i adaeladiad teyrnas Dduw, gellir pender fynu yn naturiol nad diffygiol fydd o dreio pob cynllun a attalia neu a rwystra yn effeithiol, ymgasgliad y Saint, a thrwy wneyd hyny torai ymaith un achos mawr o gynnyddiant a nerth i'r deyrnas hono. Mewn ffaith, ymddengys iddo, drwy ryw foddion neu gilydd ymestyn yn mhell iawn tuag at gyflawniad o'r dyben hwnw y tymmor hwn. A dysgwyliwn yn ddiamheuol am gynnyddiant rhwystrau ar ffordd yr ymfudiad o blith llawer o genedloedd yn gyffredinol, o hyn allan, er fe ddichon y dygwydda llanw a thrai, tymmorau ffafriol ac anffafriol ar yn ail â'u gilydd, hyd oni welir nad â neb i fyny tua Seion ond y pur o galon, a llawer o honynt hwy fe ddichon yn unig drwy gyfryngoliaeth yr Offeiriadaeth a aethant tu hwnt i'r llèn, fel y mae yn ysgrifenedig, "Yr Arglwydd a ddenfyn ei angylion i gasglu ynghyd ei etholedigion Ef o bedwar cŵr y byd."

Ond fe ddichon i Saint yn ogystal ag ereill fyned i gyfyngderau masnachol weithiau, neu i ddyled, nes methu braidd a gwybod pa beth i wneuthur, na phaple i droi. Er enghraifft, magwyd un i fynu yn foneddigaidd, ac i ymwneyd â masnach elwol iawn, ond, yn mhen ennyd lleihâ ei fasnach yn gyflym, efallai mai o herwydd caledwch yr amser, neu efallai mai o herwydd rhagfarn yn erbyn ei grefydd; efallai mai trwy ryw achos arall, neu gyssylltiad achosion. Fel y lleihâ ei grefft, felly hefyd ei elw, ac y mae yn ymgauedig o bob tu. O herwydd fod taliadau ganddo i'w talu ar ddydd penodol, dichon y gwna fenthyca gan ryw frawd a fo wedi crynhoi ychydig gogyfer ag ymfudo, gan sicrhau ad-daliad iddo y pryd a nodir. Rhoddir benthyg yr arian, ac mae ef wedi ei gynnorthwyo. Eithr am amser yn unig y mae. Wedi arfer bob amser i gael "ymwelwyr" i giniawa a swpera, meddylia yr edrychai yn warthus a chybyddlyd i adael yr ymarferiad ar unwaith. O

ganlyniad ymgrynhöa "ymwelwyr" fel arferol, a chan eu bod hwy yno rhaid i'r cyweir-fwydydd. y gwin, a'r holl fanylrwydd o bethau fod yno fel arferol. Etto ni wellhâ y fusnes. ac o ganlyniad cynnydda y cyfrifoldeb, ac yn ganlynol y rhwymau yn dynach fyth. Ymofynir â'r brawd da wed'yn, yr hwn a fenthyca yr hyn a geisir drachefn. Ond y mae amser talu yn dyfod, ac nid oes modd gan y benthycydd i ad-dalu. Esgeulusir y rhoddwr haelionus yn awr a fawrygwyd o'r blaen, edrychir yn oeraidd arno, a gochelir ei bresennoldeb ar bob tro a ellir. O'r diwedd daw yr amser yn mha un y bwriada ymfudo, ond y mae ei feddiannau yn glöedig yn nghyfrifon y benthyciwr, ac yn anghyrhaeddadwy, ac nis gellir cael ychwaith ddim yn eglur a phendant oddiwrtho. Y canlyniad yw dolurio teimladau y brawd da, siomir ei ddisgwyliadau am ymfudo, a'i ymdrechiadau ymegnïol a chlodwiw am fisoedd, ac am flynyddoedd fe ddichon, a ddiddymir am yn bresennol, tra y tuedda yr holl drafodaeth yn lle i ysbrydoli y Saint ag ymddiried y naill yn y llall, i genedlu a magu teimladau anymddiriedol a drwgdybus yn mynwesau pawb a ddeallant y ffeithiau.

Oni fuasai yn gyfiawnach, yn fwy mawreddog, ac yn fwy canmoladwy pe y dangosasai y brawd oedd mewn cyfyngderau ei amgylchiadau a'i obeithion yn ddiledrith i'r brawd da a'i cynnorthwyodd mor gymmwynasgar, ac oni thueddai y ffordd hono i gynnyddu cydymdeimlad ac ymddiried yn y Saint tuag at eu gilydd, ac i ennill dylanwad iachusol a dymunol yn mhob dull? Mae yn sicr y gwnelai.

A gofynem, pan y mae brawd mewn cyfyngderau bydol, ac nad oes modd yn y byd i'w gochelyd, nac un argoel yr ysgafnhâ y baich, ac y cynnygir iddo gyfleu i ymfudo, onid gwell fyddai iddo darlunio i'w ofynwyr wir sefyllfa pethau, sicrhau iddynt ei fwriad diysgog i'w talu, cyn gynted ag y bo modd, dangos y gwellhai yr argoelion iddo wneyd hyny drwy ei ymfudiad i wlad lle y bo cyflogau yn fwy, ac anghenrheidiau bywyd yn fwy rhâd, ac i'w cael yn rhwyddach nag yn Mhrydain,—onid gwell fyddai yn mhob dull i wneuthur hyny nag i gilio ymaith heb weled y naill ofynwr neu y llall, ac heb adael iddynt un hysbysiad arweinyddol i wir sefyllfa pethau, oddi eithr nad oedd dim iddynt i gael? Pe dilynid ein ffordd gyfarwyddiedig ni, rhaid fyddai i'r gofynwyr fod yn galon-galed i'w

AMRYWIAETHAU, &c.

Y'ASIODD y cynnyg i wneuthur rheilffordd o'r Taleithiau Unol i'r Môr Tawel, y trydydd darlleniad yn fuddugoliaethus yn y Senedd Americanaidd Bwriedir i'r brif gledrffordd gychwyn o gŵr gorllewinol Missouri neu Iowa, croesi y Mynyddoedd Creiglyd rhwng lledred 36 a 43 gogleddol, ac oddiyno y ffordd hawddaf tua San Francisco. Fforcha o'i chychwynfan i'r deau tua Memphis, ac i'r gogledd hyd gyffiniau Llyn Superior. Cyflwyna y llywodraeth yr ail 640 o erwau o dir cyfochrog am 12 milltir ar ei hyd i dala y draul o'i gwneuthur.

Y RHYFEL.—Nid oedd gan yr Arglwydd Raglan un newydd o bwys i hysbysu y llywodraeth hyd Chwefror y 13eg, ond fod y tywydd gwlyb wedi gwneuthur gwyneb y ddaear oddeutu Balaklava a'r cylchoedd yn llaid anhawdd i ddyn nac anifail ymlusgo drwyddo. Dyweda fod cyflyrau a iechyd y fyddin yn gwellhau, ac er prawf o hyny denfyn restr hirfaith, sy'n llanw dros golofn gyfan o newyddiadur mawr, o enwau y rhai a fuasent feirw yn yr *wythnos* flaenorol.

BRWYDR EUPATORIA.—Ymosododd 40,000 o'r Rwsiaid gyda 70 o fagnelau ar Eupatoria ar doriad y dydd. Chwef. 17eg, ac ymladdasant hyd 10 o'r gloch, pryd y gyrodd Omar Pasha hwynt yn ol, gyda lladdfa o tua 500 o wyr, a chollodd yntau ond 15, a chlwyfwyd 35, yn mhlith y blaenaf yr oedd Selim Pasha, Cadfridog Aifftaidd.

CAMSYNIED.—Pan oedd hen wraig yn ddiweddar yn myned i mewn i Eglwys y Plwyf a'r gynnulleidfa yn codi wedi gweddio, hithau a waeddai "Peidiwch symud er fy mwyn i, fobl fach."

DERBYNIADAU AM LYFRAU O MAWRTH 2 HYD Y 10.—Thos. D. Evans, 15s; Jonathan Ellis, £1.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Darlith yr Apostol Orson Hyde	81
Dyfyniad o Lythyr o'r Dyffryn	86
Golygyddiaeth—Llwyddiant yr Efengyl yn Nghymru—Y Mormon—Dychwelhad y Brawd Willis—Swyddfa y "Millennial Star"	88
Talwch eich dyledion	91
Marwolaeth yr Amherawdwr Nicholas	94
Penmillion	95
Amrywiaethau, &c.	99

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 5.] MAWRTH 31, 1855. [Cyf. VIII.

DARLITH Y PARCH. APOSTOL ORSON HYDE.

A draddodwyd yn Ninas y Llyn Halen Mawr, Hydref 8, 1854.

[Parhad o dud. 36.]

Pa fodd bynag gadawn hyn o'r neilldu yn bresenol. Bydd gan angylion ran yn ngwaith y dyddiau diweddaf. Pa beth y maent hwy i wneuthur? Dywed yr Iachawdwr, "Teyrnas nefoedd sydd gyffelyb i ddyn a hauodd hâd da yn ei faes; a thra yr oedd y dynion yn cysgu, daeth ei elyn ef, ac a hauodd efrau yn mhlith y gwenith, ac a aeth ymaith." Gadawodd i'r ddau gyd-dyfu hyd y cynheuaf, pan y dywed wrth ei fedelwyr, "Casglwch yn gyntaf yr efrau, a rhwymwch hwynt yn ysgubau i'w *llwyr*-losgi, ond casglwch y gwenith i'm hysgubor." Y maes yw y byd. Pwy yw y medelwyr? Y medelwyr yw yr angylion, ac etto dywedwch na ddaw angylion i'r ddaear mwy-ach. Nid rhesymol hyny; canys y medelwyr yw yr angylion; yr hâd da yw plant y deyrnas, a'r efrau yw plant yr un drwg, a'r gelyn a'u hauodd hwynt yw y diafol. Mewn lle arall y dywedir, "Ac Efe a ddenfyn ei angylion, gyda mawr sain udgorn, a hwy a gasglant ei etholedigion Ef ynghyd o'r pedwar gwynt, o'r naill gwr o'r nefoedd i'r llall." Ac etto dywed y byd Cristionogol nad oes ychwaneg gan angylion i wneuthur; wrth gwrs, ynte, ni ddysgwyliant unrhyw beth o'r fath; ni chefd ycha eu ffydd ddywediadau yr Iachawdwr a'i Apostolion mewn cyssylltiad â'r diweddglo a ddygwydda: ac heb fyddi

anmhosibl yw rhyngu bodd Duw; o ganlyniad nis gallant gyfranogi o fendithion goruchwyliaeth ymgasgliad y dyddiau diweddaf; mae eu haughrediniaeth yn eu cau allan.

Dywedir fod Duw yn cynnorthwyo y rhai hyny sydd yn cynnorthwyo eu hunain Dan osais pa beth a wneir idd ei etholedigion Ef yn y dyddiau diweddaf; ond a wna Efe hyny i'r rhai na wnant ddim drostynt eu hunain? Dywedaf na wnaiff; cynnorthwya Duw y rhai a gynnorthwyant eu hunain. Cofus genyf am yr amser yr oeddwn yn Potawatomie, penderfynais godi cnwd pe gallwn. Dechreuais ag aredig y tir, ac aethym i'r goedwig pan yr oedd yn ddigon poeth yn yr haf i doddi cwyr, ac helais allan fy mholion cawad, amgauais a hauais y tir; pan y daeth eira, yr oedd enuf o wenith ar hyd wyneb y tir fel gwlan ar gefn dafad. Gwelodd y Llywydd Brigham hyny, a dywedodd iddo ei foddhau; a dywedodd, "Mi a wn fod Duw yn helpu y rhai a helpant eu hunain. Gallwn eistedd yn llonydd, a pherswadio ein hunain mai ewyllys Duw yw i ni beidio gwneyd dim drosom ein hunain, a gallwn fyned i gardota; ond os helpwn ein hunain, a llafurio er i natur ddwyn allan, cawn ddigonedd, a bydd Duw yn ffyddlawn yn bendithio ein hymdrechiadau.

Dysgwyliwn i'r pethau hyn gymmeryd lle yn y dyddiau diweddaf, i ddwyn oddiamgylch ymgasgliad y Saint, yn barotoadol i ddyfodiad Mab y Dyn. Gwelwn y gwyfrau trydanawl yn lledaenu trwy y byd; ac adeiladir llongau i redeg yn gyflym a chenadon iachawdwriaeth, i ddwyn y Saint adref dan law dirion ein Tad nefol. Pa beth y mae Efe yn ofyn i ni wneuthur? Dywedai Efe, "Yr wyf yn cyflwyno i chwi fy ngweision allweddau teyrnas nefoedd, awdurdod yr Offeiriadaeth, goleuni dealltwriaeth, a gwybodaeth er eich gwneyd yn hyddysg yn yr holl bethau hyn; yn awr y mae arnaf eisieu gweled os rhoddwch law o gynnorthwy, gan wybod fel y gwyddoch chwi, ewyllys eich Meistr, a chan ddeall yr holl gynllun ar ba un y gweithreda; mewn prawf fel y gwelwyf os gweithiwch chwi yn ol y gallu a roddais i chwi." Pa beth sydd i wneuthur? Ewch allan a phregethwch yr Efengyl yn mhlith y cenedloedd, a bedyddiwch hwynt yn fy enw i er maddeuant pechodau, a chadarnhewch hwynt drwy arddodiad dwylaw er derbyn dawn yr Ysbryd Glân, a dysgwch hwynt i ymgasglu; canys y mae

yn oruchwyliaeth yr ymgasgliad, ac os na feddant fodd i ymgasglu, bydded i chwi eu diwallu â modd i ddyfod. "Yn awr," meddai yr Hollalluog, "y mae arnaf eisieu eich profi, a gweled os iawn weithredwch mewn pethau bychain, fel yr ennilloch deilyngdod i gael eich bendithio â'r moddion a ddarparaf, a'r hwn a ordeiniais. Y mae arnaf eisieu gweled os ydych yn deilwng." Pa beth ydym ni wedi wneuthur yma er dwyn i weithrediad yr amcan dymunol hwn? Yr ydym wedi dechreu casglu y bobl, ac wedi dechreu sefydlu trysorfa trwy yr hon mae y Saint tlodion i gael eu casglu; ac fe sylfaenwyd hyn ar egwyddorion cymhwysiadol i ni yn nyddiau ein babandod; ond mae yn debyg, pan yr estyn yr Hollalluog ei fraich Ef ei hun allan, i gyflawni ei waith ei hun, a chynnal gweithrediadau bychain ei weision, cawn wybod mai pethau bychain sydd genym ni, pan welom beiriant nerthol Duw yn gweithio; canys pan oeddem yn blant, llefarasom fel plant, deallasom fel plant, a meddyliasom fel plant; eithr pan y deuwn yn ddynion, cawn roddi ymaith bethau plentynaidd. Y mae genym yn awr i ymwneyd â phethau bychain, fel yr elom yn mlaen o un nôd i'r llall. Pa bethau yw y pethau bychain? Dyma Drysorfa Ymfudol Barhaus er enghraifft, i'r dyben o gasglu Saint Duw. Pa fodd ei chyfodir? Cyfodir hi drwy gyfraniadau haelionus oddiwrth bob un sydd yn alluog i gynnorthwyo, ac a fedd galon ac ysbryd i ymwneyd â gwaith Duw yn y dyddiau diweddaf. Cyfodir hi trwy gyflogau caledwaith y brodyr a'r chwiorydd. Yr hadlingau bychain a'r hadlingau mawrion, y symiau bychain a'r symiau mawrion wedi eu rhoddi ynghyd mewn un logell ydyw hi.

Yn awr, ewch, a dygwch hyn, chwi genadon cyflym, chwi oruchwylwyr ffyddlon, mewn llongau o lafrwyn, pib-longau, neu mewn geiriau ereill, agerdd-longau, a byddwch genadon o newyddion da i'r tlodion, y trueiniaid, a'r gormesedig, a rhai addfwyn y ddaear. Y mae yn anrhydedd i fod yn genadydd, i'w hanrhegu â'r modd er eu dwyn o'u tylodi, eu truenusrwydd, a'u gormes. Dywed wrthynt, "Daethym er eich dwyn chwi i deulu Duw, idd eich gwared o wlad eich gormes a'ch tlodi, ac i'ch gosod mewn sefyllfa lle eich bendithir yn dymmorol ac yn ysbrydol. Onid yw yr hwn sydd yn dwyn y newyddion da hyn yn fendigedig? "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw

anmhosibl yw rhyngu bodd Duw; o ganlyniad nis gallant gyfranogi o fendithion goruchwyliaeth ymgasgliad y dyddiau diweddaf; mae eu hanghrediniaeth yn eu cau allan.

Dywedir fod Duw yn cynnorthwyo y rhai hyny sydd yn cynnorthwyo eu hunain Dan gosais pa beth a wneir idd ei etholedigion Ef yn y dyddiau diweddaf; ond a wna Efe hyny i'r rhai na wnant ddim drostynt eu hunain? Dywedaf na wnaiff; cynnorthwya Duw y rhai a gynnorthwyant eu hunain. Cofus genyf am yr amser yr oeddwn yn Potawatomie, penderfynais godi cnwd pe gallwn. Dechreuais ag aredig y tir, ac aethym i'r goedwig pan yr oedd yn ddigon poeth yn yr haf i doddi cwyr, ac helais allan fy mholion cauad, amgauais a hauais y tir; pan y daeth eira, yr oedd enuf o wenith ar hyd wyneb y tir fel gwlan ar gefn dafad. Gwelodd y Llywydd Brigham hyny, a dywedodd iddo ei foddhau; a dywedodd, "Mi a wn fod Duw yn helpu y rhai a helpant eu hunain. Gallwn eistedd yn llonydd, a pherswadio ein hunain mai ewyllys Duw yw i ni beidio gwneyd dim drosom ein hunain, a gallwn fyned i gardota; ond os helpwn ein hunain, a llafurio er i natur ddwyn allan, cawn ddigonedd, a bydd Duw yn ffyddlawn yn bendithio ein hymdrechiadau.

Dysgwyliwn i'r pethau hyn gymmeryd lle yn y dyddiau diweddaf, i ddwyn oddiamgylch ymgasgliad y Saint, yn barotoadol i ddyfodiad Mab y Dyn. Gwelwn y gwyfrau trydanawl yn lledaenu trwy y byd; ac adeiladir llongau i redeg yn gyflym â chenadon iachawdwriaeth, i ddwyn y Saint adref dan law dirion ein Tad nefol. Pa beth y mae Efe yn ofyn i ni wneuthur? Dywedai Efe, "Yr wyf yn cyflwyno i chwi fy ngweision allweddau teyrnas nefoedd, awdurdod yr Offeiriadaeth, goleuni dealltwriaeth, a gwybodaeth er eich gwneyd yn hyddysg yn yr holl bethau hyn; yn awr y mae arnaf eisieu gweled os rhoddwch law o gynnorthwy, gan wybod fel y gwyddoch chwi, ewyllys eich Meistr, a chan ddeall yr holl gynllun ar ba un y gweithreda; mewn prawf fel y gwelwyf os gweithiwch chwi yn ol y gallu a roddais i chwi." Pa beth sydd i wneuthur? Ewch allan a phregethwch yr Efengyl yn mhlith y cenedloedd, a bedyddiwch hwynt yn fy enw i er maddeuant pechodau, a chadarnhewch hwynt drwy arddodiad dwylaw er derbyn dawn yr Ysbryd Glân, a dysgwch hwynt i ymgasglu; canys y mae

yn oruchwyliaeth yr ymgasgliad, ac os na feddant fodd i ymgasglu, bydded i chwi eu diwallu â modd i ddyfod. "Yn awr," meddai yr Hollalluog, "y mae arnaf eisieu eich profi, a gweled os iawn weithredwch mewn pethau bychain, fel yr ennilloch deilyngdod i gael eich bendithio â'r moddion a ddarparaf, a'r hwn a ordeiniais. Y mae arnaf eisieu gweled os ydych yn deilwng." Pa beth ydym ni wedi wneuthur yma er dwyn i weithrediad yr amcan dymunol hwn? Yr ydym wedi dechreu casglu y bobl, ac wedi dechreu sefydlu trysorfa trwy yr hon mae y Saint tlodion i gael eu casglu; ac fe sylfaenwyd hyn ar egwyddorion cymhwysiadol i ni yn nyddiau ein babandod; ond mae yn debyg, pan yr estyn yr Hollalluog ei fraich Ef ei hun allan, i gyflawni ei waith ei hun, a chynnal gweithrediadau bychain ei weision, cawn wybod mai pethau bychain sydd genym ni, pan welom beiriant nerthol Dnw yn gweithio; canys pan oeddem yn blant, llefarasom fel plant, deallasom fel plant, a meddyliasom fel plant; eithr pan y deuwn yn ddynion, cawn roddi ymaith bethau plentynaidd. Y mae genym yn awr i ymwneyd â phethau bychain, fel yr elom yn mlaen o un nôd i'r llall. Pa bethau yw y pethau bychain? Dyma Drysorfa Ymfudol Barhaus er enghraifft, i'r dyben o gasglu Saint Duw. Pa fodd ei chyfodir? Cyfodir hi drwy gyfraniadau haelionus oddiwrth bob un sydd yn alluog i gynnorthwyo, ac a fedd galon ac ysbryd i ymwneyd â gwaith Duw yn y dyddiau diweddaf. Cyfodir hi trwy gyflogau caledwaith y brodyr a'r chwiorydd. Yr hadlingau bychain a'r hadlingau mawrion, y symiau bychain a'r symiau mawrion wedi eu rhoddi ynghyd mewn un logell ydyw hi.

Yn awr, ewch, a dygwch hyn, chwi genadon cyflym, chwi oruchwylwyr ffyddlon, mewn llongau o lafrwyn, pib-longau, neu mewn geiriau ereill, agerdd-longau, a byddwch genadon o newyddion da i'r tlodion, y trueiniaid, a'r gormesedig, a rhai addfwyn y ddaear. Y mae yn anrhydedd i fod yn genadydd, i'w hanrhegu â'r modd er eu dwyn o'u tylodi, eu truenusrwydd, a'u gormes. Dywed wrthynt, "Daethym er eich dwyn chwi i deulu Duw, idd eich gwared o wlad eich gormes a'ch tlodi, ac i'ch gosod mewn sefyllfa lle eich bendithir yn dymmorol ac yn ysbrydol. Onid yw yr hwn sydd yn dwyn y newyddion da hyn yn fendigedig? "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw

traed yr hwn sy'n efengylu, yn cyhoeddi heddwch; a'r hwn sydd yn mynegu daioni, yn cyhoeddi iachawdwriaeth; yn dweyd wrth Seion, Dy Dduw di sydd yn teyrnasu." Mae y cyfryw genadydd yn myned ac yn eu dwyn i'r lle hwn trwy y moddion a roddir yn ei ddwylaw.

Yn awr, mi a adwaen rai a feddyliant yn ol cael eu dwyn yma drwy y cyfrwng hyn eu bod wedi cyrhaedd diogelwch sier. Dywedant, "Yr wyf yn ddiogel yn awr mewn porthladd llonydd, yr wyf yn mhlith pobl Dduw, ac ni hidiaf ond hyn. Tu awr gwnaf fy hun mor ddedwydd ag y medrwyf, ac anghofiaf fy nghyfeillion a adewais mewn caethiwed; ni chofiaf y rhai hyny sydd yn cael eu gormesu tan yr iau chwerw, yr wyf fi yn rhydd, gofalent hwy am danynt eu hunain." Dyma y teimlad sydd yn llywodraethu mynwesau amryw, wedi eu dygir yma trwy foddion a ennillodd dwylaw ereill; a dywedant "Os gallwn lwyddo yn rhywfodd i ohirio yr adaliad sydd arnom i'r Drysorfa hon a'n dygodd yma, hyd oni phentyrom o'n hamgylch gysuron bywyd, yna, ysgatfydd, ni a dalwn ein hymrwymiad." Eithr caniatewch i mi sylwi fan yma, pan y mae yn y gallu i dalu dyled, neu i wneuthur gweithred dda, po hiraf ei gohiriwn, po fwyaf a fydd y gwarth oddiwrth haeddiant y fath weithred; yn awr yw yr amser cymmeradwy, yn awr y mae dydd iachawdwriaeth, pan mae y newynog, y tlawd, y truenus, a'r gormesedig yn gwaeddi am waredigaeth. Tra y mae y gallu i'w gwared yn ein dwylaw ac ni wnawn ei estyn iddynt, pa fodd y dysgwyliwn i Dduw i wrandaw ein gweddiau i hwyluso ei waith mawr er hollol waredigaeth gweddillion gwasgaredig ei bobl. A gadewch i mi ddweyd fan yma, yr wyf yn ammheu llawer iawn pa un a wrendy Duw weddiau anrhyw ddyn ag sydd arno ddyled gyflawn, a chanddo fodd i'w thalu, eithr a wrthoda ei wneuthur; neu a attalia fendith rhag ei gyfaill pan y mae yn ei allu i'w rhoddi iddo. Pa beth yw ei weddi? "Maddeu i ni ein dyledion fel y maddeuwn i'n dyledwyr," neu mewn geiriau ereill gwna i ni fel y gwnawn tuag at ereill; os attaliwn leshâd a berthyna i ereill, pa fodd y cyflwyna Duw fendithion i ni na pherthynant i ni, eithr y rhai ydynt weithredoedd ei drugaredd a'i diriondeb? Pan yr ydym wedi cyfranogi o ddaioni anrhyw anrheg elusengar, yn enwedig pan y daliwn gyfran o honi yn ein dwylaw a ddylasai fod yn

llesoli ereill. pa fodd y dysgwyliwn i Dduw, neu mrhyw ddyngarwr estyn bendithion i ni.

Pa beth yw dyledswydd y Saint a ddaethant yma drwy gymhorth a lleshâd y Drysorfa Ymfudol Barhaus? Eu dyledswydd yw talu y ddyled sydd arnynt yn uniongyrchol. "Ond," meddai un, "nis gallwn dalu, nid oes modd genym;" o'r goreu ynte, nis gorneswn arnoch, ond gallwch roi eich dangoseg a gadael eich hymrwymiad gyda'r goruchwyliwr, neu gyda'r cyfryw awdurdodau dros y Drysorfa ag y perthyna, fel y caffont rhyw brawf-ysgrif i weithredu oddiwrtho; neu o'r hyn leiaf, fel y gallont ddweyd yn mha le y mae arian y Drysorfa, —yn nwylaw pwy yr arhosant; eithr nac ewch i'r dwyrain, i'r gorllewin, i'r gogledd, nac i'r deheu o'r ddinas hon heb ei gofnodi mewn rhyw ddull: a phan y gesyd Duw y modd yn eich dwylaw, drwy eich hymdrech a'ch cymhildeb chwi eich hunain, talwch ef drosodd, a dileuweh y ddyled, a danfonir y meddiannau hyn drachefn i gynnorthwyo rhywun arall: ac feallai y dug yr un meddiannau a'ch dygasant chwi fil o bersonau, os byddant ffyddlon a diwyd idd eu dyehwelyd i ffordd eu defnyddioldeb.

Er enghraifft, cymmeraf hanner dolar, ac y mae yn ddyled sydd arnaf, mi a'i talaf, a bydd ar y dyn hwnw i un arall, ac erbyn yr â oddiamgylch, bydd wedi talu cant o ddyledion, a chynnorthwyo cant o anghenion; tra wrth ei gadw yn fy llogell y rhwystraf ei gylchrediad a'r daioni mwy a wnelai. A ennillaf enw da wrth hyny? Caf y boddlonrwydd o ddweyd nad wyf heb arian, tra ar yr un pryd y bydd sarhâd arnaf gerbron Duw a phob bod deallus.

Wel ynte, ad-daler yr arian a ddefnyddiwyd i ddwyn y Saint yma yn uniongyrchol; a bydded yn fater o gydwybodolrwydd. Pe gwelech eich cymmydog yn hongian oddiwrth dŵr wrth linyn brau, yr hwn, wrth yr ymysgwydfa leiaf, a allai dori, a'i ollwng i gwympo, a chael ei ddryllio yn ddarnau, rhedech i'w achub nad beth fyddech yn wneuthur, a cheisiech eich heithaf i achub dyn a fyddai yn barod i ymsuddo i'r llyngclyn hwn, y gagendor odditano. Edrychweh, ynte, ar eich brodyr mewn cyflwr tebyg; ac efallai pe ymorchestent i ennill bywiolaeth, y suddid hwy i druenusrwydd am byth. Y mae hwn yn ddyled, yn ymrwymiad cyssegredig sydd arnoch, nid yn unig i awdur-

dodau yr eglwys a'r deyrnas hon, eithr i'ch brodyr a anfonant i fyny eu cwynfanau a'u gweddiau at Duw, os attaliwch yr hyn a berthyn iddynt.—yr hyn a ddylent gael ei fwynhau, ad-lama eu gweddiau yn ol ar eich penau, nid mewn bendithion eithr mewn melldithion.

Dywedwn bawb yma ein bod yn cael ein bendithio, dywedwn fod ein llafur a'n lludded wedi cael eu bendithio; yr wyf fi yn sicr o hyny. A allwn ni weithio allan ein hiachawdwriaeth? A allwn ni ardystio i Dduw a'r angylion, ac i'n brodyr, ein bod yn foddlawn i estyn ein dwylaw a chyfranu er chwyddo cyfanswm y Drysorfa Barhaus hon yn ol y gallu a roddes Duw ini? Ai boddlon ydym i estyn allan ein llaw a chynnorthwyo cyflawniad y gwaith hwn trwy gasglu y bobl ynghyd o druenusrwydd ac eisieu? Pa ennill a gawn wrth wneuthur hyn? Ennillwn lawer o bobl a edrychant arnom fel eu cyfeillion a'u synnalwyr, ac a'n cyfarchant fel eu hiachawdwyr. Dywedir y "Daw iachawdwyr ar Fynydd Seion i farnu Mynydd Esau; a bydd y deyrnas yn eiddo yr Arglwydd."

Cyf., WILLIAM LEWIS.

"MAN BETHAU."

(Allan o'r "Millennial Star.")

NID anaml y profir anturiaethau mawrion yn golledion anffawdus, ac y methir cyrhaedd yr amcanion pwysicaf, o herwydd ychydig ddiofalwch, neu esgeulusdod o'r materion gwaelaf eu hymddangosiad. Mae y fyddin Frytanaidd wedi toddi ymaith o flaen Sebastopol drwy newyn, noethni, a dyoddefiadau, y rhai a brofir gan y cyfryw yn unig a'u dyoddefant, a'r rhai nas gallant eu desgrifio, o herwydd nad ystyriwyd rhyw chwe milltir ddisylw er trosglwyddiad anghenrheidiau.

Cymmerodd wyth niwrnod i ffurfio gwisiidogaeth pan yr oedd tynghed Lloegr yn mantoli yn y glorian, o herwydd nas gallwyd ymuno "mân bethau" teimladau pleidiol a ileshâd personol â'u gilydd er gwneuthur lleshad cyffredinol. Nid anaml y gwyrdröa dygwyddiadau dibwys y rhod ffortunawl, ac y gwnant y cyfoethog yn dlawd, a'r cardotyn yn fyrddiynydd. Difrodir dinasoedd,

enwillir neu collir brwydrau ac ymherodraethau drwy ryw ddamwain, yr hon ni fyddai bwysig oni bai amgylchiad cyssylltiedig.

Os nad anaml y penderfyna "mân bethau" faterion pwysicaf daear, maent yn bwysicach fyth, pan yn gyssylltiedig â gwaith mawr yr iachawdwriaeth. Dywed y gwr doeth mai y llwynogod bychain oeddynt yn yspeilio y gwinllanoedd.

Mae y dynol-fyd wedi bod cyhyd yn ymbolltu yn ddarnau, ac yn ymbellhâu oddiwrth allu mawr unol yr Offeiriadaeth, ac wedi ymarferyd cyhyd â'r campau o ymrannu a dadgyssylltu, fel y mae llawer o honynt yn anfeddyginiaethol, a gallewir iddynt enwill yr hyn a ddyfai geisiant—gwobr drwg weithredwyr, a gwagder ffyliaid. Y rhai hyny yn unig ag ydynt foddlon i ddysgu egwyddorion undybiaeth ac unoliaeth, i grynhoi y briwion o wirioneddau a ddadguddir iddynt o bryd bwy gilydd, i'w mhwynhau yn drwyadi tiwy ymarferiad, ac yn y diwedd eu cyffoli yn un cyfanswm mawr, yr hwn a amgana ac a lywodraetha yn gyfangwbl bob gweithred a dymuniad o'u heiddo, a allant ddysgwyl gael eu crynhoi i fyny yn sypyn mawr yr iachawdwriaeth, a chael y fraint o fwynhau presennoldeb eu Tad yn y nefoedd.

Mae y diafol wedi bod ar waith er ys hir amser bellach yn difrodi a gwasgaru ar led. Mae gan wahanol grefyddau yr oes y fath amrywiaeth o ddysgedigaethau, wedi eu gwau mor gywrain, ac y mae "mân bethau" eu credöau mor wasgaredig, nid yn unig yn, eithr yn ol eu haeriad hwy eu hunain, tuhwnt i derfynau amser ac eangder, fel y mae braidd yn annichonadwy i gael digon o honynt ynghyd i'r ddealltwriaeth graffaf ganfod hyd y nod gysgod o sylweddoldeb. Eithr mae yr Arglwydd yn awr wedi dechreu y mawr waith o gasglu yr holl dda yn un, trwy gydosod mewn un lle y gonestion o galon sydd yn wasgaredig yn nghanol y cenedloedd, fel eu gosodir mewn amgylchiadau yn mhâ rai y dysgant yn weithredol pa fodd i ysgythru ymaith holl "fân bethau" eu tymherau drwg, eu rhagfarn, a'u rhagdybiadau hwy eu hunain, y tyfant ac y cynnyddant yn yr hyn sydd dda ac yn werth ei gadw.

Mae amryw wedi myned i dywyllwch ac i wadu y gwirioneddau, drwy esgeuluso rhai "mân bethau" eu golwg, heb ofal am ba rai y mae *link* yn doredig yn nghadwyn eu hiachawdwriaeth, sydd yn rhaid cael ei hasio cyn yr ânt yn mhellach. Y mae rhai a ystyrir yn *Saint* da iawn, eithr a *arosant yma ac nid ant i Seion*, am

iddynt ganiatâu i "fân bethau" y byd ddallu eu mheddy iau rhag yr hyn sydd anghenrheidiol er eu hiachawdwriaeth.

Y mae ereill efallai yn gwario yr ychydig feldiannau a u hymfudent pe eu hiawn ddefnyddid, mewn dim ond anturiaeth i gael rhyw olud sydd yn awr yn glöedig mewn cyfraith yn y cydwybod lys. Fe ddichon y dealla y cyfryw rai mai yn llé cael y golud tybiedig, na fuont ond yn unig yn porthi cribddeilwyr y gyfraith. Mae amryw o'r personau hyny a adawsant i ddim ond gobaith am elw bydol eu rhwystro rhag cadw y gorchymyn i ymgasglu, ac esgeuluso cyfleusderau rhesymol i wneuthur felly, yn gweddio am waredigaeth o ddrygioni a phläau Babilon, ac yn appelio atom ni yn y modd taeraf am gael eu hymfudo gan y Drysorfa Ymfudol Barhaus. Fe ddichon i'r fath bersonau gyrhaedd iachawdwriaeth mewn rhan, eithr nid yn drwyadl, oddieithr iddynt ei gwerthfawrogi yn fwy. Yr hyn a gellir felly trwy ddifaterwch ni adennillio byth.

Y mae pwnc a berthyna i fater arian, at yr hwn y dymunem alw sylw y Saint, ac ar ba un y dymunem i Fugeiliaid a Llywyddion Cynnadleddau sylwi yn neillduol. Y mae amryw gannoedd o bunnau o arian yn meddiant y Saint yn yr Ynysoedd Prydeinig, naill ai yn glöedig mewn cistiau neu *Savings Banks* yn gorwedd yn segur, neu yn agos felly, hyd oni cheir digon i ymfudo. Y mae yn eithaf iawn a chanmoladwy i'r Saint sefyll modd i ymfudo, ond yn gymmaint ag y dysgwylia yr Arglwydd i'w bobl i wneyd y defnydd goreu a ellir a'r hyn a osodo Efe yn eu dwylaw, awgrymwn at ffordd trwy ba un y gellir defnyddio yr arian hyn er cyflawni daioni mawr, heb nemawr golled i'w mheddiannydd. Dysgwylir i £15 ymfudo person i Utah y tymmor hwn. Yn awr os oes 300 o Saint yn Mhrydain a allant osod ar gyfartalwch £5 yr un yn y Swyddfa hon, aiff cant o bersonau i'r Dyffrynoedd y tymmor hwn, a gaffant aros yma heb heb hyny. Yn y ffordd hon gellir rhoddi y "mân bethau" a orweddant yn bresennol yn segur yn mhlith y Saint i gyflawni daioni anghyfrifiadwy, a byddent yn barod bob amser at ofyniadau y personau a'u gosodant yma.

A ymafla y Bugeiliaid, y Llywyddion, a'r Saint, prif ymgais pa rai yw adeiladu teyrnas Duuw, yn y mater hwn, gan edrych beth a ellir wneyd yn awr, pan y mae y fath ymdrechiadau mawr yn cael eu gwneyd i gasglu y rhai ffyddlon?

Y mae amryw Saint a broffesant y dymunent wneyd yn iawn, eithr a ymarferant â rhoddi lle i lid, a bod yn anghyfiawn i'r byd ac i'w brodyr, ac yn lle llywodraethu eu teulnoedd mewn cariad a chyfiawuder, byddant yn groes a chynhenus, a thrwy hyny gyrant ysbryd heddwch o'u preswylfanau, a meithrinant ysbryd gwrthryfelgar yn y wraig a'r plant, gan ba rai y dyoddefant eu hunain yn aml i gael eu llywodraethu mewn materion a dyled swyddau. Y mae lleng o ddrygau y rhai a ymddangosant yn ddibwys ynddynt eu hunain o herwydd nad oes iddynt unrhyw ganlyniadau mawrion i'w gweled yn fuan, ond dyma'r "mân bethau" a gynnwysant ochrau gweiniaid y Saint, y rhai yr ymafla y diafol ynddynt i gloddio tan sylfaen eu hiachawdwriaeth. Nid diogel yw amddiffynfäau cybyd ag y bo un drws trwy yr hwn y dichon i elyn ddyfod i mewn; nid yw iachawdwriaeth unrhyw ddyn yn sicr hyd oni dynir pob dernyn o ddrwg a lyna wrtho, neu hyd oni wyrdroir ef i'w rinwedd cyferbyniol, ac y gwneir pob peth o'i amgylch yn wasanaethgar i ddybenion goruchel a santaidd.

Nid oes achos i neb ddysgwyl achubiaeth drwy gyfiawnder ereill, neu lusgo i mewn i'r deyrnas nefol a holl ddrygau eu natur lygredig yn lynedig wrthynt; canys ped elent yno, caffent eu hunain oddicartref, a dymunent ddychwelyd i elfen mwy cydryw-iol a'u tueddfryd isel a gwael. Na ddysgwylied neb y gofyna yr Arglwydd i ereill wneyd gwaith yr iachawdwriaeth drostynt, oddi eithr iddynt foddloni gwneuthur cymmaint a mwy i gael bywyd tragywyddol, ag y boddlona miloedd o'r byd ddyoddef er cael aur, anwogrwydd gwladwriaethol, neu ogoniant milwraidd.

Cyf. Wm. Lewis.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MAWRTH 31, 1855.

At Bregethwyr yr Efengyl.—Anwyl gyd lafurwyr, nid pregethwyr y sectau, ond pregethwyr *efengyl* Crist; nid dadleuwyr dros draddodiadau dynol, ond traethwyr cynghor Duw-

ac nid "*esbonwyn*" yr ysgrythyrau a gyfarchwn yn y teitl anwylaidd hwn, ond gwesion y Duw a ysbrydolodd eu brodyr cyntefig i *wneuthur* yr ysgrythyrau; nid rhai a aethant allan i ddysgu crefft bregethwraidd yn ol eu mympwyau, nac a ddanfonwyd gan ddynion, ond cenadon ydych chwi a alwyd gan Dduw a gynnysgaethwyd â chyfran o Offeiriadaeth ei Fab, ac a ddanfonwyd i bregethu yr hyn a wyddoch yn ddiau—yr hyn a *brofodd Duw i chwi yn eiriau y bywyd.* Mae hyn yn ffaith wybodus i chwi o anghenrhaid. O, na fyddai mor *gofus* ag yw *wybodus* i chwi hefyd yr anmodau yr ymrwymasoch ynddynt i Dduw pan dderbyniasoch, drwy ordinhad ddwyfol, insel y cyfammod mawreddog hwnw allweddau bywyd tragywyddol, a'r hyn a gynnwys ddedwyddwch eich cyd ddynion! Yn wyliedyddion dros Dduw ein gosodwyd ar y muriau—rhagddangoswyd i ni drwy ysbrydoliaeth ddyncsiad "y dyddiau blin" hyn; am flynyddau galwasom olygon y wlad at y cymylau dudew a beichiogaidd o ddigofaint a dywyllant awyrgylch y ddaear, yn hir ac yn uchel bloeddiodd rhai o honom fod y eleddyf. yr haint, y newyn, a'r plăau wrth y drws, ac er fod gwargaledwch ac anystyriaeth dynion o'r rhybuddion yn tueddu i ddigalondid, etto mae y ffaith o arddeliad Duw o'n cenadwri er achubiaeth miloedd eisoes. ynghyd â chyflawniad ein haddewidion a'n bygythion yn gynîfer o ffeithiau dwyfol a ddylent ein symbylu ni yn y blaen i gyhoeddi ein cenadwri gydag uwch llef, gwrolach calon, a bywiocach ysbryd yn gyferbyniol i'w dynesiad atom.

Ffeithiau hunan-eglur i'r rhai a oleuwyd gan Ysbryd y gwirionedd yw cyflyrau rhanedig, traddodiadol, gau-grefyddol ac annuwiol y "byd crefyddol" presennol; ein bod ni yn feddiannol ar yr unig wir grefydd a ddwg waredigaeth dymmorol a thragywyddol i'w hufyddion sydd hefyd yn ffaith rhy eglur i fod eisieu ei phrofi i chwi. a'r ffaith fawr gyssyltiadol â hyny yw ein *cyfrifoldeb* ni am y defnydd a wnawn o'r oruchwyliaeth a ymddiriedwyd i ni! Mor sicr a bod ufydd-dod cywir iddi yn sicrhau bywyd anmherfynol, mae cyfrifoldeb yr hwn a'i hesgeulusa a'r sawl a'i hanufyddha o gyd-bwys ag yw marwolaeth dragywyddol yr enaid. Mŷna cyfiawnder ei hiawn cydbwysig a'r gwrthddrych o rywle cyfrifol, canys "ni ddychwel fy nghleddyf yn wag;" felly ei air, nid efydd yn tincian yw o

hyd, na'i Offeiriadaeth a roes i'w weision, ni ddichon fod amgen nag arogl bywyd i fywyd, neu o farwolaeth i farwolaeth i'r sawl a'i caffo. Pwy, tra yn syllu yn y drych cywir a ffurfia yr ystyriaethau sobr hyn a all dan wenu yn ngwyneb ei Dad ddweyd, "Yr hyn oll a allais mi a'i gwnaethym?" Pwy wedi deall hyn a ddichon esgeuluso unrhyw gyfleusdra i "achub pentewyn o'r gyneu dân?"

Frodyr, ymddiriedwyd gwaith mawr a phwysig i ni, dim llai na rhybuddio yn onest, yn sobr, ac yn eglur holl drigolion Cymru o'u perygl, a chynnyg iddynt yr unig waredigaeth; y mae hyn genym i'w wneuthur - gorchymyna Duw i ni wneuthur hyn, a gwae ni oni wnawn. Nid yw wahaniaeth i ni pa sawl mil o au-athrawon a floeddiant i'n herbyn—o ddynol au-fonedigion a rybuddiant y werin i "beidio ein gwrando," na chwaith pa faint yw cam gyhuddiadau gau-offeiriaid y fall i'n herbyn; gadawn rhwng yr oll a'r Duw a'n danfonodd; *rhaid* yw i ni gyhoeddi ein cenadwri, a hyny yn ffyddlon, yn ddidderbyn wyneb, a chyda phrysurdeb; nid oes i ni ddewis amgen am ein bywyd. Barnwch chwi ai digaloni o flaen gwg, gwawd, a llysnafedd y byd, ynte wynebu y ffrwd lifeiriol pe deuai ganwaith gwaeth, yw y goreu i ni ac i bawb! O'n rhan ni ein penderfyniad diysgog yw, er y—

Geilw'r byd ar dde ac aswy
'Mod i 'n ynfyd, 'mod i 'n ffol;
Geilw pechod arna'i sefyll,
Geilw uffern arna'i noî;
Geilw'r gelyn am ei athrod—
Galwed ef, ac am ei dân!
Tra bo Brenin nef yn galw,
Rhaid i Sant yw myn'd yn mla'n.

Arweinia yr unig ddrws cefn i ddystryw, tra yn mlaen mae'r Brenin yn ein galw i fuddygoliaeth; er fod byd, cnawd, a diafol i'n herbyn, etto mae mwy o'n plaid, a'r gamp uchel o'n blaen ar ben yr yrfa.

Dywedasom mai gwyliedyddion ydym yn y gongl fach hon o winllan ein Mheistr, a gwaith gwyliedyddion genym i'w wneuthur; bernir fod i ni tua miliwn a hanner i'w rhybuddio, ac y mae yn agos i fil o henuriaid ac offeiriaid Duw yn awr ar

y maes i wneuthur hyny—yr ydys wedi cael amryw flynyddau o amser at y gwaith, ac erbyn hyn o'r oll, a wnaed beth yw yr effaith? Gofidus yw dweyd fod ugeiniau o drefydd ac ardaloedd poblogaidd, a rhai siroedd braidd yn gyfain heb gymmaint ag un o bregethwyr anfonedig Duw i gynnyg iddynt air y bywyd. tra y mae mewn rhai ardaloedd ereill gannoedd o henuriaid galluog yn sathru ar sodlau eu gilydd braidd, neu o leiaf a allent fod yn sŵn lleisiau eu gilydd o gŵr i gŵr i gwm! Chwi frodyr! ai fel hyn y dylech fod? A ydych yn sier mai yna y dewisa Duw i chwi aros, a pha hyd? Onid doeth fyddai i chwi ystyried y pwysigrwydd o'r Offeiriadaeth a'r gwaith sydd genych? Nid digonol esgusion ar ddydd yr arholiad manwl fydd dweyd "*y wraig* a'm rhwystrodd, y gwaith enmillfawr, y perthynasau," na dim arall. O na, ni wnaiff esgus y tro; os na ellir myned ni ofyn Duw hyny; os yw Efe yn gofyn ni ellir cael esgus a ryddha oddiwrth y canlyniad o beidio myned; gwerth gwaed megys, ie, gwerth eneidiau gwerthfawrocach na'r byd a'i berlau fydd y penrwd. Mynych y cynnygir teulu, tylwyth, dyledion, a rhitros o esgusion ereill rhag ufyddhau i Dduw; a droiai hyny angau yn ol? A ddywedai Duw mai digon yw? Pwy sydd heb wybod am deuluoedd, gwaith, cyfoeth, a phob rhwystr yn cymmeryd eu hadenydd ymaith o ffordd y rhai a geisiant ymguddio fel Jona yn eu cysgod rhag cyflawni cenadlaeth Duw?

Yn enw a thros ein Brenin, galwn, ie, gwaeddwn yn uwch nag erioed drwy Udgorn rhyfel am *wirfoddoliaid* i enlistio dan faniar yr Iesu—deuwch yn *awr*—deuwch yn wrol a phenderfyn ol - deuwch drwy neu dros bob rhwystra—"Ceisiwch yn *gyntaf*" sefydlu teyrnas Duw, nid yn *ail* beth, nac fel peth o gyfleusdra pan na fydd arall beth i'w wneyd; nage, eithr ffydd rymus a feddoch i gydio yn addewidion sier eich Tad am gynaliaeth,—mae mor hawdd iddo ddiwallu ei fyddin o *wirfoddoliaid* ag yw iddo ddiwallu y brain ac adar y tô. ac y mae yn fwy sier o wneyd hyny i bob milwr glew. Eithr y mae cymhorth brodyr hefyd i gael; ceir traetho lau, a cheir ffydd a gweddiau holl garwyr y gwir, a cheir gwedd gwyneb y nef, yr hyn yw y mwyaf oll.

Mae genym newydd da i'r sawl na feddant gymmaint o ffydd ag sydd gan yr aderyn tô, a'u gesyd oll yn ddiesgus, yr hyn

yw—mae gwahoddiad taer am 20 o lôwyr y dehau i fyned i Sir Fôn; dywed yr Henuriad William Lewis, yn barodol yno, y bydd digon o waith i gynnifer i ddechreu yn mis Ebrill, a gwell cyflogau nag a enuilla glôwyr yn Merthyr. Dyna alwad ffafriol! Pwy a'i hateba? O fewn 4 neu 5 milltir i dref fawr Caernarfon, ac wedi ei hamgylchynu â threfydd mawrion ereill, rai heb Sant o'u mhewn.—Henuriaid ac Offeiriaid! Pwy a â? Pwy a â yn funn? Erbyn dechreu mis Ebrill yr oedd dymuniad y meistr i'w cael, neu mor agos i hyny ag y gellir. Yr ydym wedi deisyf ar Lywyddion Cynnadleddau i chwilio am, ac i wneyd yr oll a allant i gael gan ddynion cyfaddas i'r alwad—dynion a wnsanaethant Ddnw a dynion yn onest a ffyddlon i fyned i Sir Fôn; eithr hyd yn hyn nid ydym wedi cael enwau yn ychwanegol at y rhai a enwyd yn flaenorol, sef y brodyr Lewis a Vaughan o'r Cwmbach. Beth yw'r achos? Nid diffyg ewyllys gobeithiwn yn y naill i geisio nag yn y llall i fyned. O na, tebyeach mai byrdra y rhybudd; eithr dysgwyliwn gyda dyddordeb mawr am enwau yn ddyddiol i fyddin Breuin yr holl ddaear.

Gwnaethom ein goreu y llynedd i gael gan y rhai a allasent fyned i gredu mai drwy Sir Arfon a Môn yw eu ffordd fwyaf uniongyrchol i Seion, nid ydym wedi cyfnewid ein ffydd un iot eleni, eithr argoela y galwad hwn gynnydd ein ffydd, ac awgryma fod ein Duw yn cofio am ynys hardd Môn. Ei efengyl • eneuau ei weision eleni a ndleisio o lech-greigiau Arfon y miwsig pereiddlaf yn nghlustiau trigolion Môn yw ein taer—ein taeraf weddi yn awr ar ein brodyr hyny a allant fyned a gwneuthur hyny. Ysbryd efengyl Crist a'u hyso nes yr elont • gariad at eneidiau dynion.

Yr Ymfudwyr.—Cyrhaeddodd y llong "Clara Wheeler" yr hon a gludodd y cwmni diweddaf o Saint a aethant o Gymru, yn New Orleans ar Ion. 11eg, wedi mordaith ffortunus yn yr ysbaid anhygoel o 36 o ddyddiau; bu farw amryw blant o'r frech goch, yr hyn a rybuddia y Saint i fod yn ofalus na chychwynont yn y llong gydag unrhyw afiechyd peryglus, a dylai Llywyddion ulw sylw at hyn cyn y cychwyno eu Saint addieartref. Cyrhaeddodd y Cymry yn St Louis, Ion. 22ain, yn iach a chysurus, lle y derbyniasant garedigrwydd mawr gan

y Llywydd Snow a'r Saint yno; y rhai a'u derbyniasant i'w tai a'u hymgeledd, ac a wnaethant yr hyn a allent er eu cysuro a'u diwallu.

Yr Ymfudiad Dyfodol.—O herwydd prinder llongau yn mhrif borthladd y byd i gludo y Saint, gorfuwyd amryw gannoedd i oedi myned eleni am rai wythnosau yn ddiweddarach nag y dymunasent hwylio, etto efelycher y plentyn ymddiriedol yr hwn ni ofnai i'r llong suddo o herwydd "fod ei dad wrth y llyw." Amynedd yn hyn hefyd sydd o fawr werth.

Deallwn fod y Llywydd Richards wedi sicrhau pob llong a allai gael i fyned i Philadelphia; bwriada un hwylio y dydd olaf o'r mis hwn, ac un arall tua y 12fed o Ebrill, ar fwrdd yr hon y bwriedir i'r Saint Cymreig hwylio hyd a ddeallir yn awr. eithr ceir hysbysiad mwy personol i bob ymfudwr cyn y dylai gychwyn o'i gartref. Awgrymiad i barotoi yw hyn yn awr erbyn hyny.

O barthed i'r ffordd oreu i fyned i Liverpool nid ydym yn bwriadu ymyraeth llawer y tro hwn; etto i'r sawl a ystyria ein cynghor ar y mater yn werth ei gael, ni phetruswn ddweyd fod agerfad o Abertawy yn llawer rhatach i'r rhai ydynt eisoes yn y cylchoedd hyny, os nad i'r rhai ydynt mor belled â Merthyr hefyd, yn enwedigol os bydd llawer o bwysau o nwyfau. Mae y tywydd a geir yn gyffredin yn mis Ebrill yn ddeniadol i fordaith er cynnilo. Ni wyddom yn awr pa amser yr hwylia yr agerfad oddiyma o flaen yr amser penodol i hwylio o Liverpool, ond gall pob un gael hyny allan yn brydlon drwy ymholi â'r newyddiaduron, &c., a barnu yn ol hyny. Tebygol mai hawddach i'r ymfudwyr o Sir Fynwy fyned i Abergaveny, a thrwy Gaerlleon i Liverpool.

At Lywyddion Cynnadleddau.—Crefwn sylw ein brodyr Llywyddol at ddynesiad diwedd y Chwarter, a'u dyledswyddau ar y pryd hyny. Erfynir y cyfraniadau at y D. Y. Barhaus, a'r anrhegion at adeiladu y Deml, i mewn yn brydlon fel arferol o bob man; ac na chadwed yr olaf ni i oedi y lleill oll rhy ddiweddar wrth ei aros ef.

Hefyd, galwn sylw at y Dosparthwyr a'u cyfrifon, a dylai pob Llywydd weled fod yr *all right* ar bob peth yno, a bod yr

arian yn treiglo yn amlach yma ac i Liverpool, onide ofnwn y cywilyddia rhai yn nydd y cyfrif pan welo pawb y fath gynnydd sydd yn eu dyled yn y chwarter mynedol. Yndrechiadau bychain presennol a dalant fwy am lyfrau nag addewion mawrion am yr amser na ddaw tan ar ol y fory!

RHWYMO LLYFRAU.

Mr. Golygydd,—Byddweh mor garedig a chaniatân i mi hysbysu eich darllenwyr fy mod yn rhwymo llyfrau, ac i ddeisyf ar fy *mrodyr* yn enwedigol, fy nghefnogi drwy anfon eu llyfrau i mi, neu ganiatâu i mi eu hymofyn. Galluoga fy nhrefniadau presennol yn y fasnach i mi wneuthur unrhyw rwymiad a ewyllysir cystal os nad gwell a chyn rhated ag y gwna neb arall hwynt. Talaf eu cludiad o unrhyw fan drwy y Cynnadleddau deheuol, ac hyderaf y dyry fy mrodyr gyfle i'm *gwaith* fy nghanmol.

Eich gostyngedig ffawd,

D. Davies.

D.S.—Cyfarwydder hwynt i *David Davies, Bookbinder*, 12, *Carmarthen Buildings, High Street, Swansea.*

[Gyda pharodrwydd y cyd-syniwn â chais ein hanwyl frawd, ac hyderwn ein bod wrth hysbysu ein darllenwyr o'r cyfle hwn yn llesoli y ddwyblaid; teilynga y Brawd Davies gefnogaeth y Saint, ac hyderwn mai nodwedd y rhai sydd am lesoli pawb fydd cofio "yn enwedig y rhai sydd o *deulu y ffydd*;" a chan ei fod yntau yn cyssegru yr oll a all o'i amser i bregethu yr efengyl heb na "chod nac ysgreppan," caiff ei gefnogwyr ef yn unig ar a wyddom yn y grefft hon, y pleser a chyfran o'r wobr a deilynga adeiladwyr teyrnas Dduw, yn hytrach na helpu ereill i adeiladu Babilon. Profed "plant y deyrnas" eu hunain mor ddoeth yn eu cenedlaeth ag yw plant y byd o leiaf, canys felly y mae yn gweddu, a gweled hyn yn cael ei wneuthur fyddai yn bleser nid bychain i'ch—Gol.]

AMRYWIAETHAU, &c.

Y Rhyfel.—Nid oes genym newyddion o bwys neillduol i'w ychwanegu o faes y rhyfel hyd y 3ydd o'r mis hwn; dyoddefai y milwyr yn dost o herwydd oerfel adnewyddol y tymmor; cyrhaeddasai y gledrffordd hyd yr eglwys gyntaf yn Sebastopol; cynnygiasai cwmni yn Llundain ymrwymo i'r Llywodraeth y porthent yr holl fyddin â thri phryd o ymborth twymn a da, bara newydd yn ddyddiol, tê neu goffi foreu a hwyr eu gwala yn y gwersylloedd, am 3s 3c yr un y dydd, ond gwrthodwyd ei cynnygiasai cwmni yn Llundain ymrwymo i'r Llywodraeth y porthent yr holl fyddin â thri phryd o ymborth twymn a da, bara newydd yn ddyddiol, tê neu goffi foreu a hwyr eu gwala yn y gwersylloedd, am 3s 3c yr un y dydd, ond gwrthodwyd ei cynnygion. Dengys y Rwsiaid ystyfnigrwydd rhyfeddol i orchfygu Eupatoria lle mae gan y Twrciaid 50,000; gwelir symmorthwyadau o filwyr a nwyfau rhyfel yn dylifo i Sebastopol o'r ochr ogleddol yn barhaus, a dywedir fod y dref yn dair gwaith cadarnach yn awr nag y bu oll. Arddengys yr Amherawdwr Alexander II. olynydd Nicholas o Rwsia, benderfyniad eryf i ddilyn ôl traed ei dad, a gwneir pob ymdrechiadau i gario y rhyfel yn y blaen.

Amseryddiad Cymmanfaoedd y Deheu.—Cynnelir Cymmanfa Cynnadledd Ddwyreiniol Morganwg, Ebrill 1af; Brychgeiniog, Ebrill 8fed; Mynwy, Ebrill 15fed; Gorllewin Morganwg, Ebrill 22ain; Llanelli, Ebrill 29ain; Caerfyrddin, Mai 6fed; Aberteifi, Mai 13eg; Gogleddol Penfro, Mai 20fed; Deheuol Penfro, Mai 17ain.

Derbyniadau am Lyfrau o Mawrth 10 hyd y 23.—Sylwed y Llywyddion! craffed y rhai a ddylent edrych at hyn! eithr na ddywedwch i'r byd mai 15s gan Griffith Roberts yw yr oll a ddaeth i'n dwylaw mewn pythefnos!! Rhaid fod baw yn y cosyn—mae drwg mewn mwy nag un man, chwilier ef allan a diwygier *if you please.*

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones, "Udgorn Seion" Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Darlith yr Apostol Orson Hyde	97
"Mae hethau"	102
Golygyddiaeth—At Bregethwyr yr Efengyl—Y Saint Ymfudol—Yr Ymfudiad dyfodol—At Lywyddion Cynnadleddau	103
Rhwymo Llyfrau	111
Amrywiaethau, &c.	112

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 8.] EBRILL 14, 1855. [Cyf. VIII.

ERLIDIGAETH "GREFYDDOL" A'I EFFEITHIAU.

Ysbrydoliaeth y Goruchaf a ddywedodd, "A'r neb a ewyllysio fyw yn gyfiawn yn Nghrist Iesu a erlidir." Ni raid gofyn pwy a'i herlidia, canys ni cheir ond dwy blaid, sef cyfiawn *yn* Nghrist ac anghyfiawn *allan* o Grist. Beth a ddeallwn wrth fod *yn* neu *allan* o Grist? Atebed Paul, "Canys cynnifer o honoch ag a fedyddiwyd yng Nghrist a wisgasoch Grist." Nid cynnifer a daenellwyd—yr arllwyswyd dwfr arnynt, nac a drochwyd, hyd y nod, a ddywedir, eithr a *fedyddiwyd*; canys dichon trochi dyn ganwaith heb ei fedyddio unwaith, ac wrth hysbysu yr achos o hyny dynoethwn golyn a gwreiddyn erlidigaeth yn mhob oes, a hon hefyd; sef, yw y rhaid fod, nid yn unig y cymhwysderau gofynol yn y deiliaid, ond fod *hawl ddwyfol* gan y gweinyddwr i weinyddu cyn y dichon fod ei weinyddiad yn *fed dd.* Er mor eglur y dylai hyn fod i reswm pob dyn, etto meddwn, proffes gweision Duw o'u *dwyfol* ddanfoniad a'u *dwyfol* hawliad i weinyddu ordinhadau eglwys Dduw sydd yn cyffroi cynddaredd, ac yn enyn digofaint pregethwyr gau grefyddau; a chan na allant wrthbrofi y dystiolaeth,—gan y gwelant fod anrhydedd eu ffurfiau, a gogoniant eu "Diana fawr" yn cael eu peryglu, ymladdant bob ffordd a allant yn erbyn y gwirionedd; a chan nad gwiw gosod gwirionedd i ddystrywio gwirionedd, nid oes ganddynt arfau amgen celwyddau i gynnyg yn erbyn crefydd a fedda allu Duw ac sydd

yn addaw "sierwydd mawr yn yr Ysbryd Glân." Felly y gwnelai gau-grefyddwyr mwyaf selog yn amser ymgnawdoliad ein Hiesu addfwyn, ac yn eu canol pan y gofidiai ei apostolion o herwydd y cam-gyhuddiadau gwarthus a ddywedid yn eu herbyn; ac braidd na ddigient wrth eu Hathraw Mawr am na amddiffynasai ei gymmeriad rhag y fath enwau cywilyddus, a'i fod yn "ddyn glwth ac yfwr gwin, cyfaill publicanod a pheehaduriaid." Syndod pa fodd y goddefai iddynt ddweyd mai bastard ydoedd o enedigaeth? Eithr pa fodd y gwrthbrofasai efe y cyhuddiad i'r rhai na ehredent ynddo? Ni allasai eu gorfodi i'w gredu mai Mab Duw oedd. Tebyg mai o dan rhyw deimladau fel hyn y codai ei ben i'r lân, ac y cysurai ei ddysgyblion gofidus drwy eu hannog i fod yn amyneddgar, gan ddysgwyl diwedd eu ffydd, achubiaeth eu heneidiau, ac y caffent gyflawnder pan "eisteddent ar orsedd-feingciau yn barnu deuddeg llwyth Israel." Duw y byd hwn sydd yn cael y "gwynfyd" *yn awr*, eithr cyflawnir geiriau eu Brenin i'r Saint yn eu pryd, wedi cael profiad o'u ffydd, yr hwn sydd werthfawrocach nâ'r aur colladwy; "Gwyn eich byd chwi," ebe Efe, "pan y dywedant *bob* drygair yn eich erbyn er mwyn fy enw i a'r efengyl a hwy yn gelwyddog."

Nid yw y *gwyn fyd* yn addawedig nes bo y rhestr o ddrwg enwau yn llawn—"pob drygair;" o'n rhan ni, rhaid cyfaddef fod ein camgyhuddwyr wedi profi eisoes drwy yr holl enwau a gawsom rhyw ymenyddion go ddyfeisgar; dysgwyliasom er ys tro bellach fod y cyhuddiad olaf yn ei dro y gwaethaf a'r diweddaf a allent gofio, ddyfeisio, na breuddwydio am dano. Eithr fel y breuddwydir pethau hynod blith draphlith y dygir i esgoreddfa erlidwyr y Saint bob amrywiaeth o anghenfilod amryw bennog, ac anghymmalog, yn *gosmopolites*, ac yn *hermapheedetes*, a'r sawl na ddiflaswyd eisoes ar lysnafedd ac anwireddau, eithr a ddewiso glyweed chwaneg o gam-gyhuddiadau nac a feddyliodd erioed am danynt, caiff hwynt gan ein herlidiwr yn y dref hon yn awr. Mae genym sail gref i gredu fod dydd ein "gwynfyd" yn cael ei agoshâu gan y dyn hwn; bid siwr na ddywed efe y "pob drygair" cyn y tawa; mae ei elyniaeth yn ormod i adael i ddim niweidiol aros ar ol yn ei galon debygid. Wel yn mlaen a hi dyweder, cyhoedder a thraflyncer a fyner, cawn ninnau y fraint o ddyoddef tipyn o ryw betha

tebyg i'r hyn a oddefodd ein Harglwydd lawr; ymgysurwn yn y wybodaeth o hyn, y dystrywia pob gelyn ei hunan a ymladda yn erbyn "Mormoniaeth," ac y llwydda hi po fwyaf ei chamgyhuddir ac yr erlidir hi; canys y mae Duw ynddi.

"O na," medd ein herlidwyr, "nid am eich crefydd yr ydych chwi yn dyoddef. ond o herwydd eich twyll a'ch drygioni." Ië, siwr, dyna oedd esgus pob erlidwyr; nid am eu cyfiawnder na'u gwirioredd yr erlidiwyd Crist, ei apostolion, na neb o'r Saint, nage, ond am fod y byd drwy eu safon gau-grefyddol a chyfeiliornus yn barnu y tywyllwch yn oleuni a'r goleuni yn dywyllwch, y *gau* bregethwyr yn *wir* weision Duw, a gwir weision Duw yn ddynion cyfeiliornus, drwg, aflan, a pheryglus, ac am hyny—o herwydd y tybid eu bod hwy *felly* eu herlidiwyd, ac nid am un daioni sydd ynddynt, bid siwr. Pwy a all gofio na dyfeisio un cyhuddiad a ddygir yn erbyn y Saint yn awr ar na ddywed y Beibl fod y cyffelyb yn cael ei ddweyd yn erbyn cymmeriad ac athrawiaethau gweision Duw yn y cynoesoedd? Paham y tebygolrwydd hwn, ynte? Paham na chaffai rhyw enwad neu blaid y teitlau hyny heblaw y Saint? Paham unoliaeth yr oll ereill yn awr yn erbyn y Saint megys yr ymunai yr ysgrifenyddion, Phariseaid, a holl sectau yr oes hono yn erbyn yr apostolion, pwy a ddywed? A phaham y cyfloga y rhai hyny a broffesant fod yn weision Duw, y rhai ydynt weision proffesedig y diafol, megys meddwon, cablwyr, puteinwyr, gwrthgilwyr, a rhai na wnant broffes o un math o grefydd i'w cynnorthwyo i ymladd yn erbyn y Saint? Rhyw fyddin afrosgo, amryw-liw a chwaeth a geir yn y *Crusade* hwn, onide! Mwy afresymol gweled y Parch cadach gwyn a'r gwyneb hir yn crechwenu yn wawdus tu cefn, ac o gymmeradwyaeth i *flaggard* mewn pwlpud, a gyflogwyd i regu y Saint fel y cyflogwyd Balac gynt i regu Israel, Demetrius y gof arian, neu Alexander y gof copr, ïe, fel y cyflogwyd Judas am ddeg ar hugain arian i fradychu ei Feistr diniwed, nac a fyddai gweled ein milwyr yn ymladd yn ochr estroniaid a gyflogwyd yn ol y "*Foreign enlistment Bill;*" ac mor awyddus yr edrycha y rhai hyn am i'w Judas fradychu gwendidau a dwbio cymmeriadau y Saint ag y dysgwyliau y Zealots hyny am i Judas gyflwyno yr Iesu i'w dwylaw—"adar o'r un lliw ehedant i'r un lle," ebe yr hen ddiareb.

"Os celwyddau a ddywedant arnoch, paham nad ewch i'w gwyneb i'w gwrthbrofi?" medd ambell un; a digon tebyg y gofynid yr un peth i bob gwas i Dduw a ddifenwyd yn ei ddydd, etto nid oes hanes yr ymddadleuent mwy yr ymgyndynent hwy â phob goganwyr, difenwyr, na cheerwyr a geisient ganddynt, eithr yn hollol groes y gwnelent hwy ac y dysgent eu gilydd i wneuthur. "Cyndyn ddadleu dynion llygredig eu meddwl, heb fod y gwirionedd ganddynt; cilia oddiwrth y cyfryw," ebe Paul. Pa les dadleu am grefydd â'r hwn na phroffesa feddu crefydd ei hun? Ni all efe gyfarwyddo arall at grefydd pe yr amddifadai ef o'r hyn sydd ganddo. Mae genym ni genadwri oddiwrth ein Meistr i'w thraddodi i'r sawl a ddewiso ei chlywed, ac nid i'w gorfodi ar y sawl na ddewiso ei chlywed. Ein dyledswydd ni yw gwaeddi ffydd, edifeirwch, a bedydd er maddeuant pechodau, a dawn yr Ysbryd Glân drwy arddodiad dwylaw, &c., ein Duw a ofala am y canlyniadau, a sicr ydym y bydd y dystiolaeth hon yn "arogl bywyd i fywyd, neu o farwolaeth i farwolaeth" i bawb a'i gwrthoda, pe gwawdiai neu y ffyrnigai holl Beirch a Gols. y wlad; nid yw eu "pw pw," na'u "hach," na'u holl yn un gwrthbrawf o'r ffaith uchod. Hi a saif —hi a waedda yn uwch, a'i hadleisiadau yn ngorseddau barn a wna i'w diystyrwyr waeddi ar y mynyddau i'w cuddio o wyddfod y rhai a'i tystiant.

Ceir chwaneg o'n rhesymau dros beidio ymddarostwng i ymgecru â'r dyn halogedig yn ein *hamddiffyniad* rhag y baeddiad, a phleser genym hysbysu ein bod ni yn gwneuthur yn ol cynghor ein prif Lywydd ar y matter, ac mai yn gyffelyb i fel y gwnawn ni ag ef y gwnaeth ein holl Frodyr ag ef yn y manau ereill y bu, a'n crêd ddiysgog yw ei fod er o'i anfodd yn gwneuthur llawer o ddynion gonest yn Saint. Clywsom mai dyna oedd canlyniad ei ddarlithiau mewn manau ereill, eithr gwyddom mai y canlyniad o'i ddarlithio yma hyd yn hyn ydyw agoryd llygaid y rhai gonest i chwilio i'n crefydd; dywedwyd wrthym bob dydd am rai a fuasai yn ei ddarlithiau nes diflasu arno, a chredu fod gwir grefydd gan y Saint cyn byth y gwelsid Peirch a gwyr lleyg yn cefnogi y fath gymmeriad i gamgyhuddo crefydd eu cymmydogion diniwed. Mae pob peth, a hyn hefyd, yn eyd-weithio er daioni i bobl ac achos Duw, canys pe,—

Deuai pawb mawr erfawr a'i arfaeth,
Yn chwerw, a churo "Mormoniaeth;"
Ceisio ein briw pa wiw pa waeth,
Nes delio â'n *tystiolaeth?*

"Oni ddylech chwi er mwyn eneidiau dynion ddyfod i amddiffyn os gallwch â gwirioneddau, rhag i bobl gael eu twyllo i gredu celwydd a bod yn golledig," medd rhywun. Atebwn mai yr hyn a ddylem ni wneuthur a wnawn, a'n rheswm dros hyny yw, nad ymofyn gwirionedd mae y rhai sydd yn myned i ddarlithio nac i wrando ar ddarlithiau yn ein herbyn ni na'n crefydd, onidê deuent i'n capeli ni yn lle i wrando ein cam-gyhuddwyr a'n gelynion proffesedig. Mae y ffaith o fod pawb a ddymunant iawn ddeall Bedyddiaeth yn myned i gapeli y Bedyddwyr—y sawl a ddymuno iawn ddeall beth yw gwir gredo "Trindodiaeth" yn myned i'w capeli hwy, a'r oll a fedda reswm yn myned yn hytrach i wrando *pleidwyr*. pregethwyr proffesedig pob sect nâ'u gwrthwynebwyr, yn profi mai ymofyn y *gwir* am y cyfryw y maent, ac mai *felly* yw y ffordd oreu i'w gael; ac mae y ffaith o'u mynediad ynghyd i wrando darlithiwr proffesedig yn erbyn "Mormoniaeth," fel ei galwant, yn profi mor gadarn o'r ochr arall mai celwyddau a cham-gyhuddiadau yn *unig*, ac nid y *gwir* o honi y maent yn ymofyn yn y fath le a chan y fath rai. A chan mai cam-ddarluniad o'n crefydd—gan mai celwyddau am danom a ddewisa y dynion hyny, a chan mai hyny a fynant er ein gwaethaf ni a phawb ereill, pwy na ddywed *Amen* gyda eu dewisiad, ac ewyllysio iddynt gael gwledd nes torri eu cylla ar yr hyn a garant mor fawr? Gwlad sydd yw hon mae yn wir, a phaham y rhwystrir undyn i lyncu cynnifer o gelwyddau ag a ddewisa? O, na, nid ydym ni mor awyddus am orfodi y gwir ar ddynion fel ag i'w yru i lawr eu gyddfau erbyn eu gwaethaf. Pe teimlem felly, teimlem yn groes i Dduw, canys dywedir y "denfyn Duw amryfusedd cadarn fel y credont gelwydd," a hyny fel eu damnier o herwydd gwrthod y gwirionedd a gynnygiasid iddynt cyn hyny, yn y cariad o hono. Y mae yn rhyfedd i rai fod Duw yn danfon amryfusedd fel y credont gelwydd; eithr mae cyfiawnder Duw y fath ag y gofyna brawf o gariad dyn at gelwydd yn hytrach nag at wirionedd cyn y damnia Efe ef, a thyna paham

y caniatâ Duw i'r diafol anfon ei genadon a'r fath anwireddau gwarthus i'w cynnyg i drigolion Abertawy yn awr; cynnygiwyd y gwirionedd megys y mae yn yr Iesu iddynt yn *rhâd* am flynyddau, a hwy a heppiasant o tan sŵn yr hyfryd lais—ni fynent, oddieithr yehydig o honynt. mo y genadwri, o ganlyniad cyfiawn iddynt gael cynnyg ar yr ochr arall. A pha beth yw eu hymddygiadau, neu lawer o honynt, at ddyeithryn digymmeriad na phroffesa fod Duw wedi ei ddanfon, a thuag at ei gelwyddau? Wel, er syndod i reswm dynol, dyma yw,—gwell gan luoedd dalu eu harian i fyned i wrando ar, a llyncu yn felys yr hyn a ddywed gelyn proffesedig! Pwy a gŵyna iddynt? Pwy na ddywed *Amen* â'i holl galon ar ddedfryd y *carwr* celwydd wedi iddo wneyd ei oreu i gael ganddo gredu y gwir, a methu? Na chaffer ni byth yn ceisio arddangos mwy o awydd i achub dynion nag a ddengys ein Duw; a chan ei fod Ef yn caniatâu i gelwyddwyr fel yr ysbryd celwyddog hwnw a anfonodd Efe, gan ddywedyd "Dos a thwylla Ahab, trwy fod yn ysbryd celwyddog yn ngeneuau ei brophwydi ef," pwy a'i beia nac a ddywed fod yn ddyledswydd ar was i Dduw fyned i'r fath le, nac i blith y fath bobl i geisio amddiffyn nac i gynnyg gwirionedd iddynt? Dioleh i Dduw na ofynodd Efe y fath waith oddiar ein dwylaw—cyffelyb waith ag a fyddai myned i uffern ei hun i geisio cipio pentewyn o'r fflamiau heb losgi ei ddwylaw. Ni feia un dyn rhesymol ni am beidio gwneyd hyny, tra y gwrthodant y cyfle i ddyfod i'n gwrando yn Neuadd y Saint, Heol Orange, bob Sul, ac fynychaf bob nos drwy'r amser yn egluro ein daliadau.

O herwydd y dysgwyliwn mai dechreu cynhwrf yw hyn bach, ac y cawn well cyfle i amlygu tipyn o'r hyn bethau sydd ynom cyn hir, ni chwanegwn yn awr, nemawr, amgen na dweyd yn eofn, yn groew, a phen uchel; ie, pe meddem glarion angel, bloeddiem nes y clywai holl bobl Abertawy, mai anwireddau yn grynswth, camgyhuddiadau anynol, a cham-ddarluniadau o honom, ynghyd a cham-ddyfyniadau o'n llyfrau a glywsant yn y darlithiau cyfeiriedig, ac yr ydym yn feddiannol ar *brawfiadau* o'r hyn a ddywedwn, a foddlona bob *carwr y gwir*, nfydd was yr hwn ewyllysiwn fod er ei les. Eithr am y llall, sef *carwr celwydd*—gyda'r clochydd gwaeddwn, "Gwared ni Arglwydd daionus;" a gwared yntau rhag cael ei ofidio â gwir-

ionedd, eithr pescer ef â'r bwyd a chwanta, fel mochyn i'r lladdfa, a boed ein cyfaill Mr. H —— (dyna! buom agos ag andwyo ein safn drwy ei enwi, eithr achubasom!) wel, caffed ef ei hoff waith oeddem am ddweyd, fel y cafodd yr afradlon hwnw gynt i gario *cibau i'r cafnau*, hyd oni ddaw i feddu dyneliaeth.

CYMMANFA DYFFRYN CONWY.

Bryn Dedwydd, Mawrth 23, 1855.

Anwyl Lywydd Jones,—Syr,—Yr wyf yn anfon cofnodion y Gymmanfa uchod yr hon a gynnaliwyd yn yr Eglwys-fach ar y 18fed o Fawrth.

Wedi dechreu y cyfarfod boreuol, cafwyd annerchiad gan y Llywydd, yr hwn a ddwys annogodd y swyddogion a'r Saint i ystyried gwaith y dydd, ac i ddwyn eu calonau i ddoethineb, a chydnabod y gallu a'r godidawgrwydd o Dduw yn mhob rhan o'i waith heddyw ac yn barhaus; dangosodd mor gyflym y mae Duw yn dwyn oddiamgylch fwriadau ei galon, a geiriau ei Brophwydi yn yr oes hon,—fod yr oes a'r oruchwyliaeth hon yn rhagori yn fawr ar y rhai mynedol,—fod yr Arglwydd yn yr oes bresennol yn agor seliau ac yn dwyn allan drysorau a gwybodaethau ag oedd yn guddiedig er seiliad y byd,—fod bendithion Duw i'w blant, a'i ddialedd ar y byd annuwiol yn llefaru yn uchel fod Duw am ddyfod i ymogoneddu yn mhlith ei bobl, ac na ddaw fel "Duw dyeithr," ond yn hytrach yn ol y portread a roddwyd yn flaenorol; yna gallwn ddweyd, "Wele'r Duw y gobeithiasom ynddo," ac y bydd fel y dywedodd y Llywydd Young, "na wybydd yr annuwiol pan y bydd llywodraeth yr Arglwydd dros yr holl ddaear, eithr meddyliant mai grym ac effeithiau doethineb dynion fydd hyn oll," fel y dywedodd yr Iesu nad all neb adnabod y Tad ond y Mab, a'r hwn yr ewyllysiai y Mab ei ddadguddio iddo. Annogodd y Saint i fod yn effro, a chadw olew gyda hwy, o herwydd na wyddom pa mor fuan y daw yr alwad, fel y dywedodd y Llywydd Jones yn yr Udgorn, y daw gorchymyn i ni fyned adref ar frys. a thruan o'r cyfryw un fydd wedi gadael, heb wneuthur yr hyn a allasent ei wneuthur.

Cafwyd y cynnrychioliad fel y canlyn:—Cang., 6; Hem., 23; Off., 5; Ath., 4; Dia, 4; ysgymmunwyd, 1; a bedyddiwyd, 1.—Cyfanswm, 97.

Penderfynwyd dal i fyny yn ddieithriad holl awdurdodau yr Eglwys.

Penderfynwyd fod Wm. Lewis a Hugh Roberts i fod yn gynghorwyr i'r Llywydd R. Roberts yn y chwarter dyfodol.

Penderfynwyd parhau yn ddiwyd i gasglu at ddyled y Llyfrau, a chreda y Llywyddion y gwneir mwy o waith yn y tymmor dyfodol nag a wnaed yn yr un a aeth heibio.

Gan fod Wm. Davies, Ieu., ar ymadael, efe a dystiolaethodd am gymmeriad da y Llywydd R. Roberts, a'i fod fel y cyfryw yn deilwng o barch a gwrandawiad gan yr holl Saint.

Yn y prydnawn a'r hwyr cafwyd pregethau, cynghorion, ac addysgiadau rhagorol gan y Bugail J. Parry, y Llywydd Roberts, a chan Thomas Roberts, mewn perthynas i ddyledswyddau y Saint, adeiladaeth Seion, a chasgliad pobl yr Arglwydd o Babilon, &c.

R. Roberts, *Llywydd.*
W. Davies, *Ysgrifenydd.*

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MAWRTH 14, 1855.

Yr Ymfudiad Eleni.—Hwyliodd dros ddau cant o Saint o Gymru allan o Liverpool ar fwrdd y llong "Chimberazo" ar y 12fed o'r mis hwn tua Philadelphia, gerllaw hanner pa rif a fwriadant gyrhaedd Tiriogaeth Utah eleni; eithr y lleill a fwriadant aros yn y Talcithiau i'r dyben o ymgyfoethogi gogyfer â'r gweddill o'r daith mor fuan y gallant. Yn mhlith ereill o'n cyfeillion mynwesol a'n hanwyl frodyr a'n gadawsant, mae ein Cynghorydd Thomas Jeremy, ar ol cenadwriaeth o dros ddwy flynedd yn y wlad hon, yn dychwelyd i Seion. Mae yr Henuriad David Rees, Llywydd Cynnadledd Penfro egledd-

ol gynt hefyd yn mhlith y nifer ffortunus a adawsant wlad y cystudd mawr; awelon y nef a'u chwytho yn ddiangol dros y Werydd mawr, a'r Duw a wasanaethant a'u diogelo rhag y peryglon a'u hamgylchynant ar eu taith.

Un achos o fod yr ymfudiad mor ddiweddar eleni yw o herwydd nad ellid cael digon o longau yn Liverpool, er yr ystyrir ef y porthladd mwyaf yn y byd, i gludo y Saint yn gynt; er's ychydig o wythnosau yn ol yr oedd gan y Llywydd Richards enwau tua dwy fil o ymgeiswyr am ymfudo yn chwaneg nag a lanwai yr holl longau ag oedd i mewn y pryd hyny i hwylio tua Philadelphia. Ai at ymfudiad y Mormoniaid yr edrychai y Prophwyd gynt, pan y gofynodd mewn syndod, "Pwy yw y rhai hyn sydd yn dyfod fel colomenod i'w fenestri?" Dian nad argoel yw hyn fod Mormoniaeth yn darfod yn y wlad, fel y dywedir ei bod; ac hyderwn y caiff y cyhoedd weled ffeithiau grymusach i brofi ei bywiogrwydd yn y flwyddyn nesaf, drwy fod miloedd chwaneg yn eu gadael: a gwyn fyd pe caffem fod yn un o'r dedwyddolion hyny, medd ein henaid.

ANNERCHIAD YMADAWOL Y LLYWYDD THOMAS JEREMY.

Anwyl Olygydd,—Caniatewch i mi annerch y Saint drwy eich Hudgorn ar fy ymadawiad â'r wlad hon i ddychwelyd tua Seion.

Anwyl Saint,—Y mae yn awr dros ddwy flynedd er pan ddychwelais i lafurio i'ch plith chwi, ac y mae yr amser wedi myned heibio gyda buandra neillduol yn fy ngolwg. Arwyddion amlwg o foddlonrwydd a chariad ein Tad nefol a welais tuag atoch yn eich cynnulleidfaoedd trwy ddeau a gogledd, trwy dywallt arnoch o addewid ei Fab, sef y Dyddanydd nefol, yr hwn yn ddiau a achosodd i chwi lefaru â thafodau newyddion, prophwydo, dwyn i'ch cof bethau a aethant heibio, cyfieithad tafodau, ynghyd a gweledigaethau, doniau iachau, ac nerthol weithrediadau yr Ysbryd Glân. Am y bendithion anmhrisadwy hyn i chwi, a chael ŷfranogi o honynt fy hunan, y teimlaf roddi teyrnged o glod a mawl a gogoniant i'r hwn a bia y gwaith da, pa un ag yr ydym ni wedi cael y fraint o'i gario yn y blaen.

Gwyn fyd y brawd neu y chwaer a deimlant yn eu calonau fod pob peth yn iawn rhyngddynt hwy a'i Tad yn y nefoedd, a'u bod wedi ymdrechu eu goreu i deilyngu yr enw rhagorol sydd arnynt, sef, bod yn Saint, yr hyn ni chynnwysa lai nâ ffyddlondeb yn nghyflawniad o'u holl ddyledswyddau, pa un bynag a'i pregethu yr efengyl i'r rhai sydd o'r tu allan i'r eglwys, neu i wneuthur gwir ymdrech i werthu yr argraffedig air, er gwaeuo eu cyd ddynion o'r tywyllwch traddodiadol sydd yn eu dal mewn caethiwed, ynghyd ag ymfucheddu ger bron y y Saint a'r byd fel dynion wedi ymbriodi â'u Brawd hynaf, y gwnant eu goreu er pob gwawd, dirmyg, ac erlidigaeth i adeiladu ei deyrnas, a dwyn ei amcanion gogoneddus i ben yn y cylchoedd y gosoda Efe hwy ynddynt.

Gan fy mod yn awr ar gychwyn, ynghyd ag amryw o'r Saint Cymreig tua Seion, i'r lle a nododd yr Arglwydd trwy y prophwydi cyntefig a diweddar, i fod yn le o ddiogelwch i wareddigion Seion yn y dyddiau diweddaf, rhag pläau, heintiau, newyn, daeargrynfäau, dymchweliad teyrnasoedd, ynghyd a rhyfeloedd na fu eu bathau er pan yw dynion yn trigo ar y ddaear, taer erfyniaf ran yn eich gweddiau, anwyl Saint, ar i mi, a'r rhai sydd yn dyfod gyda mi o'r wlad hon i gael iechyd ar ein taith tua Seion, fel y gallom gyrhaedd yno i wrando ar ragorolion y ddaear yn traethu i ni air y bywyd; ac addawaf innau i chwithau na fydd i mi eich anghofio ger bron gorseddfainc y gras.

Gwnewch eich goreu i rybuddio ein cyd-genedl o'r tywyllwch y maent ynddo, fel y casgler yr olaf Sant i Seion cyn y delo y dyddiau blin, pa rai sydd wrth y drysau, i ddïad ar y cenedloedd am eu hanufydd-dod i orchymynion y nefoedd, a'u diystyrwch o'u ffryndiau goreu (pe yr adnabyddent hwynt), pa rai sydd nos a dydd â'u holl egni yn ymdrechu eu dwyn i'r iawn ffordd allan o fagl y diafol; ond er gofid y dywedaf, nad oes ond ychydig yn adnabod yr hyfryd lais; eithr dywedant am y da mai drwg yw, ac am y drwg mai da yw. Ond er fod y rhan amlaf o'n cyd genedl hyd yn hyn yn diystyru ein cenadwri dros ein Mheistr atynt; er hyny na wangalonwch, eithr hyddwch yn fwy ymdrechgar i chwilio am y rhai sydd â'u calonau yn onest o'u plith, canys diau fod llawer o'r cyfryw etto i'w cael trwy ddeau a gogledd. Mae yn wir fod yn anhawdd

cael gafael arnynt. o herwydd fod gweision y gelyn ar y ddê ac aswy yn lledaenu celwyddau o'r wasg a'r pwlpudau am danom, gan berswadio pawb a allant i'n gwrthwynebu hyd yr eithaf.

Anwyl Frodyr yn yr Offeiriadaeth, pa rai sydd yn llywyddu y gwahanol Gymadleddau yn Nghymru, ynghyd a'ch Cynghorwyr,—Gan mai arnoch chwi yr ymddibyna i osod eich byddinoedd mewn trefn, yn ol cynghor eich Prif Lywydd, yr hwn sydd wedi brwydro ar y maes yn llwyddiannus er ys llawer o flynyddau. a diau ond i chwi weithredu yn gymhwys, yn ol fel y cyfarwydda efe chwi, byddwch yn sicr o lwyddo, a chwi a ennillwch filwyr newydd i'ch byddinoedd trwy ddeau a gogledd Cymru.

Llawer o hyfrydwch a phleser a fwynheais yn eich cymdeithas chwi yn y gwahanol siroedd, wrth deithio gyda'n gilydd o gangen i gangen, gan ymddyddan â'n gilydd ar hyd y ffordd am y pethau a berthynent i deyrnas Dduw, a llwyddiant ei waith. Nid wyf yn gwybod i mi ddysgu un egwyddor i'r un o honoch, nac i neb o'r Saint dan eich llywyddiaeth a achosa i mi edifarhau o'i phlegid, ond yn hytrach, frodyr hoff, gwnewch yn ol y cynghorion a gawsoch genyf yn fy ngwendid, a llwyddiant a bendithion y nefoedd a'ch dilyno. Gwn fy mod yn eich caru â chariad efengyl Iesu Grist, ynghyd a'r rhai sydd oddi tan eich llywyddiaeth. Teimlaf yn wir ddiolchgar i chwi ac i'r holl ffyddlon Saint, am eich caredigrwydd tuag ataf, ac mi a weddiaf ar yr Hwn a'm danfonodd tuag atoch trwy gynghor ei weision, fel gwobrwyo oll ar eich canfed am eich haelioni tuag ataf.

Y mae yr amser terfynedig wedi dyfod i ben i mi eich gadael, frodyr a chwiorydd anwyl,—y llong yn barod, a'r Saint ymfudol yn ymlwybro tuag ati, gan adael beddau eu tadau, ffryndiau a pherthynasau, a'r Saint anwylaidd ar ol, a'u gwynebau yn awr tua gwlad well mewn ufydd-dod i orchymyn pendant eu Duw.

Yn iach yn awr, anwyl Lywydd Jones, bydd y cynghorion a gefais genych yn sicr o gael lle yn wastadol yn fy nghalon, trwy gynnorthwy yr Ysbryd Glân. Mae llawer o bethau yn dyfod i'm côf yn awr am yr hen amser gynt. cyn i ni gychwyn gyntaf o'r wlad hon tua Seion,— pan y clywais chwi gyntaf yn pregethu ffordd yr iachawdwriaeth yn Llanybyddar, er ys

tua deng mlynedd yn ol;—syrthiais mewn cariad atoch, ac at yr egwyddorien a glywais genych y tro cyntaf y gwrandawais arnoch erioed, a diolchaf heddyw i'r Hwn a'ch danfonodd i druethu gair y bywyd i'm clywedigaeth, canys fy enaid a lanwyd â gorfoledd.

Ni raid i mi ddywedyd wrthych am y pleser a gawsom aml dro gyda'n gilydd, pan yn neillduo yn ddirgelaidd i weddio ar ein Duw am y pethau a deimlem fwyaf o'u heisieu,—gallcoedwigoedd a glanau afonydd Cymru ac Americ dystio hyn pe y gallent siarad. Yr Arglwydd a'ch bendithio ehwi, ynghyd a'r Brawd Daniels, fy anghyd-lafurwr am flynyddau yn ngwinllan ein Mheistr;—angylion y nefoedd a fyddo yn eich gwylio a'ch cadwo rhag afiechyd, ac Ysbryd yr Arglwydd a'ch nertho i gyflawni eich cenadiaethau er gogoniant a mawl i'r Hwn a'ch danfonodd i Gymry, ac er anrhydedd i chwithau pan y derbynia pawb en gwobr yn adgyfodiad y rhai cyfiawn.

Ffarwel, anwyl Saint, yr Arglwydd yn unig a wyr pa bryd y cawn weled ein gilydd etto, ond gobeithiaf na fydd yr amser yn hir. Saint anwyl, gweddiwch ar i'r dwyrain-wynt lanw yr hwyliau fel y gallom gael mordaith fuan a chysurus, ac hefyd fel yr elom dros gledr-ffyrdd, afonydd, gwastadedd, a mynyddoedd creiglyd yn ddiogel i fynwes yr Eglwys, a chael gweled a chymdeithasu â fy nheulu anwyl un waith etto.

Cyn terfynu, caraf roddi tystiolaeth ffyddlon i'r Saint, ac i bawb a ddygwydda ddarllen yr Aunerchiad hwn. Gwn fod y grefydd a broffesa Saint y Dyddiau Diweddaf yn wirionedd, canys yr Arglwydd a brofodd hyny i mi trwy lawer o ffeithiau. Gwn fod Joseph Smith yn brophwyd i Dduw, ac mai gwirioneddyw "Llyfr Mormon," a'r "Athrawiaeth a Chyfammodau," a gwn hefyd fod Brigham Young yn gyfreithlawn olynydd i Joseph Smith, ac oddiar adnabyddiaeth bersonol â Brigham y dywedaf mai efe yw y dyn goreu a welais erioed.

Terfynaf yn awr gyda theimladau o serch a chariad tuag atoch oll. Yr Arglwydd a'ch bendithio â holl ddymuniadau eich calonau mewn cyflawnder, yw dymuniad

Eich gostyngedig frawd yn efengyl Crist,

THOMAS JEREMY.

BRADWRIAETH YN ERBYN AMERAWDWR Y FFRANCOD.

Mewn traethawd a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Brussels, cyhuddir Napoleon a'i brif gadfridogion o lawer o gamwri, a'r blaenaf o ystyfnigrwydd a phenganirwydd hynod am ei ffordd ei hun o barthed i'r rhyfel presennol. Tybir mai y Tywysog Napoleon, ynghyd a rhai o brif swyddogion yr Amherawdwr, yw awduron dirgelaidd y traethawd. Dywed fod Napoleon yn mynu ei ffordd ei hun er gwaethaf ei ewyrthr Jerome, ei holl berthynasau, a'i gyfeillion goreu, gan orchymyn iddynt beidio a'i aflonyddu mwyach â'u cynghorion. Dynoethant ei farn bersonol ef yn groes anghydmarol i ryddid, a'i fod ef wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn gwerin lywodraeth, yn yr hwn y mae wedi taflu ymaith ei wain.

Heblaw yr archoll a ddyry dynoethiad anghydfod Napoleon a'i brif swyddogion i'w gymmeriad, mae y newyddiaduron yn ei gyhuddo o fod yr unig achosydd o'r ymosodiad presennol ar y Crimea. Dywedir fod yr holl gynghor rhyfel cynnwysedig o Gadfridogion a Llyngeswyr Prydain a Ffrainc, ynghyd a'r Dug Cambridge a'r Tywysog Napoleon yn ddieithriad, oddieithr y Cadfridog Arnaud, yn wrthwynebol hollol i ymosodiad ar Sebastopol, ond fod yr olaf mewn ufydd-dod i'r Amherawdwr wedi mynu ei ffordd ei hun. Amlyga y ffaith o fod Napoleon yn unig achos o'r rhyfel paham y dengys y fath sêl frwd â myned i'r rhyfel ei hun; dysgwylia y bydd i'w bresennoldeb ef yno gyfnerthu y milwyr i ddarostwng Sebastopol, methiad o ba un a beryglai ei goreu, ac a fygythia yr Amherodraeth lawer mwy na hyny. Napoleon, debyg, dysgwyliwn mai yn ei naid olaf rhag trengu yr ennilla yntau, fel ei dadau, y pinacl uchaf, nad pa le yw hwnw!

ANNERCHIAD YMADAWOL YR HENURIAD WM. WILLES, I'R SAINT CYMREIG.

Caerdyf, Mawrth 30, 1855.

Y Llywydd Jones,—Anwyl Frawd yn Nghrist,—Tra ar ymadael â'r hen Walia hoff, ni esgeulusaf yr adeg bresennol idd

eich hysbysu o greulonderau y Saint Cymreig tuag ataf, canys ceisiasant fy lladd â thiriondeb yn mhob man y bum yn eu plith, ac nid digonol oeddynt ar hyny heb anfon eu saethau ar fy ol,—sef eu cyfraniadau haelionus o'r lleoedd na allaswn ymweled â hwynt. "Mae yn dda i fod yn Saint y dyddiau hyn. O, fy mrawd, pa mor fawr fydd bendithion ein Tad nefol i'r brodyr a'r chwiorydd hyn! Ni anghofiaf byth mo eich haelioni chwi a hwythau,—gyda dysclaerdeb yr haul yn y ffurfafen y tywyna yr hoff gofiant o hono yn fy nghalon.

Mae ynwyf y teimladau gwresocaf tuag at y brodyr Evans, Jones, Daniels, Griffiths, &c.; ac yn enw yr Arglwydd a'm Mheistr, dywedaf, bendithied Efe chwi â hwythau yn dragywydd.

Pa fodd y cefnoga y byd yr haeriad ffol,—ein bod ni yn "bobl a hudwyd" tra y mwynhawn fendithion yr Arglwydd yn ein plith? Pe yr addawasid bendithion ini, a ninnau heb eu derbyn, iawn fyddai yr haeriad! Ond, diolch i'n Tad nefol, y maent genym, ac nyni a'u cadwn cyhyd ag y byddwn yn ffyddlon.

Dywedaf, yn iach i bawb yn awr, hyd oni gyfarfyddom etto, gan weddio ar i'r bendithion rhagoraf a chyfoethocaf i fod eich rhan ddedwydd chwi, a'ch hanwyl deulu, ynghyd a'r holl Saint dan eich gofal.

Fel arferol, ac yn barhaus,

Wm. Willes.

NEWYDDION O'R RHYFEL.

Ar noson, yr 22ain o Fawrth, ymruthredd y Rwsiaid allan ar y Ffrancod, pan o dan furiau Sebastopol yn ceisio ymosod ar y lle. Rhoddwyd Sebastopol ar dân mewn dau fan, a gyrwyd y Rwsiaid yn ol gyda cholled o 2,000 o wyr. Collodd y Ffrancod 600, a'r Saeson rai swyddogion. Teimlir y golled yn fawr, gan na lwyddwyd ond i yru y gelyn yn ol, yr hwn a ddengys benderfyniad ystyfnig a diysgog am oruchafiaeth, hyd y nod tu allan i'w gadarnle, trwy ennill tir ar ein gwrth-gloddiau, adeiladu tŵr niweidiol, a chloddiau, yn cynnwys 10 o wyr y rhyfel-ddrylliau *(rifle men)* yn mhob clawdd. Dengys yr Amherawdwr Alexander II, fel ei dad o'i flaen, i lysoedd Ewrop,

awydd am heddwch; profa hyny yn ei wlad ei hun trwy osod yr Offeiriaid i annog eu praidd i ymladd dros y iawn grefydd, ac argraffu ar eu meddyliau mai y rhyfel bresennol yw rhyfel gyntefig "Tywysog y tywyllwch yn erbyn teyrnas Crist." Gosododd fyddin o 150,000 o wyr yn nhaleithiau y Baltic, a danfonodd adgyfnerthiad o 30,000 o wyr i Sebastopol a'i chylchoedd. Mewn gair, nid oes un cŵr o holl gyffiniau helaethion Rwsia heb fod parotoadau ymegnïol ynddynt gogyfer â'r gwaethaf yn y dyfodol. Mae cenadon Rwsia a'r gwledydd unol wedi methu dyfod i ammodau heddychlawn, yn Vienna, lle yr arosant yn bresennol am gyfarwyddiadau helaethach oddiwrth eu gwahanol lywodraethau. Awgrymir am wneuthur ammodau mwy cymmeradwy i Rwsia, na dadymchweliad Sebastopol, a lleihâd ei nerth llyngesol yn y Môr Du.

SYRTHIAD BABILON!

Pa beth yw'r sŵn a glywir 'nawr?
Mae Babel fawr yn gwaeddi,—
Mae fel pe bae ar waed y Saint
Yn hollol wedi meddwi;
Nid yw ei gwychder hi yn awr,
Yn cuddio ei haflendid,
Mae dydd ei dïal hi gerllaw,—
Hi syrth - a byth ni chyfyd.

Hi fydd pryd hyny 'n drigfa flin,
I bob aderyn aflan,
Rhaid iddi ddrachtio er ei gwae
O'i chwppan drwg ei hunan!
Am hyn, diolchwn anwyl Saint,
Fod genym fan diogel,
Lle gallom fyw bob un mewn hedd,
Tra siglir seiliau Babel.

Abertawy. MARGARET HARRIS.

AMRYWIAETHAU, &c.

Pasiwyd yn y Senedd fod y llywodraeth Americanaidd i roi dwy filiwn a hanner o ddolars, a 3,000 o wyr i ryfela yn erbyn

yr Indiaid sydd ar lanau yr afon Missouri a'i cheinciau; eithr hyderir na chymmeradwyir mo y fath beth yn y Tŷ arall. Pa nu bynag a'i canad y ffordd yna i ymfudo i Seion a wnaiff ein gelynion drwy ffraeo â'r Indiaid ai nadê, diau nad yw canad un ond agoriad dwy a dewisiad o ddeg o ffyrdd gan y Duw mawr i gwblhau ei amcanion, fel y gwelir wrth a ganlyn:—

Rheilffordd wedi ei chwblhau rhwng y Môr Werydd a'r Môr Tawel, dros wddfdir Panama, yr hon a gludo fudolion mewn ychydig oriau o fôr hyd fôr.

DYLEDION AM LYFRAU AR Y GWAHANOL GYNNADLEDDAU, AM Y CHWARTER YN TERFYNU, MAWRTH. 31, 1855.

Dwyreiniol Morganwg. £173 19s 11c; Gorllewin Morganwg, £134 10s 3c; Sir Fynwy, £60 15s 7¾c; Sir Frycheiniog, £9 15s 6¼c; Llaneili, £61 19 8¼c; Caerfyrddin, £32 10s 11¼c; Sir Aeberteifi, £16 17s 7c; Sir Feirionydd, £13 8s 5¼c; Sir Fflint, £20 19 1¼; Dyffryn Conwy, £13 1s 9¾c; Sir Ddinbych, £19 17s 6¼c; Sir Fôn, £18 3s 11c; Penfro Ogleddol, £7 12s 11¾c; Penfro Ddeheuol, 10s 3¾c; Cangen Gymraeg Liverpool, £3 11s 4c; Swyddfa Liverpool, £1 4s 4c; Sir Henffordd, £4 8s 7c.—Cyfanswm, £503 7s 10¾c.—Y gwallau i'w gwella.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O MAWRTH 24 HYD EBRILL 12. —Jonathan Ellis, £1 13s; John Davies, 15s; G. W. Davies, £7 14s 10c; Griffith Roberts, £1 10s.

☞ Methwyd cael lle yn y rhifyn hwn i'r daflen. yr hon sydd yn cynnwys enwau a phrisiau yr holl lyfrau ar law, ond caiff ymddangos yn ein nesaf.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Erlidigaeth grefyddol a'i effeithiau	112
Cymmanfa Dyffryn Conwy	119
Gulygyddiaeth—Yr Ymfudiad Eleni	120
Anuerchiad Ymadawol y Llywydd Thomas Jeremy	121
Bradwriaeth yn erbyn Amerawdwr y Ffrancod	125
Anuerchiad ymadawol yr Henuriad Wm. Willis	125
Newyddion o'r Rhyfel	126
Syrthiad Babilon	127
Amrywiaethau, &c.	127

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 9.] EBRILL 28, 1855. [Cyf. VIII.

Y BEIBL—PWY A SAIF WRTHO?

(Allan o'r San Francisco "Chronicle.")

"Golygyddion y Cronicl"—Pwysigrwydd y pwnc yw fy unig esgus am gymmeryd trespasiad ychwanegol ar eich colofnau, ac ar sylw y cyhoedd trwy y wasg. Dymunaf roddi apeliad pwysig at fy nghyd-ddinasyddion ar ran y Beibl; i ddal fy nhystiolaeth yn ostyngedig, neu i ardystio yn erbyn y rhyfyg a'r anffyddiaeth a arddangosir o dan y ffug-enw o "Gristionogrwydd."

Wrth farnu oddiwrth rediad cyffredinol y wasg a'r pwlpud, dengys yn brofadwy fod gwyrdroad gwreiddiol a disymmwth ar waith yn bresennol trwy ein gwlad, ac, mi a allaf ddywedyd, trwy yr holl fyd Protestanaidd—byd y Beiblau. Am ryw dair canrif, mae y Beibl wedi ei gyhoeddi a'i lioni, gan y byd Protestanaidd o leiaf, fel safon gwirionedd moesol ac athrawiaethol—portread cyfraith a gwareiddrad. Ystyriwyd ei Batriarchiaid, ei Brophwydi, ei Ddeddfroddwyr, ei Feirdd, a'i Apostolion megys "tadau y ffyddloniaid"—esiamplau o burdeb, rhinwedd, doethineb, gwirionedd, a goleuni.

Eithr yn awr, yn ddisymmwth, "daew gyfnewidiad yn dyfod dros ysbryd eu breuddwyd." Fe aeth canmoliaeth yn wg, cariad yn gasineb, parchedigrwydd i adgasrwydd a llidiogrwydd. Ymferwa y fynwes chwyddedig megys mynydd o dân mewnol. Ymhollta o'r diwedd mewn taranau dychrynllyd

llyd, ac ymarllwysa drwy gyfrwng y wasg a'r pwlpud, mewn brawddegau cyffelyb i'r rhai canlynol, cyfeiriedig at y Beibl, ei egwyddorion a'i nodweddau santeiddiaf—"Ofergoeledd henafiaethol," "gweddillion yr oesoedd tywyll," "honiadau ffiaidd," "athrawiaethau atgas," "egwyddorion anfoesol a pheryglus," "rheolau anynol a gwarthus," "cyfreithiau aneglur," "sefydliadau oes anwybodus," "arddangosiadau o ganol-nos moesoldeb," "oesau y cyfnos," patriarchiaid barbaraidd," "prophwydi tywyll," "yr Iesu yn y cyfnos," (yn beiddio anrhydeddu, cymeradwyo, a bytholi cyfammodau ei dadau tywyll a ffiaidd, Abraham, Isaac, a Jacob,) "Apostolion anwybodus ac ofergoelus" (a ddysgent y bobl i ymfabwysiadu i'r un teulu a chyfammod Abrahamaidd, ac a addawent iddynt etifeddiaeth o'r un addewidion), "Apostolion drygionus" (a feiddiant ddywedyd wrth y bobl mai yr unig deulu yn mha un y bendithir yr holl genedloedd oedd teulu Abraham, ac mai yr unig gyfammod tragywyddol o iachawdwriaeth oedd yr un a ddadguddiwyd i Abraham, a adnewyddwyd i Isaac, a gadarnhawyd i Jacob, a adferwyd ac a estynwyd i'r holl genedloedd gan Iesu Grist, "fel y byddo y cenedloedd yn gyd etifeddion" i'r cyfammodau a'r sefydliadau Abrahamaidd.

Achau "tywyll, anwybodus, gwael, ac ofergoelus" o Batriarchiaid, Prophwydi, Apostolion, a Saint, y rhai (fel Mormon a Joseph Smith) a efelychant yr athrawiaethau o ddadguddiadau newyddion, prophwydoliaethau, gweledigaethau, gweinidogaeth angylion, ac hysbysiadau ysbrydol! Hawyr, yr oeddent oll yn "Formoniaid"—dim ond "Mormoniaid!"

Ceir fod y Beibl yn lyfr "Mormonaidd" yn gyfangwbl. Ei addysgiadau moesol, ei gyfreithiau priodasol, ei sefydliadau duwinyddol, ei fedydd er maddeuant pechodau, ei ddawn yr Ysbryd Glân trwy arddodiad dwylaw, ei ddoniau ysbrydol, ei swyddau—y cyfan OLL oeddynt yr un nifer o ddangosiadau yr egwyddorion a adnabyddir yn awr fel "Mormoniaeth" Ei reolau a'i nodweddau, ei gyfammodau a'i addewidion, ei ordinhadau a'i ysbryd ydynt y darluniau, Joseph Smith yw yr Adferydd a'r Pen-gelfyddydydd sydd wedi gosod sylfaen yr adeilad presennol, ac wedi cyd-goli y goruwch-adeilad mor gydfesurol, fel nad cynt y gosodir y goron-gareg ar ben y gongl, y gwel yr holl Feibl-gredwyr fod yr adeiladau presennol a

chyntefig yn ymdebygoli yn mhob rhan, ac y mae y ddau yn ol "y cynllun" a ddadguddiwyd yn y gweledigaethau nefolaidd.

Ond ymddengys y sefydliadau presennol o ddynol darddiad yn unig, pan eu cymharir â'r "cynllun," yn afluniaidd chwithig, ac yn annhebyg iawn. Dyma achosiad y gwyrdroadau disymmwth y cyfeiriwn atynt. Ymddengys fod y pwnc yn awr wedi ei roddi i fyny, fod Eglwys Saint yr oes hon yr un fath â'r un gyntefig; fod yn rhaid i egwyddorion y ddwy naill ai cydsefyll neu gyd-gwympo; neu, mewn geiriau ereill, fod y Beibl a Llyfr Mormon yn un, ac yn anymraunedig. Gwrthdarawa y grefydd Feiblaidd, yr hon a adferwyd gan Brophwyd ac Apostol presennol, yn erbyn coel grefyddau a arferion Groegaidd a Rhufeinig, a drosglwyddwyd i lawr o dan y ffug enw o Gristionogrwydd, a'r mil o luniau analluog a impir arnynt mewn amserau agosach i'r presennol. O ganlyniad, y mae Mormoniaeth yn gyru yr oes bresennol i'r anghenrheidrwydd anhebgorol o naill ai gwrthod y Beibl ar y naill law, neu ymwrthod a'u credöau sectaraidd a'u sefydliadau dynol, a fynwesent cyhyd, ar y llaw arall.

Ddarllenydd! pa ochr a gymmeri? Dewis di y dydd hwnpwy a wasanaethi.

Os mai Duw Abraham, Isaac, a Jacob sydd yn Dduw, addolwch Ef,—os mai Duw y lluniau analluog a'r pleidiau ymrafaelgar yr amserau hyn sydd Dduw, addolwch ef. Mae y ddau allu yn crynhoi eu nherthoedd, ac y maent ar fedr mesur eu grym cyn hir. Y mae pob peth a ellir eu siglo ar gael eu siglo. Yr hyn nas gellir ei siglo yn unig a erys.

Eithr myfi, a'm tŷ, a wasanaethwn Dduw Abraham a neb arall. Efe yw ein Duw ni, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Yr wyf yn caru a pharchu y Patriarchiaid a'r Prophwydi, ac yn maethu cyfammodau ac addewidion y teilyngiaid cyntefig; ymhyfrydaf yn ngorchymynion Iachawdwr adgyfodedig, yr hwn yw fy Mrenin, yr hwn sydd ganddo bob gallu yn y nef ac ar y ddaear. Am obaith o gyflawniad y cyfammodau a'r addewidion a wnaed i'r tadau y gelwir Saint y Dyddiau Diwddaf i arholiad, er mwyn pa obaith eu cyhuddir gan y "Cenedloedd." Cyfaddefwn mai yn ol y dull a elwir yn "Formoniaeth," felly y gwasanaethwn ni Dduw ein tadau, gan gredu yn yr holl bethau a ysgrifenwyd gan y Prophwydi a'r Apostolion.

Gwylia, O ddyn! gwylia rhag y rhai, yn yr amseraŭ hyn, a honant fwy o oleuni efengylaidd, gwybodaeth ysbrydol, mwy o rinwedd a phurdeb nag Abraham ffyddlon, neu Fab Duw.

Canys, gwybydd yn sicr, hwynt-hwy yw yr "ysgrifenyddion, Phariseaid, rhagrithwyr" o'r hiliogaeth. "Cyfammod tragywyddol," neu efengyl, sydd rhy annichonadwy i'w gyfnewid, neu ei wella, gan welladaŭ yr oes bresennol.

Yr eiddoch yn barchus,

P. P. Pratt.

A gyfieithwyd gan Wm. Lewis

YMDDYDDAN RHWNG SECTYDDWR, MORMONIAD, AC ANFFYDDIWR.

Sectyddwr.—Wel Mr, Mormoniad, a ydych yn parhau yn eich hen broffes o feddu gallu gwyrthiol, os ydych, carwn gael eithaf boddlonrwydd genych ar y mater; bid siwr, ni fyddai yn orchest genych wneyd un wyrth fach er argyhoeddiad enaid gwerthfawr,—chwi a allwch ei gwneyd mae'n debyg? (Dyna oedd cyfarchiad arwydd-geisiwr yn ei siop pan y digwyddodd Mormoniad fyned yno ar fusnes.)

Mormoniad,—(Yn dawel megys pe ofnai)—Na allaf fi yn siwr, syr.

S.—(Gan rwbio ei ddwylaw, gyda gwên wawdus)—Mae eich brodyr yn dweyd y gallant hwy eu gwneyd, onid ydynt?

M.—Ni chlywais i un o honynt yn dweyd hyny, ac nid wyf yn credu y gall un o honynt eu gwneyd ychwaith.

S.—Ha, ha! yr ydych wedi newid eich barn eisoes! Yr oedd yr hen apostolion yn eu gwneuthur, heblaw proffesu hyny; ac etto, proffeswch chwi fod yr un gallu yn aweithredu yn eich heglwys yn awr fel cynt, ac yr ydych yn dywedyd ar yr un pryd nad ydych yn credu y gall un o honoch chwi iachâu hyd y nod un claf,—y fath ddwlni bid siwr!

M.—Mae mwy o anghrediniaeth ynwyf na hyna etto.—ni chredaf ychwaith i un o'r apostolion gynt hyd y nod iachâu y'n claf!

Anffyddiwr.—Da y dywedasoch, ni chredaf innau i Iesu Grist, apostol, na gwyrth fodoli erioed.

S.—Dyma Formon etto, wedi gorfod troi at anffyddiaeth o

herwydd fy rhesymau anocheladwy i; gwell i chwi daflu eich harfau i lawr ac ymuno â ni.

M.—Pa un ai yr apostolion eu hunain oedd yn iachâu y cleifion, ynte ai Duw drwyddynt? os mai hwy eu hunain, hwy a wnaethant hyny yn eu gallu eu hunain; os mai drwy allu Duw, yna nid hwy ond Duw a'n gwnaeth.

S.—(Wedi troi ei wên a ffromi)—Nid oeddwn yn meddwl fel arall wrth bob rheswm; dal ar air yr ydych rhag myned i'r fagl.

M.—Dweyd un peth a meddwl peth arall yw un o'ch prif nodweddau, mae'n wir, ni ddysgwyliais gyfnewidiad yn eich arferiad. Pe dywedaswn mai nyni sydd yn iachâu y cleifion, buaswn yn y fagl fel chwithau.

S.—Wel, a ydyw Duw yn iachâu cleifion trwy eich gweinyddiad yn ei enw, ynte? neu a allwch chwi roddi prawf diammheuol i mi fod y fath beth yn cael ei wneyd yn y dyddiau hyn? Dyna, ni ddiangweh yn awr.

M.—Wel, wel! yr ydych wedi newid eich barn eisoes! Nos Sul diweddaf y pregethodd eich gweinidog ar hollalluawgrwydd ac anghyfnewidioldeb Duw mawr; nos Lun y gweddiasoch chwithau ar yr Arglwydd dros eich brawd cystuddiol; a ydyw eich brodyr yn parhau i gredu fod Duw yn hollalluog ac anghyfnewidiol; yn siwr, nid yw Efe wedi cyfnewid eisoes; y mae Efe yn wrandawr gweddi, onid ydyw; beth meddwch, a atebwyd eich gweddi nos Lun?

S.—O, ie, gweddio ar ran yr enaid anfarwol wnaethym i; y mae Duw yn rhoi gras yn y galon mewn atebiad i weddi daer; credaf hyny, ond nid yn rhodd iechyd corfforol trwy osod dwylaw ar benau dynion, a rhwbio olew ar hyd ddynt, a'r fath bethau a hyna. sydd wedi darfod er ys llawer dydd, yr hyn a brofir trwy y ffeithiau nad wyf fi yn gweled neb yn cael hyny, ond yn unig eich clywed chwi yn *tystio* fod rhai yn eich heglwys chwi wedi ei gael. Yn awr, gofynaf am amlygrwydd ac effeithiau gwyrthiau y dyddiau presennol, cyn y credaf yn modoldeb y cyfryw allu, ac yn nwyfoldeb eich heglwys.

M.—Yr ydych yn credu y dylai fod ffeithiau amlwg heblaw tystiolaeth i argyhoeddi dyn o fodoldeb gwyrth, er nad wyf i yn gweled felly.

S.—(Gan ziglo ei ben)—O ydwyf, a dim heb hyny!

M.—Yr ydych yn dyst. Mr. Anffyddiwr, o'i ddywediad.

A.—Ydwyf. [Gan na phleidiai yr Anffyddiwr yr un o'r ddwy ochr, cytunasant iddo fod yn farnwr rhyngddynt.]

S.—Yn awr, Mr. Mormon, a oes rhywun neu rywrai yn eich heglwys wedi derbyn iachâd trwy allu Duw?

M.—Oes.

S.—Ië, a welodd rhywun hyny heblaw y Mormoniaid.

M.—Do, y mae tudalenau ein cyhoeddiadau eglwysig yn Gymraeg a Saesneg yn frith o lythyron oddiwrth y Saint o wahanol lefydd, yn tystio am iachâd trwy allu Duw, ac enwau tystion yn, ac allan o'r eglwys yn gyssylltiedig. Mae y personau hyny yn fyw, a gellir siarad â hwy pan y mynoch.

S.—Pw, pw! eich cyhoeddiadau chwi sydd yn dweyd hyny, pwy ddysgwylia yn amgenach?

M.—Pe dywedasai ein cyhoeddiadau anwiredd, buasai yr holl gymydogaethau lle y dywedant i'r iachâd clefydau ddygwydd wedi anfon yn ol a'u gwrthwynebu; ond beth am hyny, derbyniais iachâd fy hunan trwy allu goruwch naturiol, yn y gweinyddiad o'r ordinhâd o csodiad dwylaw ac eneinniad ag olew, a thrwy weddi y ffydd, ac y mae degau yn tystio yr un pethau yn wythnosol yn ein cyfarfodydd Saint. A ellwch chwi eu hamnheu?

Brawd Mormonaidd arall.—Yr wyf innau yn dyst o hyna hefyd.

S.—Nis gallaf eu credu hwy na chwithau; nid gwyrthiau o'r fath yna yn unig a wnaeth Crist, ond Efe a agorodd lygaid y deillion a chlustiau byddariaid, rhydhaodd dafod y mudan, a gwnaeth i'r cloff gerdded, a llawer o wyrthiau cyhoeddus o'r natur yna. Yr oedd y dall yn medru gweled, a'r byddar glywed yn dystiolaeth ynddo ei hun. Yr un effaith gafodd llefariad y mudan, a cherddediad y cloff er gorfodi pawb a'u hadnabuasant yn flaenorol i gredu. A gyflawnwyd hyny yn eich heglwys chwi?

M.—Do, mae y dall wedi dyfod i weled, y byddar i glywed, y mudan i lefaru, a'r cloff i gerdded. Clywais y mudan hwnw yn tystiolaethu am y fendith oruwch-naturiol a dderbyniodd.

S.—Ië, dyna hi! yn Nghasnewydd, yn Bristau, ac yn mhob man ond yma lle gwelwyf i!

Barnwr.—Chwareu teg i'r Mormon, gofynaf i chwithau ar yr

un tir ag y gofynwch iddo yntau,—Yn mha le y cyflawnwyd y gwyrthiau a gredwch chwi ynddynt?

S.—(Yn ddiffas iawn)—Yn, ac oddiamgylch Judea.

B.—Mae hyny lawer iawn yn mhellach nâ Chasnewydd na Bristau! Pwy a glywsoch chwi yn tystio am danynt?

S.—Ni chlywais i neb.

B.—A welsoch chwi un o'r rhai hyny a iachawyd?

S.—Na welais i.

B.—Wel, yn enw pob rheswm, pa sail sydd i'ch crediniaeth ynddynt?

S.—Maent yn ysgrifenedig yn y Testament Newydd.

B.—Mae gwyrthiau eglwys y Mormoniaid yn ysgrifenedig hefyd; pe le mae y tystion a ysgrifenodd hanes y gwyrthiau a gredwch chwi ynddynt?

S.—Maent wedi marw!

B.—Wel, hawyr bach, nis gwn pa fodd y dealiaf chwi, gan yr anghredwch hanes gwyrthiau presennol, a'r tystion a'u gwelodd ac a'u teimlodd hwynt; yr ydych yn credu yn ysgrifeniadau tystion meirwon, heb sicrwydd nad ffug chwedlau ydynt o eiddo un arall, ac etto dywedasoch y dylasai fod ffeithiau amlwg heblaw tystiolaeth i argyhoeddi dyn o fodoldeb gwyrth! Ymddengys i mi pe y rhodiai gwr cloff y deml, fel y galweh ef, o'ch blaen, gan dystio ei iachâd, na chredech ef, neu chwi a gredech y dynion hyn wrth bob rheswm, pe byddech yn gyflawn. Nid wyf i yn credu yr un o honoch hyd yn hyn; ond gwell fyddai genyf gredu y Mormoniaid ná chwi beth bynag, gan eu bod hwy a'u cymydogion cyfeiriedig yn fyw, ynghyd â'r dynion a iachawyd, pa rai sydd yn parhau i dystio yr un peth, a gellir ymholi i wirionedd y dygwyddiadau. Hollol groes yw eich sefyllfa chwi. Os condemniwch dystiolaeth y dynion hyn, a'r hanesion cyfeiriedig, condemniwch y Testament Newydd hefyd, neu treiwch ffordd well i brofi dwyfoldeb crefydd.

(I'w barhau.)

AML-WREIGIAETH YN UTAH.

(*O'r "New York Evening Mirror," Chwef.* 20, 1855.)

Gan fod Aml-wreigiaeth yn "sefydliad cartrefol" nis gallwn weled gyda pha gyssondeb y gwna y Deheuwyr ac Undeb-gyn-

nalwyr ymyraeth ag ef. Am y lleill, os prisia y brawd John Taylor dystiolaeth "Cenedl ddyn," gall gael ein heiddo ni, fod Brigham Young yn foneddwr trwyadl, cymmwynasgar a charedig i ymfudwyr, hyd y nod pan yn wisgedig, fel yr oeddem ni, mewn ffwstian, ac yn galw heibio iddo, fel y galwasom ni, yn hollol ddieithr-ddyn, heb un arweiniad i mewn gan Formon na Chenedl-ddyn. Yn ystod y tair wythnos o'n harosiad yn Ninas y Llyn Halen Mawr, gwelsom fwy o drefnusrwydd, diwydrwydd, a gweddeidd-dra nac a welsom mewn un man arall yn y byd, ac y mae yr ysgrifenydd o hyn wedi gweled ychydig o'r bellen-fechan hon hefyd. Beiddiwn haeru, ac heriwn wrthbrofiad, na cheir gwladwyr mwy heddychlawn, trefnus, a diwyd, yn cadw y gyfraith yn well na phreswylwyr Deseret, a dymunem i bawb iawn ddeall nad ydym yn adnabod un enaid yn eu plith, ac nad oes genym ronyn o gyd-ymdeimlad â'u crefydd, na'u sefydliad amlwreigaidd.

UDGORN SEION,

A'R

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, EBRILL 28, 1855.

Y Ddadl yn Abertawy.—Hysbys yw weithian, ond odid, i ddarllenwyr yr Udgorn, ein bod ni wedi cael ein herrio gan ddieithryn, yr hwn a ddaeth i'r dref hon i ddarlithio yn erbyn "Mormoniaeth," i ddadlu ag ef; hysbys yw i'r cyhoedd hefyd ddarfod i ni wrthod ymgecru ag ef, a chyhoeddi rhai o'n rhesymau dros beidio ymwneyd dim ag ef, sef, o herwydd yr ystyriem ein crefydd yn rhy bwysig ac anrhydeddus i gael ei dirmygu gan y fath un digymmeriad ag y profwyd ein herriwr, a chyn hyn cyfaddefa pob dynion rhesymol ag yr ymddyddanasom â hwynt ar y pwnc, heb *eithrio ei brif gefnogwyr ef ei hun*, ein bod wedi ymddwyn mewn doethineb ac yn anrhydeddus i'n crefydd drwy *silent contempt*. Ar yr un pryd cyhoeddasom ar ein Hysbysiadau *(hand-bills)* "Na wrthodem feiddiad i am-

ddiffyn un ac oll o'n hegwyddorion yn ngwyneb un ac oll o 'Barchedig weinidogion yr efengyl' yn Abertawy, a gefnogant yr herriwr, yr Ysgrythyrau Santaidd yn ol cyfleithiad Iago, I., a'n llyfran awdurdodol ein hunain i fod yr unig safon, gan honi yr un hawl i brofi honiadau ein gwrth-ddadleuwr yn ol yr un safon." Dyna oedd ein hatebiad, ac yn ganlynol i hyn, hysbyswyd ni fod y Parchedig C. Short yn ein herrio i ddadlu ag ef ar y gosodiadau canlynol:—

"1. Mormoniaeth yn dwyllodrus yn ei tharddiad.

"2. Yn gableddus yn ei hopiniynau.

"3. Yn anfoesol yn ei hymarferiadau."

Gwrthodasom yr uchod o herwydd eu haneglurdeb, ac fod yn amlwg i ni mai yr amcan oedd defnyddio y dosparth o brawfiadau y gwrthodasom ymgecru â hwynt yn flaenorol, sef, llysnafedd a cham gyhuddiadau gelynion; ac mae genym bedwar o dystion a'n clywsant yn dweyd wrth ddirprwywyr Mr. Short ar y 3ydd o Ebrill fod ein cyhoeddiadau blaenorol yn ein galw i gychwyn i Liverpool dranoeth, i gyfarwyddo dros ddau cant o ymfudwyr Cymreig ar y llong, &c.,—ein clywed yn *gwrthod yn bendant* i ddadleu ar y gosodiadau uchod, ac i glywed Mr. G. P. Evans, dros y dirprwywyr, yn cyd-synied â ni drwy ddweyd wrth ymadael "Na ellid gwneyd un dim hyd nes y dychwelem ni ar yr 22ain, ac yna i gyfarfod Mr. Short i benderfynu pyneiau y ddadl." Dyna oedd unig ganlyniad ymweliad â ni.

Wedi dychwelyd, ymgyfarfuasom â Mr Short a'i *Gommittee*, Llun, Ebriil 2 lain, ac er ein syndod mawr deallasom wrth Mr. Short fod ei genadon wedi ei hysbysu ddarfod i ni addaw dadleu ar y pyncian rhag-grybwylledig, a chasgloid dan o honynt, yn wyddfodol, wynebgaledwch i haeru iddynt ddeall felly! Parodd hyn gryn gyfnewidiad mewn pethau. Darllenasom yr egwyddorion sylfaenol a ganlyn ger gwydd Mr. Short, eithr nid arosai i'w clywed oll, aeth ymaith ar ffrwst er yr oll a allem ni a'i gyfeillion grefu arno i aros, allan yr aeth, a'r gair olaf a glywsom o'i enau oedd, "Efallai eich bod chwi eisieu yr Urim a'r Thumim ar eich trwyn cyn y gweiwch!" Both feddylia y darllenydd o ddyn a broffesa fod yn "weinidog efengyl" ag a all wawdio a chablu peth mor santaidd a chyssegredig ag yw yr "Urim a'r Thumim," drwy yr hwn offeryn y dalguddiai

yr Arglwydd ei ewyllys i'w bobl gynt? Etto dyma'r fath un yw ein gwrthwynebwr.

Darllenasom y gosodiadiadau canlynol i'r *Committee*, a chrefasom ar i Mr. Short i ymddadleu arnynt, eithr yn ofer; wedi ei *exit* ef, dilynodd ei *Gommittee*, gan ddweyd na feddent hawl i dderbyn y cynnyg. Dywedodd dau o honom yn bendant ddarfod i ni wrthod y gosodiadau cyntaf ar y dechreu, a chynnygiasom brawfiadau ychwanegol o'r un peth; er hyny oll, ac er i ni eu hysbysu y cyhoeddem hyny oll i'r byd, rhuthrasant allan, gan ein gadael yn yr ystafell.

A ganlyn sydd yn gopi cywir o'r gosodiadau rhag-grybwylledig:—

1. A yw ffydd, edifeirwch, a bedydd ER MADDEUANT pechodau yn hanfodol er iachawdwriaeth?

2. A yw pregethwyr y Bedyddwyr yn "weinidogion yr efengyl?"

3. A yw apostolion a phrophwyddi, ynghyd â doniau yr Ysbryd Glân yn hanfodol i fodoldeb eglwys Crist ar y ddaear?

4. A yw athrawiaethau, ordinhadau, a chorffoliad eglwys y Bedyddwyr yn gyfunol â chynllun y Testament Newydd?

5. A gynnwysa yr ysgrythyrau brophwydoliaethau y darganfyddid oracl cyssegredig, ac a gyflawnir y cyfryw yn nyfodiad Llyfr Mormon?

6. A gymmeradwya yr ysgrythyrau amlwreigiaeth?

7. Y Duwdod:—A yw y Tad a'r Mab yn bersonau gwahanedig?

Geilw ein gwrthwynebwyr yr egwyddorion sylfaenol hyn yn bethau dibwys ac anmherthynol i "Formoniaeth," eithr profa hyny eu hanwybodaeth o ba beth yw Mormoniaeth, ac y mae ein hymddygiad yn ngwyneb y ffaith wedi ein gorfodi i gredu mai chwilio am ddrws cefn i lithro allan y maent, ac heb ddigon o ddynoliaeth i gyfaddef eu dyben.

Cynnwysa yr uchod brif bynciau Mormoniaeth yn ol a ddeallwn ni—nid ydym yn osgoi un, na gwawn, nac amlwreigineth, Llyfr Mormon, y Duw a addolwn, nac unrhyw orthygl arall o'n credo; eithr parod ydym i amddiffyn un ac oll rhag un neu yr oll a nodasom yn ein hysbysiadau tra Ysbryd y gwirionedd a'n cynnalio.

GAN I MR. SHORT WRTHOD MEWN CYFARFOD FELLY MEWN DADL.

Traddodir darlithiau ar y pynciau a gynnygiwyd yn destunau dadl i'n gwrthwynebwyr, yn Neuadd y Saint, Heol Orange, Abertawy, i ddechreu nos Wener, Ebrill 27, 29, 30, Mai 1, 3, 6 a'r 7, i ddechreu am hanner awr wedi saith yn yr hwyr, yn ganlynol, yn ol fel eu henwir. Mynediad i mewn trwy docynau 3c. yr un, neu 1s. am yr holl ddarlithiau. Nos Suliau am 6 o'r gloch yr hwyr, yn rhâd.

Dyma yw y desgrifiad gwirioneddol a allwn roddi o sefyllfa a hanes yr ymgyrch dadleuol hyd yn hyn, ac os tardda o hono etto unrhyw ddyddordeb i'n darllenwyr, bydd iddynt roesaw o hono. Dibyna yr ymddangosiad o'n hamddiffyniad yn ngholofnau Newyddiaduron y dref hon a'n cyhuddant ar ddyngarwch a gonestrwydd eu Golygyddion i raddau, etto diolchwn fod cyfryngau ereili a arddangosant em gwironeddau yn ddysclaer, grymus, a buddygoliaethus, gydag amynedd.

Wrth y Saint, dywedwn, cyd-lawenhawn o fod yn deilwng i ddyoddef yr oll dros ein Hiesu a'i efengyl, ac nad oes gymmaint ag un o Saint Abertawy, nac oes un, wedi cael ei siglo yn y ffydd, a thra y gweddiant am Ysbryd y gwirionedd, ni siglir mo honynt chwaith, gan holl gewri y fall a'u dichellion.

MR. PARLEY P. PRATT.

Mr. Parley P. Pratt, i'r hwn y mae genym barch mawr fel dyn ac fel dysgawdwr, ynghyd a chymmaint canmoliaeth i'w dalent ag y caniatâ yr athrawiaeth i'r hon y defnyddia hi i'w hamddiffyn —Ymddengys fod Mr. P. P. Pratt wedi myned i mewn i demlau ein harian-newidwyr yn y ddinas hon, ac wedi myned tu hwnt i bob rheswm ac athroniaeth trwy rym ei ymosodiad ar yr Eglwys Gristionogol. Cofier Mr. Pratt gan ein darllenwyr, fel Apostol hunanaethol Mormoniaeth Aml-wreigaidd yn Nghalifornia, a'i orchest ddiweddaf oedd i dynu arno dân llonaid ystafell o ddarllenwyr yn y *S F. Mercantile Library Association*, ac yna gyda geiriau a synent Mr. Walker, a gramadeg a aflonyddai dawelwch meddwl Mr. Lindley Murray am byth, dechreuodd a thân-beleni gystell eu rheswm, a distawodd neu anallnogodd bob dryll! Am amryw wythnosau y

mae Mr. Pratt yn anelu ac yn ymosod â'i lynges o ymresymiadau Aml-wreigaidd yn nghyflawn olwg ddrysau ein heglwysi a'n hystafelloedd darlithio, ac hyd y nod wedi myned yn bersonol at risiau ein pwlpudau i gyhoeddi ei hun yn amddiffynydd ffydd newydd, gan daflu yr fyny i faneg, hyd y nod dan drwyn y gweinidog. Hyd yn hyn, credwn nad acth yr un Dafydd allan i gyfarfod a'r Philistiad hwn ar unrhyw bwnc o gyfraith, moesoldeb, neu grefydd, ar ba rai y mynega ei barodrwydd i gyfarfod ag unrhyw elyn.—*Alta California.*

CYMMERIAD I'R SAINT;

Gan y Prif Ynad Kinney yn Nghyfarfod Gwladwriaethol Tiriogaeth Utah.

Ni chyfolaf i ddywedyd chwedlau, nac i wenïeithio i neb, eithr i fynegu fy nheimladau. Yr wyf wedi sylwi ar weithrediadau y Llys hwn oddiar y cyfarfod blaenorol. Mi a welaf eichbod wedi mabwysiadu y rheol ddoeth o ffurfio cyfreithiau yn anaml ac eglur. Y llywodraethau a gyfrifir ddoethaf yw y rhai a ymarferant y cyfreithiau anamlaf a rhwyddaf; a chan yr honwch oruwch ddoethineb, arddangosir hyny yn ddiau yn ffurfiad eich cyfreithiau. Nid dewisol genych lywodraethu eich pobl trwy gyfraith; yr ydych yn ceisio eu llywodraethu trwy gariad. Ni ddywedaf hyn er mwyn canmol y Llywodraethwr B. Young na'i Gynghor. Cyd-dystia pob peth yn y dyffryn hwn am ymgais, diwydrwydd, purdeb, a dealltwriaeth y bobl hyn. Eich sefydliadau gwych, dymunol, ac arddercho anghydmarol—eich hadeiladau cyhoeddus, eich peirian-waith, a'r undeb a'r cydymdeimlad a ffynant drwy eich tiriogaeth ydynt gofadaeladau o'r ddoethineb a'r gallu a ddylanwadant ar, ac a lywodraethant bob dosparth. Nid oes dieithryn a ddaw yma ar na syn r gan y moethau, y gwychder, a'r trefnusrwydd a fodolant drwy y dyffryn hwn. Nis gellir priodoli hyn i ddoethineb ddynol—dylifa oddiwrth yr Hollalluog.—Creawdwr nef a daear: nis gallaf fynegu ei darddiad drwy un egwyddor arall. Parhäed i sylwi gydag awydd ar gynnyddiant ac amlygrwydd y diriogaeth, tra y byddwyf gyda chwi, a dichon y bydd hyny dros fy holl fywyd, ar a wnaf; ac y mae yn ymborth i'm

meddwl. Er fod trigolion y diriogaeth hon yn ddeilliedig o gynnifer o genedloedd, llywodraethau, a theyrnasoedd, etto nid oes pobl mwy dedwydd, mwy rhydd a llwyddiannus nâ'r bobl hyn. Geiriau gwirionedd yr wyf yn lefaru, ac hyfrydwch fy enaid yw eu mynegu.

[Mewn atebiad i sylwadau y Llywodraethwr Young ac ereill i'r uchod, sylwodd yr Ynad Kinney yn ychwanegol.]—

Yn awr y mae rhwymau dyledus o ddiolchgarwch mawr arnaf am gynnifer cyfeiriad at fy enw. Llefarwyd am danaf gan Col. Babbit, megys ymofynwr am eich pobl, eich cyfreithiau, a'ch gwlad. Yr oeddwn yn un o'r Barnwyr yn Mhrif lys Iowa am saith mlynedd; yr oedd fy nghyflog yn 1,000 o ddolars yn flynyddol; yr oedd cyflog Prif Farnwr yn Utah y pryd hwnw yn 1,800 o ddolars. Yr oedd cartref dymunol genyf yn Iowa, fel y mae gan lawer o honoch chwi yma. Yn fuan lleiaenwyd y newydd am fy mhenodiad i Utah, ac am fy nghyfeillion, aelodau y senedd, ymddaiieuent â mi ar y anaddasrwydd o adael Iowa; gorlenwyd fy llythyr-gell gan lythyron ar y pwnc; hysbyswyd fi gan fy hen gyfaill o Gaerefrog Newydd, yr hwn sydd gyfreithiwr enwog yn y dalaeth hono, gyda'r hwn y myfyriais ar y gyfraith dros bedair blynedd, nad allaswn fyw yma, a chyflawni dyledswyddau y swydd a benodwyd imi. Cydunwch â mi fod peth anghen iawn farniad i ddilyn y ffordd a gymmerais i. Cyfeiriwyd at achosydd y cynhwrf cyntaf; clywais ei ddarluniad: mae ei ddywediadau ei hun yn ei gondemnio. Gwelais ef yn Washington, a dywedais yn ei ddannedd, yn mhorth y Senedd-dŷ, mai ei haeddiant a gafodd pan ei ceryddwyd yn Utah. Po y chwiliwn i'm teimladau fy hun mewn perthynas â dyfod i'r lle hwn. cynhyrfwyd fi gan deimlad, yr hyn oedd, y gallai dyn sefyll yn fy nghylch presennol i, a chyflawni ei ddyledswyddau yn ffyddlon. Meddiannwyd fi fwy gan deimlad i dyneru meddwl y cyhoedd, a dangos i'r byd yr enllibau a bentyrwyd ar y bobl hyn, na chan un dyben arall. Ni allaswn fod am gyfoeth nac anrhydedd. Y mae genyf wraig a phump o blant; a merch wedi cyrhaedd oed gwraig; a gallaf ddweyd fod llai o anfoesoldeb, llai o feddwdod, a llai o lygredigaeth yma nag yn un man lle y bum erioed. Cefnais, ar gynghor fy nghyfeillion; ni edifarhauais byth am y camrau a roddais.

Ceisiasant rwystro fy nheulu, eithr myfi a'u llywodraethais hwynt; er i mi adael eu dewis iddynt i ddyfod neu i aros. Os galwch hyn yn anrhydedd i'ch Tiriogaeth, y mae i chwi roesaw iddo, a'm balchder iunau yw ei roddi.

DYCHWELIAD YR ALLTUD.

GAN MISS A. M. PORTER.

Coedwigoedd las 'werddon, chweg, chweg ydoedd si,
Yr awel gynt chwythai drwy'ch cangau gwyrdd chwi;
A mwyn ydoedd rhediad eich dyfroedd i'm clyw,
Ac anwyl y bwth bu'm hanwylyd yn byw.

Pryd hyn wrth eich dyfroedd drwy'ch gelltydd yr awn,
Wrth Norah siaradwn am gariad yn llawn:
Tra'n dêr fel y lloer a arianai eich gwedd,
Yr hunai fy mhlentyn 'n ei breichiau mewn hedd.

Ond 'nawr pan ymwelaf â thi 'werddon glyd,
Fy mlwyddi hedasant yn ofer i gyd:
Dy fryniau a'th goedydd adwaenir ar daen,
Ni enynant dreiddiadau drwy'm bron fel o'r blaen.

Mae'n wyrddon dy fryniau a'th elltydd o hyd,
Mae'n llonydd dy ddyfroedd a garaf yn glyd:
Ond nos yw fy nghartref—ei goed, gwyllt eu gwedd,
Can's fy ngwraig a fy maban yn't lweh yn y bedd.

Cyf., Aneurin L. Jones.

NEWYDDION O'R RHYFEL.

Hysbysir ni yn helaethach gan y newyddiaduron dilynol i'n rhifyn diweddaf ar hanes yr ymosodiad a gynnwysant ar Sebastopol.

Cydunwyd i gael awr o amser heddychlawn er claddu y meirw. Llanwai meirwon y Rwsiaid y ffosydd a ymylent gloddiau y byddinoedd unol, y rhai a'u trywanent eyn gyf lymed ag y dringent i ben y cloddiau.

Wedi hir ddysgwyliad, ac awydd mawr, hysbysant hefyd

fod yr ail, a gobeithir, yr ymosodiad olaf ar Sebastopol wedi dechreu am bymtheg mynud wedi pump o'r gloch, boreu dydd Llun Pasg, Ebrill y 9fed, pan y dechreuwyd saethu o holl fagnelau y byddinoedd unol i amddiffynfäau y gelyn, yr hwn yn mhen enyd a'u hatebodd. Dychrynllyd oedd clywed sŵn ergydion marwol yr holl fagnelau anferth, y rhai a barotöwyd er ys misoedd, ynghyd ag ysgrechfeydd y crageni tanllyd yn ehedeg drwy yr awyr ac i blith y gelyn; gweled pridd a cherig, a darnau o gyrff marwol y gelynion yn cyfodi fyny yn un ewmwl cymmysglyd i'r awyr. Parhauwyd felly hyd 1 o'r gloch ganol dydd, pan yr oedd y mwyrif o amddiffynfeydd y gelyn wedi eu dinystrio, ac o'u magnelau wedi dystewi. Gwelid y llynges yn parotoi i ymosod o'r môr cyn gynted ag y gwelent eu byddinoedd wedi agoryd ffordd i, ac yn ymruthro ar y gelyn, yr hwn a wrthwynebir yn ei ffoedigaeth, mewn cychau yn groes i'r dwfr i'w amddiffynfäau gogleddol, gan y llynges, ac ar hyd yr heol gan gadarn glawdd cuddiedig a amlygir y pryd hwnw. Nis gwyddom yn iawn pa golled a gafodd y gelyn yn yr ychydig oriau hyny; cyfaddefant eu hunain ei fod yn agos i fil. Colled y Saeson yw 20 wedi eu lladd, a 40 wedi eu clwyfo. Cyn y cymmerir Sebastopol, collir miloedd lawer, fel yn yr Alma o'r blaen; bydd y frwydr yn sicr, ffyrnig a gwaedlyd.

Mae cenhadon y wlad hon a Ffrainc wedi llwyr fethu dyfod i ammodau heddychlawn â Rwsia, ac ni obeithir mwyach am heddwch yn y ffordd hono.

AMRYWIAETHAU, &c.

Cariad perffaith.—"Onid oes arnoch beth ofn?" ebe dyn wrth ei wraig pan darawodd hi ef yn ei wyneb mewn nwyd. "Nac oes ronyn," oedd yr atebiad, "canys y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn."

Ymweliad Amherawdwr ac Amherodres y Ffrancod a'i Mhawrhydi Victoria, sydd wedi bod yn brif destun newyddiaduron y wlad, ac yn eu hol hwynt—prif fywyd Llundain tra yr ymarosasant yno. Cawsant lob caredigrwydd, gellid meddwl, a allasai dyfeisiadau y meddwl arddangos iddynt gan y teulu

breuinol, y Llywodraeth, a'r werin; do, fwy o barch nag a gafodd na phrophwyd nac angel a ddaeth ger gwydd byd, debygem. Ymddengys yma wrth-gyferbyniad gwyrthiol braidd, i'r teimladau oedd at yr un dyn. tra er ys ychydig flwyddi yn ol nid oedd amgen na chwnstabl i ddofi dihirod hyd heolydd Llundain, ac er pan yn ddiweddarach wedi neidio ar orsedd, yr oedd yn brif destun dirmyg ac anghymmeradwyaeth newyddiaduron y wlad! Ai ynddo ef, ynte yn ei farnwyr mae y gwahaniaeth? Yr un dyn yw, os nad yr un egwyddor hefyd. Yn hyn gweiwn ansefydlogrwydd barn gwerin am dano; a chan mai atto ef, paham nad dichonadwy fod ereill mor anhaeddiannol o'u hanathemäau yn awr. Tra y llawenhawn yn y gobaith o heddwch ac undeb rhwng y ddwy wlad a gren yr ymweliad hwn ac y dymunwn fod y cariad yn cynnyddu fwy-fwy, nid ydym heb obaith yr agorir llygaid gwlad a'i thrigolion eyn hir i iawn ddirnad gwir gymmeriadau dynion llawer gwell na Louis Napoleon yn eu plith, a ystyrir yn awr yn fwy anmharchus nag y bu ef erioed. Gwir fod barn boblogaidd yn gyfnewidiol, a'r niwed mwyaf a wnaeth y byd iddo ei hunan erioed oedd cam-farnu cymmeriadau a dybenion ei oreuon.

Derbyniadau am Lyfrau o Ebrill 12 hyd 27.—Hugh Roberts, Dyffryn Conwy, £1 12s 1c; G. W. Davies, £2 9s; T. D. Evans, 9s; Griffith Roberts, £1; Cangen Gymreig Liverpool, £1 11s 6c; Thomas Morgan, £1; A. Gallowy, 6s 6c; John Davies, 9s.

☞ Gwall.—Yn ein rhifyn blaenorol, tud. 128, diangodd "Griffith Roberts, £1 10s," yn lle "Griffith Roberts, 10s."

☞ Yr ydym newydd gyhoeddi tafleni i'n dosparthwyr llyfrau, y rhai a'u cynnorthwya i wneyd eu cyfrifon i fynu ar ddiwedd pob chwarter yn hawdd ac yn eglur. Danfoner un o honynt yn ol yn ddioed wedi ei hiawn lanw.—Pris 6c. y dwsin.

*** Anfoner pob llythyrau yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones, "Udgorn Seion" Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	Tud.
Y Bedol—Pwy a saif wrtho	129
Ymddyddan, &c.	132
Aml-wreiciaeth yn Utah	135
Golygyddiaeth.—Y Ddadl yn Abertawy	136
Mr. P. P. Pratt	139
Cymmeriad i'r Saint	140
Dychweliad yr Allfud	142
Newyddion o'r Rhyfel	142
Amrywiaethau, &c.	143

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 10.] MAI 12, 1855. [Cyf. VIII.

DEISEB AT LYWYDD YR UNOL DALEITHIAU DROS AIL BENODIAD Y LLYWODRAETHWR BRIGHAM YOUNG AR UTAH.

I'W RAGORDDEB FRANKLIN PIERCE,
Llywydd yr Unol Daleithiau.

Arddangosai eich erfynwyr yn barchus; mai gan y medd y Llywodraethwr Young ymddiried pobl y Diriogaeth hon yn gyfangwbl, perthynol i bob plaid a sect yn ddiwahan; ac oddiwrth adnabyddiaeth bersonol a chyfeillachol, cawn NI ei fod yn gymmaliwr cadarn i Lywodraeth a chyfreithiau yr Unol Daleithiau, ac yn golofn brofedig yn sefydliadau gwerin-lywodraeth, ac wedi gwrando yn amal ar ei sylwadau, yn y dirgel yn ogystal ag mewn cymmulleidfaoedd cyhoeddus, a gwyddom ei fod yn gyfaill gwresog i, ac yn gymmaliwr rhyddid gwerin-lywodraeth, er y cyhoeddiad o chwedlau yn y Taleithiau i'r gwrthwyneb; yr ydym wedi cael ein boddloni yn ei weithredadau fel Llywodraethwr, ac fel Arolygydd achosion Indiaidd, ac hefyd y treuliad o anrhegion y llywodraeth at adeiladau cyhoeddus i'r Diriogaeth.

Gyda llawenydd a chariad arddangoswn, fod yr unrhyw wedi ei ddefnyddio er lleshâd goreu y genedl; a chan y byddai ei appwyntiad yn fwy o leshâd i'r Diriogaeth nag a fyddai appwyntiad unrhyw ddyn arall; yr achosai hyny ddiolchgarwch holl drigolion y Diriogaeth, ac yr achosai ei symudiad y teim-

ladau mwyaf gofidus ac hiraethlawn ; ac mai ein barn, seiliedig ar adnabyddiaeth bersonol a gawsom o'r Llywodraethwr Young, ac oddiwrth ein sylw o'r canlyniadau o'i ddylanwad a'i weinidogaeth yn y Diriogaeth hon, yw, ei fod yn meddu mewn graddau uchel bob cymhwysderau gofynol er cyflawni ei swydd-waith, mewn uniondeb a gallu difeïus; mai efe yn ddiamnheuol yw y person mwyaf cymhwys a ellir ddewis i'r cyfryw swydd.

Yr ydym NI gan hyny yn ymhyfrydu yn ei gynnyg idd eich teilwng ystyriaeth, ac yn taer erfyn ei ail-appwyntiad fel Llywodraethwr, ac Arolygydd achosion Iudiaidd dros y Diriogaeth hon.

Dinas y Llyn Halen Mawr, Tiriogaeth Utah,
Rhagfyr 30ain, 1855.

J. T. Kinney, Ch. Justice U. S. Supreme Court Utah; E J. Steptoe, Lt.-Col. U. S Army; John F. Reynolds Bvt.-Maj. 3rd Arty. U. S. A.; Rufus Ingalls, Captn. U. S. Army.; Sylvester Mowry, Lieutenant U. S. Army; Lathett L. Livingston, 3rd Arty.; Jno. G. Chandler, Lt. 3rd U. S. Arty.; Robt. O. Tyler, Lt. 3rd Arty.; Benjn Allston, Bvt. 2nd Lt. 1st Dgs. U. S. A. Army; Chas. A. Perry, Sutler U S. A.; Wm. G. Rankin, [Quartermaster's Clerk]; Horace R. Wirtz, Medical Staff U. S. A.; Leo. Shaver, Asst. Jus. S. C. of U. S. Ter. of Utah; Wm. I. Appleby, Clerk Supreme and First District Courts U. S. T. U.; Curtis E. Bolton, [Bookkeeper of Mr. Perry]; A. W. Babbitt, Secretary of Utah Territory; Wm. Mac, [Merchant;] J. M. Hockaday, [Do.;] George Sims, [Do; Henry C. Branch, [Do;] C. C. Branham. [Do.;] C. J. Byrne, Do.;] Lucian L. Bedell, [M.D.;] Courtland Livingston. [Merchant;] Felix Tracy, Jr.. [Adams & Co.'s Express Agent;] E. Smith, Postmaster Salt Lake City; Joseph Hollman. U. S. Atty. for Utah; Joseph L. Heywood, U. S. Marshall Utah Ter.; Jos. Greene. [Merchant;] J. Geo. Ziegle. [Do.;] Louis Schooll, [Do.;] B. W. Cannon, [Do.;] John J. Kerby, [Do.;] S L. Wallace, [Do;] F. S. Klumph, [Do.;] Stephen B. Rose, Ind. Sub-Agent for Utah T.; James Loan, [Merchant;] W. H. Hooper, [Do.;] Geo. P, Styles, Associate Justice S C. U. S. for Territory of Utah; T. S. Williams, [Merchant;] John Needham, [Do.;] Wm. Bell, [Do.;] Charles G. McLure, [Forage Master U. S. A]

Yr ydym NI yma yn ardystio fod yr uchod yn adysgrif gywir o'r Ddeiseb gyda'r enwau cyssylltiadol, ac yn cael ei hanfon i'r Llywydd Franklin Pierce, heddyw, Rhagfyr 31, 1855.

THOS. BULLOCK, G. S. L. Co. Recorder,
LEO. HAWKINS, Clerk.

ARIAN-DY.

Arian yw *dau* y byd, eithr dylai 'duw y byd' fod yn ufydd-was i'r Saint Gofynir cyfrif gan y naill a'r llall, ai eu gwasanaethu eu hunain, y byd, ynte gwasanaethu Duw a wnaethant â'u cyfoeth; a chan fod y canlyniadau o hyny yn cyrhaedd i'r byd nesaf, *braint* yw cael cyfarwyddyd pa fodd i gael y llôg mwyaf am arian, nid yn y byd hwn yn unig, eithr y modd i barhau a chynnyddu y llôg hwnw wedi y darfyddo arian bathol. Na ryfedder at ein hawgrym, canys, cyn terfynu arddangoswn nid yn unig arian-dŷ lle na ddichon lladron gloddio drwodd a'u lladrata o hono—lle na ddichon tân ei losgi,—dwfr ei foddi, na holl ddrwg-ddynion byd golledu y cyfranwr iddo; arian-dŷ a dâl y llôg mwyaf oll yma, ac a barha i daln llôg yn dragywyddol; yn yr hwn y mae pob cyfranwr yn *berchenog*, a lle y gall pob un gael pob ceiniog a geisio yn ol pan y myno, ac fel y dewiso. Arian-dŷ yw hwn na thorra yn dragywydd, canys ei berchenog a bïa holl fŵn-gloddiau y byd, a Brigham Young yw enw ei brif drysorydd. Teyrnas Dduw yw yr arian-dŷ sicraf oll yn gymmaint ag mai Teyrnas Dduw a faluria holl deyrnasoedd y byd—mai iddi y cesglir holl "olud y cenedloedd," "a'i heolydd hi a balmentir ag aur pur." Dyma le diogel i drysori cyfoeth. Cyfaddefa pob crefyddwr fod ei gadwediaeth ei hun yn ymddibynu ar ei ymroddiad cyflawn o hono ei *hun*, gorff ac enaid, i deyrnas Dduw, ac, y mae ei ymroddiad yn gyfaddefiad o'i grêd mai dyna yw y fan mwyaf diogel i'w gadw ef; pe cadwai efe ei gôd tuallan i'r fan ddiogel hono, achosai hyny ysgariad rhyngddo â'i gôd. Os nad yw y fan lle yr ymddirieda efe ei gorff a'i enaid yn ddigon diogel i gadw ei gôd hefyd, yna mae ei gôd gymmaint gwerthfawrocach yn ei olwg nag yw ei gorff a'i enaid ag yw ei awydd yn fwy am le diogelach i'w gadw! Gan fod y galon lle mae y trysor dylai y dyn a'i gôd fod gyda'u gilydd naill ai i mewn neu allan o deyrnas Dduw, er mwyn cyssondeb. Hefyd dylai yr hwn a ddysgwylia fwynhau golud *sylweddol* yn y nef; ïe, *aur arian*, perlau a choronau, fel y desgrifia y Beibl gysylltiad ei gyfoeth â theyrnas Dduw yma fel ei hunan, er cael mwynhau ei gyfoeth lle y bydd ef ei hun pryd hyny; canys, nid cyssonach i'r dyn a wrthoda fyned ei hunan i deyrnas Dduw yma gael myned â

mewn iddi yno, nag a fyddai iddo gael ei gyfoeth i mewn ato yno ar ol gwrthod ei gyssegru i mewn i'r un deyrnas yma. Yr un mor briodol hefyd y dywedir na etifedda neb yn nheyrnas Dduw ond yn ol yr hyn a adeiladu o honi—"yn ol ei weithredoedd yn y cnawd," yr hyn a arddengys yn eglur mai dyledswydd y Saint yw defnyddio eu holl gyfoeth, yn ogystal a'u hamser a'u talentau, a'r oll a feddiant, i adeiladu y deyrnas yn yr hon y dysgwyliant fwynhau eu hunain a'r oll a ddysgwyliasid byth fwynhau yn dragywydd.

Ond, medd ambell gybydd, yr wyf yn foddlon i gyfranu fy eiddo er adeiladu teyrnas Dduw yma, ond i mi fy hun gael eu defnyddio fel y dewiswyf, eithr ni allaf eu hymddiried i arall rhag ofn eu colli. Wel, os na ymddiriedi drefniad dy arian i'r hwn yr ymddiriedi achubiaeth dy enaid i'w gynghorion, dyna yw prisio dy arian yn fwy nag y prisi dy enaid, dyna'r cwbl! Mae ewyllys rydd gan bob dyn i ymddiried ei arian a'i enaid—y naill neu y llall, y ddau neu yr un, fel y dewiso; ac yn ol yr un egwyddor y caiff ei dâl; eithr ein pwnc presennol yw, pa fodd y caiff pob un fwyaf o les iddo ei hun oddiwrth ei arian? Atebwn, mai trwy wneuthur y defnydd goreu o honynt, a dyma yw y cwestiwn mawr gyda holl arianwyr y byd. Mae y diffyg ymddiried sydd yn y byd yn gorfodi arianwyr i ofyn meichiafon galluog; ac ar y goreu ofna llawer ollwng eu gafael o'u harian, rhag ofn na welant byth mo honynt wed'yn; ac yn wir pethau bach llithrig iawn ydynt.

Ceisiwn ateb y cwestiwn hwn a dangos i'r byd a'r Saint pa fodd y gallant ddefnyddio eu harian ar lôg parhaus, heb berygl o golli ceiniog o honynt byth! Pa fodd? Wel, mae dosparth o'r arian-dŷ didwyll hwn wedi cael ei sefydlu yn Liverpool, a'r Llywydd F. D. Richards yw ei brif oruchwyliwr yn hresennol; derbynia bob swmiau o bunt hyd a ddewiser—tala lôg da, a cheir yr arian yn ol un amser ar ol yspaid tri mis, a dyry holl deyrnas Dduw yn feichiau, a Brigham Young yw gwr ei ddeheulaw. Dyma'r arian-dŷ y cyfeiriwn ato, ac y crefwn ar bob perchen punt ac uchod i gyfranu iddo gyda brys. *Lyfedswydd* y sawl a fedd arian a allant hebgor yw hyn, a'r peth goreu a all ymfudwyr wneyd yw anfon eu punnoedd iddo fel eu cesglir, hyd nes y caffont ddigon i'w cludo, ac felly, byddant yn barod iddynt: ni thwyllwyd un hyd yn hyn, ac ni ddichon chwaith

addieithr i deyrnas Dduw fyned yn *fankrupt*. Mae i'r arian-dŷ hwn ei gangenau drwy'r holl fyd, ac yn wir ymddengys ei ddefnyddioldeb mor eglur i ni fel y dymunem fod yr holl Gymry yn cael cangenau o hono hefyd. Erfyniwn sylw Llywyddion Cynnadleddau at y peth, a charem glywed eu doethineb am ei drefniad. &c. Dywedasom mai *dyledswydd* y sawl a feddant arian mewn arian-dai, neu gyfoeth yn ngwasanaeth marsiandwyr Babilon, yw eu hymddiried hwynt i'r rhai sydd yn adeiladu teyrnas Dduw; ac os felly, pechod yw eu gomedd. Os yw arian y Saint yn achosi iddynt bechu, melldith ac nid bendith ydynt iddynt, ac felly mae hunan-iês yn eu cymhell i ymholi pa fodd y troant hwynt i fod o fendith.

Gall pob un ddarlunio iddo ei hun y defnydd a wneir o'r arian a fenthyca efe i adeiladu Babilon;—gwel ei lygaid o'i amgylch anghyfiawnder, gormes, meddwdod, lladradau, a phob rhyw o bechod; syfrdanir ei glustiau â chabledd a rhegfeydd cymmysgedig â gruddfanau gweddwon ac amddifaid gormesedig, a phan laesâo ei galon yn nghanol y gloddesta, y balchder a'r anlladrwydd a'i hamgylchyna, dyweded wrtho ei hun,—myfi yw un achos o hyn oll—mae fy arian i yn cario hyn oll yn mlaen! Troed o'r olygfa hon i chwilio am dduwioldeb, lle y proffesir ei bod, a pha beth a wêl? Allorau uchel, aml a gwych, mae'n wir, a'u hoffeiriaid ar frasler ei aberthau ef ei hun yn ymgeeru yn mhob pwnc braidd, etto, nao oll i regu a melldithio y Seion hono a'i hoffeiriaid yn unig a deilyngent ei gymhorth ef, ac yn gormeeu ei frodyr anwyl ef ei hun. Pa fodd y teimla y sawl a wêl ei gyfoeth yn cael ei ddefnyddio i'r dybenion hyn? Pa ryfedd fod y Saint a wyddant well nâ gwneyd hyn yn colli yr arian a fenthyciant i adeiladu Babilon? Ac onid hysbys fod dydd ei chwymp hi oll gerllaw; y daw mor ddisymmwth â "chwympiad maen melin i'r môr," pan y gwaedda ei marsiandwyr a'i mhawrion o hirbell eu bod wedi colli eu holl gyfoeth ynddi, os nad eu hunain hefyd. Pwy a gwyna i'r Saint hyny a'u llygaid yn agoryd i hyn a ddewisant yn hytrach adeiladu Babilon nâ Seion, pe cyffelyb fyddai eu tynghed? Ond digon ar hyna, newidiwn yr olygfa, a gweled pob un y daioni a allo wneuthur i lauw *picture* gogoneddusach. Pe rhoddai yr holl Saint yr arian a fenthycant i ddwyn oddiamgylch ddrygau y byd, i law y Llywydd Richards, gallnogid

ef i anfon miloedd yn flynyddol o dlodion i Seion, lle y caffant nid yn unig waredigaeth o ormes, tlodi a dyoddefiadau, ond lle y gallant hwy a'u heppil gael eu hyfforddi yn nghyfraith yr Arglwydd,—eu gwala o bob trugareddau, a chynnorthwyo i adeiladu Seion gyda buandra. Onid llawer mwy pleserus fydd clywed bendithion y rhai a waredwyd drwy eich harian chwi pan grynhoant wrth y cannoedd neu filoedd o'ch hamgylch yn Seion, ar eich pen chwi a'ch plant ar eich hôl, n'i rhoddi eich harian i borthi plant Babel i'ch meilldithio yn eich gwyneb; onid mwy dedwyddol wên y nef yn y fath ddefnydd o'ch arian nâ dyoddef cydwybod yn rhuo fel arthes wedi colli ei chenawon, gan ddywedyd, "Tydi yw y gwr a wnaethost y drwg hwn." Darlunied pob un iddo ei hun y lles annrhaethol a ellid ddwyn oddiamgylch drwy iawn ddefnydd o'i arian, a chyfrifed y llôg a gaffai os gall gael digon o ffigyrau i ddangos hyny.

Nid i ymfudo y Saint yn unig y gellid defnyddio yr arian, eithr hefyd i anfon defnyddiau na cheir yno i adeiladu ac addurno Teml yr Arglwydd, i adeiladu a chadarnhau y Seion hono lle yn unig y gallant eu humain, a neb arall, gael gwaredigaeth rhag y cleddyf, y newyn, yr haint, a'r gyflafan a fedant drigolion y byd megys medi glaswellt y maes. Amlwg weithian, mai *dyledswydd* pob un a ddysgwylia etifeddu lle ac enw yn Seion yw dadwreiddio ei hun, a chrynhoi ei arian a'i gyfoeth o Babilon gyda brys, a'u defnyddio i adeiladu teyrnas Duw, a gwyn fyd a'i gwnel.

Etto, meddwn, mae nid yn unig yn *ddyledswydd* arnynt wneyd ac yn bechod i beidio eithr y mae *hunan-les* yn cymhell hyn ar lawer ystyriaeth:—1af. Mae eu lles hwy yn hunaniaethol a chynnydd Seion. 2il. Bydd eu harian yn sierach nag yn un o arian-dai y byd; ni thora hwn fel y gwna ereill ag y colla llawer yr oll a feddant drwy hyny, eithr byddant ddiogel iddynt, ac ar gael pan eu gofynir. 3ydd. Caffant lôg o'r arian-dŷ hwn fel o unrhyw un arall, a chadarnach meichiau nag a ddyry un arall.

Gofyned pob un a honna hawl i deyrnas Duw iddo ei hun, beth yw yr achos o'r holl alwadau taerion a wna llywyddion yr eglwys yn Seion am gynnorthwy arian yr holl Saint yn y dyddiau hyn? Pa beth a'u symbyla i'r ymroadau diflino, ac i'r egni digyffelyb a wnant yn awr er cadarnhau ac estyn

cortynau Seion, a chasglu ei phlant adref gyda y fath frys? Onid yw yr holl ymdrech a wna ein *Gwyliedyddion* yn dweyd mewn unwch llais na bloedd angel, eu bod hwy yn rhag weled dynesiad y dydd drwg; ac oni ddylai eu gweithredoedd hwynt, ynghyd a gochestion y Llywyddiaeth Brydeinig yn gosod pob gallu i gyd-dynu yn y rhaffau hyn, orfodi pob un o'r rhai a ddysgwylia t gyd-etifeddu y lles o hyny i gyd-weithio â hwynt yn hyn â'u holl alluoedd? Ac onid yw eu *hesiamplau* hwy yn profi galwad ar eu holl blant, nid i gyssegru eu hunain yn unig, ond yr eiddo a fenthycodd Efe iddynt i gyflawni ei fwriadau Ef? Yr hwn a gryfhâ eu breichiau hwy yn hyn, yn unig a fwynha olud o barhâd, a dyma'r unig ffordd a wyddom am dani i ddal gafael yn y golud a feddir—ni wyddom am un ffordd arall i'w iawn ddefnyddio—i gael llôg sier a mwynhâd tragywyddol o hono.

Pa un o'r Saint na ddewisai weled ei arian yn cael eu treiglo i adeiladu teyrnas Dduw yn hytrach nâ'u gweled yn nwylaw y drygionus yn adeiladu teyrnas y gelyn; a phwy na ddewisa fedi o ffrwyth llafur felly fywyd tragywyddol, nag, wedi treilio ei oll fel arall, i dderbyn gwobr anghyfiawnder? Wel, ceir gweled ar fyrder, canys os ydym wedi gallu dangos y filfed ran o'r rhagoriaeth yn y sylwadau hyn, dysgwyliwn glywed sôn arian y Saint yn treiglo tua Swyddfa yr "*Arian-dŷ anfoeledig*" hwn! Dim llai a'm boddia; hyd hyny ni chredwn ein bod wedi cael ein deall, a threiwn ddweyd yn eglurach o hyd!

GALWAD AM WEITHWYR I WINLLAN DUW.

Aberystwyth, Ebrill 29, 1855.

Anwyl Frawd Jones,—Dymunaf arnoch i chwilio am ddyn da i ddyfod yma ataf, os gallwch ryw fodd; gall gael lleoedd da i bregethu, a digon o wrandawwyr. Y mae yma filoedd o drigolion heb un Sant yn eu plith. Pregethais y Sul diweddaf i gannoedd o bobl mewn lle a elwir Talybont, yr hwn le a gynnwysa lawer iawn o drigolion, ac heb un pregethwr Saint yn byw yn eu plith. Pan yr oeddwn yn eu cymhell i ufyddhau, yr ateb oedd ganddynt "Nid oes neb o honoch yn aros yma gyda ni." Mae y gwaith yn fawr, ond y gweithwyr sydd an-

aml. Nid ydym ond dau henuriad ac un athraw yn y lle hwn, ac nid oes un arall yn nes i ni nâ 14 o filltiroedd. Y mae yma ddigon o waith i'w gael pe denai rhai o'r brodyr iddo: y mae fy ngweddi hwyr a boreu ar Dduw am eu gweled yn dyfod ar frys. Yr ydym oll yn iach ac yn mwynhau Ysbryd Duw.

Eich brawd yn y Cyfammod Newydd,

THOMAS JONES.

YN ARALL ETTO.

Pentref Berw, Môn. Ebrill 15, 1855.

ANWYL LYWYDD JONES,—Yr wyf wedi dechreu traethodu yn Sir y Fôn, a rhwng hyny a'r pregethu mae yr egwyddoriom yn myned ar dân trwy y lle. Y Saint a'u hegwyddorion yw testun penaf y gymydogaeth. Daeth yma ddau frawd o'r Alltwen trwy eich cynghor, yr hyn a achosodd lawenydd mawr. Y mae yma ddigon o waith i gynnifer a fynoch o *golliers*; geill rhai gael gwaith yn Nghaergybi ac Amlwch, ac mewn amryw fanau ereill yn y Sir hon. Wrth fob argoelion a welir yn awr gwnawn fedyddio cyn hir; beth bynag, dyna ydyw ein taerweddi beunydd. Mae y Saint yn Nghaernarvon mewn undeb da, ac ysbryd cariad yn llanw eu calonau; ac yr wyf inn a rhwng pobpeth yn teimlo yn ddedwydd.

Chwilio am waith i ereill oedd eich cynghor i mi: yr wyf wedi cyflawni hyny, ac etto yr wyf wrth eich ewyllys, canys gwn mai hyny yw ewyllys Duw.

Eich brawd gyda'r gwaith goreu,

WM. LEWIS.

UDGORN SEION,

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MAI 12, 1855.

Y GWIRFODDOLIAID.—Hyderwn y bydd i alwadau taerion y brodyr o Sir Fôn, Aberystwyth, &c., yn y rhifyn hwn, ein

cynnorthwyo i ddeffroi gweision Duw trwy y deheu i weled eu dyledswydd o fyned allan i'r winllan, ac yn enwedigol dysgwyliwn i Lywyddion y Cymmanleddau a Llywyddion y Cangenau alw sylw y swyddogion hyny a allant fyned allan i bregethu at y ddyledswydd arbenig hyny ar frys. Mae y tywydd yn awr yn claearn, fel y gellir pregethu allan a chael chwaneg o wrandawwyr nag a geid mewn tai yn y ganaf, ac o hyn i'r cynhenaf yw yr amser hawddaf gan y wlad i ddyfod i wrando. Frodyr, "prynwch yr amser oblegid y dyddiau sydd ddrwg!" Mae Duw yn galw yn daerach arnoch i amlygu ffordd y bywyd i'ch cyd-ddynion eleni nâ llynedd, ac yn dyswyl mwy o hunan-ymwadiad, sêl ac ymroad, o gymmaint ag fod rheffynau anwiredd yn rhwymo y bobl yn dynach dynach, ac yn gymmaint ag fod awr ei farn ef yn dynesu.

Mae galwadau taerion o'r gogledd, Sir Benfro, Meirionydd, ac Aberteifi, am gymhorth i fedi y maesydd helaeth sydd o'u hamgylch eisoes yn gwynu i'r cynhenaf mawr. Chwi fedelwyr y prif winllanydd! na throwch glust fyddar at eu llef, eithr hogwch eich crymanau ar frys, ac fe y gweddai i weithwyr ar yr "unfed awr ar ddeg,"—ewch yn ewyllysgar a medwch, a chesglwch eich ysgubau gyda chwi i'r ysgubor gyda llawenydd, cyn yr arllwyso y cymylau duon a grogant uwch eich penau y geuaf dinystriol.

Diolchwn i Evans a Giles am y rhai a enwasant, goreu po cyntaf y cychwynant i'r maes; galwent heibio yma a chânt y cyfarwyddiadau a feddwn; ac ymdrechent hwy a phawb ereill ddylanwadu ar ereill i'w dilyn mor fuan y bo modd. Dywenydd genym hysbysu fod ein ffyddlon frodyr Morgans a Davies o'r Ailtwen eisoes yn Sir y Fôn, ac yn selog yn y gwaith da hwn, ac acth tri o frodyr ereill yr wythnos ddiweddaf drwodd yno ar eu hol. Yr Arglwydd grasol a fendithio y brodyr hyn, a'u cadwo rhag y drwg, ac a'u gwnelo o fawr fendith lle yr elont. Mae yr Henuriaid D. Davies a James J. Phillips hefyd wedi myned i Sir Gaerfyrddin, a dymunwn ar yr hynaws frawd Thomas Griffiths o Sir Frycheiniog, i fyned i lafurio yn Nghynnadledd Meirionydd mor fuan y caniatâ amgylchiadau. Gadewch i ni glywed oddiwrth y brodyr a addawasant er ys tro yn ol i fyned allan; pa bryd y byddant bared i gychwyn, &c.

Frodyr, teimlwn fwy o bwysigrwydd y gwaith nac erioed, a'r perygl o'i esgeuluso ; mae pob peth o'n hamgylch yn dangos hyn, a'r hwn a'i pïa a ddeffro bawb i gyd-weled yr angen sydd am rybuddio y wlad ac a roddo yn nghalonau ein brodyr i wneuthur hyny. Mae digon o waith i'w gael mewn gwahanol barthau o'r wlad lle nad oes neb yn pregethu yr efengyl, eithr mawr angen hyny. Ystyried y rhai a ddylent wneyd hyny eu cyfrifoldeb yn brydlon.

GWRTH-BROFION CYHUDDIADAU "GWRTH-FORMONAIDD!"

(Cyfieithad o'r hysbys len.)

Y mae Mr. Short wedi fy ngyhuddo o anwiredd drwy i mi wadu ddarfod i mi dderbyn ei hèr i ddadleu y tri phwynt a enwyd ganddo. Mewn atebiad cymygiaf y tystiolaethau canlynol o blith amryw sydd genyf yn ol:—

Yr ydym NI yn ardystio i Cadben Jones ddywedyd wrth Ddirprwywyr Mr. Short, ar y 3ydd o Ebrill diweddaf, ei fod ef yn derbyn yr hèr i ddadleu egwyddorion Saint y Dyddiau Diweddaf yn unol a'i ammodau cyntaf ei hun; eithr iddo hollol wrthod dadleu y *tri phwynt* a gymygiwyd ganddynt hwy; iddo gyduno i gyfarfod â Mr. Short yn bersonol pan y dychwelai o Lynlleifiaid, i nodi yr egwyddorion a ddadleuai arnynt, Cydsyniodd y Dirprwyaeth â hyn cyn eu hymadawiad.—*Thomas Jones, Benjamin Jones, Llanelli, John Walters a William Lewis, Abertawy.*

Yr wyf wedi cyfaddef, ac heb erioed wadu, ddarfod i mi dderbyn yr hèr i *ymddadlu ;* eithr gwadais, a gwadaf bob amser i mi gymmeradwyo eu *pynciau.* Gwyddai Mr. Short, neu gallasai wybod, y ffaith hon oddiwrth ei genadon ei hun, pan hèriold fi o flaen y cyhoedd yr hwyr canlynol! Y ffaith i mi gyfarfod a Mr. Short wed'yn a brawf y rhan flaenaf: yr un ffaith a wrth-brofa yr *olaf* hefyd, yn gymmaint a bod pob materion ereill, od eithr y rhai blaenaf, yn ymorphwys ar y *Committees* i'w trefnu. Ni allasai fod un anghenrheidrwydd arall ar Mr. Short a minnau i gyfarfod onid i gyduno ar y pynciau a ddadleuid; gan hyny, cyn belled ag y perthyna yr

her, ni allaf fod wedi dweyd anwiredd. Etto mewn cyssylltiad â'r *penau:* er i ddirprwywyr Mr. Short haeru yn bendant (yn ol y "Swansea Herarld" am y 25ain o Ebrill diweddaf,) fy mod wedi *cymmeradwyo* y *tri phwynt*, etto yn ei Hysbys len ni "faeddant" haeru yr unrhyw, ond "ymhocedu" â'r geiriau aneglur canlynol, a'r fath ag sydd wedi hynodi eu holl ymddygiadau, a'm gwrthwynebiad i ba rai a alwant yn hocedwaith," sef trwy fynegu "nad ymorphwysodd gysgod o ammheuaeth ar eu mheddyliau o'm cymmeradwyaeth." Sylwer! "o'm cymmeradwyaeth;" pa bryd, ai yn y mynedel? neu a oeddynt ddim yn ammheu y cymmeradwywn hwynt yn y dyfodol; pa un? Os y diweddaf, yna eu haeriad (yn yr "Herald" am Ebrill 5) a'u cyfarfyddant. Os y blaenaf, gwna y pedwar uchod, a'm hunan, ynghyd a ereill a enwir isod, eu gwrthbrofi: pa ffordd bynag yr hocedant y maent rhwng deugorn cyfyngder, ac fel Haman yn *hunain-ddyn chafedig*. "Pan y gwna dynion hocedu fel hyn y mae tynghed a'u condemnia hwy i syrthio i'r fagl hon o anghysondeb." Bradycha y ffordd ddichellgar hon o "hocedu" fwriad dwfn i euogi y diniwed, yr hyn a raid deilyngu anathema y cyhoedd deallus.

Ardystia y personau canlynol y rhai ydynt foddlon i *dy·gu* ddarfod i un o'm cyhuddwyr, sef Mr. William Morris, eu hysbysu hwynt ar ol ymweliad y ddirprwyaeth â mi, fy mod i wedi gwrthod y tri phwynt a gynnygiwyd y pryd hwnw.—*Dewi Elfed Jones, Daniel Lanëels, John Walters, a Thomas Harries, Abertawy.*

Mewn gwrthbrofiad o'r cyhyddwr arall, sef Mr. Richard Morris, nid ymhelaethaf yma, ond talfyriad o'r dystiolaeth a ganlyn:—

Yr ydwyf fi, Benjamin Griffiths o Lanelli, Sir Gaerfyrddin, trwy hyn yn tystio ddarfod mewn ymddyddan â Mr. Richard Morris, i'r cyfryw Richard Morris roddi ar ddeall i mi, ddarfod mewn ymweliad a gafwyd gan ddirprwyaeth *(committee)*, o ba un yr oedd efe yn aelod, a apwyntiwyd i wneuthur trefniadau gogyfer â dadl gyhoeddus rhwng Cadben Jones a Mr. C. Short, i Cadben Jones, ar y cyfryw ymweliad, *wrthod dadleu y tri cynnygiad* a gynnygiwyd gan Mr. Short.—*Benjamin Griffiths.*

Hyderaf yn ddiammheuol fod y tystiolaethau uchod, yn gyssyltiedig â haeriad Mr. Short, fy mod yn gwybod nad oedd

genyf ond *un* tyst, a bod *hwnw yn un o'm plaid i fy hun*, (!) ac yn ogwyneb yr hyn a ddiangodd dros wefusau ei Barchedig Ddirprwywr, yn ol yr *Herald* am Ebrill 11, iddo fy ngael [pan ar yr ymweliad a nodwyd] wedi fy *amgylchynu* gan fy nghyfeillion, —yr holl bethau hyn yn ddigonol i orfodi y cyhoedd deallus i'm rhyddhau i o'dliwrth y cyhuddiad uchod, ac i'w osod lle y perthyna yn gyfreithlawn.

Cyfaddefa Mr. Short nad yn erbyn fy mhrygeiau y mae ei wrthwynebiadau, eithr yn erbyn fy unig safôn,—y *Beibl*, trwy ddywedyd yn ei Hysbys len ei ddymuniad i ddadleu ar "Lyfr Mormon," wedi iddo ddarllen fod yr un pwnc wedi cael ei gynnyg genyf i; - cynnwysir yr hyn a eilw yn "Honiadau Joe Smith" yn fy ail bwnc, ac yn lle y "Natur Ddwyfol," fel y geilw hi, yr oeddwn wedi cynnyg y "Duwdod;" am y "Gyfundrefn ysbrydol-wreigiaeth," cyfaddefaf fy anwybodaeth o honi; bodau *dynol* yw ein holl wrageddni; eithr yr oeddwn wedi cynnyg "Aml-wreigiaeth." Pa beth ychwaneg a all efe ofyn? Ei amcan mae yn eglur yw i wŷro oddiwrth yr hyn yw Mormoniaeth mewn gwirionedd at aflunian dychymygol, atgasach yngolwg y Mormoniaid nag iddo ef ei hun.

Mewn atebiad i'w wrthwynebiad i ddadleu yr *athrawiaethau* a gynnwysir yn ein llyfrau hyd oni wybydda (trwy anwireddau enllibwyr etto, bid siwr) pa un a ydynt yn "Ddadguddiadau Dwyfo neu yn dwyll *Yankeeaidd*," gofynaf, Pa fodd y gellir profi dwyfoldeb y Beibl yn well nâ thrwy yr *athrawiaethau* a gynnwys? Dymunaf hysbysu fy nghyfaill o'r hyn a ymddengys yn ddirgelwch cuddiedig iddo ef, sef, mai y prawf sicraf a all efe gael o dlwyfoldeb y Beibl yw trwy *gredu* ac *ufyddhau* i'w *athrawiaethau*, a derbyn oddiwrth ei Awdwr Dwyfol gyflawniad o'i addewidion. Cynnygia Duw y prawf a ffaeledig hwn o eirwiredd Llyfr Mormon, ac ar y dadguddiad hyn, ond ar nid ystoriau "*Yankeeaidd*," yr "ymhongiana ein cyfundrefn," Mr. Short.

Mae ei gam-gymhwysiad o'r gair "*indefinite*" i awgrymu nad oeddwn *i* yn deall ei osodiadau, yn arddangosiad arall o'i awydd i *greu* anghysson debau; tra mai un rheswm gorfodol i'w gwrthod oedd, fy *mod i* yn deall yn dda mai ei fwriad oedd i adrodd enllib a chyhuddiadau a wrthbrofwyd lawer gwaith o'r blaen, yr hyn a brofir yn rhy wirioneddol gan ei gyfaddefiad:

yn ei Hysbys-len ddiweddaf, mai ei brofion ydynt chwedlau "gwrthgilwyr," a thrwy y fath frawddegau anghrefyddol a "Thwyll *Yankeeaidd*," "crug o afresymoldeb ac anfoesoldeb," "cabledd," &c. Mewn gair, ma eyn ddiamnheuol genyf y ffeiddiai pob boneddwr i ddalleu ei grefydd santaidd gydag awdwr y cellweiriau, llysenwau, a'r gwawd o bethau santaidd sydd yn ei hysbys-len—ei gam gyhuddiad gwarthus presennol o anwiredd, a'i haeriad diystyrllydd yn y cyhoedd, fod fy "*ngweithredoedd* i yn achosi i angylion wylo, ac i ddynion a a benywod i gywilyddio!! Cywilyddiai Cristionogaeth i glywed y Beibl yn cael ei wrthod, ac oraclau cyssegredig yn cael eu pwyso yn nghloriannau y fath enllibau a gynnygiai anffyddwyr yn absennoldeb y gwirionedd, yn erbyn yr efengyl.—hônai dynoliaeth ddystawrwydd diystyrllyd bawb dynion da ar y fath ffolineb.

D. Jones.

CYMMANFA ORLLEWINOL MORGANWG.

Cynnaliwyd y Gymmanfa uchod yn Neuadd y Saint, Heol Orange, Abertawy, Ebrill 22, lle yr oedd ymgynnulliad y Saint yn lliosog a siriol. Cynnaliwyd tri chyfarfod yn ystod y dydd. Wedi byr annerch y Saint yn gyfunvedd â'u sefyllfa a'u hymdrechiadau yn ysbaid y tri mis blaenorol, gosodwyd gerbron Awdurdodau yr Eglwys. Ymgyfammrodwyd yn unfrydol i'w dâl i fyny. Amlygwyd hyny gyda theimladau hyfryd a ddyddorol. Prydnawn a'r hwyr cawsom ein bendithio â phregethau nerthol a bywydol y Llywyddion Cadben D. Jones, C. H. Wheelock, J. D. Ross, a W. C. Dunbar.

Yr oedd y Neuadd yn fwy nâ gorlawn o wrandawyr, a channoedd allan yn awyddus i wrando. Er pan mae y bleiddiaid yn y Dref hon wedi ymuno i ysglyfio praidd Duw, mae y Saint yma ar gynnydd buan, a'r holl le yn un goddaith tanllyd o gynhwrf, ac yn ferw cruchias a gwyllt yn herwydd "Saint y Dyddiau Diweddaf." Yr ydym yn bedyddio yn nghanol y rhyfel, a chenym filiwn nertholach darnau nâ'r "*Lancaster Guns*," yn ergydio bwledi *gwirionedd* yn erbyn y gau, nes dryllio caerau cyfeiliornadau yn chwilfryw; ac y mae uchel lywyddion byddinoedd anghrist mewn dyryswch, wedi eu tôi gan gywilydd a gwarth.

Y gwir sy'n ymlid y *gau*
I d wyllweh o'i holl dyllau.

Y cynarychioliad am y chwarter sydd fel y canlyn:—Arch. Off. 1, Hen, 76, Off. 34, Ath. 21, Dia. 19, ymfudodd 9, bu farw 4, bedyddiwyd 25.—Cyfanswm 481.

Yr eiddoch yn serchus fel arfer,

Dewi Elfed Jones. *Llywydd.*
A. L. Jones, *Ysgrifynydd.*

CYMMANFA LLANSAWEL.

Cafwyd caniatâd gan un Mr. Pritchard i gynnal y Gymmanfa uchod yn y *Town-Hall*, Llansawel, Ebrill 15. Dechreuwyd y cyfarfodydd am 11 y boreu, am 3 y prydnawn, ac am 6 yn yr hwyr. Er mor helaeth oedd y lle, etto yr oedd yn orlawn o wrandawwyr drwy y dydd. Pregethwyd yn y gwahanol gyfarfodydd gan yr henuriaid canlynol:—B. Jones, Llywydd Cynnadledd Llanelli, B. Evans, Llywydd Cynnadledd Aberteifi, Thomas Jenkins, Llywydd Cynnadledd Caerfyrddin, J. Evans, Caerfyrddin, James Jones, Llangadog, John Evans, Penywern, J. Edmunds, Llandeilo, ac Evan Morgan, Brachfa. Pregethwyd yn dda i wrandawwyr astud, ac fe ddangosodd y gymmydogaeth garedigrwydd mawr ar yr achlysur. Gwahoddwyd wyth i giniaw gan amaethwr parchus, o'r enw Mr. James, ond nis gallasem i ychwaneg nâ phump i fyned, o herwydd fod ereill ar yr un egwyddor garedig. Rhoddodd Mr. Williams, *Red Lion*, letty yn rhâd i amryw. Mewn gair, yr oedd y nerth rhyfeddol a gafodd y pregethwyr, lliosogrwydd y gwrandawyr, a'r caredigrwydd mawr a ddangoswyd yn llawenhau ein calonau yn fwy nas gallwn ei ddesgrifio, a'n gweddi daer yn bresennol yw, ar i'r Duw yr hwn bïa'r gwaith, i fendithio pawb am eu caredigrwydd, ac i lwyddo ymdrechiadau ei weision er tueddu lluoedd i ufyddhau i'w drefn, fel gallont fwynhau y bendithion a addawwyd iddynt.

Yr eiddoch, &c.,

T. Jenkins.

MYNEGIAD

O'r llyfrau ar werth yn "Swyddfa Udgorn Seion," Abertawy, yn nghyd a'u prisiau i Ddosparthwyr Cynnadleddau a Changenau.

Llyfr Mormon, yn rhwym 4s;—4s 3c.

Athrawiaeth a Chyfammodau, yn rhwym 3s;—3s 3c.

Llyfr Hymnau, rhwymiad hardd-laf 2s 3c;—3s 5c.

Etto, yr ail oreu 2s; 2s 2c.

Etto, o groen llo cryf 1s 9c;—1s 11c.

Udgorn Seion. Cyf. I—IV, yn rhwym 3s yr un. Cyf. V., 1s 10½c. Cyf. VI., 2s. Cyf. VII., 2s 10½c, heb eu rhwymo.—Elw o 1 rhifyn o bob 20 i'r Cangenau.

Prophwyd y Jubili, Cyf. III., heb ei rwymo 2s;—2s.

TRAETHODAU O WAITH CAPT. JONES.

Yr Eurgrawn Ysgrythyrol, yn rhwym 3s;—3s 2c. Heb ei rwymo 2s 4c;—2s 5c.

Pwy yw Duw y Saint, y cant 17s 6c;—19s 10c.

Yr Hen Grefydd Newydd, y cant £1 18s;—£2 6s.

Annerchiad, y cant 10s;—1 1s 6c.

Gwrthbrofion i'r Spaulding Story am Lyfr Mormon, y cant 1 1s 2c;—1 5s 10c.

Anmhoblogrwydd Mormoniaeth, y cant 6s;—7s 6c.

Yr Arweinydd i Seion, y cant 11s;—12c.

Pa beth yw Mormoniaeth, y cant 3s;—3s 9c;

Pa beth yw Grâs Cadwedigol, y cant 3s 6c;—3s 11c.

Tafleni Cyfrifiadol, 3c yr un.

Gwahoddiadau i unrhyw le, y cant 1s 10c;—1s 11c., (ond erchi dim llai nâ 300).

TRAETHODAU O WAITH JOHN DAVIS.

Llyfr yr Eglwys, yr un 11s.

Yr Hyn sydd o Run, &c., y cant 6s;—7s.

Epistol Cyffredinol cyntaf, y cant 6s 6c;—7s 6c.

Traethawd ar Wyrthiau, y cant 6s;—7s.

Traethodau ar Wyrthiau. Rhif. 1—6, y cant 6s;—7s.

Pregethu i'r Ysbrydion yn Ngharchar, y cant 5s 6c; 6s 6c.

Ewch a Dysgwch, y cant 1s 8c;—1s 10c.

Ymddyddanion, y cant 2s 9c;—3s.

Profwch bob peth, y cant 2s 9c;—3s.

Dyddiau Noah, y cant 2s 9c;—3s.
Parchedig a'r Bachgenyn, y cant 1s 10c;—2. } Caneuon.
Tystiolaeth y Sant, y cant 1s 8c;—1s 10c.

Yr Achos Mawr Cyntaf, yr un 1½c;—1¾c.

Darlithiau ar Ffydd, yr un 3c;—3½c.

Y Casgl, yr un 2s 11c;—3s 2c.

Perl o Fawr Bris, yr un 1s;—1s 1c.

Adolygiad ar lyfr W. Jones, Bethesda, y cant 8s 6c;—10s 6.

Dialouge between Reverend & Boy, y cant 3s;—3s 10c.

Dwy Gân N. Ddu, y cant 2s 9c;—3.

We'll see Joseph Smith & Hyrum, y cant 2s 9c;—3s.

Trwyddedi Addoldai, 3c un. Etto, i bregethu, 4c yr un. Etto, Eglwysig, 2c yr un.

Dangosiad Aelodiaeth, yr un 1s 10c;—2.

☞ Dealler mai y pris *cyntaf* sydd i'r prif, a'r *ail* i'r is-ddosparthwyr.

AMRYWIAETHAU, &c.

Hysbysir y Llywydd Richards fod cangenau o'r Eglwys wedi eu sefydlu yn Mexico, yr oedd ganddynt i fedyddio yn y gwanwyn. Er fod tywyllwch dudew yn amdôi y wlad, a bod dynion wedi syrthio i drwmgwsg, ymhola llawer am y ffordd i fod yn gadwedig. Nid llai dyddorol yw y newyddion o Benrhyn Gobaith Da, lle yr oedd cymmaint o wrthwynebiad yn y dechreuad. Mae eu nifer yn bresennol yn 31.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones, "Udgorn Seion" Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Deiseb at Lywydd yr Unol Daleithiau, &c	145
Arian-dy	147
Galwad am weithwyr i winllan Duw	151
Golygyddiaeth,—Y Gwirfoddoliaid	152
Gwrthbrofion Cyhuddiadau 'Gwrth-Formonaidd	154
Cymmanfa Orllewinol Morganwg	157
Cymmanfa Llansawel	158
Mynegiad o'r Llyfrau sydd ar werth	159
Amrywiaethau, &c	160

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 11.] MAI 26, 1855. [Cyf. VIII.

ANNERCHIAD YR ANRHYDEDDUS LYWODRAETHWR BRIGHAM YOUNG,

At Senedd Diriogaethol Utah, a draddodwyd Rhagfyr 11, 1854.

Foneddigion y Cynghor a Thŷ y Cynnrychiolwyr:—Dan ddylanwad hynaws a gofal amddiffynfäol y nef uchel, yr ydym wedi ymgynnull yn y cyflwr o Gymmanfa Gyfreithiol, i erdeinio a sefydlu y cyfryw gyfreithiau a fyddant fwyaf gwasanaethyddol er lleshâd cyffredinol.

Llafur yr amaethwr a wobrwywyd gan gynheuaf helaethlawn, ac y mae heddwch, llwyddiant, a ffyniant wedi canlyn ein holl ymdrechiadau yn hynod.

Gwaredwyd ni oddiwrth y ffrewyllau gorlifedig ag ydynt yn anrheithio y cenedloedd, y dystrywiwr afrywiog, a'r fflam ddifäol. Gyda diolchgarwch a mawl, bydded i'n hymgeisiadau ddyrchafu o galon ewyllysgar a gwresog, at ein Tad a'n Duw, yr hwn a estynodd i ni fendithion gwerthfawr, ac a achosodd i'r ddaear ddwyn allan ei nherth er ein cynnaliaeth.

Er fod ymfudiaeth helaeth wedi cael cartref yn y dyffrynoedd heddychlon hyn yn ystod y tymmor a aeth heibio, etto mae yn gredadwy fod yma gyflawnder digonol i bawb o ymborth hyd gynheuaf arall.

Trwy ymdrechiadau diflino ein teilwng genadydd yn y Senedd, yr Anrhyd. John M. Bernhisel, mae hawliau wedi cael eu derbyn er gwneuthur "Ffordd trwy ein Sefydliadau deheuol,

ac yn ymestyn i ffin California; er dal cyfryngwriaeth â'r Indiaid; ac i dalu y draul a dynwyd wrth ddiddymu rhyfelgarwch yr Indiaid yn y blynyddoedd 1851 a 1852." Y rhai hyn ydynt yr hawliau cyntaf o'r fath a wnaethpwyd dros y diriogaeth hon. Y weithred hon o eiddo y Senedd, er yn ddiweddar, nid yw yn llai derbyniol, yn arddangos, fel y gwna, ogwyddiad i leoli Utah ar safle gyfartal â thiriogaethau ereill. Yr ydym yn ei groesawu fel argoel dda, ac hyderwn yn ol llaw na fydd ei lles i gael ei esgeuluso, na'i hawliau eu diystyru. Ymddengys fod anhawsdra i gael hawliau ar ol eu gwneyd gan y Senedd; mis ar ol mis, ac hyd y nod blwyddyn weithiau sydd yn pasio cyn y derbynir hwynt ar amser taliad. Lle mae y pellder mor fawr, a'r moddion cyflafareddiad mor derfynol, y mae yn ddymunol i weithred y Swyddfa i fod yn barodol ar y fath faterion.

Y rhagweliad presennol yw, na fydd i'r anrhegion a gyfranwyd yn yr eisteddiad diweddaf i gael eu derbyn cyn pen blwyddyn arall; y fath oediadau ydynt yn effeithioli yn feichus iawn ac yn anghyfiawn ar y diriogaeth, yn ogystal ag ar y dinasyddion, y rhai a fuont mor hir yn dysgwyl yn bruderus am gymhwysiad o'u hawliau cyfiawn.

Y cyfraniadau tuag at y Talaeth-Dŷ a'r Pennyd-dŷ ydynt oll wedi eu gwario, ac mewn trefn i gwblhau y naill o'r gweithiau hyn, gofynir cyfraniadau ychwanegol naill ai gan y deddfwyr neu gan y Senedd.

Y gweithiau yn Fillmore a gynnyddasant yn gyflym y tymmor a aeth heibio, a rhag-ddysgwylir y bydd y Talaeth-dŷ yn barod er addasiad y deddfwyr ar eu heisteddiad flynyddol nesaf.

Cadwyd heddwch â'r Indiaid yn ystod y flwyddyn, er hyny pleidiau minteuol o'r Utiaid a gafwyd yn anghyfeillgar, yr hyn mewn un enghreifft a ganlynwyd yn eu lladdiad o ddau o'n dinasyddion. Y drwgweithredwyr o'r trosedd hwn a ddygwyd i mewn gan Indiaid ereill, ag a drosglwyddwyd i fyny i awdurdodau yr Unol Daleithiau, o flaen pa rai y cawsant brawf teg, ac a gafwyd yn euog o lofruddiad, ac a ddienyddwyd yn ol y gyfraith, a rhoddodd yr Indiaid eu hunain dystiolaeth yn eu herbyn.

Mae wedi gofyn cryn ddyoddefgarwch a'r amynedd mwyaf, yn

ogystal a symiau helaeth o anrhegion ar ochr ein dinasyddion, i ddal perthynas gymmodol â hwynt. Mewn rhyw ychydig o enghraifftiau maent wedi anturio ar y dyoddefgarwch a ddangoswyd iddynt, ac wedi ymddwyn yn anmhriodol ac enllibaidd iawn tuag at y bobl. Y callineb tangnefeddus, yr hwn o'r dechreuad a ymarferwyd tuag atynt, yn ddiammheuol a attaliodd lawer o gyd-darawiadau a allasent gael eu canlyn gan ryfel agored.

Er fod llawer iawn o gig eidion, blawd, dillad, drylliau, defnyddiau rhyfel, &c., wedi eu rhoddi iddynt, i'w cymmodi a'u gwneuthur yn gyfeillgar, etto tueddfryd greulon eu nhatur, eu dullweddau diamcanus a gwael ydynt y fath fel nad oes un diwalliant, ni waeth pa mor hael, yn aros yn hir ganddynt; a'u seguryd sydd yn rhagflaenu unrhyw feddylddrych iddynt gael eu digoni o'u cymhorth eu hunain.

Y Shoshoniaid ydynt yn hytrach uwchlaw yr Utiaid, ac yn darparu yn well dros eu bywyd eu hunain, er hyny cyfran helaeth o honynt a wersyllasant ar y sefydliadau i'r gogledd yn ystod yr hâf a aeth heibio. Llawer a wnaethpwyd gan y trigolion, oddiar eu trigfaniad yn mhlith Indiaid y mynyddoedd, i wella eu cyflwr. Cafwyd hwynt yn y sefyllfa iselaf o ddiraddiaeth—tlawd, anwybodus, dioglyd a chreulon. Yn eu llidiogrwydd, nid oedd dim a'u rhwystrai, ond ofn, rhag rhedeg i'r troseddiadau gwarthusaf. Gwerthasent ac hap-chwareuent ymaith eu plant eu hunain, a dwyn oddiwrth a lladrata Indiaid ereill o'r eiddynt hwythau, naill ai i werthu, hap-chwareu ymaith, neu i ladd, fel y byddai i'w mhympwy edrych yn foddhaol iddynt. Ceffyl neu ddryll oedd yn cael ei farnu yn gyfwerth am ladd dyn; a phob cysgod o anhawsder a ddaeth yn fater cyfnewidiad am ystyriaeth o arian bathol. Y sefydlwyr yn ddigyfnewidiol a roddasant iddynt luniaeth a dillad, a'u diwallasant hwynt â drylliau, a defnyddiau i hela, ac mewn amrywiol ffyrdd wedi gweini er eu cysur. Codwyd llafur iddynt mewn llawer o lefydd, ac adeiladwyd tai i'w penceithiaid a'u prif ddynion

Mae y callineb hwn wedi cael tueddiad i ddiwygio eu moesau a'u tueddiadau gwael hwynt, a rhai prydiau i lafurio dros eu cynnaliaeth eu hunain.

Y llwybr hwn o haelioni tuag atynt, mewn ychwanegiad o

golli meddiannau gwastadol a achoswyd gan eu hanrheithiau, sydd dreth a llwyth tost ar y bobl, yn neillduol yn y lleoedd sefydledig mwy unigol a theneu, yn mha le y mae eu hymwelladau yn fwy mynych, ac yn gael eu gweini yn fwy llosog. Gyda theimladau o ryddid, gan hyny, yr ydym ni yn edrych yn mlaen tuag at daliad y cyfraniadau presennol er dal cyfammodau gyda'r Indiaid, yn y dysgwyliad y bydd i'r bobl i gael eu sicrhau yn erbyn eu hanrheithiau, ac mewn rhan i gael eu rhyddhau o'u cynnaliaeth gwastadol.

Y Diriogaeth hefyd a ga ei had-dalu am y blaen daliad a wnaeth hi o bryd i bryd er llethiad gelyniaethau Indiaidd. Y mae yn anwadadwy fod y treuliau wedi bod lawer yn llai, na thiriogaethau ereill mewn cyffelyb gyflwr, ac y dylai gael ei chyfarfod mewn ysbryd o haelionusrwydd ar ran y Llywodraeth Gyffredinol. Ond beth bynag a fyddo y Llywodraeth yn alluog i gyflawni yn ei chwsmeriaeth â'r Indiaid, braidd y dysgwylir y bydd i Utah i gael ei hesmwythau o'u presennoldeb, —o ganlyniad, ddim i gael ei rhyddhau oddiwrth eu hanrheithian. Y trigolion, gan hyny, a ddylasent sicrhau eu hunain a'u meddiannau gymmaint ag sydd yn bosibl, ac i fod yn barod i amddiffyn eu hunain ar unrhyw eiliad oddiwrth eu hymgyrch rhyfelgar. Pob sefydliad ddylasai gwblhau eu hamddiffynfeydd, a chynnal ymgorffoliad milwraidd bywiog a grymus. Mewn amrywiol o ffyrdd mae y bobl wedi ceisio sicrhau eu diogelwch eu hunain, ac i amddiffyn eu mheddiannau oddiwrth anrheithiau gwastadol, yn fyr i gynnal milwriaeth agored yn eu herbyn. Yr ydwyf i yn unwedd wedi dilyn yr un llwybr cyfeillgar o gallineb tuag atynt, gan deimlo yn argyhoeddedig mae yn annibynol o'r ddadl o ymarferyd dynoliaeth tuag at rywiogaeth o bobl mor isel ac anwybodus, yr oedd yn amlwg fod yn fwy gweddus, ac yn llai costfawr i'w porthi a'u dilladu, nag i ymladd â hwynt.

Y callineb a fabwysiadwyd tuag at fintai fechan, yn arferol o gyfanneddu swydd Heber gan breswylwyr y dosparth hwnw, yn eu dosparthu yn mhlith y dinasyddion, gan wneuthur detholiadau doeth i'r Indiaid, yn mha le y gallent hwy a'u teuluoedd deimlo fod ganddynt artref, a gwybod y gallant ymddibynu ar gael ymborth, diddosrwydd, a thriniaeth garedig yn gyfnewid am eu gwaith, sydd i'w weled yn effeithiol, ac os

yn y diwedd, y bydd iddo brofi yn llwyddiannus, a duedda, o leiaf, i sicrhau heddwch i'r preswylwyr, a gwareidd dra i'r Indiaid. Diau, llawer iawn o ddyoddefgarwch ac amynedd a fuasai yn ofynol i gario allan y callineb hwn, hyd y nod pe byddai i'r Indiaid foddloni i'w brofi. Pe buasai iddynt gael eu rhoddi ar waith yn gyfaddas, credir. y gwnaethent ddyfod yn llafurwyr buddiol wedi ychydig brawf. Cawsent eu talu yn anrhydeddus ac yn deg yn y fath bethau a fyddai yn eisieu arnynt, dydd wrth ddydd, yn ol eu hanghenrheidiau, hyd nes y dysgent i fod yn fwy darbodus o'u moddion. Fel pob gweithred arall o ddyngarwch mawr, hwn fyddai yn raddol yn ei effeithiolaeth, ond os y gwelir ef yn deilwng o ymarferiad, credir y gellir ei gario i effeith gyffredinol yn y diriogaeth.

Yn llawer o'r sefydliadau deheuol, mae yr Indiaid eisoes wedi dyfod yn ddefnyddiol mewn llafurwaith a busnes, ac mae nifer o blant Indiaidd i'w cael yn byw mewn teuluoedd, y rhai a'u cymmerasant i'w dwyn i fyny a'u had lysgu. Mor bell ag y mae fy ngwybodaeth yn cyrhaedd mewn perthynas i'r pwnc. y fath blant a gawsant leshad yr Ysgolion Cyfredin; y fendith hon a sicrhauwyd iddynt drwy weithrediad cyfraith.

Mae y pwnc o *l dysgeidiaeth* yn debygol o fod wedi cael cymmaint o ystyriaeth yn hon ag mewn unrhyw Dalaeth neu Diriogaeth arall newydd ei sefydlu. Braidd yn yr holl Adranau a Dosparthiadau. mae tai ysgolion gwych wedi eu cyfodi, ac ysgolion yn cael eu cynnal dros ran o'r flwyddyn, ond ofnaf nad oes digon o ystyriaeth yn cael ei dalu at benodiod ac ymholiad dysgawdwyr, neu y dull o dywys ysgolion. Er yn ddiau fod Bwrdd y rhaglawiaid gyda eu dylanwad wedi cynnorthwyo llawer, ac hyd yn hyn yn lledaenu eu dylanwad mewn ffordd gyffredinol i ddwyn yn mlaen achos dysgeidiaeth. etto y foment hon, nid oes *Fam Ysgol* er hyfforddiad Athrawon—Ysgol Rhifyddiaeth neu Uchel Ysgol, yn mha le mae y cangenau uchelaf yn cael eu haddysgu yn yr holl Diriogaeth, ac nid oes ganddynt un gwrthddrych o welliant y wladwriaeth dan eu nawdd mewn cychwyniad er dybenion addysgiadol. Hyn mewn rhan sydd o herwydd eisieu moddion i weithredu wrthynt, ac mewn rhan i'r ffaith, nad oes gan y Bwrdd, yn gynnnwysedig o ddynion yn rhwym mewn lliosogrwydd gorchwylion, ond ychydig amser i'w gyflawno at y dyledswyddau hyn. Hyd yn hyn y mae

achos dysgeidiaeth wedi cael ei ymddiried gyda y Bwrdd, gan y Senedd, y rhai yn debygol ydynt wedi tybied eu bod hwy wedi dadlwytho eu dyledswyddau yn ddigonol, trwy iddynt urddo y Rhaglawiaid a gallu ac awdurdod i weithredu mewn perthynas â'r pwnc yna. Ond y mae yn bwnc o ganlyniad mawr, ac yn cynnwys ymddiriediadau rhy bwysig i'w hesgeuluso am unrhyw resymau a fodolant yn bresennol. Y mae yn bwnc o ddyddordeb pwysfawr i ni, ac i'n plant, y rhai yn fuan ydynt i fod ein cynnrychiolwyr ni ar y ddaear, ac a wna, os esgeulusir ef, adlamu gyda chwerwder ar ein penau ein hunain pan yn rhy ddiweddar i'w iachâu.

Fel Triogaeth, y mae genym *undeb*, ac y mae medr helaeth gan y bobl i sefydlu ysgolion cyffredin yn mhob Adran a Dosparth, nid yn unig tri neu chwech mis yn y flwyddyn, fel yr ymddengys yn bresennol yn fwyaf cyffredin, ond deg neu un ar ddeg, yn mha le y gall pob plentyn, ni waeth pa mor dlawd, gael derbynnad. Ysgolion Athrawon, ysgolion Rhifyddiaeth, ac ysgolion yn mha le mae y cangenau uchelaf yn cael eu haddysgu, ddylasent hefyd gael eu cadw mewn gweithrediad llwyddiannus yn yr holl brif drefydd. Mae etto yn amser prydlawn i arwain yn mlaen yr Egwyddor Newydd, yn ffurfio yr hon, y cyflawnodd y Rhaglawiaeth orchwyl trafferthus a llafurus. Yr wyf i yn cymmeradwyo iddi gael ei haddysgu yn gyflawn ac hollol yn yr holl ysgolion, yn cyduno, fel ag y gwna yn ardderchog, sail hyffordiadol er cyrhaeddiad o'r iaith Saesneg, yn rhagori yn mhell mewn symlrwydd a rhwyddineb ar unrhyw iaith adnabyddus a fodola. Er fod y dyledswyddau uniongyrchol perthynol i'r pwnc o ddysgeidiaeth yn disgyn ar y Rhaglawiaeth, etto nid yw yn rhyddhau y Senedd oddiwrth atebolrwydd, ac nid wyf yn ammheu dim na fydd i chwi roddi yn llawen, y cynnorthwy neu y dylanwad a fydd i chwi gael yn eich gallu i'w estyn.

Nis gallaf etto ymattal oddiwrth alw eich sylw at y pwnc o weithfeydd cemegol. Y mae llawer iawn o wlan, llin, crwyn, manflew, a braidd bob amrywiaeth o'r materion goreu er gweithio dillad gwlaneni, lliain, lledr, hetiau, sebon, canwyllau, asgroiing *(glue)*, siwgr, crochanyddiaeth, *castings*, i'w cael mewn digonedd, ac i'w cael yn hawdd, ac etto yr ydym yn cael llawer iawn o'r fath erthyglau yn cael eu gwerthu yn flynyddol, a'u

prynu gan y bobl, yr hyn sydd yn achosi dihysbyddiad gwastadol o'n cyfrwng cylch-fynedol. Pe buasai ychydig gannoedd o filoedd o ddoleri, y rhai yn awr a dreulir ac a gludir ymaith am nwyfau gwerthedig, i gael yn lle hyny, eu gwario mewn peirian-waith, ac erthyglau at weithiau teuluaidd, profasai lawer yn fwy llesiol a chyflym er dwyn yn mlaen lwyddiant nein tiriogaeth gynnyddol.—*(I'w barhau.)*

Abertawy. *Cyf.*, ANEURIN L. JONES.

DARLITH AR "WLADGARWCH."

TRADDODWYD y ddarlith ar y testun uchod gan y Llywydd R. Evans, yn Neuadd y Saint, Cwmbach, Ebrill 26, 1855.

Dangosodd y darlithydd fod pob dyn ar y sydd yn caru cymdeithasu â dyn neu ddynion, er mwyn gwneyd daioni iddynt, yn ddyn-garwr, neu garwr dyn; a'r hwn sydd yn gwneyd daioni i wlad, sydd yn wlad-garwr, neu garwr gwlad. yr hyn yw gwlad-garwch. Dangosodd fod y dyn nad yw yn caru cymdeithasu â dyn yn eithriad mewn dynoliaeth, ac yn groes yn nghreadigaeth Duw, canys y mae pob creadur a greodd y Duw mawr yn caru cymdeithasu â u gilydd, yn ol eu rhywogaeth; a'r dyn na châr gymdeithasu â'i gyd ddyn, y mae y dyn hwn yn eithriad o reol dynoldeb, yn ol gair Duw, o herwydd "Nid da bod dyn ei hunan."

Gosodwyd dyn yn lywydd ac yn arglwydd ar ei dŷ ac ar ei deulu, ac i lywyddu ei wraig a'i blant yn dda yn ol gair yr Arglwydd. Diffyg llywodraeth yn y dechreuad oedd yr achos i ddynoliaeth syrthio, a thrwy hyny i anghariad ymlid cariad o'r byd yn gyffredinol. Wedi hyny cawn hanes i fod Noah yn wlad-garwr ac yn bregethwr cyfiawnder, yr hwn a wahoddai ddynion i ddyfod yn garwyr Duw; ond anghariad, anwiadgarwch, ac annhrefn a lywodraethodd y byd, nes ei dyfethwyd oll gan ddiluw.

Lot hefyd a aeth allan fel gwas Duw, yn ngwastadedd Sodom a Gommora, i wahodd y trigolion oddiwrth eu gweithredoedd drwg, ond ni wrandawasant cyn i'r drycin eu dal hwy ar dir anwlad-garwch, ac yn wrthodwyr o'r Duw a'u gwahoddai i ddychwelyd.

Wedi hyny cawn hanes fod Moses yn gwrthod cymmeryd ei

alw yn fab i ferch y brenin, ac yn troi allan yn wlad-garwr; gan fod yn foddion yn llaw yr Arglwydd i waredu Israel o dir eu caethiwed i wlad eu hetifeddiaeth yr hon oedd mewn addewid iddynt, ond er hyny cawn hanes fod anwlad-garwrch yn aros ar y ddaear o hyd.

Ioan Fedyddiwr a ddaeth yn ysbryd a nerth Elias, ond am nad oedd hwn yn bwyta nac yfed, nac yn gwisgo fel dynion ereill, nid oedd addas i eistedd gyda phendefigion a thywysogion y wlad, ac am hyny nis gallai fod yn addas gymdeithaswr, nac yn wlad-garwr chwaith, medd y bobl.

Yn ganlynol daeth ein Harglwydd bendigedig, yr Hwn pan ddaeth oedd yn bwyta ac yn yfed, ac yn gwisgo fel dynion ereill yn y wlad. Derbyniasant hwn yn sier fel gwlad-garwr? Naddo! dywedasant, "Dyma ddyn glwth, yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid." Ond er y cyfan, gosododd gyfraith uniondeb ar y ddaear, a dysgodd bethau uniawn i bawb. Er hyny dywedasant "ni a'i lladdwn ef." Yma gwelwn fod Etifedd yr holl ddaear wedi cael ei wrthod i fod yn wlad-garwr neu yn ddiwygiwr gwlad.

Tua'r drydydd ganrif daeth Cystenyn Fawr, i ddyrchafu crefydd Mab Duw, medd efe, a hyny trwy osod ei swyddogion gwladol yn yr Eglwys. Yr oedd Crist'nogaeth cyn y cyfnod hwn yn wael iawn yngolwg y byd, heb na phryd na thegwch arni, fel y dymuna y mawrion, y doethion, a'r cyfoethogion weled; yr oedd yn agored i wawd a dirmyg y dysgedigion, i elyniaeth y byd, ac i erlidigaethau ei gelynion. Ond yn fuan, dacw Cystenyn Fawr a'i dywysogion yn ei chofleidio, a thrwy ei ddylanwad ef ac ereill o urddas a mawredd, daeth llawer i'w ystyried yn anrhydedd o gael ymostwng iddi, ei hamddiffyn a'u hawdurdod, a'i chynnal â'u cyfoeth, trwy gyfranu eu trysorau iddi. Ond cofier, aeth pob peth yn awr yn anmhur, yn fydol ac yn ansantaidd, mewn athrawiaeth, dysgyblaeth, ac ymarferiadau eglwys Gristionogol, fel y mae yn bodoli yn awr. Pryd hyn dechreuwyd defnyddio Crostionogaeth i ateb dybenion gwladwriaethol, pan y dechreuodd rhai ymgrymu iddi "am ddernyn o arian a thamaid o fara, a dywedyd, gosod fi mewn rhyw offeiriadaeth i gael tamaid o fara." Cafodd ei throi o'i dyben cyntefig, sef achub ac ardderchogi yr enaid ag anrhydedd ysbrydol ac iachawdwriaeth dragywyddol, i foddhau blys mwyaf

llygredig y enawd, ac i gyrhaedd ardderchawgrwydd ac enw mawr yn y byd.

Yn mhob man lle mae Cristionogaeth wedi ei sefydlu trwy gyfraith, ceir yn ddieithriad braidd, fod y dyben yn fwy i wneyd lles i'r wladwriaeth trwy wasanaeth Cristionogaeth, nag i wneyd lles i Gristionogaeth trwy wasanaeth y llywodraeth, e herwydd y rhai sydd a mwyaf o ofal am achosion a gogoniant llywodraethau bydol, yn y cyffredin, sydd a lleiaf o wir ofal am achosion a gogoniant gwir grefydd. Felly, gan nad pa mor ddiddichell ydoedd Cystenyn yn proffesu Cristionogaeth, mae yn sicr iddo, mewn llawer o bethau beth bynag, wneyd Cristionogaeth yn wasanaethgar i'w amcanion bydol ei hun. Yn awr, gwelwn ddechreuad cyssylltiad y grefydd Gristionogol a'r wladwriaeth, yr hyn sydd wedi gosod anwlad-garwch mawr hyd yn bresennol.

Gallwn enwi llawer ereill yn troi allan yn ddiwygwyr er eu lles a'u gogoniant eu hunain, ac nid er mwyn llesoli eu cyd-wladwyr yn gyffredinol.

Ond gall yr holl Saint ddywedyd, y rhai sydd wedi derbyn tystiolaeth, mai dyma oruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd yn yr hon y mae yr Arglwydd yn myned i grynhoi ynghyd ei holl eiddo, a hyny i'r dyben o adferyd dynion i fod yn gyd-garwyr, neu yn wlad-garwyr, ac yn garwyr Crist mewn gwirionedd, ac fod Joseph Smith wedi ei osod gan yr Arglwydd yn Ben-diwygiwr ac yn Brophwyd, a than awdurdod a dylanwad yr Ysbryd Glân yn gwahodd dynion i ddychwelyd, fel y caffant fywyd tragywyddol trwy ufyddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MAI 26, 1855.

Y Drysorfa Ymfudol a'r Deml.—Crefwn sylw parhaus y Saint at y Cymdeithasau daionus hyn; un o brif freintiau y

ffyddloniaid yw cael eu cynnysgaeddu yn y Deml â'r parotoadau anhebgorol erbyn dydd ail ddyfodiad Mab y Dyn—mae adeiladiad y Deml o gydbwys iddynt â hyny ynte. Ar bwy y dibyna ei hadeiladu yn fwy nag ar y rhai a fwynhânt y lleshâd o honi? Gweler enwau a chyfraniadau pob dysgwyliwr am hyny ar y tafleni cyfrifiadol i'r perwyl yn brawf o wirioneddolrwydd ei obaith. Etto mae y mwynhâd o'r oll yna yn dibynu ar ymfudo i'r fan lle mae y Deml a'i hordinhadau, a chan fod y Drysorfa ganmoladwy hon wedi ei threfnu yn bwrpasol er cludo tlodion Seion adref, y rhai na allant fyned un ffordd arall; a chan ei bod hi wedi cludo 1127 eleni, caffed gymhorth dyladwy gan y Saint Cymreig drwy eu cyfraniadau wythnosol; pe ond ceiniog yr wythnos, byddai hyny yn 4s 6c mewn blwyddyn, a gallai 70 fyned adref mewn blwyddyn yn ol hyny; a phe cyfranai holl Saint Cymru ond ceiniog yr un bob wythnos, gallent anfon adref dros drugain yn flynyddol! Dychymyger fod y rhai hyny yn talu yn ol yn mhen dwy flynedd, elai dros chwech ugain o'r drydydd flwyddyn yn mlaen, gan ddyblu yn flynyddol; wrth yr hyn gwelir mai gwaith hawdd yw i'r Saint ymfudo eu hunain! Mae y gallu yn eu meddiant—pe yr iawn brysient "ddydd y pethau bychain;" y dimeuau a'r ceiniogau a gyfrenir yn ewyllysgar, dan fendith Duw a threfniad ei weision, a ddygant oddiamgylch yr holl orchestion a fwriada Duw neu a ddymuna y Saint fwynhau. Na ddigaloned y tylota na chaiff fyned adref tra y mae mor hawdd myned trwy ffyddlondeb. Mae ymroadau y Saint yn y Dyffryn, fel y gwelir drwy bob hanesion oddiyno, o blaid y mawr-waith hwn, yn destun gorfoledd i'r hiraethog am Seion. Mae llawer ar law pob un i'w wneuthur, pe gallai gredu hyny—cyd-weithwyr caffer yr oll a ddysgwyliant gyd-fwynhau yr effeithiau.

Dymunem gerfio ar gof y Saint, y Dosparthwyr, a'r Llywyddion yn enwedigol, fod pob ceiniog sydd yn ddyledus arnynt hwy am lyfrau yn tueddu i rwystro yr ymfudiad ac adeiladiad y Deml, gan fod yr Eglwys yn gwneyd pob peth a allant yn wasanaethyddol i ddwyn oddiamgylch yr amcanion mawreddog hyn; ac o ganlyniad, gwel pob dyn a esgeulusa dalu am ei lyfrau, a phob Dosparthwr a adawo i neb redeg i ddyled ei fod yn euog o ddrwg triphlyg, ac nid digon i ryddhau y naill na'r

Hall fydd tadogi hyny ar y Llywydd a ddylasai rwystro hyny yn brydlon, a dyledswydd yr hwn yw gweled fod pob un yn gwneyd yn gyflawn tuag at ofynion yr Eglwys, o herwydd mor sier ag mai "yr enaid a becho, hwnw fydd marw," y gofyna Awdwr dwyfol ein heglwys gyfrifoldeb manwl gan bob un yn ei gylch am ei ymddygiad tuag at ei ddyledion i'r Eglwys. Sylwed y rhai a feddyliant eu bod wedi gwneuthur a allant at achos Duw yn y mynedol ar gyfrifon Cynnadledd Essex, na'r hon nid oes dylotach yn Nghymru, heb na gweithfeydd na masnach ond amaethyddol i'w galluogi. Y dirgelwch mawr yw eu bod hwy yn cyfranu eu defnynau yn gysson, yr oll o barai a helpiant i lanw y celwrn, yn lle aldaw fel y gwneir mewn manau, i dalu symiau mawr ryw amser penodol, yr hwn o herwydd rhyw siomedigaeth sydd o hyd yn y dyfodol, a hwythau yn amddifad o fendith Duw ar eu cyfammodau, nac ar ddim arall o'u heiddo. Proted gwaith pob un yn hyn ei awydd am lwyddiant achos y Gwaredwr!

Yn Nghynnadledd Essex, yr hon na chynnwysa ond 400 o aelodau, bedyddiwyd 34, ac ymfudodd 28. Y casgliadau oeddynt fel y canlyn:—At ymfudiad yr Henuriad Slack, £4; D. Y. Barhaus, £6 17s 5½c; talwyd am lyfrau tua £25; lleihau y brif ddyled, £5 2s 8c; at Drysorfa y Gynnadledd, cynnaliaeth y Bugail, a'r Llywydd a'i deulu, ac hefyd at Gennadiaethau Tramor, £21 1s 10½c, yr hyn sydd yn gwneyd y cyfanswm yn £100! Rheoleiddiwyd 3 cangen newydd yn ystod y chwarter. Derbynir i'r Gynnadledd 165 o *Star*, 57 o *Journal*, a 35 o'r *Route*. Mae cyfartalwch o blant, &c., yn y Gynnadledd, a dyoddefwyd eithaf cyfartalwch o anghyfleusderau ereill, megys y tywydd oer, diffyg gwaith, &c.; ond i derfynu *rhaid* oedd dywedyd mai gwir yr hen ddiareb fyth 'Lle mae ewyllys mae gallu." W. H. Kimball yw y Bugail.

Y DDADL YN ABERTAWY.—Rhoddasom le i'n gwrthbrofion o gamgyhuddiadau gwarthus ac annuwiol ein gwrthwynebwyr yn ein rhifyn diweddaf, er cyfiawyno iawn ddealltwriaeth ar yr hyn y ceisir gwneyd camddefnydd o hono er niweidio achos y gwirionedd; eithr drwg genym hysbysu fod ein baeddwr wedi gomedd yn hollol i bwyso ein hegwyddorion ni, ei ddanfoniad na'i grefydd ei hun yn nghlorianau yr ysgrythyrau; eithr, o

herwydd na fuom mor ffol a chymmeryd ein llusgo o flaen y cyhoedd, pan oeddynt a'u teimladau eisoes, lawer o honynt, yn berwi dan ddylanwadau y chwedlau maleisddrwg a draethwyd am danom ni a'n crefydd anwyl, am na ddaethom i gael ein baeddu fel arth o flaen cŵn, lle na chlywem ein llais ynghanol ysgrechfeydd dyhired yn gwrandaw chwedlau fel arfer, mwy nag y clywai Paul gynt ei lais ynghanol y fonllef fawr yn Ephesus, cyhuddwyd ni o ballu amddiffyn ein crefydd, a gwaeth nâ hyny, cyhuddasant ni o fod wedi cymmeradwyo eu gosodiadau a gwadu hyny wed'yn! Eithr credwn ein bod ni wedi cyflawni ein dyledswydd i'r cyhoedd ac i'n crefydd yn drwyadl, drwy droi y cyhuddiad yna yn erbyn ei gynllunwyr. Oddiwrth hyn, gwelir mor beryglus i'r gwir yw dyfod yn agos at, nac ymwneyd un dim â'r fath ddynion; a theimla pob carwr y gwir i weddio gyda ni, "O anadl y cyfryw gwared ni Arglwydd daionus." A ddewiso chwaneg o fanylrwydd ar y mater hwn, edrycher i'n hamddiffyniad yn yr "Herald" am Mai 10eg.

Mae y darlithoedd sydd wedi cael eu traddodi yn Neuadd y Saint yma genym ni a'n parchus frodyr Wheelock a Ross, ar yr egwyddorion y gwrthododd ein hèriwr ddadleu arnynt, wedi u dyddordeb mawr yn y lle hwn, ac yn achosi lluoedd o bobl i chwilio drostynt eu hunain am y gwirionedd; ac mewn cyflawniad o eriau Duw fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw, mae yn bleser genym ninnau allu dweyd fod amryw bobl yn credu, a rhai wedi, ac ereill yn addaw cymmeryd eu bedyddio ar fyrder; ac mor bell o fod chwedlau ein gelynion yn llwfrhau y Saint, hollol groes yw yr effaith, mae yr ychydig a esgeulusent eu dyledswyddau gynt, a deimlent glaiarineb, yn fwy selog, cadarn ac ysbrydol nâ chynt, a phob gobeithion yn addaw i waith ein Duw lwyddiant mawr iawn ar fyrder. Yr hwn a'n pïa ni a'r grefydd anwyl a lysnafeiddir a ogonedder yn yr oll,—gweddied ein brodyr a'n chwiorydd gyda ni.

Newyddion Tramor.—Ysgrifena yr Henuriad Findlay o Bombay, India ddwyreiniol, Mawrth 5ed, fod eilun-addoliaeth wedi gwreiddio mor ddwfn yn nghalonau y paganiaid hyny, fel na all llawer o honynt amgyffred dim arall, ac mai yr unig sugndynfa at y cenadon seotyddol sydd ynddynt yw eu hawydd

am arian a rhoddion. Nid nemawr llai eilun-addolwyr yw pabyddion y göa [ymneillduwyr o eglwys Rufain] mewn rhan arall o'r un wlad, lle yr ymgrymant i ddelwau y "Seintiau," ac y gwrthodant ryddid i weision Duw i bregethu. Mae yr Henuriad Findlay ar ei ffordd i Seion cyn hyn gyda nifer o Saint, trwy China a Chalifornia.

HYSBYSIAD I LYWYDD, SENEDD, A PHOBL UNOL DALEITHIAU YR AMERICA, ODDIWRTH GYMMANFA WLADWRIAETHOL TIRIOGAETH UTAH.

Yr ydym NI wedi penderfynu yn nnfrydol, ein bod yn gwadu yn bendant drosom ein hunain a'n danfonwyr, enllibau a chamddywediadau pawb personau a adnabyddant, neu a broffesant eu bod yn adnabod teimladau a gweithredoedd trigolion Utah, ac, wrth lefaru neu ysgrifenu am danynt, yn gosod cyfeiliornad yn lle gwirionedd, a gwirionedd yn lle cyfeiliornad.

A gwrthdystiwn yn erbyn yr ysbryd sydd yn achosi i lawer o ddynion doeth ac enwog ein gwlad i roddi coel i'r fath gamgyhuddiadau gwarthus a disail, er rhwystro tueddiadau cynnyddol pob ymdrechiadau anrhydeddus, a rhwystro cynnyddiant cyfiawn ein Hundeb drwyddo-draw, trwy dueddu yn gyssson i greu anfoddlonrwydd yn ei aelodau, a gosod attalfa ar ffordd pob gwelliant.

Penderfynwn yn mhellach mai y pryniad ammodol o'r Senedd-dŷ at wasanaeth Senedd Utah oedd y defnydd goreu a allasid wneuthur â'r 20,000 doleri a anrhegwyd i'r perwyl gan Senedd yr Unol Daleithiau; a bod hyny wedi arbed ardreth flynyddol o 4,000 o ddoleri, yr hyn. pe amgen, a dreuliasai y cyfanswm yn fuan; a bod drwy hyny y cyfan wedi cael ei ddiogelu er adeiladu Senedd-dŷ yn mhrif ddinas Utah yn gyd-fynedol ag amcanion y brif Senedd.

Tystiwn hefyd yn ddibetrusder, ar ol gwneuthur ein hunain yn hysbys â threiliad yr Anrhydeddus Lywodracthwr Young o'r 20,000 doleri, fod ei ymddygiad o'r dechreu i'r diwedd yn ddoeth, gonest, ac yn fwyaf llesiol i'r wladwriaeth yn gyffredinol; ac yr ydym ni yn gwrth-dystio y cam-gyhuddiadau a wnaed mewn cyssylltiad â'r mater hwn, a'r effeithiau a ddyg-

odd y cyfryw gam-gyhuddiadau yn Washington ac yn y Senedd-dŷ.

Er boddio meddwl y cyhoedd yn well o barthed i dreiliad yr 20,000 doleri, am ba rai y dywedwyd cynnifer o anwireddau, rhoddwn adroddiad byr o'r prif ffeithiau cyssylltiadol.

Yn ystod hâf 1851, cyflwynodd yr Anrhydeddus A. W. Babbitt yr arian cyfeiriedig i'r Rhagorol Lywodraethwr Young.

Yn yr hydref canlynol sefydlodd y *committee*, apwyntiedig i'r gorchwyl, seiliau i'n prif ddinas, yn Ninas Fillmore, swydd Millard, ac yn ganlynol dechreuwyd adeiladu Talaeth-dŷ yn mis Tachwedd; pryd y gwariwyd, gyda phob cynnildeb a threfnusrwydd, yngwyneb prinder gweithwyr, rhyfel Indiaidd, a llawer o rwystrau ereill hollol anamgyffredadwy i breswylwyr yr hen Dalcithiau, 27,697 dol. 53 cent, i adeiladu yr adran fawr ddeheuol o'r prif adeilad; a thystiwn yn ddibetrusder nâ threiliwyd erioed y cyffelyb anrheg yn fwy gwasanaethol i leshâd Llywodraeth, wladwriaethol na thiriogaethol nag y treiliwyd yr uchod gan y Llywodraethwr Young. Mae y swm uchod yn annibynol ar y swm o 1,669 dol. 50 cent, y rhai a gostiodd y sefydliad o'r seiliau, a'r hyn a ommeddwyd ar yr esgus nad oedd hyny yn beth arferol; caniatawyd 8,703 dol. 98 cent, ac anfonir cyfrifon am 18,073 dol. 55 cent gyda y llythyr-gludydd a gychwyna Ion. 1, 1855.

Wrth derfynu deisyfwn yn daer ar lywodraethwyr a doethion ein gwlad, ynghyd â phawb a ddymunant weithredu cyfiawnder, i oedi eu dedfryd ar fater hyd oni chlywant y ddwy ochr o hono, rhag y gwneir anghyfiawnder, ac i'r dieuog ddyoddef y canlyniad.

Gan hyderu y gorchfyga gwirionedd, Foneddigion, y gorphwysa yr eiddych yn barchus,

HEBER C. KIMBALL,
Llywydd y Cynghor.
JEDEDIAH M. GRANT,
Llefarwr tŷ y cynnrychiolwyr.

WILLIAM CLAYTON, Ysgrifenydd,
THOMAS BULLOCK, Etto.

Cymmeradwywyd yn ddieithriad, Hydref 21, 1854.

CYMMANFA LLANELLI.

Fe gynnaliwyd y Gymmanfa uchod yn Nghapel y Saint, ar y 29ain Ebrill. Wedi dechreu y cyfarfod borenol, dwys annogwyd y gynnulleidfa gan y Llywydd, i ystyried pwysigrwydd y gwaith ein galwyd iddo, ac i ymdrechu byw yn unol â'n proffes, gan ymbarotoi ein hunain erbyn yr alwad sydd ar ddyfod. Yna penderfynwyd i ddal i fyny holl awdurdodau Eglwys Iesu Grist Saint o Dyddiau Diweddaf yn ddieithriad.

Cafwyd y cynnrychioliad fel y canlyn:—Cang. 11, Hen. 62, Off. 17, Ath. 5, Dia. 13, bu farw 5, ysgymunwyd 5, ymfudodd 8, bedyddiwyd 20, ar wasgar 4.—Yr oll, 323

Yn y prydnawn a'r hwyr cafwyd pregethau, cynghorion, ac addysgiadau rhagorol gan y Llywyddion Capt. D. Jones, C. H. Wheelock, D. Daniels, a T. Jenkins. Cafwyd dylanwadau yr Ysbryd Glân yn helaeth, a gwrandawiad astud gan y byd yn gyffredin.

Penderfynodd y swyddogion a'r Saint i ymdrechu yn y tri mis dyfodol, i wneuthur mwy o waith nag erioed, i dalu dyled y Llyfrau, ac hen ddyled y Gynnadledd.

BEN. JONES, *Llywydd*,
T. STEVEN, *Ysgrifenydd*.

CYMMANFA SIR ABERTEIFI.

Cynnaliwyd y Gymmanfa uchod yn Aberystwyth ar y 13eg o'r mis hwn. Wedi i'r Llywydd alw y cyfarfod boreuol i drefn, efe a ddwys annerchodd y swyddogion a'r Saint mewn gwahanol egwyddorion. Yna cafwyd addysgiadau gwerthfawr gan y Llywydd D. Daniels. Am ddau pregethwyd i'r byd gan y brawd John Richards, gynt o Mountain Ash, a dilynwyd ef gan y Llywydd Daniels, ar egwyddorion cyntaf yr efengyl. Yn yr hwyr pregethodd y Llywydd Benjamin Evans, a dilynwyd ef gan y Llywydd John Davies o Sir Feirionydd. Ar ol ddiweddu cynnaliasom Gynghor, yn yr hwn y cafwyd addysgiadau buddiol. Cynnrychiolwyd—Cang. 5, Hen. 14, Off. 4 Ath. 1, Dia. 1, ysgymunwyd 3, bedyddiwyd 1, ymf. 3 —Oll 106.

B. EVANS, *Llywydd*,
D. JOHN, *Ysgrifenydd*.

AMRYWIAETHAU, &c.

RHYBYDD GWYRTHIOL.—(O'r "Mormon.")—Er ys tua dwy neu dair wythnos yn ol, meddai y "Ruitman (Missouri) Intelligencer," am yr 16eg o Ebrill, dywedir i beth dyeithr ddygwydd yn Swydd Kemper. Esgorodd benyw ar blentyn yr hwn a orchuddid â blew: bu fyw am dair awr, a llefarodd dri gair yn ddealladwy, sef—"saith mlynedd o newyn." Y peth mwyaf dyeithr yw, y mae hanner poblogaeth Kemper yn ei gredu, ac ymddychrynant yn herwydd y rhybudd daroganol, yr hwn, meddir, a gredat fel amlygiad o ddybenion Rhagluniaeth yn ymweled à'r tir gyda'r fath dymmorau.—*Natchez Courier.*

Y RHYFEL.—Nid yw Sebastopol wedi ei goresgyn hyd yn hyn, na nemawr argoel o hyny; y prif ymladdiadau diweddar oeddynt ond rhuthriadau y Rwsiaid, yn yr hyn y buont ond rhy lwyddiannus er gofid i, yn enwedig y Ffrancod. O hyd newidir magnelau trymach yn mlaen i'r ymgyrch, eithr cyweiria y gelynion yn y nos alanastra y dydd, a chryfhânt eu hamddyfeydd yn gyflym, nes y siaradir yn brysur am faes frwydro i'w herbyn, yn hytrach nâ churo eu penau yn erbyn castelli adamentaidd y dref yn hwy. Mae iechyd a sefyllfa y byddinoedd yn gwellhau. Tiriodd yno mewn un dydd 150 o dunelli o belenau a chragenau, a 120 o dunelli o bylor, a 12 o fagnelau anferth. Ymddengys rhyfel rhwng yr Unol Daleithiau à Spaen yn herwydd Cuba yn annocheladwy braidd.

TIRIODD y llong "Siddons" o Liverpool yn Philadelphia yn ddiogel, ar yr 20fed o Ebrill.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O EBRILL 27 HYD MAI 20.—Isaac Jones, £4; Chas. Harman, £3 15s; A. L. Jones, £1 15s; B. Evans, £1.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones, "Udgorn Seion" Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Anmerchiad yr Anrhydeddus Lywodraethwr Brigham Young	161
Darlith ar "Wladgarwch"	167
Golygyddiaeth.—D. Y. Barbaus a'i Deml—Y Ddadl yn Abertawy—Newyddion Tramor	169
Hysbysiad i Lywydd, Seneddi, a phobl yr Unol Daleithiau	173
Cymmanfa Llanelli	175
Cymmanfa Sir Aberteifi	175
Amrywiaethau, &c.	160

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 12.] MEHEFIN 9, 1855. [Cyf. VIII.

CYFLAWNIAD O BROPHWYDOLIAETHAU JOSEPH SMITH!

Hysbys yw, debygwn, i'r holl Saint, fel na raid ond cyfeirio at hyny yn awr, fod "Gweledydd" mawr yr oes olaf hon wedi rhag-draethu er's mwy nâ 15 mlynedd yn ol, yn mhlith pethau ereill, ddymchweliad yr Unol Daleithiau—y lliwid ei glaswellt ac yr ystaenid ei heolydd â gwaed ei phlant ei hun yn gan gwaeth nag y gwnaed â gwaed lluoedd o Saint yn eu halltudiaeth allan o'u gororau hwynt, yn unig o herwydd eu crefydd; dywedodd y cynhyrfid rhyfel cartrefol yn eu plith gan derfysgluoedd, yr hyn a achosai ymraniad y Taleithiau o'r Undeb—mai y gaethfasnach fyddai y prif destun, ac mai Talaeth Carolina ddeheuol fyddai y flaenaf yn yr ysgariad hwn; do, dywedodd hyn oll, pan nad oedd dim argoelion naturiol o hyny, eithr mae y ffaith o ddidoliad Carolina ddeheuol o'r gyfundeb er's rhai blynyddau yn ol wedi bod yn rhy gyhoeddus trwy y byd i nemawr fod yn anwybodus o gyflawniad llythyrenol dechreuad y brophwydoliaeth. Do, cyhoeddasant eu dadgyssylltiad trwyadl, a gwarafuasant gyflogi na chrefftwyr, ysgol feistri, pregethwyr, na masnachu â Thaleithiau ereill am yspaid; ac er y clytiwyd y rhwyg ryw fodd am ennyd, nid yw ond fel dernyn o frethyn newydd ar hen ddilledyn pydredig.

Yn ddiweddarach, cyneuwyd ffagl o dân oddiar yr un allor ar aelwydydd Nabraska a Kansas, tiriogaethau newydd ar gyffiniau Missouri gaethfasnachol—hen lawr rhuddiog gan

waed Saint! Wedi hir gweryla yn y Senedd ai caeth ai rhydd a fyddent, cydunodd y pleidiau i'r nifer liosocaf o'r etholwyr tiriogaethol benderfynu, yr hyn a greodd fawr sêl ac ymroad yn wrth-gaethfasnachwyr y Taleithiau Dwyreiniol i anfon o'u plith eu hunain fudolion a bleidleisient gyda hwynt i'w cael yn diriogaethau rhydd, a mawr y rhuthro oedd yno! Achosodd hyn i gaethfasnachwyr y deheu anfon o'u plith hwythau yr oll a allent i wrth bleidleisio y rhai hyny, o blaid pa rai heidiodd cannoedd o hen *fobocrats* creulon cymmydogaethol Missouri, y rhai a wrthwynebasant i'r blaid arall ddyfod i bleidleisio, a'r canlyniad fu i'r etholiad gael ei droi yn ymladdfa gethin, fel y methodd y Llywodraethwr Reeder a'u heddychu. Tra yr aeth efe i Washington am gymmorth, lle y cymmeradwyodd y Senedd ei ymddygiad, yr oedd y terfysgwyr gartref yn cyn-ddeiriogi waeth-waeth yn ei erbyn; cyhoeddasant law len yn duo ei gymmeriad—yn ei gyhuddo o anallu llywodraethol, a throisant ef o'i swydd, gan alw am etholiad un arall o'u dewisiad eu hunain yn ei le pan yr oedd ef yn absennol. Yn y cyfamser crynhôdd y deheu fyddin o etholwyr yn dros gan mil i fyned yno gyda thrysorfa o filiwn o ddoleri i'w cynnorthwyo. Nid yw hyn ond cynhyrfu ysbryd y Dwyrain yn waeth fyth i ymroi i'r ymgyrch, fel y gwelir oddiwrth y flaith o fod cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal drwy eu prif drefydd yn *anathematisio* caethfasnach yn boethlyd—fod yr amser wedi dod i roddi terfyn arno, pe costiai hyd y nod yr Undeb sydd rhwng y Gogleddd a'r Deheu, neu nad beth fydd y canlyniadau. Yn ddiweddarach, y mae plaid sydd wedi lliosogi yn wyrthiol braidd yn y dwyrain, y rhai alwant eu hunain "Anwybodusyddion," a gadwent eu daliadau yn ddirgelaidd, eithr yn awr amlygant eu hunain yn wrth-gaethfasnachol, ac yn ddigon eryfion i ethol Llywodraethwyr ar amryw Daleithiau, Hamphshire Newyod, Vermont a Connecticut yn mhlith ereill, ac y mae ganddynt hyder gref y mantola eu dylanwad yn etholiad Llywydd y Taleithiau y flwyddyn nesaf.

Tra mae ysbryd rhyfel yn berwi yn ngwythienau ac yn rhuo bygythiadau drwy eneuau y bobloedd o godiad y rhydd-wlad hyd gyffiniau deheuol caethfasnachaeth—tra mae y gwreichion yn cyneu trwy y wlad mae y golcierth yn fflamio yn yr ymgyrchfan—*mae yr aberth cyntaf wedi cael ei offrymu—gwaed dynol*

yn dechreu llifo—ydyw, mae *war whoop* y gyflafan erchyll, yr hon ni welir echryslonrwydd ei galanastra ond trwy hir-graff yspïenddrych prophwydoliaeth, eisoes yn adleïsio o goedwigoedd Missouri hyd Mississippi, ac wedi ei chwythu ar adenydd y corwynt drwy'r byd!

Ar y 30 o Ebrill, saethwyd un o flaenoriaid y caethfasnachwyr o'r enw Malcomb Clark yn farw, gan gyfreithiwr gwrthbleidiol o'r enw Mc Rea, yn ninas Leavenworth. Dechreuad y cweryl oedd drwy i Mc Rea alw y llall yn gelwyddwr o barthed i'r etholiad, am yr hyn cafodd ergyd ar ei ben gan y llall â phastwn, a'r modd y talodd y pwyth yn ol oedd, yn y fan yr adferodd o'i syfrdandod, tynodd law-ddryll o'i logell, a'i gyn nwysiad a fu yn farwolaeth i Clark yn y fan. Neidiodd Mc Rea i'r afon, a cheisiodd ddianc drwy nofio, eithr dygwyd ef yn ol a rhoddwyd ef mewn carchar; cynddeiriogodd hyn y trigolion yn aruthr, a chrynhoisant at y carchar i geisio y llofrudd, gan fwriadu dïal arno, eithr gommeddwyd ef iddynt. Yn ganlynol, cyhoeddasant y llaw-len a ganlyn:—

"AT Y CYHOEDD.

"*Cyd grynhoad mawr ddigllonrwydd—ymgesglwch a dialwch waed eich cyd-ddyn*—

"Yn gymmaint ag fod Malcomb Clark, un o'n dinasyddion goreu, wedi cael ei ladd,—ei fwrdro yn greulon heb un achos cyfreithlon, yn y ddinas hon, gan lofrudd gwaedlyd o'r enw C. McRea, gelwir y dinasyddion ynghyd dydd Iau, Mai y 3ydd, i fynegu pa beth a fwriadant wneuthur yn mhellach o barthed i'r weithred ysgeler a ymddifadodd deulu o ben ymgeleddol, a dinas o ddinasydd rhinweddol.

"Wele un bywyd yn ychwanegol wedi ei ddiweddu drwy law llofruddiog bradwr mileinig! Pa le y diwedda y fath ganlyniadau angeuol, Duw yn unig a wyr! Ymgyfodwch, gyddynion, a sethrwch dan eich traed yr anghenfil amryw-benog o WRTH-GAETHFASNACH!"

Yna dilyna rhifres o enwau y *committee*.

Yn ychwanegol at yr uchod, ac am ganlyniadau yr hyn dysgwyliwn yn bryderus ofidus, hysbysir ni gan y "*Platte Missouri Argus*," o'r iaf o Fai, fod y lluaws wedi pasio y penderfyniadau bygythiol a ganlyn mewn crynhofa liosog o gaethfasnachwyr yn nhref Webster Mo.:—"Fod hunan-ddiffyniad yn gorfodi alltudiad pob un a ddarogana yn anmharchus yn

erbyn caethfasnach negroaidd; nad oes hawl gan yspeilwyr na bradwyr i nodded cyfraith; a'u bod yn cefnogi y ddedryd a basiwyd yn erbyn Methodistiaid, gan gynnwys pob pregethwyr ereill hefyd a ddywedant ddim yn wrth-ddylanwadol i gaethfasnachaeth dan yr un ddedryd; na feddant resymeg amgen yn erbyn y Wasg wrth-gaethfasnachol nâ'r 'afon Missouri,' 'colcierth,' a 'rhaff gowarch;' a'u bod yn ymrwymo i fyned i Kansas i gynnorthwyo i alltudio y rhai sydd yn ymyraeth â'r caethion; eu bod yn galw cwrdd mawr i'r perwyl yn Parksville, ar y 5med canlynol."

Yn awr, ddarllenydd, onid oes yma sawyr gwaed ar bob gair, a syched am aberth dynol yn mhob anadliad. Cofus mai y Saint druain oedd yn codi y ddincod ar ddannedd y terfysgwyr hyn, eithr mae y grawn surion a fwytaodd y tadau yn waew yn nghylla eu plant hyn hefyd; a phwy a gwyna i'r blaid arall gymmaint yn awr, gan eu bod mor ddiwiolfrydig ag ymladd dros ryddid negroaid, tra na feddent hwy na'r holl wlad glust i wrando ar ruddfanau, na braich i gynnorthwyo eu brodyr unwaed a dinìwed, pan yr ymddifadodd y terfysgwyr hyn hwynt o'u mheddiannau, eu gwlad, a'u bywydau gannoedd o honynt! Pwy a dosturia pan yr arllwysa arnynt ddiglonedd bygythiol y Duw yr ymladdasant mor greulon i'w erbyn!

Mae dau beth neilldnol i weled yn hyn, sef trugaredd Duw yn arwain ei blant yn brydlon o ganol y chwareulawr gwaedlyd i ddiddosrwydd ynghelloedd y mynyddoedd tragywyddol am ennyd bach, hyd onid êl y llid heibio; ac hefyd ei law ddialeddol ar eu gormeswyr, drwy iddynt dalu y pwyth i'w gilydd yn ddau ddwbl am yr oll; ac heblaw, gallwn rag-weled drwy yr oll chwaneg o rag-barotoadau at gyflawni mawr-waith Duw nag a amlygwn yn awr. Rhy amlwg yw ystyfnigrwydd y ddwy blaid i al u gobeithio troi y llid yn ol! Nid heb fawr sêl y cyfranasant filiwn o ddoleri, ac nid heb addunedau o sêl dros eu plaid y rhoddasant eu harian i'r penboethiaid a yrasant i faes y frwydr! O na, mae y goelcierth yn anniffoddadwy, credwn bellach!

Y gwaethaf i'r Saint yw, ysywaeth, fod y terfysg hwn yn dechreu ar y fan y cychwynant hwy i'r *Plains*, eto hyderwn y diangant, gan nad oeddynt yn ymyraeth dim. Pa un bynag credwn, gan fod y farn wedi dechreu er's talm o du Dduw, fod

y Saint wedi cael eu rhan, ac eu gwaredir trwy alluog fraich eu Duw ond hyny, tra fyddo y "drygionus yn lladd y drygionus," fel yr arfaethwyd i fod. Nid yw hyn oll ond *dechreuad* gofidiau y dyddiau diweddaf, ar nad pwy a'i crêd.

ANNERCHIAD YR ANRHYDEDDUS LYWODRAETHWR BRIGHAM YOUNG,

At Senedd Diriogaethol Utah, a draddodwyd Rhagfyr 11, 1854.

[Parhad o dud. 167.]

Ymddengys y byddai y gost a'r drafferth o gludo nwyfau dros fil o filltiredd ar hyd y tir yn achos digonol i gefnogi y marsiandydd i ymroi at *waith cartrefol.* Eglur yw mai ein mhantais fel pobl yw, i gynnyrchu y rhan fwyaf o'n defnyddiau ni ein hunain o nwyfau er defnydd ein hunain. Dyna *ffynonnell cyfoeth* i unrhyw wladwriaeth o anymddibynrwydd i unrhyw Dalaeth. Mae llawer wedi cael ei gyflawni, eithr fe brawf y prisiau, heb ddim arall, mai busnes ennillfawr yw gwneuthur yr oll o'r nwyfau a nodwyd, ynghyd a llawer ereill, a'u bod yn gyfleusderau i ychwaneg o'n dinasyddion i ymgyfoethogi.

Pe gellid diwallu digon ar ein mharchnad â nwyfau o ddiwydrwydd a chrynodeb cartrefol, cyrhaeddid ein hamcan, cedwid yr arian yn y wlad, a chwiliai masnachwyr anghartrefol am farchnad mewn lle arall i'w nhwyfau. Mae Gweithiau Siwgr Kanyon Creek, a fwriedir i wneuthur llawer o siwgr oddiwrth y betys, yn agos parod i gychwyn. Mae y gweithfeydd yn Swydd Haiarn, er gwneuthuriad haiarn o'r mân, mewn gweithrediad, er nad mor llwyddiannus ag y dysgwylid. Cyfarfyddodd y gweithwyr â llawer o rwystrau na ragwelwyd, ag ydynt fwy neu lai tueddol i sefydliadau newyddion, a metelau anmhrofedig, ac ymdrechasant yn erbyn llawer o amgylchiadau croes; eithr y mae yn galondid a chefnogaeth i wybod iddynt fod yn alluog, cyn belled, i fyned drostynt oll; ac hefyd i ddysgu profiadau a wnant fawr-rwyddhau eu gweithrediadau dyfodol. Derbyniodd y gangen hon o waith cartrefol gryn gynnorthwy o'r brif drysorfa, a dichon y gofyna ychydig gynnorthwy etto am ychydig amser.

Yn yr ymledaeniad cyffredinol o wir wybodaeth, a'r ymarfer-

fad o ddiwydrwydd gwir ddefnyddiol a chrynodeb cartrefol, canfyddwn elfenau annherfynedig, llwyddiant, ac anymddibyniaeth; lluniant gaerau ein hamddiffyniad, a hwy ydynt darddiad ein rhyddid. Ymestyniad o ofal meithrinol a chynnorthwy awdurdod gwladwriaethol sydd deilwng i bob amcanion o'r fath a ymddangosant mor eglur yr hwylasant leshâd cyffredinol. Y mae llawer o welliadau cyhoeddus wedi eu cyflawni, er mai trwy gyfraniadau rhydd ewyllys y bobl mewn llafurio, yn fwy nâ thrwy drysorfeydd cymhwysedig at y cyfryw ddybenion eu gwnaed. Adeiladwyd pontydd dros afonydd yr Iorddonen a'r Sevier; y mae melinau wedi cael, ac o hyd yn cael eu cyfodi; ffyrdd yn cael eu gwneuthur; cwmydd a mynyddau yn cael eu chwilio am ddefnydd, a sypynau anferth o goed at adeiladu, ac i'w llosgi, meini, a defnyddiau ereill yn cael eu casglu er cynnydd parhaus ein trefydd a'n dinasoedd; yr oll yn arddangos ysbryd ymdrechgar ac anturiaethus yn ein dinasyddion, yr hyn sydd foddhaol i bawb a deimlant dros welliant a chynnyddiant y dyffrynoedd pelienig hyn.

* * * * * * *

Gadewir ni o hyd mewn amnheuaeth o berthynas i wneuthuriad rheilffordd yn groes i'r cyfandir, yr amser pa bryd, a'r ffordd ei gwneir. Pe ei hagorid er anturiaeth bersonol, ac y rhwymid dynion yn iawn, y mae yn fwy na thebyg y byddai un neu ychwaneg mewn gwneuthuriad yn awr, ac y byddai yn fuan ar waith.

Gan yr ymddengys fod pwnc andwyol Nebraska-Kansas wedi ei waredi yn foddhaol, gyda phryder yr hyderir am i'r mater hwn dynu sylw ystyriol y Senedd yn fuan iawn. Mae yn o debyg eu bod wedi cael hysbysiad o'r gwahanol ffyrdd i'r rheilffordd sydd wedi cael eu mhesur erbyn hyn, ac ni ddylai dim eu rhwystro rhag penderfynu yn union pa ffordd eu gwneir, a thorri mesurau er eu gwneuthuriad buan.

Yn y rhan filwraidd nid oes un cyfnewidiad neilldnol wedi ei wneuthur oddiar yr hysbysiad o'r blaen; mae yr ymarfer arferol wedi bod, either am y cofrestriadau newyddion, y rhai a ddysgwylir i ddangos cynnydd dirfawr mewn rhifedi, nid ydynt etto wedi eu hanfon i mewn. Mae rhai o'r cwmnïoedd gwirfoddolaidd yn diwallu eu hunain â milwr-wisg weddus, yr hon sydd yn ychwanegu at eu golwg filwraidd, ac yn arddan-

gos eu teimlad yn nyddordeb y cyflawniad o'r ddyledswydd hon fel pob un arall. Byddai yn destun canmoliaeth pe dilynai ereill eu hesiampl. Gwir yw mai gwell yw genym grynodeb mewn ffurfiad, dysgyblaeth, arfau, *ammunition*, a phob taclau anghenrheidiol na phethau dianghenrhaid, yn addurniadau neu ryw bethau ereill o'r fath; eithr, yn gyffredin, gellir priodoli yr ymdrech a'r bakchder canmoladwy sydd yn cymhell swyddog neu filwr i wisgo yn weddus yn brawf nad yw y pethau mwy anghenrheidiol yn cael eu hesgeuluso. Ni fu ond enw o wasanaeth filwraidd! ni alwyd am un ymgyrchfa, ac y mae y *Guard* oedd mor ofynol yn ystod ymosodiadau Indiaidd, mewn rhan, wedi eu gollwng ymaith.

Erys amddiffynfeydd a chaerau dinasoedd yn y mwyafrif o'r sefydliadau mewn sefyllfa anorphenedig. Cymhellwn y bobl *etto* i fawrygu yr amser heddychol a llwyddiannus presennol i gwblhau eu hamddiffynfeydd, gan na wyddant yn mha awr yr aflonyddir eu mwynhâd o lonyddwch.

Cynnorthwy y Drysorfa Ymfudol Barhaus sydd wedi ei estyn i filoedd o dlodion, i'w helpu i ymfudo o'r Unol Daleithiau, a gwledydd ereill, ac i gael cartrefleoedd yn Nyffrynoedd y Mynyddoedd. Y mae gweithrediadau y Cwmpeini, hyd yma, wedi bod yn lled lwyddiannus, er mai yehydig ad-daliad, ar gyfartalwch, sydd wedi dychwelyd oddiwrth y rhai a gynnorthwywyd. Ond, beth bynag, ad-dalant cyn gyflymed ag eu gallogir, ac mewn llawer o enghreifftiau, dyblir drwy *gyfraniad* yr hyn a dderbyniasant.

Trwy gynnorthwy y Drysorfa hon, gwnaethpwyd llawer o ddaioni eisoes; llawer o filoedd o bersonau sydd wedi eu dwyn o eithafion tlodi, a'u gosod lle y gallant gynnal, nid yn unig eu hunain, eithr yn fuan gael digonedd iddynt eu hunain a'u teuluoedd. Erys miloedd etto yn bryderus am yr amser pan fydd y Cwmpeini yn alluog i'w hymfudo hwythau hefyd, i wlad lle y gwobrwyir eu llafur. Pwbl dâla gweithrediadau y Cwmpeini, nid yn unig drwy osod y tlodion lle y medrant gynnal eu hunain, eithr ychwanega at yr hyn lafur sydd anghenrheidiol er ymhelaethu defnyddiau y Diriogaeth, a chynnyrchu a chyssylltu o'r elfenau, bethau ag ydynt anghenrheidiol er cynnaliaeth a phwrpas dynoliaeth.

Ein llafur yw ein cyfoeth; drwyddo y casglwn foethau

bywyd, yr addurnwn y ddaear â phreswylfanau a gerddi ardderchog, yr adeiladwn ddinasoedd, ac y cynnyrchwn ffrwythau breision y ddaear o'i mhynwes famol. Yma yn naturiol, ynte, y mae gollyngfa allan i ddosparthiadau rhy boblogaidd y taleithiau a gwledydd hénach, lle yr ymddengys bob ffordd waredigol yn nghau yn erbyn y tlodion, y rhai ydynt yn ymlusgo trwy fywyd poenus mewn newyn ac eisieu, a throsglwyddo idd eu plant yr un dynghed—etifeddiaeth ddiobaith a diddiolch. *Yma*, yn y cŷrau ffafriol hyn, braidd y gellir dweyd fod tlodi yn bodoli, ac nid oes achos i neb a teddant allu cyffredin i weithio, ddyoddef eisieu anghenrheidiau cyffredin bywyd. Hyn oll fu llafur Cwmpeini y Drysorfa Ymfudol Barhaus, i grynhoi y *tlodion teilwng* o'r fath letydd, a'u breintio ag etifeddiaeth gyda ni. I brofi fel y llwyddasant. adleisiad y bryniau, y dyffrynoedd, a'r cwmydd gan sŵn eu diwydrwydd a etyb! Atebed yr ystordai sydd yn tuchan tan bwys cynnyrchiadau y ddaear,—effaith eu llafur! O'r dechreuad mae eu gweithrediadau wedi cynnyddu y raddol—rhifodd yr ymfudiad y llynedd yn agos i bedair mil o eneidiau. Bwriedir iddynt weithio yn helaethach o hyn allan mewn ymfudo o'r Unol Daleithiau.

Mae y cyflawnrif o Swyddogion ammodol i'r Diriogaeth, oddieithr arolygwr Indiaidd, yn awr yn aros gyda ni; a chyn belled ag y deallwyf y mae graddau helaeth o gymmwynasgarwch a charedigrwydd ad-ddychweledig rhyngddynt â phobl y Diriogaeth.

Y mae rhan o fyddin yr Unol Daleithiau o dan gadfridogaeth Colonel Steptoe, ar eu ffordd i Gallifornia, yn preswylio yn ein plith hefyd am y gauaf. Oddiwrth agwedd garedig a boneddigaidd y swyddogion, a'r rheolaeth a ddangosant sydd ganddynt dros eu gwŷr, teimlaf yn ddiolchgar pan yn credu pe gofynid eu gwasanaeth er amddiffyn y sefydliadau rhag ymosodiadau Indiaidd, neu ereill, ei rhoddid gyda pharodrwydd.

Tra yn taflu brâs sylldrem fel hyn ar gyfiwr a sefyllfa ein tiriogaeth, ein cartref fynyddig anwyl, fe'm hadgoffheir yn gryf am ei chynnyddiant yn ystod ei bywyd ieuanc, a'i hargoelion cysurlawn o'i hamser gogoneddus dyfodol, pan yr ymdyfa dros ei chaethiwed tiriogaethol, i gael ei lle yn mhlith y teulu nerthol hyny o genedloedd, cynnydd a gallu, dylanwad a

thynghed pa rai a ddadguddir gan graff lygad hollalluogrwydd yn unig.

Caffer ni yn cynnorthwyo, trwy ein hymdrechiadau a'n gallu oedd cyssylltiedig, i hwyluso lleshâd y cyhoedd, fel pan elom ymaith, y caffom y cydwybodolrwydd ymffrostgar o fod wedi cadw a chyflawni yn ffyddlon y gofalon pwysig a ymddiriedwyd arnom gan y bobl, gweision pa rai ydym, a'r rhai y mae genym yr anrhydedd o'u cynnrychioli.

BRIGHAM YOUNG.

Swyddogaeth Awdurdodol T. U.,
Dinas y Llyn Halen Mawr, Rhagfyr 11, 1854.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MEHEFIN 9. 1855.

NEWYDDION O'R DYFFRYN.—Mewn llythyr dyddorol dyddiedig yr 28ain o Fawrth, hysbysa y Llywydd G. A. Smith ni, yn mhlith llawer o newyddion cysurlawn ereill, fod gwaanwyn cynhesawl eisoes wedi gwawrio ar y Dyffrynoedd ar ol geuaf tymherus; fod ymegnïadau cyffredinol yn cael en gwneuthur i eangu amaethyddiaeth ar y ddê a'r aswy, gan ddysgwyl tiriad lliaws atynt yn y tymmor hwn o bob cwr o'r byd. Bwriedir hau cymmaint a ellir ddwfrhau; ac y mae yn newydd da iawn fod y borfa yn cynnyddu ynghylchoedd y dinasoedd pofwyaf ei porir. Mwynheir iechyd da trwy y Diriogaeth; ymdrechir i gwbllhau yr adeilad mawr newydd a gyfodir yn ochr ogleddol y Tabernacl erbyn y Gymmanfa nesaf; mae ei faintioli yn 156 wrth 138 o droedfeddi, ac fe gynnwysa 8,000 o bobl. Mae tŷ y cynnysgaethiad ar orpheniad. Hougianwyd drysau mawrion ar byrth adran y Deml, ac fe orphenir yr Arf-dŷ yn mhen ychydig ddyddiau. Mewn atebiad i ddeiseb flaenorol Colonel Steptoe ar flaenoriaid y *Pah Vantes* Indiaid, dygwyd i ddinas Nephi yr Indiaid a fwrdrasant Lieu. Gunnison, yr hon weithred ysgeler mae yn gofus i ddirwg-ddynion, drwy New-

yddiaduron Americanaidd, geisio gan y byd goelio mai y Saint a'i gwnaeth, eithr yma cafwyd y gwir fod un neu ychwaneg o'r Saint yn mhlith y rhai a laddwyd; dedfrydwyd o flaen y Barnwr Kinney, dri o'r Indiaid euog o hyny i waith caled mewn carchar am dair blynedd. "Mae iechyd y Llywydd Young yn well nag yn y genaf, mae yn dyfod allan weithiau yn awr; mae ei Gynghorwyr yn iach. Yn fy awydd mawr i gwblhau hanes Joseph Smith ni allais dreulio llawer o amser oddiyma, etto aethym ar wib-deithiau yn aml i bregethu yn y sefydliadau. Malodd y peiriant siwgr dros 22,000 o fwsheli o Fetys mewn 7 wythnos yn driegl, a hyderir y gwneir siwgr da o honynt. Mae eich teulu yn iach, a phawb yn gweddio drosoch, ac yn caru clywed oddiwrthych yn fynych. Diolchwn yn garedig i chwi am yr anrheg o gopi o bob peth o'ch gwaith yn Gymraeg, ac yn enwedigol am yr hanes manwl a gwerthfawr a roddasoch o ddyddiau olaf Joseph a Hyrum Smith, bydd o ddefnydd mawr yn Hanes yr Eglwys, ac os meddwch chwaneg, gadewch i mi ei gael Mae undeb rhagorol rhwng pawb o'r swyddwyr â milwyr estronol, ac â'r Indiai i hefyd."

Diwedd y Chwarter.—Cofied y Llywyddion fod y mis hwn yn ddiweddu chwarter, ac fel ar ddiwedd pob chwarter blaenorol anfoner yma yn brydlon y cyfraniadau at y Deml, ac enwau y Trysorwyr; y cyfraniadau i'r Drysorfa Ymfudol Barhaus, ac enwau y cangenau, a bydded iddynt ddyfod o bob man yn brydlon. Crefwn hefyd arnoch, Frodyr, i ymroi gosod y Dosparthwyr ar waith i grynhoi yr arian dyledus am lyfrau, a'u bod yn anfon yr oll a ellir i'r swyddfäau cyn y gwneir eu cyfrif chwarterol i fynu.

LLYTHYR O'R DYFFRYN.

Linus Tooele, Rhagfyr 19, 1854.

Ein hanwyl Blant,—Da oedd genym dderbyn eich llythyr caredig, dyddiedig Medi 27, ac i ddeall eich bod yn iach ac yn parhau i fwynhau ysbryd ymfudo. Mawr yw ein pleser am ein bod yn alluog i'ch hysbysu pa bryd eich gwaredir. Dywedais wrthych o'r blaen am beidio ag anesmwythau yn herwydd

ymfudo, y gofalai eich rhieni am hyny: trwy gynnorthwy yr Arglwydd mi a'i gwnaethym. Ymgasgliad y Saint tlawd o blith cenedloedd y ddaear yw prif destun pregethu ein Prif Lywyddiaeth, ac y mae ein dinas ni wedi cael yr anrhydedd o fod yn flaenaf i ufyddhau i'w taer annogaethau yn hyn: y Sul wythnos i'r diweddaf casglasom 2,500 o ddoleri i'r perwyl hwn, neu £520 1s 8c o arian eich gwlad chwi. Nid ydym yn rhife dros tua 30ain o deuluoedd; etto mae y nifer hyny wedi anfon digon i ymfudo 40 i'r wlad hon. Na fyddweh yn rhy awyddus am ddillad gwych; eithr prynwch y rhai mwyaf defnyddiol. Caffed Rebeca wisg neu ddwy o wlanen wasanaethgar gogyfer â'r gauaf, gan fod y gauaf yn y parth gogleddol hwn yn lled oer; a mynwch chwithau bâr o ddillad ffwstian cryf, ynghyd a rhai dwc, a chymmaint o ddefnydd ffwstian a dwc a ellwch gael. Os oes dillad gwlanen at y gwaith tan ddaear genych, gofalwch eu dwyn gyda chwi. Gadewch eich bwellau ar ol, gan na fyddant yn ddefnyddiol yma: ond os bydd arian genych prynwch rai ar eich taith yn yr Unol Daleithiau; canys y maent gymmaint gwell na eich rhai chwi. Parotoed Rebeca ei hedef, pinau, a nydwyddau, moddion cwiltio, calico, &c. [Gwel yr *Arweinydd i Seion.*]

Mewn atebiad i'ch gofyniad, sef, A ydym ni wedi lliosogi ein hanifeiliaid, dywedwn, nac ydym: nid oes genym ond y dreisiad a soniasom am dani o'r blaen, dau fochyn, a thua 30ain o *fowls;* gallasem fod wedi prynu iau o ychain, neu dair buwch, pe na fuasai genym i dalu yn agos 100 o ddoleri am ein cludiad yma. Credasom mai gwell hyny na phrynu *stock*, o herwydd fod cynnifer o'n brodyr, chwychwi yn enwedig, yn gweddio am waredigaeth o Babilon, a bod llawer o hyny yn ymddibynu arnom ni, tra y cawn ddigon o amser i gael *stock* etto. Da fyddai genym gael y *Star* a'r Udgorn yn gysson pe gellid; canys da fydd gan ein plant ar ein hol i'w cael etto.

Ydym eich rhieni,

Gynt o Rymni. Dl. a Mary Williams.

SYLWAD Y GOLYGYDD.

Gyda phleser mawr y gosodwn y llythyr hwn a'r un canlynol ger gwydd ein darllenwyr, nid yn unig am yr ysbryd da a arddangosir drwyddynt oll, eithr yn neilldnol yr ymdrech fawr

a arddangosir sydd yn cael ei wneuthur yn y Dyffryn o blaid y Gymdeithas Ymfudol; gwelir fod y Saint yno o ddifrif ant gynnorthwyo eu brodyr i ddyfod atynt, a mawr lawenhâ y *ffyddloniaid* yn yr egwyddor a ddesgrifir ynddynt i wneuthur *ffyddlondeb* yn deilyngdod i ymfudo o flaen cyfoeth, ffafr, nac ach,—dyma fel y dylai fod, a dyszwyliwn y symuda hyn y rhwystr oedd gan rai, yr annoga hwynt i ymdrechu o blaid y Gymdeithas Ymfudol Barhaus, ac y calonoga bawb i fwy o ffyddlondeb.

A ganlyn yw eu llythyr olaf a eglura yr egwyddor rinweddol y cyfeiriwn ati:—

Dinas Tooele, Chwef. 11, 1855.

Ein hanwyl Blant.—Ysgrifenasom lythyr atoch yn Rhagfyr mewn atebiad i'r eiddoch am fis Medi diweddaf, yn yr hwn yr hysbysasam chwi o'r hyn a wnaed yma dros eich hymfudiad; ond y mae ein cynlluniau hyny wedi cael eu gor-lywyddu gan drefniadau y Drysorfa Ymfudol Barhaus, am ba rai ni wyddem y pryd hwnw. Hysbyswyd ni gan y Llywodraethwr y defnyddir pob arian a osodir yn y D. Y. Barhaus yn ol trefniad y Llywyddiaeth yn mhob gwlad, y rhai ni ddanfonant neb ond y Saint *teilyngaf*, a'r rhai mwyaf defnyddiol yn y dyffrynoedd hyn, megys eu harweinir gan Ysbryd yr Arglwydd. Da iawn genym hyn, o herwydd y dibyna eich ymfudiad ar eich ffyddlondeb yn ngwaith yr Arglwydd, a'r graddau a ennillwch o ymddiried y Llywydd D. Jones, yr hwn yw eich cyfarwyddwr a'ch gwaredwr yn bresennol. Gobeithiaf fod eich hymddygiad fel Sant a gwas i Dduw wedi ennill i chwi y cyfryw barch a sierhâ eich ymfudiad y flwyddyn nesaf drwy y moddion a gyfranwyd i'r perwyl. Ffyddiog ydym mai felly y dygwydda, a pharhawn i ymbarotoi erbyn eich dyfodiad, fel y byddo genych artref i ddyfod iddo. Ile y byddwch ddedwydd yn mhlith Saint yr Arglwydd. Pe na chaffech ddyfod y tro nesaf, na ddigalonwch; eithr ymorphwyswch yn amyneddgar ar yr Arglwydd, gan gadw ei orchymynion, ac ufyddhau i gynghor ei weision yn mhob peth, ac fe aiff pob peth yn mlaen yn dda gyda chwi, a bydd eich iachawdwriaeth yn sier.

Y mae pob peth yn myned yn mlaen yn dda yma: coronir llafur ein dwylaw â heddwch a llwyddiant; adeiladir Seion â muriau iachawdwriaeth a'i â phyrth moliant. Y mae dinas Tooele yn hanner ymgauedig, ac fe'i cwbl ymgauir yr haf hwn. Heddychlawn yw pawb a phob peth yma. Gwrthodod Col-

Steptoe fod yn Llywodraethwr dros Utah, a ffurfiodd ddeiseb dros barhâd y Llywydd Young yn Lywodraethwr, gan wirio y gadawa ef a'r holl swyddogion [milwraidd] ynghyd a'r masnachwyr [nad ydynt yn Formoniaid] y Diriogaeth pe danfonid Llywodraethwr arall yma!

Cawsom auaf mwyn heb nemawr eira na rhew; y mae ein gwaith amaethyddol wedi dechreu, ac y mae llawer o wenith wedi ei hau; ond mae y tir yn sych arw, gan na chawsom ond ychydig eira a dim gwlaw oddiar yr Hydref diweddaf. Mwynhawn iechyd da yn barhaus, a pharhâ yr Arglwydd i'n bendithio a'i Ysbryd. Mae eich ewythr John yn iach ac yn ymdaro yn dda rhagorol.

Gwelwch yn dda ein cofio yn garedig at Capt. D. Jones, ac at yr holl swyddogion a'r Saint, y rhai a garaf yn rhwymau yr efengyl; fy ngweddi barhaus ar Dduw sydd am eu gwaredigaeth, fel y cyd-fwynhaont â ni o freintiau y Saint yn y dyffrynoedd hyfryd hyn.

Nid oes un cyfnewidiad neillduol wedi digwydd yn ein hamgylchiadau oddiar pan ysgrifenasom o'r blaen. Mae yma lawer iawn o Saint Cymreig sydd yn gwneuthur yn dda. Mae David Charles o Gastellnedd, Thomas Thomas, Nash a Gibbons o Bontytypridd, ynghyd ac amryw ereill, oll yn ymuno yn eu cofion caredicaf at y Saint yn Nghymru. Hoffem pe ysgrifenech yn aml yn yr haf dyfodol, gan ein hysbysu pa fodd y mae gwaith Duw yn llwyddo, a'r holl newyddion a ellwch roddi, canys hiraethwn am glywed pob peth ynghylch yr hen wlad. Parhaued Duw, y Tad tragywyddol, i'ch bendithio chwi a'ch rhai bychain, yw gweddi

Eich rhieni,

Dl. a Mary Williams.

LLYTHYR AT BREGETHWYR Y SAINT.

Yr Allt Gery, Mai 20, 1855.

Mr. Gol.,—Os yw yn bosibl, gadewch i mi annerch fy mrodyr yn yr Offeiriadaeth:—

Frodyr, trwy Forganwg a Mynwy yn benaf,—Chwi a wyddoch ddarfod i mi addaw yn ddiweddar i fyned i weithio i'r rhan hon o winllan Crist, ac yr wyf wedi cyrhaedd yma er y 14eg o

Fawrth, ac erbyn hyn wedi teithio cryn lawer ar y cae, ac ett heb weled ei gyffiniau! Mae y cynauaf, yn ddiau, yn FAWR IAWN, ond y gweithwyr sydd yn anaml, frodyr! Er teithio o Aberteifi i Aberystwyth, 40 o filltiroedd, nid oes un i'w weled ag a all ddwyn tystiolaeth ei fod yn etifedd o deyrnas Dduw ond fy hunan! Ac i lawr i Sir Benfro am filltiroedd, nid oes *un* yn gwybod fod ei feiau wedi eu maddeu! Hefyd yn Sir Gaerfyrddin (y parthau isaf) nid oes neb yn mwynhau doniau yr Ysbryd Glân, nac yn gwybod dim am danynt trwy brofiad, ac wrth feddwl am hyn, frodyr, mae y dagrau yn treiglo dros fy ngruddiau y mynyd hwn, ac y mae teimladau fy nghalon yn rhy anhawdd i'w desgrifio, pan yn meddwl am yr holl gannoedd, ïe, y miloedd lawer sydd yma yn amddifad o wybodaeth a sicrwydd o ffordd y cadw, ac hyd yn hyn heb gael cyfleu i glywed fod sicrwydd i'w gael yn yr oes hon.

Frodyr, meddyliwch am y bobl hyn, a theimlwch drostynt; ac wrth feddwl, os na allwch deimlo, holwch eich hunain pa beth sydd yn rhwystr. Yr ydych yn meddwl, yn teimlo, ac yn awyddus am fyned i Seion. Mae y bobl hyn mewn anghen o ddedwyddwch hefyd, ac er fy ngofid, maent heb wybod pa fodd na pha le i'w gael. Yr oedd amryw o honoch chwi am fyned y llynedd, a chyn hyny, ac etto yna yr ydych, ac yr ydych yn aml yn barod i holi eich hunain, Paham na chaem ni fyned? Efallai y byddai yn well i mi ateb eich gofyniad, a hyny fel hyn,—Ni allasai y Prophwydi a'r Patriarchiaid gael eu perffeithio heb Grist a'i Apostolion, &c., na'r Apostolion gynt heb y rhai presennol, na'r rhai hyn hebom ninnau, na ninnau heb rhyw gannoedd o'r bobl hyn, sydd ar hyd siroedd Aberteifi, Penfro, a Chaerfyrddin, a'r holl wlad yma, y rhai sydd etto heb glywed, chwaethach credu ac ufyddhau i'r ffurf o athrawiaeth iachus, yr hon sydd yn abl i berffeithio dyn llygredig. Maent yn aros i rai o honoch chwi ddyfod i'w hysbysu, yr wyf fi yn benderfynol i wneyd fy ngoreu, ond pe byddwn yn ddeg ar hugain, byddwn yn rhy fach wed'yn o lawer, a gwneyd chwarae teg â'r bobl: gan hyny, frodyr, rhoddwch law o gymhorth, torwch trwy bob rhwystrau, a dewch mewn llawn arfau dysclaer at y gorchwyl hwn. Yn awr yw yr amser goreu o hyn i'r cynauaf gwenith. Cofiwch ei bod yr un mor wir a bod *Aqua Fortis* yn dda i beru awch ar gryman yr amaethwr, i fod

Aqua Vitae. dwfr y bywyd. neu Ysbryd Duw yn anhebgorol i beru a chadw mun. ar gryman y sawl a ddêl yma; heb hwn arosed gartref.

Yr eiddoch ar frys,

JOHN RICHARDS.

HERIAD P. P PRATT.

(*Allan o'r "Editors Chronicle."*)

DEALLAF trwy dôn y wasg fod gwladwriaethwyr, meseswyr, a chrefyddwyr yn flin yn nghylch Utah ac Amlwreigiaeth! "Rhyfel!" "rhyfel!" "gwaed" a "dinystr" i'r Mormoniaid paganaidd druain! Ond—diolch fo i'r Methodistiaid duwiolfrydig—"argyhoedder y Mormoniaid yn gyntaf,—danfoner cenadon atynt," meddant.

Hawl Llywydd yr Unol Daleithiau yw penodi Llywodraethwr, a danfon milwyr i Utah. Gŵyr dinasyddion y cyfryw Diriogaeth hyny. ac nid oes ganddynt un gwrthwynebiad. Eithr beth ped elai llywodraethwr a milwyr yno, i ymyraeth â iawnderau a breintiau y bobl, gan sathru y cyfreithiau, (oddiwrth ba rai, ar hyny o bryd, ni fyddai un perygl.) Wel, yna, bid siwr, mae y troseddwyr. yn ogystal â phawb ereill, yn atebol i'r llysoedd gwladol, ac yn agored i ddirwyiad a charchar, neu ddienyddiad, yn ol fel bo eu troseddiadau. Pe na wnelent ond bygwth, rhwymir hwy i gadw yr heddwch. Nid yw llysoedd Utah etto wedi eu cael yn ol mewn gweinyddiad o'u cospedigaethau. Pa droseddiadau neillduol a ddygir yn erbyn Llywodraethwr a Dinasyddion Utah, am ba rai eu bygythir ag argyhoeddiad neu ddinystr?

Dywedir wrthym mai Amlwreigiaeth yw. Wel, fe ddywed yr Apostol mai "*anghyfraith* yw pechod." Dewisem argyhoeddiad o flaen llofruddiaeth.—Ac yma, caniatewch i mi awgrymu cynllun er argyhoeddiad yr oll yn gyfangwbl, heb dywallt dyferyn o waed, na thrafferth taith i Utah. Yr wyf i yma yn Nghalifornia fel aelod awdurdodol, a chynnrychiolwr yr eglwys yn Utah, am yr hyn y gallaf roddi dangosiadau. Boddlon ydwyf i i gwrdd ag eisteddfod o gyfreithwyr, a'r offeiriadon gallnoccaf a geir yn y wlad. Ac yr ydwyf drwy hyn yn gwirio yr ymwrth-

odaf yn gyhoeddus ag Amlwreigiaeth, ac ymddyga yr eglwys a gynnrychiolaf yr un modd, ar yr ammodau a ganlyn, sef:—

I'r Hen a'r Newydd Destamentau, a chyfreithiau yr Unol Daleithiau, ynghyd a chyfreithiau Tiriogaeth Utah fod yn safon: ac os, yn y maes ëang hwn, y ceir un dernyn o gyfraith yn mha un y mae Duw, angylion, dynion prophwydi, apostolion, Mab Duw, neu yr Ysbryd Glân, yn gwneuthur Amlwreigiaeth yn *drosedd, yn dorriad cyfraith, neu yn anfoesoldeb*, yna, ar y cyfryw ammodau yr ymwrthodwn ag Amlwreigiaeth. Eithr oni wneir hyny, ystyriwn gyfraith Duw ar y pwnc o briodas, Amlwreigiaeth yn gynnwysedig, fel y sefydliad mwyaf cyssegredig, ac yn ymrwymedig ar ein cydwybodau—mewn rhydd ymarferiad o'r hwn, hòuwn yr amddiffyniad a sicrheir mor haelionus a chyflawn gan lywodraeth gyffredinol ein gwlad.

Os gwel golygyddion yn gyffredinol yn dda i gyhoeddi hyn, geill dueddu tuag at ymchwiliad a goleuad naill ai y "Mormoniaid tlawd ac anwybodus," neu i'r rhai a'u hystyriant cyn belled o'r ffordd iawn.

Santa Clara, Tach. 22, 1854. P. P. Pratt.

AMRYWIAETHAU, &c.

Y Rhyfel.—Mae y byddinoedd unol wedi cymmeryd Kertch a lladd o 5 i 6 mil o'r Rwsiaid, a cholli cannoedd eu hunain.

Derbyniadau am Lyfrau o Mai 20 hyd Medefin 6.—John Gibbs, 10s; Isaac Jones, £2; Griffith Roberts, £1; W. Davies, £9.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Cyflawniad o Brophwydoliaethau Joseph Smith	177
Annerchiad yr Arlhyddeddus Lywodraethwr Brigham Young	181
Golygyddiaeth.—Newyddion o'r Dyffryn—Diwedd y Chwarter	185
Llythyr o'r Dyffryn	186
Llythyr at Bregethwyr y Saint	189
Hèriad P. P. Pratt	191
Amrywiaethau, &c.	192

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 13.] MEHEFIN 23, 1855. [Cyf. VIII.

FFRWYTHWCH AC AMLHEWCH.

Pechod mawr a chyffredinol y dydd presennol yw y gwyrdröad o drefn Duw. Ystyrir y deg gorchymyn, gan y sectariaid, fel eu rhoddwyd gan Moses, yn ddechreuad a diwedd hollol o'r oll sydd anghenrheidiol er arwain dyn drwy bob, amgylchiad perthynol i fywyd. Maent oll yn anghenrheidiol cyn belled ag y perthynant, eithr tra eu cerfir ar letydd amlwg mewn eglwysi ac, bron yn mhob holwyddoreg, tra eu dysgir mewn ysgolion, ac yn y cylch teuluaidd, ac eu hadroddir o'r pwlpud; ymddengys fel pe byddai y gorchymyn mawr yr hwn a ystyriai yr Arglwydd o'r fath bwys anhebgorol fel mai y cyntaf oedd a osododd ar Adda ac Efa, pan y dywed, "*Ffrwythwch ac amlhewch a llenwch y ddaear*" wedi ei esgeuluso, ei ysbrydoli, neu ei daflu yn mhlith y pethau afreidiol a allasent unwaith fod yn anghenrheidiol, pa vai y mae dyn drwy ei hunanoldeb wedi eu troi o'r neilldu am rywbeth mwy cyd-rywiol â'i chwantau llygredig. Ystyriodd Duw fod ufyddhad i'r gorchymyn hwn yn gymmaint o bwys er llwyddiant ei deyrnas, fel, pan y dinystrwyd holl drigolion daear, ond Noah a'i deulu, yr ail ymddangosodd yn bersonol iddo, ac yr ail osododd yr un gorchymyn arno ef a'i hiliogaeth—"*Ffrwythwch ac amlhewch a llenwch y ddaear.*"

"Ond," meddai yr edrychwr arwynebol, "meddyliaf y fod dynolryw yn ufyddhau i'r gorchymyn hwn." Mae yn o debyg nad yw y fath bersonau yn ystyried cymmaint ar y pwnc pwysig hwn ag ydynt yn myfyrio pa fodd i gynnyddu eu defaid a'u

gwartheg. Rhaid fod yr Arglwydd Ddnw, pan y syllodd ar hyd a lled y greadigaeth hardd a wnaeth yn drigfa i'w blant, yn teimlo gofal lawer mwy dyrchafedig, dwys a theimladwy dros berffeithiad yn ogystal a nifer ei hiliogaeth, nag y teimla yr amaethwr dros yr anifeiliaid gwych y mae yn dewhau i'r laddfa. Gyda y fath dristwch a phryder y rhaid ei fod wedi edrych yn mlaen drwy gyfnod amser, a gweled yr hil a greodd Efe ar ei ddelw ei hun, ac a stampiodd a mawrygrwydd ei natur ei hun, yn gwastraffu eu hymdrechiadau a galluoedd bywydol er boddhau eu nhwydau gwael a'u chwantau llygredig. i ba rai ni ymostynga yr anifeiliaid direswm, canys y mae greddf natur wedi eu cadw hwynt yn burach nâ dyn, er ei holl reswm a'i ddoethineb.

Gyda'r fath deimladau gallarus y rhaid fod ein Tad nefol yn edrych i waered ar sefyllfa bresennol ei blant; er enghraifft, y rhai hyn yn Lloegr wareiddiedig,—Gristionogol! Pa nifer o ddynion eyfiawn y mae Efe yn gael yn debyg i Gideon yr hwn a feddai "ddeg mab a thrugain, a ddaethai o'i lwynau ef ei hun: canys gwragedd lawer oedd iddo ef?" Neu yn debyg i Jair y Gilead a feddai "ddeg mab ar hugain yn marchogaeth ar ddeg ar hugain o ebolion asynod: a deg dinas ar hugain oedd ganddynt?" Neu i Ibsan o Bethlehem, gan yr hwn yr oedd "deg mab ar hugain, a deg merch ar hugain, y rhai a anfonodd efe allan, a deg merch ar hugain a ddug efe i'w feibion oddi allan?" Digon tebyg yw mai annichonadwy fyddai cael enghraifft o un dyn yn y wlad hon sydd wedi cadw y gorchymyn eyntaf hwn mewn cyfiawnder, fel y gwnaeth barnwyr Israel, a dynion da ereill yn y dyddiau gynt.

Yn lle y fath ddynion ceir miloedd a gredant fod bywyd gweddw yn gyssegredig neillduol, ac mai i farw heb adael hiliogaeth ar y ddaear sydd ffordd anffaeledig i sicrhau iachawdwriaeth; tra mai un o'r melldithion mwyaf a gyhoeddodd yr Arglwydd ar ben y drygionus oedd, i dorri ymaith eu cenedlaethau oddiar y ddaear—"Canys yr Arglwydd a gâr farn, ac ni edy ei Saint; cedwir hwy yn dragywydd: ond hâd y drygionus a dorrir ymaith." "Coffawdwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig; ond enw y drygionus a bydra." I'r gwrthwyneb, y mae cynnydd hiliogaeth yn un o'r bendithion mwyaf a ellir roddi i ddyn, a phwys-leisiodd yr Arglwydd yn

neillduol ar hyny pan y dywed wrth Abraham,—"Gan fendithio mi a'th *fendithiaf*, a chan amlhau mi a *amlhaf* dy hâd fel sêr y nefoedd, ac fel y tywod yr hwn sydd ar làn y môr."

Gwir yw fod yn y wlad hon a llawer o wledydd Cristionogol ereill lawer o eglwysi, eithr yn un mor wir yw mai odditan gysgod eu pinnaclau a ddyrchafant mor santaidd tua'r nef yr erys miloedd o ddynion a benywod o bob gradd yn ofer dreulio eu bywydau mewn ufydd-dod distadl i'r chwantau mwyaf dinystriol, yn lle cenedlu mewn purdeb feibion a merched teilwng o ddelw rhagorol Duw. Y mae digon o weinidogion hefyd; ond och! cyn lleied o honynt sydd hyd y nod yn meddwl am, llawer llai yn dysgu eu cynnulleidfaoedd, ddyben mawreddog y gorchymyn mawr cyntaf hwn, a phurdeb manwl y gyfraith yn unol â pha rai y bwriadodd yr Arglwydd iddo gael ei gyflawni. Pa mor aml y cuddia mantell santeiddrwydd o sylw dynion rai o'r pechodau am ba rai y dinystriwyd Sodom a Gommorah? Llawer o bobl sydd drwy Gristionogaeth yn ngraddau uchaf y byd, a feddyliant nad yw hiliogaeth ond mater i'w gymhwyso er ateb eu pwrpas hwy; ni feddyliant fod Duw yn hidio dim yn ei gylch Os sierhant blentyn neu ddau i etifeddu eu hystâdau, ni chwenychant drafferthu i fagu ychwaneg, tuhwnt i hyna, defnyddir eu mheddiannau, eu nherthoedd, a galluoedd eu bywyd er hunan-les, ac er boddhau plesserau amserol, heb gymmaint a threulio yr un myfyriad ar yr hyn a geisia yr Arglwydd ganddynt. Etto, y mae miliynau o'r îs raddau, yn y rhan hono o'r byd a ystyrir yn wareiddiedig, y rhai, tra nad ydynt rhy falch i ufyddhau i'r gorchymyn cyntaf, nac yn rhy ofer i ofalu yn bersonol am eu heppil—bendithion mwyaf y nefoedd, etto a orfodir, drwy eu hamgylchiadau cyfyng, o herwydd cyfreithiau y tir, a dull annaturiol cymdeithas, i ystyried plant yn feichiau, yn ddrwg anghenrheidiol, na ochelir ond drwy fyw bywyd unigol, neu gyflawni drygioni. Ychwanegwch at hyn y mil-ac-un o ddylanwadau ereill a osodir i rwystro ac attal gweithrediadau natur, mewn corffoli cyrff newydd er preswyliad ysbrydion, ac arweinia y meddwl ystyriol i orfod cyfaddef, fod yr hyn a fwriadodd yr Arglwydd i fod yn fendith, wedi ei wyrdroi gan ddyn yn felldith. Yr hyn a fwriadodd yr Arglwydd yn brif amcan bodoldeb dyn, sydd wedi ei wneuthur yn ail beth i foddhau chwantau llygredig. Y mae dynolryw wedi

myned mor felldigedig a llygredig drwy eu troseddiadau, fel y mae miliynau o honynt yn anaddas bellach i amlhau eu rhywiogaeth, ac y mae yr Arglwydd yn eu hysgubo ymaith drwy y cleddyf, yr haint a'r newyn, a'r rhai a adewir nad edifarhant gan buro eu hunain a ddarparir i'r llosgfa.

Pe deuai yr Arglwydd i waered i lawer o ddinasoedd y Cenedloedd fel ag y daeth i Sodom, er deall a'i cywir yr hyn a glywodd am danynt, tebyg yw na chaffai hwynt nemawr gwell nâ'r ddinas hono. Erlidiant yn awr ei weision Ef y rhai a'u harweinient yn ffordd yr iachawdwriaeth. Gwrthodant eu haddysgiadau, y rhai a'u dangosent pa fodd i gadw y gorchymyn cyntaf yn ei holl burdeb, ynghyd a'r holl gyfreithiau a berthynant i alluoedd bywyd. Cario allan y gorchymyn mawr hwn mewn cyfiawnder, yw sylfaen yr athrawiaeth amlwreigaidd, a phwy bynag a'i hymarfero gyda dybenion ereill a gânt mai parotoi damnedigaeth iddynt eu hunain y byddant, canys amlhâ hyny y drwg sydd yn condemnio y byd – gŵyrdröad o fendithion dewisolaf y nefoedd at ddybenion allan.

(Allan o'r "Millennial Star.")

MORDWYAD YR AFON COLORADO!

(O'r "San Francisco Herald.")

Y MAE dinas newydd wedi cael ei sefydlu yn ddiweddar ar lân yr afon Colorado, yn union islaw ei chyssylltiad â'r afon Gila, yr hon a argoelia fod yn le o fawr fasnach cyn hir. Gorwedda y sefydliad ar làn ddehenol yr afon Colorado, gogyfer â Fort Yuma a chroesiad ffordd fawr yr ymfudiad o Texas a Mexico.

Mae yr ymsefydlwyr hyn wedi chwilio Cul-fôr California o Guaymas i ben uchaf y Culfôr, ac ni chawsant un lle arall a allasid ymsefydlu arno, o herwydd fod y wlad am 25 neu 30 o filltiroedd ar ochr ddwyreiniol y Culfor yn ddiffaethwch tywodlyd, heb ddwfr croyw nac unrhyw fath o wyrdd-lysieu.

Mae yr afon Colorado am tua 5 neu 6 milltir islaw y Gila yn agored i orlifiadau, ac nis gellir cael sefyllfa ddiogel a dymunol i dref yn îs. Mae mordwyaeth y Colorado wedi ei sicrhau i fyny hyd Fort Yuma, ac mae yr agerdd-long "General Jesup" wedi bod yn trosglwyddo nwyfau y llywodraeth i'r lle hwnw,

Y mae Major Heintzleman, yr hwn oedd Cadfridog diweddar Fort Yuma, wedi bod i fyny yr afon Colorado tua 100 milltir, a'i farnedf yw ei bod yn rhwyddach afon i'w mhordwyo nag yw yr Ohio.

Y pellder o Ddinas Colorado i'r manau enwedig isod ydynt fel y canlyn:—

I San Diego, 180 o filltiroedd yn gymhwys; 200 ar hyd y ffordd.

I El Paso, 410 milltir, yn ol mesur Gray.

I Ddinas y Llyn Halen Mawr, 650; gyda'r dwfr 250, ar hyd y tir, 400.

I San Francisco, 750 o filltiroedd ar hyd y tir, trwy Joaquin.

I Guaymas, 350 milltir gyda'r dwfr, ac i'r prif drefydd yn Sonora, ar hyd y tir, o 200 i 500 o filltiroedd.

Dybenion yr ymsefydliad hwn ydynt er gwneuthur ystôr lei ddiwallu ymsefydlwyr a mûnwyr a ymfudant i'r Diriogaeth newydd, i drosglwyddo nwyfau i Daleithian gogleddol Mexico yn rhydd o dreth, i dawelu so dargan fyddiad a dangosiad y tryserau o fwynyddi cyfoethog a dybir eu bod yn y wlad rhwng yr afonydd Gila a Cholorado, ac i agor mordwyaeth y Colorado hyd sefydliadau y Mormoniaid yn Nhiriogaeth Utah.

Y nifer o bersonau ag ydynt yn bywyn y Basin Mawr Americanaidd gyfrifir o 80 i 100 o filoedd (yn gyfartal i hanner poblogaeth California isaf). Diwallir y bobl ddiwyd ac ymdrechgar hyn a'u holl nwyfau o St. Louis, 750 o filltiroedd gyda'r dwfr i Council Bluffs, a 1200 yn ychwaneg ar hyd y tir dros wastadedd a mynyddoedd. Pan y dygwyddai i ymsefydlwyr y Basin Mawr feddu mwy o foddion nag a dreuliant, a chanddynt weddill i gynhasnachu, ar hyd yr afon Colorado yw y ffordd fwyaf naturiol a rhwydd idd ei drosglwyddo. Os gellir sicrhau y fasnachaeth barhaus a chynnyddol hon hyd San Francisco drwy fordwyaeth Culfor California a'r afon Colorado, cynnyddai ei mhasnachaeth newnol mi hanner yn y man Reiaf, heblaw rhoddi cymorthwy anghenrheidiol iawn i'w masnachwyr allanol.

Mae y gledr-ffordd, a fesurwyd gan Col. Grey dros "Gwmpeini Cherefrog Newydd," a fwriedir wneuthur, trwy Texas a'r Diriogaeth sydd wedi newydd gael ei dirfio yn drosti y Cherokee yn y man hyny.

Y mae mordwyaeth yr afon Colorado, ynghyd a darganfyddiad y wlad ëang a ddwfrheir gan ei changenau yn un o orchestion penaf y dydd presennol."

Felly y teimlem ninnau er's blynyddau yn ol fod ymchwiliad manwl i ansawdd yr afon fawr Colorado, ynghyd ag i'r dyffrynoedd helaeth a breision a addurnant ei glànau am gannoedd o filltiroedd o'i harllwysiad i Gulfôr California i fynu i berfeddion y wlad gyfoethoccaf, debygir, dan haul, ac yn cyfeirio yn gymhwys tua sefydliadau y Saint yn un o'r ymgyrchiadau mwyaf dyddorol i Utah a allem feddwl am dano, cyn y meddyliasem ar anturiaeth, ganol geuaf, i deithio yn mhlith anwariaid,—dringo mynyddau oerllyd y Wasatch—ymlusgo drwy eira yn droedfeddi o drwch am filoedd, a chysgu yn ei ganol y nos; cyn y meiddiem fyned, meddwn, ar ein cost ein hunain, a dyoddef pob math o galedi oedd ddichonadwy i ddynoliaeth sefylltano, a'r hyn oedd fwy nag a allai anifeiliaid fyw trwyddo, ond suddent tano wrth yr hanner dwsin y dydd; etto yn mlaen symbylwyd ni drwy yr oll gan obaith darganfod yr Eden orllewinol, a chael porthladd i Utah. Ac er fod y tywydd wedi ein gommedd y tro hwnw, ni leihaodd ein ffydd yn modoldeb y fath le, ac felly gellir barnu faint ein llawenydd wrth glywed drwy'r hanes uchod fod ffeithiau, darganfyddiadwy gan ereill, yn profi ein tyb yn wirionedd er cymmaint oedd rhagfarn yn ei herbyn pryd hyny. Edrychwn yn mlaen gyda dyddordeb mawr at yr amser yr iawn ddefnyddir y manteision mordwyol a geir yn y Colorado i hwyluso plant Seion wrth y miloedd tua thref, ac y diwallir hwynt â nwyfau lawer yn hawddach nâ thrwy eu llusgo dros fil o filltiroedd trwy anialwch fel y gwneir yn awr. Heblaw hyny, dyry y darganfyddiad hwn, ynghyd â gorpheniad cledr-ffordd Panama, ar hyd yr hon y croesir y cyfandir o fôr i fôr mewn ychydig oriau, obaith adnewyddol i'r Saint, hyd y nod pe ceuid yr hen ffordd adref, gan y rhwystrau a ddesgrifir yn ein rhifyn blaenorol am Kansas, nad amddifadid hwy o'r fraint o weled Seion yn ei harddwch ar y bryniau tragywyddol o eisieu ffordd, ie, "prif ffordd" i fyned yno.

Mawr lwyddiant a gaffo ymchwilwyr y wlad a'r afon uchod i roddi y Saint mewn meddiant o'i rhagoriaethau a'u rhagoryn freintiau, yw ein dymuniad,—a'u braint fyddo cael mordwyo ol adref mewn agerfad hyd yr afon Colorado!—Gol. yr Udg.

IACHAD DRWY'R EFENGYL.

AT OLYGYDD YR "CYGORN."

SYLWCH ar eich bysbysu am fawr allu Duw yr hwn a amlygwyd yn ein plith, yr hyn sydd fel y canlyn:—

Yn mis Ebrill diweddaf bedyddiwyd merch ieuanc yn Ninbych, o'r enw Lucy Davies, yr hon a gafodd *stroke* o'r *palsy* (fel y tebygid) ddwywaith; y tro diweddaf oddeutu tri mis cyn ei bedyddio, yr hyn a achosodd wendid parhaus i un ochr, a chollodd ddefnyddioldeb un law yn hollol, yr hon aeth yn gauedig, ac nis gallasai ei hagor; yr oedd ei llaw yn oer a dideimlad, ynghyd a rhan o'i braich. Methodd y meddygon ei gwella, er i amryw dreio.

Y Sul cyntaf y derbyniwyd hi yn gyflawn aelod o'r Eglwys, ymofynodd am, ac ymarferodd â chyffeiriau y Meddyg dwyfol, trwy alw ati yr hen gyfaill William Jones, i eneinnio ei llaw ag olew, ynghyd â gweddio drosti. Hi a dderbyniodd y fendith o iechyd yn y fan,—agorodd ei llaw, a derbyniodd nerth iddi, a chyn iddynt ymadael yr oedd yn gwbl iach. Achosodd hyn i'w mhen folianna a bendithio enw yr Arglwydd, a mawr lawenhaodd yr holl deulu, er nad oes neb o honynt yn aelodau o'n Heglwys.

Enwau ei rhieni yw David a Chathrine Davies, ac enwau y tystion yw William Jones, Edward Lloyd, a Robert Jones.

Eich brawd yn y ffydd,

JOHN PARRY.

YMHOLIADAU I EGWYDDORION.

MAE yn dda genym weled y Saint yn ymholi i egwyddorion, yn neilluol y rhai ymarferol neu a ddaliant gyssylltiad â'u dyledswyddau a'u lleshâd presennol. Ysgrifenwyd y gofyniadau isod atom er's tro yn ol, eithr o herwydd i lythyr ein brawd allu ymguddio o'n golwg am yshaid dan y cruglwyth o ddefnyddiau rhyfel a bentyrent ar ein llaw y pryd hyny y bu cyhyd yn ddisylw; er y dichon y mwynhâd o'r addewid nefol fod, cyn hyn, wedi ateb y cwestiynau yn gan-mil gwell nag y dichon dynoliaeth eu hateb heb hyny, dengys eu hail ddarlleniad i ni eu bod yn ofyniadau dyddorol i ateb, a chan na feddwn well defnydd

i wneuthur o'n Hudgorn nag i egluro gwirioneddau, nac addasach pobl i wneyd hyny nâ'n gohebwyr proffadol, o'r cyfryw y rhoddwn y gofyniadau o'u blaen, ac y crefwn iddynt eu hateb mor fuan ag y dymunant, a dywedwn befyd fod nâd yn unig roesaw oud *erfyniad* ar bob derbyniwr i ymholi â'r Udgorn am oleuni ar yr hyn a fetha gael gan ei Lywyddion, neu, ar yr hyn a gyhoeddwyd eisoes.—Gofynir a ganlyn gan Amos Clark, Rhosllanerchrugog, sef yn

1af. Pa beth yw "dawn yr Ysbryd Glân" a addawodd Pedr ar ddydd y Pentecost; beth oeddynt ei effeithiau?

2il. A ddichon dyn fod tu fewn i eglwys Crist, ac etto fod yn amddifad o dystiolaeth yr Ysbryd Glân?

3ydd. Yn mha gyflwr y mae dyn wedi y caffo ei fedyddio er maddeuant pechodau hyd oni dderbynio efe yr Ysbryd Glân?

4ydd. Gan fod arddodiad dwylaw yn ordinhad er derbyn yr Ysbryd Glân, paham na dderbyniai pawb yr Ysbryd Glân *pan* y gweinyddir arnynt?

5med. Ai bedyddio â dwfr ac â'r Ysbryd Glân yw y "ddau beth dianwadal" y sonia Paul wrth yr Hebreaid am danynt?

6fed. Yn mha sefyllfa yr oedd y Samariaid (Act. viii) wedi cael eu bedyddio cyn cael arddodiad dwylaw?

Erfynir byrdra ac eglurdeb o drugaredd ar ein tudalenau bychain, neu ateber bob yn un neu ddau.—Gol.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MEHEFIN 23, 1855.

Y Cynnyrchioliad hanner blynyddol.—Dysgwylir cynnyrchioliad pob Cynnadledd yn y Dywysogaeth am yr hanner blwyddyn sydd yn terfynu, Mehefin 30ain, 1855, i fod ymha o fewn pump diwrnod o bellaf ar ol hyny yn ddiffael? Nac anghofier un o'r manolion a ganlyn, sef enw y Gynnadledd, rhifedi y cangenau, yr Archoffeiriaid, Henuriaid, Offeiriaid, Athrawon, a Diaconiaid; rhif y rhai a ysgymunwyd, a fuont feirw, a yn-

fudasant, a fedyddiwyd yn y cyfamser, a chyfaurif yr aelodau yn cynnwys y Swyddogion a'r aelodau gwasgaredig. Gofynir hefyd enw y Bugail, y Llywydd, a'r Ysgrifenydd.

Os oes rhyw Gangen neu aelodau anghyssylltiedig â chynnadledd, dymunir arnynt gynnrychioli eu hunain i ni yn brydlawn.

Erfynir ar y Llywyddion i weled fod Llyfrau y cangenau yn cael eu cadw yn gywir a rheolaidd, fod enw pob un yn cael ei ysgrifenu yno, amser ei ymadawiad, ei ymfudiad, ei ysgymuniad, ei farwolaeth, neu nad beth arall a ofyna llyfr yr Eglwys am gofnodi, ac ystyried pob un fod hyn yn beth rhy bwysig i'w esgeuluso yn awr, onitè, caiff allan ei bwysigrwydd pan êl i Seion, efallai er ei golled, pan yn rhy ddiweddar i wylied! Pe gwnelid hyn, hawdd fyddai rhoddi cynnrychioliad cywir, a hyderir nad o'u côf nac o ddim amgen nag o lyfr yr Eglwys y dyry Llywyddion Cangenau eu cyfrif. Edrycher pob Llywydd Cynnalledd i'w gynnrychioliad blaenorol yn yr UDGORN, a gweled fod rhif yr ychwanegiadau a'r ymadawiadau, &c., yn cyferbynu i'r cyfaurif yn y Swyddogion a'r Saint cyn yr anfonant ef i ni, ac nid anfon rhyw nifer dybiol, a gadael i ni megys cynt, i chwilio allan y gwallau. Hawddach i bob un wneyd hyny ei hunan, a hyderwn y ceir cywirdeb o bob man.

Crafier hefyd ar, ac ymddyger yn ol ein cynghorion blaenorol o barthed i'r Trysorfäau, y Dosparthwyr, &c., ac anfoner yr holl arian a fyddo bosibl am lyfrau cyn y cauwn y cyfrif chwarterol hwn.

LLYTHYR ODDIWRTH T. JEREMY.

Philadelphia, Mai 22, 1855.

ANWYL FRAWD JONES.—Yn ol fy addewid wele fi yn achub y cyfleusdra cyntaf i ysgrifenu atoch, fel y galloch wybod pa fodd yr ydym oll, yn enwedig y Saint Cymreig. Cyrhaeddasom yma oll yn iach, oddieithr dwy ferch fach. Bu farw un o efeilliaid y brawd Jeremiah Price, gynt o Rymni, yr hon oedd tua dwy flwydd oed, o herwydd damwain alarus a gafodd ar yr 26fed o Ebrill, trwy gwympo oddiar y *deck* i lawr trwy yr *hatchway*; bu farw ar yr 22ain, a chladdwyd hi yn ei dyfrllyd fedd, tua 300 o filltiroedd o Cape Clear, pregethwyd yn Gymraeg a Sais-

nig yn ei hangladd, a rhoddwyd rhybuddion dwys i rieni i ofalu am eu plant, yr hyn a gafodd yr effaith ddymunol wedi hyny. Gobeithiaf y bydd y brofedigaeth uchod yn rhybudd i bawb o'r Saint a fydd etto yn croesi y môr, i fod yn ofalus iawn o blant bach, canys nid ydynt hwy yn deall dim am siglad y llong. Bu y plentyn bach arall farw ar yr 2il o Fai, yr hwn oedd yn un mis ar ddeg oed; ei afiechyd oedd *inflammation of the lungs*; enwau rhieni y plentyn yw William a Sarah Beynon o Gangen Georgetown, Merthyr. Ni fu un afiechyd arall yn ein plith, ond clefyd y môr, ac ni pharhaodd hwnw ond ychydig ddyddiau. Cawsom gyfarfodydd rhagorol ar fwrdd y llong, dan lywyddiaeth ddoeth y brawd Edward Stephenson, y cenadydd diweddar yn Giberalter.

Rheoleiddiwyd y Saint yn y llong yn saith o gangenau, a llywydd ar bob un o honynt; yr oedd tri o honynt o Gymru, sef y brodyr canlynol,—Samuel Burt o Gaerdyf, Wm. Davies, o Gynnadledd Dyffryn Conwy, a David Jeremy o Brechfa. Cynnaliwyd cyfarfodydd gweddi hwyr a boreu yn mhob Cangen, a thystiai amryw o'r Saint yn y cyfarfodydd na theimlasant erioed yn well nag oeddynt pryd hyny. Pan fyddent yn gweddio yn gyhoeddus, yn mhlith amryw bethau ereill, ceisient yn debyg i hyn,—"O Arglwydd, bendithia y brodyr Jones a Daniels yn Nghymru, a bydded llwyddiant mawr ar eu llafur yn mhlith ein cyd-genedl, &c."

Derbyniwyd ni yma yn garedig gan y brawd Fulmer. Nid wyf yn gwybod etto pa bryd y byddwn yn gadael y lle hwn; y mae pob darpariadau yn cael eu gwneuthur at fyned yn mhellach etto, ond y mae rhyw ychydig yn bwriadu aros yma.

Nid oeddwn yn bwriadu rhoddi llawer o hanes ein mhôrdaith i chwi, gan fod cymmaint wedi ei ysgrifenu mewn perthynas i forio o bryd i'w gilydd, a chyda chwi yn yr "*Arweinydd i Seion*," a digon i mi yw dywedyd wrth y Saint Cymreig am ddarllen yr "*Arweinydd*," a'i *gofio*,—cânt weled ynddo gynghorion er eu lles yn mhob man ag y byddant.

Gwneweh fy esgusodi am fod fy llythyr mor fyr, gan fod amryw o lythyrau ereill genyf i ysgrifenu; diau y cewch weled llythyr y Llywydd E. Stevenson yn y "*Star*," yn rhoddi hanes mwy cyflawn o'n mhôrdaith, yr hwn a ddarllenodd efe i mi boreu ddoe.

Y mae eich chwaer yn nghyfraith a'i dwy ferch yn iach, ac y maent hwy a phawb o'r Cymry yn dymuno eu cofio atoch yn fawr, ac yn olaf fy nghofion innau atoch mewn modd caredig a serchog, ynghyd ag at y Brawd Daniels. Yr Arglwydd a barhao i ychwanegu bendithion ar eich penau, ac a'ch llwyddo i ledaenu egwyddorion gwirionedd ar hyd a lled ein genedigol wlad. Byddaf yn dysgwyl cael llythyr oddiwrthych chwi yn St. Louis.

Terfynaf yn awr, gan ddymuno arnoch fy nghofio at y Saint Cymreig.

Ydwyf eich brawd, &c.,

THOMAS JEREMY.

SYLWER AR, AC EFELYCHER A GANLYN.

LLYTHYR AT Y LLYWYDD DEWI E. JONES.

ANWYL LYWYDD,—Yr wyf yn defnyddio yr adeg bresennol i'ch hysbysu ein bod fel swyddogion a Saint yn y Gangen hon yn benderfynol i wneuthur yn ol ewyllys ein Tad nefol, mor berffaith ag y gallwn, canys gwyddom mai y cyfryw rai a etifeddant Deyrnas nefoedd. A chan y gwyddom fod Duw wedi ein dewis i rybuddio ein cyd-ddynion, yr ydym yn benderfynol i wneuthur hyny hyd eithaf ein gallu, ac yr ydym yn teimlo yn llawen fod y cyfleusdra genym i wneuthur hyny. Yr wyf i ac un o'r brodyr sydd yn y Gangen hon wedi bod yn talu *swllt a naw ceiniog* yn wythnosol am fyglys (*tobacco*), ond o hyn allan yr ydym yn myned idd eu defnyddio i dalu am y llyfrau sydd genym ar law yn y Gangen hon, fel y gallom eu rhoddi i'r rhai sydd yn rhy *dlawd* i dalu am danynt. Gobeithiwn y bydd i'r lleill o'n brodyr sydd yma ddilyn ein cynllun cyn hir, y mae un o honynt wedi addaw gwneuthur hyny, ac nid wyf yn meddwl y bydd y lleill yn anewyllysgar i wneuthur daioni. Yr oeddwn i, a'r brawd a nodais, yn talu yn flynyddol *bedair punt* ac *un swllt ar ddeg* am dano. A chaniatâu nad oes ond pedwar cant o Saint yn Nghymru yn chwiffio myglys, a bod pob dau yn llosgi cymmaint â ni ein dau, deuai yr arian i fyny i £910! yr hyn fyddai yn ddigon i gludo dros 60 o Saint i Ddyffryn y Mynyddoedd bob blwyddyn !!! Pwy na wêl, ynte, fod ei adael yn waith da? Dymunwn weled holl Saint Cymru yn ei adael,

a defnyddio eu harian at waith Duw, megys yr ydym ni wedi penderfynu gwneuthur. Yr ydym yn meddwl talu arian y *tobacco* yn y Cynghor yn gysson bob mis, yn lle yn y *shop*.

Ydywyf eich brawd yn Nghrist,

Cangen y Llwyni. WILLIAM EVANS.

SYLW.—Bydd lai yn dda ddigon i ferched a gwragedd y trewlweh i efelychu y brodyr uchod, yna

Nid rhwydd ac aml y gwelid gwg,
Ar ruddiau 'r un, gan dynher ddrwg;
A'r wyneb hyll, ddaw'n fil mwy hardd,
Nâ'r rhosyn prydferth yn yr ardd.

Syberwid welir dros y tŷ,
Ac arogl iach o'u cylch a dry:
Boddlonrwydd hefyd dan y fron,—
A chwery yn y llygad llon. DEWI ELFED.

[Dywenydd anysgrifadwy yw genym weled y Saint yn agoryd eu llygaid yn wirfoddol i weled eu lles—eu mhawr les fel yn y cynnygiad uchod. Ewyllys rydd ac nid trais yw y "Gair Doethineb" am hyny, tra y cymhellwn bawb i efelychu y brodyr uchod yn eu hunan-ymwadiad, hyderir na redir i ormod rhysedd i gondemnio y sawl na feddant benderfyniad ddigon cryf i orchfygu eu chwant ar unwaith—na "ddiffodder lin yn mygu." Etto, credwn y bydd cywilydd ar y neb a wastraffo ei arian am na thobaco, sneisin, na'r cyffelyb, i haeru fod awydd arnynt ymfudo tua Seion, canys pe carent Seion yn fwy nâ'r cyfryw danghosent hyny trwy wneyd a allent eu hunain. Hyderwn y cawn glywed a hysbysu drwy yr UDGORN etto, pa Gangenau, ïe, Cynnadleddau os gwnant, a efelychant y brodyr uchod.—GOL.]

TIRIAD Y LLONG JUVENTA.

Llwyddiant yr ymfudiaeth ar hyd y ffordd newydd i St. Louis, &c.

YN mhlith llawer o newyddion cysurlawn ysgrifenna yr Henuriad Wm. Glover o Philadelphia ei fod ef a'r cwmpeini oedd dan ei ofal ar fwrdd y llong Juventa wedi cyrhaedd yno oll yn iach a chysurus ar y 5med o Fai. Ymddygasai y Cadben, y Meddyg, a'r holl Swyddogion yn hynod garedig at y Saint, a mawr

y canmolasant eu glendid, eu heddwch a'u cariad brawdol, yr hyn oedd iddynt hwy yn anghydmarol, meddent. Cynnaliwyd cyfarfodydd gweddlo boreu a hwyr yn mhob dosparth o'r llong, a phregethwyd yn gyhoeddus mor aml ag yr oedd amgylchiadau yn caniatau. Amlygwyd gallu Duw mewn dau achos neilldnol ar y daith drwy iachâd brawd a scaldiodd ei wyneb, a phlentyn yr annobeithiodd y meddyg am ei fywyd. Cychwynodd y mwyafrif o'r ymfudwyr tua Pittsburgh am 12 o'r gloch y dydd Mawrth canlynol gyda y rheil-ffordd.

Cymhellwn sylwadau canlynol y Llywydd Snow am y ffordd newydd hon i sylw ein darllenwyr:—"Cyrhaeddodd yr agerfâd "Equinox i'r ddinas boreu dydd Iau, y 17eg o Fai, a thua dau cant o gwmpeini y "Juventa, yn ngofal yr Henuriad Wm. Glover; hefyd y mae yn o debyg y cyrhaedda tua chant a hanner ar y "Washington City [ager-fâd], dan lywyddiaeth yr Henuriad Guyman cyn yr elo hyn i'r wasg. Mae cwmpeini yr Henuriad Glover wedi dyfod drosodd o Liverpool i'r ddinas hon mewn 46 o ddyddiau. Nifer y cwmpeini pan yn cychwyn oddiyno oedd 572 o eneidiau, ac ni chollwyd un enaid er i'r frech goch ledaenu peth yn mhlith y plant. Mae yr oll sydd wedi cyrhaedd, a'r gweddill sydd ar ol, cyn belled ag y deallwn, yn gryf, iachus, llawen a diolchgar i Dduw Israel am ei drugaredd a'i gadwraeth o honynt. Rhydd y pethau hyn brofion diammheuol o blaid y ffordd newydd, ac nid oes ammheuaeth na chadarnheir hyny gan bob cwmpeini dyfodol. Er ei sierhau yn ffaith ddiammheuol, dywed yr Henuriad Glover fod ganddo dri yn ychwanegol yn ei gwmpeini, a 50 doler yn fwy yn ei gôd pan gyrhaeddodd yma, na phan y cychwynodd!"

Sylwa y Llywydd F. D. Richards ar y tystiolaethau uchod fel hyn:—"Yr ydym yn cymhell i sylw ein darllenwyr lythyr yr Henuriad Wm. Glover, Llywydd y Saint a ymfudasant ar y Juventa, a mynegiad y Llywydd E. Snow o gyrhaeddiad yr holl gwmpeini i Philadelphia, a rhan o honynt i St. Louis, heb golli un enaid allan o 572. Pe chwilid cofiaduron yr ymfudiad o borthladd Liverpool am lawer o'r blynyddau mynedol, meddyliwn na cheir un enghaifft o gyffelyb ddygwyddiad. Yn wir, y mae yn achos digonol i'r Saint ddiolch am, a gorfoleddu yn naioni a gallu yr Arglwydd yn eu gwaredu yn barhaus rhag yr elfenau cynddeiriog, a rhag heintiau a chlefydau pan yn croesi y

môr." Yma dyry ein Llywydd amryw ddyfyniadau o lythyrau, yn hysbysu am fawr ddaioni Duw tuag at y llongaid o Saint a gychwynasai yn ddiweddar o St. Louis i Kansas, drwy arbed eu bywydau oll o afaelion y Cholera, yr hwn oedd yn difrodi ereill oddiamgylch iddynt yn erwinol, ni chaniatâ ein cyffiniau le iddynt oll; ond ein Llywydd a ddywed yn mhellach,—"Mae yr Arglwydd yn ei gyfrif yn fusnes berthynol iddo Ef ei hun i ofalu dros iachawdwriaeth dymmorol yn ogystal ag ysbrydol ei bobl, ac i'r perwyl hwn y mae Swyddfa wedi ei sefydlu yma yn Liverpool, er edrych ar ol llesbâd y Saint ymfudol. Rhoddir hyn o ofal ar ryw berson a apwyntir gan y Brif Lywyddiaeth. Trefnir busnes y Swyddfa hon yn ol eu cynghor, ac y mae eu bendith hwy a ninnau ar ei holl weithrediadau."

Yma efe a ddesgrifia y sylw manwl a gymmerir i gael llongau cysurus a bwydydd iachus i'r Saint ymfudol, ynghyd â dynion Duw idd eu dysgu, ac i gadw trefn, a chael dylanwad a llywodraeth yr Ysbryd Glân ar yr oll, a charthu allan bob drygioni; mai yma y mae doethineb, ac na ymfuder mewn un ffordd arall, fel y bydder tan ofal gweision Duw, ac yn wrthddrychau gweddi y ffyddloniaid yn Seion ac yn Babilon dros eu gwaredigaeth. Mae y dyddiau drwg eisoes wedi gwawrio, ac ânt yn waeth-waeth hyd nes na ddiango neb ymfudwyr ond trwy allu dwyfol yr Offeiriadaeth, a'u cyfammod â Duw, rhag y dinystrydd sydd yn marchogaeth gwyneb y dyfroedd, ac yn claddu yn eu dyfnderoedd y drygionus a'u ffieidd-dra o olwg Arglwydd Dduw y lluoedd. Y Saint a feiddiant fyned dros y môr yn mhlith y cenedloedd, tra y mae ein cynghor yn groes, a andwyir gan ddylanwadau y tywyllwch; a byddant agored i glefydau a heintiau y Babiloniaid, a phan yn rhy ddiweddar arnynt, cofiant mai pell ydynt oddiwrth yr Arglwydd, a dyoddefant y canlyniadau.

Prawf y ffaith o fod rhwng 90 i 100 o longeidiau o Saint wedi eu hanfon o'r Swyddfaau heb gyfarfod â nemawr ddrwg, a chyn lleied o farwolaeth, mewn cydmariaeth â llongeidiau o ymfudwyr ereill, fod bendith a gallu yr Arglwydd yn eu dilyn, a dengys yr anghenrheidrwydd am lywodraeth a threfniadau yr Offeiriadaeth santaidd gymmaint manylach ag yw yr amser yn myned yn fwy peryglus. Lleshâd penaf a diogelwch sicraf y Saint yw unig ddyben ein Llywyddiaeth wrth wneuthur hyn,

ac amnoga llwynt yn mhellach i anfon eu lienwau, hoedran, &c., yn brydlon i'r Swyddfa, fel y rhybuddier hwynt yn amserol i ymfudo.

HELYNTION Y BYD RHYFELAWG.

Dywed y Llyngesydd Lyons iddo gymmeryd 241 o longau ag oeddynt yn ngwasanaeth Rwsia, mewn ystod pedwar diwrnod cyn Meh. 2, heblaw pedwar o agerfadau rhyfel, a llawer iawn o luniaeth, heb golli un bywyd. Dywed ei fod hefyd wedi dy fetha yn ystod y tri diwrnod cyntaf yr aeth i fôr Azoff dros gant o longau, amryw o'r prif borthladdoedd a digon o ymborth i gynnal can mil o wyr am bedwar mis, sef yr hyn a fwriadesid i'r fyddin sydd yn Sebastopol. Ar nos yr 8fed o'r mis hwn cymmerodd y byddinoedd unol rai o brif dŷrau allanol i Sebastopol yn cynnwys 62 o fagnelau a 400 o garcharorion. Mae y Llyngesydd Seymore a'i lynges yn yspïo yn graff am fantais i ymosod ar Cronstadt yn y Baltic, yr hon ddinas a ymddengys ond cruglwyth o fagnelau a milwyr wedi cael eu pentyru ar eu gilydd yn mhob dull a dyfais a duedda i'w gwneyd yn ddychryn i'w gelynion—o bob cŵr o honi ysgyrnyga dannedd ei chŵn rhyfel yn fwy uthr nac yn Sebastopol, tra mae gwyneb ei phorthladd yn amdoedig â rhyfel longau. Mae Amherawdwr Rwsia wedi sefydlu yspïenddrych ar ben un o binaclau y brif ddinas, drwy yr hon y gwel yr hyn a wnelir yn Cronstadt, ac felly mae ei elynion wedi cyrhaedd i'w olwg tra ar ei orsedd, er hyny dywed efe wrthynt drwy gadernid Cronstadt, fel y dywedodd Xerxes gynt wrth dònau y môr, "hyd yma y deuwch a dim yn mhellach;" etto ymddengys y Llyngesydd Seymour mor anufydd i'r Czar ag y bu y cynddeiriog dònau iddo yntau. Yr haf hwn a derfyna y pwnc hwn yma ond odid!

Mae y Cholera mor awchus â'r cleddyf i fedi y byddinoedd unol oddiar fryniau y Crimea, a'u cludo i'w hysgubor wancus tu draw i'r llèn.

Dyoddefa y byddinoedd yn enbyd o anghen dwfr, eithr bwriedir anfon iddynt beirianl o Loegr, ar ol iddynt drengu fel arfer, a ddioda tua 40,000 y dydd, drwy groni y dwfr hallt.

Mae Rwsia wedi dyhysbyddu Poland o'i mhilwyr i borthi Sebastopol hyd nes na welir nemawr filwr ar hyd ei gororau mwy. Mae Awstria fradwrus yn prysur ddynoethi y cleddyf a gudd iai dan ei chochl cyhyd—cyhoedda ei hun yn rhydd ar ol methiad cymmanfa Vienna oddiwrth ei haddewid flaenorol i ymladd yn erbyn Rwsia, a chrynhöa ei byddinoedd wrth y dwsin o gatrawdau ar unwaith o Gallicia, &c., yn nes i'r rhyfel lawr, ac ysgoga yn amlwg o blaid Rwsia. Cofus iddi gael cenad, yr haf diweddaf, pan y gyrai Omar Pasha y Rwsiaid blithdraphlith o'i flaen o Wallachia, i sefydlu ei byddinoedd yno, yr hyn a rwystrodd i'r gwron hwnw gwblhau y fuddygoliaeth oedd ar

ei gyfer ar y Rwsiaid heb gymhorth neb; mae y byddinoedd hyny yn cadw y fan hono yn awr yn meddiant Awstria, ac felly bydd yn meddiant Rwsia etto pan yr ymuna y flaenaf â hi, fel y mae yn debyg y gwna. Cwestiwn!—Pa fodd yr absennola Prydain a Ffrainc y rhai hyn o'r wlad hono pan y troa hi yn eu herbyn? Pwy a etyb? Costia byr olygon ein Llywodraeth yn hyn fwy o fywydau nag a allant hebgor i'w ddadwneyd, ond odid! Ond yno y maent.

Yn yr Unol Daleithiau mae y terfysgwyr caethfasnachyddol, yn Missouri a Kansas yn ymgorffoli yn fyddinoedd parodol i gyd-gario i weithrediad y bygythiadau creulonaf a ddichon creulondeb ei hun ddyfeisio yn erbyn y rhyddid geiswyr gogleddol; gelwir ar y Llywodraeth i anfon byddinoedd yno i'w darostwng, a bygythiant hwy y rhai hyny â diddymiad. Bygythia eu herthygiau ddinystr y wasg, ac alltudiaeth drwyadl yr wrthblaid o Missouri a Kansas, neu eu lladd.

AMRYWIAETHAU, &c.

Amserydd iad Cymmanfaoedd y Deheudir.—Cynnelir Cymmanfa Ddwyreiniol Morganwg yn Merthyr ar y 1af o Orph., Brycheiniog ar yr 8fed, Mynwy ar y 15fed, Gorllewinol Morganwg ar yr 22ain, Llanelli ar y 29ain. Caerfyrddin ar y 5med o Awst, Aberteifi ar y 12fed, Gogledd Penfro ar y 19eg, a Dehau Penfro ar y 26ain.

Derbyniadau am Lyfrau o Medefin 7 hyd 18.—Edw. Middleton, £1 15s; C. Harmon, £1 12s 6c; A. L. Jones, £4 6s 10c; Thos. D. Evans, 10s.

☞ Dymuna y Bugail John Parry hysbysu y Saint fod John Roberts a Margaret Owens, Bethesda, wedi cael eu torri allan o'r Eglwys am droseddu cyfraith Duw.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Ffrwythwch ac Amlhewch	193
Mordwyad yr afon Colorado	196
Iachâd drwy'r efengyl	199
Ymholiadau i Egwyddorion	199
Golygyddiaeth,—Y Cynnrychioliad hanner blynyddol	200
Llythyr oddiwrth T. Jeremy	201
Sylwer ar ac efelychu a ganlyn	203
Tiriad y llong Juvenia	204
Helyntion y byd rhyfelawg	207
Amrywiaethau, &c.	208

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 14.] GORPHENAF 7, 1855. [Cyf. VIII.

RHODDION AT Y DEML.

(Allan o'r "Star.")

Yn 1851 galwodd y Brif Lywyddiaeth ar y Saint yn yr Ynysoedd Prydeinig am gyfraniad blynyddol tuag at adeiladu Teml yn Ninas y Llyn Halen Mawr, a nodasant swm a ystyrient yn fraint i'r Saint yn Ewrop i gael ei gyfrannu i'r Arglwydd tuag at y dyben cyssegredig hwn. Gosodwyd symiau cyfartal i'w rhif ar yr holl Gynnadleddau, ac yn 1852 cyfranwyd yr hyn a ofynwyd, a mwy mewn rhai Cynnadleddau. Yn 1853 lleihauwyd tua y drydedd ran, a llai fyth y flwyddyn ddiweddaf. Mae yn o debyg mai un o brif achosion hyn oedd y cyfnewidiadau a wnaed mewn Bugeiliaid a Llywyddion Cynnadleddau. Drwg genym na throsglwyddwyd y mater yn ddigon amlwg i sylw eu holynwyr; mae y Saint tan eu gofal hefyd, i raddau helaeth, wedi colli golwg arno.

Dyna rai o'n rhesymau dros ail osod y mater hwn gerbron y Saint y tro yma.

Eglurwn yn awr rai o lawer o'r egwyddorion cyssylltiedig â'r rhodd hon. Hyderwn y dwys ystyria y Saint y pwnc hwn, gan na pherthyna ond i'r rhan weithredol o'u hiachawdwriaeth bersonol hwy, eu mheirw yn myd yr ysbrydoedd, y rhai ydynt yn hiraethu am ddydd eu prynedigaeth hwy, a'u cenedlaethau ar eu hol.

Gwybyddus i'r Saint yn y gwledydd hyn yw, fod yn mhlith cynnifer o amcanion ereill sydd i'w cyflawni yn Seion, y

brodyr yn prysur ymdrechu i adeiladu Teml. Gwnant hyn nid yn unig iddynt eu hunain, eithr i'r holl ffyddloniaid gwasgaredig dros wyneb y ddaear, fel pan gwblhäont waith mawr parotoadol yr ymgasgliad, y byddo pob peth yn barod iddynt i fwynhau dymuniad mawreddog eu calonau, sef i dderbyn Allweddau, Galluoedd, ac Ordinhadau yr Offeiriadaeth Santaidd.

Nid talu eu Degwm yn unig mae y Saint, un ran o ba un, sef degwm gweithio, sydd yn cyrhaedd deg neu bymtheg punt yn flynyddol, ond y maent yn gosod ar yr allor yr oll a feddant, drwy ei gyssegru i fod yn wasanaethyddol unrhyw amser er hwyluso y gwaith. Tra y cymhwysant bob peth felly at ddwyn oddiamgylch iachawdwriaeth y Saint yn y gwledydd hyn, yn ogystal a'u gwlad eu hunain, yn sier ni fydd eu brodyr Ewropaidd yn ol o dalu yr ychydig a ddysgwylir oddiwrthynt, a'r hyn ni fydd ond ychydig geiniogau ar gyfartalwch i bob un.

Nid anhysbys i ni yw fod rhan fawr o'r Saint yn dlodion y byd hwn, eithr cofus genym befyd fod rhai o honynt yn gyfoethog, a bod llawer o honynt mewn amgylchiadau cysurus. Adgoffwn iddynt y fod dull o gyfranu nad yw yn amddifadu, eithr y dychwela yr hyn a roddir mewn bendithion wedi eu hychwanegu ar ben y cyfranwr, tra y mae hefyd ddull o ymattal a ddiwedda mewn tlodi. Yr enaid haelionus a fed gynhauaf helaethlawn fel ffrwyth i'w lafur, tra na fydd gan y trachwantus a'r gwastraffus ddim mewn ystôr erbyn y dyfodol.

Tra y mae rhai Saint nad allant gyfranu ond ychydig geiniogau, y mae ereill a allant cyn hawdded gyfranu sylltau, ac ereill bunnoedd, tuag at yr amcan pwysig hwn. Nid yw yr Arglwydd yn sylwi cymmaint ar y swm a roddir ag yw ar yr aberth a wneir wrth ei roddi; am hyny, os yw y cyfoethog am fwynhau cyfuwch bendithion â'r tlodion, teilynged hwy drwy aberthau cyferbyniol. Os cyd-weithreda yr holl Saint yn Ewrop ag sydd a modd ganddynt yn unol â'r egwyddor hon gydag ewyllysgarwch, cânt a fynont o esiamplau gan y tlodion ag ydynt deilwng o'u hefelychiad, ac o hyn allan ni fyddir yn ol o gael y swm a ofynir.

Pan y cwbllheir Teml, bydd y bendithion a gyfrenir yno yn eiddo y cyfryw a brofasant eu hunain drwy eu gweithredoedd yn deilwng o honynt, a dysgwylied y rhai na theilyngant ond ychydig am dderbyn yn gyferbyniol. Pe gallasai ddygwydd yn

ddamweiniol i ryw ychydig o'r cyfryw ag ydynt gybyddlyd ac hunanol eu hegwyddorion, gyrhaedd yr un breintiau â'r teilwng, byddai yn gyffelyb i daflu per au o flaen y moch, ni werthfawrogid y bendithion; a throent yn felldithion iddynt, fel y try pob peth a fedd dyn ar nad yw yn ei ddefnyddio mewn cyfiawnder drwy ymwelihau arno.

Amryw a brofant nad yw yr Arglwydd mor hael ar y bendithion a berthynant i fywyd tragywyddol, fel ag i'w tywallt ar y rhai nad ydynt foddlawn i aberthu yr ychydig a feddant yn awr er eu derbyn. Rhai sydd yn myned tua Seion ac yn eu trachwant yn hòni pob bendith, ordinhad, a gallu, am y rhai y treiliodd yr Iesu, Joseph, a'r merthyron eu bywydau mewn caledi, ac a fuont farw er eu hennill i'r ffyddloniaid, a braidd y cyffyrddant â beichiau yr Eglwys â chymmaint ag un o'u bysedd. Agos yw y dydd pan y mêd dynion yn ol yr hyn y maent yn hau.

Os yw y Saint am fyned i Seion ag Ysbryd yr Arglwydd yn llosgi yn eu mhynwesau, os am fyned yno ag eneidiau haelionus ac ëang, digon ëang i sugno i fewn ac ymfwynhau yr egwyddorion pur a ddysgir ac a arferir yno, dyma y lle i ddechreu ymëangu, drwy alw eu ffydd i weithrediad bywiocäol, trwy gynnyddu eu hymddiried yn Nuw, trwy ei brofi Ef, a gwybod drostynt eu hunain ei fod Ef yn bendithio yn helaethaf o bawb mewn pethau ysbrydol a thymmorol hefyd, y cyfryw ag ydynt yn ceisio yn gyntaf adeiladaeth ei deyrnas Ef.

Ffaith yw, i'r hon y mae amryw brofion, ac i'r hon y mae miloedd o dystion, y fod y Saint yn y mynyddau yn ymgyfoethogi trwy fod yn haelionus. Y rhai cyssonaf yn talu eu degwm, yr haelionusaf i'r tlodion, a'r rhai sydd barod bob amser i gyflawni unrhyw amcan er lleshâd y cyhoedd, sydd naill ai wedi ymgyfoethogi trwy ddilyn y cyfryw lwybr, neu ydynt yn prysuro i fod felly. Gweithia yr egwyddor hon yma gystal a'r yn Utah, yn gyferbyniol i ffydd y Saint, a'r amgylchiadau ffafriol yn mha rai y bodola. Fel y mae gyda phethau ysbrydol, felly hefyd gyda y tymmorol, po oreu eu defnyddir po fwyaf y cynnyddant.

Y mae gan y Saint i ddysgu pa fodd i wasanaethu Duw â chalon anymranedig, trwy aberthu Mammon yn barhaus, yr hwn mae y byd yn ei addoli. Os na pheidiant a gwneyd hyny,

anghofiant yr Arglwydd eu Duw, mae ei Ysbryd yn eu gadael, ac y maent yn sychu, gwywo, a myned yn anffrwythlon. Ymddangosai braidd yn ormodol i wasgu y pwnc mor agos at feddyliau y Saint, ond gwybyddus genym fod llawer o ofalon a ymddangosant yn agosach a phwysicach iddynt i dynu eu meddyliau oddiar y gweithredoedd mawrion y dysgwylir eu gwneuthur yn y deyrnas hon. Ordeiniodd yr Arglwydd fod i Demlau gael eu hadeiladu i'w enw Ef, yn mha rai y cyfrinachai â'i weision, ac y gweinyddai i'w bobl fendithion bywydau tragywyddol. Yn y cyfryw adeilad, pan ei cwblheir, yn *bwysicaf*, y sefydlir gobeithion y cenedlaethau a aethant heibio, lleshâd tragywyddol y rhai presennol, a'r rhai sydd etto i'w hychwanegu i'r sefyllfa hon o brawf. Ni ymddengys yr ychydig a ddichon y Saint tlawd, ond ffyddlon, wneuthur yma ond bychan pan ei ystyrir yn unigol, etto fe deimlir ei ddylanwad mor llydan â thragywyddoldeb, ac a osodir i ddwyn oddiamgylch iachawdwriaeth llawer. Er na ddichon rhai byth weled yn y bywyd hwn y Tŷ a gynnorthwyant ei wneuthur, nid llai y sefydlant eu gobeithion yno, canys yn y fath Dŷ yn unig y gellir rhoddi iddynt etifeddiaeth o deyrnas nefol drwy offeryngoliaeth ereill.

Ni ychwanegwn ar y pwnc hwn yn bresennol, eithr gadawn ef i Fugeiliaid a Llywyddion Cynnadleddau, ac hyderwn yr argreffir ar lechau calon pob Sant ffyddlon sydd yn dysgwyl iachawdwriaeth yn y ffordd iawn, sef trwy foddloni i'w gweithio allan ei hun, yn lle ymddibynu ar weithredoedd da rhai ereill, canys "o'r braidd y bydd y mwyaf ffyddlon yn gadwedig." Y mae gwaith yr Arglwydd yn ymhwyluso, ac fe gaiff y rhai dïog ddeall y fod y diwyd wedi cymmeryd eu llefydd, a phan yn y diwedd y curant wrth borth y Ddinas Santaidd am ollyngfa i mewn, fe'u hatebir "*Nid oes genych etifeddiaeth yma!*"

CYMMANFA OGLEDDOL PENFRO.

Fe gynnaliwyd y Gymmanfa uchod yn Summer Hill, Treletred, Mai 20, 21, pryd yr ymgasglodd y rhan amlaf o'r Saint, ac amryw o'n cyfeillion. Pregethodd yr Henuriaid T. D. Evans, D. Davies, a J. J. Phillips yn wresog ar egwyddorion defnyddiol. Cymmeradwywyd holl awdurdodau yr Eglwys yn ddi-

eithriad. Cynnrychiolwyd 4 Cangen, 11 o Henuriaid, 2 o Offeiriaid, 1 diacon, 1 wedi ei fedyddio, 2 wedi ei torri allan, 10 wedi ymfudo, ac un wedi marw; y cyfanrif yn 32. Nid oedd nemawr o gyfnewidiadau yma, ond cafodd y brodyr J. Evans a T. Foot eu rhyddhau o deithio trwy y Gynnadledd. Gellir dweyd, yngwyneb holl galedwch y byd yn erbyn y Saint, eu bod yn penderfynu gwneyd eu goreu tra y bydd yr Arglwydd yn gweled yn dda iddynt fod yma. Bendith Iôr a fyddo ar holl blant Duw, medd yr eiddych yn ddiffuant,

T. D. Evans, *Llywydd*,
Thos. Evans, *Ysgrifenydd*.

CYMMANFA DDEHEUOL PENFRO.

Cafodd y Gymmanfa uchod ei chynnal yn Penfro, Mai 27, pryd yr oedd y Llywydd D. Jones yn bresennol. Pregethodd y Llywydd J. Price y fod ufydd dod trwyadl i'r Offeiriadaeth santaidd yn hanfodol er perffeithiad y Saint, a thystiodd mai Prophwydi Duw yw Joseph a Brigham. Cymmeradwywyd yr holl awdurdodau fel arferol gyda phleser ac yn ddieithriad. Sylwodd y Llywydd Jones ar undeb digyffelyb y Saint,—o ba le y *rhaid* cyfaddef iddo ddyfod, gan na cheir ei fath ar y ddaear. Mynegodd ei adnabyddiaeth bersonol ag awdurdodau yr eglwys, eu bod yn ddynion pur a rhinweddol, mewn llawer profiad chwerw a dyoddefiadau er mwyn yr efengyl, er holl gyfarth cûn y byd i'w herbyn, dros y pwlpud a thrwy y Wasg. Pregethodd amryw frodyr ar yr egwyddorion cyntaf yn ystod y gweddill o'r dydd, a'r Llywydd Jones ar wŷrdröad y byd o drefn Duw, yn gosod llais y bobl yn lais Duw, tra mai llais Duw sydd i fod yn llais y bobl fel ei dadguddir iddynt. Pan lefaro yr Arglwydd o'r nefoedd, gwrandawed trigolion y ddaear arno drwy ei weision y prophwydi, cenadwri y rhai yw yn unig oes "Fel hyn y dywed yr Arglwydd," ac mae yr un genadwri mor bwysig yn yr oes hon,—yr un bendithion a sierwydd o gymmeradwyaeth yn dilyn ufydd-dod iddi, a'r un melldithion yn gamlyniadau o'i gwrthod.

Ei bregeth arall oedd ar "Ffydd fywiol"—mai drwy glywed gair Duw yn *unig* ei cenedlir, a gair Duw drwy *dystiolaeth* ei weision anfonedig yn unig, gan nad yw yn cymmeradwyo neb

ond y cyfryw a *anfona*; ni anfonodd, ac ni anfona un gwas heb hysbysu iddo y genadwri a draetha. Y prawf o fodoldeb ffydd yn y meddwl yw gweithrediad y corff i gyflawni yr hyn y *creda* ynddo: gan mai y meddwl sydd yn llywodraethu y corff, anufydd dod y corff a brawf anffyddiaeth y meddwl. Rhoddodd ar ddeall i'r Saint, ynte, o ba le y mae tarddiad eu ffydd, a'r unig ffordd i'w pherffeithio, neu i feddu y ffydd a'u cadwant i fywyd, sef drwy ufydd-dod i'r hyn a ddysgir.

Ni fuwyd yn ddiffygiol o osod gerbron y casgliadau at y Deml, y Drysorfa Ymfudol, yr Arian-dŷ, &c., ynghyd a'r ddyledswydd o ledaenu y gair argraffedig, ac nid llai diffygiol oedd y brodyr mewn penderfyniad i'w cyflawni.

Y cynnrychioliad oedd fel hyn:—Cangenau 12. Hen. 28, Off. 5, Ath. 2, Dia. 7, Bedyddiwyd 11, Ysgymunwyd 2, Ymfudodd 9.—Cyfanrif 147.

J. Price, *Llywydd.*
J. Gibbs, *Ysgrifenydd.*

CYMMANFA SIR FFLINT.

Fe gynnaliwyd y Gymmanfa uchod yn Rhosllanerchrugog, ar y 27ain o Fai. Cynnaliwyd Cynghor yn y boreu i drefnu pethau a berthynent i'r Gynnadledd. Yna cynnrychiolwyd y Cangenau fel y canlyn: Hen. 18, Off. 3, Ath 4, Dia. 2, Ysg. 2, Ymf. 7, Der. 1, Bed 14. Cyfanrif 123. Yna gosodwyd yr awdurdodau gerbron fel arferol; edrychwyd yn fanwl i gyfrifon y llyfrau, a chafwyd fod rhai Cangenau yn ol. Wedi hyny cafwyd addysgiadau buddiol gan yr Henuriaid D. Daniels, J. Parry, ac L. Davies ar ein dyledswyddau y chwarter dyfodol mewn perthynas i'r llyfrau, y trysorfeydd, a phob rhan arall o'n dyledswyddau

Am ddau, dechreuwyd trwy ganu a gweddio, ac o herwydd fod y lle yn rhy fychan, aethpwyd allan, a daeth torf lïosog yn nghyd, a gwrandawsant yn astud ar y brodyr Wm. Rees, John Parry, D. Daniels, ac L. Davies.

Am chwech pregethodd y brodyr canlynol yn ddoniol, sef D. Jones, Bagillt, T. Jones. Brynbo, J. Parry, D. Daniels, ac L. Davies, ar wahanol egwyddorion yr efengyl; gwrandawodd pawb yn synl, ac ymddangosent yn siriol ac wrth eu bodd. Yr

oedd pregethu am 5 o'r gloch mewn ile arall hefyd, gan Edwin Price ac L. Davies, i dyrfa liosog. Dangosodd y gymmydogaeth garedigrwydd mawr mewn cynnorthwyon. Gellir dweyd gyda priodoldeb mai Cymmanfa dda ragorol oedd, a chafwyd hwylusdod neillduol i lefaru.

LEWIS DAVIES, *Lyw. dd,*
JONATHAN ELLIS, *Ysgrifenydd.*

CYMMANFA SIR DDINBYCH

YN Nghapel y Saint, Newmarket, y cynnaliwyd y Gymmanfa uchod, Meh 3. Rhoddodd y Llywydd Parry annogaethau dwys i'r Saint i fyddlondeb, ac addunedwyd cyfranu cyflog diwrnod o waith tuag at dalu am y cyfrolau toredig sydd ar law yn y cangenau: hefyd i dalu y gofyniadau at y Deml, &c. Pregethwyd yn effeithiol gan y Llywydd Daniels, ar sefyniad Teyrnas Dduw yn y dyddiau diweddaf hyn, a thystiodd mai ei phrif swyddwyr,—prophwydi Duw oedd Joseph Smith a Brigham Young, &c.

Y cynnrychioliad oedd fel y canlyn:—Cang. 5, Hen. 13, Off. 4, Ath. 4, Diac. 2, Ysg 1, bu farw 1, ymfudodd 2, bedyddiwyd 2.—Cyfanrif 111.

JOHN PARRY, *Llywydd,*
G. ROBERTS, *Ysgrifenydd.*

CYMMANFA SIR FEIRIONYDD,

CYNNALIWYD y Gymmanfa uchod yn Nhowyn, ar y 17eg o Fehefin. Bu pump o gyfarfodydd yn ystod y dydd. Dangoswyd cymmeradwyaeth unfrydol i awdurdodau yr Eglwys. Penodwyd y brawd Richard Swancot i deithio trwy y Gynnadledd, i bregethu, traethodn, a thystiolaethu o dŷ i dŷ. Gallwn ddywedyd mai dymunol oedd ein Cymmanfa.—cariadlawn a phenderfynol oedd y Saint, a'r gwrandawwyr yn lliosog a bonheddigaidd, a chafwyd tywailtiad helaeth o'r Ysbryd Glân gyda phregethau ac addysgiadau rhagorol y Llywydd Daniels, a'r Henuriaid D. Roberts, E. Roberts, Thos. Jones o Aberystwyth, &c., hyd nes y dywedwyd—"Dyma y Gymmanfa creu a gawsom yma erioed."

Cynnrychiolwyd 6 Cang., 14 Hen., 6 Off., 2 Ath., 2 Ddia., 1 wedi ei fedyddio.—Cyfanrif 74.

Dysgwyliwn yn bryderus y medwn cyn ymadael o'r rhan hon o winllan Crist.

JOHN DAVIES, *Llywydd*,
JOHN JONES, *Ysgrifenydd*.

CYMMANFA DYFFRYN CONWY.

CAFODD y Gymmanfa uchod ei chynnal yn Llandudno, Meh. 10, pryd y cynnrychiolwyd 6 Cangen, 22 Hen., 7 Off., 3 Ath., 2 Ddia., 2 wedi eu bedyddio, 1 wedi ymfudo, 1 wedi marw.—Cyfanrif 94. Pregethwyd yn yr awyr agored gan y Llywyddion D. Daniels a Wm. Lewis, yn nerth yr Ysbryd Glân, a chafwyd gwrandawiad da gan gynnulleidfa lîosog iawn, ac yr oedd yr olwg arnynt fel pe buasent yn derbyn y gair. Pregethwyd drachefn yn yr hwyr gan y brodyr Wm. Lewis a J. Parry yn offeithiol i dorf liosog. Rhoddwyd addysgiadau gwerthfawr gan y Llywyddion Parry a Daniels, a chafwyd fod bywyd adnewyddol wedi ei greu yn y Saint a'r swyddwyr.

WM. LEWIS, *Llywydd*.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MEHEFIN 23, 1855.

PREGETHU YR EFENGYL.—Crefwn sylw neillduol ein brodyr yn y weinidogaeth at y ddyledswydd arbenig a phwysig o rybuddio eu cyd-ddynion o ddynesiad awr barn Duw ar y byd, ynghyd a dangos iddynt yn eglur a pharhaus yr unig waredigaeth a gynnygia Duw iddynt drwy ufydd-dod i'r genadwri nefol olaf hon. Deffroed Llywyddion Cynnadleddau a Changenau i'r cynheuaf mawr; achuber y tymmor hafaidd a gwerthfawr presennol i bregethu allan yn mhob man lle y ceir gwrandawiad, a than bob amgylchiad a fo llesiol. Cadwer arfau yr Henuriaid a'r Offeiriaid yn loyw drwy ddefnydd parhaus. Ni

hyawdledd nac amledd areithiau a ofyna Duw yn yr amser prysur hwn, ond eich *tystiolaethau* didderbyn wyneb eich hunain, frodyr ! o barthed i'r hyn a wyddoch, ac a dderbyniasoch oddiwrtho Ef, a'r ffordd y cawsoch chwi hwynt, a'u bod yn gyrhaeddadwy i'ch gwrandawwyr.

Apwyntiadau —Dealler ein bod ni wedi cymmeryd at Lywyddiaeth Cynnadledd Orllewinol Morganwg ein hunain, am yr amser presennol, ac nad oes i'r Llywyddiaeth flaenorol na rhan na chyfran mewn dim o oruchwylion, materion, na moddion y Gynnadledd, ac na chydnabyddwn unrhyw daliadau a wneir iddynt mwyach. Ceir clywed chwaneg etto os gorfodant ni i hyny drwy ŵyrgamrwydd.

Mae yr Henuriad Thomas Harries wedi cael ei ethol a'i osod yn Gynghorydd blaenaf yn Llywyddiaeth y Gynnadledd hon.

Mae Wm. Lewis, o'r Swyddfa hon, wedi cael ei osod yn brif ddosparthwr y Gynnadledd yn lle A. L. Jones, ac o hyn allan anfoned îs-ddosparthwyr y Gynnadledd hon bob taliadau am lyfrau i Wm. Lewis.

Etto.—Hysbyswn fod yr Henuriad William Lewis, Môn, wedi cael ei awdurdodi i lywyddu Cynnadleddau Dyffryn Conwy a Môn, ac yr ydym yn cymmeradwyo hyny, gan annog yr holl Saint i ufyddhau i'w gynghorion, diwallu ei anghenrheidiau, a gweddio drosto; a r Arglwydd a fendithio bawb a wnelo hyny, yw gweddi

Eich cyd-was yn y Deyrnas.

D. Jones, *Llywydd yr Eglwys yn Nghymru.*

CAIS AT ATEB GOFYNIADAU AMOS CLARK, YN RHIFYN 13eg O'R "UDGORN."

Mr. Gol.,—Dymuna eich gohebydd wybod yn gyntaf,—"Pa beth yw 'dawn yr Ysbryd Glân' a addawodd Pedr ar ddydd y Pentecost; beth oeddynt ei effeithiau?" Atebaf fod yr Ysbryd Glân yn sylweddol, yn bodoli mewn cyflawnder anfesuradwy; y mae yn holl bresennol, ac yn cyrhaedd trwy bob eangder, yr hwn sydd yn wahanol ronynau gwybodus yn ymgymmysgedig â phob sylwedd arall. Nid oes un sylwedd bywiocach yn holl greadigaethau Duw nâ'r sylwedd gwybodus,

holl ddoeth, a hollalluog hwn a elwir yn Ysbryd Glân. "Dawn yr Ysbryd Glân" yw amrywiol o'r gronynau nefol hyn wedi ymgyfarfod o fewn y dyn, yr hyn sydd yn rhodd oddiwrth Dduw i'r rhai sydd yn ufyddhau i'w orchymynion. Ei effeithiau ydynt odidog—yn cyfnewid y dyn o ran ei anian, yn ei annog i ddweyd y gwir, i garu pawb, i wneuthur daioni, gweithredu cyfiawnder, ac yn ei gymhell i ddefnyddio yr aelodau a'r gallu ag oedd o'r blaen yn adeiladu teyrnas y tywyllwch, yn awr i adeiladu teyrnas Dduw, &c.,—Dyddanydd yw sydd yn cysuro y Saint tlawd a gorthrymedig, ac y mae ei effeithiau mor eglur arnynt, nes y medrant ganu yn ddiofid yn nghanol eu hadfyd,—yr ofnau a'r dychrynfeydd gynt, trwy ei nerth Ef, wedi cael eu hymlid ffwrdd, a pherffaith gariad wedi ei blanu yn eu lle; Efe a gynnydda awydd yn y dyn, i'r graddau ag y bo ei rym, i ddwyn pawb, ar gost pobpeth, i gael gafael arno. Mae y cyfryw a feddant gyflawnder mawr o hono yn ymddiried llawer yn eu Duw, fel Stephan gynt, yn "edrych yn *ddyfol* tua'r nef," ac weithiau yn canfod gogoniant Duw, a'r Iesu yn eistedd ar ei ddeheulaw. Y dyn sydd yn meddu y cyflawnder mwyaf o hono yw prif nôd holl saethau plant annwn: felly gynt, ac y mae yr un achos yn dwyn yr un effaith etto. Ei effeithiau ef oedd yr holl ddoniau ysbrydol a sonir yn y Testament Newydd am danynt, megys—ymadrodd doethineb, ymadrodd gwybodaeth, ffydd, dawn iachâu, gwneuthur gwyrthiau, prophwydoliaeth, gwahaniaeth ysbrydoedd, tafodau newyddion, a chyfieithad tafodau, breuddwydion, gweledigaethau, &c. Os bydd y brawd Amos Clark am ychwaneg o oleuni ar hyn, cyfeiriwn ef i'r "Eurgrawn Ysgrythyrol," ar y pen "Ysbrydol Ddoniau." tud. 247, ac nis gwn am un dyn diduedd a fethodd gael ei foddloni yno.

Yr ail ofyniad yw, "A ddichon dyn fod tufewn i eglwys Crist, ac etto fod yn amddifad o dystiolaeth yr Ysbryd Glân?" Dichon; er enghraifft, pe byddai rhyw foneddwr yn mabwysiadu plentyn i'w deulu, i gael ei ystyried yn blentyn iddo, dichon nad ystyriai y boneddwr yn ddoethineb i roddi iddo bob peth yr un fath â'r lleill o'r teulu ar y cyntaf; mae yn bosibl mai bwyd gwan a atebai yn oreu i'w gylla, &c., etto foledd fyddai iddo feddwl nad oedd yn un o'r teulu am na chaffai yr un bwyd, ac os grwgnachai dichon na chaffai ddim, a'r canlyn-

iad fyddai iddo gael ei droi allan wed'yn. Dyry tad doeth "laeth" i'r baban, a "bwyd cryf" i'r cryfion, etto mae y baban yn blentyn yn y teulu er nad yw yn gwybod hyny. Felly yn nheyrnas Dduw, gall dyn fod tu fewn iddi heb fod yn *gwybod* ei fod; ond os bydd iddo glywed y lleill yn tystio hyny, a gweled y lleill yn mwynhau y bendithion addawedig, dyna sail iddo yntau osod ei ffydd mewn gweithrediad, heb ammheu dim, a cheisio nes cael, - yna mae y dyn wedi gwneyd ei ran - y mae tu fewn i'r eglwys, ac ni fydd Duw yn ol o gyfranu iddo yntau bob "dawn" yn ei amser prydlon ei hun—Efe a wyr yr amser oreu.

Y trydydd ofyniad yw,—"Yn mha gyflwr y mae dyn wedi y caffo ei fedyddio er maddeuant pechodau hyd oni dderbynio efe yr Ysbryd Glân?" Mae y dyn hwnw mewn cyflwr diogel, os oedd y gweinyddwr wedi derbyn awdurdod oddiwrth Dduw, ond nid yw mewn cyflwr mor ddedwydd hyd oni dderbynio *wybodaeth* y gwirionedd trwy Ysbryd Duw. Meddyliwch am droseddwr cyfraith wedi cael ei ddedfrydu i gael ei ddienhyddio. Dacw'r truan mewn gofid trwm, heb un gobaith, ond y mae yn cael ei gymhell i anfon deiseb i ofyn i'r llywodraeth i'w ryddhau; wedi i'r ddeiseb fyned y mae efe etto yn ofidus, gan ystyried fod dydd ei ddienhyddiad yn nesâu; wedi i'r llywodraeth ei ryddhau, dywed trigolion y ddinas,—"Mae y dyn hwnw yn sicr o fod yn teimlo yn ddedwydd iawn yn awr, wedi iddo gael ei achub:" nac ydyw! y mae efe yn yr un sefyllfa ofidus fyth, o herwydd nad oes neb wedi cyrhaedd â'r newydd hwnw iddo. Felly y mae dyn wedi cael ei fedyddio, er y gall fod yn fwy llawen nag o'r blaen, ond nid mor ddedwydd, hyd nes y derbynio *wybodaeth* trwy yr Ysbryd Glân, er fod ei bechodau wedi eu mhaddeu.

Dyna mi wedi gwneyd cynnygiad, yn fyr, i ateb y tri gofyniad blaenaf y tro hwn, gan ystyried y byddai yr oll yn rhy faith ar unwaith, ac os na theimla rhyw frawd gálluocach i ysgrifenu atebiad cymhwysach, cewch y gweddill y tro nesaf, gan hyderu fod eich gohebydd o Roslanerchrygog wedi derbyn tystiolaeth trwy yr Ysbryd Glân cyn hyn, yr hwn a rydd fwy o foddlonrwydd iddo nag a all gael gan

Ei ostyngedig frawd,

Gynt o Dre-Sior, THOMAS HARRIES.

IACHAWDWRIAETH FEUNYDDIOL.

(Allan o'r "Millennial Star.")

IACHAWDWRIAETH yw anghen y byd, a gwrthddrych ymchwiliad y Saint a ddylasai fod. Yr unig beth ydyw a brawf ei hun yn effeithiol a thragywyddol. Os cyflawnir mewn cyfiawnder y gweithredoedd a berthynant iddi, fel y treulir pob dydd diarosol, mae y ffyddlon wr wedi sicrhau ei iachawdwriaeth cyn belled, a chyhyd ag y gwna hyn, y mae yn myned yn mlaen tuag at berffeithrwydd, ac yn gwneuthur yr oll a allo, a'r oll y mae yr Arglwydd yn ofyn oddiwrtho. Dyma y ffordd, a'r unig ffordd sier, i gael gafael ar roddion, galluoedd, ac ordinhadau yr Offeiriaidaeth, ac i ddyfod i wybodaeth o egwyddorion cynnyddiant tragywyddol. Ni achuba athrawiaeth yn unig mo ddynion, rhaid ei chyssylltu ag ymarferiad. Geill y Saint lefaru a chanu am bethau gwychion dyfodol er cyfnerthu eu ffydd a chysuro eu calonau yn yr awr bresennol o brofedigaeth a chystudd, eithr ni *fwynhant* iachawdwriaeth ond yn gyferbyniol i'w cyflawniad o'r llafurwaith sydd yn u..ion o'u blaen ac yn agos iddynt.

Nid oes dim sydd yn fwy ei bwys i'r Saint nâ chadw eu cyfammodau, nid yn unig â'r Arglwydd, eithr â'u brodyr a'u chwiorydd, eu gwragedd a'u plant, ac â'r cenedloedd â pha rai yr ymgyfeillachant ac y masnachant. Y mae pob cyfammod a phob cytundeb a wneir yn unol â chyfreithiau y wlad yn mha un y triga y Saint yn rhwymedig, ac os ydynt am gael eu bendithio a'u llwyddo, yn dymhorol ac yn ysbrydol, gwneler yr oll a ellir i'w cadw yn ffyddlon bob amser.

Nid oes un cyfammod a wneir dan y cyfreithiau hyn o fwy pwys nâ'r cyfammod priodasol. Y mae llawer o'r byd, a rhai o'r Saint fe ddichon, yn ffurfio y drychfeddwl nad ydym ni fel pobl yn ystyried cytundebau priodasol a wneir yn ol cyfreithiau Lloegr, a gweledydd ereill, o nemawr rym. I'r gwrthwyneb, nyni a'i hystyriwn o'r pwys mwyaf fod y cytundebau hyn yn cael eu cadw yn ffyddlon hyd oni ryddheir hwy gan y cyfreithiau a'u rhwymasant, neu gan yr Offeiriadaeth, ac ni ymarfera yr olaf ei gallu yn y dull hyny ond yn Utah. Pa fodd y dysgwylia y Saint gadw cyfammodau a wneir dan Gyfraith Nefol

os profant eu hunain yn annheilwng o freintiau a bendithion un sydd yn llai, ac os na fyddant alluog i gadw cyfammodau a rhwymau y sefyllfa briodasol yn y lle rhwyddaf? Yr oll a ofyna yr Arglwydd gan ei greaduriaid yw iddynt gadw y cyfreithiau, a chyflawni rhwymedigaethau y cylch yn mha un eu gosodir. Os ceidw y Saint y cyfammodau a wnaethant dan gyfraith y wlad lle y trigant, mewn purdeb calon, ac yn ol y goleuni a'r wybodaeth a feddant, fe'i cyfrifir iddynt yn gyfiawnder. Yna addasir hwy i dderbyn cyfraith fanylach, o'r hon y byddant heb hyny yn annheilwng.

Dylai dynion sefyll yn eu llefydd wrth ben eu teuluoedd, a chofio yn wastadol nad gorchest ydyw bod yn feistr, ond mai peth mawr ydyw bod yn Dad. Am hyny, bydded eich holl gyfeillach â'r Saint, â'r byd, ac yn fwy neillduol â'ch teuluoedd, yn nheimlad tyner a chariadlawn Tad. Dylech ymbilio â'r Arglwydd mewn gweddi a gostyngeiddrwydd, fel eich galluogir yn gyntaf i lywodraethu eich hunain. Dyma y cam cyntaf a'r pwysicaf tuag at lywodraethu eich teuluoedd, neu unrhyw beth arall a fyddo dan eich gofal. Nid yw ysbryd tasg-feistr yn ysbryd yr efengyl, am hyny dylai penau teuluoedd roddi pob cerydd a roddant yn eu tai mewn ysbryd addfwyn a thawel, a dylent gofio mai yr ysbryd a ymarferant yn eu teuluoedd fydd y cyfryw ysbryd a lywydda yno.

Dywedwyd llawer am ysbryd dadguddiad, ac etto ychydig a'i hadnabyddant. Braint y Saint fyw byw fel ag i dderbyn dadguddiadau yn barhaus ynghylch yr oll sydd anghen arnynt i wybod mewn trefn i droedio llwybr iachawdwriaeth feunyddiol, a llywodraethu mewn cyflawnder yr oll a gyflwynwyd i'w gofal. Y mae gweithrediadau yr Ysbryd mor gydrywiol a rhwydd fel nad ydys yn sylwi arnynt lawer pryd, hyd oni orfoda chwerwder profedigaeth ni i ystyriaeth, a phryd hyny pan yn rhy ddiweddar y gwelir i'w rybuddion gael eu gwrthod. Nid yw ffyrdd yr Arglwydd fel ffyrdd dyn, ac am hyny fe gynnygia fain sibrwd yr ysbryd, yr hwn a roddodd Efe yn arweinydd i'w bobl, bethau er eu daioni, y rhai a dybiant hwy yn eu doethineb hunanol yn gyfeiliornus a gwarthus. Mae yr Ysbryd Glân yn gyfaill sicr a diledrith, a gwyn fyd y gwr a geisio adnabod yllys, a dilyn ei dueddiadau, canys mae ei enaid wedi ei lanw â doethineb.

Anghofia rhai ar droion eu Duw yn nydd eu llwyddiant, a phan ddelo y drwg arnynt yn ddisymmwth, gwybyddant mai pell yw Efe oddi wrthynt. Pan y maent hwy neu eu teuluoedd yn glaf, cânt fod eu ffydd yn wan, ac nas gallant orchfygu gallu y dinystrydd. Gwybodaeth oddadguddiad a chynnyddiant mewn ffydd sydd faterion gwrteithiol, ac ni cheir hwynt ond drwy ymgais diwyd a phrofiad. Iachawdwriaeth sydd gelfyddyd o ba un mae yr Ysbryd Glân yn ddysgawdwr, a'r unig egwyddor o gynnyddiant yw yr ufydd-dod manylaf. Ufydd-dod i hwnw a gynnwysa ufydd-dod i holl awdurdodau yr Offeiriadaeth, canys arweinir hwy gan yr un Ysbryd. Rhaid yw i ufydd-dod, mewn trefn i fod o natur achubol, fod yn gyd-fynedol â thystiolaeth yr Ysbryd y dylai gael ei roddi, a hyny gyda phleser. Hyny yw, pan ddanghosir y ffordd gan yr Ysbryd, dylai gael ei rhodio, nid oes wahaniaeth pa mor wael, anwireddus, neu ddianghenrheidiol yr ymddengys ar olwg fydol, neu pa nifer o anhawsderau, peryglon, neu gwystrau anorchfygol yr olwg arnynt a safant ar y ffordd. Pan gyfarwyddo yr Arglwydd Efe a ofala am y canlyniadau, ac nid busnes y Saint yw ymdrafferthu yn eu cylch. Yr ofnau hyn yn nghalonau y Saint, y diffyg ymddiried yma yn eu Duw, ac ynddynt eu hunain, sydd yn barhaus yn cau i fyny eu ffordd eu hunain, ac yn feini o flaen olwynion y deyrnas hon. Mae yr Arglwydd yn barod i estyn allan ei law, ac i amlygu ei allu yn llawer eglurach yn y cyflawniad o'i waith, pe byddai ganddo bobl ddigon cryf yn y ffydd i'w oddef. Cesglir Israel cyn gyflymed ag yr ymbarotöant iddo, ac y mae llawer yn myned i Seion yn awr nas gallant oddef y goleuni sydd yn llosgi yno. Adeiladir Teml cyn gynted ag y dengys y Saint drwy eu ffydd a'u gweithredoedd eu bod yn barod am ei bendithion. Gwaredir Seion ac adeiladir Tŷ yr Arglwydd pan y bydd pobl yn barod er cadw y cyfreithiau pur a raid lywodraethu yno. Rhwymir Satan a dygir y milflwyddiant i mewn, yn gyferbyniol i'r graddau ag y cynnydda ffydd y Saint a gallu yr Offeiriadaeth ar y ddaear.

Dengys pob peth i'r Saint mai ynddynt hwy eu hunain mae y rhwystrau sydd yn attal eu cynnyddiant ar hyd ffordd yr iachawdwriaeth. Mae yr Arglwydd yn barod ac yn aros i'w cyfarwyddo ar hyd y ffordd cyn gyflymed ag y cerddant ar hyddi. Diwyd fyddont ynte yn mhob gair a gweithred ddaionus i

geisio am gynghorion yr Ysbryd, ac ymdrechu i allu dweyd fel yr â pob dydd heibio eu bod wedi myned yn mlaen ryw belldez ar hyd ffordd y bywyd tragywyddol.

BREUDDWYD AM GOLLED O WR DAIONUS.

Ar ryw noson yn fy ngwely,
Pan yr oeddwn yn trwm gysgu,
Canfu'm fenyw wrth ei hunan,
Yn wylo dagrau ac yn gruddfan.

Gofynwn iddi, beth yw'r mater
Eich bod fel yna mewn fath chwer'der?
Yr ateb gefais – daliwch sylw,
"Fy anwyl ŵr sydd wedi marw.

"Gallwn roi i'r tlawd elusen,
Pan oedd byw, heb deimlo'i anghen; —
Pob peth gawn yn eithaf diddig,
Heb achos gofyn byth am fenthyg.

"Gwr ffyddlon ydoedd, ac un tawel,
Yn eglwys Dduw yn swyddog uchel;
Rhaid cyfaddef er cywilydd
Mai ei boeni a wnawn beunydd.

"Ei ddifenwi wnawn yn greulon,
Gan ddefnyddio geiriau trawsion;
Ond yn awr yr wyf yn teimlo
Mai ffordd erchyll ydoedd hono.

"O na chawn i ond un cynnyg
Arno etto—byddwn ddiddig;
Ofer ydyw pob dywediad,
Gweddw ydwyf ac amddifad."

Cwmcelyn. ISAAC REES.

AMRYWIAETHAU, &c.

GWERTHU NEFOLION (CHINEAID) BENYWAIDD.—O'r "*Times and Transcript*," deallwn fod yr hynod Ah Toy, yr hon oedd yn cadw tŷ drwg yn San Francisco am y tair blynedd diweddaf, wedi cychwyn tua China. Dygodd gyda hi i'r wlad hon, er's tua blwyddyn yn ol, ar ei dychweliad o ymweliad â China, nifer lliosog o fenywod, y rhai a brynodd am tua 40 doler yr un.

Costiodd eu cludiad 80 doler yr un. Y mae hi wedi gwerthu allan ei *stock* ar wahanol brydiau am o 1,000 i 1,500 doler yr un, i fasnachwyr a chwareuwyr Chineaidd. Pan ar ymadael i fyned i China, gwaredodd y gweddillion am 800 doi. yr un. Mae y "Times & Transcript" yn deall oddiwrth Mr. Cawalhs y cyf- reithiwr Chineaidd, na feiddia y benywod hyn wrthwynebu y fath drafodaeth, gan yr ofnant gymmaint o'u cyd-wladwyr.

Dwfr.—Dyfynaf a ganlyn o waith Dr. Pratt ar Rinweddau Dwfr:—"Pe byddai i bobl yfed dwfr byddent yn rhydd oddiwrth amrywiol o glefydau, megys Cryndod, Parlys. Parlys mud, Penfeddwdod, Poen yn y Pen, y Droedwst, Clwyf y gareg. Dyfrglwyf, y Gymalwst, Clwyf y Marchogion, a'u cyffelyb. Y mae yfed dwfr yn cryfhau y cylla, yn helpu archwaeth at fwyd, yn cadw y golygon, yn gwneyd y synwyrau yn fywiog, ac yn glanhau holl bibellau y corff, yn enwedig yr elwleni a'r yswigen." Os yw yn cadw y golygon naturiol, ac etto yn "Air o Ddoethineb Duw" fe geidw y golygon ysbrydol hefyd, trwy ei ymarferyd yn lle gwirodydd poethion, te, coffi, &c.— *G. Roberts.*

SYLWER!

Hysbysiad i Ymfudwyr!—Bwriada y Llywydd F. D. Richards anfon y llong "Australia," 1500 o dunelli, allan o Liverpool, ar yr 28ain o'r mis hwn tua New York; pris y cludiad yw £3 15s; plant o un hyd wyth mlwydd oed £3 5s; babanod 10s. Rhaid bod yno ar y 25ain. Gwneler brys.

Derbyniadau am Lyfrau o Meh. 18 hyd Gorp. 5.—G. W. Davies, £13 14s 6c; Jonathan Ellis, £2; John Davies, £1 4s; Griffith Roberts, £1 17s 6c; Hugh Roberts, 18s 6c; David Jones (Môn), 14s; Thos. D. Evans, £2.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Rhoddion at y Deml	209
Cymmanfa Ogleddol Penfro	212
Cymmanfa Ddehenol Penfro	213
Cymmanfa Sir Fflint	214
Cymmanfa Sir Ddinbych	215
Cymmanfa Sir Feirionydd	215
Cymmanfa Dyffryn Conwy	216
Golygyddiaeth—Pregethu yr Efengyl—Apwyntiadau	216
Cais at ateb Gofyniadau Amos Clark	217
Iachawdwriaeth Feunyddiol	220
Breuddwyd am golled gwr daionus	223
Amrywiaethau, &c.	223

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

RHIF. 15.] GORPHENAF 21, 1855. [CYF. VIII.

YN MHA BETH Y CREDA Y MORMONIAID?

(Allan o'r "Mormon."

NID anaml y cwrddwn â phersonau a synant wrth weled neb sydd yn gall ac o ymddygiad boneddigaidd yn proffesu crediniaeth yn, ac yn bod yn aelod o'r hyn a elwir yn gyfundeb Mormonaidd, neu yn hytrach, yn grediniwr cadarn yn athrawiaethau Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf. Nid cymmaint oddiar adnabyddiaeth o'r hyn yw eu credo neu eu hathrawiaeth y tardda y cyfryw syndod ag oddiar sôn cyffredinol ac hanesion newyddiadurol pobl a hudir ac a arweinir ymaith gan ddynion bwriadol, mewn ffaith, gan rai hollol lygredig, gwael ac isel. Yn herwydd hyn pan yn cwrdd yn aml â phersonau golygus yr olwg arnynt, y rhai nis gellir ammheu ar nad ydynt wedi llwyr ymchwilio i'r egwyddorion cyn iddynt eu hefelychu, efallai yr arweinir ef am y tro cyntaf i ammheu rhai o'r cyhuddiadau a ddygir yn erbyn y bobl hyn, ac i ymholi i eirwiredd y golygyddion boneddigaidd, ac hyd y nod i gywirdeb rhai o'r proffesau dysgedig; a thra yn myfyrio ar y posiblrwydd o fod rhyw gamsynied yn mhlith y boneddigion hyn, fe'i harweinir feallai i ail edrych i rai o ddygwyddiadau y mynedol ar ba rai yr eiliwyd ei dybiadau ynghylch y bobl ddyeithr yma, ac er syndod iddo, er mor bwysig gynnifer o dystiolaethau cyfrifol yn eu herbyn am flynyddau, cofia mai er eu bod wedi eu cashâu, eu gwrthwynebu, eu gwarthruddo, eu gyru ymaith, eu llofruddio, a'u gorfodi i chwilio am noddfa yn yr

anialwch yn mhlith anwariaid, a'u camdrinio, a'u henllibo hyd y nod yno, byw, bod, a chynnyddu y maent trwy y cwbl; testun nad oedd er's ychydig amser yn ol ond yn peri gwawd, dirmyg, gwg, neu eithafion diystyrwch, sydd yn awr yn tueddu y lledaenwyr gwybodaeth,—y doethion mawrion hyn i ddywedjadau tebyg i ammheuaeth, eu bod feallai wedi camddarlunio y bobl nodedig yma, o'r hyn leiaf mewn *rm* ystyr; hyny yw, mewn bod ganddynt ddigon o synwyr i fyw trwy eu camddarluniadau, enllibau, a'u hanwireddau hwy. Yn awr cyhoeddant fod Mormoniaeth yn perygln y llywodraeth; gymmaint felly fel ag i ofyn codiad eu lleisiau Nestoraidd hwy mewn tónau rhybuddiol i'r genedl liosog hon. Yn awr y mae y gwrth-ddywediadau hyn mewn perthynas â'r bobl yna, yn gysylltiedig â'u hymdrechion, eu hamcan, a'u gwybodaeth ddiddadl sydd wedi hynodi eu holl ymgyrchiadau, yn achosi yn naturiol i aros a gofyn.—Pa le y ceir y gwirioneld am danynt? Bid siwr, nad gan y rhai y mae eu tystiolaeth am flynyddau yn ol wedi troi allan yn gelwyddog. Yn mha le ynte y ceir tystiolaeth yn mha un y gellir ymddiried yn ddiberygl? Nis gellir ymddiried yn yr un dyn braidd, ond fe ellir yn sier mewn egwyddorion, am ba rai y gadewir i ni farnu drosom ein hunain.

Creda y Mormoniaid yn Nuw, ac yn ei Fab Ef Iesu Grist, a'r Ysbryd Glân: credant yn y Beibl fel Gair Duw drwy ddynion ysbrydoledig, wedi ei roddi i ddyn er ei leshâd a'i ddefnyddioldeb, "A chan wybod hyn yn gyntaf, nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddehongliad priod." Credant yn yr Ysgrythyr—yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei roddi er ei ddeall; nid i'w newid a'i gymhwyso i ateb amgylchiadau personol na thraddodiad; eithr yn llythrenol,—yn ei feddwl gwreiddiol; ac nid oes hawl gan yr un dyn i gyfnewid yr hyn a ddywed Duw. Creda y Mormoniaid yn y Beibl fel ewyllys ddadgudd-iedig Duw i ddyn, ac nfyddhant i'w holl orchymynion, yr hyn *ni wna* y gwahanol bleidiau; mwy na hyn, tra yr hòna y gwahanol bleidiau mai y Beibl yw safon eu ffydd, gwahaniaethant yn fawr, a gwaeth fyth, gwadant, ac weithiau gwawdiant lawer o'i orchymynion. Ac er i'r Iesu ddweyd (Math. xxviii, 20) "Gan ddysgu iddynt gadw pob peth ar a orchymynais i chwi," etto haera "athrawon" proffesedig ein dydd nad oes eisieu i chwi gadw pob peth, canys dywedant fod rhai pethau yn

"allanol a dibwys" Nid annhebyg hyn i ddadguddiad y sarff yn ngardd Eden. "Yn y dydd y bwytai o hono, *ni* fyddi farw." Fel credinwyr cydwybodol yn y gyfrol Santaidd, dywedwn yn ofn yn erbyn gwneuthur gair Duw yn ddirym gan orchymynion dynion. Ond er dangos yn eglurach y gwrthdarawiad ag sydd rhwng yr athrawiaethau ffug-efengylaidd a ddysgir yn y dyddiau hyn â'r efengyl bur a ddysgwyd gan yr Iesu a'i apostolion, dyfynwn rai o'i athrawiaethau o'r Ysgrythyrau, a chymharwn hwynt â thybiadau dynion yn bresennol, a rhagymadroddwn y cyfan â geiriau Ioan yn ei ail epistol. 9fed adn., "Pwy bynag ar sydd yn troseddu, ac *heb* aros yn nysgeidiaeth Crist. nid yw Duw ganddo: yr hwn sydd yn aros yn nysgeidiaeth Crist, hwnw y mae y Tad a'r Mab ganddo."

ATHRAWIAETH CRIST AC ATHRAWIAETH DYNION.

Athrawiaeth Crist.—(Marc xvi, 17,)—"A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant."

Athrawiaeth Dynion.—A'r arwyddion hyn ni chanlynant y rhai a gredant, canys y maent wedi darfod, ac nid oes eu heisieu mwyach.

A. C.—(Ioan xiv, 12,—Yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a mwy na rhai hyn a wna efe: oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad.

A. D.—Yr hwn sydd yn credu yn Nghrist *ni* wna yr un o'r gweithredoedd mawrion a wnaeth Crist; canys mae y fathau bethau wedi darfod oddiar y ddaear.

A. C.—(Math. xxiv, 31),—Ac efe a ddenfyn ei angylion, a hwy a gasglant ei etholedigion ef yn nghyd o'r pedwar gwynt, &c.

A D.—Ac nid oes gweinidogaeth angylion i fod mwyach, canys darfyddodd y fath bethau

A. C.—(Dad. xiv, 6),—Ac mi a welais angel arall yn ehedeg ynghanol y nef, a'r efengyl dragywyddol ganddo, i'w phregethu i'r rhai sydd yn preswylio ar y ddaear, &c.

A. D.—Nid oes eisieu i angel ddwyn yr efengyl yn ol i'r ddaear, canys y mae hi gyda ni eisoes, ac y mae ein cenadon yn ei phregethu; yna pa anghen sydd am ei hadferyd.

A. C.—(Ioan v, 39),—Chwiliwch yr Ysgrythyrau, canys

ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragyw-yddol: a hwynt hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi.

A. D.—Chwiliwch yr Ysgrythyrau, eithr esbonier hwynt i chwi gan ryw esboniwr enwog a dysgedig, yn hytrach nâ gofyn i Dduw eu hegluro hwynt i chwi.

A. C.—(Iago i, 5),—O bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, gofyned gan Dduw yr hwn sydd yn rhoddi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod; a hi a roddir iddo ef.

A. D.—Er fod yr adnod yn dweyd gofyned gan Dduw, etto y mae doethineb ddynol yr oes oleu hon yn sicrach, canys pe dywedai dyn ei fod wedi gofyn doethineb gan Dduw a'i chael yn ein dyddiau ni, ni chydunai â'n credo, a chyfrifem ef yn dwyllwr, a chrediniwr mewn *dadgeddiad* presennol, a byddai hyn yn ddim llai nâ Mormoniaeth.

Ystyrir fod apostolion a phrophwydi wedi darfod, ac nad oes eu heisieu mwyach; er y dywedir yn Eph. iv, 11, 12, "Er perffeithio y Saint i waith y weinidogaeth, er adeilad corff Crist, hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb y ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, hyd at fesur oedran cyflawnder Crist."

Felly y mae rheol a chyfundrefn yr Eglwys a'i hathrawiaeth braidd wedi eu llwyr ddileu, a'u hystyried yn ddianghenrhaid. Er eu hystyriwyd unwaith yn anghenrheidiol, fel "na fyddom blantos, yn bwhwman, ac yn cael ein cylch arwain gan bob awel dysgeidiaeth, drwy hocced dynion, trwy gyfrwystra i gynllwyn i dwyllo;" etto nid ydynt bethau o bwys yn awr, eithr gofaled pob un am dano ei hunan, meddant, ac felly y gwneir trefn Duw yn ddirym gan y rhai a broffesant fod yn weision iddo, a chollir golwg ar lawer o addewidion gogoneddusaf Duw—rhoddion o'r uchelder i ddynion, gan y cuddir hwynt, ac y dallir dynion gan draddodiadau ac athrawon gau. A'r hyn a fynegwyd gan y prophwydi gynt y cymmerai le yn y dyddiau diweddaf sydd wedi ei ddiddymu drwy ysbrydoli, a gadawir llawer heb obaith mwy nag ofn a braw o herwydd y drwg sydd yn dyfod ar y ddaear.

Y TALEITHIAU UNOL A'U MASNACHAETH DDYNOL.

Prif destun cweryl yr Americaniaid yn awr yw Caeth-fasnachaeth, mae y dylanwad o'i blaid ac yn ei erbyn yn cynyddu ac yn lledaenu yn feunyddiol, a bygythia oddiweddyd yr holl wlad â galanastra buan a galarus; drwy y taleithiau deheuol bygythir yn groew a gwneir darpariadau i oresgyn ysbryd y gogledd; drwy y taleithiau dwyreiniol a gogleddol mae yr elyniaeth i gaethfasnach wedi cynnyddu i'r fath raddau nes y cynnelir cyfarfodydd cyhoeddus yn eu prif drefydd a'r dinasoedd i ddarlithio yn erbyn y drwg o hono, ac ni phetrusa eu newyddiaduron gyhoeddi fod dydd ei dranc eisoes wedi dyfod, a galw am ddrylliau, cleddyfau, a phob math o arfau angeuol i ladd y caethfasnachwyr. Ffroma y Gogleddwyr wrth y Deheuwyr o herwydd eu rhuthr yn etholiad Kansas, tra mae y Deheu yn bur ddigofus o herwydd i Massachusetts ddileu y gyfraith a ganiatai i'r caethfasnachwr adferyd ei gaethion a ddiangasent i'r taleithiau rhyddion. Gwahardda y Deheu ei nhwyfau hithau i'w mharchnadoedd heb ardreth chwanegol o'r herwydd, tra y cynghora ereill alltudiad Dirprwywyr y dalaeth hono o'r Senedd ddyfodol. Dengys Georgia a thaleithiau ereill awydd i gario yn mlaen gaethfasnachaeth ag Affrica; cymmeradwya papurau y Deheu ymdrechiadau y terfysgwyr o Missouri i orfodi Kansas i fod yn Diriogaeth gaethfasnachol, a bygythiant y bydd raid iddi fod felly er pob gwrthwynebiad. Ebe un o'u prif newyddiaduron ar ol beio ar y Gogledd am ymyraeth â'r pwnc:—

"Beth yw y canlyniad? Pan yr agorir Kansas i'r Deheu, gwlad gyfaddas yn mhob ystyr i gaethfasnachaeth, cynddeirioga y Gogledd wrth y ffaith. Yma dechreua yr ymgyrch. Gyrir ymfudwyr cyflogedig yn lluoedd yno i ladd gobaith y Deheu. Eithr mewn amddiffyniad o'u cyfreithiau a'u cartrefleoedd ymbarotoa Missouri erbyn yr ymosodiad. Yn mhell oddiwrth chwareu-loriau y gynen, yn mhell yn maesydd breision Kansas y cyfarfydda wyneb yn wyneb eu gilydd y Gogledd a'r Deheu, penboethni a chaethfasnachaeth. Ymdrech marwol oedd, a chaethfasnachaeth a goncrodd."

Ymddengys y bobl hyn yn benderfynol am gario eu pwnc,

eithr nid llai ystyfnig yw iaith y Gogledd i'r gwrthwyneb. Ysgrifena gohebydd newyddiadur Caerefrog Newydd o Leavenworth, Missouri:—"Ni ychwanegaf ond dweyd na wyr preswylwyr y Taleithiau rhyddion nemawr am ansawdd ein sefyllfa ni yn y nac ychwaith am yr unig ffordd i sicrhau rhyddid Kansas, *yr hon yw drwy ymladd.* Rhaid ymladd brwydr boethlyd a chyffredinol. Hyd oni wneir hyny, mwy marwolaethau fydd y canlyniad. Os ydych am ein cynnorthwyo ni y rhai a beryglasom ein heiddo a'n bywydau i achos rhyddid, anfonwch i ni law-ddrylliau troellog, ac arfau ereill."

Cefnoga y *Tribune* yr uchod, a "gobeithia y bydd i gyfeillion rhyddid sylwi ar yr apêl hwn, a chyfarfod y caethfasnachwyr ar y trothwy, ac y gwnant trwy rym arfau sefydlog yn y Diriogaeth wrthwneuthur gweithredoedd y mileiniaid a ymgryuhoasant ynghyd, gan enwi eu hunain yn Senedd Kansas."

O'r ochr arall, ebe y *Western Argus* (caethfasnachol), wedi dynoethi cyngrair yn mhlith y gwrthgaethfasnachwyr i ladrata yr holl gaethion o Kansas. :—

"Os oes rhyw rai i gael eu halltudio allan o Kansas, nid wyddom am neb a deilynga hyny gymmaint a'r gwrthgaethfasnachwyr eu hunain.

"Y ffaith yw fod rhyddid-geiswyr y Gorllewin wedi penderfynu codi cynen yn erbyn caethfasnachwyr. Daw yn fwy amlwg o hyd mai eu hawydd yw cael rhyfel cartrefol, a chyda golwg ar hyn gwnant eu holl ddarpariadau, a chan mai hyn yw eu hamcan, goreu i les Missouri po cyntaf y rhagflaenir eu bwriadau dinystriol."

Mae y ddwyblaid yn bur boethlyd gwelir, a diau nad yw y cyfnod rhagddywededig gan bropliwydi hen a diweddar yn mhell, pan y bydd raid i'r sawl na throcha ei gledd yn ngwaed ei frawd ffoi i Seion.

Gwir fod ychydig wyr cymhedrol, ac ni fu ericed lai ar gyffelyb amgylchiad, etto nid oes neb heb deimlo eu bod yn cael eu gormesu gan ereill, ac mae yr olt braidd yn benderfynol mai yr unig ffordd i gael cyfiawnder yw drwy rym arfau; nid oes a gynnygia ddim arall braidd ond hyny yn awr. Nid oes gyfathrachrwydd rhwng ysbryd y pleidiau; mae yr afiechyd wedi gafaelyd yn y cylla, gwreiddio yn y corff politicaidd a chrefyddol nes myned yn anfeddiginiaethol, ac nid oes wellhâd iddo

nes rhoddi iawn dwbl am yr holl waed gwirion a dywalltasant hyd eu lloriau; ac nid hyd nes y rhuddir eu glaswellt yn saith rhuddach â'u gwaed eu hunain nag eu gwelsant gan waed Saint y caniatâ dïaledd Duw cyfiawn iddynt ddycliwelyd eu cleddyf i'r wain yn ol. Ymgasgla y dudew gymylau dymestl dywell. erchyll a daroganus, gyda ffyrnigrwydd cynnyddol; dynoda rhuad y tyrfau pellenig ei dynesiad; tra y mae adlewyrchiadau penboethni, megys goleu mellt ffurchog yn hollti perfeddion y cymylau beichiogaidd i arddangos erchyllidra, chwyrnigrwydd a chyffredinolrwydd y 'storom. Y diweddglo sydd guddiedig yn ei bru serch hyny. Hyn sydd hysbysedig y bydd digonedd o fellt a tharanau naturiol yn nes atynt heb wneyd rhai ffugiol o'r gorllewin, a digon o dywallt gwaed yn nes nâ'r mynyddau creiglyd i syrffedu gwanc y rhai mwyaf gwaedlyd, heb ddyfeisio celwyddau ar y diniwed er cael byddin i fyned filoedd o filltiroedd i dywallt chwaneg o waed Mormonaidd mwy—ceir gweled lliw gwaed arall mwyach, a phwy a gwyna i'w gwewyr na'u tranc!

Fel y gweler yn amlycach etto yr ysbryd gwaedlyd sydd yn teyrnasu yn y Taleithiau, ac fel yn rhoddi awch ar gleddyfau y Gogledd yn erbyn y Deheu, a'r Deheu yn eu herbyn hwythau dyfynwn a ganlyn allan o'r "Michigan Expositor:"—"Ymddengys rhyfel cartrefol yn Kansas yn fwy anocheladwy bob dydd rhwng terfysgwyr creulon Missouri â phreswylwyr y Diriogaeth. Mae y rhuthriad diweddar a wnaeth terfysgwyr Missouri ar yr etholiad yn prysur ddeffroi ysbryd y dinasyddion; ac y maent yn ddiddadl yn ymbarotoi i amddiffyn eu hiawnderau a'u hetholiad â blaenau eu drylliau. Yn awr yw yr amser i ddynion o wroldeb dinam a phenderfyniad diysgog i fyned i Kansas ar unwaith. Onid oes genym gannoedd a miloedd o wyr ieuainc diwyrni, y rhai ydynt ewyllysgar i aberthu eu bywydau pe bae raid er achub Kansas rhag cael ei duo a'i halogi gan anwariaid arfog o uffernau a meddw-dai St. Louis, a lleoedd ereill yn Missouri?

"O herwydd fod genym Lywydd difadfeth, dyledswydd yr hwn yw amddiffyn sefydlwyr Kansas, eithr yr hwn ni wna unrhyw sylw o'r trawsder a wnaed yno; a fydd gwroniaid ein gwlad mor ddifater ag ef, a gadael i ddewrion ragredegwyr rhyddid yn Kansas gael eu halltudio o'r wlad hono gan der-

tysglu o offerynau Caethfasnachwyr? Ymddiriedwn na wnant. Yn mlaen, ynte, er amddiffyn rhyddid a phurdeb ein hetholiad yn Kansas. Yn mlaen yn yr ymgyrch am ryddid yn Kansas. Danghoser i derfysgwyr creulon Missouri nad cachgïaidd gwyr Kansas, ac a oddefant eu hanmharchu."

Atebir yntau yn ol gan newyddiadur y caethfasnachwyr, a gyhoeddir ar y dadleulawr, fel y canlyn :—

"Paham na ddaw rhai o Olygyddion y Dwyrain, y rhai a ymladdant y Missouriaid mor ofnadwy gartref, eu hunain i Kansas, a beiddio cyflawni yr hyn a gynghorant ereill i wneuthur? Meddyliwn yr edrychai lawer gwell ynddynt pe pregethent lai a gweithredu mwy. Gellid meddwl wrth ddarllen y newyddiaduron dwyreiniol fod byddin o filiwn o ryddwyr yn dyfod i yru Deheuwyr allan o Kansas drwy rym arfau. Nid ofnwn ronyn o'u golwg ryfelawg na'u bygythiadau syfrdanus. Os oes gwir yn yr hen ddiareb mai "anaml y cnöa cŵn cyfarthlyd," yr ydym ni yn weddol ddiogel. Byddai yn dda genym weled cynlluniau y Wasg ogleddol yn cael *cynnygiad* o gyflawniad yn y Diriogaeth hon. Rhoddai hyny i ni gyfle i ymwledda ar y mwynhâd o'r hyn a chwennychwn er ys llawer dydd, sef 'cerdded at ein gwasg mewn gwaed gwrthgaethfasnachwyr!' Deuwch, ynte, meddwn, ar eich cenadaeth greulon, a nyni a roddwn i chwi y cyffelyb roesawiad ag a roddodd yr anfarwol Jackson i'r Brytaniaid yn Orleans Newydd. Gwnawn eich gwragedd yn weddwon a'ch plant yn amddifaid, ac a frashawn eiu daear ag ysgerbydau braenedig rhyddidgeiswyr. Dymunem yn fawr iawn weled Golygydd y 'Michigan Expositor' yn blaenori ei osgordd o *rag tag* a *bobtail* filwyr dros brairies Kansas. Ewyllysiem ei weled ar ol ei frwydr gyntaf a'r 'gethern arfog o uffern,' a chlywed ei feddwl o barthed i'r posibirwydd o wneuthur Kansas yn Dalaeth rydd, 'hawddach ei ddweyd nâ'i wneyd.'"

Dyma siarad go blaen, onide? Mae yr ysbrydoedd hyn yn barod, dim ond ychydig amser sydd yn eisieu i gyfarfod a'u gilydd! Cofier mai yr un gethern a alltudiasant y Saint o Missouri yw y rhai hyn: pryd hyny, credid eu celwyddau, a chanmolid eu creulonderau yn erbyn y Saint, y rhai a welant yn awr drwy dynu yn y dorch gyda hwynt eu hunain pwy oedd i'w beio. Pryd hyny nid oedd braich o gymhorth i filoedd

a bobl diniwed a alltudiwyd gefn genaf o'u gwlad ganddynt, ond yn awr cesglir byddinoedd parodol drwy gydymdeimlad "sectyddol," i amddiffyn pe ond brodor yn ei fwthyn rhag trahausdra! Mae tai, trefydd, caeuau, ffermydd, a dyffrynoedd, ïe, Swyddau cyfain braidd a yspeiliwyd oddiar y Saint gwirion yn meddiant yr ymosodwyr hyn, pa rai ond odid a drochir a gwaed unwaith etto cyn hir, ïe, pan y pusïr ac y glanheir hwynt trwy eu gwaed hwy eu hunain oddiwrth eu halogrwydd, i fod yn addas i ail deuantiaeth gan eu teiiwng etifeddion!

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, GORPHENAF 21, 1855.

At Lywyddion Cynnadleddau a Changenau.—Gelwir eich sylw manwl a mynych chwi at gyfrifiad arianol yr Eglwys o dan eich gofal; dyledswydd pob un o honoch yn ei gylch yw gweled fod cyfrifon cywir ac eglur yn cael eu cadw o gyfraniadau y Saint at y Drysorfa Ymfudol Barhaus, y Deml, a phob cyfraniadau ereill a berthyna i eglwys Dduw, a danghosiadau cywir o'u trosglwyddiad o'r naill Drysorydd i'r llall, ac o'r defnydd a wneir o bob ceiniog o honynt. Dysgwylia y Saint yn rhesymol i chwi amddiffyn eu hiawnderau hwy, drwy iawn ddefnyddiad o'u cyfraniadau, yn ogystal ag mewn pob peth arall; dysgwylia Duw i chwi brofi eich gonestrwydd a'ch ffyddlondeb yn hyn, ac ni all ein cyfrifoldeb ninnau i'r naill na'r llall ganiatâu i neb yr enw o droi mewn cylch perthynol a cesgeuluso wneuthur cyfiawnder, a chadw cyfrifon a ddangosant drostynt eu hunain, heb fod anghen yr ysgrifenydd gyda hwynt i ddweyd beth ydynt, beth yw cyfraniadau pob aelod at bob gofyniad; a'i prawf, meddwn, i'w holynwyr; a'i prawf i'w hâch ar eu hol, ac a'i prawf etto yn Seion, pan y dêl arholiad i weithredoedd pob un.

Ymddiried yw y prif beth anghenog yngolwg y Saint er cyflawni pob gofyniad gyda pharodrwydd; canys gwyddant o'r

goreu mai cyfranu i Dduw y maent yn mhob gofyniad cyflawn, ac nid oes dim a grea ymddiried yn eu Llywyddion os camddefnyddiant eu cyfraniadau, tra o'r ochr arall bydd boddlonrwydd fod iawn ddefnydd yn cael ei wneuthur o'r oll yn fwy amnogaethol i haelioni nà phob peth arall hebddo. Dylai y mawr-bwys o ymddiried y Saint yn eu Llywyddion, heb yr hyn nid oes cariad na dylanwad digonol i lywyddu, orfodi pob un, nid yn unig i iawn ddefnyddio pob cyfraniadau i'w dybenion priodol, ond i ddewis yn hytrach, ïe, i fynu gwneyd i bawb goelio a gweled mai felly y mae. Dyma'r ffordd i ennill ymddiried, i amddiffyn cymmeriad, i rwystro drwgdybiaeth, ac i ddwblu pob cyfraniadau *cyfreithlawn ;* teilynga y cyfranwyr hyn, a'r sawl a ddymuna ymddiried y Saint a'i gwna. Gwneler yn hysbys, o leiaf bob chwarter, pa swm a dalodd pob aelod yn mhob cangen at bob gofyniad, ac hysbyser ar gyhoedd bob Cymmanfa, pa swm a dalodd pob Cangen at bob peth, fel na bydd camsynied yr uniawnder a chronicler yr oll yn fanwl yn y llyfrau perthynol i hyny. Teimlwn i gymhell hyn gyda manylrwydd, a delir y sawl a'i hesgeuluso yn droseddwr cyhoeddus, heblaw y dyry le i ddrwg dybio ei amcanion a niweidio e ddylanwad.

Nid oes nemawr bechod mwy gwarthus yngolwg y Saint, pechadurus yngolwg yr Arglwydd, ac annyoddefol yngolwg Offeiriadaeth yr eglwys nag *anonestrwydd.* Mae anonestrwydd at gyd-ddyn yn anynol,—at frawd yn greulonach, at eglwys Dduw yn gyssegr-ladrad! Mae yspeilio Saint tylodion o'u dimenau a'u ceiniogau a gyfranasant o'u hanghenion yn bechod rhy ysgeler i ronyn o Ysbryd Duw—ysbryd y *cyfiawnder* gydbreswylio am eiliad yn y bôd a'u gwna; eithr pe bradychai unrhyw Lywydd yr ymddiried a rodda y Saint didwyll ynddo, o herwydd ei Offeiriadaeth ddwyfol, ychwanegai drwy hyny fradwriaeth o'r fath waethaf at gyssegr-ladrad, yr hyn, nid yn unig a wnelai "Judas" o hono ef ei hun, ac a achosai i bob gonest-ddyn basio y cyffelyb ddedfryd arno, eithr a dueddai i niweidio dylanwad ei frodyr gonestach nag ef; ac mewn gair, ni feddwn iaith a arddengys erchylldra yr ysgeler-beth a enwasom! Hyderwn na ddwg unrhyw ffaith y fath gyhuddiad atom yn erbyn neb o'r cyfryw a gawsant yr orucheifraint o fod yn oruchwylwyr dros eiddo *eglwys Dduw!* Os ymwertha neb

i'r fath bechadrusrwydd, nid ystyriwn fod ysgymuniad allan o eglwys Dduw hyd oni ad-dala yr hatling eithaf yn benyd cyfartal â'r trosedd, eithr dylai cribau heuarnaidd gwladwriaeth gael cribo ei wallt foreu a hwyr; ystwythor ei gymalau ar droellog olwynion poenydwyr dihirod llai haeddiannol, ac o chàn-pwys o heuarn llwyther ef am bob swllt a gadwa yn ei gôd Judas-aidd o eiddo brodyr y Iesu diniwed. Ac wedi y treiliau oes druenus fel hyny ni fydd ond wedi cael rhyw awgrymiadau ysgafn yn unig o arteithiau a loesau y cospau a ddyry Pen Mawr yr eglwys arno pan ei cyferfydd tu draw i'r llèn, a dyeh ymmygwn glywed pob aelod o'r un eglwys drwy y nefoedd fry yn bloeddio eu "Hamen" pan sêlir ei dynghed dan ddwfn glöeon yr eigion garcharau obry! Ymswyner rhagddo!!

RHYBUDD I'R SAINT!

Anwyl Lywydd Jones,—Derbyniais lythyr oddiwrth Dewi Elfed Jones, tra yn Sir Fynwy, yn cwyno ei fod ef wedi cael ei ysgymuno o'r eglwys yn anghyfiawn o herwydd eich digasedd chwi ato, ac yn ceisio profi nad yw efe yn ddyledwr i'r Swyddfäau, nac i'r Gynnadledd, oddieithr ychydig bunnoedd. Deallaf ei fod ef hefyd yn ysgrifenu llythyrau yn brysur i amrywiol fanau, a gwelais rai o honynt, yn gyflawn o anwireddau gwybodus i mi, i geisio cyfiawnhau ei hyn o'r hyn y gwn ei fod yn euog o hono.

Gan fod Dewi Elfed Jones wedi ymosod ar y fath waith pechadurus a'ch camgyhuddo chwi, a cheisio trwy rith grefydd ac haeriadau anwireddus i greu dylanwad yn eich erbyn chwi, dymunaf gyfle drwy yr Udgorn i rybuddio y Saint i beidio a chredu yr hyn a ddywed efe yn ddrwg am y Llywydd Jones, nac yn dda am danaf innau, o herwydd ei fod *ef yn ei ddweyd.* Ystyriaf gammoliaeth y fath ddyn â Dewi Elfed Jones yn sarhâd ar fy nghymmeriad. Tystiaf mai anwireddau yw yr holl gyhuddiadau a ysgrifena yn erbyn y Llywydd Jones hyd y gwelais, a'i fod yn ymladd â'i gyfaill goreu; gwn ddarfod i'r Llywydd Jones ddangos mwy o drugaredd, hir-ymaros, ac ewyllys da ato ef nag a ofyna cyfiawnder iddo wneuthur. Bu'm fy hun drosto, a gwn am ereill a fuont ar ei gais, yn ymbil ar Dewi Elfed Jones lawer gwaith er ys amser maith, i

ddiwygio, byw buchedd addas i'w broffes, a gwneuthur cyfiawnder, yr hyn a addawai wneuthur o fis bwy gilydd, eithr y mae efe wedi myned i'r fath dywyllwch drwy ballu gwneyd hyny, nes mai ei bleser yw diraddio a chamgyhuddo drwy yr hyn sydd anwireddus wybodus i mi, y dyn a wnaeth fwyaf o ddaioni iddo, a'r mwyaf dienog o'r hyn y cyhudda, o neb dyn yn y wlad. Gan y mŷna Dewi Elfed Jones fyned i ddystryw ei hunan, trueni ei fod yn ymegnïo cymmaint i geisio dallu a gwenwyno Saint ereill i'w ganlyn i ddystryw, a'r gwaethaf oll ei fod wedi ymroddi gyda'r fath haerllugrwydd i ddangos ei falais atoch chwi. Prawf hyn yn amlwg i blant y goleuni ei fod ef o ysbryd diafolgar, ac wedi teilyngu y cerydd a gafodd. Argoel ddrwg yw gweled "ci yn cnoi y wialen"

Gadewch i mi hysbysu y Saint fy mod i yn deall, ar ol edrych yn fanwl dros yr holl gyfrifon sydd ar gael, fod yn ddyledus arno i'r Swyddfäau dros *ugain punt* yn ol cyfrifon a gadwodd ei fab ei hun, yr hwn oedd yn cael yr enw o Ddosparthwr, eithr yn ol ei ddywediad ei hun, ac ereill, ni chaffai afael yn yr arian gan y llogellai ei dad y cyfan. Heblaw hyn yna, deallaf fod dros *ugain punt arall* o arian y Gymmadledd yn ei law yn ol y cyfrifon a *gadwodd ei fab, yr hwn oedd ei ysgrifenydd ef ei hun.* Mae ei lyfrau ef ei hun yn dangos ei fod ef wedi derbyn dros *hanner cant o bunnau*, heblaw dros *ddeugain punt* at ei gynnal ef a'i deulu, a thua *deg punt* at ddillad, mewn *lla*i nâ blwyddyn o amser, heblaw yr holl elw a ddenai oddiwrth y Dosparthu llyfrau Cymraeg a Saesnig. O'r swm uchod y mae tua *deg punt* yn sefyll yn ei ddwylaw ef o gyfraniadau y Gymmadledd at adeiladu Teml yr Arglwydd. Mae efe wedi gwadu hyn, a gwrthod rhoi yr arian i'r rhai y perthynant, eithr cweryla â'r Llywydd Jones o herwydd ei fod yn amddiffyn eglwys Dduw a'r Saint tlodion rhag camddefnydd o'u harian. Am hyny, ystyriaf yn ddyledus i'r Saint a'r Brawd Jones, i roi yr hysbysiad hwn o'r hyn wyf yn wybod; a gwn fod y Llywydd Jones wedi cael digon o achosion i ysgymuno Dewi Elfed Jones er ys mwy nâ hanner blwyddyn, oni buasai ei awydd i'w adferyd, a'm haddunedau innau i fyned gydag ef am wythnosau i'w ddiwygio, yr hyn sydd edifar iawn genyf wneuthur, gan ei fod wedi fy nhwyllo yn hollol trwy ei ragrith. Er hyny buasai yn hawddach genyf faddeu iddo hyny nâ'r

ymgais annuwiol a wna i niweidio y dieuog, ac i wenwyno meddyliau y Saint. Deallaf wrth yr hyn a glywaf gan bawb braidd yn y cangenau lle yr wyf wedi bod, y dengys cyfrifon y cangenau lawer iawn o bunnoedd heblaw yr uchod yn ei law. Ei lyfrau ei hun, pa rai y'nt ar glawr yn "Swyddfa Udgorn Seion" i'w gweled i'r sawl a ammheuo, a ddangosant ei fod yn ddyledwr o'r symiau a nodwyd genyf.

DANIEL DANIELS.

Dymunwn ninnau ychwanegu ein tystiolaeth at yr uchod. fod y symiau a nodwyd uchod, ac ychwaneg, yn ddyledus ar Dewi Elfed Jones yn ol yr hyn a brawf ei gyfrifon ef ei hun o'i dderbyniadau o'r Gynnadledd. Credwn ei fod ef wedi cael cyfiawnder yn ei ysgymuniad, a drwg genym i ni gymmeryd ein twyllo drwy ei haeriadau a'i addewidion teg cyhyd, eithr gan ei fod ef yn gwrthryfela yn erbyn y Llywydd Jones, ac yn ei gamgyhuddo, ystyriwn yn ddyledus i ni amddiffyn y gwir.

EMRYS DAVIES,
WM. RICHARDS, } Cynghorwyr blaenorol D. E. Jones.

Yr ydym ninnau yn tystio, ar ol ymchwiliad manwl i gyfrifon D. E. Jones, ei fod yn ddiffygiol o'r symiau a nodwyd, ac ychwaneg hefyd; gwyddom i'r Llywydd Jones ymddwyn yn garuaidd ato, a gwneyd ei oreu i'w adferyd o'i wyrgamrwydd, a'i fod wedi gweinyddu gormod o drugaredd iddo, a chael casineb yn ol yn ei le yn mhob amgylchiad; a gwyddom fod D. E. Jones yn elyniaethus i'r Llywydd Jones, ac yn dweyd llawer er niweidio ei gymmeriad yn ei absennoldeb er's llawer dydd.

THOMAS HARRIES.
WILLIAM LEWIS.

Dyfyniad o lythyr y Llywydd F. D. Richards wedi iddo ddarllen llythyr amddiffyniadol Dewi Elfed Jones:—

"At y Llywydd Dan Jones.—Anwyl Frawd,—Derbyniais oddiwrth y Brawd Wheelock y llythyr mewnol, yr hwn a ysgrifenwyd gan D. E. Jones, ac anfonaf ef yn awr i chwi, fel y gweloch ysbryd y dyn drwy ei iaith ei hun, ac y byddoch barotach i ymddwyn tuag ato. Dymunaf arnoch ymddwyn yn ddiduedd a didderbyn-wyneb yn mhob achos o'r fath lle y mae diffyg———. Nis gallaf oddef y fath drafodaeth yn yr Eglwys, yn cael ei chyflawni tan fantell gweniaeth ragrithiol o fod yn "wir Formoniad ffyddlon," fel y dywed. Geill llawer un ddweyd "Y mae fy nghalon yn y gwaith hwn o dreiglo y deyrnas hon yn y blaen," tra y treigla hithau y punnoedd idd ei logell, fel y gwnaeth Cynnadledd Orllewinol Morganwg i eiddo D. E. Jones; ond nis gallaf fod mor barod i'w gredu ef

lle y dywed "yr wyf yn barod i ddyoddef un-peth er mwyn yr achos hwn," hyd oni ddychwelo y swm sydd wedi ei gadw a'i defnyddio yn anghyfreithlon ganddo. Yr wyf yn hollol ddigofus wrth y fath ragrith cythreulig a gymmerir i guddio y fath drafodaeth felldigedig. Ymddengys nad oes yr un drysorfa eglwysig wedi bod yn rhy gyssegredig iddo eu dir-droi o'u hiawn ddybenion, a'u cymhwyso at ei wasanaeth personol. Na ddysgwylied efe yr adennilla fy ymddiried a'm cymdeithas i byth, nac y gofynaf i un dyn cyfiawn arall i ymddiried ynddo, neu i gymdeithasu ag ef, hyd oni ad-dalo bob ffyrling a gamddefnyddiodd mor anghyfreithlawn. Fforffetia y fath ddiffygwyr ymddiried, a phechant yn erbyn y tlodion teilwng o bobl Duw, bradychant yr hyder santaidd a gyflwynwyd iddynt genych chwi a minnau, a phechant yn erbyn yr holl Eglwys. Gwell fyddai i'r fath gymmeriadau werthu yr oll a feddant, ymrwymo eu hunain a'u teuluoedd yn gaeth-weision a chaethforwynion mewn gwasanaeth hyd oni ad-dalont y ffyrling eithaf gyda llôg, a rhoddi i'r Eglwys drwy hyny un prawf o'u bod yn onest, nag ymgyndynu â'r awdurdodau am le nac enw o fod yn fyw tra y maent yn farw i gyfiawnder. * * *

"F. D. Richards."

[Nid pleser namyn *dyledswydd* ofidus yw cyhoeddi y blaenorol, ie, a dyledswydd a orfodir arnom gan Dewi Elfed Jones ei hun, drwy ei fod wedi ysgrifenu llythyrau i wahanol fanau, amryw o ba rai a ddanfonir i ni gan eu derbynwyr, gan ffieiddio ei haeriadau maleis-ddrwg i gudddio ei bechodau drwy hardduo y diniwed. Erfynir yr eglurdeb blaenorol o fanau lle yr ysgrifenodd efe yn groes i'r gwir, a theg i'r Saint gael yr ail gan iddo ef roddi iddynt yr ochr gyntaf ei hun. Amddiffyn y gwir rhag gau yw dyled pob dyngarwr, a dyna yw amcan eich—Gol.]

LLYTHYR O SIR FON.

Pentref Benw, Meh. 28, 1855.

Anwyl Frawd Jones,—Defnyddiwn yr adeg bresennol i'ch hysbysu ein bod ni oll mewn gwaith yn bresennol, ac y mae y brawd Daniel Lewis yn Nghaergybi, lle y gall llawer o weithwyr gael gwaith etto. Dywed ein mheistri y bydd eisieu tua chwech o löwyr arnynt yn fuan etto, a charem yn fawr i weled brodyr ffyddlon yn dyfod i fyny, canys y mae yma ddigon o le iddynt i bregethu. Yr ydym yn pregethu mewn amryw fanau bob Sul; weithiau yr ydym yn cael gwrandawiad da, a phrydiau ereill yr ydym yn cael ein rhwystro ar ganol pregethu gan flaenoriaid y Methodistiaid; er hyny nid yw eu hymddyg-

iadau hwy yn cin digaloni gyda gwaith Duw. Yr ydym yn myned oddiamgylch i draethodu ac i bregethu ar hyd nosweithiau yr wythnos. Nid ydym wedi bedyddio neb yma etto, eithr meddyliwn fod rhai yn credu yn ddirgelaidd, ac y cawn afael ynddynt cyn bo hir. Pan ddaeth y brawd Thomas Rees o Rymni yma, bwriadai aros yma ddau fis, ond yn awr erys yn hwy, a charai yn fawr pe caffai ei deulu i fyny; nid oes ganddo ef fodd i'w cyrchu yn awr, ac nis gallwn ninnau ei gynnorthwyo yn bresennol; meddyliem pe y gallech chwi, trwy eich dylanwad, gael gan Saint y deheudir wneyd hyny drosto, a byddai hyny yn fendith iddo ef a ninnau, fel y gallem lettya ganddo yn lle gyda'r byd.

Yr ydym yn teimlo yn dra diolchgar i chwi am eich gofal am danom yn danfon o'ch heiddo i'n cynnorthwyo, yn gymmaint a'n bod ni mewn gwaith cafodd y brawd Lewis eu cadw, o herwydd ei fod mewn anghen. Yr ydym yn benderfynol i wneyd ein goreu tra y byddom ni yma er parotoi i fyned tua Seion, gan ddymuno na fydd ein hamser yn hir yn Babilon, yr ydym yn hiraethu am fyned. Nid yw yn edifar genym am ddyfod yma, canys ein braint yw.

Ydym eich brodyr, a'ch cyd-weision yn yr Arglwydd,

E. S. Morgan, R. Jenkins.
Elias Lewis, W. Vaughan.
Thomas Rees.

ANNERCHIAD CHWAER AT EI CHYD-IEUENCTYD.

Gyd-ie'ngtyd hoff yn eglwys Dduw,
Eich hannerch wnaf os rhowch eich clyw,
Mewn hyder dwys y gwnawn ni 'gyd,
I wneyd ein rhan tuagat y byd.

Wrth gofio gynt y ddirfawr fraint,
A gawsom oll trwy ddod yn Saint,
Mae arnaf hiraeth lon'd fy mryd,
Am wneyd ein rhan tuagat y byd.

Y merched all, a'r gwragedd oll,
Werthu i'r byd y Gair digoll;—
Rhaid tystio'n hy er maint y llid,
Cyn gwnawn ein rhan tuagat y byd.

Ond am y meibion, gallant hwy,
Wneyd dirfawr waith yn mhob rhyw lwy';

Y rhai ennillant drysor drud,
Wrth wneyd eu rhan tuagat y byd.

Fe *wyddom ni* yn awr heb feth,
Fod Teyrnas Dduw yn werth pob peth;
A gwae i'r sawl sy'n ddrwg ei fryd,
Heb wneyd ei ran tuagat y byd.

Gwnawn benderfynu'n ffyddlon fyw,
I annog pawb i winllan Duw;—
Paham arosa'n brodyr cyd,
Heb wneyd eu rhan tuagat y byd?

Ceir gweled llu yn ninas hedd,
Yn nghwmni Crist yn llon eu gwedd,
Y rhai fu maes o bryd i bryd.
Yn gwneyd eu rhan tuagat y byd.

Y diwyd Sant fu'n gwneyd ei waith,
Ga heddwch Duw ar ben ei daith,
A choron aur a pherlau drud,
Am wneyd ei ran tuagat y byd.

Y brodyr aeth i Sir y Fôn,
Sy'n dangos 'nawr mewn didwyll dôn,
Yr unig waredigaeth glud:—
Fel hyn eu rhan a wnant i'r byd.

Na rwystred neb un gwas i Dduw,
I fyn'd i'r maes wrth arch ein Llyw,
Ond unwn oll fel un i gyd,
I wneyd ein rhan tuagat y byd:

Ac yna'r ffordd agora'n Tad,
I ni gael myn'd i'n dedwydd wlad.
A thyna'r ffordd agosa'i gyd—
Trwy wneyd ein rhan tuagat y byd.

MERCH O'R "FRO."

DERBYNIADAU AM LYFRAU O GORPHENAF 6 HYD 19.—A. L. Jones, £1 5s 4c; Wm. Lewis, £2 12s 7c; T. Morgan, £1 10s; E. Middleton, £9; Griffith Roberts, £1; Hugh Roberts, 11s 7c; David Jones, Môn, £1 8s 5c.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Yn mha beth y creda y Mormoniaid	225
Y Taleithian Unol a'n Masnachaeth ddynol	229
Golygyddiaeth.—At Lywyddion Cynnadleddau a Changenau	233
Rhybudd i'r Saint	235
Llythyr o Sir Fôn	238
Annerchiad Chwaer at ei Chyd-ieuenctyd	239

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

RHIF. 16.] AWST 4, 1855. [CYF. VIII.

DEUDDEGFED EPISTOL CYFFREDINOL

Llywyddiaeth Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, at y Saint yn Nyffrynoedd y Mynyddoedd, ac yn wasgaredig trwy y byd,—YN ANNERCH :—

ANWYL FRODYR,—Dan fendithion Rhagluniaeth oruwch-lywyddol er ein cadwraeth, y mae rhwymau adnewyddol arnom o ddiolchgarwch a mawl idd ein Tad yn y nefoedd, gofal amddiffyniadol yr hwn a dro'dd ymaith bicellau marwolaeth, ac a'n cysgododdd, megys â mantell, rhag y ffrewyllau a'r anrheithiau a dywalltwyd ar y ddaear.

Profasom yn wir i'w allu Ef fod drosom er daioni. ac fod y dyffrynoedd pellenig hyn wedi bod hyd yn hyn yn loches-fan ddiogel, yn mha un y cafodd y Saint lonyddwch, iechyd, llwyddiant, a heddwch, tra yr ymwelodd digofaint yr Arglwydd, mewn rhan, â'r cenedloedd. Mae ein calonau yn gyflawn o lawenydd pan yr ystyriwn mor garedig y goruwchlywyddodd yr Arglwydd niwed bygythiol er daioni, ac y tro'dd lidiawgrwydd dyn i'w foli Ef, trwy waredu cynnifer o'i Saint o Babilon ddrygionus, ac o allu eu gelynion, cyn y lleddaenodd ddygwyddiadau gwaeus, cythruddol, a thrallodus anghyfannedd-dra, a gorthrymder dros wyneb y ddaear. Ar yr un pryd teimlwn yn bryderus o herwydd y Saint ffyddlawn hyny ag ydynt hyd yn hyn yn gorfod aros am waredigaeth yn nghanol y fath ddinystriadau dychrynllyd.

Y mae arwyddion yr amserau a'r tymmorau, fel yr ymdreiglant yn gyflym, yn prysur gyflawni geiriau y prophwyd cyntefig, fod "yr Arglwydd wedi cyhoeddi darfodedigaeth ar yr holl ddaear." Yn ngornchwyliaeth y dyddiau diweddaf boddheir ni yn fawr gan ffyddlondeb yr Henuriaid yn myned allan i gyhoeddi cyflawnder yr Efengyl Dragywyddol i blant dynion.

Er fod gwaith mawr yn aros i'w gyflawni, etto, y mae wedi ei gario i gyrau pellaf y ddaear; ac wedi cael ei bregethu i lawer o'r prif genedloedd yn eu hiaith gynhenid. Yn Nghogledd yr Americ, ac yn Mhrydain Fawr y mae wedi ei bregethu a'i gyhoeddi yn llydan. Fe'i pregethwyd ac fe'i cyhoeddwyd yn yr ieithoedd Ffrengaeg, Ellymynaeg, Italaeg, Danaeg, a Chymraeg. Y mae wedi ei gyfieithu hefyd, ac yn barod i'w gyhoeddi yn yr iaith Hawaiiaeg, ac y mae yn debyg y cyhoeddir ef yn y tymmor dyfodol. Yn ychwanegol i hyn y mae wedi cael ei bregethu i'r Yspaeniaid, Llych-lyniaid, Swediaid, cenedl gwlad yr Iâ *(Iceland)*, preswylwyr glânau y Danube, afon yr Aifft, yr Indus, a'r Ganges. Y mae yr efengyl wedi ei chynnyg yn rhâd, gan Henuriaid Israel a deithiasant heb bwrs nac ysgrepan, i'r holl genedloedd hyn, ac i bobl Malta, Affrica Ddeheuol, Ceylon, Siam, Awstralia, yr ynys eangaf a'r mwyaf poblogaidd o Ynysoedd y Môr Tawel, ac i lawer o genedloedd a phobloedd ereill yn eu hiaith gartrefol. Yn mhlith pawb ag y pregethwyd yr efengyl iddynt y mae wedi cael gafael ar fwy neu lai o Israel; eithr teilynga i sylwi mai yn y cyfryw wledydd a freintiwyd â'r efengyl yn oesau cyntefig Cristionogaeth, —a gawsant dystiolaeth yr Iesu a'i Apostolion, y cawn fod y tywyllwch a'r eilun-addoliaeth mwyaf, a'r cymhwysderau lleiaf er deall egwyddorion ein crefydd santaidd, tra ei derbynir yn mhlith y rhanau goleuach, megys Ewrop Orllewinol, sefydliadau y Saeson yn Awstralia, a'r Americ. ac yn yr Unol Daleithiau, gyda mwy o barodrwydd gan yr ymgeisydd gonest a chywir am wirionedd.

Mae y Cenadiaethau yn ystod y flwyddyn fynedol wedi bod yn llwyddiannus anghyffredinol. Derbyniasom newyddion o Awstralia yn dangos cryn gynnydd mewn rhyfedi. ac ymholiad parhaus a chynnyddol am wybodaeth o'r gwirionedd. Oddiwrth y Brawd Jesse Haven, yr hwn sydd o hyd yn llywyddu a

phregethu yn Cape Colony, deallwn fod yno gangen gryno wedi cael ei chyfodi wedi iddo gyrhaedd, y rhan amlaf o blith y sefydlwyr Brytanaidd.

Yn Ceylon ymddygwyd yn ddrwg tuag at y Cenadon, a gorfodwyd hwy yn fuan i adael yr ynys. Yn Siam caniatawyd iddynt i aros, eithr ni wnaethont nemawr argraff, oddieithr yn mhlith y Saeson, ychydig o ba rai a dderbyniasant yr efengyl. Mae y Genadiaeth hon wedi bod dan ofal penaf y Brodyr Luddington a Savage, tan lywyddiaeth yr Esgob N. V. Jones, trigle yr hwn sydd yn Calcutta. Yn y lle yma hefyd, ynghyd â Bombay, Burmah, a Thaleithiau gogleddol yr India crewyd ychydig gynhwrf, a hyny y rhan amlaf yn mhlith y Saeson; eithr gan fod y mwyrif o honynt yn filwyr yn y Fyddin Frytanaidd, rhwystrai y Swyddogion hwy yn aml i fyned i'r cyfarfodydd, nac i ymgyfeillachu â'r Saint mewn un modd. Hefyd, gwrthwynebasant lawer ar y brodyr yn eu hymdrechiadau gyda'r brodorion. Yn Hamburg, a llawer o'r Taleithiau Ewropaidd, mae ein Henuriaid lawer tro wedi cael eu carcharu, ac yn y diwedd wedi cael eu halltudio o'u gororau. Eithr yn mhob un o'r llefydd hyn mae y gair wedi cael ei hau, ac mae y brodyr cartrefol, a feddant hawl i aros, yn pregethu ac yn dysgu yno, fel y dygwydda cyfleusderau, drwy osod sylfaen a ddiweddu o blaid achos Seion, drwy agor y ffordd i bregethiad yr Efengyl, a thori ymaith rwymau penboethni, ofergoeledd, a thywyllwch, sydd wedi caethgludo y ddaear cyhyd.

Yn Lloegr, Ysgotland, Ynysoedd Orkney, yr Iwerddon, Switzerland, Denmarc, Sweden, Norway, Ynysoedd y Cyfyngfôr, rhai parthau o'r Unol Daleithiau, y Taleithiau Brytanaidd, ac Ynysoedd y Môr Tawel, mae y gwaith wedi bod, ac yn llwyddo, gan ychwanegu o hyd at yr Eglwys, ac agor maesydd llafur newyddion eangach.

Yn ein Tiriogaeth ein hunain yr ydym wedi cael ein bendithio â iechyd, heddwch, a llwyddiant anghydmarol. Ymaddfedodd y cnydau, a buont fwy digonol nac erioed o'r blaen yn y dyffrynoedd hyn, er y gwnaethpwyd cryn niwed gan geiliog-y-rhedyn yn mis Gorphenaf, ac yr oedd rhew caled a ia ar y 30ain o Fai, a'r 15fed o fis Medi. Hwn oedd y tro cyntaf, oddiar pan yr ymsefydlasom yn y dyffrynoedd hyn y gallem ddweyd y fod mwy na digon i'r trigolion o lafur wedi ei godi

ac er fod sypyn annysgwyliadwy, anarferol a mawr wedi myned i borthi byddin yr U. D. a lettyent yn ein plith yn ystod y gauaf, o'r 2il o Fedi hyd yr amser presennol, etto i gyd credwn y bydd cyflawnder i'n digoni hyd oni cheir ychwanegiad eto gan gynheuaf arall.

(I'w barhau.)

LLYTHYR O'R DYFFRYN.

Dinas y Llyn Halen, Mai 27, 1855.

ANWYL FRAWD JONES,—Gwyddoch trwy brofiad mai melys yw derbyn llythyr o wlad ein genedigaeth; felly y teimlais wrth dderbyn y llythyr cyntaf oddiwrthych chwi ar y 14 o'r mis hwn, er ei fod yn ddyddiedig oddiar Ionawr 24, 1855. Yr achos iddo fod mor hir cyn cyrhaedd oedd, i'r mail fod dri mis cyn dod i mewn. Mae gwell argoelion iddo ddod yn gysson o hyn allan.

Dymunol genyf yw clywed fod yr efengyl yn myned rhag ei blaen, yn enwedig yn y wlad y bum yn llafurio fy hunan. Gobeithiaf y defnyddia y Cymry bob manteision a gânt trwyddoch chwi a'ch cyd-lafurwyr, fel na fyddont yn ol mewn dim.

Mae fy nawn ysgrifenu wedi cymmeryd ei haden er ys llawer dydd, a rhaid i mi foddloni ar fod yn fyr, ac ymdrechu rhoddi ychydig o hanes y lle hwn, rhag ofn i mi ollwng yn anghof yr hyn wyf yn gofio. Dywenydd genych fydd clywed fod y demi ar waith o hyd, a'i bod i gael ei hadeiladu o wenith-faen *(granite)*, yr hwn a fwriedir ei gludo yma ar hyd camlas o South Cottonwood. Clywais hefyd fod y Gwaith Haiarn mewn llawn waith, a bod galwad am gant a hanner o bersonau yn rhagor er ei gario yn y blaen. Bu y ffwrnais ar waith ddwy wythnos o'r bron, ac aeth y tân allan yn unig o herwydd eisieu help i gael tanwydd. Mae yr adeilad at roddi cynnysgaethiadau wedi ei orphen a'i agor, a rhai o'r cenadon wedi cael eu cynnysgaeth eisoes. Cafodd oddeutu cant a hanner eu danfon i bregethu i'r Indiaid, a thebygol yw y gwneir gwaith mawr trwyddynt. Nid oes neb hyd yn hyn wedi ei benodi i Gymru.

Mae y tywydd wedi bod yn sychlyd iawn hyd yr wythnos ddiweddaf, pryd y gwlawiodd ddigon i ddyfrhau y ddaear yn

dda, yr hyn a ddwg well gobeithion am y dyfodol. Ceiliogod y rhedyn yw ein gelynion gwaethaf yn awr, ond gobeithiwn y cânt hwythau eu gorchfygu cyn y gwnant lawer o niwed.

Mae llawer iawn o adeiladau gwychion yn y ddinas hon yn cael eu hadeiladu yn feunyddiol; ac os Duw a'm llwydda, yr wyf innau am orphen tŷ i'm hunan cyn y gauaf nesaf, os bydd yn bosibl.

Mae y brawd W. S. Phillips yn byw mewn lle a elwir Box Elder, oddeutu 60 milltir oddiyma, ac wedi troi yn ffermwr.

Synais yn ddiweddar wrth weled Sarah, gwraig David Evans, gynt o Gaerdyf, yn cerdded mor syth ac ystwyth, pan gofiwn nas gallai symud cam yn yr hen wlad, gan weddid yn ei chefn. Dywedais wrthi ar y pryd yr ysgrifenwn am dani yn fy llythyr.

Terfynaf y llythyr hwn, gan ddymuno arnoch fy nghofio at yr holl Saint a'r swyddogion, ac yn neilltuol atoch eich hunan a'ch Cynghorwyr.

Yr eiddoch yn y gwirionedd,

JOHN DAVIS.

DYLED CYNNADLEDD ORLLEWINOL MORGANWG.

MEWN Cymmanfa a gynnaliwyd yn y dref hon ar yr 21ain a'r 22ain o'r mis blaenorol, galwyd sylw y Saint at y dyledion sydd wedi bod yn sefyll ar y gyfran hon o winllan Duw, rhai o honynt er ys blynyddau, ac er ein syndod a'n mawr lawenydd cafwyd dros gant o wirfoddoliaid a floeddiasant allan eu henwau i gyfranu dros £70 o arian tuag at eu dyled mor gynted ag y bo modd, yr olaf o honynt yn ystod y chwarter hwn. Er canmoliaeth i'w haelioni parodol, er dangos faint eu cariad at achos yr Arglwydd, ac fel y dywedo eu hesiampl hon wrth bawb ereill sydd mewn dyled, – "*Ewch a gwnewch yr un modd*," cydnabyddwn eu taliadau yn yr UDGORN mor gyflym ag y deuant i'n llaw, fel y gwelo eu heppil hefyd waith eu tadau; ac wrth barodrwydd anghydmarol ein chwiorydd anwyl i roddi eu henwau credwn eu bod hwythau am gadw eu hunain yn nghoffadwriaeth y cyfiawn, a phrofi nad euog y'nt o'r esgus a ddyry ambell ŵr rhag cyfranu at achos Duw. Ni all y dynion hyn ddweyd fel y dywedodd ein hen dad Adda am eu briod, "y wraig a roddaist i mi," hi a'm lluddiodd, mwyach. Credwn mai

esgus fenthyg oedd hona gan amlaf; diolchwn i'r chwiorydd am fod eu parodrwydd presennol wedi profi ein bod yn syniedd yn gywir am eu haelioni; a dywedasom mai hwy fyddai y cyntaf i gyflawni, credwn hyny hefyd, a chredwn y profant hwy ein gair yn wir hyd y bo yn eu gallu - maent yn mlaenaf hyd yn hyn! Llawenhawn yn y sêl hon dros Eglwys Dduw, o herwydd dyry brawf chwanegol o rym eu cariad ati, ac agora eu calonau a'u llogellau fel y caffo y Duw hwnw a dâl ar eu canfed, le agored a theilyngdod i arllwys ei fendithion ysbrydol a thymmorol iddynt. Os siomir un yn hyny, hysbyser ni ar ddiwedd y chwarter.

Am y cyntaf y rheddasant yr addewidion hyn, a than wênu —pa faint mwy fydd eu gorfoledd pan yn *cyflawni*? Amser a brawf.

Mae y llyfrau yn agored i ychwaneg o enwau, a'r Swyddfa i'r taliadau. Gweled Llywyddion y Cangenau fod y rhai nad ydynt yn cyfranu fel hyn, yn cyfranu yn wythnosol, a chofrestrer y swm ar y "Tafleni." Deued y Llywyddion a chyfraniadau ac enwau y gwirfoddoliaid na allant ddyfod yma, gyda hwynt i'r Cynghorau, a throsglwydder gyda eu gilydd, neu ymuned y rhai fydd yn barod yr un pryd i gael swm, a danfoner hwynt a'r enwau drwy y *Post Office*.

Bwriedir cyhoeddi enwau y sawl na thalo erbyn diwedd y chwarter, os bydd y fath un, fel y gallo y lleill ei gynnorthwyo i gyflawni ei addunedau, os metha, canys "gwell bod heb addunedu, nag wedi addunedu beidio talu," medd Duw. "Eithr, lle mae ewyllys ceir ffordd."

Heb gredu y buasai y brodyr mor haelionus, addawsom eu cynnorthwyo i dalu eu dyled; ond, *safwn at ein gair* yn ôl PHLESER, er nad oeddym gyfranog o'i greu, nac yn cael dim elw o hono ein hunan; etto, mae ein hawydd mor fawr i weled achos Duw allan o ddyled, fel y meiddiasom addaw talu cymmaint â hanner dwsin o'r brodyr a roddai fwyaf oedd yn y cwrdd boreu, yr hyn a welir ar gyfer ein henw, ac y mae wedi cael ei dalu, ond nid yn *gyntaf* fel y meddyliasom—aeth *dwy chwaer* o'n blaen er ein gwaethaf! Nid ymffrost, ond eglurhâd o'r hyn a wnaed yw hyn. Pwy a wna yn well? Gall llawer un.—A ganlyn yw enwau y rhai a dalasant hyd y laf o Awst: —

	£	s.	c.
1. Mary Morgans, Castellnedd . . .	0	2	6
2. Sarah Walters, Cangen Seis. Abertawy .	0	2	0
3. Llywydd Dan Jones	7	16	0
4. Thomas Harries, Gynt o Dre-Sior . .	0	10	0
5. Margaret Harries, ei wraig . . .	0	10	0
6. John Walters, Cangen Seis. Abertawy .	1	6	0
7. Esther Walters, ei wraig . . .	0	7	0
8. William Lewis, Abertawy . . .	1	0	0
9. John Treharn. Aberafon . . .	1	5	0
10. John Jones, Cwmbach	2	10	0
11. David John, Glandwr Abertawy . .	0	2	6
12. Elizabeth Jones. Abertawy . . .	0	2	6
13. Thomas Lewis, Treboeth . . .	0	5	0
14. Margaret Lewis, ei wraig . . .	0	5	0
15. John Evans, Treboeth	1	0	0
16. Richard Brooks, Cangen Seis. Abertawy	0	5	0
17. Mary Jane Cutliffe, Etto . . .	0	3	0
18. Benjamin Evans, Cyfyng, . . .	0	5	0
19. Henry Mathews, Abertawy . . .	1	0	0
	£18	16	6

D.S. Mae rhai ereill wedi talu cyfran, eithr ni chydnabyddir hwynt drwy yr UDGORN, hyd oni chyflawnant eu haddewidion.

MYNEGIAD CYFRIFIADOL.

O EGLWYS IESU GRIST O SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF YN NGHYMRU, AM YR HANNER BLWYDDYN YN TERFYNU MEHEFIN 30, 1855.

LLYWYDD,
Dan Jones.

CYNGHORWR.
Daniel Daniels.

Cynnadl.	*Cang.*	*A.*	*H*	*O*	*Ath.*	*Di.Tor*	*Ma*	*Ym*	*Bed*	*Oll.*	*Llyw.*
Morganwg Ddwyr.	34 0	259	83	97	54	124	12	102	80	1741	R. Evans.
Morganwg Orllew.	18 1	77	32	21	19	13	3	6	38	445	Dan Jones.
Sir Fynwy	20 0	82	22	27	13	30	2	13	34	509	T D. Giles.
Sir Frycheiniog ..	7 0	28	4	5	5	7	0	2	9	138	T. Morgan.
Llanelli.....	11 0	63	17	6	12	12	5	7	30	313	Ben Jones.
Caerfyrddin.....	7 1	20	7	4	4	14	2	8	12	132	T. Jenkins.
Dean Penfro	12 0	28	5	2	7	6	2	11	15	189	John Price.
Gogledd Penfro..	4 0	11	2	0	1	2	3	10	1	33	T. D Evans
Sir Aberteifi	5 0	14	4	1	1	3	0	3	1	106	Ben. Evans.
Sir Feirionydd ..	6 0	14	7	2	2	0	0	0	1	75	John Davies
Sir Fflint.....	5 0	20	4	4	3	3	0	7	15	125	L. Davies.
Sir Ddinbych	4 0	14	4	4	2	4	3	2	5	113	John Parry.
Môn a Conwy....	6 0	22	7	3	2	4	1	11	3	97	Wm. Lewis.
Cyfanswm....	139 2	652	198	176	125	222	33	182	244	4016	

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, AWST 4, 1855.

Epistol y Brif-Lywyddiaeth.—Gwledd i garwyr Seion yn ddiau, os nad i'n holl ddarllenwyr, fydd darllen, myfyrio, a chnoi eu cîl ar yr egwyddorion nefolaidd a gynnwysa; arddangosant ofal cynnyddol ein tadau yn yr Arglwydd dros lesiant plant gwasgaredig Seion,—mawr diriondeb Duw at Seion yn ei holl amgylchiadau tymmorol ac ysbrydol, a chynnwysa destunau gorfoleddu yn y gobeithion am y dyfodol yn fwy nag erioed o'r blaen.

Dyfodiad y cyfnod argoelus pan yr anfonir yr efengyl i hâd Abraham, gan ddechreu yn mhlith eppil yr hwn a gafodd yr enedigaeth fraint, sef Joseph, gweddillion yr hwn yw yr Indiaid Americanaidd, sydd gyflawniad o hen addewid Duw, a adnewyddwyd drwy y Prophwyd Joseph, ac a ddysgwylid yn hiraethog gan y Saint—rhagredegydd i gasgliad y llwythau ereill i Jerusalem, ac i "waith mawr a dyeithr y Tad"—wele ef wedi dyfod. Mae y gyfraith *wedi* myned allan o Seion drwy yr "helwyr a'r pyscotwyr" wrth y cant a hanner ar unwaith, a channoedd o hâd Ephraim yn mwynhau Ysbryd eu tadau eisoes! Awgryma hyn i ni fod "amser y cenedloedd" bron a dyfod i ben, ac mai byr waith sydd yn ngweddill.

Ymddeffrown oll i gyflawni ein rhan, a'n pleser fyddo drachtio o ysbryd Seion, drwy gydymffurfio a chyflawni yr oll a orchymyna yr Epistol hwn.

Newyddion o'r Dyffryn.—Dywenydd genym hysbysu fod genym lawnder o newyddion da yn chwanegol i'r hyn a gynnwysa yr Epistol, a dderbyniasom oddiwrth frawd hoff, priod anwylaidd (yr hon a ddymuna anfon ei chofion caredig at y Saint Cymreig, yn neillduol ei chydnabod), ac a dderbyniasom drwy y "Deseret News," a thrwy garedigrwydd ein hanwyl Gynghorydd, ac ereill, yn rhoi eu llythyrau at wasanaeth y

cyhoedd; er hyny, esgusodir ni o herwydd pwysigrwydd pethau ereill am gadw y gweddill hyd y nesaf, ond llythyr ein parchus Frawd Davis. Addawwn yn deg eu dyddanu y pryd hyny.

Y Gwirpoddoliaid.—Mae galwad taer o bob cŵr o Gymru, gan y Llywyddion a'r byd, am chwaneg o'r gwroniaid hyn i'w plith. Geilw y Bugail J. Parry a Lewis Davies yn daer a mynych ar frodyr y Deheu i ddyfod i deithio yn eu Cynnadleddau cyn yr elo y tywydd ffafriol hwn heibio. Frodyr, nac aroswch i hogi eich crymanau nes yr elo y cynheuaf heibio! Edrychwn yn ddyddiol am danoch yn dilyn sodlau y brodyr ffyddlon a aethant y ffordd hyn yn ddiweddar! Nac oedwch, yn enwedig y rhai a roddasant eu henwau eisoes. Deued ereill a allant gyda eu henwau ar frys. Geilw Wm. Lewis, Môn, yn gysson o wythnos bwy gilydd, am gynnorthwy i Siroedd Môn ac Arfon, a thir Llŷn, yr hwn sydd gyfran helaeth o Gymru heb neb o blith y degau o filoedd a gynnwysa yn Saint, na neb wedi ceisio nemawr ganddynt ddyfod erioed chwaith. Diau fod miloedd yn Nghymru etto heb glywed yr efengyl, tra mae lluoedd o bregethwyr yn syfrdanu clustiau miloedd ereill â'u pregethu, y rhai na fynant mo yr efengyl. Frodyr, chwiliwch y rhai gonest, a rhybuddiwch yr oll yn ddidderbynwyneb, canys byr amser sydd genych, cofiwch. Deuwch, ynte, ac nac oedwch! Chwilied Llywyddion gyda ni am wirfoddoliaid yn eu Cynnadleddau, ac anfonant hwynt yma yn ddioed.

Bro Morganwg.—Mae yr Henuriaid Wm. Jones J. Treharn, David Evans, &c. yn ffurfio gosgordd o'n byddin i ryfela dros yr Iesu yn y wlad helaeth hon, a galwant am ychwaneg o help. Yr Arglwydd a fendithio eu llafur yn fawr. Saint yr Arglwydd! gweddiwch dros y gwirfoddoliaid, ac am fendith ein Duw ar eu llafur. Mae ein tudalenau yn rhy fychain o lawer i ni ddweyd y filfed ran o'n teimladau ar y pen hwn, ond hyn a ddywedwn o'n calon, Ysbryd ein crefydd fel tân â'n hyso gan sêl dros achubiaeth eneidiau a bywydau ein cyd-ddynion rhag yr aflwydd sydd bron ar eu gwarthaf eisoes!

At y Llywyddion.—Ein hesgusawd dros beidio gohirio y sylwadau a ddylyna ar y testun hwn, yw y pwysigrwydd mawr a welwn ynddo, a'r llwyr anghen sydd i ymchwiliad manwl a

thrwyadl i, a diwygiad buan yn Nosbarthiad y llyfrau, y *dyledion* am danynt a geisiem ddweyd, a hyderwn na fydd ein cais yn aneffeithiol!

AT LYWYDDION CYNNADLEDDAU A CHANGENAU!

Dyledion am Lyfrau.—Mae mawr anghen diwygiad cyffredinol—*trwyadl* mewn rhai manau yn yr oruchwyliaeth bwysfawr hon perthynol i eglwys Dduw. Wedi hir wasgu ein clustiau gan ddysgwyl i'r addunedau a geid esgor ar ffeithiau a lleihau y dyledion am lyfrau, a'i weled er hyny yn cynnyddu yn gyflym o hyd, heb nemawr eithriad, gorfoda y ffaith ofidus—ddrwg-argoelus hon ni i alw sylw y rhai y perthyna at yr achos o hyn, ac i ddyfeisio a gweinyddu meddyginiaeth anffaeledig a buan iddo.

Dallineb hollol a achosa i neb feddwl fod talu am y llyfrau a gyhoeddir gan eglwys Dduw yn ormod o dreth arnynt; diffyg chwaeth yn eu cylla ysbrydol am ymborth i'r enaid yn unig a faga y clefyd marwol yna yn y meddwl, canys hollol groes yw y ffaith; eu lleshâd penaf hwy yw y prif ddyben o gyhoeddi, ac mae eu lles yn gynnwysedig yn eu pryniad hwythau o'r llyfrau, eu darllen, eu gwerthu, ac mewn *talu am danynt yn brydlon*. Lleshâd y Saint sydd yngolwg gweision Duw yn cyhoeddi egwyddorion y bywyd drwy y wasg yn gystal a thrwy eu pregethu iddynt, a'r sawl na foddlona i dalu traul y naill fel y llall yn gyfiawn, a fforffetia ei hawl i'r lleshâd o wasanaeth y naill fel y llall. Eithr ni raid i ni ymresymu ar y pen yna; nid diffyg chwaeth y Saint am lyfrau, ac nid eu hesgeulusdod i dalu am danynt yw y prif achos o gynnydd y ddyled, ysywaeth, er fod lle, a mawr anghen gwelliant yn hyn, fel y profwn yn fuan.

Yn mhlith y Dosparthwyr yr ydym wedi cael yr annhrefn mwyaf oll. Drwy ymchwiliad i'r fusnes hon yn ddiweddar yr ydym wedi cael gafael ar rai allweddau i ddadgloi y dirgelwch o gynnydd y dyledion am lyfrau; sef, fod yr îs-ddosdarthwyr yn rhy fynych heb gadw cyrifon o'u derbyniadau ond eu côf, ac heb ystyried cyssegredigrwydd yr arian hyn, yn eu cael yn gyfleus iawn i ateb eu gofynion personol, i dalu y shop, i brynu gŵn newydd i'r wraig, traul taith i ddwfr y môr, i rodiana, neu

unpeth arall a fo galw ar y pryd; yn bwriadu eu talu i'r prif ddosparthwr rhyw amser pennodol, bid siwr, pan gaffo y "*draw*," y "*pay*," neu ryw arian mawr ar ol marwolaeth hen fodryb, neu arian dirifedi sydd yn llwydo er ys oesoedd yn y *Chancery* ar fîn dod i'w grafangau ef! O na, dim meddwl am anonestrwydd yn y peth wrth gwrs, ond methu cael ei amcan ar y pryd addawedig, nid oes ond addunedau i'w cael am yspaid, hyd nes bydd y rhai hyny wedi suro, ac yntau wedi crino, —Ysbryd Duw wedi cilio oddiwrtho fel oddiwrth blâ, ac erbyn hyny cewch dafod drwg os gofynwch am arian, allan ag ef i'r byd wed'yn dan gredu ei fod yn rhydd yno oddiwrthynt! Os oes Llywyddion Cangenau yn adnabod rhyw bethau yn debyg i'r darlun uchod, gofynwn iddynt ein hysbysu ar bwy yr oedd y bai mwyaf am adael i'r fath un gael rhaff mor hir? O na, ni ddylid caniatâu i Ddosparthwr na Llywydd ddefnyddio un geiniog o arian y llyfrau, nac unrhyw arian arall at ddim ond yr hyn y perthynant. Os bydd îs-ddosparthwr heb dalu i bob cynghor, chwilied y llywydd i'r achos o hyny yn y fân, ac os na chaiff foddlonrwydd dyger ef i Gynghor, ac os yn anghyfiawn, nid yn unig symuder ef o fod yn Ddosparthwr, ond gwneled iawn cyfaddas a boddhäol i'r holl Saint am ei drosedd yn eu herbyn, canys gwas i'r Gangen yw yr îs ddosparthwr, o'u dewisiad eu hunain, a hwy ydynt ei feichiau i dalu ei ddyled. Felly am y prif ddosparthwr i'r Gynnadledd; a dyledswydd y Llywydd yn arbenigol yw gosod dynion i chwilio i'w fusnes, a dyledswydd unrhyw un a ŵyr fod esgeulusdod yn hyn yw hysbysu hyny i'w Lywydd, ac yna, os na ddiwygia, i ni. Felly yn y gangen hefyd.

Er mwyn rhagflaenu annhrefn o'r fath, a hwyluso i iawn drefnu cyfrifon, cyhoeddasom dafleni pwrpasol i'r Dosparthwyr i wneyd i fyny y llyfrau ar law yn ol pris y Swyddfa, a dyledion y cangenau ar y naill ochr, a gofyniadau y Swyddfäau i'w cyferbynu ar yr ochr arall, y gwahaniaeth a brawf ddyled personol y Dosparthwr, yr hyn, gweled pob Llywydd ei fod yn cael ei dalu ar y pryd. Gyda hyn o eithriad, gall yr un tafleni ateb i'r îs-ddosparthwyr, sef, na chaniateir iddynt gyfrif dyledion personol ar eu tafleni, canys y mae coel yn hollol waharddedig gan gyfraith yr eglwys. Eithr os dewisa y dosparthwr gymmeryd arno y cyfrifoldeb o wneuthur hyny o gymmwynas

i'r derbyniwr neu dderbynwyr am yspaid, craffer, mai ar ei gyfrifoldeb ei hun y gwna hyny. Gwelsom restri hirfaith-*golofnau* meithion yn ddiweddar o enwau personau dyledus am lyfrau, ac ar eu cyfer, o ychydig sylltau hyd bunnoedd! Hawyr! pa syndod fod amryw o honynt wedi digio Duw drwy hyny, a gwrthgilio yn ddiau o'r eglwys o'r herwydd, rhai mewn gwledydd ereill, oddiyma hyd Awstralia, ac enw ambell swydd-og heb dalu am gymmaint ag un geiniog am *Udgorn* er ys mwy nâ blwyddyn. Dim llai nâ £9 14s o ddyledion personol fel hyn heb nemawr neb yn gyfrifol mewn un gangen, a swmiau llai mewn manau ereill! Frodyr, mae y fath wastraff ar eiddo Duw yn anghyfiawn hollol! Ni ddyry Duw oruchwyliaeth fwy i'r sawl a allant fod mor ddiofal ac afradlon mewn stewardiaeth mor fechan â llywyddu Cangen, neu ddosparthu llyfrau! At gario ei waith Ef, cofier, y mae elw y llyfrau (pe bae elw yn lle colled yn bod hefyd) i gael eu defnyddio, sef er ymfudo y tlodion tua thref. adeiladu Seion, a'i themlau, &c. Diwygier, ynte, Frodyr. *Bydded i bob dosparthwr fyned yn ddioed at y dyledwyr hyny, a chael ganddynt dalu* yn ddioed—deg i un ar nad hawddach cynt nâ hwyrach i wneyd hyny; ac os metha lwyddo ysgrifened eu henwau a'r swmiau dyledus yn gywir, a rhodded ef i Lywydd y Gangen i'w ddarllen ar gyhoedd y cwrdd Saint nesaf, ac os na etyb y rhybudd barned cynghor o henuriaid y Gangen beth fydd ei haeddiant. Gwneler hyn goreu po cyntaf, canys os gwelir wedy'n y bydd colled anocheladwy drwy ysgymmundod, neu, os o herwydd tlodi y bydd y Gangen mor haelionus â thalu dros y gonest tlawd, goreu po cyntaf iddynt gael deall pa faint fydd, *a'i dalu yn y fan. Dylid gwneuthur hyn bob chwarter, a gwneyd casgliad bob chwarter i wneyd i fyny y golled os bydd colled yn y chwarter*, o herwydd rhyw ddiffygiadau, yr hyn, os na ellir ei rwystro yn hollol o hyn allan, a ragflaenir hyd y gallo y Llywyddion, hyderwn.

O dan bob amgylchiad mae y Dosparthwr yn gyfrifol am yr oll a dderbynia hyd y gallo dalu, canys. fel y nodwyd, heb genad y Gangen ni fedd hawl i roddi coel drosti, nac i ofyn iddi dalu yr hyn a goelia efe allan. Tra mai pleser fydd gan bob Cangen dalu pob dyledion gonest dros dlodion, gobeithiwn y rhagwela y Llywydd y cywilydd a'i hamdöa ef os gadawa i

unrhyw anonestrwydd personau gael ei dafln yn faich ar ei Gangen!

Dyledswydd y Llywyddiaeth hefyd yw cynnorthwyo y Dosparthwr, drwy annog yn y cyrddau, &c., i brynu, ac am i'r oll a ddymunant les dynion a ffafr Duw ei gynnorthwyo i werthu y *stock* ar law yn mhob dull a allant; canys y mae traethodu yn llesiol fel pregethu, llywyddu, neu unrhyw gyfran arall o'r gwaith a ofyna Duw genym, ac fe'i gwobrwyir fel y cyfryw.

Mae un peth arall ag y dymunwn alw sylw Llywyddion a Dosparthwyr ato, mewn cysylltiad â dosparthu llyfrau, sef fel y canlyn:—caniateir elw am werthu y llyfrau o tuag un bunt o bob chwech, saith neu wyth, yn ol yr hysbysiad ar y llyfrau. mae y drydedd ran o hyn i'r îs-ddosparthwr, a'r ddwy ran arall i'r prif; yn awr, nid cyfiawn eu bod hwy yn trosglwyddo gwerth wyth neu ddeg punt o'u dwylaw, ac heb hidio cymmaint am dderbyn yr arian am danynt, ond am y caffant eu rhan hwy i mewn! Nid Dosparthwr ffyddlon, os *gonest*, yw yr hwn a gadwo y gyfran ddyledus iddo ei hun yn gyntaf, fel "ysgub y cwhwfan," heb ddwyn y cynheuaf i mewn i'r Swyddfäau. Mae yn wir ei fod ef i gael ei ddigolledu, trwy fod y Gynnadledd neu y Gangen yn feichiau iddo, etto ni ddylai godi ei dâl o arian y blaenffrwyth am yr oll a ddyry allan, onide, gwelir ei fod ef wedi medi y brasder oddiar yr oll sydd yn sefyll ar law yn mhob cangen, heb wneyd nemawr neu ddim ymdrech i'w gwerthu, efallai. Cofier nad *chwalu* eiddo yr Eglwys, po fwyaf yw swydd Dosparthwr, ond y mae *casglu* yr arian am y cyfan yn gymmaint dyledswydd arno â'r *gwasgaru*, a'u *talu* i'r Swyddfäau yn *ddiwed* mor bwysig a'r naill a'r llall. Gwelir yn amlwg y byddai caniatau i'r Dosparthwr i dalu ei hun o'r arian cyntaf a ddelo i'w law am ei ran ef o'r oll a aeth allan, yn rhoi skimer yn ei law i hela yr holl hyfen melyn oddiar ddysglau llaeth ei gymmydogion, a gadael ei olynwr i werthu "llaeth skim," heb ddim tâl am ei drafferth, neu i'w gadael i lwydo yn y fan, ac anfon am ereill fel y gallai yntau wneyd yr un modd! Eithr nid felly, frodyr, y dysgasom ni Grist, ac nid fel yna y dylai neb wneyd â'r eiddo a ymddiriedodd Duw dan ei ofal. Ymdrech deilwng y Dosparthwr yn unig i gasglu yr *oll* sydd ddyledus a'i teilynga i gael ei ran o'r

arian a dâl i *mewn*, ac nid i'w dalu ei hun, yr oll am y cyfan *aiff allan*, o'r ychydig a ddaw i'w law gyntaf.

Mae canlyniadau creill etto o beidio talu am eu llyfrau, ag ydynt bwysicach a mwy niweidiol fyth, nâ'r oll a nodwyd, yn enwedig i'r dyledwyr, sef, y ffaith o fod yr esgeulusdod, os nad yr *anonestrwydd* hyn yn digio Duw, ac yn amddifadu yr euogion o'i Ysbryd Glân. Mae hyn yn ffaith alarus, eithr wedi ei phrofi yn ddiammheuol i laweroedd, heblaw i nyni, drwy ormod o esiamplau: ac os oes un a ammheua, chwilied i hanes gweithredoedd y dynion hyny sydd yn llesg, yn glaiar gyda'r achos, ac yn dirywio i dywyllwch, ac oni chânt allan brofion digonol mai dyma ddechreuad y malldod—y mwsagl a wywodd ireidd-dra y pren, os nad dyma wreiddyn y drwg a dechreuad y ddarfodedigaeth andwyol ar naw o bob deg amgylchiad, argyhoedder ni o'n camsynied. Mewn arholiad i'r plâ angeuol hwn o flaen Cynghor o ugeiniau o swyddogion yn ddiweddar, cyd-dystiau llaweroedd eu bod hwy wedi cael profion eglurhâol mai y rhai tlota a mwyaf diffrwyth bob amser braidd oedd y rhai a gyfranant leiaf at gario achos Duw yn mlaen, ag ydynt hwyrfrydedicaf i dalu am eu llyfrau, hyd nes mae yn ddiareb gyda llawer mai canlyniadau dieithriad braidd o'u hesgeulusdod o'r dyledswyddau pwysig hyn yw eu tlodi tymmorol ac ysbrydol. Ac onid yw hyn yn egwyddor gydrywiol â phob egwyddor arall yn eglwys Dduw? Onid yn ol eu gweithredoedd y mae Duw yn talu i'w holl blant? Gŵyr pob Sant mai po ffyddlonaf y cyflawna efe ei ddyledswyddau y bendithia Duw ef; mae hyny yn profi hefyd mai po leiaf a wnelo lleiaf a gaiff, po leiaf a gyfrana at achos Duw po leiaf a fendithia Duw ar y gweddill a feddo. Os nad gwir hyn yn mhob peth nid gwir yn unpeth; os nad gwir mewn pethau arianol nid gwir yn yr hyn a elwir yn fwy ysbrydol; ac os felly, nid dwyfol y grefydd a ofyna y naill beth na'r llall. Lleshâd personol y diffygiol a'n cymhella i alw sylw manwl Llywyddion at hyn, ynte, yn ogystal â phethau ereill. Holed y dyn ef ei hun ag sydd yn teimlo ei hun yn myned yn dlotach, po fwyaf a wingo yn ei erbyn, a phan deimlo fod Ysbryd Duw yn cilio yn raddol oddiwrtho, chwilied i mewn onid ei esgeulusdod i dalu i Dduw a'i achos ei gyflawn ofynion yw y prif achos o hyny! O leiaf, mae yn ffaith rhy anhawdd ei chuddio fod argoelion o wên y nef—ffyn-

iant a bendith ar gorff ac enaid y cyfranwr haelionus, ar ei deulu a'i feddiannau, tra y mae effeithiau hollol groes ar ei gymmydog agosaf sydd a'i galon rhy gauedig i gyfranu ychydig o'i lawer i'r Duw sydd yn benthyca y cyfan iddo, a'i *einioes* heblaw hyny.

Mae Llywyddion yn ddiwyd ganmoladwy i anfon yr athrawon, a myned eu hunain ar ol ac i geisio adferyd y rhai llesg i fywiogrwydd, eithr pe yr iawn ddeallent eu clefyd, annogent hwynt yn y lle cyntaf i wneuthur cyfiawnder â Duw yn y pethau hyn—dyma wreiddyn y drwg, neu yn nes iddo nag y meddyliodd llawer! Dyma ffordd effeithiol i adferyd y llesg, ynte, i ffyddlondeb. Gwir mai chwerw yw physigwriaeth bob amser braidd, felly yma; etto, po chwerwaf yw i'r genau po fwyaf ei anghen ar y cylla, ac felly yn hyn. Annogwn y claf o'r clefyd hwn i gymmeryd y feddyginiaeth anffaeledig hon er mwyn ei gorff, ei gysur, a'i enaid.

Nac ystyrier ein bod yn dweyd yn rhy eglur ar y mater hwn, ac ni feddylia y dieuog hyny ychwaith, ein dyled yw i'r Saint gonest, ac i'r anffyddlon er eu hadferyd i eglwys Dduw, yn ol yr oruchwyliaeth a ymddiriedwyd i ni i ofalu dros y pethau hyn; ac mae y dyfodol argoelus yngwyneb y ffaith ofidus o fod dyled y Cynnadleddau Cymreig i'r Swyddfa hon wedi cynnyddu £123 7s 8¾c yn yr hanner blwyddyn olaf, ac i Swyddfa Liverpool yn gyffelyb, hyd nes y mae yn aros i'r flaenaf yn awr yn ddyledus am lyfrau y swm o £616 11s 9¼c, ac i'r olaf nemawr lai; mae y symiau dirfawr hyn yn ein symbylu i alw pawb at eu dyledswydd.

Yn ngwyneb hyn nid ydym ni wedi cyhoeddi yr UDGORN ond ar yn ail yn lle bob wythnos, fel yr oedd cynt, ac yn y chwarter mynedol, heb anfon nemawr draethawd dimeu i unman, pan y gwyddom yn dda ddigon fod yn ngallu y Saint i werthu amryw filoedd o draethodau bob wythnos, heb gostio iddynt geiniog o'u harian, ond eu ffyddlondeb, pe gwnelent hyny. Eithr mae y ffaith fod y dyledion yn cynnyddu po leiaf o lyfrau a gaffant, yn y cyfartalwch, yn profi yr anghen o'r sylwadau hyn, ac ymchwiliad trwyadl y Llywyddion i'r achosion o hyny, ac i weled fod iawn drefn, cyfiawnder a ffyddlondeb yn hyn fel yn mhob peth arall, rhag ofn y bydd Ysbryd Duw yn ymadael yn hollol â hwynt, o herwydd eu hesgeulusdod; ac yr ydym ni mor ddi-

ysgog yn y pwnc hwn fel na chredwn y bendithia Duw eu hymdrechiadau â llwyddiant lawer, hyd oni lanhânt eu heglwysi o'r "Acan," neu y "Jona" hwn. Dysgwyliwn fwynhau y pleser o weled effeithiau y sylwadau hyn, drwy fod y Llywyddion yn deffroi at y gwaith o ddifrif, yn dethol y llyfrau sydd ar law yn eu cangenau yn gyfrolau, &c, yn lân a threfnus yn y *stock* ar law, a rhoi y rhai nad ydynt farchnadol yn nwylaw y Saint i'w gwerthu hyd y gellir, a thalu i'r dosparthwr am danynt. Caffer iawn drefn ar hyn, a dilyner yn mlaen mewn cyfiawnder, a cheir bendithion nef a daear yn gydfynedol â hyny, yn gan-waith mwy nag y dychymygodd neb.

DYLEDION AM LYFRAU AR Y GWAHANOL GYNNADLEDDAU, AM Y CHWARTER YN TERFYNU, MEHEFIN 30, 1855.

Mynwy, £65 11s 2¼c; Dwyreiniol Morganwg, £175 15s 1½c; Brycheiniog, £9 17s 11c; Gorllewin Morganwg, £154 8s 6¾c; Llanelli, £61 4s 8½c; Caerfyrddin, £27 10s; Sir Aberteifi, £16 14s 10¾c; Sir Fflint, £22 10s 5¾c; Dyffryn Conwy, £12 3 4¾c; Dinbych, £17 18s 0¾c; Gogledd Penfro £7 7s 7½c; Môn, £18 15s 4¼c; Cang. Gym. Liverpool, £2 8s 5c; Sir Henffordd, £4 2s 1c; Meirionydd, £13 17s 11¾c; Deheu Penfro, 6s 4¼c; Swyddfa Liverpool, £5 19s 7¾c.—Cyfan £616 11s 9¼c.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O GORPHENAF 19 HYD 31.—B. Evans, £2; B. Jones, £9 1s 7½c; G. W. Davies, £3 6s 5c; C. Harmon, 8s 2c; W. Lewis, Gorllewin Morganwg, £5 2s 7c.

☞ Gwthiwyd Hanes Cymmanfa Gyffredinol Seion, a hanes dyddanus amryw Gymmanfaoedd Cymreig, ynghyd â gohebiaethau dyddorol allan o'r rhifyn hwn, y rhai yr ymdrechwn wthio i mewn iddo y cyfleu cyntaf.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	Tud.
Deuddegfed Epistol Cyffredinol	241
Llythyr o'r Dyffryn	244
Dyled Cynnadledd Gorllewinol Morganwg	245
Mynegiad Cyffredinol	247
Golygyddiaeth.—Epistol y Brif Lywyddiaeth.—Newyddion o'r Dyffryn, Y Gwirfoddolhaid—Bro Morganwg.—At y Llywyddion	248
At Lywyddion Cynnadleddau a Changenau	250

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 17.] AWST 18, 1855. [Cyf. VIII.

DEUDDEGFED EPISTOL CYFFREDINOL

Llywyddiaeth Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, at y Saint yn Nyffrynoedd y Mynyddoedd, ac yn wasgaredig trwy yr holl fyd.

[Parhad o dud. 244.]

Y mae ein gweithfeydd cyhoeddus wedi myned yn eu blaen yn ddirwystr. Gorphenwyd y mur *adobie* oddiamgylch y Temple Block, a darparwyd a gosodwyd llawer o'r crib-feini. Gorphenwyd y Cynnysgaeth-dŷ sydd ar y Temple Block, a gosodwyd cryn lawer o sylfaen y Deml. Rhoddwyd y peiriant siwgr yn Big Kanyon Creek ar waith, ac y mae cŵr deheuol y Senedd-dŷ yn Fillmore yn cyflymu at ei orpheniad.

Adeiladodd y Degau a Thrugain neuadd gyfleus, yr hon a ddefnyddiwyd yn lled gysson drwy y geuaf, er na ddechreuwyd eu hadeiladu cyn y 13eg o Awst.

Y mae gweithiadau mawrion dinasyddol a gwladol wedi cael eu gwneuthur, sydd yn achosi syndod yn mhawb a sylwant, gan yr hwylusdod a'r llwyddiant anghydmarol sydd wedi cydfyned â'n holl ymdrechiadau. Mor deilwng o'n cydnabyddiaeth yw yr holl fendithion hyn i'r Tad tyner hwnw a'n hamddiffynodd rhag ein gelynion, ac a wlawiodd ei fendithion arnom. Parodd i'r ddaear ddwyn allan ei hŷd yn ei nherth, a'i bras ffrwythau er cynnaliaeth dyn. Yr elfenau hefyd a fuont ynnorthwyol, a dyfrhâd meithrinol y cynnar a'r diweddar

wlawiau ni attaliwyd, ac ni fethodd chwaith mo ffrydiau y mynyddoedd yn eu diwalliad arferol. Hefyd, fe ddygwyd helaethach diwalliad o nwyddau i mewn i'n Tiriogaeth nag arferol, am ba rai, er hyny, y mae mwy-fwy o awydd o hyd, ac er y fod llawer o ddefnyddiau gwisgo yn cael eu gwneuthur gan y bobl. Bu gweithfeydd a chynnyrch cartrefol yn ran o'n hymroadau masnachol, ymarferyd yr hyn yw dyledswydd pob Sant. Yr unig lwybr ydyw a allwn ddilyn gydag unrhyw sicrwydd am ein rhyddid, ac o barhau hyny o ryddid a feddwn, megys anrheg werthfawr, oddiwrth ein cyn-dadau a'n Duw.

Gwna ein Crefydd Santaidd ni ein gosod mewn gwrth-darawiad i gyfeilhornadau hir-sefydledig, a thraddodiadau canrifoedd, y rhai sydd boblogaidd drwy y byd; o ganlyniad yr ydym o anghenrhaid yn bobl ymneillduedig, hunan-les a chadwraeth penaf pa rai sydd yn ymorphwys ar undeb a hunanymddibyniaeth, ar yr ymarferiad o rinwedd, diwydrwydd, a sobrwydd, ac arddangosiad o'n ffydd drwy ein gweithredoedd mewn mawrygiad o'n Hoffeiriadaeth, ac ar wasanaethu o honom ein Duw drwy gadw ein hunain yn bur a difrycheulyd yn y genedlaeth ddrwg a godinebus hon.

I'r perwyl yma yr ymgasglwn allan o blith y byd, ac o herwydd hyn yr ymddibynwn ar ein cywreinrwydd a'n gallu ein hunain i gynnyrchu o'r elfenau a'n hamgylchynant bob math o ymborth a gwisgoedd sydd yn anghenrheidiol er ein defnydd neu ein cysur.

Frodyr, byddweh ddoethion, ac ystyriweh gynnyrchiadau tramor megys pethau nad ydynt gymhwysiadol nac wedi eu bwriadu i Israel, a thynweh eich diwalliadau o ystôrdy mawr natur—o'r cyflawnder o'r brâs ddefnyddiau a'n hamgylchynant, er eu bod heb eu darganfod, pa rai ydynt yn hollol o fewn ein cyrhaedd.

Fel y parha drygioni, anghydfod, a dyryswch i ffŷnu a chynyddu ar y ddaear, cenfydd y Saint nad yw yr amser yn mhell pan, wrth bob tebygolrwydd, y gorfodir hwynt i ddilyn y llwybr yma er eu hiachawdwriaeth eu hunain. Gymmaint hawddaeh ynte yw iddynt ymbarotoi tra eu hamgylchynir â heddwch a llwyddiant. Gymmaint gwell yw gwneuthur yr hyn sydd yn iawn, ac yn anghenrheidiol ei wneuthur, dan yr amgylchiadau mwyaf dafriol nac i aros hyd oni fydd anghen

llym yn gorfodi. Dywedwn, ynte, wrth yr holl Frodyr a'r Chwiorydd yn Nyffrynoedd y Mynyddoedd hyn, dysgwch yn awr i wneuthur eich holl ddilladau eich hunain, ac hefyd cefnogwch y llaw-weithydd a'r cynnyrchydd cartrefol, a deued y cyfryw a fwriadant ymgartrefu yma a phob math o beiriannau a arbedant lafur-waith, a'r cyfryw bethau er ei wneuthur, ar nas gellir eu cael yn rhwydd yma. Dyger hefyd hadau cotwn a *teasel*, a hâd er codi pob math o ddefnydd lliwio llysieuol a phob math o hadau ffrwythau a blodeu, impau hefyd, a phlanigion gwinwydd; caffer a gyrer y mathau goreu o anifeiliaid. A bydded i'r rhai a feddant yn awr y pethau a enwyd eu cadw yn ofalus, fel y cynnyrcher y goreuon o bob math o ffrwythau ac anifeiliaid, ac y gwellhaer ar y rhywiogaethau a'r mathau gwaelaf, fel y ceir yn ein plith ddiwedd o bob peth fydd er ein lleshâd neu ein cysur, neu a fydd hyfryd i'r llygad, neu yn addurn i'r ddaear. Er cefnogaeth i gynnyrchwyr ffrwythau, rhoddwn un enghraifft o'r ffaith, y fod *peaches* yn ystod y pedair blynedd diweddaf wedi addfedu ar goed a dyfasant oddiwrth yr hâd a hauasom, oddiar ein sefydliad yn y dyffrynoedd hyn, ac y mae coed afalau wedi dwyn ffrwyth, er nad yn y fath gyflawnder, er ys dwy flynedd, ac y mae argoelion teg y dygant lawer o ffrwyth y tymmor hwn.

Ar y 27ain o Fehefin dechreuodd y Gymmanfa a benodwyd ar ddiwedd Cymmanfa Ebrill, a chynnaliwyd hi am ddau ddiwrnod, yn mha amser y danfonwyd llawer o genadon i'r Unol Daleithiau, yn mhlith pa rai yr oedd yr Henuriad John Taylor o Gorwm y Deuddeg Apostol, yr hwn oedd i fyned i ddinas Caerefrog Newydd gyda golwg ar gyhoeddi newyddiadur yno. Dewisiwyd John Smith, mab Hyrum Smith, yn Patriarch llywyddol dros yr holl Eglwys, ac ordeiniwyd ef i'r cyfryw swydd; gyda ei holl allweddau a'i hawdurdod, ar y 18fed o Chwefror. Yr oedd hyn er llanw y gwagle a wnaed drwy farwolaeth ein hanwyl Batriarch a alarir ar ei ol, sef y Tad John Smith, yr hwn a fu farw ar yr 22ain o Fai, 1854, yn driugain a thair-ar-ddeg oed.

Yr oedd y Tad John Smith yn frawd i Joseph Smith yr henaf, yr hwn oedd dad y Prophwyd, a'r Patriarch cyntaf yn yr Eglwys. Dilynwyd ef yn y swydd hono gan ei fab Hyrum, i'r hwn y cyflwynodd hi cyn ei farwolaeth, ac wedi ei farw

ef, dewiswyd y tad John Smith, gan nad oedd gan Wyrm fab mewn digon o oedran i lanw y cyfryw swydd ar y pryd hwnw. Acth y Patriarch parchedig ac anwylaidd i'w orphwysfa yn llawn o ddyddiau ac anrhydedd, wedi rhedeg yr yrfa gydag amynedd, a pharl au hyd y diwedd, a galarwyd ar ei ol gan filoedd, ar ba rai yr oedd wedi gosod ei barchedig ddwylaw i gyflwyno bendith batriarchaidd, drwy rinwedd ei swydd a'i Offeiriadaeth Santaidd. Cofir ef yn hir gan y Saint megys Tad. bendithion yr hwn a gyfrifwyd o fawr werth, ac yn gyfryw a barhant yn gysur ac yn galondid drwy gyfnewidiadau amrywiol bywyd o bererindod yn y cnawd. Wedi dyoddef erlidigaeth gyda ein brodyr a aethant o'r blaen, gwanhaodd mewn corffolaeth; ac er iddo gael ei adael i fyw am ychydig flynyddau byrion mewn llonyddwch a heddwch yn Nyffryneedd y Mynyddoedd, etto yr oedd y methiadau arno a achoswyd drwy gymmaint tywydd caled a chynnifer o derfysgoedd, drwy ba rai yr oedd yn dynghed y Saint i ymdeithio; eithr craffder ei feddwl a'i synwyr a arosodd yn ddisigl hyd y diwedd.

Felly y mae un o ddynion mawreddog y ddaear wedi myned i orphwys, yn barotöedig i ddyfod allan gyda gogoniant, anfarwoldeb, a bywyd tragywyddol, pan y rhoddir Allweddau yr adgyfodiad i Offeiriadaeth yr Hollalluog i weinyddu ei gallu etto ar y ddaear.

Yn ystod y flwyddyn fynedol mwynhausom dawelwch gyda'r brodorion, ar ol gwneuthur ammodau o heddwch gyda Walker, y Blaenor Indiaidd, yr hwn a gyfarfuasom i'r perwyl hwnw yn *Chicken Creek*, swydd Juab, ar yr 11eg o Fai diweddaf. Y mae genym achos mawr i gydnabod llaw yr Arglwydd yn attaliad yr anwariaid hyn rhag rhuddo ein sefydliadau â gwaed y Saint, ac yn nghadwraeth ein brodyr rhag dinystr trwyadl, canys nid oes ond ei allu Hollalluog Ef wedi rhwystro y fath alanastra.

Y mae rhai o'r Sefydliadau, pan yn gweled a theimlo drwy brofiad chwerw y perygl ofnadwy yr oeddynt ynddo, wedi cymmeryd at ddiogelu ychydig arnynt eu hunain drwy godi amgaerau, &c.; ond y mae yn flinder arnom i orfod dweyd fod yr amddiffynfeydd hyn gan mwyaf heb eu gorphen, ac nid yw llawer o honynt o nemawr les. Pa hyd y parhâ yr Arglwydd i estyn ei ofal amddiffyniadol, a goddef y fath esgeulusdod anesgusodol, a difaterwch o'i gynghor a'i gerydd ysgafn, sydd etto

i'w weled. Ymddengys mai cyn gynted ag y daeth heddwch i wenu etto arnom, y fod perygl wedi ei anghofio, ac wele ninnau yn ymollwng eilwaith i'r un difaterwch diofal ag sydd bob amser wedi hynodi ein hymddygiadau yn y dyffrynoedd hyn, cyn belled ag y mae yn dal cyssylltiad ag i ni fod yn ddigon parod i gyfarfod a'n gelynion sicr. Dywedwn wrthyeh, frodyr, nac ymfoddlonwch ychwaneg ar y fath esgeulusdod pechadurus —na ddiystyrwch ychwaneg ar gynghor a thaer ddeisyfiadau eich brodyr, ond mawrygwch yr cannyd bresennol o heddwch a llwyddiant drwy ddiogelu eich hunain, ac ymbarotoi erbyn dydd blinderus.

Tuag at yr Indiaid parhewch i arferyd amynedd, cymmwynasgarwch, a chyd-ddygiad; rhoddwch iddynt eich ffydd dros eu hadferiad o'u sefyllfa wael; gweddiwch drostynt, a dysgweh hwynt, fel y meddianno y fath egwyddor ymddiwygio ac ymoleuo eu nheddyliau na ddadwreiddir byth mwy, fel y dysgont ffyrdd yr Arglwydd, ac yr ymlawenhaont mewn gwir wybodaeth o Dduw eu tadau.

Yr ydym yn profi fod yr Arglwydd wedi bod yn raslawn, a'i fod yn ateb gweddiau ac ymbiliau y Saint drostynt. Gwyddom fod ei Ysbryd Ef yn cael ei dywallt arnynt, ac i'r achos yma y priodolwn y gallu sydd wedi eu hattal rhag amlach a chryfach ymrafaelion Annogwn chwi i'w porthi a'u dilladu fel o'r blaen, eithr na chollwch un cyfleusdra i'w dysgu i weithio, fel y dysgir hwynt yn raddol y ffordd i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, drwy eu diwydrwydd, yr hon sydd lawer rhagorach ffordd na'u cynnal mewn segurdod. Yn rhagluniaethol yn wir ein danfonwyd i'w plith, gan ddwyn gyda ni ein crefydd santaidd a'n gwareidd-dra. Gan ein bod wedi ein bendithio mewn cyflawnder â phethau da y ddaear er pan ddaethom, cyfranwn yn hael ionus i'r meibion syrthiedig hyn o eiddo Israel, o'r hyn a dderbyniasom, ac nid fel y mae y rhan amlaf o ymddygiad y bobl wynion tuag atynt, sef ymddarostwng yn gyfartal â hwynt, a thrwy hyny iselhau eu hunain, a bradychu eu hymddiried hwythau, eithr ceisio eu cyfodi a'u dyrchafu hwynt atom ni, fel y delont yn wir yn "bobl wynion a hardd" yn mha rai yr ymhyfrydai yr Arglwydd, megys ag yn y dyddiau gynt.

Bu farw y Blaenor Indiaidd, Walker, wedi ychydig ddyddiau o glefyd, yn agos i Ddinas Fillmore, ar y 29ain o Ionawr, ac y

mae yr Utiaid wedi dewis ei frawd Sen-a-rock, yr hwn a adnabyddir yn gyffredin gan y bobl wŷnion wrth yr enw Arrowpeen, i fod yn Brif arnynt

O herwydd anwybodaeth yr Indiaid, ac am eu bod yn deall cyn lleied am natur a chyfrifoldeb gwareidd-dra, nid yw y cyfreithiau ond yn anfynych wedi eu gweinyddu arnynt. Beth bynag, yn yr achos o lofruddiad dau fab yr esgob Weeks o ddyffryn Cedrwydd, heb cyffröad i hyny, tra yn cludo coed a pholion o'r kanyon, y mae dau o'r Indiaid, sef y prif weithredwyr yn y cyfryw beth, wedi cael eu dienhyddio ar y 15fed o fis Medi diweddaf, ar ol cael eu barnu o flaen Lys Dosparthiadol yr U. D., yr Anrhyd. Farnwr Shaver yn llywyddu. Etto yn achos cyflafan Cadben Gunnison a'i gwmni gan yr Indiaid Pahvan-te, yn hydref 1853, barnwyd amryw o honynt yn Nephi o flaen yr Anrhyd. Farnwr Kinney o Lys Dosparthiadol yr U. D. o'r dosparth hwnw, yr hyn a derfynodd mewn cuog-farniad tri o lofruddiaeth yn yr ail radd, a dedfrydwyd hwy yn ol eithafion cyfraith yr Unol Daleithiau yn y fath achosion. Yn yr achos yma deallwn fod llawer o amgylchiadau esgusodol a leihant drosedd yr Indiaid yn y gyflafan erchyll hono. Yr oedd yn amser rhyfel rhwng y bobl wynion â'r Indiaid, ac yr oedd y fintai nodedig yma wedi dyoddef y golled o un o'u prif wŷr gan gwmni o ymfudwyr gwŷnion, y rhai a'i lladdodd tra yn myned drwy eu gwlad heb hyd y nod achos o gynhyrfiad. Cynddeiriogodd hyn gymmaint ar yr Indiaid hyd oni ddechreuasant yn union a chrynhoi eu galluoedd, ac er na chyfranogasant o'r blaen yn y rhyfel, penderfynasant ddyfod yn erbyn y sefydliadau, ac ymuno â'r Indiaid ereill ag oeddynt yn rhyfela eisoes. Yn y cyfamser y cyrhaeddodd Cadben Gunnison a'i gwmni i'w gwlad, tra yn dilyn ei alwad mewn ysprio ffordd i reilffordd fyned yn groes i'r cyfandir, ac felly yn rhoddi y cyfryw gyfleusderau iddynt i ymddïal, yr hyn a geisiant mor daer, ac â'r hyn yr ymwelwyd mor ddychrynllyd â'r diniwed. Dylai hyn fod yn wers i bob ymdeithwyr a saethant yr Indiaid heb achos; canys er y diehon iddynt hwy ddianc, ysgatfydd y geill y cyntaf a'u dilynant fyned yn ysglyfaeth, o achos eu barbareiddra anystyriol yr hwn sydd tu hwnt i wylltineb. Dylai pawb a wyddant am gyfraith, ac a drafodant yr Indiaid mor anynol ar yr un pryd, gael eu dal yn gyfrifol am ganlyniadau eu gweith-

sedoedd; pa rai, megys yn achos y galarus Gunnison, ydynt braidd yn sier o gael eu hymweled ar y cyfleusdra cyntaf, ar rywrai ag oeddynt heb un cyssylltiad â'r gynnen.

Nis gellir dysgwyl i'r Indiaid yn eu sefyllfa isel ac anwybodus bresennol, a'u holl draddodiadau a'u nhatur wyllt ganddynt, i ddeall a gweithredu yn ol manylion y gyfraith, o'r hon y maent yn hollol anwybodus, ac heb erioed gael un cyfleusdra i'w dysgu. Am hyny y mae yn gweddu i'r rhai hyny a brofiesant wareiddiadra i osod esiampl o'u blaen, ac nid, tra yn esgus gweinyddu cyfraith arnynt, i fod yn greulonach a mwy llofruddgar nag ydynt hwy y naill ar y llall. Ystyried pob personau o'r fath y ffeithiau hyn, a gweithreder yn ddoeth, rhag y bydd gwaed eu lladdedigion i gael ar eu gwirau hwy eu hunain; ac frodyr, byddwch ofalus rhag i chwithau hefyd sengu ar yr "olew a'r gwin," gwneuthur llong-ddrylliad o'ch ffydd, a cholli eich hiachawdwriaeth yn nheyrnas ein Duw ni.

Yn Nghymmanfa mis Hydref, yr oedd amryw o'r brodyr a fuont absennol ar genadiaethau tramor yn bresennol, wedi dychwelyd â llawer o Saint; ac er na chyrhaeddodd y cwmpeini diweddaf eyn yr 28ain o Hydref, yr oedd yn amser i ymdawenhau genym oll, ond yn neilduol y rhai hyny ag oeddynt wedi dyfod yn ddiangol heibio i farwolaeth a dyoddefaint, a chael caniatâd i ymgyfeillachu mewn heddwch â'r rhai a feddent yr un ffydd â'u hunain, ac i wrandaw ar ddysgedigaethau gweision Duw yn Seion. Llewyrchodd pob gwynebpryd gan lawenydd, ac ni ddygwyddodd dim, yn ystod y tri diwrnod am ba rai y parhauodd y Gymmanfa, i aflonyddu yr heddwch a'r undeb a ffynodd yn gyffredinol. Dewiswyd yr Henuriad Horace S. Eldredge i gymmeryd lle Jedediah M. Grant, fel un o saith Llywydd y Degau a Thrugain.

Oddiar Cymmanfa mis Hydref, nid oes ond ychydig wedi dygwydd yn wahanol i bethau cyffredin ein busnes.

Bu y gauaf yn dyner anarferol, ac y mae gwaith wedi gwella mewn llawer modd, cystal braidd ag yn yr haf.

Cynnaliodd y Senedd Diriogaethol ei sessiwn arferol o ddeugain diwrnod, ac ymadawasant i gyfarfod ar yr ail ddydd Llun yn Rhagfyr nesaf, yn y Senedd-dŷ newydd yn ninas Fillmore.

Y mae amrywiol gymdeithasau i ddybenion crefyddol, llenyddol, a chelfyddydol wedi cael eu ffurfio, ac y mae llawer o

ddysgeidiaeth ddefnyddiol wedi cael ei rhoddi, fel y mae wedi gwneuthur hefyd mewn llawer o ysgolion hwyrol a dyddiol, y rhai a gadwyd yn fwyaf cyffredinol yn ystod y gauaf yn y gwahanol ddosparthiadau. Y mae difyrwch hefyd wedi cael ei iawn amser a'i le, a chydag eithriad o ychyd'g aflonyddwch a achoswyd gan ychydig o wyr afreolus o fyddin yr U. D., y mae amser cyffredinol o lonyddwch, iawn drefn, a heddwch wedi ffynu yn yr holl sefydliadau.

Mewn cydsyniad â'u gwahanol apwyntiadau, aeth yr Henuriad J. Taylor i Gaerefrog Newydd, Franklin D. Richards i Lynlleifiad, Erastus Snow i St. Louis, Orson Spencer i Cincinnatti, a P. P. Pratt i Galifornia.

O herwydd anghyssondeb y llythyr-gerbyd Dwyreiniol, ni chawsom ond ychydig hysbysrwydd o'u llwyddiant; ond deallasom y fod estynfa wedi ei sefydlu yn St. Louis, a bod yno newyddiadur a elwir y "*Luminary*" yn cael ei gyhoeddi yn wythnosol. Ni ddeallasom etto pa un a oes estynfeydd ereill wedi eu sefydlu, neu a oes newyddiaduron ereill wedi cael eu cyhoeddi a'i peidio; er y fod gwasg wedi ei chael yn Nghalifornia, yr hon a osodir ar waith yr hâf dyfodol, dan ofal yr Henuriad George Q. Cannon.

Y mae yr Henuriad Amasa Lyman yn llafurio o hyd yn San Bernardino, California, ac y mae y gweddill o'r Apostolion gyda ni yn bresennol, yn llafurio fel y dygwydda cyfleusdra yn amrywiol sefydliadau Utah. Y mae yr Henuriad G. A. Smith yn ymwneyd o hyd â hanes Joseph Smith, ac efe a'i mŷn mewn ychydig fisoedd mae yn debyg, wedi ei gwblhau a'i barotoi i'r wasg.

Yn y Gymmanfa Ebrill hon sydd newydd fyned heibio, rhoddwyd cyfrif eglur o drafodaeth arianol Cwmpeini y Drysorfa Ym Barhaus, ynghyd ag eiddo yr Elwys, yr hyn a ddengys fod eiddo cyfangwbl Cwmpeini y D. Y. Barhaus yn cyrhaedd 71,005,143 o ddoleri, er nad oes braidd ddoler o honynt yn bresennol yn ddigon cyrhaeddadwy fel y gellid eu defnyddio er ymfudo y Saint tlodion. Cyfyd hyn oddiar ddyledion y cyfryw a esgeulusant dalu eu dyled i'r Drysorfa am eu hymfudo. Y mae yn ddyledus i'r Drysorfa yn bresennol, o'r man yna yn unig tua 57 mil o ddoleri, yr hyn pe y gellid ei droi yn feddion defnyddiol, a hwylusai lawer ar weithrediadau

y Cwmpeini, a chynnorthwai filoedd i ddyfod, y rhai ydynt yn dysgwyl ac yn gweddio am waredigaeth trwy y ffordd yna. Yn mhob dull ag yr ystyrir ef, dylai y brodyr a gynnorthwywyd, er eu mwyn eu hunain, eu brodyr a'r deyrnas, gyflawni eu rhwymau iddi. Mae y pwnc o ymfudo y Saint, en dwyn o ddosparthiadau rhy boblogaidd gwledydd henach, lle nis gallant drwy eu diwydrwydd mwyaf braidd gael bywioliaeth, a lle y mae diffyg gwaith yn aml yn peryglu bywyd, a'u dwyn i wlad lle y gallant drwy ddiwydrwydd gyrhaedd digonedd cyn hir, a chyfod yn nghyrhaeddiadau gwybodaeth pa fodd i fyw, yn hunan ganmoladwy i'r Saint, ac yn deilwng o'u ffydd a'u haelioni parotaf.

Dengys mynegiadau cyfrifiadol o dderbyniadau a thaliadau yr Eglwys, fod y derbyniadau yn gyffredin wedi eu defnyddio at adeiladau, a gwneuthur gwelliadau cyhoeddus megys y Cynghor-dŷ a'r Cynnysgaeth-dŷ, y Tabernacl, y mur oddiamgylch Rhan-dir y Deml, ystôr-dai, y Deml, &c. Er cario ein busnes yn mlaen yn iawn, gwelwn y fod eisieu swm wrth law er ein galluogi i gael defnyddiau, a diwallu dillad a phethau anghenrheidiol i'r rhai sydd yn ngwasanaeth y cyhoedd yn barhaus.

(I'w barhau.)

UDGORN SEION,

YR

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, AWST 18, 1855.

Epistol y Brif Lywyddiaeth.—Ir hwn y rhoddwn le helaeth yn y rhifyn hwn ar gost amryw ohebiaethau cartrefol a thramor, sydd gyflawn o enghreifftiau eglurhâol o ddoethineb ddwyfol. Mae cyfiawnder y Llywydd Young yn ei ymddygiad at y brodorion, nid yn unig drwy eu barnu yn ol eu deall-twriaeth o'r gyfraith a droseddant, yn lle eu dyfetha yn ddiwahan fel y gwna llywodraethwyr ereill, ond hefyd ei oresgyniad o honynt drwy garedigrwydd, rhoddion, ac anfon amaethwyr

i'w plith i'w gwareiddio a'u dysgu i gynnyrchu eu hymborth eu hunain yn dysgu i holl Lywodraethwyr byd wers a deilynga efelychiad mewn gwledydd gwareiddiol, ac yn arddangos ynddo gyfaddasrwydd barnol tymmorol ac ysbrydol goruwchddynol.

Mae ymadawiad y milwyr o'u plith yn wareiddiad amserol i'r Saint; eithr llawer gwell fuasai i'w mhoesau hwy ac i iechyd a diweirdeb merched y goedwig, pe nad anfonasai y Taleithiau enghreifftiau o'u swyddogion gwladwriaethol a milwrol yno i'w "gwareiddio" mewn gwers na pherthyna ond i'w eu gwyr eu hunain ddysgu iddynt. Canmoliaeth i foesau Utah amlwreigyddol yw fod y fath buteinwyr yn methu cael ysglyfaethau o'u plith amgen nâ'r anwariaid diddeddf, ac i'w clod y dywedir hefyd, serch byw er's blynyddau yn eu plith, na chlywsom fod un o'r "Mormoniaid" yn euog o ddysgu iddynt brif-wers Cristionogaeth gan y byd, a chydsynia y darllenydd mai mwy clodfawr fuasai i'r Taleithiau ddysgu diweirdeb i'w swyddogion cyn eu gollwng i blith anwariaid, ac fod ganddynt reidiach gorchwyl i lanhau eu holl brif fagwrfeydd Cristionogaeth unwreigyddol oddiwrth y fath anghenfilod cyn ynganu gair yn erbyn moesau amlwreigwyr Utah. Yn mha wlad "Gristionogol" y gorfodasai diweirdeb benywaidd ei thrigolion y fath ddynion i borthi eu nhwydau â'r fath wrthodedig bethau ag y gorfododd Saint Utah y milwyr Americanaidd i wneyd? Pa le ceir y ddimas neu y dref lle na fuasai miloedd o'i merched yn rhedeg ar eu hol am gael mwynhau yr ysgelerdra a leinw benywod Utah ag arswyd? Ffeithiau fel hyn a dystiant o blaid diweirdeb y Saint yn uwch nag y gwna holl ysgrifeydd gau-athrawon a cham-gyhuddiadau Golygyddion byd i'r gwrthwyneb.

Pwnc arall y sylwir arno gyda dyddordeb mawr yn yr Epistol yw gweithrediadau y D. Y. Barhaus. a llawenhâ y Saint yn fawr drwy y byd fod Llywyddion yr Eglwys yn Seion yn gofalu mor ddyfal am eu casgliad adref i fwynhau heddwch, esiamplau a dysgeidiaeth a'u dysga yn ffordd y bywyd tragywyddol. Pa le, na chan bwy ereill eu ceir? Hyderwn y bydd i'w hesiamplau hwy yn hyn deilyngu efelychiad yr holl Saint hyny a geisiant hwy lesoli yn yr ymdrech clodadwy a wnant yn y mater pwysig o ymfudo y Saint. Credwn mai gwir a

ddywedant y fod digon o foddion yn mhlith y Saint Prydeinig yn awr. pe yr iawn ddefnyddid, i gludo yr oll tua thref. Felly y gallai y Saint Cymreig wneyd hefyd pe y cydymdrechent; eithr yn lle hyny, gofynir, pa faint a farnant hwy yn Seion yw awydd y Cymry i ymgasglu, pan ddeallant nad yw cytraniadau yr oll at y Drysorfa ddaionus hon, mewn chwarter blwyddyn, ddim yn ddigon i fudo dau berson! Etto, meddwn, efelycher eu haelioni hwy yn hytrach.

Mae y darganfyddiadau a wnaed yn ddiweddar yn Utah o fŵn haiarn, glo, &c., o fawr werth, a'r llwyddiant a gafwyd yn ddiweddar i'w gweithio a'u dwyn yn wasanaethyddol i'r trigolion, yn cynnyddu eu breintiau a'u galluoedd i adeiladu Seion. Bwriedir cludo y glo i Ddinas y Llyn Halen Mawr yn rhatach nag yw y coed yn awr, ac nid yn hir etto eu gorfodir i gludo eu llestri a'u peiriannau haiarn dros fil o filltiroedd ar hyd gwlad anghyfanedd. Diau yr eglura y "mynyddau tragywyddol" gynnwysiad cyfoethog eu crombilau er lles y Saint mor fuan ag y gallant eu hawn ddefnyddio.

Mae mynediad y swyddwyr gwladol a'r milwyr i Utah wedi cynnyrchu un daioni er o'u hanfodd, ar yr hyn ni ddichon y byd golli eu golwg, sef anfon eu tystiolaethau ffafriol i fedrusrwydd, doethineb, a daioni y Llywydd Young, a moesoldeb, diwydrwydd a rhagoroldeb y trigolion. Er fod Golygyddion a pholiticwyr y byd yn bygwth goresgyniad Utah, diwedd Amlwreigiaeth, a thranc Mormoniaeth dan sodlau y fyddin gyfeiriedig, wele hwynt wedi myned ymaith o Utah heb wneyd y naill nâ'r llall, heb gael teyrn-fradwriaeth, anniweirdeb, nac hyd y nod achlysur i ymyraeth â'r Saint, a da a fuasai pe'd aethent â'r aflendid gyda hwynt a ddygasant yno. Beth a wnaiff y bleiddiaid Golygyddol am destunau wbanu weithian wyddis, canys rhaid wbanu ac ysgrechian at ryw beth bid siwr, pe bae raid gwneyd bwgan neu gymmeryd eu cysgod eu hunain yn esgus? Etto nid yw creaduriaid y gwill yn hir heb ddychymmyg a'u boddia. t ac nid hir y mae gwirionedd fel gwawl y boreu yn profi nad cyrn, carnau, dannedd a chynffonau bwystfilod, namyn twmpathau o ddrain y cyfarthent ato!

O flaen pob peth, craffed, dealled, a chofied y Saint eirwiredd y gyfran o'r Epistol a ddywed mai hunan-lesiant yn enwedicaf yw yr oll a wnant i adeiladu Seion, ac mai felly y icrhânt i idynt

ei hunain y wobr ar ddiwedd yr yrfa, ac mai drwy gyssegru eu hunain a'u heiddo i adeiladu teyrnas Dduw y mwynhaut olud a gogoniant y deyrnas hono pan y del yn ei nherth cyssefin. Esiampl deilwng o efelychiad yw offrymiad y Llywydd Young o'r oll a fedd, yr hyn a fernir yn werth tua dau can mil o ddoleri at wasanaeth yr eglwys, ac fel mae y goreu, ennilla efelychiad yr holl ffyddloniaid yn Seion.

Mewn gair, mawr lawenhawn yn y newyddion a gynnwysa yr Epistol hwn am hynt Seion, ac yn yr egwyddorion a gynnygia i'n hystyriaeth, a'n hawydd sydd am fwynhau mwy-fwy o'r Ysbryd a'i gwnaeth i gyflawni yr oll a geisia genym, a digon da o nefoedd fydd hyny i ni yn awr.

DEUDDEGFED EPISTOL CYFFREDINOL, &c.

[Parhad o dud. 265.]

Drwellir ni â'r holl ddefnyddiau at wellia'au cyhoeddus trwy y degwm yr hwn a delir fynychaf mewn ýd, llysieu, anifeiliaid, wageni, gwaith, a meddiannau ereill, ond ychydig iawn mewn arian, a chydag eithriad o'r hyn sydd eisieu er defnydd y dynion a gyflogir, gorfodir ei droi yn arian er cael y cyfryw bethau ereill ag sydd yn anghenrheidiol er iawn gyflawni y fusnes. Y mae treuliadau cysson trysorfeydd yr Eglwys mewn gwelliadau parhaus, y drafferth o newid, a'r oediad wrth gyfnewid nwyddau am arian, yn ein tafiu weithiau i ddyled; eithr os bydd y brodyr yn ffyddlon a chysson yn eu taliadau o'r degwm o bob peth a gynnyrchant, ysgafnhâ hyny ni o bob cyfyngderau, a diwalliant ddigonedd i'r holl ddybenion anghenrheidiol i ba rai ei ddefnyddir.

Frodyr, gan y dymunwch liwyluso adeiladiad Teml, a gwaith Brenin Seion, rhoddwch eich hysgwyddau wrth yr olwyn, estynwch gynnorthwy effeithiol i'w hachos, a chyfrifwch ei lleshâd hi yn eiddoch chwithau. Cofiwch nad yw yr oll a wneloch i ffafrio Seion ond yn ffafriol idd eich hunan-les, ac mai i chwi eich hunain yr ydych yn llafurio ac yn trafferthu yn nheyrnas Dduw; llawenhewch gan hyny yn eich llafur, ac ystyriwch y wobr sydd yn e'ch aros ar derfyn yr yrfa. Dylid ei ystyried yn fendith yn ogystal ag yn ddyledswydd i

gael y cyfryw fraint. Ni allesid cyflwyno nwy braint i'r bobl hyn nag a fwynhânt mewn cael rhan a chyfran yn y mater hwn, mewn bod yn offerynau gwael yn nwylaw y Jehofah mawr, er dyfod i ben a'i fwriadau Ef ar y ddaear yn y dyddiau diweddaf hyn, ac mewn cael bod yn dderbynwyr o'r gwirioiedd tragywyddol, y goleuni a'r wybodaeth sydd yn dylifo oddiwrth Frenin y Nefoedd, yn yr Hwn y mae pob rhagoroldeb, gallu a gogoniant.

Hyfrydwch a dedwyddwch anghydmarol sydd yn llenwi enaid y ffyddlon Sant, a fedd dystiolaeth yr Iesu ac Ysbryd y Duw byw i oleuo ei ddealltwriaeth. Dedwyddwch anghydmarol a chariad duwiol sydd yn llenwi ei fynwes tra y ceisia gyfranu o'r wybodaeth hyfrydlawn i'w gyd-rywiogaeth, fel y byddont hwythau hefyd yn gyd-gyfranogion ag ef yn yr achos gogoneddus a'i fendithion. Felly mae ein Crefydd Santaidd yn llyngcu pob rhyw deimlad, dymuniad, ymgais, dyben a gweithrediad o eiddo ein nhatur, ac yn gosod pob cyfeillach mewn bywyd yn ddarostyngedig iddi, —ffurfia fywyd ein bodoldeb: y mae yn ymyraeth nid yn unig a'n trefniadau ysbrydol, ond â'r tymmorol hefyd, a llywydda ni yn ein holl weithrediadau. Gwir yw hyn am bob person sydd wedi profi gair da y bywyd, derbyn yr Ysbryd Glân, a pharhau i rodio yn y goleuni, ac i gymmeryd ei arwain gan ei ddylanwad hynaws. Dyma ydyw iachawdwriaeth yn nheyrnas Dduw, y mae yn ogoniant nefol a dyrchafiad. Dyma y gwaith sydd yn ffromi y gwrthwynebwr, yr hwn sydd yn ofni rhag syrthiad ei deyrnas a'i allu ar y ddaear, sydd yn achos i Satan i ymgynddeiriogi a cheisio dinystrio Sai..t y Goruchaf, fel y gwnaeth yn nyddiau yr Iesu, ei apostolion, a'i ganlynwyr.

Hyn yma yw yr achos o'r erlidiau a'r merthyrdod a ddifäodd y ffyddlon oddiar y ddaear, ac a achosodd ddirywiad yr eglwys gyntefig. Gorchfygodd a dinystriodd y byd hwynt, a cheisia ein gorchfygu a'n dinystrio ninnau, canys tueddir hwynt gan elyn pob cyfiawnder, yr arch-dwyllwr, yr hwn sydd yn ceisio dadymchwelyd gwaith Duw. Am hyny, frodyr, byddwch ar eich gwyliadwriaeth; byddwch ffyddlon mewn gweddio a gwylied, mewn ffydd a gweithredoedd da, rhag i chwi syrthio i brofedigaeth, ac i dywyllwch ymledaenu drosoch; rhag i chwi gael eich dyrysu a'ch arwain ar gyfeiliorn, ac i lyngcu, yn

ddiarwybod, ysbryd rhagrithiwr, yr hwn a'ch harweinia i wadu y ffydd.

Oedwyd cyssegriad y Saint am ychydig amser, er mwyn cael ffurf o ymrwymiad a fydd gyfreithlon, ac yn gyd-fynedol â chyfreithiau y Diriogaeth. Y mae hyny wedi ei wneuthur yn awr, ac y mae llawer yn cyflwyno eu mheddiannau i'r Eglwys. Dealler hyn yn benodol, sef, na chyssegred unrhyw berson ei feddiannau heb ei fod yn ei deimlo yn fraint, ac yn well ganddo wneuthur hyny o'i rydd-ewyllys a'i ddewisiad ei hun. Nid ydym yn dymuno ychwaith i unrhyw berson gyssegru unrhyw feddiannau sydd yn ngafaelion dyled neu ymrwymiadau ereill. Talwch yr hyn sydd arnoch, ac wed'yn, os byddwch anymddibynol, cadwch allan o ddyled, gwellhewch ar eich hetifeddiaethau, a'r oruchwyliaeth a ymddiriedwyd i'ch gofal, fel, drwy eich cael yn ffyddlon ar ychydig, eich gosodir yn lywodraethwyr ar lawer o bethau.

Bydded i'r Saint tramor i gyssegru yr oll a feddant er lledaeniad yr efengyl, casgliad Israel, ac er cynnorthwyo y tlodion, sydd yn ffyddlon a diysgog, i ddyfod tua Seion; a chredir y fod digon o foddion yn mhlith y Saint yn Lloegr, a llefydd ereill, os iawn ddefnyddir hwy, i ymfudo yr holl ffyddloniaid. Pe byddai y rhai hyny sydd a meddiannau ganddynt yn ddigon haelionus i gyfranu yn rhwydd i'r anghenog, heb gadw mwy na modd i ymfudo eu hunain, ac ymddiried yn yr Arglwydd am y modd i fyw yn y dyfodol, bendithid hwy gan yr Arglwydd, a chan eu brodyr, a llawenhaent mewn hod wedi gweithio iachawdwriaeth a gwarediaeth i lawer o'r addfwyn a etifeddant y ddaear.

Bydded i'r brodyr hyny ag ydynt foddlon i gymhwyso eu mheddiannau yn y dull yma, wneuthur felly mewn doethineb drwy eu cyflwyno i ddwylaw ein goruchwylwyr awdurdodedig, y rhai ydym wedi benodi i'r cyfryw orchwyl, ac nid eu talu, fel y dygwydda yn rhy aml, i bersonau anwadal, y rhai a'u gwasgarant i'r pedwar gwynt heb wneuthur un daioni. Gwneler pob peth yn drefnus a thrwy y rheol iawn.

Dygwyddiad cyffredin iawn yw, i'r rhai sydd ganddynt fodd pan yn dyfod i'r Eglwys, i golli pob doler, drwy eu masnachaeth â'r byd, cyn y casglant gyda'r Saint, neu gyfranu nemawr at gynnorthwyo achos y Gwirionedd. Pan wedi eu hamddi-

fadu o'r cwbl, y maent yn barod i ddyfod, gan hiraethu na fuasent wedi cyfranu eu mheddiannau at adeiladu Teyrnas Dduw yn lle eiddo y diafol.

Y ffordd oreu i'r Saint pan y delont gyntaf i'r Eglwys, yw darfod eu busnes cyn gynted ag y gallant yn rhwydd heb ormod o aberth, ac yna "casglu i fyny tua Seion," heb oedi yn ddianghenrhaid; canys mae y dinystrydd a'r temtiwr ar led y ddaear, ac y mae yr Arglwydd wedi dechreu ymddadleu â'r bobl drwy dân a thrwy gleddyf, drwy haint, newyn, ac ystorom; diangwch gan hyny tra mae y ffordd yn agored o'ch blaen.

Wrth yr holl onestion eu calonau drwy y byd, o raddau uchel ac isel, dywedwn, "Edifarhewch, a bedyddier chwi er maddeuant o'ch pechodau," ufyddhewch i ordinhadau yr efengyl drwy weinyddiadau gweision y Duw byw, canys y mae barnedigaethau yr Hollalluog Dduw arnoch, ciliwch gan hyny rhag carthfeydd drygioni a llygredigaeth, rhag i ddigofaint tanllyd yr Arglwydd hefyd eich hysu gyda'r drygionus, o barai y mae Efe wedi cyhoeddi y gwaghâ y ddaear.

Saint, yn Nyffrynoedd y Mynyddoedd, wrthych chwi y dywedwn, Codwch ŷch, hauwch, planwch, dyfrhewch, a medwch yn nhymmorau amserol hyny; na lafuriwch fwy o dir nag a allwch lafurio yn dda, cynnilwch a chadwch eich ŷch, fel na choller dim; gwyliwch dros eich anifeiliaid na ladrataer hwy gan yr Indiaid, ac fel na yrir hwy i ffwrdd gan y lladron gwynion sydd yn gwneuthur ymgyrchiadau ysglyfaethus drwy ein sefydliadau yn flynyddol; cauwch diroedd pori i'ch anifeiliaid, fel y diogeloch y borfa sydd yn agos atoch er eu defnydd, a gadewch i'r anifeiliaid crwydredig fyned heibio y sefydliadau i'r fan y mae lle pori yn ddigon eang ac heb ei berchenogi, a bydd llai o berygl iddynt ymgymmysgu â'r rhai a berthynant i'r Diriogaeth.

Parotowch ysguboriau digonol i'ch ŷch, lle y gellir ei gadw yn ddiogel, ac yn rhydd rhag llwch, ac ystoriwch yr hyn a feddwch dros ben erbyn amserodd anghenus.

I ddiweddu, frodyr, byddwch un mewn ffydd ac ymdrech, a rhodiwch yn ostynge lig gerbron yr Arglwydd. Cadwch yn gyssegredig ei orchymynion Ef, a'ch cyfammodau chwithau. Dysgwyliwch yn barhaus wrtho am ddoethineb a gwybodaeth,

fel y mwynhäoch oleuni ei Ysbryd, a bod yn ddigon addas i gyflawni pob dyledswydd rwymedig arnoch, drwy rinwedd Offeiriadaeth Santaidd a Thragywyddol yr Hollalluog Dduw, â'r hon eich gwisgwyd, yn y fath fodd ag a fydd fwyaf gwasanaethyddol er hwyluso lledaeniad ei Deyrnas Ef ar y ddaear.

BRIGHAM YOUNG,
HEBER C. KIMBALL,
JEDEDIAH M. GRANT.

TALIADAU AT DDYLED CYNNADLEDD ORLLEWINOL MORGANWG, O AWST HYD YR HEG.

	£	s.	c.
1. David Davies Newton, Bro Morganwg .	0	2	6
2. Mary Davies, ei wraig	0	2	6
3. William Thomas, Newton . . .	0	5	0
4. William Owens. Abertawy . . .	1	0	0
5. Enoch Lewis, Tycboeth	0	10	0
6. John Thomas, Wig	0	5	0
7. Margaret Thomas, ei wraig . . .	0	2	6
8. Thomas Perkins, Treforris . . .	1	0	0
9. Mary Anne Wood, Cang. Seis. Abertawy	0	5	0
	£3	12	6

D.S. Mae rhai ereill wedi talu cyfran, eithr ni chydnabyddir hwynt drwy yr UDGORN, hyd oni chyflawnant eu haddewidion.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O AWST 1 HYD 11.—George W. Davies, £4; John Davies, 3s; B. Jones, 16s; Thomas Morgan, £1; Wm. Lewis, Gorll. Morganwg, 7s.

AMSERYDDIAD CYMMANFAOEDD Y GOGLEDD.—Cymmanfa Sir Fflint ar y 26ain o Awst, Sir Ddinbych ar yr 2il o Fedi, Môn a Dyffryn Conwy ar y 9fed, a Sir Feirionydd ar yr 16eg.

CYFARWYDDIADAU.—Mr. Thos. D. Giles, 4 East Lane, Tredegar.—Mr. Edward Middleton, 4 East Lane, Tredegar.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Deuddegfed Epistol Cyffredinol	257
Golygyddiaeth.—Epistol y Brif Lywyddiaeth	263
Deuddegfed Epistol Cyffredinol	265
Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg	272

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. J. NES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 18.] MEDI 1, 1855. [Cyf. VIII.

COFNODAU CYMMANFA GYFFREDINOL

Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf, yn ymgynnulledig yn y Tabernacl, Dinas y Llyn Halen Mawr, yn dechreu dydd Gwener, Ebrill 6, 1855, am ddeg yn y borau.—Y Llywydd B. Young yn Llywyddu.

Yr oedd y Brif Lywyddiaeth a saith o'r Deuddeg Apostol yn bresennol, ynghyd â'r Degau a Thrugainiau, Archoffeiriaid, Esgobion, &c., ac yr oedd y Tabernacl wedi ei orlenwi.

Y Llywydd B. Young a ddywedodd mai pum mlynedd ar hugain yn ol i heddyw y corffolodd y Prophwyd Joseph Smith yr Eglwys hon â chwech o aelodau; sylwodd ar ddechreuad. codiad, a chynnydd rhyfeddol yr Eglwys. a rhoddodd lawer o addysgiadau buddiol, manylrwydd o ba rai a geir yn y cyhoeddiad cyflawn.

Am ddau yn y prydnawn, canwyd; gweddiodd C. C. Rich, a chanwyd drachefn.

Cymmeradwywyd Awdurdodau yr Eglwys yn unfrydol.—y Brif Lywyddiaeth, sef y Llywydd Brigham Young, ac Heber C. Kimball a Jedediah M. Grant ei Gynghorwyr, Llywydd ac aelodau Corwm y Deuddeg Apostol. John Smith y Patriarch Llywyddol, Llywyddion a Chynghorwyr y gwahanol gorymau ereill, Edward Hunter Esgob Llywyddol yr Eglwys, yr Uchel Gynghor, ynghyd â'r holl awdurdodau, a George A. Smith yn Hanesydd a Chofnodydd cyffredinol yr Eglwys.

Ni roddwyd gymmaint ag un llais nacäol, yr hyn a arddangosai undeb nas gallˆy byd ei feddu.

Rhyddhäwyd amryw esgobion o'u swyddi, a gosodwyd ereill yn eu llefydd.

Penodwyd tri ar ddeg a deugain o bersonau i fyned ar genadiaethau.

Y Llywydd Grant a ddywedodd mai dynion bywiog ac ymdrechgar, o'r cyfryw a wnant eu dyledswyddau ac a fawrygant eu Hoffeiriadaeth yw y dynion y gelwir am danynt, i lanw swyddi, myned ar genadiaethau, &c.

Yr Henuriad Hyde a adroddodd ychydig o hanes ei brofiad pan yn myned i waered yr afon Danube, ar ei ffordd yn genadydd i Jerusalem.

Penodwyd pymtheg ereill o wyr ieuainc i fyned ar genadiaethau.

Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan yr Henuriad Hyde.

Ebrill 7, 10 *o'r gloch y boreu.*—Gan nad oedd y Tabernacl yn ddigon ëang i gynnwys y miloedd o Saint ag oeddynt yn bresennol, ymgynnullodd y Gymmanfa yn y *Bowery* newydd, ag oedd yn cael ei wneuthur ar ochr ogleddol y Tabernacl, lle a gynnwysa tua 12 mil o bobl.

Canwyd a gweddiwyd.

Wedi rhyddhau esgob o'i swydd a gosod arall yn ei le, llefarodd y Llywydd Young ynghylch y Mynegiad o'r Degwm, gweithredoedd a dyledswyddau esgobion, adeiladiad y Deml, ac ar yr ymgyssegriad; a dywedodd os na wnelai yr Esgobion eu dyledswydd, y rhyddheid pob un o honynt, ac y gosodid ereill yn eu llefydd.

Darllenwyd a chymmeradwywyd cyfrif Trysorydd y Drys. Y. Barhaus. . . . .

Yr Henuriad P. H. Young a annogodd y Saint i weddio ac i fod yn ddiwyd yn barhaus, a gofynodd fendith ar y bara.

Yr Henuriad Lorenzo Snow a gymharodd y dydd presennol â 25 mlynedd yn ol, a chyfeiriodd at yr amser pan yr oedd yr Henuriaid yn teithio heb fwyd na chymhorth i gyhoeddi yr efengyl i genedloedd pellenig, a gofynodd fendith ar y dwfr.

Yr Henuriad Woodruff a ddywedodd mai po amlaf ein Cymmanfaoedd, goreu oll ydynt; perorawl i'w glustiau oedd clywed tystiolaeth o'r gwirionedd; cyfeiriodd at gyssegriad y Deml

yn Nauvoo, ac at y rhyfeloedd a'r gofidiau yn mhlith y cenedloedd.

Yr Henuriad C. C. Rich a ddywedodd,—Am y 23 mlynedd mynedol yr wyf yn gwybod yn sier fod y gwaith hwn yn ddwyfol, a bod yr Eglwys hon yn cael ei harwain gan law Duw; llefarodd ar undeb y bobl, a byw er derbyn y bendithion; os gwnawn yn ol a wyddom oreu, nyni a lwyddwn.

Y Llywydd B Young a ohiriodd y Gymmanfa hyd y 6fed o Hydref nesaf, gan sylwi pe y parhaem am wythnos gyfan, ni allai ond ychydig o'r Henuriaid gael y fraint o dystiolaethu: sylwodd mai yr hwn a gyfrana wirionedd cyn gyflymed ag ei derbynia a dŷf mewn grâs ac mewn gwybodaeth o'r gwirionedd. Y genadwri gyntaf i Joseph, yr hwn oedd yn Epraimiad pur, oedd i gasglu Israel. Dysgodd y Saint pa fodd i fyw a dianc rhag clefydau, a thaer annogodd hwynt i gadw y Geiriau o Ddoethineb; ac i roi heibio defnyddio tê, coffi, tybaco, gwirod, a phob peth au o'r fath yna, a chodi eu plant yn iachus; y mae gan y bobl hyn i wneuthur hyny. Yna bendithiodd y Saint.

Canodd y côr, a therfynodd y Llywydd Heber C. Kimball drwy weddi.

T. Bullock, *Ysgrifenydd y Gymmanfa.*

[Dyfynwn o bregethau y Gymmanfa yn y rhifynau dyfodol.—Gol.]

LLYTHYR O DDINAS Y SPANISH FORK.

Dinas y Spanish Fork, Mawrth 28, 1855.

Anwyl Frawd Wm. Williams,—Gyda phleser y defnyddiaf yr adeg bresennol i ysgrifenu atoch y llinellau canlynol, gan obeithio y bydd iddynt i'ch cael yn gadarn yn y ffydd yr hon a roddwyd unwaith i'r Saint. Mae yn dda genyf allu eich hysbysu fy mod wedi cyrhaedd pen fy nhaith, yn iach a diogel, oddiar diwedd Medi, ac yr wyf yn mwynhau iechyd rhagorol hyd yn awr, diolch i Dduw am hyny.

Cyfaddefaf fy esgeulusdod i ysgrifenu atoch yn gynt, ond bu un rhwystr trwy fod gormod o eira i'r llythyr-gerbyd groesi y mynyddoedd. Mae Dinas y Llyn Halen yn 7 milltir o hyd, wrth dair o led, a'r heolydd wedi eu rheoleiddio o'r Dwyrain i'r Gorllewin, ac o'r Gogledd i'r Deheu, ac y mae y lle mor wastad fel y gellir gweled o'r naill ben i'r llall yn yr heolydd,

Mae ynddi amryw o adeiladau ardderchog: mae y Tabernacl yn adeilad rhyfeddol o faint, ac wedi ei addurno yn ogoneddus iawn. Bu'm yn y Gymmanfa yn mis Hydref, ond yr oedd y Tabernacl, er cymmaint ei faint, yn rhy fach i gynnwys y gynnulleidfa. Dywedaf na welais yn fy mywyd y fath dorf fo neddigaidd ac iachus yr olwg; nis gallaswn lai nà dweyd yn fy meddwl y fod "gwênau y Nefoedd ar y bobl hyn. Cefais fy nharo â syndod wrth weled y cerbydau yn dylifo i fewn i'r Ddinas o bob cŵr o'r Diriogaeth.

O! mor hyfryd oedd cael y fraint o eistedd yn Nhabernacl cynnulleidfa yr Arglwydd, yn mhlith miloedd o frodyr a chwiorydd, i wrandaw ar Brophwydi ac Apostolion Duw yn pregethu egwyddorion y nef, heb neb i ddweyd "hen seintiau," "gau-brophwydi," &c., na thaflu cerryg i'r ffenestri fel y gwelais mewn cymmanfaoedd yna.

O! mor hyfryd yw trigo gyda phobl Dduw! Dywedaf wrthych, frodyr a chwiorydd yn Nghangen y Fan Galch,—byddweh yn ffyddlon i gadw gorchymynion Duw, ac ymdrechwch i ddyfod i fyny i fynydd tŷ yr Arglwydd, i gael eich dysgu yn ei gyfreithiau Santaidd! Ac o berthynas i fywiolaeth, mae yma le da i fyw: oes meddaf, gwell dair gwaith nag yna; mae pawb yn byw ar eu tir ac yn eu tai eu hunain, ac mor belled ag y gwelais y mae yma ddigonedd o bob peth i fwyta. Pris y gwenith yn awr yw un doler y bwshel. Mae yma ddigonedd o bytatws, &c., a phob math o lysieu. Mae y celfyddydwyr yn ennill tri doler y dydd, gweithwyr cyffredin o ddoler a hanner i ddau ddoler y dydd;—mae digon o waith i bawb. Dywedaf wrth Eleanor am fod yn galonog i ddyfod yma, a pheidio gwrandaw ar ffyliaid yn traethu eu celwyddau am y Saint yn Utah; yr wyf yn *gwybod* fath le sydd yma, a chynghoraf bawb ag sydd a dymuniad i wasanaethu Duw i ddyfod yma, canys yr wyf wrth fodd fy nghalon.

Yr wyf wedi cael 20 erw o dir, ac wedi dechreu ei gloddio, ac yr wyf yn meddwl adeiladu tŷ o hyn i'r geuaf, fel pan y y deuwch yma y bydd genyf le i'ch groesawu. Cofiwch y byddaf yn eich dysgwyl yn yr hydref. Anfonwch lythyr yn ol mor fuan ag y galloch, a phob newyddion neillduol er fy ymadawiad. Ydwyf eich ffyddlon frawd,

DAVID DAVIES.

LLYTHYR Y CHWAER DANIELS.

Dinas y Llyn Halen, Mai 27, 1855.

Anwyl Brion,—Gobeithio y daw y llythyr hwn i'ch llaw, a'ch cael yn iach a chysurus fel ag yr ydym ninnau oll; diolch i'r Duw a'n pïa am ei fawr ofal o honom. Derbyniasom eich llythyr (yr hwn a ysgrifenasoch yn Nghaerfyrddin,) ar y 13eg o'r mis hwn. Gallech ddeall ein llawenydd wrth glywed oddiwrthych, am eich iechyd a'ch llwyddiant, eich ffydd a'ch penderfyniad i ledaenu teyrnas Dduw yn mhlith ein cydgenedl.

Wrth ddarllen hanes y byd, a'ch llythyron chwithau, yr y'm yn canfod yn eglur fod yr hyn a brophwydwyd yn dyfod ar warthaf trigolion y ddaear, sef, fod y "ddaear i gael ei gwneuthur yn wâg o drigolion drygionus," medd yr Arglwydd, drwy heintiau, newyn, a'r cleddyf,—hyn a bregethodd Saint y Dyddiau Diweddaf er's blynyddau yn ol yn Nghymru a Lloegr, Twrci a Rwssia, ac ar hyd glanau afon y Danube, am filltiroedd lawer, gan ddywedyd. Ffowch tua Seion ac na sefwch, canys mi a ddygaf ddrwg o'r gogledd, a dinystr mawr. Y llew a ddaeth i fyny o'i loches, a dyfethwr y cenedloedd a gychwynodd, ac a aeth allan o'i drigle i wneuthur dy dir yn orwag, a'th ddinasoedd a adewir heb drigiannydd. Er mai ffolineb oedd pethau fel hyn gynt yngolwg beilchion y ddaear, ond yn awr eu llygaid eu hunain a'u gwel. Nid oes ond dinystr yn aros y rhai hyny a wrthodant genadwri Saint y Dyddiau Diweddaf, o herwydd trefn Duw i gadw dyn ydyw, ac yr ydym yn gwybod mai hi ydyw yr unig un sydd a nerth digonol i wneyd hyny.

Mae y Ddinas hon yn cynnyddu yn le mawr iawn, y mae llawer o adeiladu yn barhaus, ac y mae y Deml yn myned yn mlaen yn gyflym yn bresennol. Y maent yn tori camlas o'r Ddinas i'r Big Cotton Wood Kanyon, er cludo *granite rock* i orphen y Deml. Y mae iechyd a llwyddiant y wlad, wrth bob hanes a gawn, yn well nag un lle arall dan haul,—heddwch a chyd-weithrediad sydd yn teyrnasu yma, a chredwn na all un dref na gwlad arall dystio hyn.

Cawsom Gymmanfa neillduol o dda yn Ebrill diweddaf, yr hon a barhaodd am ddau ddiwrnod. Cafodd llawer eu galw i fyned ar genadiaethau i blith pobl gochion y goedwig, i bregethu yr efengyl yr hon a wrthododd eu tadau. Dywedodd y Llyw-

ydd B. Young fod cenedloedd y ddaear wedi profi eu hunain yn annheilwng o iachawdwriaeth, ac fod yr amser wedi dyfod i fyned at ddefaid gwasgaredig tŷ Israel, yn Nehen a Gogleddharth yr Americ; felly cafodd dros gant a hanner eu galw i fyned atynt; o'r nifer hyn cafodd un Cymro ei alw, sef Joseph Parry, ac y mae efe yn awr wedi myned. Y mae cannoedd o'r Indiaid oddiamgylch yma wedi credu yr Efengyl, ac wedi eu bedyddio yn ddiweddar. Y maent yn tystiolaethu fod yr "Ysbryd mawr" yn dweyd wrthynt fod y Saint yn bobl dda, ac am iddynt beidio gwneyd dim niwed iddynt. Hefyd y maent yn hoff iawn o Lyfr Mormon, deallant ei fod yn rhoddi hanes eu tadau. Mewn gair, mae yr Arglwydd yn dechreu cyflawni ei addewidion yn mhlith y bobl hyn, fel ag y dywedodd trwy enau ei was Nephi, (gwel 73 tud. o Lyfr Mormon.)

Y mae teulu Jeremy yn iach ac yn cofio atoch, ac felly teulu y Brawd Jones; cofiwch fi yn fawr at y brawd Jones. Terfynaf yn awr, gan anfon cin serch atoch.

Eich anwyl wraig,

Mary Daniels.

LLYTHYR HENRY HARRIES.

D. Ll. H. Mawr, Mai 27, 1855.

Anwyl Frawd Daniels,—Cefais arddeall trwy eich llythyr diweddaf at eich teulu, eich bod yn chwenych cael ychwaneg o newyddion o'r Dyffryn hwn, minnau a dybiais mai nid anfuddiol i mi ysgrifeni ychydig linellau atoch. Bydd yma gyfnewidiadau mawrion erbyn y dychwelwch: mae y Ddinas yn cynnyddu yn gyflym, ac y mae llawer iawn o adeiladau gwychion yn cael eu hadeiladu yr hâf hwn. Y mae tŷ y Llywydd B. Young ar gael ei orphen, yr hwn sydd yn adeilad hardd rhagorol, ac y mae un arall ar waith ganddo. Y mae Swyddfa Ddegymol newydd wedi ei chodi yn agos i hen Swyddfa Brigham. Dywedir iddynt godi un fil ar bymtheg o fwsheli o wenith yn Ninas Ogden y flwyddyn ddiweddaf. Y mae argoel dda am wenith eleni etto, eithr y mae wedi bod yn sych iawn er amser hau hyd yr wythnos ddiweddaf, pryd y gwlawiodd nes ireiddio y tir yn hyfryd. Y mae camlas yn cael ei mwyaf

o Lyn Utah i ddwfrhau y tuhwnt i'r Iorddonen. Y mae Walker, Blaenor yr Indiaid, wedi marw, ac y mae ei frawd Arapeen wedi ei osod yn ei le, yr hwn oedd heddyw yn pregethu oddiar yr esgynlawr.

Terfynaf yn awr, gan ddymuno llwyddiant i chwi, a phob bendithion a gaffoch o hyn hyd byth. Os llwyddwch i gael rhai o'm pethynasau i ufyddhau, dymunaf arnoch anfon gair yn ol yn eu cylch.

Eich brawd yn y ffydd,

HENRY HARRIES.

CAIS AT ATEB GOFYNIADAU AMOS CLARK, YN RHIFYN 13eg O'R "UDGORN."

[Parhad o dud. 219.]

Y 4ydd ofyniad yw, "Paham na dderbyniai pawb yr Ysbryd Glân *pan* y gweinyddir arnynt?" Gall fod diffyg ffydd ac anwybodaeth yn rwystr iddynt ei dderbyn; y mae llawer yn esgeuluso, ac ereill heb eu dysgu, o bosibl, fod yn angheurheidiol iddynt weddio yn daer am dano,—rhaid i bob dyn edrych yn ddyfal tua'r nef, canys heb hyny nid oes neb yn derbyn y rhodd hon, ond pe byddai iddynt weddio trwy eu hoes gan wrthod arddodiad dwylaw dynion awdurdodedig, ni dderbynient "*ddawn* yr Ysbryd Glân." Dichon y bydd yn rhaid i ambell un buro ei hun drwy fuchedd rinweddol, cyn y bydd ei deml yn addas i'r Ysbryd Santaidd i drigo ynddo. Y mae yn ffaith fod llawer yn derbyn yr Ysbryd Glân dan, neu ar y pryd y bydd yr Henuriaid yn gweinyddu yr ordinhâd o osodiad dwylaw, ond nid yw hyny yn *sêal* gan Dduw i wneyd felly bob amser. Dywedai Pedr, "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch yn enw Iesu Grist, er maddeuant pechodau, a chwi *a dderbyniwch* ddawn yr Ysbryd Glân;" ni sicrhaodd y byddai iddynt ei dderbyn ar y pryd, neu *pan* y gweinyddid arnynt. Mewn man arall, dywedir, "Ac *wedi* i Paul osod ei ddwylaw arnynt, yr Ysbryd Glân a ddaeth arnynt." Etto, "Hwy a ddodasant eu dwylaw arnynt, a hwy a dderbyniasant yr Ysbryd Glân." Ni ellir penderfynu oddiwrth y dyfyniadau yna pa un a dderbyniasant yr Ysbryd Glân y foment y gweinyddwyd arnynt te wedi hyny, ond gall pawb ddeall mai trwy arddodiad

dwylaw yr apostolion y rhoddid yr Ysbryd Glân. A chaniatâu iddynt oll dderbyn yr Ysbryd ar y pryd, nid yw hyny yn gosod anghenrhaid ar Dduw i'w gyfranu i bawb felly; canys, er mai arddodiad dwylaw dynion awdurdodedig yw y cyfrwng neu y ddefod drwy ba un y derbynir yr Ysbryd Glân, ettò ar ewyllys Duw yn unig y mae bendithio y gweinyddiad o honi trwy gyfranu y ddawn a ddewisa Efe, ar y pryd, neu dan yr amgylchiadau y myno. Nid oedd llawer yn nyddiau yr apostolion yn derbyn unrhyw ddoniau ag oeddynt yn arddangos rhyw ryfeddodau neillduol, na gwahaniaeth gweledig i'r Saint ereill ar y pryd, ac nid oeddynt yn wybodus iawn i'r *derbynydd* lawer pryd pan weinyddid yr ordinhâd arno. Dywed Paul wrth y Corinthiaid—"Eithr am ysbrydol doniau, frodyr, ni fynwn i chwi fod heb wybod;" addefa Paul yma fod rhai o'r Saint yn anwybodus o'r doniau ysbrydol, ac felly nad oeddynt hwy oll wedi eu derbyn, er eu bod oll wedi eu bedyddio ac wedi cael arddodiad dwylaw. Da fyddai i bawb ddeall fod dynion yn derbyn rhyw ddylanwad o'r Ysbryd Glân, megys "eglurhâd yr Ysbryd," heb dderbyn, *pan* y gweinyddir, unrhyw ddawn allanol neu amlwg. Dichon fod y brawd Amos Clark yn teimlo i raddau yn anfoddlon am na fuasai Duw yn cyfranu rhyw ddoniau neillduol iddo; ond cofied mai plentyn yw, ac os yw efe yn blentyn da, bydd oediad ei Dad i roddi y cyfryw ddoniau iddo, er ei les ef. Daw i'm meddwl am ymddygiad y fam at ei phlentyn pan y byddo yn dechreu cerdded; y mae hi yn lledu ei breichiau gan ei alw ati, a phan fydd yr un bychan yn ymdrechu ei oreu i ddyfod ati, hithau a ymsymud yn ei hol gan ei annog i'w chanlyn, ac wedi iddo ei chyrhaedd bydd hyny wedi achosi i'w ffydd ddyblu erbyn y tro nesaf, ac wrth hyn ei fferau a gryfhânt, a'i ymddiried wna gynnyddu erbyn y delo amgylchiad mwy pwysig. Nid yw anwyliaid Duw yn cael eu bendithio *pan* yn ufyddhau bob amser,—rhaid iddynt weithio drwy ffydd yn fynych, ac y mae ffydd yn anhebgorol cyn y gall dyn ennill hyfdra penderfynol i geisio y fendith addawedig, ac nid gwiw i'r hwn sydd yn amheu feddwl y derbynia efe ddim gan yr Arglwydd; ond y gwr sefydlog ei feddwl, sydd yn nesâu gyda dwylaw glân, yn benderfynol, etto yn amyneddgar hyd amser daionus Duw i gyfranu, heb osgoi, na gadael i'w ffydd wanychu dim, efe a dderbyn y fendith, a'i ffydd trwy

hyn a ddyblir erbyn y tro nesaf er derbyn bendith a fyddo fwy; felly gwelwn fod oediad ein Tad i gyfranu y fendith pan yn ufyddhau yn troi er lles i'r Saint yn fynych. Duw sydd yn gwybod oreu pa beth sydd er ein lles, a cheisiwn ninnau yn ffyddiog nes derbyn.

(I'w barhau.)

Gynt o Dre-Sior. THOMAS HARRIES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MEDI 1, 1855.

SEFYLLFA EGLWYS DDUW YN NGHYMRU.—Gyda phleser yr hysbyswn ein bod yn deall, naill ai drwy gyfeiliach, drwy lythyrau, neu drwy ffeithiau eglurhâol y fod y Llywyddion yn gyffredinol ar y Cynnadleddau yn ymddeffroi i'r gwaith pwysig o iawn rybuddio eu cyd ddynion o bwysigrwydd y genadwri olaf hon o'r nef—adferiad yr efengyl dragywyddol, a'r unig lachawdwriaeth a gynnygia Duw i'r byd rhag y barnau, y newynau, yr heintiau a'r rhyfeloedd ag y mae Efe ar dywallt ar ddrwg-ddynion. I'r dyben o wneyd hyny yn effeithiol, dylid nid yn unig annog pob swyddog i chwilio am bob cyfleusdra a allo gael i bregethu a thystiolaethu; dylid nid yn unig, wneuthur hyny drwy ddylanwad Ysbryd y cariad, a bod yn daer i berswadio, ond hefyd ystyriwn fod cyd-dystiolaethau cydrywiol y Saint, yn enwedig drwy eu hesiamplau duwiolfrydig, a'u bucheddau difrycheulyd yn anhegorol er cael llwyddiant ar yr hâd da a hau'r. Cymhella doethineb yr Ysbryd dwyfol a feddant i wylio ar fol hyn yn cymmeradwyo ac yn rhoddi grym i'r gair da; ac na fyddont yn caniatâu i'r naill dynu i lawr drwy fucheddau anaddas yr hyn a geisia y flyddloniaid adeiladu ar deyrnas Duw. Dyger pob person i glorian cywir y *Ddysgyblaeth* a râd roddwyd i ni gan Ben Mawr yr Eglwys; canys oni rodiant yn ol y rheol hon ofer eu bedydd a'u holl broffes arall;

yr hwn a barhao yn ffyddlon i gadw holl orchymynion Duw hyd y diwedd yn unig a fydd cadwedig.

Mae gormod o le i ofni fod Saint yn ymorphwys ar wneyd eu "gweithredoedd cyntaf" yn unig, fel pe baent yn credu mai nfyddhau yn unig i'r hen ddyledswyddau a ganfyddent hwy yn ddyledus arnynt yn eu dyfodiad cyntaf i'r eglwys yw yr oll sydd yn angheurheidiol; tra na throseddant ryw gyfreithiau pendant, ond dyfod i gyfarfodydd yn weddol gysson, talu amhell geiniog at gario y gwaith yn mlaen, neu beidio—fel yr ewyllysiant, a thra y gallant ond rhygnu gyda hi ryw fodd heb eu hysgymuno, y bydd o'r goreu arnynt yn y diwedd. Sonir cryn lawer gan rai fel hyn am eu dechreuad gyda'r Eglwys, a cheisiant esgusodi eu hunain i raddau rhag cyflawni yr hyn a geisir ganddynt yn awr, 'o achos," meddant, "nid oedd pethau fel yna yn ofynol pan y daethym i i'r eglwys er ys blynyddau yn ol." Ni phetruswn gyhoeddi hwna yn ysbryd sectyddol, ïe, yn ormod felly i barhau hyd y diwedd yn Nheyrnas Duw, eithr rhybuddiwn bawb a garwn i ymochelyd rhagddo. Cyfammodasom â Duw wrth fyned i ddyfroedd bedydd i ufyddhau i "*bob gair a ddaw* o enau yr Arglwydd" drwy ei weision. Teyrnas gynnyddol yw Teyrnas Dduw yn yr ystyr yma; Efe a eglura ddirgelion ei deyrnas "yn dlin ar lin," "ychydig" yn awr, fel y gallont ei ddeall a'i wneuthur, yr hyn a deilynga ddylynt "ychydig" eiliwaith; ac felly gwelir mai wedi gwneuthur yr ychydig a orchymyna y ceir y wers newydd, ac y mae gob gwers olaf mor anhebgorol i aelodaeth yr enaid i fywyd ag oedd y gyntaf; a'r sawl a wrthodo gyflawni yr olaf, torrwr addunedyw, a thorffetia ei hawl drwy hyny i freintiau y tŷ, ac i ddysgeidiaeth ychwanegol yr Hwn yr addawasai ufyddhau iddo. Ysbryd gwrthgiliad yw hwna; ac wedi yr ysgymuner hwna o eglwys Dduw, efe yw yr uchaf ei lais braidd i dystiolaethu mai eglwys Dduw yw, neu oedd hon yn ddiau, eithr fel mae gwaetha y modd fod dynion drwg wedi dwyn pethau newydd a gormesol iddi, yr hyn ni all efe oddef.

Mae dosparth arall i'w cael a ânt i'r eithafion arall i'r rhai hyn; eu holl ymgais yw am bethau newyddion gan ddiystyru yr hen; yn eu gwaue mawr am nefolion bethau i ddiwallu eu chwaeth anghenog, ymgrafanga eu hysbrydoedd ehedegog am yr holl ddirgelion a gyhoeddir yn Seion drwy y *Journal*, y

News. a'r cyfan ond yr hyn a berthyna iddynt yn neillduol i'w cyflawni yn y cylchoedd y maent ynddynt, ac nid anfynych y ceir hwynt yn dysgu eu Llywyddion yn y gwersi a berthynant i breswylwyr gwlad arall, o dan amgylchiadau hollol wahanol iddynt eu hunain, fel pe yno eisoes, heb allu dirnad na gwneyd dim o'r hyn a ofynir ganddynt yma. Tra y mae cyrhaedd at wybodaeth yn dda trwy pob cyfryngau, ac yn neilldu i o'r hyn a gyhoeddir yn Seion a thrwy y *Star*, a holl gyhoeddiadau yr eglwys, etto mae eisieu cwttogi tipyn ar fiaen adenydd yr adar hyny a ehedant dros y nyth cyn magu plyf. Gwers ddaionus fyddai iddynt y ffaith mai yr unig ffordd i gyrhaedd y mwynhâd o'r bendithion a'r golygfeydd hyfryd hyny yw, drwy wrando ar, a gwneuthur holl gynghorion y rhai a osodwyd yn arweinyddion iddynt tra yma; mai o gam i gam, o ffydd i ffydd, ac o nerth i nerth, fel hyn yn unig y cyrhaeddant y mwynhâd o'r hyn a ddysgwyliant.

Dymunem argraffu ar feddwl pob un o'r Saint y ffaith mai iachawdwriaeth feunyddiol yw yr unig un a wna les, ac mai drwy ufydd-dod beunyddiol i'r hyn a ddysgir iddynt y ceir hi. I'r doeth-ddyn mae cyflawni y wers bresennol a chael gwers newydd yn rhesymol, dysgwyliadwy, ac anhebgorol er cynnyddu ei ddealltwriaeth ar gynnydd y rhai y dysgwylia gydoesi â hwy yn y nefol wlad. Wrth y ddau ddosparth yna dywedwn fod "y llythyren yn lladd eithr yr Ysbryd yn bywhau" yn awr fel yr oedd yn amser Paul yn gymhwys; dysgeidiaeth yr Offeiriadaeth a fo yn eu plith yw rheol a bywyd y Saint, ac y mae darfodedigaeth yn sicr o gymmeryd lle ar y rhai a wrthodant eu hymborth dyddiol hwy, nad pa un ai dan feddwl fod yr ymborth mynedol a gawsant yn eu babandod, ynte yr ymborth dychymygol a gânt yn Seion yn ddigonol i gynnal bywyd. Bydded i alwadau taerion ac amserol y cylla am ymborth i'r corff goffau y Saint fod yr enaid a breswylia ynddo yn berson mor ymddibynol ar ymborth ysbrydol yn ei bryd er ei les ag yw y corff.

Mae genym air neu ddau at ddosparth arall-o-bobl ag sydd rhy anwybodus o'u lles eu hunain, sef y rhai a ystyriant y fod rhwymau arnynt i gyflawni dyledswyddau ysbrydol, fel eu galwant, megys byw yn foesol, yn weddigar, elusengar, a duwiolfrydig, eithr a ystyriant eu bod at eu rhyddid pa un a gyfran-

ant o'u *hamser* na'u *heiddo* at waith Duw. Dywedwn, fod y sawl na chyssegrodd ei hunan a'r oll a berthyna iddo i'r Arglwydd yn rhoddi iddo "aberth ânatus," tra y gofyna Efe y blaenffrwyth a'r *di* anaf o bob peth, neu ei fod yn dorrwr ammod os wedi cyssegru eu hunan a'i oll. y gwrthodo wasanaeth 'y naill neu y llall pan ei gofyna. Mae ufydd-dod i'r naill orchymyn o eiddo Duw drwy ei weision o gyd-bwys i'w gyflawni ag yw y llall. Tra y mae Ysbryd Duw wedi cymhell Llywyddiaeth eu Heglwys i ofyn gan y Saint i dalu deunaw a dimeu yn flynyddol at adeiladu Teml yr Arglwydd, a thra y gorchymynir i'r naill a'r llall gyfranu o'i eiddo, yn ol fel y bendithia Duw ef, i'r Drysorfa Ymfudol er casglu ei blant i Seion, ni allwn ddirnad am unrhyw esgus digonol i esgusodi neb o anufydd-dod a esgeulusa wneuthur felly. Mae anghen mawr i'r holl Lywyddion bregethu, darlithio, ac *esbonio* os mynant, neu ryw fodd i gael gan y Saint iawn ddeall y dyledswyddau o gyfranu at y Cymdeithasau daionus hyn, ac at dalu eu dyledion i'r eglwys am lyfrau. Ofnwn fod esgeulusdod gormodol o ddysgu yr egwyddor ddaionus hon i'r Saint; mae y ffaith o fod neb a'u hesgeulusant yn wirfoddol yn honi unrhyw hawl i freintiau eglwys Dduw yn profi diffyg iawn ddealltwriaeth, heblaw fod bychandra y cyfraniadau at y naill a'r llall yn ffaith alarus i brofi i'r Llywyddion fod eu gwaith hwy o *ddysgu* ar ol. yr hyn a brawf eu bod yn euog o bechod o esgeulusdod, yr hwn sydd wedi myned braidd yn annyoddefol. Er prawf o hyn, cyferbynied y Llywyddion gyfraniadau y Saint at y pethau hyn â chyfraniadau yr un rifedi o Saint yn unrhyw wlad arall; er enghraifft, sylwer ar gyfraniadau Cynnadleddau yn Lloegr, y rhai a gyhoeddir drwy y *Star*; sylwer yn rhifyn 34 o'r gyfrol am y flwyddyn hon, a cheir fod un Gynnadledd, yn cynnwys ond 241 o aelodau, wedi cyfranu mwy at y D. Y. Barhaus a'i Deml nag a gyfranodd tair ar ddeg o Gynnadleddau Cymru at yr un pethau!!! Hawyr! ystyriweh! mynweh ddiwygio ar frys. Cynnadledd arall a welir yn cynnwys ond 670 o aelodau wedi talu mwy o amryw bunnoedd nag a dalodd dros 4000 o Saint Cymreig! Lywyddion! pwy a gaiff y gamp nchel? Beth meddweh! onid yw yn llawn bryd deffroi, os byth y gwneir? Etto ceir enghraifft arall yn Scotland yn cynnwys tua un o bob pedwar ag sydd yn Nghymru wedi talu fwy

nâ dwy waith y swm at y Deml a'r Drysorfa Ymfudol Barhaus ag a dalodd holl Gymru yn y chwarter diweddaf! Etto gofynwn mewn syndod pa beth mae Llywyddion yn ei feddwl na'i wneuthur? Pa fodd y dysgwyliant gael o Ysbryd eu swyddi na gwen na ffafr Duw arnynt tra yn ymollwng i'r fath farweidd-dra ac esgeulusdod anesgusodol ag a arddangosir yn hyn! Nid y'm yn meddwl cyniatâu i bethau barhau fel hyn yn hir. Nid gwiw beio tlodi y Saint, canys mae y Saint Cymreig yn wybodus i ni mewn gwell sefyllfa o lawer nag yw y rhai gyfranasant yr hyn a nodwyd. O na, drwy beidio cyfranu o'r hyn a ellir yw y ffordd i dlodi, tra mae bendith ar gyfraniadau ewyllysgar y tlodion i'w cyfoethogi, a bai y Llywyddion yw na bae yr holl Saint yn deall hyn drwy brofiad.

Frodyr, mae Duw yn gofyn i chwi edrych fod y Cymdeithasau hyn a Dosparth y llyfrau yn cael eich cefnogaeth gref, ac eglurhâd mynych yr un cymmaint ag y dysgwylia i chwi bregethu, bedyddio, dysgyblu, neu unrhyw beth arall a orchymyna i chwi; ac o ganlyniad, pa fodd y gall esgeulnso y naill neu y llall beidio a bod yn bechod yn ei erbyn. Ni raid i ni yma geisio egluro i *chwi* yr anghenrheidrwydd o wneyd hyn gobeithiwn, ond yn unig galw eich sylw buan at y pethau hyn, er gweled diwygiad trwyadl a buan. Er gochelyd y siomedigaeth a geir drwy addunedau o swmiau mawrion ar ddiwedd y chwarter, cyhoeddasom *Dafleni* cyfleus er cadw coffadwriaeth o'r oll a delir, ac fel y caffo pawb gyfle i dalu eu symiau bychain yn wythnosol, yr hyn pe talasai pob un ond dimeu yn y mis, buasai hyny bunnoedd yn fwy nag a gafwyd hyd yn hyn yn Nghymru. Edryched pob swyddog perthynol fod casglwyr o'r iawn *Ysbryd* yn cael eu danfon oddiamgylch bob boreu Sul gyda y *Tafleni*, i dderbyn cyfraniadau y Saint at y naill a'r llall o'r hyn a osodir o'u blaen. Dylai pob Llywydd ystyried yr esgeulusdod o hyn yn bechod, ac ymddwyn ato fel yr haedda.

RHYFEL RHWNG Y TALEITHIAU A'R INDIAID GORLLEWINOL.

Dylifa newyddion i'r Taleithiau yn feunyddiol o wahanol barthau o'r gororau gorllewinol, a chyda masnachwyr, mynyddwyr, teithwyr, a helwyr o wledydd yr Indiaid, fod cyffroad

pur gyffre linol drwy y mwyafrif o'r llwythau Indiaidd i'r gorllewin, gogledd a dê-orllewin hyd y mynyddau creiglyd ac yn mhellach; eu bod yn unfrydol braidd wedi cyngreirio i wrthsefyll gormes yr Unol Daleithiau, ac y mae eisoes dros 3,000 o'u gwroniaid wedi ymfyddino mewn lle a elwir "Ash-hollow," ar y ffordd a arweinia i, ac nid neppell o Fort Laramie. Dywed y genad olaf eu bod wedi yspeilio yr hen fasnachwyr llenaf yn eu plith, rai a fuont fyw yn eu plith am yn agos i 40 mlynedd, wedi ymbriodi â hwynt, a magu plant yn eu plith, etto mae' atgasrwydd yr Indiaid gymmaint yn awr yn erbyn y gwynion fel y maent ar ol yspeilio y rhai hyn o gannoedd o geffylau, eu nwyddau, a bygwth eu *scalps*, wedi eu gorfodi i ffoi o'u plith am eu bywydau. Ni wnaethant fel hyn mewn unrhyw ryfel blaenorol â'r gwynion. Yn awr, baeddiant y milwyr a anfonodd y Llywodraeth i amddiffyn ymfudwyr, &c., i ddyfod i'w cyfarfod, mai eu pleser a'u *sport* hwy fydd lladd pob copa o'r gwyr â'r cotiau cochion, tra y byddont yn cogldroi i sŵn eu miwsig a'u drwm, ac yna y diangant i'r coed. Gwawdiant y meddylddrych o gael eu goresgyn gan yr Unol Daleithiau.

Ymosodod byddin o Indiaid ar Fort Kearney, ac wedi gyru nifer o'r Pawnees i mewn o'u blaen, lladratasant anifeiliaid y lle oddiar eu bugeiliaid. Saethodd y milwyr i'w plith, eithr fel yr oedd mwyaf ffortunus iddynt eu hunain a'r lle, ni chlwyfwyd neb, onidê diamheu y lladdent bob dyn gwyn oddeutu y lle, o herwydd yr oeddynt yn llawer lliosocach. Da yw dweyd iddynt foddloni myned ymaith gyda eu hyspail heb ladd neb. Mae tua 4,000 o filwyr y Llywodraeth ar eu ffordd i'r amddiffynfeydd gorllewinol, eithr ofnir y byddant rhy ddiweddar i achub bywydau yr ychydig sydd yno eisoes.

Daeth boneddwr Ffrengaeg o darddiad a briodasai ferch pennaeth Indiaidd, o'r enw "Pedair arth," yn mhlith y llwyth lliosog a elwir Sioux, gyda ei dad ynghyfraith i mewn i Council Bluffs, gyda 60 o lodges (teuluoedd), o herwydd iddynt wrthod ymuno gyda y gweddill o'r llwyth i ymladd yn erbyn y bobl wynion, am yr hyn dywedir fod y lleill yn holloll awyddus. Hysbysir hefyd fod y Sioux wedi cymmeryd gwersyll Mormonaidd o ugain o waggeni, a bod yn eu plith tuag ugain o wragedd a phlant, ond dim dynion gwynion. Ni ddywed mai gwynion y gwragedd a'r plant chwaith; ond digon er gwrthbrofi yr

ystori yna yw dweyd nad oedd gwersyll o Saint wedi cychwyn mewn pryd i fod o fewn mil o filltiroedd i'r fan a noda y stori, ac ni fuasai y Sioux yn myned mor bell i ganol gwlad y snakes i gymmeryd y fath ysbail.

Ar nad beth a ganiatâ Duw i'r Indiaid wneyd â'r Saint sydd yn ymfudo i Seion èleni dros y *plains*, gwyddom fod ar eu ffyddlondeb addewid o amddiffyniad hollalluog fraich yr Hwn ni florffetiodd ei eirwiredd erioed; ac mewn ufydd-dod i alwad yr Hwn yn unig yr ânt; pe ond hyny nid ofnwn y canlyniadau o ufyddhau iddo Ef. Etto er cysur i'r sawl sydd ofnog am eu cyfoedion yno, dywedwn nad ystyria yr Indiaid mo y "Mormonees" yn Americaniaid, nac o ganlyniad yn elynion ond yn gyfeillion iddynt hwy. Bu dda i ni am ein bywyd tra yn teithio yn eu plith ein bod yn "Formonee." Gwaeddent mewn cyfarchiad "Americani?" Atebem, na, mai "Mormonee" oeddym; ar hyn newidiai eu gwyneb-pryd, i lawr a'r drylliau a'r bwa saethau, a rhedent yn mlaen bob amser i siglo dwylaw yn siriol! Ni allem lai na synu wrth y dylanwad hyn, eithr mwy nâ thebyg fod iddo achosydd uwch ddynol, ac a fydd o fawr les ac amddiffyniad i'r Saint yn awr, er fod yr Indiaid wedi clywed am ormes yr Americaniaid ar y "Mormonees" yn Missouri, ac wedi galaru yn fawr o herwydd merthyriad ein Prophwyd a'n Patriarch, nes mae yr oll yn magu cydymdeimlad brawdol, ac mae y ddynoliaeth a feddant yn eu cymhell yn amddiffynwyr rhag "Cristionogion!"

AWYDD AM SEION.

Gorthrymder y dyddiau diweddaf,
Sydd feichus ac anhawdd eu dwyn;
Gweddiaf am gael fy ngwaredu,—
O Arglwydd gwna wrando fy ngwyn;
Prysured a deued yr amser,
'Rwy'n edrych am weled y dydd,
Pan gaffwyf o'r gorthrwm presennol,
Yn hollol fy ngollwng yn rhydd.

Awyddus wyf bennydd am Seion,
Mi garwn fyn'd yno i fyw;
Rhyw bethau daionus ddywedir
Am Seion—cartrefle plant Duw;
Gwir gariad ac undeb s'yn flŷnu,
Rhwng pawb o breswylwyr y tir;

Hiraethlawn yw f' enaid am Seion.
Gwnewch goelio – 'rwy'n d'wedyd y gwir.

Gan f' awydd mi nofiwn yr eigion.
Pe gallwn ond cyrhaedd y làn.
Rhaid aros ryw 'chydig bach etto.
Feallai gwna wawrio'n y man :
Boddlonaf i 'wyllys y nefoedd,
Boed hyny y peth ag y fo:
Yn brydlon fe gofir am danaf.
Caf fyned i dref yn fy nhro

Taibach, ger Aberafon. THOMAS RICHARDS.

TALIADAU AT DDYLED CYNNADLEDD ORLLEWINOL MORGANWG, O AWST 11EG HYD Y 23AIN.

	£	s.	c.
1. George Cutliffe. Seis. Abertawy . .	0	10	0
2. Wm. Lewis, Alltwen	0	5	0
3. Margaret Lewis, ei wraig . . .	0	5	0
4. John James, Alltwen	0	3	0
5. Ann James, ei wraig	0	3	0
6. Wm. F. Williams. Alltwen . . .	0	10	0
7. Mary Williams, ei wraig . .	0	10	0
	£2	6	0

D.S. Mae rhai ereill wedi talu cyfran, eithr ni chydnabyddir hwynt drwy yr UDGORN, hyd oni chyflawnant eu haddewidion.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O AWST 12 HYD 17.—W. Lewis, Gorll. Morganwg, £1 19s 3½c; Griffith Roberts, £1 ; Isaac Jones, £1 8s 10½c.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

Tud.
Cofnodion Cymmanfa Gyffredinol 273
Llythyr o Ddiuas y Spanish Fork 275
Llythyr y Chwaer Daniels 277
Llythyr Henry Harries 278
Cais at ateb Gofyniadau, &c 279
Golygydoiaeth.—Llwyddiant Eglwys Dduw yn Nghymru 281
Rhyfel rhwng y Taleithiau â'r Indiaid Gorllewinol 285
Awydd am Seion 287
Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg 288

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

RHIF. 19.] MEDI 15, 1855. [CYF. VIII.

"TYSTIOLAETH, FFYDD, AC YMDDIRIED."

(O'r "Deseret News.")

YR wyf yn credu yn yr Arglwydd Iesu Grist, yn ngwaith y brynedigaeth, yn egwyddorion iachawdwriaeth a bywyda tragywyddol; yn nghyfammodau gwaith y dyddiau diweddaf, dyfodiad Llyfr Mormon, yn Joseph Smith, fel Prophwyd, Gweledydd a Dadguddiedydd i Eglwys Iesu Grist o Saint y Dyddiau Diweddaf; yn natguddiadau y Nef drwyddo, ac yn yr egwyddor o fywydau tragywyddol.

Meddai un, "O, y mae genyf y fath dystiolaethau fod fy'm ffydd yn sefydledig, oes, y mae genyf y fath ymddiried yn ngwaith yr Arglwydd, ac yn nhystiolaeth ei weision, fel y gallwn sefyll gerbron y byd i gyhoeddi yr egwyddorion hyn. Yr wyf yn gwybod fod y pethau hyn yn wirionedd; ydwyf, gallwn wynebu ffroen y magnel, canys gwell fyddai genyf farw na gwadu y pethau hyn; ydwyf, yr wyf yn gwybod fod y Brawd Brigham yn Brophwyd, ac yn olynydd i Joseph." Caniatewch i mi ofyn, a ydych chwi yn gwybod hyn drwy dystiolaeth yr Iesu, neu a ydych chwi yn ymorphwys ar dystiolaethau dynion, ac ar ymadroddion a rhesymiadau yr Henuriaid? Os nad yw tystiolaeth yr Iesu genych, ceisiwch hi heb oedi, ac ymdrechwch o ddydd i ddydd i'w chadw, gan gofio mai hebddi nis gellwch feddu y ffydd hono sydd i fywyd tragywyddol—hebddi ni fydd genych y cyfryw ymddiried yn yr Arglwydd ag

a'ch breintia â mynedfa i'w bresennoldeb, nac a'ch cynnalia yn nydd profedigaeth. Nid wyf yn meddwl y profedigaethau hyny o erlidigaeth a gawn oddiwrth ein gelynion; canys pan ein herlidir, pryd hyny yr ydym yn gryf; yn yr amgylchiadau hyny y mae dyn yn gyffredin yn anghlwyfadwy. Yn anfynych iawn y clywwn am ddyn yn gadael achos rhyddid tra y byddo byddin y gelyn yn ymwasgu arno, eithr y mae profedigaethau o natur ysgafnach yn gyffredin yn achosi syrthiad y Sant; neu y pryd hyny mae y gelyn yn debycach o'n cyrhaedd. Teimlwn na wnaeth y brawd hwn neu hwnacw yn eithaf iawn; neu teimlwn fod gwell amcan genym i drefnu rhai pethau nâ'r rhai a gawsant eu tueddu i'w gwneuthur. Dechreuwn achwyn, beiwn, ymoilyngwn gyda ein teimladau, daw y diafol i mewn i'n helpu yn mlaen, a chyn hir gyrir ni o'n lle. a chyn y deallwn ein bod wedi ein maglu, ac fel yr ymuesão ysbryd y diafol, ac y rhoddwn ninnau le i'w ddylanwad, cilia Ysbryd Yr Arglwydd, a buan ein handwyir mewn cwmwl o dywyllwch, ein gadewir i grwydro, a buan yr anghofiwn yr Arglwydd; felly yn mhob i drwch y blewyn ein cam-arweinir hyd oni chwblheir ein dadymchweliad.

Dyma y llwybr a gymmerodd pob un a adawodd y gwirionedd; llawer a ystyriwyd megys colofnau yn yr eglwys; llawer ag oedd eu ffydd wedi myned yn ddiareb; llawer ag oeddynt wedi synu y byd â'u tystiolaeth, a'u haddysgiadau wedi cael eu gwrandaw, a chael clod a phoblogrwydd; llawer a adnabuasant allu Duw, a thrwy weinyddiad pa rai y cyflawnwyd gwyrthiau, ac yr iachâwyd y cleifion; ac y mae hyd y nod y rhai a gawsant weinidogaeth angylion wedi cael eu harwain ar gyfeiliorn, a thrwy roddi ffordd i ddylanwad drygionus wedi gadael yr Arglwydd yr Hwn a'u prynodd, troi o'r neilldu a chael eu gorchfygu. Am hyny, frodyr, bydded eich hymddiried yn Nuw, canol-bwynt eich ffydd fyddo ynddo, wedi eich dysgu trwy ddadguddiadau Iesu Grist; a sefydler eich ffydd gan dystiolaeth yr Iesu, yr hon yw Ysbryd y brophwydoliaeth, a chadarnhaer hi gan yr Ysbryd Glân, fel eich bendithier yn enw Iesu Grist. Amen.

SANT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

LLYTHYR Y LLYWYDD H. C. KIMBALL AT EI FAB YN LLOEGR.

D. Ll. H. Mawr, Mai 29, 1855.

Fy anwyl Fab William,—Derbyniais y llythyrau a ysgrifenasoch pan ar eich gwely cystudd gan y frech wen. Pan gyrhaeddasant, yr oeddwn ar daith trwy y sefydliadau deheuol, yn nghwmpeini y Llywyddion Young a Grant, ac ereill; unai llawer gyda ni yma a thraw, nes yr oedd y cerbydau yn 28 mewn rhifedi. Aethom i ddinasoedd San Pete, Fillmore, Parowan, a Chedrwydd; daeth y brodyr i fyny o Fort Harmony, a threiliasant y Sul gyda ni. Yn Fort Harmony, mae y caerau amddiffynfaol o wyth i ddeg troedfedd o uchder, 200 troedfedd ysgwâr; ac yr oedd y gweithfeydd haiarn yn myned yn mlaen yn dda; o'u ffwrnes fach yr oeddynt wedi rhedeg chwech neu saith toddiad, ac wedi gwneuthur rhai *castings* o 200 i 250 pwys yr un, tra yr oeddem ni yno, ac yr oeddynt yn bwrw peiriannau i osod morthwyl mawr ar waith er gwneuthur eu peiriannau eu hunain, ac wedi bwrw esiamplau rhagorol—anfonwyd un esiampl o haiarn gwaith i fyny i'r ddinas hon, gystal ag a wnaethpwyd erioed, a phob argoel gystal ag oedd ddichonadwy. Un rhwystr oedd eu bod yn brin o ddynion i garlo y gwaith yn mlaen yn effeithiol; ein bwriad yw codi digon o gynnorthwy yn Ninas y Ll. H. Mawr i anfon i waered atynt yn union, fel yr hwylusir y gweithfeydd. Y maent wedi adeiladu a chwblhau ffwrnes fawr anferthol, yr hon a chwythant i mewn cyn hir, ac y mae yn gwneuthur yn dda, ac yn llwyddo yn y parthau hyny o'r wlad.

Pan aethom i waered, edrychasom ar wythïen ardderchog o lô yn Nyffryn San Pete, yr hon a agorir yn union, ac fe ddygir glô i'r lle hwn, am 30 doler y dunell, i ddiwallu ein gofiaid a'n peiriannau, am yr hwn y meddylir y bydd lawer rhatach nâ chyn hyn, ac y mae gystal â dim a welais erioed yn Hen Loegr, ac y mae yn dda genyf ddywedyd y fod cyflawnder o hono. Mae yn gorwedd yn y mynyddau, yn union i'r gorllewin o'r fan y croeswn afon San Pete i fyned i Manti.

Gadawsom ddinas Cedrwydd er myned adref boreu dydd Llun, â chyrhaeddasom yma boreu dydd Sul am hanner awr wedi naw, wedi bod bum niwrnod a hanner awr yn teithio o

ddinas Parowan i Ddinas y Llyn Halen (270 o filldiroedd). Ar ein taith pregethasom yn y mwyafrif o'r sefydliadau, gan eu hannog i ymwellhau, a symud tomenau eu hysguborau ac arllwysfeydd bryntni tuallan i'r muriau, addurno eu dinasoedd, gwneuthur y llefydd yn ogoneddus, a ffrwythlon; dyma oedd ein prif bregethau, ar iddynt ymwellhau ar eu talentau, ac adeiladu tai ac ysguborau da, i gymhwyso eu hunain i fod yn brif adeiladwyr yma, fel y byddent alluog i gymhwyso eu hunain i fod yn brif adeiladwyr yn y Jerusalem Santaidd.

Tuag wythnos neu ddeg diwrnod cyn i ni gychwyn tuag i waered, aeth y Llywydd Brigham a minnau tua'r gogledd cyn belled â Box Elder, gan annog y Saint i wneuthur yr un modd, a dihuno o'u cysgadrwydd, a gwasanaethu yr Arglwydd, gwrandaw ar gynghor, ufyddhau i'w orchymynion, a pharotoi erbyn y pethau hyny sydd yn dyfod yn fuan ar y byd. Gallaf ddweyd i ni gael y Saint yn gyffredinol ar eu gwellhâd, yn y gogledd a'r deheu, mewn pethau ysbrydol a thymmorol; mae y cyfryw bethau yn dygwydd yn Nyffrynoedd y Mynyddoedd ag sydd yn deffroi yr oll i deimlad o'u dyledswydd, nid yn unig yn mhell, ond gartref.

Oddiyma i'r deheu, cyn belled ag yr aethom, torrwyd y llafuriau i lawr gan geiliogod y rhedyn, ac nid oes hanner can erw o unrhyw fath o lafur yn sefyll yn bresennol yn Nyffryn y Llyn Halen, ac mae yr hyn sydd ar lan yn cael ei dorri i lawr yn gyflym. Yn Swydd Utah mae y maesydd yn lled anghyfannedd. Nid oes flaguryn gwyrdd o lafur i'w weled yn nyffryn Juab, San Pete, nac yn Filmore. Y maent yn hau o hyd yn y Llyn Halen Fach, ac yn ninas Cedrwydd hefyd. Gan fod y wlad gymmaint diweddarach, nid yw y llafur fyny etto; ond y mae ceiliogod y rhedyn yno yn barod i'w ysgubo cyn gynted ag y tŷf i fyny. I'r gogledd, cyn belled â Box Elder, yr un yw yr olygfa: lle y torrant y gwenith i lawr ymddengys ei fod wedi ei ladd, fel pe na fyddai modd am ail dyfiant. Mae yn debyg y fod tair gwaith gymmaint o lafur wedi ei hau ag a hauwyd ar un amser o'r blaen yn y mynyddau; ac ymddengys fel pe byddai yn anghyfannedd-dra hollol; ac wrth olwg pethau yn bresennol, nid oes yr un argoel lleiaf y codir un bwshel o lafur yn y Dyffrynoedd y tymmor presennol hwn; etto, geill ceiliogod y rhedyn fyned, fel y galluogir ni i hau gwenith ac

yd yn ddiweddar. Gallwn ddweyd y fod mwy o wyrdd bethau yn y gerddi yn Ninas y Llyn Halen nag sydd yn yr oll o'r gerddi ereill yn y deheu. etto y mae llawer o'r gerddi yn y ddinas wedi eu llwyr ddyfetha. Dywed y brawd Staines wrthyf y boreu hwn y fod ganddo bum can mil o goed afalau ieuainc wedi dyfod i fyny, ac y maent oll wedi cael eu torri i lawr i'r ddaear; ac mewn llawer o erddi, lle yr oedd y coed *peaches*, y mae pob dalen a *pheuchen* wedi myned. Ni welsoch well golwg erioed ar y *peaches* nag a welwyd yn Nyffryn y Ll. Halen, ond y mae fy nghoed i, gydag amryw ereill, yn sefyll yn dda o hyd—wedi eu llwytho â *pheaches*. fel y mae llawer o'r cangenau yn hongian i lawr yn feichiog gan ffrwythau. Y mae fy nghoed eirin wedi eu llwytho eleni am y bedwerydd waith.

A'r holl anghyfannedd-dra hyn yn syllu yn ein gwynebau, ni welsom yr un wep gam, ond ymddengys pawb yn fywiog, cysurus ac hawddgar, gydag eithriad o'r gwrthgilwyr diffydd; gobeithiwn y cynnydda eu gofid hwy—y cychwynant i Califfornia, neu i ryw le arall, a hyny ar frys—nid oes llawer o honynt ar ol yn awr, gan fod llawer wedi myned er ys tipyn yn ol. Eel hyn y mae fy nheimladau i, ac felly yr oeddynt o'r blaen,—os yr Arglwydd a'i trefna fel ag i ddinystrio ein cnydau, mi a'i cymmeraf yn rhybudd y buasai mwy drwg wedi dyfod arnom nâ newyn am fara. Nid oes ofn arnaf i, nac ar y cyfiawnion, y newynwn yn gymmaint ag y byddwn ffyddlawn ac y cadwn ei orchymynion Ef; dywed yr Arglwydd mai ei fusnes Ef yw darparu ar gyfer ei Saint, ac Efe a wna i ni fel y gwnaeth o'r blaen yn ein hamser anghenog.

Gadawodd Colonel Steptoe a'i fyddin y lle hwn tua'r amser yr aeth y brawd Brigham a minnau tua'r gogledd. . . . Mae y Cenedloedd gan mwyaf wedi ein gadael, a theimlwn yn ddedwydd iawn, gwell fuasai genym gael gwared o honynt hwy pe bod heb fara, canys, os na fydd genym fara, nid ydynt yn debyg o ddyfod atom Fel y dywedais ac y dywedaf yn awr, gwell fyddai genyf weled fy nhenlu yn ceibio gwreiddiau, a byw ar gig holl ddyddiau eu heinioes, a bod yn Saint, gwasanaethu eu Duw, a gosod sylfaen i etifeddu bywydau tragywyddol, nâ'u gweled yn cael digon a myned at y diafol, fel y mae llawer yn myned, y rhai nid ydynt wedi gwerthfawrogi eu bendithion; a gallaf ddywedyd mewn gwirionedd, William, o'r

holl bobl sydd yn byw ar y ddaear, y mae genym ni, Saint y Dyddiau Diweddaf sydd yn byw yn y mynyddoedd, yr achos mwyaf i fod yn ddiolchgar, oblegid ein bod wedi ein bendithio, canys yr ydym yn cynnyddu mewn meddiannau ac yn nghysuron bywyd, y maent fel pe yn ymarllwys arnom—llawer sydd yn eu gwerthfawrogi, a llawer nad ydynt: o'r holl bechodau o ba rai y gall dyn fod yn euog, y mwyaf yw y pechod o anniolchgarwch idd ein Duw, yr hwn sydd wedi ein bendithio â'r fath gyflawnder. Meddyliaf fod fy mab William yn gweled y pethau hyn yn eglurach yn awr nâ chyn i'w lygaid gael eu hagor i weled y newyn a'r tlodi yn yr hen fyd yna lle y triga yn awr.

Y mae fy nheulu i, a'r eiddoch chwi, yn gysurus, a chan ddynt dai gwychion, digon o wisgoedd cynhes, blawd càn a cheirch da, cloron, a gwyrdd-lysieu ereill, digon o laeth ac ymenyn, ac yn mhlith pobl dda sydd yn gwasanaethu eu Duw. Yr ydym oll mewn heddwch â'n gilydd—yr hyn nis gall y byd ddweyd, nac unrhyw ddwy seet na phlaid ar y ddaear; cynnydda ein hundeb yn feunyddiol, a gallwn gydnabod llaw ein Duw yn mhob peth, a gweled gwaith ei ddwylaw yn mhlith y cenedloedd.

Yr hydref diweddaf, wedi i Colonel Steptoe a'i fyddin ddod i mewn yma, gyda'r Barnwr Kinney, Mr. Holman, ac amryw ereill, gwnaethom â hwynt megys y dylid â boneddigion, a gwahoddasom hwynt i'n gwyliau a'n preswylfeydd, a phorthasom hwynt, a cheisasom wneuthur rhywbeth o honynt. Tra yn gwneuthur hyn, dechreuasant a chymmeryd rhyddid anweddaidd gyda'r benywod. Ryw amser yn Chwefror diweddaf, yr oedd y brawd Grant â minnau yn y cyfarfod; nid oedd y brawd Brigham yn bresennol o herwydd anhwylderb. Cyfodais i lefaru, syrthiodd yr Ysbryd Glân arnaf, a llefarais fel y'm tueddwyd, dynoethais eu drygioni a'u gweithredoedd llygredig a ffiaidd yn ein plith, a digiasant.

Cefnogodd y brawd Jedediah fi—yr oedd cynddrwg â dacar-gyn iddynt. Yn flaenorol i hyn yr oeddem y dynion goreu sydd yn fyw, yr oeddynt wedi dweyd hyny yn y cyhoedd a'r dirgel; ac wedi hyny dywedasant nad oedd iselach sect o bobl nâ nyni, o'r Llywodraethwr i waered, ac yr oeddynt yn barod i gymmeryd ein bywydau. Dygwyd y drefferth hon arnom o

herwydd iddynt fyned dros ben y llestri gyda'r benywod; a rhai crach-ddiafliaid salw, a feddent yr enw o Saint, pa rai oeddynt hefyd, fel mae y gwaetha'r modd, ar lun dynion—y rhai a broffesent fod yn Saint, a ddaethant allan yn lled dŷn ar Jedediâh a minnau, gan feddwl nad oeddem yn iawn, a dywedent, pe byddai y Llywydd Young yn bresennol, y caffem gerydd ganddo, a dysgwyliasant i ni gael ein ceryddu pan y deuai allan. Pan y daeth allan, daeth heb gamsynied am dano, cefnogodd ein tystiolaeth, ac aeth yn mhell tuhwnt i ni. Gellwch benderfynu iddo ddwyn dystawrwydd a gŵg mawr oddiwrth y rhai a'n beiodd. . . . . *Y mae y Barnwr Shaver yn foneddwr, wedi profi ei hun, cyn belled â hyn, yn ddyn da; ac y mae yn meindio ei fusnes ei hun.* Efe yw yr eithriad o'r cyffredinolrwydd.

Cychwynodd yr Henuriaid Hyde, Heywood, a thua dwsin neu ychwaneg o genadon at Israel, tua Dyffryn Carson, er ys bythefnos yn ol.

[Yna rhodda hanes tua chant o genadon ereill hefyd, gyda eu gweddeuau, eu hanifeiliaid, ac anghenrheidiau ereill, a aethent i sefydlu yn mhlith gwahanol lwythau yr Indiaid, neu Israel, a dyweda,]—Y mae yr Indiaid yn mhob lle yr awn yn eithaf heddychlawn a chyfeillgar, ac yn fwy deallgar—y maent yn weithwyr da rhagorol. Y mae gan Kanoshe a'i wyr dyddyn da ar y Corn Creek, ac y mae yn byw mewn tŷ cryno. Aethom i'w weled ef. Daeth ef ac wyth neu ddeg o'i wyr gyda ni yn ol hyd Cedrwydd. Aeth mewn waggen a'i *squaw* gydag ef, fel y byddai yn debyg i'r Blaenoriaid mawrion. Pregethodd i'r Indiaid yn ninas Cedrwydd a Pharowan. Gadawodd yr Indiaid eu blaenoriaid yn y ddau le, o herwydd eu bod yn ddiog ac na weithient. Bu Arrapeen a'i lwyth i fyny yma,—efe yw y Blaenor yn lle Walker; y mae yr oll yn fwyn ac yn dda. Aeth Arrapeen i'r esgynlawr y Sul diweddaf, ac annogodd y Saint i wrandaw ar Brigham, cymmeryd ei gynghor, a gwneuthur fel y dywedai.

Bydd sylfaen y Deml hyd waelod y llofft isaf wedi ei chwblhau yn mhen tua bythefnos. Mae y gweithfeydd cyhoeddus yn myned yn mlaen yn hwylus. Y mae ail dŷ mawr y brawd Brigham yn agos yn barod, a llawer o welliadau yn myned yn mlaen yn y ddinas. . . . .

Pris y càn yma yn bresennol yw £1 5s, a'r gwenith yn 8s 4c y bwshel.

Yn awr dywedaf am bethau yn y teulu. Y mae cieh mam yn mwynhau iechyd da iawn, ac y mae yn galonog iawn; felly y mae yr oll o'm gwragedd a'm plant, ac y maent mewn ysbryd da, ac y mae eu calonau a'u serchiadau yn dyfod yn osodedig ar bethau nefolaidd a chyssegredig, a gwnant y goreu a allant yn ol a wyddant. . . . . Am ein ceffylau, gwartheg, a defaid, y maent oll yn gwneuthur yn dda rhagorol; lle na fu ond 300 pwys o wlan, yr wyf eleni wedi cael 425 pwys. Yn agos gynnifer o ŵyn ag sydd o ddefaid eleni. Gallaf ddywedyd ein bod oll yn ymdaro yn dda, yn meddu cysuron bywyd, ac y mae hyn yn gyffredin yn mhlith y Saint yn y dyffrynoedd. Mae y brodyr llywyddol oll yn dda, ac yn anfon eu cofiant atoch.

Duw a'ch bendithio oll ag einioes, heddwch, llwyddiant, a bywydau tragywyddol, yn enw Iesu Grist. Amen.

Ydwyf, eich anwyl dad,

HEBER C. KIMBALL.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MEDI 15, 1855.

NEWYDDION O UTAH.—Yn mhlith y lliaws o newyddion dyddorol a ddaeth o Utah yn ddiweddar, nid oes nemawr ddim a gaiff fwy o sylw Golygyddion llygredig y byd, na nemawr ddim a darawa eu chwaeth yn well nâ'r difrodaeth a wneir gan y ceiliogod y rhedyn a'r locustiaid; ymffrostia rhai o honynt fod hyn yn farn Duw, ac yn sicr braidd o ddwyn "Mormoniaeth" i dranc truenusach nag a allodd ei holl elynion wneuthur drwy y byd; credant y gorfoda newyn i'r Saint i ymadael o Utah, i chwilio am ymborth; nad all yr Unol Daleithiau gludo ymborth cyn belled o ffordd i borthi dros 50,000 o bobl dros y

geuaf. Eithr er mor ofidus yw fod y Saint yn dyoddef y fath golled, da yw iddynt fod ganddynt Dduw gwell i ymorphwys arno, nag ar drugaredd y "Cristionogion" a'u halltudiasant o'u plith i drengu os gwnelent, ac fe'n siomir ni os na throa y rhôd ar ol hyn, fel nad Joseph alltudiedig a aeth yn ol i Gaanan, ond mai ei alltudwyr a orfuwyd gan newyn i ddyfod ato ef am ymborth. Os nad felly y bydd, etto, er dued y cymylau presennol, nid ydym yn gwybod dim am fwriadau Duw tuag at ei blant nâ'r byd! Ni wel llygaid Golygyddion a Pheirch y byd i amcanion Duw, ond cyn belled ag y neidia ceiliog y rhedyn; er bŷred ei gam ef, nid llai yw nâ golwg bŷr doethion y byd. Cofus gan y Saint i Dduw ddweyd mai ei fusnes Ef yw gofalu dros ei blant, ac Efe a'i gwna yn well nag y gallant hwy wneyd drostynt eu hunain, os ufyddhant i'w orchymynion Ef. Efe a'u galwodd yno, Efe a'u gosododd ar waith i adeiladu Seion a'i themlau, ac mor sicr â hyny Efe a'u portha hefyd, nad pa fodd y bydd hyny. Da genym ddeall fod y Saint yn ddigon ffyddlog i ddysgwyl am iachawdwriaeth yr Arglwydd yn y cyfyngder hwn etto, fel Israel gynt. Os y farn a ddechreua o du Dduw, pa le y saif yr annuwiol a'r pechadur?

Hysbysir ni drwy newyddion diweddarach fod y gwaelanod y môr wedi dyfod yn gymylau yno etto ar ol ceiliogod y rhedyn, fel yn y tymmor cyntaf o'u sefydliad yno, a gwylied ein gwawdwyr yn ein cyfyngder rhag i adar y nef brofi eu hunain yn fwy trugarog ac ysbrydoledig nâ hwynt. Ond hyn sydd hysbys, fod hyn fel yr oll, yn brawf o ffydd y ffyddloniaid; ac er yr arswyda rai rhag ymgasglu yno yn ol gair yr Arglwydd, etto ni syfla hyna y pur o galon, fel ag i'w droi o'r ffordd rhag myned yno.

Newyddion Tramor.—O'r "*Luminary*, am y 14 o Orphenaf, lloffwn a ganlyn:—Fod yr Anrhydeddus Orson Hyde, (yr hwn yr haerai Golygyddion y Taleithiau ei fod yn St. Louis ar yr un amser yn chwilio am ddeg o wragedd newyddion.) ynghyd a'r Anrhyd. G. P. Stiles a J. L. Heywood, wedi myned o Dd. Ll. H. Mawr i Ddyffryn Carson, i sefydlu Swydd newydd yn y Diriogaeth. Mae ein parchus frawd, y Golygydd, wedi myned i'r Dyffryn, gan fwriadu dychwelyd cyn y geuaf, ac wedi ymddiried y *Luminary* i Olygyddiaeth alluog ein hanwyl frawd

Orson Spencer; fod yr Henuriad J. T. Bell, llywydd diweddar y genadiaeth yn Môr y canoldir, a'i wraig, wedi marw yn y gwersyll ar eu ffordd i Seion; fod yr Henuriad Sechrist, llywydd y gwersyll, wedi marw drwy ofer-weithio ei hun yn chwilio am anifeiliaid y gwersyll a aethent ar ffô. Mae gwersylloedd y Saint wedi bod yn weddol iach hyd yn hyn, oddieithr ychydig o'r Cholera, yr hwn a gymmerodd ymaith amryw o'r Saint o Texas, ag oeddynt yn ngwersyll y Llywydd Blair. Ni aflonyddodd yr Indiaid neb o honynt hyd yn hyny. Mae John F, Flourney wedi deisebu senedd Talaeth Georgia i ganiatâu Amlwreigiaeth; eithr ni ddeallwn pa lwyddiant a gafodd. Y mae llwyddiant mawr wedi dilyn ymfudiad y Saint hyd y ffordd newydd eleni hyd St. Louis; o blith tua 1,200 a ymfudasant ar fwrdd y ddwy long y "Juventa" a'r "S. Curling," ni bu un farw ar fôr na thir hyd St. Louis, yr hyn, mewn gwrthgyferbyniad i'r marwolaethau mynych a gymmerai le yn mhlith pob ymfudwyr ereill ond Saint, oedd yn achos o lawer o syndod drwy'r Taleithiau, ac yn cael ei godi i'r gwynt gan y newyddiaduron yn gyffredinol.

O'r "*Mormon*" am yr 28ain o'r mis blaenorol, lloffwn:—Fod holl wersylloedd y Saint, oddieithr dau neu dri, wedi cychwyn eu ffordd o'r gwersyllfan. sef Atchison, cyn yr 8fed; y cychwynai y lleill yn mhen tri neu bedwar diwrnod, ac y cludent gyda hwynt beiriannau agerfad, yr hon a wna y Llywydd B. Young i hwylio ar y Llyn Halen Mawr; yr oedd cin parchus Lywydd Daniel Spencer yno yn iach ar y pryd hyny: yr Arglwydd a'i bendithio ac a'i dychwelo yn ol yn iach ac yn fuan. Cawsai y Saint sydd yn llafurio tyddyn y D. Y. Barhaus, yn Mormon Grove ger Atchison, a'r Saint ereill sy'n ymgasglu yno i ymbarotoi i fyned yn mlaen yn y flwyddyn nesaf, gryn wledd ac amser hyfryd; hiliasant eu byrddau oll â danteithion cymmyrchiol o'r tyddyn ei hunan, yr hwn oedd yn hynod o ffrwythlon a gobeithiol i gynnorthwyo y Saint tlodion yn y dyfodol. Mae Pwyddiant cyffredinol yn dilyn ymdrechiadau yr Henuriaid sydd yn teithio drwy'r America, o Canada hyd Texas, a llawer o'r hen Saint ag oeddynt wedi myned i gysgu yn ymddeffroi ac yn ymbarotoi i fyned adref i Seion; tiriasai yr Henuriad G. Q. Canon yn San Francisco gyda bwriad i Arolygu y wasg yno dan Olygyddiaeth P. P. Pratt, ac i gy-

hoeddi Llyfr Mormon yn yr Hawai-aeg. Dywedir fod y Saint yn sefydliad San Bernardino wedi darganfod helaethrwydd o aur yn y mynyddoedd cyfagos iddynt; eithr hyderwn mai mŵn haiarn, plwm, glô, neu'r cyffelyb yw, rhag sugn-dynu addolwyr y "duw melyn" yno i lygru eu mhoesau hwynt, a throi eu paradwys yn uffern iddynt. Mae y Saint wedi gwneuthur sefydliad newydd ar ddyffrynoedd y Vegas, rhwng eu sefydliadau mwyaf deheuol yn y Basin Mawr a San Bernardino, ger yr afon Rio Virgin, nid neppell o'i harllwysiad i'r afon fordwyol Colorado. Dywedir na wrthodasai y Col. Stèptoe Lywyddiaeth Utah, eithr ei fod wedi anfon i Washington y cymmerai y swydd os caffai ei le yn ei fyddin wedi gwasanaethu ei amser yn y swydd hono, a dysgwylid atebiad buan yn ol. Mae y ehwyldroad yn Mexico yn ffyrnigo, a darpariadau prysur yn cael eu gwneuthur ar yr afon Rio Grande, &c., i gyssylltu tair talaeth yn un werin lywodraeth, a dyfod i gyfundeb y Taleithiau Americanaidd. Mae ymgasgl fan newydd y Saint ar Ynysoedd môr y deheu yn bur llwyddiannus, a'r brodorion o'r gwahanol ynysoedd cylchynol yn dyfod yno yn ewyllysgar i lafurio o dan arolygiaeth y brodyr Americanaidd.

YMDDYDDAN RHWNG SECTYDDWR, MORMONIAD, AC ANFFYDDIWR.

[Parhad o dud. 135.]

Mormoniad.—Nid oes ammheuaeth ynwyf na foddlonweh chwi, Mr. Sectyddwr, i drefn y Testament Newydd er profi dwyfoldeb crefydd.

Sectyddwr.—Gwnaf, canys y rheol anffaeledig yna a'm hysbysa ddarfod i lawer gredu yn Nghrist pan *welsant* ei wyrthiau, ond gwell yw genyf gael clywed pa fodd y mae cael prawf o ddwyfoldeb eich crefydd yn nghyntaf, cyn dadlen ychwaneg fel yna.

M.—Gwell yw genyf innau ddangos yr iawn a'r unig ffordd, nag ymdraffertliu yn awr i brofi nad dyben Duw yn cyflawni gwyrthiau oedd er argyhoeddi dynion i gredu ei air, er y dylasai cerydd Crist i arwydd-geiswyr, a'r ffaith o'n hanghrediniaeth yn y gwyrthiau a welent, brofi y pwnc yn eglur, neu brofi

fod Duw wedi cael ei siomi yn ei ddysgwyliad. Gorfoda eich gwadiad o'r olaf i gredu y blaenaf; ond. gan y gwnaed arwyddion a rhyfeddodau gau, &c., ymddengys i mi mai y ffordd gywiraf i ddyfod i *wybodaeth* o wirionedd yr athrawiaeth yw drwy gredu tystiolaeth gweision Duw, ufyddhau i'w cenadwri, a chael mwynhâd o ddawn yr Ysbryd Glân, yr hwn yn unig a'ch gall- uoga i iawn farnu pethau dwyfol, trwy yr hwn y dadguddia Duw hwynt, ac heb yr hwn nis gall neb farnu pethau Duw, canys dywed Paul, "Pethau Duw nid edwyn neb. ond Ysbryd Duw," ac felly gwna y sawl a wrthoda grefydd a addawa hyn, heb ei phrofi, gam a'i enaid ei hun, gwelwch.

S.—A ydych chwi am ddangos nad all neb farnu pa un a yw eich crefydd yn ddwyfol ai peidio heb ufyddhau i'w gofynion yn nghyntaf? Er nad wyf fi yn credu fod neb yn gwybod fod eu crefydd yn ddwyfol, nac ychwaith y fod Duw yn rhoddi dadguddiadau, eithr fod yr hyn sydd yn yr ysgrythyrau sant- aidd yn ddigon.

M.—"Pethau Duw nid edwyn *neb* ond Ysbryd Duw."

S.—Ië, siwr, neb dynion, *neb* arall ond Ysbryd Duw.

M.—"A nyni a dderbyniasom, nid ysbryd y byd, ond yr Ysbryd sydd o Dduw, fel y *gwypom* y pethau a râd-roddwyd i ni gan Duw." Y rhai a feddant Ysbryd Duw sydd yn adnabod pethau Duw, ac ni ddichon neb arall.

S.—Wel, yr wyf yn gobeithio fod Ysbryd Duw genyf fi, er gwaeled ydwyf—liwch y llawr: ac os ydyw, yr wyf yn addaw i farnu pethau dwyfol.

M.—Mae eich gwadiad blaenorol o ddadguddiad presennol yn profi i'r gwrthwyneb, canys trwy fod Duw wedi dadguddio trwy ei Ysbryd yr adnabyddodd ei blant yr hyn oedd o hono Ef; megys yr adnabyddodd Pedr mai Crist oedd Mab y Duw byw,—"Gwyn dy fyd di Simon mab Jonna, canys nid cig a gwaed a *ddadguddiodd* hyn i ti, ond fy Nhad yr Hwn sydd yn y nefoedd." Pa beth a ddywed Paul?—Duw a'n heglurodd neu a'u dadguddiodd i ni drwy ei Ysbryd. Gwyn dy fyd di Simon ynte, canys nid wrth *weled* gwyrth yr adnabyddaist ei Fab Ef Iesu Grist, yr hyn yw y bywyd tragywyddol, ond trwy ddawn Duw, sef yr Ysbryd Glân, trwy yr hwn y dadguddiwyd pethau dwyfol i'r Corinthiaid hefyd. Prawf arall mai trwy gredu gair Duw ac ufyddhau iddo yw yr unig ffordd i *wybod* ac i *farnu*

pethau Duw yw y ffaith o fod "ffydd yn dyfod drwy glywed [ac nid drwy *weled*], a chlywed drwy air Duw," a hyny drwy bregethwr anfonedig, canys "pa fodd y pregethant onis danfonir hwynt." Y ffordd i adnabod pwy a anfonwyd gan Dduw yw cofio na ddanfonodd Duw un gwas i'r byd heb roddi gwybod iddo pa air i bregethu, a dywedyd "Fel hyn y dywed yr Arglwydd," nac heb brofi ei air yn wirioneddol i'w ufyddiln.

S.—Y mae modd i wybod ynte, eithr oni ellir gwybod cyn ufyddhau?

M.—"Nyni a dderbyniasom yr Ysbryd, &c., fel y GWYPOM." Nid gwybod cyn derbyn Ysbryd Duw. sef Ysbryd doethineb a dadguddiad (Eph. i, 17), yr hwn a wadwch chwi, ac ni ellir derbyn Ysbryd Duw ond trwy ryngu bodd Duw. drwy ffydd, wedi dyfod drwy glywed; o ganlyniad ni ellwch wybod cyn derbyn Ysbryd y dadguddiad, na derbyn hwnw cyn credu gair Duw drwy ei weision, ac ufyddhau iddo.

S.—Yn mha gyflwr y dywedwch fy mod i ynte os yn amddifad o'r cyfryw Ysbryd?

M.—Yn ddyn anianol, neu anysbrydoledig; ac y mae yr apostol yn dywedyd, "Dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw: canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt." Onid troseddu rheol Duw fyddai ceisio argyhoeddi dyn trwy weled tra y dywed Efe yn maenllaw mai ffolineb fyddant ganddo; ac onid ynfydrwydd fyddai, gan *nas gallai* efe eu gwybod hwynt, sef pethau Duw?

S.—Y mae yn wir fod hyna yn ysgrythyr, eithr gosodwch eich hunain goruwch eich barnu, pa un a ydych yn iawn ai peidio heb ufyddhau i chwi.

M.—Gwnawn, canys yr hwn sydd ysbrydol sydd yn barnu pob peth, ac efe *nis* bernir gan neb anianol.

S.—Wel, cawn siarad etto, rhaid i mi chwilio mwy i'r pwnc, ac iawn drefnu rhai gofyniadau sydd ar fy meddwl.

Barnwr.—Byddai yn dda genyf innau glywed chwaneg am Dduw sydd yn rhoddi dadguddiad, ond nid oes un tir i wrthwynebu cynnygiad teg ein cyfaill Mormonaidd. Dydd da i chwi hyd oni chwrddwn etto.

Abertawy. WM. LEWIS.

CYFLAFAN SEBASTOPOL!

(Gellir ei chanu ar y dôn "DIFYRWCH GWYR HARLECH.")

Och! o'r cynhwrf a'r rhyfeloedd,
Sydd yn Rwsia a'i hardaloedd,
Lleddir dynion wrth y miloedd,
Yn Sebastopol.
Byddinoedd Lloegr, Ffrainc, a Thwrci,
Sydd yn awr yn cynddeiriogi,
Ac yn taflu taullyd beli,
I Sebastopol.
Gwaeddi mawr sy'n canlyn,
A'r bobl oll mewn dychryn;
Rhoi tai ar dân, a'r plantos mân
Yn meirw yn gyflafan:
Och! o'r galar mawr a'r gwaeddi,
Glywir gan eu hoff rieni,—
Maent mewn cystudd a thrueni,
Yn Sebastopol.

Methant gysgu gan eu hofnau,
Arswyd brâd ar ol y brwydrau,
Ofnant gael eu gwneyd yn ddarnau,
Yn Sebastopol;
Pell y clywir sŵn eu llefau,
Gan mor dost y mae eu clwyfau,—
Collodd miloedd eu haelodau,
Yn Sebastopol:
Yno gwelir mamau,
'N wylo yn eu drysau,
Gan deimlo'n ddwys fod barn o bwys
Yn lladd eu perthynasau!
Teimlant fod eu hoff gyfeillion,
Wedi eu lladd gan eu gelynion,—
Wylant beunydd yn hiraethlon,
Yn Sebastopol.

Y mae'r haint yn lladd ei filoedd,
Yn ngwlad Rwsia a'i hardaloedd,—
Rhynant befyd gan oerfeloedd,
Ger Sebastopol.

Gwrthddrych sylw, yr holl bobloedd,
Dinas twrf yr holl genedloedd.
Trigfa 'sbrydion blin ryfeloedd,
Yw Sebastopol;
Ffynnonell y gofidion,
O honi tardd arwyddion,
Fod digter Duw ar ddynolryw,
Am wrthod byw yn uniawn;
O, na wyddai yr holl bobloedd,
Mai arwyddion Duw y nefoedd,
Ydyw Rwsia a'i rhyfeloedd,
Yn Sebastopol.

Fflint. THOMAS CONWAY.

TALIADAU AT DDYLED CYNHADLEDD ORLLEWINOL MORGANWG, O AWST 24 HYD MEDI 10.

	£	s.	c.
1. Thomas Richards, Aberafon . . .	0	2	6
2. Mary Richards, ei wraig . . .	0	2	6
3. Ann Llywelyn, Abercenffig . . .	0	0	6
4. William Llywelyn, etto . . .	0	0	6
5. Mary Basett, Cwmafon . . .	0	2	6
6. William Hanwering, etto . . .	0	5	0
7. Hopkin Jones, Treforris . . .	0	15	0
8. Gwenllian Jones, ei wraig . . .	0	8	0
9. John Perkins, Llansamlet . . .	0	10	0
10. Thomas Fisher, Abertawy (Seisnig) .	0	7	6
11. Edwin Fisher, ei fab	0	2	6
12. Elizabeth Llywelyn, Wig . . .	0	2	6
	£2	19	0

D.S. Mae rhai ereill wedi talu cyfraŵ, eithr ni chydnabyddir hwynt drwy yr UDGORN, hyd oni chyflawnant eu haddewidion.

AMRYWIAETHAU, &c.

NEWYDDION O EWROP I'R AMERIC MEWN CHWE' DIWRNOD.—Darperir porthladd St. John, Newfoundland, i dderbyn yr agerfadau a gludant y llythyrau, o'r hwn le y gallant anfon newyddion gyda y Telegraph o fewn chwe' diwrnod i'w cyrch-

wyniad o'r porthladdoedd hyn. Yn nechreu 1858 bwriedir gwneyd hyny mewn cyn lleied o fynydau braidd!

Brwydr Tchernaya,—A ymladdwyd, Mehefin yr 16eg, ar y lle uchod, gerllaw Sebastopol. Yr oedd y byddinoedd unol wedi parotoi yn gryf ar gyfer y gelyn, yr hwn a ddysgwylient yn ddyddiol, a'r hwn a ddaeth ac a gafodd dderbyniad cynhes gan y lluoedd a sefydlid gerllaw y bont ac ar benau y bryniau cyfagos. Nid hir y buwyd cyn y clwyfwyd 8,500 o'r Rwsiaid, o ba rai y gadawsant 3,000 yn feirw ar y maes.

Sebastopol wedi ei hennill.—Drwy newyddion a ddaethant gyda'r *Electric Telegraph*, dyddiedig Medi 9, hysbysir ni y fod tref Sebastopol yn meddiant y byddinoedd unol; fod y Rwsiaid wedi dianc i ochr ogleddol y porthladd, ac fod eu holl longau wedi cael eu dinystrio, oddieithr ychydig agerdd-longau a ddefnyddient yn eu ffoedigaeth.—Os gwir yw hyn, fel y mae yn o debyg, er nad yw newyddion ehedawg yr Hysbysydd Trydanawl wedi hysbysu y gwir bob amser, gellir penderfynu y fod aberth fawr wedi cael ei gwneuthur,—y fod gwaed dynolion wedi ffrydio yn llif, a thalu yn ddrud am Sebastopol. Hawdd y gellir penderfynu hyn pan gofiom am yr ymosodiad aflwyddiannus hwnw ar y Malakhoff a'r Redan, prif amddiffynfeydd tref Sebastopol, pan y meawyd catrawdau cyfain i lawr gan y cenadon marwolaeth a ddanfonasid o fagnelau y gelyn.

Cymmanfaoedd y Deau.—Dwyreiniol Morganwg ar y 30ain o Fedi, Brycheiniog ar y 7fed o Hydref, Mynwy ar y 14eg, Gorllewin Morganwg ar yr 21ain, Llanelli ar yr 28ain, Caerfyrddin ar 4ydd o Dachwedd, Sir Aberteifi ar yr 11eg, Gogledd Penfro ar y 18fed, a Deau Penfro ar y 25ain.

Derbyniadau am Lyfrau o Awst 18 hyd Medi 6.—Wm. Lewis, Môn, £1; Ben. Jones, £2 4s 3c; Lewis Davies, £2 10s; Griffith Roberts, £3 0s 7½c.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD
Tystiolaeth, Ffydd, ac Ymddiried	289
Llythyr y Llywydd H. C. Kimball at ei fab yn Lloegr	291
Golygyddiaeth.—Newyddion o Utah—Newyddion Tramor	296
Ymddyddan rhwng Sectyddwr, Mormoniad ac Anffyddiwr	299
Cyflafan Sebastopol	302
Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg	302
Amrywiaethau, &c.	303

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

RHIF. 20.] MEDI 29, 1855. [CYF. VIII.

ARAETH Y LLYWYDD J. M. GRANT,

A draddodwyd yn y Tabernacl, Dinas y Llyn Halen Mawr. Mawrth 11, 1855.

YR wyf yn ddiolchgar am y bendithion a welodd yr Arglwydd fod yn dda i anrhegu y bobl yma â hwynt. Os nad wyf yn y cyhoedd bob amser yn mynegu fy niolchgarwch i'n Tad nefol, etto teimlwyf yn ddiolchgar am ei holl gymmwynasau, pa un a wyf yn mynegu hyny ai peidio. Y mae genyf reswm i gredu fod yr holl bobl yn teimlo yr un fath, h.y., pawb a deimlant yn iawn, pawb Saint, neu bawb sydd yn byw yn unol a'r grefydd a brofiesant.

Derbyniasom lawer o dystiolaethau o ddaioni Duw, ein Tad nefol, mewn cystudd ac mewn iechyd; atebodd ein gweddiau, a diwallodd ein hanghenrheidiau; mewn trallod y gweinyddodd i ni gysur; a phan y mae goleuni ei Ysbryd arnom, canfyddwn driniaeth yr Arglwydd yn eglur, ond tra y mae yr Ysbryd hwnw yn absennol oddiwrthym, ni chanfyddwn mor eglur ei drugareddau a'i fendithion sydd yn dywalltedig arnom yn bersonol, ac fel pobl. Mae yn debyg genyf y fod Duw yn nhrefn ei Ragluniaethau wedi ei ystyried yn anghenrheidiol ar brydiau, i adael ei blant yn unig, heb unrhyw gynnorthwy neilduol gan ei Ysbryd Glân, fel y dysgont i'w ganfod a'i werthfawrogi pan ei tywelltir arnynt.

Er enghraifft, nid ydych yn gwerthfawrogi y bendithion a

fwynhewch yn ddyddiol am wythnos, mis, neu flwyddyn, gymmaint â'r bendithion achlysurol a dderbyniwch. Amddifadwch ddyn o unrhyw ran o'i gynnaliaeth, hyd y nod y bara a fwynhewch yn awr, a chadwch ef oddiwrtho am wythnos, mis, neu flwyddyn, a phan ei derbynid ganddo wedy'n, fe werthfawrogir llawer arno. Felly y mae i raddau gydag Ysbryd yr Arglwydd; nid ydym yn ei fwynhau bob amser; nid ydym yn ei dderbyn ar holl amgylchiadau bywyd fel yr ydym mewn rhyw sefyllfa neilltuol yn mha un ein gosodir. a lle y mae arnom anghen neilltuol am Ysbryd yr Arglwydd idd ein cynnorthwyo.

Gweddiwn am lawer o bethau; ac yr wyf wedi clywed rhai pobl yn gweddio yn y fath fodd ag y byddai yn ddrwg iawn ganddynt, pan yn eu pwyll, pe yr atebai yr Arglwydd eu gweddiau yn llythyrenol. Pe yr ysgrifenid gweddiau y bobl fel ag y gallent eu darllen, ac adfyfyrio arnynt, mae yn ddiau genyf y dymunent argraffiad newydd. Yr wyf wedi clywed pobl yn gweddio ar i'r Arglwydd wneuthur hyn-yma neu hynacw; mewn gwirionedd yr wyf wedi eu clywed yn gweddio arno i wneuthur mil o bethau na chynnygient wneuthur eu hunain; ystyrient yn bechadurus iddynt geisio cyflawni yr hyn a geisiant gan yr Hollalluog ei gyflawni iddynt.

Fe ddylai gweithredoedd dyn gyd-fyned â'i ffydd; os oes ganddo ffydd a gefnoga ei eiriau a'i weithredoedd, fe ddylai ei weithredoedd gyd-fyned â'i ffydd. Mae yn ofynol i mi fod yn iawn yn fy ffydd cyn y byddwyf yn iawn yn fy ngweithredoedd. Os chwerw y pren, chwerw fydd y ffrwyth hefyd; neu mewn geiriau ereill, adnabyddir y pren wrth ei ffrwythau, a ffydd wrth ei gweithredoedd. Os mai da fydd gweithredoedd dyn, daionus ei ffydd hefyd; os drwg ei weithredoedd, casglwn mai flawd ei ffydd hefyd, a chasgliadau digon priodol ydynt hefyd. Dylid barnu pawb dynion wrth eu gweithredoedd; dyma safon gywir er profi pob dyn. Y mae gan lawer o Saint y Dyddiau Diweddaf ffydd gywir, a gweithredoedd cyferbyniol, tra yr hôna rhai fod ganddynt ffydd gywir, eithr a ddangosant yn amgen drwy eu gweithredoedd. Pa fodd y gallaf fi farnu pa un a yw eich ffydd chwi yn dda ai peidio? Nis gallaf ei farnu ond wrth eich gweithredoedd. Os yw eich gweithredoedd yn dda, ac yn unol â chyfraith Duw, â Llyfr Mormon, â Llyfr

yr Athrawiaeth a Chyfammodau, ac â rheolau cyfiawnder y mae genyf hawl i gasglu fod eich ffydd wedi achosi y gweithredoedd a welwyf; y fod y pren, os goddefwch yr ymadrodd, o ba un y tyfasant yn dda. Eithr pan y gwelwn weithredoedd dyn yn amrywio â thipyn weithiau o ddaioni heddyw, ac y fory, ac ar y trydydd dydd feallai y cyflawna ddrygioni; credu fod y dyn hwnw yn gywir ei ffydd, yn mhob ystyr o'r gair, nis gallaf.

Llefarwn am ffydd fel egwyddor gyntaf ein crefydd. Os mai yr egwyddor gyntaf ydyw, y mae egwyddorion ereill yn tyfu o honi. Nis gallwn greu egwyddor, ni allwn ond ei darganfod. Pe darganfyddech yr hyn a elwir yn egwyddor newydd, cyfeiliornech pe dywedech mai ei chreu a wnaethoch, neu eich bod wedi dwyn egwyddor newydd i fodoldeb. Bodola egwyddor yn dragywyddol, ac nis gall dyn ei chreu. Os canfyddwch unrhyw gyfraith newydd mewn mesuryddiaeth, mewn seryddiaeth, neu unrhyw gyfraith gyssylltiedig â'r celfyddydau, nid yw hyny yn un prawf eich bod wedi dwyn i fodoldeb gyfraith newydd, neu lwybr cyfraith, canys bodolodd yr egwyddor cyn i chwi wneuthur y darganfyddiad.

Y mae y gyneddf ynom i ddarganfod pethau newyddion, ac i ddysgu a deall egwyddorion cyntaf athrawiaeth Crist. Ffydd, drwy fod yn egwyddor gyntaf ein crefydd, a sefydlir yn y meddwl drwy glywed, gan brawfiadau, a thrwy dystiolaeth.

Nis gallaf gredu yr oll a ddymunai fy nghymydog i mi gredu ynddo, nis gall fy nghredinisaeth foddhau fy nghymydog bob amser, tra na fydd genyf brawfiadau, fe ddichon, i gredu fel efe. Nid oes genyf dystiolaeth o dderbyn yr hyn a dderbyniodd efe, ac yr wyf yn ei wrthod. Anfoddlonir fy nghymydog wedy'n, hyd oni eilw arnaf i feddu ffydd i gredu yr un peth ag yntau. Pe y rhoddai efe brawfiadau a thystiolaethau digonol i mi allu sylfaenu fy ffydd arno, i greu ymddiried ynwyf, neu sefydlu ffydd yn fy meddwl, yna gallwn gredu fel efe. Y mae ffydd ynte yn dyfod drwy glywed tystiolaeth, neu drwy fod tystiolaeth yn cael ei rhoddi, neu ei dwyn gerbron y meddwl.

Mae y dystiolaeth a dderbyniasoch am y grefydd a broffeswch mor hollol wahanol ag yw y grefydd a broffeswch i unrhyw grefydd arall. Mae y Methodistyn, er enghraifft, yn sylfaenu ei grefydd ar yr hyn a dystiolaethir wrtho; dysgir ef gan y

gweinidog, y pregethwr teithiol, y pregethwr cynorthwyol, allan o raw yr ysgol, y cynghorydd, neu gan rai o'r aelodau lleyg, yn rhai egwyddorion, neu mewn geiriau ereill, rhoddir tystiolaeth i'w argyhoeddi fod yr egwyddorion hyn neu acw yn iawn, a sylfaenir ei grediniaeth ar y dystiolaeth y mae efe yn alluog i'w derbyn a'i synied. Mae eu ffydd yn cyd-fyned mwy neu lai â'u dyscyblaeth, neu erthyglau eu ffydd; credant nad oes ond un Duw anfeidrol, tragywyddol, o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb, heb gorff, rhanau, na nwydau. Ni cheir eu tystiolaeth, neu eu profion o hyn, ond yn eu credöau a'u traddodiadau, ac y mae y rhai hyny wedi eu trosglwyddo i wared o dad i fab, oddiwrth eu mhamgu. Eglwys Rhufain, idd eu mham, Eglwys Loegr, credant hwy yn ddiddadl, ac ysgrifenant a chyhoeddant hyny ar led.

Gallem nodi eu dulliau o danelli, arllwys, a gweithredoedd ereill sydd yn unol â'u credo. Pe y credent mai y ffordd iawn ydyw trochi dyn yn ddieithriad dysgent ef felly, neu i gael bedydd arllwysiad, dysgent ef hyny; neu y dylasid taenellu dyn er cyfateb â gofyniadau y netoedd, dysgent ef hyny hefyd. Felly y gwelech y byddai eu gweithredoedd yn unol â'u ffydd; pe na fyddai ganddynt ffydd, ni chredent mewn na throchiad, taenelliad, nac arllwysiad. Os bydd un yn grediniwr mewn trochiad efe a'i hymarfera, cyduna ei weithredoedd â'i ffydd, ac efe a â allan ac a drochir. Pa fodd y gwyddoch mai mewn bedydd trochiad y creda efe? Wrth ei weithredoedd. Pa brawf sydd genych fod y cyfryw un yn credu mewn trochiad? 'Onid oeddwn i yn bresennol,' meddai fy mrawd, 'pan ei trochwyd; clywais ef yn dweyd wrth yr henuriad, neu yr offeiriad, ei fod yn gofyn trochiad ganddo, ac efe a aeth allan ac a gefnogodd ei ffydd drwy ei weithredoedd.' Byddai hyn yn ymresymu teg. 'Ond,' meddai un, 'yr wyf i yn credu mewn arllwysiad dwfr ar fy mhen.' Pa fodd y gwyddoch chwi ei fod yn credu hyn? 'Yr oeddwn i yn bresennol, a chlywais ef yn gofyn i'r offeiriad, neu yr henuriad, i arllwys dwfr arno, ac fe wnaeth yr offeiriad yn ol ei ddymuniad, a phrofai ei weithredoedd i mi ei fod yn credu mewn arllwysiad.'

Dywed un arall wrth yr offeiriad, 'Yr wyf am i chwi fy nhaenellu i, gofynaf hyn o herwydd fy mod yn credu mai taenellu yw y ffordd oreu.' Pa brawf sydd genych fod y dyn

hwn yn credu mewn taenellu? Y mae ei weithredoedd yn profi hyny. Mae y ffaith o'ch bod chwi yn bresennol, ac yn ei weled ef yn cael ei daenellu, neu yn ei glywed ef yn gofyn am weinyddiad o'r dreth yn eich argyhoeddi y fod ganddo ryw fath neu rywiogaeth o ffydd.. A ydyw yr un ffydd gan bawb? Nac ydyw, ac y mae eu gweithredoedd mor amrywiol a'u ffyddiau. Os oes gwahanol fathau o ffyddiau, rhaid fod gwahanol fathau o weithredoedd.

Os nad oes ond un ffydd, ni all ond un math o fedydd fod. Haera Dr. Clark yn bendant i'r Collossiaid gael eu claddu gyda Christ mewn bedydd, h y., trochwyd hwy yn llythyrenol. Dyweda efe fod y Testament Groeg yn darllen iddynt gael eu trochi, eu suddo, eu claddu,—iddynt gael eu cuddio. Pa fodd y gwyddoch ddim ynghylch y Collossiaid? Pa fath ymresymu wnelech, idd eich dwyn i benderfyniad mai mewn trochiad y credai y Collossiaid fel yr unig ddull? Iddynt gael eu claddu yn llythyrenol mewn dwfr? Etto, os ymholwch pa un a daenellwyd y Corinthiaid ai peidio, pa fodd yr adnabyddech eu ffydd? Meddai un, 'Adnabyddwn hi wrth eu gweithredoedd, canys mi a wn y cydunai eu gweithredoedd â'u ffydd. A phe gweinyddid yr ordinhâd i'r Ephesiaid drwy arllwysiad, caffwn wybod hyny wrth eu gweithredoedd.' Pa beth mae y Beibl yn ddywedyd wrthych? Y fod un ffydd, un Arglwydd, ac un bedydd.

Pe meddai y Pabyddion yr un ffydd hono ag oedd gan y Collossiaid, a allent hwy arllwys neu daenellu? . Na allent wrth bob rheswm. Os dywedwch fod un rhan o bobl Dduw wedi cael arllwysiad, rhan arall daenelliad, ac un arall drochiad, dechreuwch au-grefydd ac athrawiaeth afiachus, ac yna dilyna gwahanol weithredoedd. Cyn gynted ag y cewch y Collossiaid wedi eu trochi, y Corinthiaid gael arllwysiaid arnynt, a'r Ephesiaid eu taenellu, rhoddwch dri math o orchwyl. Eithr os oes un ffydd, a bod y iawn fath o ffydd ganddynt oll, os cyrhaeddasant oll i'r un ffydd werthfawr a ymddiriedwyd i'r Saint, a bod un rhan wedi eu trochi, yna, fe drochwyd y gweddill hefyd. Os gellir sefydlu y ffaith o fod un rhan o'r Eglwys Gristionogol wedi eu trochi, sefydla y ffaith, tuhwnt i ammheuaeth, o fod y lleill i gyd wedi cael gweinyddu arnynt yn yr un dull. Y mae pobl Dduw dan yr anghenrheidrwydd o feddu yr un ffydd werthfawr, a byddai yn rhaid i'w gweithredoedd hefyd gyduno.

Os oedd Dr. Clark yn iawn yn hyn, ac nid oes genyf ddim rheswm a ammheua yr athraw dysgedig, sef, fod y Collossiaid wedi eu trochi, fe drochwyd y gweddill o bobl Dduw yn yr holl Eglwys gyntefig hefyd. Os na feddent ond yr un ffydd, anmhosibl fyddai dechreu arllwys a thaenellu. Os dechreuwch yr arllwysiad, ffydd arllwysiad oedd ganddynt, os y taenelliad, ffydd y taenelliad hefyd. Eithr os profwch y fod un rau wedi eu trochi, profwch y fod ganddynt yr un ffydd werthfawr, ac o anghenrhaid fe drochwyd y lleill. Fel yma yr wyf i yn ymresymu ar y pwnc.

Etto, os trochwyd hwy, fe'u cadarnhauwyd drwy osodiad dwylaw, fel y dysgweh wrth yr un ysgrythyrau. Os credai y saint eyntefig fod yn anghenrheidiol i osod dwylaw, a Saint y Dyddiau Diweddaf nad ydyw, pa fodd y gwnelech i'ch ffydd gyduno â'r eiddynt hwythau? Pa fodd y gallech chwi ddechreu athrawiaeth a rhesymeg newydd, a chymmodi eich ffydd â'r eiddynt hwythau? Credent hwy yn llythyrenol mewn gosodiad dwylaw, wrth gadarnhau, er derbyn dawn yr Ysbryd Glân.

Mae y Methodistiaid, y Bedyddwyr, y Presbyteriaid, Eglwys Loegr, oll yn credu mai dyna oedd arferiad y saint cyntefig. Cyduna pawb a gredant yn y Beibl mai dyna oedd ffydd yr henafiaid, fel yr amlygwyd yn eu gweithredoedd, felly os oes un o'n cyd-oesol Gristionogion yn ei wrthod, y mae genym le i haeru fod eu ffydd yn adnabyddus wrth eu gweithredoedd. Y mae genym hawl i ddweyd nad yw eu ffydd yn cyduno â ffydd yr henafiaid. Ond y mae fy ffydd i yn cyduno ag eiddo yr henafiaid, yr wyf yn credu a chyflawni yr un gweithredoedd ag a wnaethant hwythau. Yr wyf yn credu mewn bedydd er maddeuant pechodau, ac arddodiad dwylaw er derbyn yr Ysbryd Glân, ac, os oes neb yn glâf yn eich plith, mewn anfon am henuriaid yr Eglwys, mewn eneinio y clâf ag olew, ac mewn gweddio drosto, fel ei iacheir.

(I'w barhau.)

EIN HAMSEROEDD CYD-OESOL.

(O'r "Luminary.")

Dywedwyd gan un o gymmeriad hynod yn yr oes gynt, y deuai amseroedd enbyd yn y dyddiau diweddaf; dywedodd

lawer o bethau pwysig ereill, eithr gan ei fod yn Sant proffesedig, yn ddilynydd selog i'r Nazaread diystyredig, yn freuddwydiwr hynod a gwyrth-wneuthurydd. ni roddwyd nemawr coel i'w ddywediadau, a thywalltwyd ei waed cyfiawn; y mae oesau wedi myned heibio. y dyddiau diweddaf wedi dyfod, a chyda hwynt yr amseroedd enbyd y soniodd y Prophwyd am danynt.

Dywed y "*Morning Herald*," o'r ddinas hon, ynghylch y pwnc yma, fel y canlyn:—"Mae yr amseroedd yn darogan drwg. Tymher meddyliau dynion sydd wedi myned yn waeth-waeth yn raddol, hyd onid yw "rhwymyn brawdgarwch" a ddylasai gyssylltu dynion ynghyd wedi ymddattod, fel y mae gwaetha'r modd. Dros yr holl wlad y mae ysbryd i ddiystyru a thorri y gyfraith yn llywodraethu, yr hwn sydd yn achosi mawr ddrwg, ac yn bygwth canlyniadau mwy galarus ac erchyll. Ymddengys fel pe bae y deall dynol wedi colli ei olwyn reoleiddiol. Sefydliadau a chyfreithiau ag sydd yn rhwymedig ar reswm a chydwybod, ac a ddylent lywyddu yn nghalonau pawb dynion, sydd wedi eu troi o'r neilldu, eu hanmharchu, eu casâu, a chael poeri arnynt. Cyffiniau ac amddiffynfeydd a osodwyd i fyny, fel yr ofnwn, gan ddoethineb *well* cenedlaeth, er amddiffyn meddiannau a rhyddid, sydd wedi eu bwrw yn gydradd a'r llawr gan gynddeiriogrwydd dall, mewn ufydd-dod i, ac yn anystyriol o bob peth ond boddhâd nwydau gwallgofu."

Pwy a gredai er ys ychydig flynyddau yn ol y deuai amseroedd enbyd yn ein Hameric hoff ein hunain? fe rag-ddywedodd y Prophwyd Joseph hyn, mae yn wir, eithr pwy a'i coeliai yr amser hwnw? Ond er mor ddyeithr yr ymddangosai hyny, cawn y genedl yn awr yn ocheneidio dan wasgfeuon celyd yr amserau, y mae calonau dynion yn ddiau yn llewygu rhag ofn y pethau sydd yn dyfod ar y ddaear; poenydir a gofidir rhai o herwydd sychu o'r ffynonau dwfr, trenga ereill gan newyn, ac y mae myrddiynau yn myned i ddinystr o herwydd eu hamddifadrwydd o wybodaeth o'r gwirionedd a ddadguddiodd Duw i ni, tra y mae drygioni a llygredigaeth ar eu cynnydd, ac yn bygwth cyn hir i felldithio y ddaear â dad-ddansoddiad a dinystr.

Y mae yr Apostolion cyntefig a phresennol wedi rhag-fynegu y pethau hyn, ac wedi ymegnïo i attal llyfeiriant drygioni ac

halogrwydd, fel yr ymruthrai drwy y cenedloedd Cristionogol; eithr grym y cenllif oedd ormodol. Ffrwd anferthol poblogrwydd y byd sydd yn ymruthro yn anystyriol ac anwrthwynebol i lyngclyn truenusrwydd; rhai a gipir gan yr awel-dro, a darewir gan haint. a leddir ar y maes rhyfelawg. a syrthiant yn ysglyfaeth i'r brad lofruddiwr, neu a drengant ryw fodd yn nifrodaeth y cenedloedd.

Yr Arglwydd a lefarodd wrth ei was Joseph, gan ddywedyd, "Ar ol eich tystiolaeth chwi y daw tystiolaeth daeargrynfäau, a llais tymhestloedd, a llais tônau y môr yn torri dros eu cyffiniau, a bydd pob peth yn derfysglyd, ac yn ddiau calonau dynion a lewygant; canys ofn a ddaw ar yr holl bobl, a'r angylion a ehedant drwy ganol y nef, gan waeddi â llais uchel, gan ddywedyd: Parotowch chwi, O drigolion y ddaear, canys bara Duw a ddaeth."

Os y cenhadon hyn ni ddeuant a'r diofal a'r annuwiol i edifeirwch, ac i iawn ystyriaeth o'u sefyllfa, anobeithiol yw eu hachos, a sicr eu dinystr.

Darluniad galarus yw hyn o sefyllfa a thynghed y cenedloedd Cristionogol, pobl a ymffrostient yn eu gwareidd-dra a'u Cristionogaeth, eithr yr ydym yn rhwym o gyfaddef y dystiolaeth a ddygir yn eu herbyn, canys allan o'u deddf-lyfr a'u geneuau eu hunain y safant yn gondemnedig, canys y maent wedi troseddu y cyfreithiau, newid yr ordinhadau, a thorri y cyfammod tragywyddol.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, MEDI 29, 1855.

YMWELIAD Y GOLYGYDD A GWYNEDD.— Dranoeth i'n hymadawiad ag Abertawy, treiliasom y Sul a'r Llun, 19eg a'r 20fed o Awst, gyda Saint Caerdydd, lle y cawsom fawr lawenydd wrth weled eu hundeb, eu cariad, a'u sêl; gwrandawai torfeydd

lliosog yn y prydnawn a'r hwyr ar air Duw yn Gymraeg a Seisneg, gydag astudrwydd â sêl arddangosiadol eglur o Ysbryd yr efengyl, ac addunedai yr oll ymroddi i fwy o ffyddlondeb fyth, i iawn fucheddu a thalu eu dyledion i'r eglwys am lyfrau, &c., fel y parotoadau anhebgorol i ymfudo y tymmor nesaf. Boreu dydd Mawrth aethom gyda yr ager-gerbydau trwy Casnewydd, Henffordd, a'r Amwythig tua Liverpool; ar hyd y wlad yr oedd y gwenith wedi ei guro i'r llawr yn arw gan y gwlawogydd diweddar, amryw erwau mewn manau a'r glaswellt yn tyfu drwyddo; rhoddid £1 yr erw yn rhai manau am ei dorri. Nid ydym yn cofio i ni erioed weled cnydau mwy nac mor doreithiog ag sydd eleni yn gyffredinol, ac yn neilldnol o Wrexham i Gaerlleon.

Dydd Mercher, er ein mawr lawenydd, derbyniwyd ni yn bur roesawus gan ein Hynaws Lywydd Richards, yr hen gyfaill C. H. Wheelock. Ferguson, Grant, a llawer ereill, gyda y rhai treiliasom amser pur gysurus yn clywed eu hyntiou, a hanes Seion a'i hachosion drwy'r byd, hyd prydnawn dydd Sadwrn, pan y daeth yr Henuriad Ferguson, Llywydd y Genadiaeth Wyddelaeg, gyda ni hyd Wrexham, a boreu y Sul i Gymmanfa Rhosllanerchrygog, lle y cawsom liaws o Saint wedi ymgasglu, y Bugail Parry, y Llywydd Davies, a'r cyffredinolrwydd o'r Swyddogion a'r Saint yn wresog yn yr Ysbryd yn dysgwyl am danom ni ynghyd a'r Llywydd Richards, yr hwn a addawsai ymweled â hwynt. eithr a luddiwyd gan afiechyd. Amiwg i ni oedd fod Ysbryd yr Arglwydd yn eu plith yn nerthol o'n blaen ni, ac arddangosai y cyfriflad o weithredoedd y Saint, eu cyfraniadau at achos Duw, eu cariad at eu gilydd, a'u hymdrechiadau clodadwy i dalu yr hen ddyledion am lyfrau, at yr hyn daeth rhai punnoedd i fewn i'r Gymmanfa. ynghyd a'u haddunedau unfrydol i werthu traethodau a rhybuddio eu cymmydogion yn selog; i dalu eu dyled i'r Deml, ac am lyfrau, &c., eu bod yn penderfynu i ymbarotoi i ymfudo erbyn yr agoro yr Arglwydd y flordd iddynt. Gwrandawwyd yn astud y prydnawn a'r hwyr a'r yr Henuriaid Davies, Parry, Ferguson, a'r hanesydd, yn tystio iddynt am ddwyfoldeb y genadwri honffordd y cadw, y dinystr sydd ar ddyfod ar y byd, a'r Seion hono a drefnodd Duw yn unig "noddfa" i'w blant rhag y llid. Hyfryd oedd genym undeb dieithriad yn mhlith y Swydd-

wyr a'r Saint, ac Arglwydd mawr y cynheuaf a wnelo ei weision oll yn rymus fedelwyr i gael yr holl wenith o'r rhan hon o'i winllan i'r ysgubor cyn del y geuaf ar eu gwarthaf.

Llun, y 27ain, cawsom y newyddion cysurus, drwy lythyr oddiwrth y Llywydd Richards, fod y Llywydd D. Spencer wedi dychwelyd i Liverpool o'r Taleithiau; fod holl Saint y Gymdeithas Ym. Barhaus wedi cael cynnyg i ymfudo o St. Louis i'r Dyffryn eleni, fod yr Arglwydd wedi myned o'i flaen at yr holl farsiandwyr, a darparu eu calonau i ddiwallu anghenrheidiau yr ymfudiad â lluniaeth, anifeiliaid, pedrolfenni, ac a phob peth a ddymunent ar eu hamodau eu hunain gydag ewyllysgarwch anghydmarol, ac fod ei fendith yn dilyn yn nodedig ar holl ymdrechiadau y Saint ymfudol, a'u bod oll ar eu ffordd tua'r Dyffryn cyn ei ymadawiad ef o Atchinson. Diolchwn oll am hyn, a gweddiwn am eu hwylusdod Ef i gludo miloedd mwy adref y tymmor dyfodol. Aethom yn nghwmniaeth y Bugail Parry, Ferguson, a Davies, a phregethasom yn Brymbo, a nos Fawrth cawsom y pleser o bregethu i dyrfa liosocach o wrandawwyr astud ar yr heol yn y Wyddgrug; ac, ond barnu wrth eu sobrwydd, mae yno lawer o ymchwilwyr am y gwirionedd.

Dydd Mercher dychwelodd y Brawd Ferguson i Liverpool, aeth y ddau frawd arall yn mlaen tuag Abergele, a ninnau i Laneurgain, lle y buom yn pregethu ein gorau i amrywiol berthynasau caredig, a thra y suddai y gwirionedd yn nghalonau tynerach y gonestaf, nes ffrydio y dagrau caruaidd dros eu gruddiau, ac ereill, lle y planasai ysbryd Calfinaidd ei ewinedd fforchog yn ddyfnach, fel ar greigleoedd, ergydiai yr hâd da yn ol i lestr yr hauwr,—y Duw mawr a'i pïa a ddyfrhâo ac a egino yr hâd lle yr arosodd, hyd nes y dygo ffrwyth a flodeua mewn amser, ac a addfedo yn ei winllan dragyfyth.

Dydd Iau, y 30ain, cyrhaeddasom i'r Fflint, a dychwelasom i Liverpool; er ein dywenydd cawsom y Llywydd Richards yn well ei iechyd; y Brawd Spencer wedi ymadael i Germany, a chawsom gyfeillach hoff brodyr o Seion, am felysder a rhîn yr hwn ni ŵyr neb ond a fuont yno!

Sadwrn, y 31ain, aethom yn nghyfeillach y Llywydd Richards, Ferguson, a Scott, hyd i Abergele, lle ein derbyniwyd ni yn bur roesawus gan y Llywyddion Parry, Davies, G. Roberts, &c., yr oll o ba rai a ymrafaelient braidd am y cyfle cyntaf i

arddangos eu caredigrwydd tuag atom, yr hyn ni anghofir yn fuan.

Dydd Sul, Medi 1, dylifai y Saint o bob cŵr yn siriol tua'r Gymmanfa, ac er ein cysur gwisgai natur ei gwisg Suliol; dadlenai ei gorchudd oddiar ei hwyneb fel yr yspiai ei nhefol "sêr" drwy'r awyr lâs ar eu brodyr ieuengaf mewn Cymmanfa. Ei digofus gruchiawg gymylau a giliasent yn ol; ei hanadl yn esmwyth a chwifiai drwy'r fro, a'i huan a siriol wenai ar yr olygfa. Golygfa nad aml y gwelir ei hail—ond unwaith y cafwyd ei chyffelyb! Tra o gam i gam yn ochr Apostol yr Oen, yr hwn a anrhydeddai dri o urdd Melchisedec a'i bresennoldeb, a rhodiem ar hyd yr heol teimlem â'n gwadnau gyssegredigrwydd braidd; tra clychau y clochdŷ a ysgrechient yn groch—"Dyma'r ffordd i'r nefoedd," a llawer yn eu credu; y Cafin a'r Wesley yn daerach a groes dynent y lliaws ar eu holau; yn finteioedd o wyr, a'r glandecaf o flodau y wlad, ynghyd a'r penllwyd, y gwargam, a'r oeheneidwyr a'n cyfarfyddent; cilolwg y naill, dant blaen y llall, a sibrwd y llu yn dweyd,—"Dyna'r Captain, tad y twyllwyr i gyd," "gŵr llawer o wraggedd," a "gau-brophwydi yr oes," &c., a brofent yn eglur ein bod ninnau yn anadnabyddus yn y wlad a'n magodd. Rhedai y meddwl yn ol dri deg o flynyddau, pan ar hyd yr heolydd hyn yr heinyf chareuai bachgenyn deng mlwydd oed—yr iwrch a'r mŷn nid nemawr mwy felly. Engyl nef o'i amgylch a ddoent, canfyddodd oleuni yr efengyl, yn fyddin casglai blant y dref i'r caeau cylchynol i'w dysgu mewn ffydd, edifeirwch, "bedydd er maddeuant," a "doniau yr Ysbryd Glân" mewn addewid; ei erlid am hyn a gaffai gan bawb, a chrwydrodd hyd foroedd, ynysoedd, a chyfandiroedd y byd am frodyr o'r un grêd. pa rai er ei gysur, *angel a'i haddawsent iddo.* Ar ol dau ddeg o flwyddi o deithio difeth, cafodd afael yn ngwrthddrych ei serch—perlyn penaf y byd, a thrysor yr holl drysorau. O'r gorllewinfyd pell, dros wyth mil o filltiroedd, daeth o wlad yr aur, ac nid llongaid o'r sothach hwnw a ddygodd, onide. cawsai luoedd o ffryndiau; ond dengmil gwell nag aur y byd a gynnygiai iddynt. Eu huchel ffroen a'u cyndyn grêd, ynghyd â'r olygfa bresennol oedd gyflawniad o weledigaeth. Pe pawb yn farnwyr a fo'nt ni cheid o honynt oll a farnai deimladau y dieithryn yn well nâ'r hanesydd pan y gorfodai llawer ffaith ef i

wybod mai gwir yw'r olygfa; pan welai y rhai a feddyliai gynt yn oreu oll, yn gwawdio yn ffroen-uchel eiriau y bywyd o eneuau apostol a chenadon geirwireddus y nef; pan y clywai hwynt yn galw y gwir yn gau a'r gau yn wir, y tywyllwch yn oleuni a'r goleuni yn dywyllwch! Anamgyffredadwy yw cryfder dylanwad ysbryd gau grefydd.

Wedi cael cynnrychioliad y Gynnadledd, a threfnu eu hachosion, galw swyddogion, pleidleisio i'r awdurdodau, cymmuno, a rhoddi cynghorion amrywiol a dyddorol yn y boreu, pregethodd y Llywyddion Scott a Richards yn effeithiol neillduol, ar ddyledswydd y Saint i ymfudo gyda phob brys; fod eisieu i'r Saint gadw eu golwg ar y mater pwysig hwn yn fwy yn awr nag erioed, a gwneyd pob darpariadau ar gyfer ymfudo y tro nesaf. Dywedai yr olaf fod y cymylau duon sy'n tywyllu awyrgylch y byd yn ddaroganus o dymhestloedd ag a fyddant yn beryglus i'r ymfudiad tua Seion, heblaw fod barnau Duw yn llongian uwchben y Taleithiau, ac yn mron a'u dinystrio; pwy a wyr nad arbedai Duw hwynt am ennyd fechan etto, fel yr addawodd arbed Sodom, pe caffid chwaneg o gyfiawnion ynddynt.

Yn yr hwyr cafwyd darlith ragorol, gan yr Henuriad Ferguson, ar "Deml yr Arglwydd." Dydd Llun dychwelodd y Llywydd Richards i Liverpool, a dydd Mawrth aeth y ddau frodyr ereill i'r Iwerddon.

DYFYNIADAU O HANES YMWELIAD Y BRIF LYWYDDIAETH A MANTI, &c.

(At y Cad. D. H. Wells.)

Ar y 12fed o Fai, 1855, cychwynasom am 7 yn y boreu (wedi gwersyllu dros y nos yn Nyffryn San Pete), ac aethom hyd y groes-fan ar afon San Pete, lle yr arosodd amryw o'r Cwmpeini, tra yr aeth ereill gydag 8 wag en. i cerbyd, a thua 15 ar gefnau ceffylau, tua'r gwelyau glô, tua 5 milltir o'r ffordd. Wedi cyrhaedd hyd y fynedfa i'r Kanyon, troisom yr anifeiliaid allan i bori, a gosodasom wyliadwriaeth arnynt, tra yr aeth y gweddill o'r Cwmpeini am filldir a hanner i fyny y Kanyon hyd at y wythïen lô. Er ein mawr foddlonrwydd gwelsom nad ffugiaeth oedd, canys nyni a'i gwelsom ac a'i trafodasom, a chyumeras-

ein esiamplau i fyned adref. Aeth un o'r brodyr a llonaid fletan i Fort Ephraim, lle ei profwyd mewn efail gof, a gwnaeth sân rhagorol i asio haiarn.

Mae y rhan o'r wythïen a fuom ni yn ei gweled mewn cilfach yn y Kanyon, ac y mae yr olwg gyntaf arno yn debyg i graig dalpiog ddaneddog. Yn y fan yma y mae tua 25 troedfedd o'r man lle y mae yn brigo yn lô nceth, ar hyd yr hwn y mae ffrŵd fechan o ddwfr yn rhedeg. Mae y glô uwchaf yn 3 troedfedd a 4 modfedd o drwch, ac y mae cloden rhyngddo â'r glô sydd odditano; o dan hwnw y mae cloden deneu, tua 2 fodfedd o drwch, yr hon y dysgwylir ei bod yn darfod yn nes i mewn; dan hon mae y glô isaf, yn wythïen rhagorol o 5 troedfedd o drwch.

Gan nad oeddem wedi parotoi i geibio, ni allasem benderfynu sefyllfa pethau yn nes i mewn nâ'r gwyneb, ond wrth bob arwyddion y mae argoel deg am gyflawnder diddarfod braidd. Yr wyf yn treio gosod pobl Manti a Fort Ephraim i wneuthur heol ato, ac i ddechreu gweithio arno, fel y caffom lô yn Ninas y Llyn Halen yr hâf yma.

Mae y bobl yn mhob sefydliad y buom ynddo, fel pe baent yn rhwbio y cèn oddiar eu llygaid, ac yn ymddeffroi mwy i gyflawnder ac i wneuthur gwelliadau cyffredinol, yr hyn sydd yn ddywenydd mawr genyf.

Cyn belled ag yr aethom ar ein taith, y mae ceiliogod y rhedyn lawer yn amlach. yn y cyffredinolrwydd o lefydd, nag yn Ninas y Ll. H. Mawr, tra y mae maesydd o wenith, a addawent er ys ychydig wythnosau yn ol gynheuaf helaethlawn, yn amddifad o laswelltyn nac eginyn.

Y mae iechyd y bobl yn y sefydliadau yn dda. Cawsom gwmpeini da, ac y mae ysbryd rhagorol yn teyrnasu yn gyffredinol. Eich brawd, &c.,

BRIGHAM YOUNG.

DYFYNIADAU O LYTHYRON GEO. A. SMITH, PRIF HANESYDD YR EGLWYS.

Parowan, Mai 14, 1855.

GOLYGYDD Y 'DESERET NEWS,'—Y mae Henry Rollands, Ysw., ar ei daith tuag yna, a chanddo lwyth trwm o *groceries*.

Mwynheir iechyd da yma. Hauir gwenith gan y ffermwyr o hyd, gan fod y gwanwyn mor ddiweddar. Y mae ceiliogod y rhedyn bychain yn llawer amlach yma nâ'r byddinoedd ymladdgar yn y Crimea.

Y mae eisieu 150 o wyr yn union yn y swydd yma i gario y Gwaith Haiarn yn mlaen yn llwyddiannus; y rhai y gelwir fwyaf am danynt ydynt weddeuwyr, mwnwyr. glöwyr, llosgwyr calch, llifwyr, cwarwyr, seiri maen a choed, peiriannwyr, llosgwyr *charcuol*, *fillers*, *founders*, &c., &c. Mae y bobl yn awyddus a chalonog gyda'r gwaith, a pharhâd llwyddiannus y ffwrnes ar waith am bythefnos a foddhaodd y mwyaf anghredíniol, mai ond ei hiawn borthi oedd yn anghenrheidiol, gan y gorfodwyd ei chwythu allan o ddiffyg defnyddiau. Y mae peiriannau yn cael eu gosod i fyny, ac ar waith; toddir haiarn hoelion, &c.

Y mae *Rifle Company* yr U. D. yn Little Creek, ar eu ffordd i Galifornio. Gwylltiodd y ceffylau oedd dan eu gofal. rhedasant 30 milltir, a niweidiwyd cryn dipyn ar rai o honynt.

Parowan, Mai 18, 1855.—Cyrhaeddodd y llythyr gerbyd deheuol. Ymwelwyd â Wanaup, Blaenor llwyth y Piedeiaid, gan y Barnwr Kinney, a Mr. Hurt, y Goruchwyliwr Indiaidd, y rhai a roddasant iddo anrhegion, ac efe a'u derbyniodd yn ddiolchgar a charuaidd iawn. Mae y gwynt a'r llwch yn gryf ac aml. Mae gan y ffermwyr i ddyfrhau y tir cyn hau. o herwydd cael gwanwyn mor sych. Ymddengys y gwenith yn dda iawn; nid yw ceiliogod y rhedyn yn niweidiol etto, ond tipyn yn Red Creek. Cyrhaeddodd y Llywydd Young, ac ereill, yma heddyw. * * * *

G. A. Smith.

HIRAETH AM SEION.

'Rwy'n llawen dan wasgfeuon
Pan gofiaf am yr awr,
Y gwelir Saint yr Arglwydd
Yn Seion deg ei gwawr;
Pob un yn byw mewn undeb,
A chariad trwy'r holl dir,
A gwasanaethu'r Arglwydd
Wna'r Saint o galon bur.

Ni gawn fyned dros y môr,
Yn llon i blith y côr,
Sy'n Nyffryn y Llyn Halen
Yn dysgu moli'r Iôr.

Cawn yno lon gymdeithas
Hoff ddewrion weision Duw,
Y rhai sydd yn llafurus
A diwyd wrth y llyw;
Goreuon yr holl ddaear,
Fydd wedi cwrdd ynghyd,
I ddysgu iawn gyfreithiau
Pen Llywydd yr holl fyd.

Ni gawn fyned, &c.

O henffych, ddedwydd foreu,
Gwyn fyd na wawriai'r dydd,
Pan welir y ffyddloniad,
A'u traed yn rhodio'n rhydd,
Yn canu'n iach i Babel
A'i gormes o bob rhyw,
Gan dderbyn eu bendithion
Yn hyfryd Deml Dduw.

Ni gawn fyned dros y môr,
Yn llon i blith y côr,
Sy'n Nyffryn y Llyn Halen
Yn dysgu moli'r Iôr.

Pyle. JOHN BOWEN.

AMRYWIAETHAU, &c.

BACHGEN A CHYRN AR EI BEN.—Dywed y *Caddo Gazette* fod dan gorn yn tyfu allan o dalcen bachgen du, blwydd a hanner oed, maent yn efelychu cyrn carw, yn chwech modfedd o hyd, fforchodd blaen un o honynt yn ddiweddar, ac y maent yn tyfu yn hynod o gyflym!

LOCUSTIAID YN RWSIA.—"Ymwelodd y locustiaid ag Odessa yn ddiweddar mor liosog, fel y tywyllwyd y ddinas ganddynt ganol dydd. Gwnaed difrod mawr ganddynt eleni drwy holl Rwsia ddeheuol."

Ni chydiwn mewn newyddiadur Cymraeg na Saesneg braidd ar nad yw dyfodiad y ceiliogod rhedyn i Utah yn ffurfio iddo destunau i *brophwydo*, ac i ddarogan naill ai y newynir y "Mormoniaid" os arosant yno, neu y bydd raid iddynt fyned oddiyno. Eu dymuniad a brophwyda gan brophwydi bob amser, eithr rhag-welwn ni y bydd y wyntyll hon hefyd yn fendith o'r mwyaf i'r Saint ffyddlon, drwy y bydd yn effeithiol i nithio yr ûs o'r llawr dyrnu i wlad yr aur.

TALIADAU AT DDYLED CYNNADLEDD ORLLEWINOL MORGANWG, O MEDI 11 HYD MEDI 24.

	£	s.	c.
1. Emrys Davies, Aberafon . . .	1	0	0
2. Margaret Davies, ei wraig . . .	0	5	0
3. Gwenllian Dafydd, Aberafon . .	0	3	0
4. William Eastman, Aberafon . .	0	6	0
5. Anne Eastman, ei wraig . . .	0	6	0
6. David Lewis, Aberafon . . .	0	6	0
7. Benjamin Davies, Alltwen . . .	0	5	0
8. James J. Davies, Alltwen . . .	0	3	6
9. Rees Davies, Alltwen	0	5	0
10. James Morgans, Alltwen . . .	0	3	0
11. John Morgans, Alltwen . . .	0	6	0
12. David S. Morgans, Alltwen . . .	0	2	0
13. David Morgans, Alltwen . . .	0	2	6
14. Mary Morgans, ei wraig . . .	0	2	6
15. William Morgans, Alltwen . . .	0	0	6
16. Eliza Morgans, Alltwen . . .	0	2	6
17. ——— ———, Alltwen . .	0	10	0
18. Lewis Lewis, Cyfyng	0	2	6
19. Mary Lewis, ei wraig	0	2	6
20. Joseph Sawyer, Cangen Seis. Abertawy	0	5	0
21. Henrietta Sawyer, ei wraig . . .	0	3	0
22 George Watts, Cangen Seisnig Abertawy	0	3	0
	£5	4	6

D.S. Mae rhai ereill wedi talu cyfran, eithr ni chydnabyddir hwynt drwy yr UDGORN, hyd oni chyflawnant eu haddewidion. Ymdrecher i gyflawni yr addunedau cyn y Gymmanfa.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O MEDI 7 HYD 20.—Evan S. Morgan, £2 14s 11c; Hugh Roberts, £1 11s 4½c; George W. Davies, £10.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Araeth y Llywydd J. M. Grant	305
Ein Hamseroedd Cyd-oesol	309
Golygyddiaeth,—Ymwelliad y Golygydd â Gwynedd	312
Dyfyniadau o Haues Ymwelliad y Brif Lywyddiaeth â Manti, &c	316
Dyfyniad o Lythyron G. A. Smith	317
Hiraeth am Seion	318
Amrywiaethau, &c	319
Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg	320

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

RHIF. 21.] HYDREF 13, 1855. [CYF. VIII.

ARAETH Y LLYWYDD J. M. GRANT,

A draddodwyd yn y Tabernacl, Dinas y Llyn Halen Mawr, Mawrth 11, 1855.

[Parhad o dud. 310.]

DYMUNWN fanylu tipyn ar y pwnc o eneinnio y claf ag olew. Nid wyf yn deall gwell na fod rhai yn defnyddio ordinhadau Duw yn rhy gyffredin, ac ar achlysuron rhy wael. Y mae rhai os aiff blaen drainen i'w bŷs a alwant am arddodiad dwylaw, a gweddi i iachâu y clwyf; neu os cânt dipyn o rô neu lwch yn eu llygaid, ceisiant genych osod dwylaw arnynt i'w dynu allan; ac felly gyda drygau bach ereill, o ba rai y mae genym feddyginiaeth eglur a gwybodus i ni. Nid wyf am ddysgu hyn. ond yr wyf yn ewyllysio dysgu athrawiaeth y Beibl i chwi. 'A oes neb yn eich plith yn glâf? galwed ato henuriaid yr eglwys; a gweddiant hwy drosto, gan ei eneinnio ef ag olew yn enw yr Arglwydd, a gweddi y ffydd a iachâ y claf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fyny; ac os bydd wedi cyflawni pechodau, hwy a faddeuir iddo.' Dyna athrawiaeth y Beibl, craffwch ar y geiriau. Os bydd neb o'r Apostolion yn glaf, anfonent am rai o'r Apostolion ereill, a gweinydded eu brodyr Apostolaidd iddynt, a hwy a iacheir; nid yw y Beibl yn darllen felly. Nid yw yn darllen mai enwogion yr eglwys yn unig a gânt fwynhau daioni y sefydliad yma, eithr dywed, "A oes *neb* yn glâf yn eich plith?" &c. Meddyliwch y fod gan Dduw wir eglwys ar y

ddaear yn yr oes hon, pa ddull y mabwysiadai yr eglwys hono ar yr achlysur o fod neb ynddi yn glaf? Meddai un, 'pe meddent yr un ffydd â'r henafiaid, cyflawnent yr un gweithredoedd.' Pa fodd y deallwn pa un a oes gan Saint y Dyddiau Diweddaf yr un ffydd â'r apostolion gynt? Gwyddoch i'r Apostolion ddweyd y fod ganddynt yr un ffydd werthfawr. Pa fodd y mae i ni ddeall ei bod genym ni? Os bydd neb yn glaf yn eich plith, chwi a anfonwch am henuriaid yr eglwys, a gadewch iddynt eich heneinnio ag olew yn enw yr Arglwydd, a gweddi y ffydd a iacha y clâf.

Gwelwch ar unwaith ei fod yn anghenrheidiol i'ch gweithredoedd gyduno, ac i chwi anfon am henuriaid yr eglwys. A welwch chwi yr ymarferiad yma yn mhlith Saint y Dyddiau Diweddaf? Rhaid i rai o honynt dreio y meddyg yn gyntaf, cael eillio y pen, cymmeryd dogn o arian byw a *gamboge*, cael plastr poeth ar y gwâr, ac un arall dros yr holl ymysgaroedd, heblaw un ar afael pob clun, mewn gair, rhaid iddynt gael chwech neu wyth o boeth-leni mawrion arnynt ar yr un pryd. Wedi treio hyny, a myned yn ddyledus i'r meddygwr o chwech i saith cant o ddoleri, anfonant wed'yn am yr henuriaid. Pan y mae Iago yn agos marw, wedi i ddau gwart o waed gael ei dynu o hono dydd Sadwrn, ac un arall dydd Llun, a phan y mae bywyd yn agos cael ei dynu o'r truan wrth physigo a gwaedu, anfonent y pryd hwnw am yr henuriaid, a gofynant iddynt i weddio drosto. Pan yr anfono dyn neu fenyw am danaf i, ar ol dilyn y fath lwybr, teimlaf fy mod wedi fy sarhau, os gweithredaf felly. Af i'r tŷ mewn natur dda rhagorol yn ymddangosiadol, a gweinyddaf, eithr y mae digter o'm mewn. Teimlaf eu bod wedi sarhau yr Offeiriadaeth, ac wedi sarnu trefn Tŷ Dduw, a gwnenthur yn fychanus o'i ordinhadau santaidd. Nid wyf yn awyddus i weithredu ffydd dros y fath bobl, canys yr wyf yn meddwl mai ffyliaid ydynt, a marw marwolaeth ffyliad wnelont

Os yw ffydd yr henafiaid mewn gwirionedd gan y Saint, bydded iddynt ymarferyd yr athrawiaeth yn eu gweithredoedd. Dywed dyn wrthyf ei fod yn Formoniad, ei fod yn credu yn ffydd yr henafiaid, tra ar yr un pryd yr ymarfera bob peth arall ond ei grefydd. Fy nhrefn i yw ymarferyd ein crefydd. Os bydd arnaf eisieu llymaid o dê *catnip, composition*, neu *lobelia*,

bydd hyny o'r goreu, ond ymarferaf fy nghrefydd yn gyntaf. Gwyddoch nad yw braidd yn ganiatäol yn Utah i yfed dim mwy nâ phum galwyn o *lobelia* ar unwaith, canys bu y mater unwaith dan ystyriaeth Cymmanfa Deseret.

Yr wyf yn dymuno i'r Saint ymarferyd eu crefydd, a'i chario allan, ac os nad allant fyw wrth eu crefydd, yna bydded iddynt farw wrthi. Dyna yw yr athrawiaeth. Y mae arnaf eisieu fy nghrefydd os wyf yn myned i farw. Bid siwr, nad dyna yr amser y chwennychwn ei throi heibio, canys byddai yn annoeth i wneuthur hyny, oblegid mai dyna yr amser penodol y mae ar ddyn fwyaf ei hangen, a'r amser y dylasai fod wedi ymsuddo ynddi. Yr wyf am i'r Saint ddangos mewn gwirionedd drwy eu gweithredoedd y fod ganddynt ffydd yr benafiaid.

Pan yr aiff yr henuriaid allan i bregethu, ac yr iacheir pobl drwy osodiad dwylaw, y mae rhai wedi dywedyd, 'Nis gallwn ddysgwyl i'r cleifion gael eu hiachâu yn Seion; ni ddysgwyliwn weled gwyrthiau wedi ein hymgasgliad i Seion.' Dyna yw y lle mwyaf nodedig i'r cleifion gael eu hiachâu, a'r lle y dylasai pobl Duw ymarferyd fwyaf o ffydd, a bod yn fwyaf diwyd i gadw ordinhadau Tŷ yr Arglwydd gywiraf. Ni chlywsoch ddysgu ond yr athrawiaeth i ffwrdd, ond yr ydych wedi dyfod adref yn awr i ymarferyd yr hyn eich dysgwyd mewn gweledydd ereill.

Os bydd neb yn glaf yn eich plith, anfoned am henuriaid yr eglwys i osod eu dwylaw ar ei ben, ac i weddio drosto, wedi ei eneinnio ag olew yn enw yr Arglwydd, a gweddi y ffydd a iachâ y claf. Esgeulusa pobl i eneinnio ag olew, pan y dylent ac y gallent ei ddefnyddio. Yr wyf wedi gweled yr henuriaid yn ceisio bwrw allan gythreuliaid, ac i gyflawni hyny y maent wedi ymprydio a gweddio, a gosod dwylaw, a cheryddu y diafol, ond nid elai allan. Yr wyf wedi eu gweled yn dyfod ag olew cyssegredig, ac yn eneinnio y person a feddiannid gan ddiafol, ac aeth y diafol allan yn union. Dysgodd hyny wers dda i mi, fod y Duw Hollalluog pan yn llefaru peth yn ei feddwl hefyd; ac os bydd gweithredoedd dyn yn iawn, bydd ei ffydd yn iawn hefyd, ac os na fydd ei ffydd yn gywir ni fydd ei weithredoedd ychwaith. Pan yr elo allan ddyn sydd a'i ffydd yn iawn i weinyddu i'r claf, efe a eneinnia ag olew yn ogystal a gosod ei ddwylaw a gweddio. Heb i chwi eneinnio ag olew, ni chyfyd

eich gweddiau yn uwch nâ'r niwl, a gwyddoch mai pur anfynych y cyfyd hwnw yn uwch nâ phenau y mynyddoedd

Os byddaf yn glaf, ac yn anfon am weinidog, yr wyf am iddo gyffawni pob gair o eiddo yr Arglwydd; ac os bydd yno neb nad ydych yn hoffi pan y deuwch yno, gwahoddwch hwynt allan o'r drws. Pan fo cythreuliaid yn y tŷ, ac nad hoffwch hwynt, bwriwch hwynt allan, ond byddwch yn sier o weinyddu yr ordinhadau yn iawn. Pan yr elo henuriad i weinyddu i'r clâf, gan ofni seimio ei fysedd, neu ddyfern ychydig olew ar ei wisgoedd, ac yn dywedyd, "O, na hidiwch am yr olew, nid oes rhinwedd mewn olew golewydden; byddai gystal i chwi ei yfed ag eneinnio ag ef; heblaw hyny gallaf seimio fy menig, gwnaf y tro hebddo," yr wyf am i'r fath ddyn ei chychwyn hi ffwrdd. Pe byddwn i yn glâf ac y deuai ataf yn y modd hwnw, dywedwn, 'Yr ydych yn ragrithiwr, druan gwael.' Dyna fel y teimlwn ac y dywedwn. Bydded i ddyn pan y medd yr iawn math o ffydd, ymarferyd gweithredoedd y cyfryw: a phan y dywed Duw, Eneinniwch ag olew, eneinniwch, nid oes gwahaniaeth genyf fi pe rhedai i lawr eich barf, fel y gwnaeth ar farf Aaron, ni wna un niwed i chwi. Pan y mae dyn yn ateb i bob gofyniad o eiddo y nefoedd, y mae ei weithredoedd a'i ffydd yn iawn. Enfyn i fyny weddiau dros y cleifion, eneinnia ag olew, a gesyd ei ddwylaw. Pan fo ei weithredoedd yn iawn, hwy a gydunant a'i ffydd, ac fe iacheir dynion a benywod.

Y mae hon yr un mor sier â chyfraith mesmeryddiaeth. Ni welais erioed mo honi yn methu, ac ni fetha byth; dywedaf hyn wrthych yn enw Arglwydd Dduw Israel. Y diffyg mawr yw, fel y dywed y Brawd Kimball, chwery pobl â'r pethau hyn, fel y gwna cath â llygoden hyd oni fydd marw; ac felly y bydd gydag ordinhadau Duw pan na chyflawnir ond rhan o honynt, ac yr esgeulusir y rhan arall, canys yn y fel yna y cauir cyfrwng bendithion yr Arglwydd. Na ddysgwylied y Saint cleifion eu bod yn myned i fod yn iach, tra nad oes ond hanner yr ordinhad wedi ei gweinyddu iddynt. Os dymuna dyn gael ei iachâu, rhaid yw gweinyddu arno yn gyfreithlon yn y ffordd hono a benododd Duw, a byw i'w grefydd.

Y mae llawer o bobl yn cyfranogi o'r secrament, ac yn meddwl ar yr un pryd, 'pa niter o weddenau a allaf fi gael y fory i gludo cerryg? Wn i yn y byd a oes gan hona fonet

debyg i fy un i. neu os gallaf fi gael un fel ei un hithau? Ai tebyg y bydd yn ddiwrnod teg y fory, neu ynte a wlawia neu fwrw eira?' &c. Gellwch eistedd ar yr esgynlawr hwn a darllen yn eu gwynebau fod y fath feddyliau ynddynt. Pan y mae un claf wedi anfon deisyfiad i mewn am weddian y gynnulleidfa yma, y mae llawer yn gadael i'w meddyliau grwydro dros yr holl greadigaeth. Onid ydym yn gweled hyny yn union yn y fan yma? Ydym, ac y mae dyn i Dduw yn teimlo yn ddigllawn wrtho. Nid oes wahaniaeth pwy a elwir i weddio, dylai yr holl gyfarfod ymuno; dylai pob person ag sydd yn y gynnulleidfa ag sydd ganddo ran wrth orsedd gras gyd-weddio, a chodi eu calonau fel calon un gwr at yr Hollalluog am y fendith ofynedig, ac mewn rhoddi diolchgarwch am y bendithion a fwynheir.

Siaradwn yngh'ylch bod yn nn, yn awr os yw ein ffydd yn iawn cyduned ein gweithredoedd. Os bydd genych ffydd i weddio, a phan y gweddier o'r esgynlawr, gweddiwch chwithau hefyd, ac os na allwch gyfynghn eich meddyliau mewn un modd arall, adroddwch weddi yr hwn sydd yn gweddio ar gyhoedd, air yn ngair, a gweddied pob Sant i Dduw pan y dêl yr awr weddi. Pan yr anfonir gweddi i fyny fel yna at Dduw y nefoedd ddyrchafedig dros y claf a'r cystuddiedig, chwi a gewch y claf wedi ei iachâu, canys y mae gweddiau pobl Dduw yn esgyn megys arogl-darth o'i flaen Ef, ac y mae Efe wedi cyhoeddi yr etyb eu gweddiau o herwydd y byddant yn unedig. Pan yr enfyn berson claf yma ddeisyfiad am ran yn ein gweddian, nid yw wedi ei anfon er i un dyn yn unig weddio dros y cyfryw berson, ond y fod i weddiau y Saint cynnulliedig, un ac oll, i gael eu cynnyg drosto. Yna y cyfodai pob un yn Nhabernacl y cyfiawn ei lais, a gweddiai dros y person claf hwnw, eich dyledswydd yw ei wneuthur. A phan gymmeroch o'r Sacrament, dylech gofio am gorff yr Arglwydd, a chredu mai drwy rinwedd ei ddyoddefiadau, ei waed a'i farwolaeth eich prynwyd. Dylech ystyried nad yw yn unrhyw ordinhâd fechan a dibwys, ond ei bod wedi ei sefydlu gan y Duw mawr er lleshâd ei bobl, ac i wneuthur coffawdwriaeth yn barhaus o ddyoddefiadau a marwolaeth ei Fab.

Dymunwn alw arnoch i fod yn foddlon i feddu yr iawn fath o ffydd, ac i'w harddangos drwy eich gweithredoedd. Pa beth

yw tystiolaeth Saint y Dyddiau Diweddaf? Y mae ein crefydd mor wahanol i grefydd pobl ereill ag yw ein tystiolaeth ni i'w tystiolaeth hwy. Pan dystiolaethodd Joseph Smith, dywedodd wrth y bobl y fod angel o'r nef uchel wedi llefaru wrtho, ei fod wedi ei ordeinio ag awdurdod oddiwrth Iesu Grist, a'i anfon allan i bregethu yr efengyl. A glywsoch chwi y Methodistiaid yn dal y fath dystiolaeth erioed? Os naddo, pa fodd y gellwch ddysgwyl iddynt feddu y fath ffydd a'r dyn sy'n credu tystiolaeth Joseph Smith? Ni fedd y Methodistiaid y fath dystiolaeth, ond yn unig fel y cânt hi gan Saint y Dyddiau Diweddaf. Dywedodd Joseph hefyd iddo weled gororau tywyll Gehena; a glywsoch chwi Fethodistyn erioed yn dal y fath dystiolaeth? Naddo. Dyma lle y mae henuriaid Israel a welsont gwmni ar ol cwmni o angylion, a welsant iachâd y cleifion, agoriad clustiau y byddariaid a llygaid y deillion, a rhyddhâd tafod y mudan. Clywsoch hwynt yn tystio iddynt weled gogoniant Duw; a'u bod drwy ysbryd y brophwydoliaeth wedi rhagweled rhyfel, haint a newyn yn dyfod ar y ddaear. Nid yw y Methodistiaid yn hôni y fod ganddynt y fath dystiolaeth, ac wrth gwrs nid oes y fath ffydd ganddynt. Gellwch fyned at unrhyw sect a fynoch ar wyneb y ddaear, ac y mae eu ffydd yn cyduno a'u tystiolaeth, fwy neu lai.

Y mae gan Saint y Dyddiau Diweddaf dystiolaeth, ac y mae ffydd yn dyfod iddynt drwy glywed gair Duw, ond y mae yn dyfod i ereill wrth glywed geiriau dynion.

Y mae genym ni dystiolaeth y fod Crist yn fyw ac yn eistedd ar ddeheulaw Duw; y fod angylion wedi gweinyddu i blant dynion ar y ddaear, ac fod ein Duw yn clywed ac yn ateb ein gweddiau. Y mae ein ffydd yn wahanol, ac y mae ein tystiolaeth yn wahanol i'r lleill o'r byd proffesedig; ac er eu cael i gyduno â ni, y mae ganddynt i wrandaw ar, a derbyn yr un dystiolaeth, yr un athrawiaeth, a'r un pwys o ymresymu a feddwn ni canys y mae ffydd yn dyfod trwy glywed gair Duw. Y mae pobl Ddnw yn y dyddiau diweddaf hyn yn gwahaniaethu oddiwrth bob sectau crefyddol. Pa fodd y geill fod fel arall tra y mae ein tystiolaeth mor wahanol, pan yr oedd y cyhoeddiad cyntaf a glywsom mor wahanol? pan y mae adferiad Llyfr Mormon, ei gyfieithiad trwy ddefnydd yr Urim a'r Thummim, deniau a bendithion yr Ysbryd Glân, gweinydog-

aeth engyl, a phob peth sy'n gyssylltiedig â'n crefydd, mor wahanol i'r hyn y mae y byd yn ymarfer cyhyd? Credant hwy y gwnaiff *calomel* iachâu y claf—ni chredwn ninnau, ond y gwna yr eneinniad ag olew a gosodiad dwylaw, a gweithredwn yn gyferbyniol.

Nid yw yn rhyfedd fod Saint y Dyddiau Diweddaf yn credu mor wahanol i bobl ereill, canys y mae eu gweithredoedd yn wahanol, ac y mae eu tystiolaeth yn wahanol. Credwn mewn ymgasglu ynghyd; y mae yr Arglwydd Dduw wedi llefaru wrthym o'r nefoedd, a'n gorchymyn i ymgasglu. Nid ydynt hwy yn credu mewn ymgasglu i'r lle y geill yr Hollalluog lefaru wrthynt; nid ydynt hyd y nod yn gweddio ar i'r Arglwydd anfon angel i lefaru wrthynt. Y mae Saint y Dyddiau Diweddaf yn ceisio byw i'w crefydd fel y siaradont ag angylion, derbyn gweinidogaeth cenadon santaidd o orsedd Duw, cael eu santeiddio yn eu hysbrydoedd, eu serchiadau, a'u holl ddymuniadau, fel y gorphwyso yr Ysbryd Glân arnynt, a'n calonau eu llanw ag ef, a dyfod yn addas i ddyoddef presennoldeb angylion. Bendithied yr Arglwydd chwi, a deffroed chwi ar y pynciau yma o athrawiaeth, fel y cydgordia eich ffydd a'ch gweithredoedd bob amser, ac y byddo eich bendithion yn gydradd ag eiddo pobl Dduw yn yr oesau cyntefig, yn enw Iesu Grist ein Harglwydd Amen.

GWROLDEB MORMONAIDD.

O'r *Luminary*, am Awst 18, 1855, dyfynwn hanes Mormoniaeth mewn lle a elwir Fort Riley, a gymmerwyd allan o'r *St. Louis Republican*.—"Yr oedd gan y Llywodraeth gryn nifer o weithwyr yno hyd ymddangosiad y Cholera yn ei greulonderau erchyllaf Ffodd y gweithwyr wrth y cannoedd am eu bywydau, ond cwmni o Formoniaid, y rhai a arosent, nid fel y tebygem ni, i gau eu hunain i fyny a gweddio yn ddibaid, yr hyn oeddynt wedi ei wneuthur yn barod erbyn y deuai blinder, ac wedi parotoi ei hunain i'w wrthsefyll tra y gorfodid y lleill i ffoi, ond i lanhau, gwyn-galchu," &c.

Yehwanega y *Republican*:—"Pe byddai ar y Llywodraeth gyffredinol eisieu dynion a safent wrth eu post yn ddiysgog, fe'i diwellid gan Formoniaeth â dynion o'r iawn fetel, pa un a

fyddai yn fyddin i Mexico—banner cant o wyr i Fort Riley, neu pe gofynid hanner can mil er diogelwch y genedl, ceid y cyfan gan Formoniaeth, a hèrient y byd i fod yn gydradd â'u gwladgarwch a'u dewrdra penderfynol."

LLWYDDIANT YR EFENGYL YN TEXAS.

Mae llwyddiant yr efengyl yn y lle hwnw yn ystod yr hâf diweddaf wedi bod yn ddigon i amddifadu rhai o'r "synagogau" Methodistaidd o'u dyscyblion, ac hyd y nod eu hathrawon, y rhai a bregethasant eu *Farewell Sermon* iddynt, yr hyn a berodd gryn gynhwrf yn y "*Society*," hyd oni fygythiasant dàr a phlŷf i'r brodyr llywyddol os na adawent y wlad yn fuan, ac os na wnai hyny, y "tyllent eu crwyn" iddynt. Mor Gristionogol!

Mae y Saint mewn gwahanol lefydd yn Texas wedi adnewyddu eu cyfammodau drwy fedydd, a thra y rhwystrir pregethu gan ymosodiadau, rhegfeydd, a bygythion erchyll terfysgluoedd, y rhai sydd awyddus am ail-gyflawni gweithredoedd ysgeler *Haun's Mill*, Carthage, Nauvoo, &c., darpara y Saint oll i ffoi i Seion yr ymfudiad dyfodol, a dysgwylir y bydd llu dirfawr o honynt y pryd hyny yn canu yn iach i'w cyfeillion "Cristionogol."

UDGORN SEION,

A'U

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, HYDREF 12, 1855.

Ymfudo.—"Deuwch allan o honi hi [Babilon] fy mhobl i," yw galwad Duw ar y Saint drwy enau *angel*; "deuwch allan o honi hi" yw lleisiau cenadon y nef er's blynyddau, ac, mae Ysbryd Duw yn adleisio y galwad yn barhaus i bob un a'i medda, nes codi gwewyr ar filoedd i ufyddhau iddo. "Nid ar frys na thrwy ffô," serch hyny, ebe y galwadau blaenorol, eithr "Baich" y genadwri erbyn hyn yw "I'ch pebyll chwi, O

Israel," boed y canlyniad a fyddo. Geilw ein gweledyddion o Seion yn awr, yn hir ac yn uchel,—

"Adref, adref blant yr Arglwydd,
Galwad sydd i ddod yn ebrwydd."

Bloeddia plant Seion drwy eu holl estynfeydd,—"Adref, adref ein holl berthynasau a'n cydnabod;" adleisia copäau eiriawg y "mynyddoedd tragywyddol" yr "adref, adref" hyd gyffiniau y ddaear; ADREF yw adsain pob galwad drwy'r byd, ac adref yw ac a fydd sain uchaf a hiraf eich UDGORN chwithau Saint Cymru o hyn allan, *adref* fyddo adsain pob Sant—ADREF medd Duw ei hunan!

Mae yr amser wedi myned heibio i higo a dethol un o'r gangen hon a'r llall oddi draw, ac i'r lleill aros ar ol i gario y gwaith yn mlaen yn y wlad hon; mae yn rhy ddiweddar yn awr i gadw yn ol unrhyw deulu o herwydd eu bod yn llettya yr Henuriaid; nid oes mwyach rwystr i swyddog na Llywydd fyned adref o herwydd fod ei eisieu yma: nid oes esgusawd yn hwy fod llôg da i gael am arian yn y Banciau yma, y fod gwel rhenti am dai, nac ychwaith o herwydd fod perthynasau yn gwgu—hen fodrybod neu famgu yn bygwth gadael eu heiddo i ereill; nac ychwaith fod gobaith am i hen gloeon rhydlyd coffrau yr oesau mynedol gael eu torri; mewn gair ni wyddom am esgusawd digonol i gyfiawnhau am esgeuluso yr alwad olaf hon. Dywedwn hyn mewn atebiad i ymholiadau mynych am gynghor ar y pethau hyn, a gobeithir y deallir ni gan bawb mai "*adref, adref*" mor gynted ag y gellir fydd ein hatebiad i bawb.

Yn y blynyddoedd mynedol nid y'm wedi annog llawer ar y Saint i ymfudo—nid oedd anghen, rhedent o'n blaen, ac nid y'm ond adleisio â'n hegni yn awr annogaethau y nef; nid arnom ni y dybyna chwaith i egluro y pam's a'r pa fodd's na'r canlyniadau na'r achosion o'r galwad brysiawg hwn; yr Hwn sy'n galw a wna hyny cyn hir; etto gallwn ni, pe baem heb reidiach gwaith o'n blaen, roddi cant ag un o resymau dros benodrwydd y galwad, a rhifres o ganlyniadau wrth eu sodlau a brofant yn eu harllwysiad ddyddordeb y galwad, ofal y Galwwr dros ei blant, a'r iachawdwriaeth o ufyddhau; nad pa un a yw chwant y Taleithiau am Cuba i godi gwewyr ar Frydain, a

rhyngddynt osod gangen-ddôr dros y môrwerydd – a yw ymdrechfa angeuol y bwystfil o "gaethfasnach" i ddiliwio y ffordd i Seion â gwaed, coch-waed du a gwyn, de a gogledd i ymgymmysgu, ynte ai melynach rywogaeth Laman sydd am ddïal gormes fy "Ewyrthr Sam," a meddiannu etifeddiaeth eu tadau yn ol: a yw Efe am ollwng awenau y march rhyfelawg i brangcio yn ol o'r dwyrain i sarnu ein gwlad dan ei garnau, ai y plâ a'r haint sydd ar fîn medi pobl ein gwlad, ynte ai y newyn du llymdost ar ol y llawnder hwn sydd am grybychu colyddion y byddariaid i'r galwad, nid yw yn perthyn i ni yn awr ei ateb. Pa un ai dyben Duw yw cael digon o "halen" i hallîu y Taleithiau am enyd etto, fel y mynasai gael halen gynt i halltu ymaith ddrewdod Sodom; ai ei awydd yw yn fwyaf er cael adeiladu Seion, ei themlau, a'i hestynfeydd gyda buandra, fel y cynnysgaether ei phlant ag awdurdod a gallu i "rwymo i fyny y gyfraith a selio y fyny y dystiolaeth" yn rymusach, ynte both yw ei resymau ef, nid yw o bwys, gallai fod myrdd o honynt.—Hawyr! pan fo daeargryn yn berwi y seiliau, y muriau yn hollti yn gyrbibion, a'r adeilad blithdraphlith yn garn ar gwympo, a sefir yn y canol i ddysgwyl pa gyfran a ddisgyna gyntaf? O, na, digon yw fod Duw yn galw; dyna paham yr ufyddha ei blant i'w arch.

Ond dywed amryw o'r Saint, "Nid diffyg awydd ond diffyg moddion sydd yn ein cadw yma; ein gofid penaf yw na ragwelwn y posiblrwydd o gael digon o arian i ymfudo. Atebwn, na chlywsom erioed sôn fod Duw wedi gofyn i'w blant wneuthur unrhyw beth ag oedd yn anmhosibl iddynt ei gyflawni, nad beth a gostiai o ymroad neu arian, ac ni choeliwn fod ein Hollalluog Dduw, yr Hwn a bïa y ddaear a'i holl fŷn-gloddiau, y môr a'i holl berlau, a'r Hwn sydd yn teyrnasu yn mhlith holl freninoedd y ddaear wedi galw ei Saint i ymfudo heb fwriadu eu cynnorthwyo, hefyd i gyflawni hyny *os* gwnant hwy eu hunain yr oll a allant tuag at hyny. Yr os hwn yw y pegwn ar ba un y dibyna yr oll; mae Duw yn helpio y sawl a helpia ei hun, ac felly y mae ymfudiaeth pob un yn ei gyrhaedd ei hunan—ni raid fod un ar ol, os bydd, ei hunan fydd i'w feio. Ni feddyliodd Duw i Noah adeiladu arch, na myned iddi, heb feddwl ei gynnorthwyo; ni ddysgwyliodd i Israel groesi y Môr Coch heb ei symud o'u ffordd, na chyflawni ei orchestion

ereill heb fwriadu yn mlaenllaw i'w helpio yn yr hyn ni allent hwy wneuthur eu hunain. Dichon y Saint o wan ffydd feddwl fod Duw yn gofyn mwy nâ'u gallu; ni chreda y llawd a fedd loned ei aelwyd o blantos analluog fod yn bosibl iddo ymfudo yr oll dros foroedd a chyfandir tuag wyth mil o filltiroedd,—hawddach credu fod Duw yn "feistr caled" yn ceisio yr hyn ni all wneyd, ac o ganlyniad nid ymdrecha. Rhesymolach o lawer y gallasai ei ddyscyblion ddweyd wrth yr Iesu y byddai yn anmhosibl iddynt "ffoi i'r mynyddoedd" o Jerusalem "pan ei gwelent *wedi* cael ei hamgylchynu â byddinoedd." Gallasent ofyn pa fodd yr elent allant gan y byddai y pyrth oll yn nghauad, wrth gwrs. a phed esgynent y muriau, ai posibl iddynt ddiane drwy fyddinoedd aneirif Titus Vespasian, onid gwell fuasai iddo roddi rhyw arwydd arall a'i harweiniasai hwynt ymaith yn gynt tra yr oedd yn bosibl? Hawdd y gallasent hwythau gredu fod eu dinystr yn anocheladwy tra yr oedd mamau yn bwyta eu plant, a phawb yn sychedu am waed ei gyfaill o fewn, a myrddiynau y gelyn yn fwy gwancus fyth oddiallan. Eithr pa fodd y gwaredwyd hwynt? Eu ffydd yn ngeiriau eu Hiesu, eu hufydd-dod i'w Offeiriadaeth, a'u rhag-barotoadau cyferbyniol a ennillodd iddynt y waredigaeth. Wedi i adamentaidd gerni y muriau falurio o flaen Rhufeinig rhuthr, a gwneyd agen hyd y llawr ar gyfer y fan lle yr ymgasglasai y Saint i ddysgwyl yn ffyddlog hyd yr awr olaf am gyflawniad o addewid eu Brenin, pan ar ruthro i mewn dyrys-wyd y gelyn, sain ei udgyrn ei hun a'i twyllodd: yn lle "yn mlaen" chwi ddewr Rufeiniaid adseiniodd y muriau y galwad "yn ol ar frys," ac yn ol rhuthrodd y fyddin,—yn mlaen rhuthrodd y Saint, ac ni edrychasant hwy na'u gelynion yn ol nes cyrhaedd eu diogelfan yn y "mynyddoedd," nid cyn hyny y deallwyd sain yr udgorn i'r rhuthr A ddywed Saint y dyddiau hyn na ddarpara yr "Hwn a ddechreuodd ynddynt y gwaith da," ac a'u galwa i Seion drwy glariwn angel mo y ffordd iddynt hwythau hefyd? Gwna yn ddiau, *os*, meddwn-etto, eu ceir yn barod i'r alwad. wedi crynhoi o'u holl grwydriadau at yr adwy—wedi diddwfn eu serchiadau oddiar deganau Babel, ac wedi *ymbarotoi*. Ië, meddwn etto, *os* yr ymbarotoant, eu gwaith eu hunain yw ymbarotoi; ni all y naill barotoi yn lle y llall, ni wna Duw y parotoadau sydd ddyledus ar y Saint

i'w gwneuthur—*cyd weithwyr* Duw ydym yn yr Ymfudiad yn ogystal ag yn mhob cyfran arall o'n hiachawdwriaeth.

Yr ymholiad mwyaf dyddorol oll ynte yw, beth yw y parotoadau, a pha fodd eu gwneir? Ein dyledswydd a'n pleser yw ateb hyn. Ysbryd Seion a'n nhertho ac a'n hargraffo ar galonau y Saint, ac a'u cynnorthwyo i'w cyflawni oll yn gyfangwbl ac yn ddioedi.

1af. Mae genym i rybuddio ein cymmydogion hyd nes y byddwn yn sicr eu bod wedi cael cyfle i ddeall pa fodd y gallant fod yn gadwedig, ac y byddwn yn sicr eu bod wedi clywed digon i'w damnio os gwrthodant. Mae genym i'w hysbysu am farnau dinystriol Duw sydd wrth y drws, ac am y waredfan hefyd. Y ffordd oreu i wneyd hyn yw drwy fucheddan cyd-weddol â'n proffes, drwy ein tystiolaethau a'n hymbiliau, drwy draethodau a chyhoeddiadau yr eglwys, a thrwy bob cymhelliadau o eiddo yr Offeiriadaeth a'r Ysbryd Glân.

2. Mae genym i chwalu yn eu plith yr holl lyfrau sydd ar law yn ein tai, y cangenau, y swyddfâau, a'r "argraffedig air" hyd y mae Duw a'ch Llywyddion, neu Dduw drwy eich Llywyddion yn gofyn. Ac nid hyny yn unig, ond hefyd y mae cyfiawnder at eglwys Dduw yn hôni ei bod yn cael talu am danynt ar frys. Credwn mai os nad y dyledwr anonest am lyfrau fydd yr olaf yn myned i Seion, efe a ddylai fod, ac os rywfodd y cyrhaedda yno, clywa y fath ddweyd llym yn erbyn anonestrwydd, fel naill yr edifarhâ neu bydd y cyntaf oddiyna "i'w le ei hun," lle y triga ei *ddaw melyn*! Ofer dweyd na ellir gwneyd hyn, mae Duw o blaid y sawl a dreia yn iawn. Na feddylied neb o'r Saint ynte eu bod yn barod i ymfudo tra bo llyfrau ar law yn bentyrau yn llwydo, tra mae miloedd yn marw o newyn am y gwirioneddau a gynnwysant, a gweler y taliadau am lyfrau yn ffeithiau profadwy o awydd y Saint i ymfudo. Dylai awgrymiad ar beth mor eglur fod yn ddigon. *Diwedd y flwyddyn* a fyddo yn ddiwedd ar bob dyledion am lyfrau.

3. Darpariad anhebgorol er ymfudo yw talu ein dyledion at Deml yr Arg wydd; nid yw hyn i'w esgeuluso. Rhaid fod y defnyddioldeb o honi yn hunan eglur. Da gweled rhai wedi deffroi i hyn. Gweler pawb oll wedi cyflawni eu haddunedau, yn ystod y chwarter hwn yn ddiffael.

4. Deuwn yn nes at y byw yn y cynnyg nesaf. Digied a ewyllysio. ein dyledswydd yw dweyd yn erbyn yr hen arferiad andwyol sydd mor ben uchel drwy y wlad, ac yn enwedig trwy y gweithiau. hyny yw. byw hyd eithaf yr ennill. Am y sawl fo byw yn uwch nâ hyny. ni choeliwn yr amcana byth gyrhaedd Seion, eithr fod ei dduw ef. sef ei fol. yn rhy agos ato eisoes. Arferiad cyffredin yw byw yn ol a ennill'r, pe yn ddwy bunt yr wythnos, rhaid eu gwario; pe deg swllt ar hugain, trueni gwneyd ar lai; pe punt, nid yw hyny ond prin digon, ac ette, pe ond hanner hyny, gwnaiff y tro yn burion. Na feddylied ein chwiorydd prydferth ein bod ni am droi yn fradwrus i'r llywodraeth unbenaethol a feddant hwy mor hollol er's oesoedd ar y gôd a'r aelwyd pan yn cynnyg iddynt y ffordd i gyrhaedd Seion. Nid y'm heb adnabod rhai a allasent fod wedi cynilo digon i ymfudo yn gysurus; ac er ein bod ni yn casâu gweled gwraig yn dirgelu pethau oddiwrth ei gwr yn waeth nâ'r plâ na'r crafu, hawdd tyddai esgusodi yr hon a gasglai, drwy ei chynildeb, ddigon i ymfudo ei hun a'i gwr, pe heb yn wybod iddo. Pe y cynilai ond deunaw yr wythnos am flwyddyn, talai hyny gost un i'r Taleithiau. Mae cannoedd yn esgeuluso hyn a allent wneyd llawer chwaneg â rhan fawr o'u hamser yn gweddio Duw i agor calon rhywun i'w cludo, neu yn dysgwyl wrth y Gymdeithas—gweddiant yn gyntaf am oleuni i agor eu llygaid i weled faint a allant helpu arnynt eu hunain.

"O'r goreu," medd ambell un, "mi gadwa i yr hyn oeddwn yn arferol o gyfranu at achos Duw, am lyfrau," &c. Ond, aros dipyn, gwybydd mai bendith Duw ar dy lafur sydd yn dy alluogi i gael dim i'w gyfranu; pe yr yspeilit ef yn y naill i'w dalu yn y llall, pa well er hyny? Mae yn ffaith rhy aml brofadwy cyn hyn, i neb allu ei gwadu, mai drwy gyfraniadau haelionus at achos Duw yw y ffordd rwyddaf i gael yn ol o'i haelioni Ef i ymfudo.

Erbyn y cyflawnir y parotoadau hyn, hyderwn y bydd genym gyfle i hysbysu beth nesaf. Hyd oni wneir y parotoadau angheurheidiol a ellir na ofyner ein cymmeradwyaeth ni i ymfudo.

Cynghorwn bob un a allo wneyd y darpariadau gofynol, ac a all gael modd i ymfudo i Seion, i benderfynu myned y gwanwyn nesaf, a'r sawl na allant weled eu ffordd yn mhellach nâ'r Taleithiau, eled cyn beled ag y gallo tuag yno, a thra ei galon

yn hiraethu am Seion, a'i wyneb fel y galestr tuag yno, bydd golwg ei Dduw arno, ac efe a hwylia ei gerddediad yn gyflymach nag y dysgwylia.

Methem a dirnad yr achos paham y gwrandawa torfeydd lliosog arnom mor astud, fel pe yn credu pob gair, ac etto dros eu crogi ni ddeuent i'r dwfr, yr oedd y dirgelwch o hyn yn ein synu, ond yn awr dyry y Llywydd Young allwedd y dirgelwch i ni, pan y dywed, pe'd ymfudai dwy ran o dair o'r Saint y tro nesaf, y deuai llawer chwaneg i'r eglwys na thrwy eu bod yn aros yma! Credwn hyn am Gymru hefyd! Pwy a erys yma yn hwy, i fod o felldith yn lle bendith i'r byd - i fod yn rhwystrau ar eu ffordd yn lle yn offerynau i'w tynu i mewn? Pregethwn ymfudiad i'r byd, a dywedwn am ei bwysigrwydd; gofynant hwythau am arwyddion; mae yr amser wedi dyfod i roddi arwyddion iddynt drwy ymfudo ein hunain o'u plith. Arwyddwch iddynt eich bod yn ercdu yr hyn a bregethwch, drwy ddangos iddynt eich cefnau yn lle eich gwynebau; maent wedi gwawdio y rhai hyny ddigon o hyd. Rhodder iddynt *arwyddion* o rym a nerth ein crefydd, drwy eich sugn-dynu i adael Babel a'u holl deganau, perthynasau er eu hoffed, a'r wlad a'u mhagodd er mor dyner ar eu bronau. Er gwawdio eu gwaethaf am hyn, yn brathu fel brathiad piccell lem o amgylch llinynau eu calonau, pan y mae ein habsennoldeb yn eu hamddifadu o'r rhai a wnant yn fychod diangol gyda phechodau a chyfeiliornadau ein holl gamgymhudwyr; diangwn ynte, mor gyflymed â'r iwrch a'r mŷn o blith eu pechodau, rhag dyoddef o'u plïau.

"Adref, adref biant yr Arglwydd,
Babel sydd i syrthio'n ebrwydd
Megys maen i'r môr."

Y Ddyled am Lyfrau.—Crefwn sylw y Llywyddion un waith etto at y dyledion sydd arnynt i'r Swyddfäau. Beth meddwch, Frodyr? A gawn ni eich sylw at y peth hwn o ddyfrif? Atebwn, ein bod yn rhwym o gael, a hyny ar frys—nid oes yn bosibl oedi yn hwy; a pho fwyaf a esgusodir gwaethwaeth y cynnydda y ddyled o hyd, os nad hefyd po leiaf a gyhoeddir o lyfrau mwyaf y cynnydda y ddyled.—*(Gwel tud.* 336 *o'r rhifyn hwn.*

TALIADAU AT DDYLED CYNNADLEDD ORLLEWINOL MORGANWG, O MEDI 25 HYD HYDREF 9.

	£	s.	c.
1. Rees Jones, Cwmafon	1	0	0
2. Martha Jones. ei wraig	0	5	0
3. Isaac Evans, Cwmafon	0	5	0
4. James James. etto	0	5	0
5. Alfred Thomas. etto	0	7	0
6. Elizabeth Thomas, ei wraig	0	5	0
7. John Bowen, Pyle	0	10	0
8. Elizabeth Bowen, ei wraig	0	3	0
9. William Bowden, Pyle	0	2	6
10. Anne Bowden, ei wraig	0	2	6
11. Thomas Thomas, Pyle	0	5	0
12. William Reynolds, etto	0	2	6
13. Lewis Davies, etto	0	6	6
14. Mary Davies, ei wraig	0	6	0
15. David Llywellyn, Wick	0	2	6
16. Margaret Llywellyn, etto	0	1	0
17. George Groves, Abercenffig	0	1	6
18. John Jones. St. Brides	0	10	0
19. William Davies, etto	0	2	6
20. Anne Davies, ei wraig	0	2	6
21. David Evans, Drefnewydd	1	0	0
22. John Butler, etto	0	2	6
23. Jane Butler, ei wraig	0	2	6
24. John Davies, Abertawy (Cang. Gymreig)	0	5	0
25. Catherine Davies, ei wraig	0	5	0
26. William Brookes, Abertawy (Cang. Seis)	0	2	0
27. Jane Brookes. etto	0	3	0
28. James Hone, hynaf, Abertawy (Seisnig)	0	2	6
29. James Hone. ieu., etto	0	2	6
30. James Tuckfield, etto	0	10	0
31. Catherine John, Treforris	0	2	6
32. Thomas John, Treforris	0	2	6
33. Anne John, etto	0	2	6
34. Griffith Griffiths, etto	0	10	0
35. Margaret Griffiths, ei wraig	0	10	0
36. William Richards, Cwmbwrla	0	10	0
37. Thomas Evans, Cwmbach	1	0	0
	£10	18	6

D.S. Mae rhai ereill wedi talu cyfrau, eithr ni chydnabyddir hwynt drwy yr UDGORN, hyd oni chyflawnant eu haddewidion. Ymdrecher i gyflawni yr addunedau cyn y Gymmanfa.

Y Ddyled am Lyfrau.—*(Parhâd o dud.* 334 *o'r rhifyn hwn.)* —Y ffaith alarus yw fod y Cynnadleddau Cymreig eisoes yn ddyledus i'r Swyddfa hon yn agos i chwe' chant o bunnoedd! ac nid llawer llai i'r Swyddfa Seisnig! £600! edrychwch arno! Pa le y mae en gwerth? Beth sydd i ddangos am danynt? Ai *stock* ar law? Ofnwn fod ugeiniau, os nad chwaneg yn eisieu, yn "ddyledion personau" fel eu gelwir, yn nwylaw y Dosparthwyr. ac yma ac acw, ac yn rhyw le a phob man ond *lle y dylent fod.* Pa hyd yr oedir edrych at bethau fel hyn? Mor bell o gymmeradwyo neu ganiatâu i un llywydd i ymfudo a fo yn euog o'r fath esgeulusdod yn hwy; gorfodant ni i'w *dropio* ar fyrder, os troant glust fyddar i'n galwadau yn hwy. Nid oes eglurach prawf nad yw y Llywydd a esgeuluso hyn, ac a esgeuluso anfon i ni enwau y Cangenau a gyfranasant at y D. Y. Barhaus, eu *Balance sheet* chwarterol, &c., a ofynwn ganddynt, yn amddifaid o Ysbryd eu Swydd bwysig, ac felly ni allwn beidio bod yn gyfranog o'r marweidd-dra, y malldod, a'r felldith a ddilyna arosiad y cyfryw yn eu swyddau lawer yn hwy. Hawyr! er galw a galw drwy'r Udgorn, &c., o hyd, dros hanner Llywyddion Cymru heb anfon i ni y cyfrifon ag y gwyddont o'r goreu eu bod yn ofynol ar ddiwedd pob chwarter! Ac er dweyd nes blino am iddynt drefnu cynllun i werthu yr hen *stock*, a chael y ddyled i mewn ar frys, arosant rai mewn *whirlpool* tragyfyth, fel pe yn dysgwyl i'r peth wneyd ei hunan. Frodyr, deffrowch a mynwch weled yr holl gyfan wedi eu gwerthu, a phob dyled wedi cael eu talu i'r ddwy Swyddfa cyn y gwelwch ddiwedd y flwyddyn hon. Dechreuwch o ddifrif ar y pentwr £600 yma, a chwalwch ef o'ch golwg ar frys.

☞ Gorfodwyd arnom, o ddiffyg lle, i adael allan y taliadau am lyfrau, &c., &c., hyd ein rhifyn nesaf.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Araeth y Llywydd J. M. Grant	321
Gwroldeb Mormoniaidd	327
Llwyddiant yr Efengyl yn Texas	328
Golygyddiaeth.—Yunfudo—Y Ddyled am Lyfrau	328
Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg	335

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

RHIF. 22.] HYDREF 27, 1855. [CYF. VIII.

YR AMSERAU AI FURGYN YN EI GEG!

Y FFUG-CHWEDL OLAF—Y BWCCI BW HYLLAF a'r burgyn ffieiddiaf o ysgerbydau yr oes wrth-formonaidd hon yw y traethawd a broffesa roddi "hanes bywyd benywaidd yn mhlith y Mormoniaid," gan un a gyfenwa ei hun yn "Maria Ward," ac a ddywed, "ei bod hi wedi bod yn wraig i Henuriad o Utah;" ac er ein bod ni wedi darllen yr oll a allem gael gafael ynddynt o fryntni yr aflaniaid awdurol a golygyddol yn mhob iaith a ddeallwn, er's dros ddwsin o flwyddi, a gorfod gwasgu ein ffroenau yn dyn aml dro, tra yr analisiem golyddion drewedig eu *bug bears* gwrth-formonaidd i chwilio am friwsionyn o wirionedd, cyfaddefwn mai y cwdyn bawiawg hwn yw yr aflanaf o'r oll. Aroglasom ei ddrewi o bell er's llawer dydd, tra y gwleddai golygyddion yr iaith arall arno, fel pe yn *sower-crout* danteithiol. Pan y chwythodd corwynt gorllewinol ei sawyr dros y môr, rhagwelem mai *suckertash* ar-dderchog yr ystyriai chwaeth aflan y Saeson ef; etto mor gasod oedd genym ymyraeth a'r fath nythfa cynrhon fel yr oedasom gyffwrdd ag ef, hyd nes gweled Golygydd yr *Amserau* wedi cydio yn yr ysgerbwd a'i ddannedd, ac yn sugno ei sugn, cynrhon a'r cyfan i lawr i'w gylla gwancus hyd braidd dorri ei fola; nac wedyn, pe na welsem ef yn llyfu ei wefau ar-ol, y saig, ai glywed yn gwaeddi ar ei gymmydogion i gyd wledda ag ef ar y danteithion ni buasem yn ceisio, hyd y nod a pnicwarch nac a gefail gôf i'w dynu oddi rhwng ei ddannedd. Ac ni

ddymunwn y bydd i'r hyn a swlwm arno yn awr droi chwaeth ader allan oddiwrth y burgyn ag y cyfaddaswyd eu cylla iddo, eithr gobeithiwn y gwleddant ar y celwyddau a garant; maent mor anghenrheidiol yn eu lle ac i'w dyben bwrpasol, er puro awyr gwlad ag yw pob *scavengers* ereill. Ein hunig amcan wrth roddi ein mhenig am ein dwylaw ac awchu ein cyllell i agor bola y burgyn hwn yw er argyhoeddi yr adar glân o bell, drwy ei sawyr, i ymswyno rhag dyfod rhy agos atto rhag llygru eu chwaeth i'w chwantu, fel y gwna Mr Lloyd druan. Gan fod yr *Amseraû* wedi colli ei arogliad os nad ei drwyn hefyd, a chodi y fath aflendid i halogi yr awyr iachus a chwifiai ar hyd bryniau Cymru, codwn ninnau dipyn o chwâ oddiar frynian gwirionedd i chwythu ei ddrewdod yn ol tua *rookeries* yr adar ysglyfaethus.

Dangosodd awduron a golygyddion rhyw awydd anghydmharol er's blynyddau i ddychymygu rhyw sothaeh, ac i greu bwganod digon erchyll i ddychrynu pobl rhag chwilio i "Formoniaeth." Maent wedi bod mor ddiwyd, fel nad oes ystori a gynlluniwyd yn yr Amerig er eu hamled, un cyhuddiad er mor ddued, nac un celwydd nad pa mor eglur heb gael ei gylchrediad ai gynnorthwyo ar ei wyb-daith yn eu cerbydau; ac wedi gyru yr olaf o hyd, a chwt gyda hi, clystfeiniant am ychwaneg o gelwyddau gwrth-formonaidd o dros y moroedd, neu draw o rywle, 'dyw waeth o ble, rhaid eu cael fel cymaint o saim i seimio olwynion eu troellau cabl-draethawg; a phan oedd eu potel olaf ar ddarfod—gwaelod y bledren yn sychu a'r siol yn penblethu am rywbeth chwaneg, wele gymhorth mewn pryd wedi dyfod! Hwi, ac ati hi yn awr! Gwrthbrofwyd eu cam-gyhuddiadau mor effeithiol nes gorfod gan gywilydd eu gadael heibio, etto rhaid cael un newydd, ac er na feiddiant wadu y gwrthbrofion ni chyhoeddant byth mo un o honynt, eithr ysgubant gonglau *hades* ei hun am faw a huddygl i barddno ac i lnchio i lygaid Mormoniaeth. Ond mae y cyfan yn cael ei chwythu i'w llygaid eu hunain yn ol, nes maent yn cwyno fod y Mormoniaid yn chwerthin am eu penau. Druain o honynt! Ni ddylai y Mormoniaid chwerthin er dim, yn enwedig am benau y deillion sydd wedi bod yn treio lluchio baw i'w llygaid hwynt o hyd. Galwant am help, help o ryw le

gan ryw un yn erbyn yr hyn a gasant hwy; eithr mae eu lleisiau megys dyfnder yn gwaeddi a'r ddyfnder—yr atteb yw, adsain distawrwydd. Diflanodd bradwriaeth y Llywydd Young, dystawodd celaneddau Brochus & Co., darfu eu gobbaith yn Col. Steptoe i ladd y Saint a llyngcu Utah. Yn lle profi fod y Saint wedi lladd Gunnison cliriwyd pob ystaen a ddwbiasid arnynt a gwarthruddwyd eu gelynion pendefigaidd y'm mwthod y brodorion fel nad oedd ond "Paent, gwrthbanau a drychau," a ad-dalai i'r Indiaid am garwriaeth y Swyddwyr Americanaidd a'u *squaws* o dan eu gwrthbanau. Er gwaethaf gerwinedd pob cyhuddwr dylifai y gwir o aml gŵr i foddi ei lid ym monwent y celwydd; eithr yn awr gwyliwch! Safwch o'r ffordd chŵi Formoniaid, am eich bywyd ciliwch, dyma Mr. Lloyd a'i *Amserau* yn eich erbyn fel cawr, nage, *cawres* a ddylasem ddweyd, ac er y cyfaddefai nad "CYWIR," sylwer, yw yr hanes, eithr ynte mai *ang*hywir yw o anghenrhaid, sef celwydd. Peidwch a bod mor *bashfull* Mr.Lloyd er mai boneddiges yw eich bwli, ni wrida pe siaradech yn eglur ac mor ben uchel ac y dywedwch yn erbyn y gwir, mai *celwydd* yw; etto meddwn, addawa gyhoeddi pennodau o dro bwy gilydd yn yr *Amserau* o'r hyn a gyfaddefa yn *gelwyddau*; ac ar yr un anadl cwyna fod Mormoniaeth yn "gwarthruddo Cymru!" Yma mae "yn hidlo gwybedyn ac yn llyngcu camel." Barna pob dyn geirwireddus, debygwn, mai cyhoeddi am wirionedd yr hyn a gyfaddefa yn gelwyddau yw y peth *gwarthusaf* a ddichon hyd y nod golygydd gwrth-formonaidd wneuthur. Gadawn rhwng yr hen gyfaill ai ddarllenwyr i derfynu y ddadl ynhylch beth yw ei ddyben a'i amcan ef yn eu porthi a phenodau o lysiafedd a gyfaddefa yn gelwydd; os gallant hwy goelio y llesola efe hwynt drwy hyny ystyriog dda iddynt wledda ar y gelain.

Clywsom son am lyfr ag yr oedd profiad o hono yn ddigon i droi ystymog—arall a deilynga ei lyngcu, ac arall a raid ei gnoi, eithr dyma lyfr sydd yn felys i eneu ein Gol., ac a dry yn wermod yn ei fola. Mae yn hynod o "ddyddorol" ebe efe; ydyw, mae dynoethi dirgelwch menywaidd, adrodd am eu treisiad, desgrifio amgylchiadau ag y gwridai y dyn diwair eu henwi, a chodi peisiau menywod am eu penau; ydyw mae holl bytein-dra ac aflaneiddwch ein gwlad yn profi fod llyfr cyflawn o

hau felly yn "ddyddorol" iawn gan rai o'r chwaeth hono. ac mae yn ddigon dyddorol gan ein cyfaill i'w arlwyo yn ddysgleidiau i giniawa ei ddarllenwyr arno ar ford yr *Amserau*. Hawyr! Peidiwch a synu wrth halogrwydd ein gwlad tra bo *pictures* anwiair a gwrthun fel hyn yn "ddyddorol" gan eich golygyddion. "Ni wyr efe am ddim a all fod yn fwy effeithiol tuag at roddi attalfa ar y cefnllif llygredig hwn." *Celwydd* roddi attalfa a'r beth llygredig, aïe. Mr. Lloyd? Ow druan, tân ddiffodd tân—dyna *logic!* Cawn ganddo hefyd enghraifft o "ffeithiau" *anghywir*! Pa fodd y gwyddoch chwi, Syr, "ei fod i gyd yn sylfaenedig ar ffeithiau?" Ni phrisiwch eich geirwiredd nemawr, pan feiddiech haeru fod unrhyw chwedl o'i fewn wedi cael ei sylfaenu ar ffaith, ac ni chymer i ni ond amser byr brofi eich bod wedi tforffetio eich geirwiredd eisoes yn eich awydd i ddrwg-liwio eich cyd-ddynion a'r grefydd a garant yn fwy na'u heinioes. A pha brofion sydd genych fod y llyfr yn wir? Nid yw ei wrth-Formoniaeth yn ddigonol brawf yn awr fel y bu i chwedlau ereill lu, gŵyr pawb well yn awr. Nid oes gan Mr. Lloyd gymmaint ag enw awdwr y llyfr a gymerth fel asgwrn-gen asen Samson i dreio lladd miloedd o'i gyd-genedl! Go wael yw llyfr dienw; cywilyddiai ei dadwa ei arddel fel braidd pob bastard, ond dyma hwn wedi cael tadmaeth Llwydaidd a golygyddol—gŵr o Gymro hefyd! Wel. pwy yw ei fam wyddys? Ust! oni chyfaddefa hi ei hunan, ei bôd hi wedi colli ei chymmeriad, a chael ei hysgymuno allan o dŷ ei rhieni, naill ai am ei diweirdeb nen am rywbeth arall; o leiaf erlidiai ei theulu hi ymaith o herwydd eu gwarthruddo ai ffaeleddau, ebe hi ei hunan, a'i charwr a droes yn elyn gwaethaf iddi. ô wydd pa rai y ffodd am ei heinioes yn ddirgel cyn gweled rmoniad erioed. A hon yw awdures ein cyfaill! Gwir yr- nen ddiareb, "Putain sy'n gwaeddi putain gyntaf," felly y yn a gynllyniodd yr holl dusw a gribwn a ddechreuodd ei gwori gyda phutain, ac ni cheir nemawr ddim arall ganddo yn ystod ei lyfr ond puteinio, puteiniaid a phuteinio. ac ni allwn gredu y coelir ef gan neb oddieithr gan buteinwyr a phuteiniaid,

Dywed ddarfod i Formoniad o'r enw Ward. ei swyno yn y drydydd yr olwg gyntaf, erbyn ei gwaethaf. Unig oedd rhai ei

bod hi yn arferol o gael ei swyno? Ond, ebe yr ymholydd, pwy yw y Mrs. Ward yma? Er na allwn atteb yn gadarnhaol gallwn sicrhau drwy yr adnabyddiaeth a feddwn o Formoniaeth nad oes, ac na fu neb a leinw nac a lanwodd y cymmeriad yna, nac o'r enw yna yn eu plith. Nid oedd yr un sant na santes o'r enw Ward yn Nauvoo, yn Kirtland, na Missouri, nac yn myned i Utah. Adwaenem un o'r mynyddwyr a fu yn byw yn mhlith y Snake Indians er's tua 17 o flynyddau cyn mynediad y Saint i'r wlad hono, o'r enw Barney Ward, cawsom adnabyddiaeth o hono, ac ni fedd wraig ond *squaw* o'r llwyth hwnw; ac ni chreda hyd y nod Mr. Lloyd mai hono yw ei awdures gampus, coeliwn! Etto, herriwn ef i brofi fod arall o'r enw Ward yn mhlith y Saint yn amseryddiad ei lyfr. Buasai genym ni ormod o barch i gymmeriad y lliaws gwragedd ag y mae y cyhoedd mor haelionus a'n anrhegu â hwynt fel ag i ganmol benyw fel y gwna Mr. Lloyd a hon, a hithau yn cyfaddef ei bod hi wedi cyd-fyw am flynyddau â llofruddwyr, yn gyfeilles monwesol i ladron, puteinwyr, bradwyr, a phob math o ddrwg-weithredwyr; byddai unrhyw fenyw meddwn, a allasai dreilio blynyddau yn mhlith y fath bobl yn wirfoddol, pan y gallasai eu gadael pryd y mynasai yn St. Louis, neu unman yn y wlad rydd hono, yn rhy amheus ei chymmeriad i'w choelio llawer llai ei chanmol, na chymhell ei chwedlau ar ereill am wirioneddau; llawer addasach lle iddi fuasai y gwallgof-dŷ, neu y *penitentiary* na bod yn wraig i unrhyw Formoniad. Mae hi nid yn unig yn warthrudd i'w rhywogaeth am godi eu peisiau dros eu penau o hyd, ond yn warth i ddynoliaeth am dŷnu en sylw at yr hyn a gelodd eu creawdwr doeth o tan gochl.

Chwedal y *New York Times*, a phob newyddiadur arall a fedda ronyn o synwyr gymmaint a hedyn mwstard, ni choeliwn mai benyw a wnaeth y llyfr, eithr fod yr enw a'r hyn a gyfenwa Mr. Lloyd yn *ffeithiau* yn ffug trwyadl—heb sail iddynt mewn gwirionedd. Yn mhellach, ni allwn gredu mai Americaniad ai gwnaeth, ond mai rhyw "Barchedig" newydd dirio o bellder byd ar lewygu, ar pethau cyntaf a foddiodd ei drem aflan oedd rhai o'r mil pamphletach anwireddus a wnaed yn erbyn Mormoniaeth, o'r rhai y gwnaeth ei ŵr-gwyllt dan sylw; un

rheswm dros hyn yw y ffaith, na chawsid nemawr grwt yn yr ysgol yn ddeuddeg mlwydd oed, ar na wyddai yn well am ddaearyddiaeth y wlad a thrigfanau yr Indiaid; mae hanes y Mormoniaid yn bur adnabyddus, ynghyd a'r gwahanol fanau y sefydlasant ynddynt, a'u teithiau. Mae awdwr y *Romance* hon wedi arddangos anwybodaeth gwarthus, fel y profwn yn union, am y bobl a gyhudda, eu harferiadau, eu crefydd ar oll a berthyna iddynt. Arbedasai cipdrem ar unrhyw ddarlun o'r Taleithiau lawer o'r gwarth a'r cywilydd a ddysgyna ar yr hwn a gyhoeddodd y ffug-chwedl aflan hon ai gefnogwyr. "O na ysgrifenai fy ngelyn lyfr," ebe Job. Cymhellai synwyr dyn ef i gredu na buasai anghen gwell canmoliaeth i Formoniaeth na chael gan *elyn* gyhoeddi "llyfr" fel hwn, etto mae hyd y nod hwn mor "ddyddorol" gan elynion, fel mai po fwyaf y celwyddau mwyaf eu hymdrech i'w gannol ai ledaenu, er dangos eu ffolineb drwy hyny. Ychydig enghreifftiau a roddwn y tro hwn o ffolineb y chwedl hon, gan adael i bob un farnu y gweddill o'r llyfr drosto ei hun. Mae yr awdwr wedi astudio llawer i gelu amseryddiad, enwau y lleoedd heblaw ei enw ei hun fel yn bwrpasol i gnddio y ffug; er hyny bradychodd ei hun ddigon i'w gondemnio ei hun yn yr hyn a ganlyn:—

Tud. 12—Cawn hi mewn ystafell mewn cwrdd Mormonaidd ar ol hanner y nos; nid oedd yno ond un ganwyll fechan yn y cwr eithaf, na digon o oleuni i ganfod gwahaniaeth rhwng gwryw a benyw.—Tud. 13—Dywed y gwelai hi serch hyny ddigon eglur i weled dros ben y cyfan wyneb-pryd Joseph Smith, a hyd y nod liw ei lygaid; a dywed mai "llygaid duon treiddgar" oedd ganddo! ond gwyr pawb a'i gwelodd, a dylai y sawl a ddarllenodd ei hanes wybod mai llygaid pur oleu oedd gan J. Smith. Er fod yr ystafell rhy dywyll iddi weled y rhai oedd o amgylch iddi, gwelai y fenyw farw a ddygasid i mewn, yn cau ac yn agor ei hamrantau o'r cwr eithaf, gweithiad ei gwythienau, ysgogiad ei gwefusau a phob manylrwydd fel pe ynghanol goleu canol-ddydd!—Tud 15—Dywed i ni mai J. Smith oedd un o ymarferwyr boreuaf Mesmeryddiaeth: drnan o honi! gwyr y cyhoedd fod llyfrau lawer am hyny yn gyhoeddedig cyn ei geni hi, a gwyr pawb a ddarllenasant hanes Mr. Smith, ei fod ef yn hollol elynol i wneyd un dim â

Mesmeryddiaeth, a gwyddom ni drwy ei glywed yn rhybyddio ar bregeth yn erbyn Mesmeryddiaeth i ochelyd rhag hyny, nad oedd efe yn gwneyd dim a'r fath beth.

Hysbysa ni fod Mrs. Braddish, arwres y chwedl, wedi lladd dau ddyn yn Nhalaeth Efrog Newydd. Pwy oeddent? Beth oedd eu henwau? Pwy all ddweyd? Nid yw llofruddiadau mor gyhoeddus yn cael eu pasio mor ddisylw a hyny yn y Taleithiau. Yn awr Mr. Lloyd attebwch chwi. ei chefnogwr a'i chyfleithwr, drosti. Pa le, amser, neu pwy oedd y ddau a laddwyd? O Dalaeth Efrog Newydd arweinia hwynt i'wlad yr addewid yn Illinois? Neidiodd drosben Ohio heb ei gweled, cysgodd tra bu y Saint yn adeiladu Dinas Kirtland a'r Deml yno, bu mewn llesmair tra yr aethant oddiyno i Missouri, ac am y blynyddau y buont fyw yno cyn erioed osod eu traed i lawr yn Illinois. Neidia dros amryw flynyddau o hanesyddiaeth yr Eglwys, ac ni ddyry i ni hanes dim yn y cyfamser ond fod Joseph Smith wedi teithio yr holl ffordd a Efrog Newydd i Illinois, dan ffugio bod yn hen ŵr pedwar ugain oed! ac nad oedd neb drwy'r holl bellder yna, er myned drwy drefydd lawer yn gweled gwahaniaeth rhwng llanc a hen ŵr penllwyd. Mewn un man cawn ferch ieuanc yn marw yn y fan ddim ond drwy iddo ef ddweyd wrthi am farw! Pw! Mr. Lloyd, ple mae y synwyr a feddech er's talm? Wed'yn, cawn yr hen ŵr penllwyd yn eistedd ar fôn pren, merch ieuanc a ddaethai i'r gwersyll ychydig fynydau yn flaenorol o dref gyfagos, ddim ond iddo sibrwd yn ei chlyst am fynyd yn gadael tad a man, brodyr a phawb, a hyd y nod ei hanwyl gariad a'i dygasai yno, ac yn dianc gyda y dieithriaid hyn yn ddiarwybod iddynt oll! *Compliment* go wael i'r rhyw fenywaidd yw dweyd fod un sylldrem o eiddo Mormoniad yn eu swyno mor belled a myned a'u serch oddiar eu gwŷr, plant, rhieni, cartref a phob peth arall. A goeliwch chwi y gallai rhyw un hudo eich gwraig, neu eich chwiorydd chwi felly Mr. Lloyd? Cywilyddient eich clywed yn cyfaddef hyny am danynt debygwn. Ac etto—pa fain gwahanol y'nt hwy na'r cyffredinolrwydd o'u rhyw?

"Nid oedd yn y dref Formonaidd ond tua 50 o fwthod." Attebwn,—Mai o Missouri y daeth y Saint i Illinois, ac nid Efrog Newydd, ac i Nauvoo y daethant; a chyn cael eu

halltudio oddiyno, yr oedd y ddinas yn bump milltir o hyd, ac o ddwy i ddwy a hanner o led. Yr oedd yn ddinas freiniedig, a chanddi ei Mhaer, ei llys dinasol, a thros ddeng mil o drigolion. Yr oedd ynddi lawer o siopiau mawrion, ac agerfadau wrth ei glanau yn ddyddiol. Eithr dywed y Mrs. Ward hon i ni nad oedd dilladau na nwyfau i'w cael yno, ond y mwyrif yn droednoeth a charpiog; un nodwydd yn y dref, a nemawr waith i hono, a phigau drain oedd pinau y wlad, tra ar yr un anadl dywed fod yno siop gan J. Smith. Gwyddom ni fod y wlad am tuag ugain milltir wrth ddeuddeg oll braidd yn meddiant, ac yn cael ei llafurio gan y Saint. a pha fodd y dysgwyliwch i ni gredu sothach eich llyfr Mr. *Amserau* yn groes i'r hyn a welodd y llygaid hyn, ac a wyr pob migwrn ac asgwrn ynom drwy brofiad? Ni ellwch ddysgwyl i ni. Pa fodd y gofynwch i ereill ynte? Ai eu hanwybodaeth hwy, a droa y celwydd yn wirioneedd iddynt hwy a chwithau? Os nage, peidiwch dyfynu eich *penodau* o'r fath *sink-hole* lygredig i hyder eich darllenwyr onide, mor sicr ag y gwnewch cospant chwi am hyny yn y carchar lle na ddiangwch o hono, os nad cynt. Ond dychwelwn:—Pwy erioed a glywodd son am "fanc" Nauvoo cyn i'r arwres hon ein hysbysu am dano? Dim gair o hyna yn wir chwaith gyfaill, ni bu gan y Saint ariandy yn un man yn Illinois. Bu ganddynt bartneriaeth mewn ariandy er's amryw flynyddau cyn dyfod i Illinois, tra yr oeddent yn Kirtlant, Ohio. Eithr nid at hwnw y cyfeiria hi, canys, ni wyr hi ddim am yr hyn a gymmerodd le yno yn ysbaid yr wyth mlynedd y bu hi mewn *trance*, wrth gwrs. Os bu yno fanc tebyg fod iddo filiai, ac efallai y gall gwr mor gyhoeddus a Golygydd *Amserau* Cymru gael gafael yn rai o'r biliau er prawf o'r haeriad; hyd hyny gwadwn ni ef yn hollol.—Dengys ein hanesydd ei anwybodaeth cywilyddus am drefniad cyhoeddusaf yr eglwys yr ysgrifena am dani; er enghraifft, haera "fod Joseph Smith yn trefnu busnes yr eglwys ei hunan, a THRI o gynnorthwywyr." Nid yw hyn amgen na *nonsense*, a digonol brawf na welodd yr hanesydd mo Joseph Smith, ac na wyddai ddim am dano ef na'i gynghorwyr. Yr oedd ganddo ddau; nid erioed DRI!

(I'w barhau.)

UDGORN SEION,

NEU

Geren y Saint.

DYDD SADWRN, HYDREF 27, 1855.

NEWYDDION O UTAH.—O'r *Mormon*, y *Luminary*, y *Star* yn nghyd ag o amryw lythyrau, llofîwn yn mhlith llaweroedd o newyddion dyddorol a chysurlawn ereill fod "yr Hwn sydd yn dal y wyntyll yn ei law i lwyr lanhau ei lawr dyrnu," ar ol chwythu lliaws aneirif o geiliogod y rhedyn i ddifa cnydau, Utah; ar ol adgyfnerthu eu byddinoedd hwynt â'i locustiaid er dychrynu yr annuwiolion ymaith, yn ddiweddaf wedi anfon y pryf y rhûd i fwyta y cloron, ac wedi i'r oll ynghyd wneuthur y wlad yn anrhaith fel nad oedd yn aros obaith amgen nag i'r newyn du ddifa y trigolion; wedi i'r holl wyntyllau hyn lwyr ysgubo ei lawr dyrnu meddwn, o'r ûs, y topion tops, a'r gwellt; y rhagrithiwr, y diffydd a'r ofnog Efe a agorodd ei ddwrn o'r hwn y gollyngodd allan ddeheu-wynt aruthrol ac a ysgubodd o'i flaen yr holl ddifäwyr ehedegog i'r Llyn Halen, ac a'i boddodd hwynt yno, fel y boddodd efe boenydwyr Israel gynt yn y mor coch, hyd nes y golchir eu hysgerbydau gan y tònau heilltion ar hyd ei lanau yn domenau, mewn manau yn droedfeddi o drwch. Gofalodd eu bod hwynt wedi cyflawni eu cenadaeth, sef gyru yr annuwiolion o'r wlad, serch hyny, cyn diweddu eu gyrfa; a mawr yw llawenydd ffyddlon blant Seion, y rhai mewn ufydd-dod i lais eu "Mhoses" y dyddiau diweddaf, fel y Moses gynt rhwng creigiau danneddog Baalsephon a Phiahiroth pan garlamai yr Aiphtiaid ar eu hol, ac y bygythiai tònau creulon y mor coch eu mynediad yn mlaen a waeddodd, "safwch a gwelwch iachawdwriaeth yr Arglwydd." Yn llawn mor siriol a ffyddiog dywedir fod Saint Utah, o hyd yn teimlo ynghanol y gyflafan a fygythiai eu dinystr. Yn brydlawn, er holl ddarogan a chrechwenau ein Haiphtwyr nin-

nau gofalodd eu Duw am danynt—gwaredodd hwynt o'r ûs, ac o'r gwyntyllau a'i nithiodd ymaith; planasant eu hadau drachefn, ac y mae pawb yn cwbl gredu y bydd ganddynt ddigonedd o luniaeth i'w cynnal hwy a'r Saint a elant yno atynt; ond ni bydd dim i'w werthu i fyddin felldigedig arall fel yr olaf, nac i estroniaid a ânt yno i auafu chwaith. Onid yw yr holl ofal gwyrthiol hwn a ddengys Duw dros Seion yn ddigon i wneyd i hyd y nod Offeiriaid a Golygyddion Babilon a'r Aipht, y rhai a brophwydent mor ëofn mai barn Duw oedd hyn oll, i newid eu tôn, ac i gydnabod ei ofal Ef dros ei blant yn y cyfyngder olat, rhaid eu bod tu-hwnt i argyhoeddiad. O leiaf cyflawna Efe yr hyn a ddywedasom yn ôl rifynau yr UDGORN, ac mor gyhoeddus ag y gallwn yn mhob man, sef, mai *bendith nid* "*melldith*;" trugaredd, nid "*barn*" ar ei blant oedd hyn, ac y diwallai Efe eu hangenrheidiau. Fe gwblheir y gweddill o'n geiriau hefyd, y rhai a ail adroddwn yn groew, sef, y daw yr holl fyd i ymofyn ymborth gan "Joseph," er iddynt ei alltudio o'u cyffiniau cyn y dychwela efe i ofyn cerdod ganddynt hwy.

Mae ty-newydd y Llywydd Young braidd wedi ei gwblhau eisoes. Lluoedd yn gweithio yn brysur ar y deml a'i seiliau eisoes tuag wyth troedfedd i'r lan; mae swyddfa newydd yr Ysgrifenydd a Hanesydd yn cynnyddu yn gyflym; Ysgoldai a Seneddai gwychion yn carlamu i'r lan am y cyntaf yn Ninas y Llyn Halen Mawr, ac yn amryw swyddau ereill.

Mae undeb, cariad a ffyniant cyffredinol yn mhlith yr holl weddill o'r Utahaid ffyddlon a mwy o Ysbryd Duw yn eu plith nag erioed o'r blaen. Ac nid yn eu plith hwynt yn unig, eithr mae Duw yn tywallt ei Ysbryd yn nerthol ar y Lamaniaid yn ol ei addewid i Abraham, denfyn ei angylion i'w plith a thrwy weledigaethau a breuddwydion darpara eu calonau i dderbyn y cenadon a anfonwyd i'w plith, hyd nes y mae llwythau cyfain braidd mewn manau yn ufyddhau i'r efengyl. Bedyddiodd W. W. Willis yn ddiweddar dros ddau cant o'r Pa-Utahs ar y tro. Dywed arall fod dros dair mil o'r *Cheyenes* yn dymuno iddynt eu haddysgu hwynt mewn Amaethyddiaeth, Duwinyddiaeth a phob aeth arall a'u llesola. Mae plant cochion y goedwig yn gorfoleddu yn y mwynhad o'r bendithion dwyfol a sarna "Cristionogion"-gau dan eu traed, a thra mae yr olaf yn cyfrif

y Llywydd Young y dyn gwaethaf yn y byd, mae llwythau Ephraim drwy'r cyfandir yn deall yn burion fod "yr Ysbryd Mawr" yn llefaru drwyddo er eu lles fel y profant drwy ddyfod rai o honynt hyd y ffordd o Oregon ato i ofyn ei gyngor mewn cyfyngder. Mae afiechyd megys plâ yn rhedeg drwy rai llwythau cyfain braidd lle yr aeth y cenadon, ac mor gynted ag yr arddodant eu dwylaw ar eu penau iacheir hwynt yn y fan yn ddieithriad braidd, yr hyn sydd yn cryfhau eu ffydd yn fawr. Maent nid yn unig yn heddychol ond yn dyfod yn frodyr un-ffyddiog ac un-galon âr Saint ar frys.

Aeth Thomas Williams a gwerth yn agos i ddau can mil o ddoleri o nwyfau i Utah eleni, heblaw dros fil o wartheg a 130 o bedrolfeni. Dygodd Livingston a Kinkade 80 o bedrolfeni, yn cynnwys gwerth cant a deugain mil o ddoleri, heblaw 50 llwyth gan Gilbert a Gerrish; 29 gan S. M. Blair; 25 gan Snow, &c. Felly, gwelir nad raid fod y Saint yn ddiffygiol o na dillad nac ymborth chwaith ar ol y cwbl a ddaroganir am eu newyniad; ac nid yw y Marsiandwyr hyn yn dangos cred yn mhroffwydoliaethau gau-brophwydi Brydain, sef, y bydd raid i'r Mormoniaid adael Utah!

Galarus genym hysbysu ddarfod i'r Prif Ynad Leonidas Shaver farw, ar y 29ain o Fehefin, o glefyd yn ei ben a achoswyd drwy gasgliad. Ennillodd yr Anrhydeddus Shaver ymddiried ac anrhydedd mawr yn Utah; a chafodd y parch a deilynga ei fuchedd ddifrycheulyd ei gyfiawnder ai ddyngarwch hynod ei ddangos i'w weddillion drwy angladdiad anrhydeddus. Ymunodd holl awdurdodau y Llywodraeth a'r Eglwys i dalu y parch olaf i'w goffawdwriaeth.

Ysgrifena y Llywydd Snow, o Ash-hollow, dyddiedig Awst 14, pan ar ei daith i'r Dyffryn, gyda chyflymdra y Mail fod yr holl wersylloedd o'r Saint a welsai yn iach ac yn teithio yn mlaen yn gysurus. Yr oedd y pump gwersylloedd blaenaf etto o'i flaen, a dysgwyliai oddiweddyd yr olaf o honynt tua Fort Laramie. Ymddygasai yr Indiaid yn garuaidd iawn at yr holl ymfudwyr, ac etto ofnai y teithwyr gwrth Formonaidd ac hyd y nod y Mail deithio yn eu plith heb osgordd filwrol. Gwnelai y Llywodraeth ddarpariadau prysur drwy gludo ymborth, a milwyr i'r gwahanol Forts ar y plains i ryfela â'r Indiaid;

gwnelid hwynt yn barod i gychwyn ar ryfel-gyrch am 60 niwrnod yn erbyn yr Indiaid. Mae y Dwymen Felen yn ysgubo pobl Norfolk a Portsmouth o'i blaen i'r byd arall mor gyflym, nes dychrynu ymaith bawb a allo fyned o'r lle braidd, achwynir mai y "Bugeiliaid" sectyddol yw y blaenaf i ddianc a gadael eu praidd yn y fath gyfyngdra.

LLYTHYR ODDIWRTH YR HENURIAD THOMAS C. MARTILL.

Dinas y Llyn Halen, Meh. 30, 1855.

Anwyl Frawd Jenkins,—Cyrhaeddodd y rhan flaenaf o'n cwmpeini ni Ddyffryn y Llyn Halen ar y 23 o Fedi. Wedi dyfod i olwg y dyffryn gyda'r rhan flaenaf o'r cwmpeini, dychwelodd y brawd John Evans a minnau i gyfarfod y rhan olaf, a chyrhaeddasom y ddinas ar y 25ain. Pwy a fedr ddesgrifio y llawenydd, a orlenwai ein mynwesau pan gawsom gip olwg a'r y lle? Syrthiasom ar ein glyniau mewn diolchgarwch ger bron Duw. Mawr yw ein dyledswydd i'w ganmol am ei ryfedd ddaioni a'i ras tuag at y rhai a ufyddhant i'w orchymynion. Synod a rhyfedded pob perchen synwyr wrth ganfod y ddoethineb a'r gallu a amlyga yr Arglwydd yn Seion! Yr hyn a ystyriwyd yn anialwch ychydig amser yn ol, sydd yn awr yn blodeuo fel rhosyn. Nid yn unig y mae y tir yn ffrwythlawn, yr hinsawdd yn iachus, a'r lle yn hawddgar, ond y mae ymarweddiad y mwyraf o'r preswylwyr yn nefolaidd; yma y ceir addysgiadau nefol a gwerthfawr! Yma y ceir pob dyn gyfleusdra i'w adnabod ei hun. Dyma ddinas ffyddloniaid—noddfa i bob dyn gonest; eithr gocheled y rhagrithiwr, y puteiniwr, a'r neb a gymero enw Duw yn ofer! Nid oes yma ddinas barhaus i'r neb ai haloga ei hun. Er pan yr wyf yma yr ydwyf wedi cael y cyfleusdra i gyfaillachu â'r Llywydd amryw weithiau.

Nis gwn pa fodd i roddi desgriflad o hono yn well na dywedyd fod pob cymhwysder wedi cyd-gyfarfod yn yr un person, hwnw yw Brigham Young. Y doethaf, y penaf, ar tebygaf i Dduw o'r neb a ddychymygoedd eich calon am dano. Nid oes tan haul y nef well pobl na'r mwyrif o breswylwyr y dyffryn

hwn, na, nid oes eu cyffelyb ond y saint o begwn i begwn byd. Er fod y lle hwn yn rhagori efallai ar bob lle arall, y mae yma rai tychanwyr fel ag y sydd wedi bod yn mhlith Israel yn mhob goruchwyliaeth o'r byd. Rhai wedi derbyn tystiolaethau cedyrn o ddwyfoldeb y grefydd tra yn yr hen wlad, oeddent mor frwdfrydig a ffurfio drychfeddyliau anghywir, ac afresymol o berthynas i Seion. Tybient y byddai i'r Arglwydd i anfon angylion i adeiladu tai, plannu gwinllanoedd, &c.; ac na fyddai gan y Saint orchwyl amgen nag ymbortbi a'r ffrwythau, yfed gwin, mwynhau arogl peraidd y llysieu a'r blodau, &c. Pan ddealloid y cyfryw fod preswylwyr Seion yn hau ac yn medi; ac nai drwy odro gwartheg y maent yn cael llath yma i wneyd ymenyn a chaws, siomwyd hwynt yn ddirfawr. Deallwyf fod rhai Cymru yn y fath siomedigaeth wedi rhoi anair i'r wlad. Eithr y maent yn awr yn edifarhau, ac yn dymuno galw yn ol yr hyn a ysgrifenasant yn eu byrbwylldra at eu perthynasau. Cyfaddefa un o Lanelli ei fod ef wedi bod yn euog o ysgrifenu hyn mewn nwyd, a rhoddi ar ddeall i'w rieni ei fod mewn caledi mawr, pan oedd yn berchen ar ddau ŷch, dwy fuwch, llôi, ceffyl, mochyn, gardd dda, a digon o fwyd yn y ty am o leiaf flwyddyn. Pa le yn Sir Gaerfyrddin y gallasai dyn heb ddim i ddechreu, ddyfod yn berchen a'r gymmaint mewn ychydig fisoedd, heb fod yn grefftwr nac yn fasnachydd, ond yn unig trwy weithio gwaith fferm ar hîr? Rhyfedd onide fod dynion yn cymmeryd eu harwain gan y fath nwydau! Caledi mawr onide! Bum yn ddiweddar yn ymweled â'r dinasoedd gogleddol, sef. Ogden, Ogden Hole, Box Elder, &c. Ogden Hole sydd oddeutu 45 mil. o'r ddinas hon. Y mae y brodyr Thomas Evans, Henry Evans, David Jones. John Davies, a'u teuluoedd yn byw yno, ac yn gwneud yn dda dros ben. Box Elder sydd oddeutu 15 milltir yn mhellach i'r gogledd. Y mae yno amryw deuluoedd o Gymru. Y mae eich chwaer Martha a'i gwr yn gwneyd yn nodi yno. Y mae eich ewyrthr a'ch cefnderwyr yn preswylio yno er ŷs ychydig flwyddoedd yn ol. Y maent wedi adeiladu ty ac yn byw yn gysurus iawn. Yno hefyd y mae y brodyr W. S. Phillips, Capt. D. Evans o Lanelly, R. G. Evans o Pembrey, William Thomas Llanybydder, a llawer ereill o Gymru nay ami yw enwi.

pawb o honynt yn ffermio ac yn ymgyfoethogi yn gyflym. Oddeutu chwech milltir yn mhellach fyth i'r gogledd y mae y brawd Thomas Thomas, ei ddau fab, a Jeremiah Thomas a'u teuluoedd, y mae ganddynt ffermydd mawrion iawn. Y mae amryw o'r brodyr a'r chwiorydd a adwaenech chwi tua Chaerfyrddin a Llanelly yn aros yn y ddinas hon. Yma y mae y brodyr Henry Harries o'r Talog, Thomas Job, a John Davies, printer; yma hefyd y mae y chwaer Margaret Edwards, o Ffynnon Draln, oll wrth en bodd ac yn dymuno eu cofio atoch. Meddyliwn yn fynych a siaradwn lawer am y saint yna, a gweddiwn yn daear ar i chwi gael eich gwaredu o gaethiwed Babel fawr, a'ch dwyn yn ddiogel i'r lle dedwydd hwn.

Da iawn genyf ddeall fod y ffordd yn cael ei hagor i chwi a'ch brawd i ymfudo y tymhor nesaf drwy gynnorthwy eich chwaer. Y mae y brawd John Nicholas yn dymuno arnoch fod yn siwr o ysgrifenu yn ol yn ddioed, os byddwch yn dyfod i ffwrdd y tymhor nesaf. Cofiwyf gyda llawenydd am yr amser y buoch chwi a minnau yn cyd-lafurio yma; melus meddwl na roisom esiamplau anheilwng o efelychaid y saint. Parhewch yn ffyddlon yn y gwaith da, a chwi a gewch bob peth a fyddo er eich lles. Annerchwch fi at eich teilwng Lywydd Jones, at y ffyddlawn frawd Daniels, a'r brodyr anwyl sydd yn llywyddu ar y gwahanol Gynnadleddau yn Nghymru. Annerchwch fi yn wresog at Gangenau Caerfyrddin, Brechfa, St. Clears, Trefechan, Pencadair, &c.

Annerchwch fi at y brodyr yn Llanelli heb enwi rhai personau, yr ydwyf yn annerch yr holl saint; Duw y nefoedd a'ch bendithio, ac a'ch dygo yn ddiogel i Seion. Da fyddai genyf gael llythyr oddiwrthych; caraswn gael gwybod am lwyddiant y gwaith yn yr hen wlad. Y mae y llythyrfa ar gael ei cheuad, o ganlyniad rhaid i mi derfynu yn bresennol rhag bod yn rhy ddiweddar. Annerchwch fi at fy rhieni, pan gaffoch gyfle, gwynfyd pe gwelent ogoniant crefydd y saint, ac y ffoent rhag y llid sydd ar ddyfod ar yr anufyddion. Byddwch lawen, mawr yw gwobr y rhai ffyddlon.

Bendithion y nef a fyddo gyda chwi yw taer weddi,

Eich Brawd yn yr Arglwydd,

THOMAS CHARLES MARTILL.

ŶR EURGRAWN YSGRYTHYROL!

Mae génym nifer fach o'r Eurgrawn ar law ag y dymunwn eú bod yn nwylaw ereill, yn enwedig dymunwn i'r Saint sydd hebddo ymddeffroi yn ddioed, ac anfon am dano drwy eu dosparthwyr cyn y byddant yn galaru am eu hesgeulusdod. Pe arall fuasai ei Awdwr bloeddiasem nerth ein pen, ei fod yn drysor rhy werthfawr i neb fod hebddo serch pump punt llawer llai yn elo *banner coron*. Oni bai fod ofn cyhuddiad o hunanoldeb dywedem, ei fod yr anrheg oreu a roisom i'r Saint drwy y Wasg o gwbl; a phe byddem mor sectyddol ag y buom unwaith, ni phetrusem ei alw yn ffordd anffaeledig braidd i gael gafael ar gânt o egwyddorion mawreddog na ŵyr gwŷr lleyg ein gwlad neníawr am danynt; eithr gan ein bod yn hyderu fod digon o enghreifftiau drwy'r wlad i brofi pa fath un yw, a chan ein bod yn bwriadu gadael y wlad hon, unwaith etto cyn hir fel na cheir argraffiad arall o hono, rhybyddiwn y rhai sydd yn meddwl y gallant ei gael pryd y dewisant y caffant eu siomi os na *frysiant!*

AMRYWIAETHAU, &c.

Cyhoedda rhai newyddiaduron fod tua 300 o'r Indiaid wedi ymosod ar wersyll o Ymfudwyr ger "Porth y Diafol" a lladd tua 150 o honynt. cymmeryd eu hysbail, ac fod y gweddill wedi cyrhaedd Dyffryn y Llyn Halen; eithr ni chredwn hyny na'r *fisk story* chwaith. Ai y pelíebyr. y golomen, ynte y frân a phig wen a ddaeth ar newydd iddynt hwy mor gynted o'r Llyn Halen, cyn bod y gwersyll blaenaf wedi cael amser i gyrhaedd yno. ni welsant yn dda ein hysbysu, a gwelwn ninnau yn dda oedi llyngcu y tammaid yna, er mor felys yw yngeneuau rhai pobl, canys daeth Mail Utah am Medi i'n llaw heddyw yn gwrthbrofi y chwedl.

Y Rhyfel.—Mae Gorkschakoff yn ei amddifyn ei hun yn benderfynol yn yr ochr ogleddol i Sebastopol, ac ond barnu wrth y tân poethlyd a luchia i blith y cyngreiriaid sydd ar yr ochr ddeheuol, nid yw yn amcanu encilio yn fuan. Mae byddin liosog o'r Francod a'r Twrciaid wedi gyru y gelyn yn ol a'r ffô

i'r wlad, yr hwn a ymladda bob cam o'r wlad a adawa ar ol. Bwriedir torri ymaith ymddibyniaeth Sebastopol am adgyfnerthaidau, eithr. mae ganddynt hwy ffordd arall i'w gael na wyddid am dani, ac yn ol pob argoelion, ni chauir hono rhagddynt yn hawdd. Tra yr ymffrostia y Rwsiaid eu bod wedi ennill buddygoliaeth glodfawr ar y Twrciaid yn Asia, yn yr hon y lladdasant 400, daeth y newydd yn ddiweddarach ddarfod iddynt hwythau yn eu hymosodiad ar Kars golli 4,000.

Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg o Hyd. 10/ed hyd y 23ain.

	£	s.	d.		£	s.	d.
Eleanor Thomas, Cwmavon.	0	3	0	Margaret Davies, etto	0	2	6
..... Abercenfig	0	10	0	Rachel Jones, etto	0	2	6
Mary J. Davies, Alltwen....	0	3	6	Jane Lloyd, etto	0	2	6
Mary W. Jones, ,,	0	0	6	David Roberts etto	0	10	0
Griffith Jones, ,,	0	1	4	Thomas Morgan, Treboth ..	0	10	0
Thomas Evans, Cyfyng	0	10	0	Edward Richards, Wick....	0	5	0
George John, Cwmbwrla ..	0	2	6	Barbara Richards, ei wraig .	0	2	6
Mary John, ei wraig	0	2	6	Thomas Davies, Ystrad....	0	10	0
Thomas Thomas, Cwmbwrla	0	10	0	Elizabeth Davies, ei wraig..	0	10	0
Thomas Evans, Cwmafon ..	0	0	6	Thomas R. Davies, etto....	1	0	0
..... Cyfyng....	1	0	0	David Evans a'i wraig.....	1	0	0
Henry John, Treforis	0	5	0	Joseph Jones, etto	0	10	0
Anne John, ei wraig	0	2	6	Anne Jones ei wraig	0	5	0
Wm. Jenkins, Castellnedd ..	0	5	0	David Jones etto	0	5	0
Ben. Phillips, Castellnedd..	0	4	0	David Jones, Iaf, etto.....	0	2	6
Evan Davies, Pyle	0	10	0	David R. Jones, etto	0	5	0
Anne Davies, ei wraig	0	2	6	William Lewis, etto	0	5	0
Evan Richards, Pyle	0	5	0	Mary Lewis, ei wraig	0	5	0
Wm. James, St Brides	0	5	0	John Williams, etto.....	0	5	0
Wm. Llewellyn, etto	0	4	0	Roderick Williams etto	0	2	0
M. Dyer. (C. S., Abertawy).	0	5	0				
Richard Knight, etto	0	2	6		£13	3	6
J. Tuckfield, etto (Gymraeg)	0	10	0				

Derbyniadau am Lyfrau hyd Hydref 23ain.—G W. Davies, £13 6s. 6½d.; J. Davies, £1 7s. 1d ; Lewis Davies, £1 17s. 2½d.; William Lewis, Morganwg, £29 16s. 10½d.; Edward Middleton, £16.; B. Jones, £7 8s. 9½d.; Griffith Roberts, 5s. 8d.; Thomas Morgan, £1.; Isaac Jones, £1 4s. 4½d.; Evan S. Morgan, £1 3s. 3d.

CYNNWYSIAD.

	TUD
Yr Amserau ai Furgyn yn ei Geg!	337
Golygyddiaeth—Newyddion o Utah	345
Llythyr oddiwrth yr Henuriad Thomas Charles Martill.....	348
Yr Eurgrawn Ysgrythyrol	351
Amrywiaethau, &c.	351

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 23.] TACHWEDD 10, 1855. [Cyf. VIII.

"YR AMSERAU" AI FURGYN YN EI GEG!

[Parhad o dud. 344.]

Dyry y fenyw hon Joseph Smith ar gefn ceffyl a benyw wrth ei ysgil, saethir ef yno, yn y nos dywyll, fel rhwyd gabage heb gyffwrdd dim a hi! Oni wyddai Mr. Lloyd mai yngharchar Carthage y saethwyd Mr. Smith ai frawd Hyrum? oni chyddystiai holl newyddiaduron y byd hyny? Gwnant, ond etto cyhoedda Mr. *Amserau* haeriad croes hon er hyny, a gresyn mawr fod neb o'r Cymry heb lyfu eu gweflau ar ei danteithion ebe Mr. Lloyd. Pa le mae ymenyddion y golygyddion a gefnogant y fath warthyni? Er enghraifft o gywirdeb ei hamseryddiad dywed fod y Mormoniaid wedi darparu i adael y dref ddeu-ddydd cyn diwedd y mis ar ol y mis y lladdwyd J. Smith. Yn mhen *dwy flynedd* ac nid yn mhen un mis ar ol marwolaeth J. Smith yr ymadawodd y Saint o Nauvoo.

Dywed y llyfr hwn wrthyni mai y Nauvoo Legion oedd y gatrawd a aethant i ryfel yn erbyn Mecsico, iddynt fyned drwy Ddyffryn y Llyn Halen i California, ac fod un o honynt o'r enw Harmer ar ol eu dychweliad i'r Taleithiau yn arweinydd i wersyll Brigham Young i'r Dyffryn. Tra y gwyr pob erwt a wyr rywbeth o'u hanes fod y Saint wedi myned o Nauvoo tua Council Bluffs, tuag 800 o filltiroedd i'r gorllewin o St. Louis cyn i'r Llywodraeth anfon Capt. Allen ar eu hol i ofyn catrawd o honynt i fyned i Mecsico, ac nid drwy y

Llyn Halen, eithr ffordd arall hollol sef tua Santa Fe yr aethant; a dylasai hyd y nod yr *Amserau* wybod fod Brigham Young a'i gwmni wedi cyrhaedd Dyffryn y Llyn Halen, a dychwelyd yn ol i'r Taleithiau cyn i neb o'r gatrawd hono ddychwelyd o Galiffornia yno.

"Cynnwysai ein gosgordd tua chant ag ugain o bedrolfeni, a a phedwar mul o flaen pob un," ebe ein hanesydd. Pan nad oedd o'r Saint lai na deg gwaith y nifer hyny o bedrolfenni, a dim cymmaint ag un o'r oll yn cael ei llusgo gan fulod. Ond gan ei bod hi yno ei hunan rhaid ei bod hi yn deall gwahaniaeth rhwng mu'od ag ychain, bid siwr! Credai pawb ereill mai ychain oedd pïa y cyrn hirion a welent o'u blaen o hyd! Syndod mai Mrs. Ward yn unig a ddeallai mai mulod oeddent serch hyny.

Etto cawn damaid melys,—"Pan gyrhaeddasom St. Louis yr oedd yno amryw bedrolfenni ereill yn aros am danom, ac wedi arhosiad byr *croesasom y Mississippi*, ac a droesom ymaith drwy fôr annhrigianol o *brairie*.—Mae y ffolineb hwn ei hunan yn profi na welodd yr hanesydd erioed mo St. Louis, y Mississippi na'r Taleithiau gorllewinol nac hyd y nod ddarlun o honynt. Dug ei chwmni o Nauvoo i St. Louis heb groesi y Mississippi! Dyma fwy gwyrth na "cherdded yn groes i'r afon." Mae Nauvoo yr ochr ddwyreiniol a St. Louis yr ochr orllewinol i'r Mississippi, neu o leiaf dyna fel y gwelsom ni hwynt, er pan y'm yn cofio, ac felly eu gadawsom hwynt; ond aeth hon o Nauvoo i St. Louis heb weled un afon rhyngddynt a gwaeth etto pan groesai y Mississippi i fyned i'r gorllewin o St. Louis! Druan o hoi i mae hi wedi colli y ffordd er's tro Mr. Lloyd, ac wedi colli ei thipyn synwyr hefyd. Ond beth oedd hi yn ymofyn yn St. Louis wyddys? Ni bu B. Young a'i gwmni ddim o fewn i ddau cant a hanner o filltiroedd i St. Louis, na dim nes yno nac yr oeddent yn Nauvoo. Yno y croesasant hwy yr afon hono, ac aethant yn mlaen oddiyno i'r gorllewin drwy Iowa hyd Council Bluffs. Ond cafodd Mrs. Ward *brairies* annhrigianol gerllaw i St. Louis yn rhywle, tra y mae Talaeth Missouri am lawer iawn o gannoedd o filltiroedd o St. Louis yn wlad goediog, ac wedi ei phoblogi yn dew. Eithr

mae hi wrth gofio yr ochr chwith i'r Mississippi i fod yn Missouri, newydd ei chroesi go chwith! Mr. Lloyd, druan, ni allwn ddal yn hwy, rhaid i ni ollwng yr ysgrifell i ddal ein hochrau, aha, a fyn allan er pob peth.

Cwyna hon hefyd fod ei chôf yn ddrwg, "ei bod hi wedi anghofio enwau rhai o'r anfonydd lleiaf." Yn awr mae hyna yn ormod o *sham modesty* o ddifrif Syr. Beth, dynes sydd wedi ehedeg dros gannoedd o filltiroedd; wedi cysgu yn hwy na'r Gôg, ïe, flynyddau o'r untu—bwyta Dinas St. Louis a llyngcu y Mississippi (tad y dyfroedd) i'w golchi hi i lawr yn llindagu ei hun a "dwy neu dair o'r afonydd lleiaf." Rhaid i ni gael chwerthin tipyn etto yn siwr.

Wel, treiwn etto, o'r diwedd cafodd ei hunan yn rhydd a dacw hi yn nghanol yr anialwch—dacw afon a dacw nhwy yn gwneyd ysgraff. I lawr a'r coed, rhwymant hwy wrth eu gilydd â rhaffau a thoant hyny a "*phlanciau tewion.*" Beth a ddywedodd hi y tro yna? a'i *planciau tewion*? 'Does bossibl! o ddifrif! O ba le y cawsant blanciau tewion yn yr anialwch mor belled oddiwrth felinau llifio tybied? Yn siwr Mr. Lloyd dylech chwi fyned gyda'ch *Amserau* oddiamgylch i atteb cwestiynau mor resymol a hyn oddiar y llyfr a ganmolwch canys, ni ellir ei goelio heb hyny. Ond wrth gofio yr ydych wedi treio gwneyd clwtyn o'ch hen glôs eich hun i dreio cuddio yr holl dyllau hyn drwy ddweyd mai tebyg i *Uncle Tom's Cabin* yw. Ond gwyr pob hanner pen Syr, mai un peth yw celwydd pe dywedid ynghaban eich ewyrthr Tom a phe dywedid yn mŵthyn eich ewyrthr Jack; yn yr *Amserau*, o eneu y Golygydd neu o eneu Mrs. Ward, neu o ble y del anghyfnewidiol yw ei natur, ac ni allwch chwithau wneyd i'ch darllenwyr gredu fod celwydd yn troi yn wirioneddtrwy ei gyfarth ar Formoniaeth. Ond dysgwyliwn ateb o ba le y daeth y *planciau*, Mr. Lloyd! Adgoffa hyn ni am ystori y gwyddel, yr hwn, mewn attebiad i ofyniad un arall, os gwyddai pa fodd y taflai y twrch daear yr holl bridd o'i flaen? "Gwn" ebe efe "drwy ddechreu yn y gwaelod." "Ond, pa fodd yr aeth efe yno i ddechreu?" "O, dyna ofyniad o'ch eiddo eich hunan," ebe efe.

Yn nesaf dwg ni i blith y Sioux mewn gwlad goediog, a chyfarfydda rai o'r Cheyennes. Yn awr, mae y ddau lwyth Indiaidd yna yn byw mewn gwledydd mor amddifaid o goed fel y buom yn teithio am ddyddiau yn olynol heb weled un pren, ac am gannoedd o filltiroedd ni allem gael amgen i wneyd tanau na thail sych y Buffalo. Fel, megys y mae pob hanesyddiaeth yn go chwith yn y llyfr musgrell hwn, nid yw ond canlyniad naturiol fod ei llysnafedd ar y Mormoniaid a'u teuluoedd yn hollol go chwith hefyd. Wedi pasio y ddau lwyth uchod daw hon a ni i drefedigaeth o Bawnees. Ond yn anfortunus i'n hanesydd gwyr y cyhoedd fod gwlad y Pawnees gannoedd o filltiroedd tu yma i'r lleill y rhai a gafodd hi yn nes yma na hwynt. Wyddys pa bryd y *swapiodd* yr Indiaid hyn eu gwledydd a'u gilydd. Gwladycha y Cheyennes gerllaw Fort Laramie, ond dwg hon ni yn gyntaf at y Sioux, ac yna daw a ni yn ol tua 500 at y Pawnees tra ar ein taith i'r gorllewin. Yn siwr Mr. *Amserau* yr ydym wedi blino yn dilyn rhyw *Jack-a-Lantern* fel hon; nid gwaith chwerthin yw hyn, ond pe buasem ar eich pwys pan yn galw ar eich darllenwyr i goelio pethau fel hyn am "ffeithiau" temtiasid ni i gydio yn eich penelin. os nad i roddi i chwi binsied o snisin hefyd. Ai â rhyw faw fel hwn yr arswydwch y Cymry rhag Mormoniaeth druan? oni arswydwch eich darllenwyr gonest rhagddoch eich hun yn hytrach, nid y'm ni yn brophwyd! Er mor anwybodus yw yr *ignorames* hon o barthed i drigfanau yr Indiaid, dinasoedd, afonydd mwyaf y byd, a phob peth arall, ag y proffesa ysgrifenu yn eu cylch, mae ganddi yr *impudence* i ymffrostio ei bod hi yn "*French Scholar*;" na theimlai unrhyw anhawsdra i ymddyddan a'r "*Santa Fe Traders*" (rhaid fod y rhai hyny wedi colli eu ffordd yn lled-chwith hollol i fod yn y fan hono), ac wele engraifft a ddyry o'i *French*:—"*Squaw good shoot*" Yn awr gofynwn er mwyn *Johny Crapw* ei hun, pa un o'r geiriau yna sydd yn *French*? Attebed Mr. Lloyd os gwel yn dda; canys yr oeddem ni mor anneallus a chredu mai gair Indiaidd yw *squaw*, am wraig; ac ni wyddem Saesoneg yn well na chredu mai dyna yw y gair "*good*" a "*shoot*" hefyd; ond pa le mae *French* ei awdures na'i geirwiredd rhaid i ni aros i Mr. Lloyd ei

ddangos etto. A chan iddo arddangos cymmaint o awydd i'w ddarllenwyr ddeall y llyfr cyfeiriedig fel ag i lenwi colofnau cyfain o'r *Amserau* ag ef, ni all wadu y dyddordeb o'r iawn gyfieithad o'r brawddegau a ddyry yn enghreifftiau o hono, bid siwr! Yr ydym yn cael gwersi godidog yn hyn, onid ydym?

"Ymunodd llawer o'n *hychain* gyda y Buffaloes," ebe hi o'r diwedd. Cychwynodd gyda chant ag ugain o weddeuau *mulod* ebe hi gyneu, eithr erbyn cyrhaedd i wlad yr Indiaid wele y mulod wedi magu cyrn a chael eu transmigrato yn ychain! Dyna i chwi wyrth Mr. Lloyd! Peidiwch a gwadu ocs y gwyrthiau mwyach. Ni choeliech ni gyneu yn dweyd mai ychain oedd y cyfain, ac efallai mai gwell genych ei chredu hi etto mai mulod oeddent pan yn cychwyn, ac iddi hi eu gwneyd yn ychain wed'yn! Rhaid i chwi gredu y wyrth draws-sylweddol hon a bod yn Babydd neu amheu ei geirwiredd hi. Os na allai hi ddweyd y gwir, pa rywogaeth o anifeiliaid ai llusgai, pa fodd y dysgwyliwch ei bod yn gallu dweyd y gwir am bethau mwy dirgel o lawer megys earwriaeth y merched a sisial na allasai glywed oddieithr ei bod hi o tan welyau yn clyst-feinio?

Yn lle bod y "*Pacific Springs*," gerllaw y *South Pass* "yn llydan a bas ac yn rhedeg yn llawn a chyflym hyd wely carregog" fel y dywed hi; dywedwn ni nad oes yno ddim yn debyg. Nid yw y *Pacific Springs* amgen na chôrs neu dir lleidiog am filltiroedd o amgylch, ac er fod taith galed i gyrhaedd yno o'r wersyllfa olaf ar y *Sweet Water* mewn un dydd, mae y lle mor lleidiog fel y gorfuwyd ni i ddwfrhau yr anifeiliad mewn llestri rhag iddynt suddo yn y llaid, a gwell oedd genym eu rhwymo wrth y pedrolleni heb fwyd drwy'r nos na'u gollwng i bori yn y fath le. Felly y rhaid i bawb wneyd; ac nid "croesi," ond gadael y *Pacific Springs* ar yr ochr ddeheuol i'r ffordd. Yma gwelir hon yn hollol go chwith etto!

Dywed y llyfr cyfeiriedig wrthym fod yno gynnifer o deuluoedd yn myned gyda Brigham Young i'r Dyffryn, fel yr oedd rhyngddynt ddigon o ferched ieuange i fod yn hudo pob gŵr gwraig drwy'r gwersyll braidd, a'u bod yn priodi, &c., ar hyd y daith; tra y dylai pawb a gyhoeddant ddim ar y pwne

wybod fod Brigham Young wedi dewis rhyw nifer o'r dynion i fyned gydag ef i chwilio allan Ddyffryn y Llyn Halen a gadael yr holl deuluoedd a rhai miloedd o'r Saint yn *Winter Quarters*, Missouri, ac felly am dros fil o filltiroeddd o'r ffordd oddiyno i'r Dyffryn, nid oedd gymmaint ag un ferch ieuange yn eu plith o gwbl. Mae hanes y daith yn gyhoeddus o flaen y byd, ac onid oes cywilydd, ïe, cywilydd arnoch chwithau Mr. Lloyd i alw y fath sothach anwireddus yn ffeithiau? Dywed i ni hefyd fod Cwmnioedd ereill o Saint wedi cychwyn fis ar ol Brigham, ac wedi cyrhaedd i'r Dyffryn o'i flaen; ond y gwir yw fod Brigham wedi gadael rhan o'i gwmni yn y Dyffryn, a dychwelyd hanner y ffordd yn ol i'r Taleithiau i ymofyn ei deulu a'r gweddill o'r gwersyll pan gyfarfu a'r gwersyll nesaf a gychwynodd ar ei ol; ac ni ddychwelodd efe i'r Dyffryn cyn pen y flwyddyn wedi gadael y rhai cyntaf yno. Fel, mae hanes hon mor hollol groes i'r gwir yn mhob peth nes mae yn rhaid fod y sawl a'i creda yn caru celwydd yn hytrach na'r gwir.

Yr ydym wedi diflasu yn trafod hen chwedlau gwneuthur hon; maent yn drewi yn ein ffroenau o ragrith *parchedigol*, ac mae anadl y *Peirch.* "duwiolfrydig" mor gryfed ar y geiriau canlynol a ddyry yn ngeneuau pob gwraig "ar ol cael ei gwrthod gan ei gwr," ag yw "Baw y d——l" lle y byddo; sef, "O, na wrandawswn ar rybyddion fy mugail duwiol." "Gwae fi na buaswn wedi cymmeryd y rhybydd a gefais gan fy ngweinidog parchus," &c. Os drewodd y gwr drwg yn waeth yn ffroenau rhyw un nag y drewa baw ei *Beirch* ar y cewyn hwn yn ffroenau pob carwr y gwir, gato pawb! gwareder ni rhag ei sawyr!—Ond gwasgwch eich ffroenau am un tro y llusgwn y ffwlbert o'i dwll etto a'i dôr i'r lan: clywch o ddyfrif —"Y gosp gyffredin am amlygu cyfrinach deuluaidd, &c., yw carchariad gwraig am fis mewn *cellar*." Yma anghofiodd hi ddweyd i ni etto pa le yr oedd eu *cellars* yn cael eu cario gyda hwynt pan yn teithio am gymmifer o fisoedd drwy'r anialwch? Yute ai cloddio *cellar* a wnaent bob nos ar ol gwersyllu er cau yr enog ynddynt? Os felly ni ailai fod yn ei charchar y dydd. "Ond", ebe ei *chefnogwr* hwn, "wedi cyrhaedd yno yr oedd y

gosp yn cael ei gweinyddu." Purion, ond etto gofynwn, ai o tan eu pedrolfeni, ynte eu pebyll y tirient y *cellars* carcharol hyn tybied? Ai tirio twll fel twrch daear yn garchar i'w wraig oedd gwaith cyntaf dyn o tan lawr ei fwthyn? Beth meddech Mr. Amserau? A allasech chwi wneyd hyny eich hunan? Etto, ar ol blynyddau o gymdeithasu â'r dynion a gyhuddir ô'r fath greulonderau a'r rhai hyn, ein gair am dano yr ydych chwi eich hun drwy gyhoeddi pethau fel hyn am eich cyd-ddynion yn greulonach dyn o gan waith na neb a welsom ni yn y wlad hono. Ac mae y sawl a greda y fath beth am arall yn ddigon gwallgof i dirio twll yn y ddaear i'w wraig ei hun.

Ofnwn y tröai ystymog y darllenydd pe dyfynem lawer chwaneg o ysgarthion y llyfr "dyddorol" hwn; y sawl a allo archwaethu chwaneg o'r fath, cyfeiriwn ef at y llyfr ei hunan gan sierhau, er ei galondid, ei fod mor gyflawn o'r cyffelyb sothach yn y manau ereill ag yw yn y manau a nodasom. Eithr gadawn yr holl chwedlau "John Gilpin", "Wil o' the Wisp" "Baron Munchusen" a'r tylwyth teg a wauir drwyddo, a'r anwireddau eraill a'u cordeddant wrth eu gilydd yn nwylaw medrus yr *Amserau*; canys, diau ei fod ef yn wehydd digon medrus i wneuthur o honynt siacedau o amlach lliwiau i'w ddarllenwyr nac oedd siaced fraith Joseph gynt. Credwn ein bod ni eisioes wedi codi digon o furgyn danteithiol yr *Amserau* i'r gwynt i brofi mai ffug trwyadl ydyw; nad yw ei awdwr yn deall digon o barthed i hanesyddiaeth Mormoniaeth mewn dim o'i chyssylltiadau i fod wedi ei seilio ar "ffeithiau"; eithr mai *catch-penny* o eiddo y Peirch oeddynt rhy ddiog i weithio am eu tamaid yw, a phe bai rhywbeth yn peri syndod i ni yn yr oes syn hon, digywilydd-dra Golygyddion yn cymhell y fath faw yn fwyd i'w darllenwyr a'n synem fwyaf! A'r unig eglurhad a gawn ar y paham o hyn yw, nad yw ond arferiad y sawl a gara gelwydd ei hunan yn fwy na'r gwir—dallineb oddiwrth "dad y celwydd" fel na thewyno goleuni arnynt mwyach. Druain o'r deillion, gwleddant ar y burgyn nes torri eu bola; ni fynwn eu hysbeilio o'r un *joint* o hono. Ond etto meddwn, nid aeth awdwr y llyfr hwnw gyda Joseph Smith i Nauvoo nac i un man arall, a phe gwelsai ei lygaid ef, ni ddywedasai mai rhai

duon oeddynt, os gwelodd ei ben ôl; nid aeth gam gyda Brigham Young o Nauvoo tua'r dyffryn; ni wyr ddim yn gywir am wlad yr Indiaid, yr afonydd, nac hyd y nod y ffordd i'r dyffryn yr aethant iddo; ni wyr am deimladau nac arferiadau y 'Mormoniaid,' ac nid oes yr un chwedl na golygfa a gynnwysa y llyfr hyd y nod wedi ei selio ar ffaith, a herriwn Olygydd yr Amserau ynghyd a phob cefnogwr a fedda i brofi yn amgen.

Profa Gol. yr "Amserau" ei hollol anaddasrwydd i olygu unrhyw gyhoeddiad, a'i annheilyngdod o ymddiriediad y cyhoedd drwy ei ymollyngiad gyda y genllif warthus o gelwyddog hon, ac nid un dyn na dynes a fedda ronyn o wir grefydd ei hunan byth a'i coelia ef etto, debygwn, yn traddodi ei farn am unrhyw grefydd o eiddo ei gyd-ddynion. Dylai pob Gol. ddeall beth sydd wir a pheth nad yw yn wir yn well na chodi rhyw dusw aflan fel hwn i'r gwynt er "symud y gwarthrudd a dynodd Mormoniaeth ar genedl y Cymry!" Pe buasai rhyw un arall yn cyhoeddi y ganfed ran o'r celwyddau hyn ar rhyw enwad arall yn Nghymru, diau y gwaeddasai efe mai hyny a fuasai yn gwarthruddo y genedl yn fwyaf oll, ac nid oes enwad yn ein gwlad yn fwy dieuog o'r cyhuddiadau ag y dwbia efe "Formoniaeth" nag ydyw hi ei hunan. Druan o hono! Ai a hwn y cuddir gwarth y genedl, aie! Unpeth a hyny fyddai i'r *sweep* geisio ysgubo parddu oddiar wyneb yr haul. A chyffelyb ofer-waith yw iddo yntau geisio golchi ymaith "warthrudd" ei "Amserau" bellach â hylif anwiredd fel a ddyfyna yn erbyn Mormoniaeth ag oedd i'r benywod hyny geisio golchi y baban negröaidd yn wŷn—hawddach i'r llewpard newid ei frychni Mr. Lloyd. Mae eich awydd gwancus chwi ac eraill am berfeddion y pamphletyn dan sylw yn ein hadgoffa am ddyn a welai sypyn bychan ar yr heol wedi ei rwymo yn drefnus mewn papyr; cydiodd ynddo gan sisial wrtho ei hunan, "Mae'n debyg i ŵns o dê. Hai, lwc mai tybaco yw; efallai mai siwgr." Ac wedi ei godi at ei ffroen er bod yn sicr, efe a waeddodd allan, "Och o' fi, baw ydyw!" Felly Mr. "Amserau" dropiwch y sypyn bawiawg hwn o'ch eiddo, ac anfonir i chwi gyda hwn draethawd ar yr "Amlwreigiaeth aflan, lygredig a damniol" hono y dywedwch ei "bod yn taflu gwenwyn marwol llygredigaeth i ffynnonell cymdeith-

as, ac yn warthrudd ar yr enw Cymreig." Peidiwch a gadael i'ch ystymog droi Syr, nid oes neb yn gorfodi y *pills* chwerw arnoch, er y credwn mai y ffordd oreu i garthu y peth aflan o fola yr "Amserau" fyddai rhoddi iddo ddôs o'r *pills* hyn yn awr ac eilwaith hyd nes y llaeso y *purging* a'r *puking*. O leiaf, credwn mai y *Cholera Morbus* y galwasai yr hen Batriarchiaid y clefyd a achosasai y fath bangau ac ysgarthiadau ag eiddo yr "Amserau," a choeliwn mai pills fel y rhai'n a roisent hefyd oddieithr iddynt ystyried y *case* yn anfeddygyniaethol. Cymmerwch gynghor yn garedig Mr. "Amserau" gan ŵr o gystal "dosbarth" ac mor bur ag y gallwch chwithau ymffrostio o hono a gwneud eich goreu—gweinyddwch gwpwl o ddoses o'r pils hyn i'ch "Amserau" rhag i'r *malaria* enbydus ei ladd. Gellid enwi hirach rhif-res o enwau personau o'r "dosparth" a ddringent bwlpudau ac i "seat fawr" pob enwad drwy'r wlad a hollol iachawyd drwy eu cymmeryd nac a enwir yn eich colofnau o blaid Halloway's," "Worsdell's," nac hyd y nod "Parr's Life Pills"; a dangoswn ein hawyld am eich gwellhad o effeithiau y gwenwyn marwol yna fel ag i roddi y rhai hyn i chwi am ddim, ac mae genym ystôr fawr wrth law o'r un natur; oes, digon i *burgio* pob gwenwyn *anti*-gwreigyddol o golyddion pob un a fedd enaid, ac a'u llyngcant, nad pa mor aflan y bu efe.

UDGORN SEION.

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, TACHWEDD 10, 1855.

Cip-drem ar sefyllfa yr eglwys yn Nghymru. Wedi cael y fraint o dreulio deg o sabothau yn olynol mewn cynnifer o Gymmanfaoedd drwy Ddê a Gwynedd yr ydym mewn sefyllfa i ddeall rhyw beth o natur a sefyllfa gwaith yr Arglwydd yn y manau hyny, ac yn byw mewn gobaith o gael y pleser o ymwel-

ed â'r Cynnadleddau eraill cyn hir. Teimlwn ddiolchgarwch o galon i'r Hwn a bia y gwaith am ei nodded drosto a'i lwyddiant arno, ac am yr undeb a'r cariad, y sel a'r ymroad a arddangosir yn mhob man. Diau mai o ddaioni Duw y mae hyn oll—Efe a deilynga ac a gaiff y mawl. Ni allwn gael lle yn awr i fanylu ar nodweddau mwyaf canmoladwy pob Cynnadledd ar wahân; ac ni feddylia y Saint mai gweniaeth ond annogaeth i efelychiad yw ein sylwadau. Mae yr holl Lywyddion ar a welsom mewn undeb â'u cynghorwyr, ac felly yr holl Offeiriadaeth; bendith annhraethol yw hyn, a thyma paham y mae y Saint yn mwynhau y fath gariad at eu gilydd a'r gwaith. Ysbryd y cariad a gynnyddo ynom oll nes ein dwyn yn hollol unol ynddo Ef. Penderfyniadau y Saint yn mhob man yn awr ydyw ymroi a'u holl egni i werthu traethodau i'r byd a lledaenu digon o wybodaeth o'r grefydd ddwyfol hon drwy hyny a'u tystiolaethau i naill ai achub neu euogi eu cymmydogion; talu pob hen ddyledion i'r Swyddïaau; gorphen talu eu haddunedau at adeiladu Teml yr Arglwydd yn Seion; a hyderwn na cheir un eglwys na pherson yn ol o wneuthur hyn cyn diwedd y flwyddyn; a gwneuthur pob ymbarotoadau ereill a allont i ymfudo tua Seion. Seion yw ein cartrefle, a diolch i'n Tad am rag-barotoi y fath ddiddosfau erbyn y bo ei lwyr angen: brysiwn fyned yno. Mae galwad taer oddiyno drwy'r holl fyd ar bawb o'r Saint a allant i fyned y tro nesaf, ac mae'n dda genym hysbysu fod gobaith i rai cannoedd o hil Gomer allu dryllio eu rhwymau a ffoi tua Seion yn y tymhor dyfodol.

Yn Brycheiniog, Mynwy, Merthyr, Abertawy, a Llanelli, cawsom gwnmiaeth ac addysgiadau rhagorol gan y Llywydd J. Ferguson; prif faich y hyn oedd am i bawb barotoi i ymfudo, a chynnorthwyo i adeiladu y Deml. Diau fod grym Ysbryd ei swydd gydag ef yn helaeth. Yr Arglwydd a'i diogelo ar ei ddychwelnad i'r Iwerddon, ac a lwyddo ei genadiaeth yno. Yn yr holl fanau uchod, cawsom y brodyr yn ymddeffroi i'r gwaith o gasglu i mewn yr hen ddyledion am lyfrau, &c., ac os caniatâ yr Eglwys, fel y llynedd, i'r arian hyn fyned at ymfudo y tylodion i Seion, diau y bydd bendith llawer ar eu penau hwynt am eu sêl yn y peth hwn. Na roddwch hyn i fyny,

Frodyr, nes ei gyflawni yn drwyadl. Un pleser mawr a gawsom wrth ymweled â'n brodyr oedd, deall eu bod yn canfod yn amlycach o hyd y pwysigrwydd a'r lleshâd o gael, ac o ufyddhau i gynghorion yr Offeiriadaeth; dywedwyd i ni enghreifftiau dyddorol o waith Duw yn profi hyny; ei fendithion nodedig i'r ufyddion, a ffeithiau galarus i'r gwrthwynebwyr—Efe yw y dysgawdwr goreu oll. Ar ein taith cawsom y pleser o weled ychwanegiadau mewn rhifedi, ond mwy pleserus oedd gweled cynnyddiant mewn grasusau, rhinweddau a santeiddrwydd; mewn amrywiol fanau bendithiwyd ein gweinyddiadau ni a'n brodyr er cysur mawr i'r cleifion; ac yn mhob cangen braidd o'r Eglwys ymlawenhai y Saiut yn y mwynhâd o'r doniau ysbrydol. Yn mhob man yr awydd mawr—mwyaf yw, am ymfudo i Seion; "O, pa bryd y caf fi fyned yno?" oedd y gofyniad cyntaf a'r olaf braïdd gan lawer, a chyda y fath ddwys hiraeth hefyd ag i beri cydymdeimlad o'r galon, ac i ffurfio testun gweddi barhaus, ar i'r "Hwn a ddechreuodd ynom y gwaith da hwn ei orphen," drwy gasglu y cloff a'r tlawd adref i Seion cyn dêl y drycin a'r gyflafan.

Drwy ein holl daith cawsom fawr bleser yn naioni Duw i'w blant a'u cariad atto Ef a'i waith, ac atom ninnau er mor annheilwng; a chawsom brawfiadau mwy nac oll ynghaledwch calonau anghredinwyr, a'r cymmylau a dduant ein hawyrgylch fod ein gwaith o rybyddio y byd yn nes i'w derfyn, ac fod Duw am ei dorri yn fyr mewn cyfiawnder. Mae pob nodwedd a ymddengys yn adnewyddol yn y gwaith hwn ac yn y byd yn tueddu i gynnyddu ein diolchgarwch i'n Duw am y fraint a gawsom o hau yr "had da" hwn yn yr ardd Gymreig, ac yn cynnyddu ein penderfyniad i fod yn fwy egnïol am y tymhor byr sydd yn ngweddill o'n gyrfa yma i "gasglu y gwenith i'w ysgubor" Ef cyn del y gauaf blin.

NEWYDDION O UTAH.

(O'r "Deseret News.")

"Y Cnydau.—O'r gogledd clywwn newyddion da ynghylch y cnŵd o wenith, pan ystyriom y niwed a wnaethpwyd gan

geiliogod y rhedyn; y rhai ni fuont yn eu dystrywiadau yn hollol anmhleidiol—llwyr borwyd rhai maesydd, tra na chyffyrddwyd ag ereill oeddynt yn eu hymyl.

Yn swydd Utah, yn enwedig yn Provo a'i chymmydogaeth deallwn y bydd y cnydau yn gyffredin drwy ddwfrhâd helaeth a bendith yr Arglwydd yn helaethlawn.

Mae'r ŷd yr India yn addaw yn dda, ac y mae argoelion da am gnŵd teg drwy yr holl Diriogaeth, ac mewn rhai parthau dyna fydd y prif lafur. Mewn llawer o faesydd yn nghymmydogaeth y ddinas hon (D. Ll. Mawr), canfyddasom arddangosiadau o niwed dirfawr i'r cnydau gan bryfyn dinystriol, a bydd yn dda i ffermwyr i chwilio eu llafur, ac os bydd yn ddichonadwy, i attal mwy o golled, canys mae'n sicr y bydd arnom anghen yr oll a ellir ei godi.

Cloron (pytatws.) sydd yn dyfod yn mlaen yn dda iawn; a chyda digon o ŷd yr India a chloron ni fydd perygl o newynu.

Y ceirch, yn ol a ddeallwn, a rodda brinach cnŵd nac arferol. Torwyd y ceirch mewn llawer o faesydd tra yr oedd etto yn lâs i fod yn borthiant, fel na chaffo ceiliogod y rhedyn y gorchwyl o'i ddifa.

O'r ad-hauad diweddar, y mae yr hyn a ddyfrhäwyd yn hael yn ymddangos yn obeithiol; eithr lle nad oes digonedd o dwfr, yr hyn sydd yn bod mewn amryw ranau o'r swydd hon, bydd y cnŵd yn brin; ond gan amlaf, fe godir porfa anifeiliaid da o hono, yr hyn fydd yn beth lled ddymunol y tymhor presennol.

Melwnau (melons), ydynt yn aml ar ŷ farchnad; er yn ddiweddar iawn, o herwydd y methiadau cynnar, a'r ad-hauad dilynol ar amser diweddar. Tra y parhauo y tywydd yn dwymn gallwn eu mhwynhau; eithr ni ddylai y cyfrai a brisiant iechyd twyta melwnau diweddar ar dywydd oer.

Cnŵd y Betys Siwgr a fydd braidd wedi hollol fethu mewn amryw lefydd, gan iddo gael ei niweidio yn fawr gan geiliogod y rhedyn.

Gwneuthur Siwgr yn Provo sydd, fel y mae yn dda genym ddeall, yn parhau i fod yn waith ennillfawr. Oni ellir tynu y *saccharine* oddiwrth y dail heb adael eu blas ar y siwgr? I ychydig brofiadau yn y gelfyddyd newydd hon mae'n ddiau y

byddai canlyniadau trwy ba rai y rhoddid math da o siwgr.

Ffrwyth, yn rhanau uchaf y ddinas, a fydd dipyn yn helaethlawn; yn y rhanau isaf ni fydd ond yn brin, gan iddo gael ei dorri ymaith gan y rhewogydd diweddar. Y mae tiroedd yn y rhan uchaf, neu i'r gogledd ddwyreiniol o'r ddinas, pridd pa rhai sydd gymhwysiadol iawn i wrteithio ffrwyth, gan nad ofynant ond cyffyrddiad medrus y garddwr, ynghyd a ffydd y Saint, er dwyn ffrwyth yn mhob amrywiaeth, ac yn ei berffeithrwydd mwyaf.

Ond fe ddylai y Saint yn mhob rhan o'r ddinas hon, ac yn mhob dinas trwy y Diriogaeth fod o ddyfrif yn nghafael a gwrteithio ffrwythau o bob math. Ceisiwch wybod pa rywiogaethau â faethir oreu ar eich tir eich hun, a gwrteithiwch yn ol hyny.

Felly y llawenheir eich calonau chwi a'ch plant wrth gynyddu yn nifer a rhagoriaeth eich anifeiliaid.

Mewn gair, cynnyrchwch a chodwch bob peth sydd yn ddymunol i'r llygaid, neu yn dda i ymborthi arno—blodau i harddu ac addurno eich llwybrau, pys, ffâ, melwnau, yd, cloron, *squash* i foddhau y chwaeth yn y tymhor o hono,—dâ, moch, ac ednod, yr oll o ba rai a ychwanegant at eich dedwyddwch a'ch cysur—eithr na adewch idd eich cywion ddystrywio gerddi eich cymmydogion.

Y lle goreu i fagu cywion yw ar eich ffermydd; eithr od oes neb yn awyddus i'w cael yn y ddinas, cadwer hwynt yn nghau i mewn yn ddiogel, o'r amser yr hauir yr hâd cyntaf, hyd oni fedir eich cnydau.

Galwn sylw ein darllenwyr at hysbysiad y brawd C. H. Oliphant, ar tud. 183 [o'r *Deseret News*, fod y brawd O. yn dilyn y gelfyddyd o impio coed ffrwythau.] Cynghorwn y rhai a chwennychant gael ffrwythau breision i achub y cyfleustra yma yn ddioed.

Cysgod-goed sydd, fel y mae yn dda genym sylwi, yn dyfod yn lled aml trwy ein dinas, a thyfant yn rhagorol. Yr hydref, yr hwn sydd ar ddyfod, sydd yn amser da i blanu coed

o bob math. Pren-cotwn yw y goreu a'r un sicraf o dyfu wedi ei ail blanu yn y dyffryn. Dylid ei geibio i fyny a gwreiddiau digonol iddo, gosod y planhigion 12 neu 15 troedfedd oddiwrth eu gilydd, a'u dyfrhau yn helaeth, yn enwedig yn ystod tymhor ail blanu.

Y Tywydd, am yr ychydig ddyddiau mynedol, sydd wedi bod yn glir ac hyfrydlawn yn y dydd; y nosweithiau yn aml yn oerllyd iawn—gwyntoedd uchel yn lled aml.

Y Tanau yn y Mynyddau sydd yn parhau o hyd er gwaethaf y gwlaw, ac o'r herwydd, bŷrheir ein golygfa yn fawr gan y cymmylau o fŵg a orchuddiant y mynyddau, ac weithiau a lanwant y dyffryn.

Toad Amserol y Bowery â helyg sydd yn cael ei orphen.

Lladd gwair sydd yn cael ei wneuthur yn hwylus. Yn awr yw yr amser—sicrhewch wair idd eich hanifeiliaid.

Y Deml.—Drych ddarlun o'r hardd adailad hon sydd i'w weled yn hongian yn Swyddfa y Llywodraethwr. Mae y gwaith o drin y cerrig i'r muriau yn myned yn ei flaen yn hwylus.

Plastriad a chwblhâd mur Adran y Deml sydd yn ymhwylluso—y rhan ogleddol wedi ei orphen, ac yn agos i hanner yr ochr ddwyreiniol.

Tai Gwychion sydd yn cael eu hadeiladu yn amrywioi barthau y ddinas; a thra y mae adeiladiad tai gwychion, a'r ysbryd ymwellhau â ddangosir yn gyffredinol yn arddangosiad boddhâol o ddyfal ymdrech ac anturiaeth y Saint, na fydded iddynt yn amldra eu hachosion eu hunain anghofio Tŷ yr Arglwydd. Dywedwn wrth y Saint, bydded gorpheniad y Ty yn wastadol o'ch blaen, ac na fethwch mewn rhoddi y cyfryw gynnorthwy at y gwaith ag a roddes Duw o fewn eich cyrhaedd.

Ffermwyr, deuwch i mewn a'ch gwenith degymol, ymenyn, caws, cywion, &c., fel y llawenhäo eich brodyr ag ydynt yn llafurio ar y deml, ac y dilynont yn ddiwyd gyda eu llafurwaith. Ac Esgobion, arnoch chwi a'ch gwahanol ddosparthiadau y mae yr alwad am chwaneg o weddcuau i gludo meini at y Deml. Cyfarfydder y galwad yma ag attebiad boddlongar.

Halen, mewn sypynau mawrion sydd yn cael ei osod yn Ystor-dy y Degwm; ac oddiwrth arddangosiadau presennol,

cawn ddigonedd i achub nid yn unig ein hunain, ond feallai ereill a ddymunant ei gael. Nid oes lle i gynnwys ychwaneg yn bresennol, felly, gellwch orphwys â'ch halen am ysbaid, a chludo cerrig at y Deml os gwelwch fod yn dda.

Ceir yr halen o lŷnoedd mawrion, y rhai yn ystod yr ucheldd'wr a ffurfiant ran o'r Llyn Halen Mawr, ond pan ostynga y dyfroedd, erys yr halen ar wyneb y tir yn drwch o dair i chwech modfedd, mewn sypynau diddarfod, a hyny am y pellder o ddwy i dair milldir oddiwrth y Llyn. Y mae yn lân ac yn wŷn iawn, ond rhywbeth yn arw.

Iechyd y Ddinas sydd yn gyffredin yn dda, er y fod yn mhlith y plant grŷn afiechyd, a pheth marwoldeb. Poethder yn y llygaid sydd wedi, ac yn parhau i lywodraethu. Mae'n ddiau y cynnyddid llawer ar iechyd plant drwy ddoethach triniaeth gan eu mhamau. Eithr tra y cyfrenir tê, coffi, cig, bara, &c., nad pa mor lleied o honynt, i fabanod, y rhai ydynt yn hollol analluog i dreilio y fath ymborth—neu unrhyw ymborth arall ond yr hyn a ddiwellir iddynt gan natur—clafychu a marw a wna ein plant.

Alphabet Deseret.—Darperir *punches*, *matrices*, a *moulds* gan y brawd Sabins, er castio argraff llythrenau yr *Alphabet* Newydd; ac yr ydym yn hyderu y gwelwn cyn hir *font* o argraff-lythrenau heirdd, a llyfrau rhwydd yn y *style* newydd, wedi eu hargraffu er defnydd i ein hysgolheigion.

Torrwyd llythyrenau mawrion o'r egwyddor yma gan ddau o wyr ieuangc medrus o'r swyddfa hon, pa rai gyda thaflen arddangosiadol, a ellir gael yn y *Post-office*

Ysgol Newydd.—Mae y Proffeswr Orson Pratt, hen., wedi cynnyg yn haelionus ei wasanaeth yn rhadlawn i ddinasyddion y ddinas hon a'i chylchoedd, i arolygu ysgol yn nghangenau uchaf celfyddydiaeth, sef, Philosophyddiaeth, Astronomyddiaeth, Fferylliaeth, Trydaniaeth, *Algebra*, Tir-fesuriaeth, Mesuryddiaeth, Tryfal-fesuriaeth, Peirianyddiaeth, *Differential and Integral calculus*, ynghyd a'r defnydd o amrywiol offerynau—yr ysgolheigion i ddiwallu ystafell, llyfrau, &c.

Nis gallwn lai na llawenychu ein dinasyddion ar y cyfleusdra manteisiol yma o gael dealltwriaeth o'r cargenau pwysig yma.

Adnabyddir cymhwysderau y Proff. Pratt yn rhy dda i ofyn ein sylwadau ychwanegol ni; bydded yn ddigon i ddywedyd y fod pob rhwyddineb yn awr i'r cyfrai a geisiant ddoethineb megys trysorau cuddiedig, idd ei chael heb nemawr gost—yn agos heb arian ac heb werth; ac hyderwn y gwerthfawrogir y cynnyg haelionus yma, ac ei derbynir yn fuan.

Y mae Seion yn blodeuo, ac y mae ei mheibion a'i mherched yn llawenhau yn ei llwyddiant. Y mae heddwch yn teyrnasu yn Utah, a mawr yw heddwch y cyfrai ag ydynt yn cadw cyfraith yr Arglwydd.

Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg o Hyd. 23ain hyd Tach. 8fed.—(Yr Addewidion Cyntaf.)

	£	s.	d.		£	s.	d.
George Watkins, Cyfyng....	0	7	0	Rees Williams, Ystrad	0	2	6
Esther Williams, ditto.....	0	2	6	Jenkin Dafydd, Cefn Cenffig	1	0	0
David Davies, Abertawy....	0	10	0	Wm. Williams, St. Brides..	0	1	0
Mary Roberts, ditto	0	5	0		£2	8	0

D.S. Oedasom am un rhifyn etto i gyhoeddi enwau y rhai na thalasant eu haddunedau cyntaf, eithr dysgwylied y sawl a fo heb dalu yn gynt i weled ei enw yn y rhifyn nesaf. Cydnabyddir yr "ail-addunedau" yn y nesaf.

Derbyniadau am Lyfrau o Hydref 23 hyd Tach. 8.—Thos. Evans, £1 10s; G. W. Davies, £25; Hugh Roberts, £2; Griffith Roberts, £1 1s; Benjamin Jones, £1 11s; John Richards, 2s 4c; John Gibbs, 15s; Isaac Jones, £6 2s 4c; Thomas Morgan, £2; Wm. Lewis, Gorllewin Morganwg, £1 2c.

Cyfarwyddyd.—Thomas Harries, "Udgorn Seion" Office, Swansea.

☞ Anfoned yr Ymfudwyr i'r Taleithiau eu blaen-dâl, a chlywant drwy yr Udgorn pa bryd yr hwylia y llong gyntaf.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones, "Udgorn Seion" Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD
Yr Amserau ai Furgyn yn ei Geg!	353
Golygyddiaeth,—Cip drem ar sefyllfa yr Eglwys yn Nghymru	361
Newyddion o Utah	363

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION.

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 24.] TACHWEDD 24, 1855. [Cyf. VIII.

YR YMFUDIAD.

(O'r "Star.")

Swyddfa Cwmpeini y Drysorfa Ymfudol Barhaus,
D. Ll. H. Mawr, Awst 31, 1855

Anwyl Frawd Franklin.—Anfonwn ychydig o enwau mewn llythyr arall, y rhai y mae eu cludiad trosodd wedi ei dalu yn mlaenllaw, yr hyn fydd y llwybr a gymmerwn o hyn allan os anfonir am rai o'r Swyddfa hon; lleihâ hyn lawer o'r nifer, gan nad yw taliadau yn hollol mor aml ag addewidion, ac fe rydd lawer gwell cyfleusdra i chwi i gynnorthwyo y rhai hyny yn Mhrydain ag ydynt wedi bod yn yr Eglwys oddiar dechreuad pregethiad yr Efengyl yn y gwledydd yna; hen aelodau, llawer o ba rai ydynt wedi aros ar ol am eu bod yn dlawd ac yn analluog i fyned ymaith, neu ag ydynt yn fethiedig ac yn aros yn y Cangenau yn ddisylw braidd, gofynir i ni gynnorthwyo y rhai hyn allan, a'u dwyn i Seion, lle y gellir gofalu drostynt, a lle na oddefir iddynt fod mewn eisieu o anghenrheidiau bywyd; helwch hwynt allan, nid y rhai mwyaf eu stŵr ydynt, a gofynir i chwi wneuthur ymchwiliad manwl trwy yr holl Gangenau, fel na oddefir i neb o'r hen aelodau hyn aros ag ydynt yn hiraethu am waredigaeth.

Gellwch gyhoeddi y llythyr hwn, fel y darllenont ef, ac y gwybyddont eu breintiau hwy a'n teimladau ni tuag at y rhai a brofasant i raddau eu cariad at yr Efengyl.

Cyfranodd rhai o'r brodyr yma gryn lawer o feddiannau i

Gwmpeini y D. Y. Barhaus, ac yr ydwyf i fy hunan wedi cyfranu gwerth tua 60,000 o ddoleri o feddiannau, desgrifiad o ba rai sydd yn cael ei anfon i chwi, a chymhellwn y brodyr cyfoethog i'w prynu, felly gallant sefydlu mewn llefydd dymunol pan gyrhaeddant, a gofynwn i'r holl frodyr cyfoethog ag ydynt yn ufyddhau i'r Efengyl yn Ewrop, i ddegymu eu mhoddion ar eu dyfodiad yn aelodau o'r Eglwys, a gwneir ef yn ddefnyddiol i gasglu Israel.

Yr eiddoch yn y Cyfammod,

BRIGHAM YOUNG,

Llywydd Cwmpeini y D. Y. Barhaus.

SYLWADAU Y LLYWYDD F. D. RICHARDS

Bydd i'r uchod loni calonau y Saint hyny ag ydynt wedi hiraros—pa mor bryderus, hwynt eu hunain a brofasant—am eu gollyngiad yn rhydd o Babilon. Yr oedd llawer, yn ddiau. wedi gobeithio cyhyd y caent fyned, hyd oni ymollyngodd hoff ddysgwyliad yn ol i gysgod anobaith. Ymddengys ffafr yr Arglwydd a'i weision fel pe byddai yn awr yn troi at y cyfrywrai, a dywedlwn, gobeitlûwch yn y blaen o hyd, ac na wanhaed eich ffydd.

Yr amcan mawr cyntaf i'w gyflawni, wedi i'r Eglwys gael ei gyru i'r diffaethlûwch, oedd i barotoi lle cyn gynted ag y gellid, i'r hwn y cesglid y tlodion mewn diogelwch, ac i gael moddion i fyw arnynt.

Sefydlwyd Cwmpeini y D. Y. Barhaus i'r dyben neillduol o gasglu y tlodion. Mewn trefn i gyflawni hyn yn y modd mwyaf difeth, bu yn ddoethineb hyd yn awr i ddefnyddio y moddion prin oedd at ei ddefnydd yn y ffordd a ystyrid oreu er cryfhau sefydliadau ieuainc yr Eglwys mor gynted ag oedd yn ddichonadwy. Gwnaethpwyd hyn i raddau helaeth trwy gynnorthwyo llawer o rai a allasent ddiwallu rhan eu hunain o'r modd a ofynid i'w hymfudo. Dangosodd yr Arglwydd ei gymeradwyaeth o ymdrechiadau ei bobl yn yr ymarllwysiad helaethlawn o'i fendithion arnynt. Cyffiniau Seion sydd wedi cael eu hymeangu, a'i hestynfeydd eu cadarnhau. Y mae amrywiol agoriadau i lafur waith cynnyrchiadol yn gyrhaeddadwy yn awr i'r cyfryw nad ymddibynant ond ar eu dwylaw yn unig

afaelyd yn rhwydd yn anghenrheidiau bywyd, a bod yn alluog mewn ychydig flynyddau i estyn cynnorthwy i ereill. Dinasoedd ydynt yn codi yn gyflym ar bob llaw, yn mha rai y geill y tlodion digartref gael cysgod rhag gerwindeb y gauaf cyntaf, yn lle byw mewn pedrolfenau, neu ystafelloedd yn y ddaear, fel ag y mae miloedd wedi gwneuthur cyn hyn, o herwydd nad oedd amser i adeiladu amledd o dai. Ffermydd ydynt wedi amlhau, ac o ganlyniad mae y modd i roddi diwalliad helaethlawn o ymborth wedi cynnyddu llawer, fel na raid i'r tlodion fod mewn angheu, na'r neb a weithio fod yn newynog. Mewn gair, mae yr Arglwydd wedi bendithio y ffyddlawn yn Seion, fel y maent yn aliuog, a pheth arall sydd yr un mor enhebgorol, yn foddlon arddangos yn weithredol yr awydd a deimlasant bob amser dros gasgliad Israel, trwy gynnyg eu tai, eu mhelinau, a'u ffermydd gwychion i'r dyben hwnw. Gorphwysa yn awr ar y brodyr yn y wlad hon, a feddant y moddion i arddangos y cyffelyb deimlad yn y gwaith gogoneddus hwn, trwy ddyfod yn mlaen a phrynu y llefydd hyfryd hyn a barotöwyd iddynt trwy ddyoddefiadau a chaledwaith eu brodyr y *pioneers*.

Gair yr Arglwydd yw i alw allan yr hen, y methiedig, a'r amddifaid, y rhai hyny a ymdrechasant yn mlaen yn ddidwyll idd eu Duw a'u brodyr, ag yr ydynt o hyd gydag ysbryd rhydd ac haelionus wedi gweinyddu i'r Henuriaid, ac wedi defnyddio yr ychydig a roddes yr Arglwydd iddynt i adeiladu ei deyrnas. Felly y mae Ef wedi agor y ffordd i'r cyfoethogion i ddefnyddio eu mheddiannau er lleshâd y tlodion heb amddifadu eu hunain, ac mae y cyfrifoldeb os bydd iddynt beidio gwneuthur hyny yn awr yn gorphwys arnynt hwy eu hunain.

Y Saint a feddant feddiannau a ofynir hefyd i ddegymu eu heiddo fel ei defnyddir er casglu y tlodion. Cyfyd y gofyniad yn naturiol yn meddyliau y cyfryw,—"Pa beth fyddai y canlyniad pe peidiem a gwneuthur hyn?" Atebwn, y bydd i Ysbryd yr Arglwydd eu gadael hwynt, ac ni fwynhânt fendithion yr Offeiriadaeth. A'ni i dywyllwch, a thorrir hwynt yn fŷr yn eu hiechawdwriaeth. Dyma yr orfodiaeth sydd yma ac yn Utah ar y pwnc. Gellir eu symio mor rhwydd â hyn—penderfynu pa un y mae dyn yn ei garu oreu, ei olud a'i fwynhâd, neu Deyrnas Dduw a'i bendithion; pethau da y bywyd hwn, neu

eiddo y bywyd a ddaw. Nid gosod yr egwyddor yn unig o flaen y Saint a wneir, ond gwneir y gofyniad, a dysgwylir i'r rhai a broffesant geisio yn gyntaf deyrnas Duw a'i gyfiawnder Ef i fyw yn unol a'r gyfraith hon.

Y mae rhestr o'r meddiannau a gyfranwyd i Gwmpeini y D. Y. Barhaus, gan y Llywydd Young ac ereill yn Utah, wedi ei hanfon i ni. Yr amcan yw i werthu y meddiannau hyn i'r cyfryw fro'yr yn y wlad hon a feddant arian idd eu prynu, ac yna i ddefnyddio yr arian i ymfudo y tlodion y flwyddyn ddyfodol, yn unol ag ysbryd a chyfarwyddiadau y Llywydd Young. Gellir rhestru peth o'r meddiannau hyn a wyddom am danynt gyda y goreuon yn Utah. Melin flawd fawr ar y Big Kanyon Creek, tua 6 milltir o'r Temple Block yn Ninas y Ll. H. Mawr, a dalodd am dani ei hunan mewn tair blynedd, meddir wrthym ni. Tŷ a lot wych mewn man cyfleus, yn wynebu Union Square, ac a gynnygir am 12,000 o ddoleri, sydd yn awr ar rent am 2,000 o ddoleri mewn arian bob blwyddyn, neu yn ol 16 *two thirds per cent* ar y gwerth cyfrifol. Ty gwyn y Llywydd Young, ac ysgubor, cerbyd-dŷ, ac adeiladau ereill perthynol iddo, a ystyrir gan lawer ei fod yn y man mwyaf cyfleus yn Nyffryn y Llyn Halen Mawr, gwelir ef o bob man yn y Ddinas braidd. Lle dymunol yw i'r neb a chwennych gartref cysurus a chyfleus yn barod iddo ar ei fynediad i'r mynyddau. Gellid meddwl y cytunai yr ammodau ar ba rai y cynnygir y meddiant o hwnw â meddwl y tŷnaf. Os gwerthir unrhyw ran o'r meddiannau hyn yno, cyn yr hysbysir y Llywydd Young am eu gwerthiad yma, ad-talir yr arian a dalwyd yma ar drosglwyddiad o'n *draft* yn Utah, neu fe roddir meddiannau yn lle hyny. Os na fydd y meddiannau a brynwyd yn taro y prynwr, gallant gael eu defnydd am fenthyg yr arian hyd oni eu had-delir. Mewn rhyw un o'r ffyrdd hyn hyderir y cydunir â'r prynwyr. Mewn ychwanegiad i'r meddianau a nodwyd, cynnygir amrywiaeth o dai, *city lots*, a thir ffarmio, ynghylch pa rai yr hysbyswn yr oll a wyddom i bersonau a deimlant i brynu. Yr amcan mawr yw, cael y moddion er cynnorthwyo i gael y Saint tlodion i fwynhau bendithion yr ymgasgliad. Gobeithiwn y cyfarfydda y teimlad hyny â chydymdeimlad gwresog yn nghalonau holl saint y Dyddiau Diweddaf trwy hyd a lled y wlad hon, ag ystyr a mwy o foddion nag sydd eisieu arnynt wrth eu law-

Hyderwn na adawa yr Arglwydd lonyddwch ysbryd iddynt hyd oni ddeuant i fyny i gynnorthwyo y tlodion yn Israel, ac drwy fendithio y rhai hyn, i fendithio eu hunain. Gofynir i'r cyfoethogion i ddefnyddio eu mhiloedd o bunnoedd i wneuthur daioni â hwynt yr un mor resymol ag i'r tlodion i ddefnyddio eu ceiniogau, ac ni allant fedi cyfuwch bendithion heb wneuthur felly.

Galwn yn awr ar y Bugeiliaid a'r Llywyddion yn yr amrywiol faesydd llafur i fyned o ddifrif ati, a chwilio allan yr holl frodyr a'r chwiorydd hyny a ymunasant â'r Eglwys yn foreu, dywedwn er ys deg neu o hyny byd ddeunaw mlynedd yn ol, ac a fuont yn ffyddlon yn achos y gwirionedd. Dymunem i hysbysiad am danynt gael ei anfon i'r Swyddfa hon, yn cynnwys y pethau canlynol—y nifer o flynyddau ag y maent wedi bod yn yr Eglwys, eu hoedran, gwlad eu genedigaeth, a pha swm y maent yn debyg o allu gael tuag at eu hymfudiad, fel, mor gynted ag y gallwn droi yn arian y meddiannau ag ydynt wrth ein llaw, y caffom yr iawn gyfarwyddyd o'n blaen i weithredu yn ei ol, a bod yn allnog i dorri allan y cyfryw fesurau a gyflawnant oreu fwriadau y Brif-Lywyddiaeth. Ymddibyna pa nifer a ellir ymfudo gan Gwmpeini y D. Y. Barhaus yn y tymmor dyfodol ar hyny o feddiannau a ellir eu cael fel hyn. *Nis gellir defnyddio arian y D. Y. Barhaus i gymmorthwyo neb ond y rhai ydynt yn myned trwyodd yn ddiaros i Utah, a than ofal gouchwylwyr y Cwmpeini.*

Y mae gan y byd o'n hamgylch lawer i'w ddywedyd ynghylch pleidgarwch yn eu gweithrediadau. Y maent yn gyffredin yn rhoddi eu gair da a'u dylanwad pleidiol o herwydd cyssylltiad a pharch personol, heb sylwi llawer ar egwyddorion cywir yn y mater, nac ar wir deilyngdod gwrthddrych eu cymmwynasgarwch. Nid dyma y cymwynasgarwch ag y gelwir am dano yn awr, eithr dymunem i'r Llywyddion i ddiwyd chwilio allan yn fwyaf neilltuol y rhai hyny ag ydynt gydag amynedd, ac efallai yn ddistaw wedi dyoddef pob peth er mwyn yr Efengyl. Tlodion yr Arglwydd yw y rhai y gelwir mor bendant arnom eu cynnorthwyo, a'r amser y gwasanaethpwyd, oedran, ac anddifadrwydd a ddylent fod y rhesymau mwyaf neilltuol ac amlwg er teilyngu cymmwynasgarwch a bendithion yr ymgasgliad.

LLYTHYR Y LLYWYDD YOUNG AT Y LLYWYDD F. D. RICHARDS.

(Allan o'r "Star.")

D. Ll. H. Mawr, Awst 31, 1855.

Hend. F. D. Richards,—Anwyl Frawd,—Ar yr 2il o'r mis hwn cyrhaeddodd eich llythyr dyddiedig Mehefin 1af, yn cynnwys cofnodau oddiwrthych at B. Young, ac enwau y rhai a fethasant ddyfod ar alwad y D. Y. Barhaus, ynghyd a'r achosion paham na ddaethant, ond wrth gwrs yn rhy ddiweddar i ni allu en hateb gyda y mail blaenorol; hefyd, llythyr oddiwrth y Brawd Luddington. Tiriodd efe, N. V. Jones, a Fatheringham yn San Francisco, ac mae yn debygol y cyrhaeddant yma yn yr hydref. . . . . .

Atebwyd eich llythyrau genyf yn gysson ac yn brydlon. Boddheir fi yn fawr yn ymddygiadau y Brawd Daniel Spencer, bydd ei bresennoldeb yn ddiau o fawr fend'th yn cynghori, ac yn cynnorthwyo yr Ymfudwyr i gael cychwyniad hwylus i groesi y plains, ynghyd ag i gysuro y rhai a arosant ar ol; ac hefyd, er cynnorthwyo ein brodyr ydynt yn Llywyddu yn St. Louis a'r cylchoedd.

Yr wyf yn ymwybodus y rhaid fod ei wynebpryd adnabyddus mor ddiddysgwyl drachefn yn eu plith, ar ol marchogaeth yr "Hen Fôr," a dyfod yn ddiangol o beryglon mordwyol yr afonydd mawrion wedi gwneyd i galonau y brodyr lawenhau.

Ni chawsom hysbysiadau pendant o'r plains er pan gychwynodd y gwersylloedd, etto deallwn fod amryw wedi cwympo drwy fflangell y byd hono, sef y Cholera, eithr yn fwyaf cyn cychwyn. Ni fu mor ddinystriol serch hyny ag yn y flwyddyn fynedol. Anfonasom amryw weddeuau llwythog o flawd i'w cyfarfod. Mae yn debyg yr hysbysir ni o barthed i'w hamgylchiadau gyda y mail dyledus diwedd y mis hwn, yr hwn a gyrhaedda yn gyffredin drwy drefniadau rhagorol y dirprwywyr a diriant yma yn mhen o ddau i ddeng niwrnod ar ol cychwyniad y llall, a'r hwn, o dan ddylanwad neillduol ysbryd cymmwynasol, sydd bur fawl i gychwyn yn foreu y dydd cyntaf, rhag ofn, mae'n debyg, y bydd i'r llall drwy rhyw anffawd ddigwydd cyrhaedd yma cyn iddo ef gychwyn. Ni

raid iddynt brysuro ymaith felly, canys nid oes ronyn o berygl, o herwydd dygwydda y camsyniadau bob amser o'r ochr arall.

Deallwch y bydd raid i'r oll a ddel gyda y mail felly aros ar law heb fodd i'w ateb am yn agos i fis. a'r pryd hyny weithiau gorfodir ni i ysgrifenu heb fod y llythyrau a atebir wrth law efallai i'n cyfarwyddo; rhaid i hyn ein hesgusodi rhag yr hyn a ymddengys weithiau fel yn esgeulusdod i ateb llythyrau.

Mae y Brawd P. P. Pratt yma yn awr, wedi cyrhaedd yn nghyd a gwersyll bychan ar y 18fed o'r mis hwn. Mae y Brawd Canon wedi argraffu y ddwy ran gyntaf o Lyfr Mormon yn yr Hawaiiaeg, a bwriada gyhoeddi Newyddiadur yn San Francisco.

wn yn y blaen fel arferol gyda'r adeiladau cyhoeddus, mwynheir heddwch, ffyniant, ynghyd a iechyd cyffredinol gan yr holl bobl. Edrycha y cnydau diweddar yn weddol dda, y rhai ydynt gan mwyaf, yd yr India, cloron, &c. Credwn y bydd digonedd o luniaeth i bawb os iawn ddefnyddir y cyfan.

Danfonwn i chwi ddesgrifiadau o lawer o feddiannau, y rhai ag y dymunir arnoch eu gwerthu os gallwch am y prisiau a osodir arnynt, a derbyn yr arian yma. Mae yr holl feddiannau wedi cael eu desgrifio yn gywir. Os gwerthwn yr unrhyw, neu gyfran o honynt i arall cyn y cyrhaedda yma y rhai a'u prynasant gyda chwi yna, rhoddir eu harian yn ol iddynt, neu unrhyw feddiannau ereill o gydwerth a ddewisant. Yr ydym yn foddlon i'r arian a dderbyniwch am danynt fyned i dalu traul mudiad y *Saint Tlodion* drwy y D. Y. Barhaus, neu os na ddewisa y rhai a feddant arian i brynu meddiannau yma, caffant gynnyg arall etto, sef yw, *rhoddwch use yr arian i ni am use y meddiannau.* Ystyriwn y fod yn ddichonadwy gwneuthur y fath drafodaeth, ac y byddai yn gyd-lesiol i'r pleidiau perthynol, heblaw dwyn arian i goffrau y D. Y. B.

Anfonwn hefyd gyda y *mail* hwn ychydig enwau ag yr anfonir am danynt gyda y D. Y. Barhaus.

Aiff y Dr. J. M. Bernhisel allan gyda y *mail* hwn, gan ddychwelyd yn Ddirprwywr drosom etto i'r Senedd. Dewiswyd y Brawd Asa Calkins o'r Swyddfa hon, mewn atebiad i'ch galwad chwi am ysgrifenydd, fel y gallo y brodyr Linforth a Jaques ddyfod i'r Dyffryn y tymmor dyfodol. Cychwyna yn mhen tua deng niwrnod gyda James S. Scoffield, James Lavender, ac

amryw ereill a benodwyd i fyned ar genadiaethau i'r Taleithiau Unol.

Dysgwyliwn chwi a'r Brawd Daniel Spencer adref yn y tymmor nesaf, a dymunaf yn neillduol ar fod fy mab Joseph A. yn dyfod gyda chwi. . . .

Gan ddymuno fy nghofio at yr holl Henuriaid, y rhai a feddant fy serchiadau gwresocaf, gan weddio ar fod heddwch Duw yn gorphwys arnoch chwi, ynghyd a'r holl fendithion anghenrheidiol arnoch.

Gorphwysaf fel arferol,

Eich Brawd yn y Cyfammod,

BRIGHAM YOUNG.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, TACHWEDD 24, 1855.

YR YMFUDIAD.—Cymhellwn ein holl ddarllenwyr i ddarllen llythyrau y Llywydd Young ar yr ymfudiad yn y rhifyn hwn, ynghyd â sylwadau y Llywydd Richards fwy nag unwaith, gan dystio mai po amlaf y darllenasom ni hwynt, melysaf o hyd y mêl a gynnwysant. Mae gweithredoedd y Llywyddiaeth ac ereill yn Seion yn anrhegu y D. Y. Barhaus ag hyd y nod eu tai, eu ffermydd, a'r meddiannau goreu a feddant, er casglu y tlodion ffyddlon i Seion, yn arddanghosiad eglur o'r mawr bris a roddant ar ffyddlondeb a rhinwedd, ac yn gymhelliadol i'r Saint i gadw cyfraith Duw po fwyaf, mai yn hyny y mae eu lleshâd a'u hymfudiad—eu gogoniant tragywyddol; ac megys y teimla y Llywydd Young gariad at, ac y gofala dros y ffyddlonaf pe y tylotaf, felly y teimla pob Llywyddion drwy yr Eglwys i'r graddau y meddant Ysbryd Duw. Llawenhewch ynte. Saint, hyd y nod mewn tylodi a gortarymderau, mae gofal drosoch—"Gofala Duw drosoch chwi," ac y mae yn gwneyd hyny; gweddiwch ar iddo roddi yn nghalonau y cyf

oethogion i brynu y meddiannau cyfeiriedig, fel eich hymfuder chwi i Seion â'r arian hyny.

Er nad yw haelioni canmoladwy ein hanwyl Lywydd Young yn y peth hwn yn unrhyw newydd i ni, canys gwelsom ddigon o hyny eisoes i'n boddhau o barthed i'w rinwedd, etto galwn sylw y byd, yn enwedig y Gol's a gyhoeddent, er ys ychydig yn ol, "fod B. Young, mewn amser newyn, yn gorfodi y Saint i adeiladu tŷ mawr iddo ef i gynnal ei liaws gwragedd," a'r ffaith wrth-gyferbyniol i hyny, sef, yw fod B. Young yn lle hyny yn anrhegu Saint tlodion Prydain â'r tŷ oddi uwch ben ei deulu ei hun, er eu cynnorthwyo i ymfudo! Pwy a allai ddangos mwy o gariad at ei frodyr, nac o hunan-ymwadiad nâ hyn? Tawed yr annuwiolion â'u clebar rhag eu cywilydd bellach hyd oni ragorant hwy ar hyn, ac ymegnied y Saint eu goreu i gynnorthwyo eu hunain.

Nid yw Ysbryd yr Arglwydd Dduw yn cynhyrfu yn y gwersyll yn Seion i hyd y nod achosi i'r Saint yno ymadael yn wir-foddol â'u mheddiannau fel hyn, ac i gymhell mor daer ar yr holl Saint drwy'r byd i wneyd pob ymdrech, ac achub pob ceiniog i'r dyben o'u casglu adref, heb fod achosion cyferbyniol mewn mawredd a phwysigrwydd yn cynhyrfu hyny, ac ni fydd y canlyniadau o esgeulusdod yn hir heb ymarllwys ar ben yr euog, nac yn ysgafn na gocheladwy pan y deuant. Frodyr! y rhai a feddwch olud, mae o bwys mawr i chwi yn awr, ystyried y defnydd a wnewch o hono; nid yw Duw yn galw ar y rhai sydd yn Seion i aberthu eu tai, &c., er casglu y Saint heb feddwl eu talu y "càn cymmaint" am hyny; etto, dengys odidawgrwydd ei haelioni drwy gymmeradwyo yr aberth a ddewiso dyn wneyd, boed fwy neu lai, a dengys ei gyfiawnder hefyd drwy ei ad-dalu, a'r llôg yn gyferbyniol i'r hyn a wna. Er y byddai yn gymmwynas fawr ag achos Duw, a'i blant, ac â Seion, i'r cyfoethogion yn y wlad hon brynu y tai, &c., a gynnygir ar werth gan y Llywydd Richards, ni allwn ddirnad y bydd cymmaint gwobr i'r cyfryw ag i'r aberthwyr o honynt. A phaham yr abertha y naill yno fwy, nac yn fwy ewyllysgar nac y gwna plant ereill yr un Duw, serch eu bod hwy yma, sydd gwestiwn a deilynga ei ddwys ystyried gan y rhai a feddant olud yma—os da y gwnant, iddynt eu hunain y gwnant y da mwyaf.

Dywenydd mawr iawn yw clywed y newyddion gobeithiol a'n cyrhaeddant o bob Cynnadledd braidd, ac yn neillduol drwy lythyr y Llywydd Daniels am Sir Gaer a Sir Aberteifi, sef yw y fod y naill yn gwerthu eu tai, ereill eu hen gelfi oesol, eu teganau, a'u hafreidiol bethau; fod y ffermwyr yn gwerthu eu hanifeiliaid, ac yn rhoddi i fyny eu ffermydd, a'r masnachydd yn dirwyn ei bellen hir i ben, yn lle darparu rhai newydd; fod yr hen glociau càn-mlwydd, y coffrau, a'r *pewters*. y *bureaus* a'r delwau, a'r ystafaldiau lle y llettyai y tylwyth teg gynt (ebent hwy), a'r pryfgopyn—oll yn cael goleu haul am unwaith, a dynion yn dod i brisio eu hachubiaeth eu hunain a'u heppil yn well nag i dreulio eu hoes i edrych ar, ac yn sewrio hen gelfi diwerth. Yn hyn mae doethineb—mae y bywyd yn fwy ei werth nâ'r bwyd, a'r corff nâ'r dillad, nâ'r celfi chwaith. Ofer dysgwyl i Dduw ddanfon angel i ymofyn y Sant ffyddlonaf tra y glyna ef neu hi wrth ei *chest of drawers* na'u palas, ni chariai efe y naill na'r llall dan ei adenydd, os adenydd hetyd, pe y deuai—gwell eu gwerthu a myned tua Seion tra parhao eu pris, *wed'yn, nid cynt* y denfyn Duw ei gymhorth. Helpia Efe y sawl a helpia ei hunan yn unig. Nid oes genym ronyn o obaith gweled byth yn Seion y sawl esgeulusa werthu eleni yr hyn a fedda, gan feddwl cael mwy pris y flwyddyn nesaf, gwelsom ormod o siomi yn y fath hudoliaeth i allu credu llawer o ddaioni am dano. "Yn awr," ynte, mae Duw yn galw, yn *awr* atebed pob ufydd blentyn iddo, mi ufyddhâf, i'w alwad.

Mewn atebiad i ofyniadau mynych, pa beth sydd oreu i wneyd â'r arian a feddir ar law hyd amser yr ymfudiad, dywedwn, wrth un ac oll,—anfonwch hwynt yma, nad faint fyddant, pe ond punt, pe yn gannoedd, goreu po fwyaf, ac anfonwn hwynt yn y blaen i'r Llywydd Richards i Liverpool, lle y byddant yn holloll ddiogel rhag i ladron eu lladrata, rhag i gnafiaid eich pluo o honynt. drwy addewidion teg o'u talu yn ol yn mhen ychydig ddyddiau gyda llôg anferth; rhag i na gwraig anhywaeth, mamgu, na pherthynas eich gwaedu o honynt, ac fel na ddygwydda y mil damweiniau gwybodus i ni a gyfarfu y Saint ymfudol, drwy roi gormod cred mewn rhai annheilwng, ac felly gofidio eu calonau hwy a ninnau wrth weled y fath golledion drwy ddiofalwch. Yr ydym wedi cael ein gorfodi braidd i gredu fod brenin Babel—y gwr drwg ei hunan, a'i holl

fyddin yn rhythu mor grafted ar blant Seion pan yn parotoi i'w gadael ag y rhythia barcytos eu gyddfau hirion nwchben haid o gwiion a ddilyna yr iar o'i nhyth, a llawn mor wancus hefyd, fel pe yn eiddigeddus fod y Saint yn vspeilio Babilon drwy gymmeryd yr eiddynt eu hunain o hono. Am hyny, gwylier rhagddynt mewn pryd, meddwn, a gofaler am gael dangoseg gywir am yr oll a delir iddynt cyn myned, rhag iddynt *etto*, fel llawer tro blaenorol, grafangu eich nwyfan ar lan y dwfr olaf, a gwneyd i chwi dalu wed'yn neu golli eich *passage*. Gwneir, drosodd a throsodd y gwneir hyn, a gwneir yn waeth etto os na wylir, fel y cynnydda drygioni ac anonestrwydd yr annuwiolion a adewir ar ol.

Dywedwn y bydd pob ceiniog a anfonir drwom ni, am y rhai y ceir dangoseg yn ol, yn barod at alwad eu perchenog pan y dewiso. Gall naill ai eu cael yn ol yn Liverpool cyn ymfudo; talu ei gludiad i cael dangoseg i fyned at y Llywydd Young. yr hwn a'u tala yn Seion fel y mynir, yn arian, yn dai, tiroedd neu adeilada iddo dy fel y myno, y lle y myno yn y ddinas, a'r amser y myno, a gwyddom y gwna hefyd yn llawer gwell, cynt a rhatach nag y gall un dyn ei wneyd ei hunan ag arian parod, a'r sawl a wnel hyny a gaiff ffafr Duw, Brigham, a'r Offeiriadaeth, heblaw bendithion y Saint tlodion a gynnorthwya efe i ymfudo drwy hyny, yn hytrach na chario yr arian yn ei logell cyn belled y gall, a'u colli wed'yn, efallai. Gall pob un a ddenyn ei arian fellv gael ei amser ei hun o hyn hyd yr ymfudiad i wneyd ei feddwl ei hun i fyny, pa fodd y dewisa efe eu defnyddio, yr un fath a phe buasent yn ei logell ei hun.

Mentrwn awgrymiad bach yn mhellach er diogelwch i'r rhai a deimlant mor haelionus ag i helpu ereill, sef na roddwch eich harian i neb felly, ac na addawwch i lawer, nac i neb yw ein cynghor ni, heb ymgynghori a'ch Llywyddion, ac yr ydym ni yn myned dipyn yn hen a phrofiadol yn y fusnes o gludo pobl tua Seion hefyd bellach. "Nid goreu dysg yr hon a brynir," meddwn ni, ac nid y rhataf, mae rhatach a gwell o lawer i gael yn awr ond ei hymofyn. "Mae awgrymiad i'r doeth" yn ddigon ar hyn. Gwyr pob gradd bellach y goreu er eu lles, os na chyrhaeddasom gyflwr pob ymofynydd, ymholer yn mhellach, a threiwn etto gyda phleser.

Clwyf yn mhlith Gwartheg.—Bu dros 4000 o wartheg farw yn swydd Trumbull, Ohio, yn ddiweddar, a thua 16,000 yn y swyddau cylchynol iddi o ddiffyg porthiant.

"Y Mor a'i donau yn rhuo."—Fyddai un o arwyddion y Dyddiau Diweddaf, ebe Crist. Cododd dyfroedd Llyn Ontario ar y 25ain o Ebrill yn ddisymwth fel mur, yn saith troedfedd i'r làn, a rhuthrodd dros ei lanau, gan ysgubo pob peth braidd o'i flaen, a phan ddychwelodd gadawodd beth afrifed o'i bysgod ar y làn. Codai a gostyngai Llyn Seneca rai troedfeddi mewn ychydig fynydau am ddeu-ddydd; unwaith dysgynodd un arbymtheg a hanner o fodfeddi mewn chwarter awr.

Yr America.—Parhâ nifer o ddihirod i ddifrodi tai, ydlanau, &c., a thân, a brathant anifeiliaid yr amaethwyr â chyllill, nes y cwympa eu hymysgaroedd allan, yn y Green Plains a'r cylchoedd, hyd neppell o Nauvoo, yn debyg fel y gwnelid ag eiddo y Saint cyn eu hymadawiad oddiyno. Pryd hyny tadogid y drygioni cyffelyb ar y Saint, eithr ni all fod ammheuaeth bellach ynghylch eu dieuogrwydd hwynt o hyny, ac mai eu cyhuddwyr yw y dihafaliaid. Mae berw a dwndwr nodedig yn Indiana, gan lu a wrthwynebant bob cyfraith; torrant i lawr y camlasau, llosgant y pontydd, a bygythiant y melinau a thai y rhai a'u gwrthwynebant. Fflangellasant amryw, a chynnygiasant wobr fawr am benglog Llywydd y Dalaeth. Yn fuan wed'yn achosodd gorlifiad y dyfroedd a ollyngasant dros y tiroedd isel i wyneb y maes gael ei orchuddio braidd gan bryfed; cynrhon, tebyg i'r rhai a fagant mewn celain, a orchuddiant y coed, a'r gwybed yn gymylau a dduent yr awyr, ac a fynant dynu llygaid pawb drwy'r lle, a glanhau y tyllau hefyd. Diau fod yr Unol Daleithiau wedi "hau y gwynt.' drwy gefnogi terfysgwyr i ladd y Saint, difrodi eu meddiannau, a'u halltudio, ac nid rhyfedd eu bod yn dechreu "medi o'r corwynt" hwnw ambell dywysen fel blaen-ffrwyth o'r cynheuaf mawr a amdöa eu gwlad. Yn Missouri hefyd; pregethwr Wesleyaidd o'r enw Bogart ac eraill oeddynt flaenoriaid y terfysgluoedd a erlidiasant y Saint o'u tai a adeiladasant ar y tiroedd a brynasant gan y llywodraeth; yn awr deallwn fod y terfysgluoedd yn ymlid pregethwyr y Wesleyaid i ffwrdd o'r

un wlad am eu bywydau; eu bod yn talu yn ol y geiniog gyntaf iddynt o'r "hen cnwech." Yn Kansas, cymmydogaeth gyfunol i'r hon a yspeiliodd terfysg-lu oddiar y Saint,—mae y Llywodraeth yn cael yn ol iddynt eu hunain yr un mesur a fesurasant i ereill, drwy fod y terfysgwyr a gefnogent hwy i droseddu cyfreithiau rhyddid wedi ymgryfhau digon erbyn hyn i wrthsefyll y Senedd, ac wedi gwrthod, ac wedi alltudio y Llywydd a anfonasent atynt; wedi myned i'r Diriogaeth newydd, a mynu eu dewisiad eu hunain, a sefydlu yno Senedd a chyfreithiau caethwasaidd er gwaethaf pawb. Tra mae y rhydd-blaid hwythau yn hôni yr un hawl i wystlo eu heiddo a'u bywydau er cael Kansas yn Dalaeth rydd i'r Undeb, ac nid yn unig drwy fygythiadau, ond parotoadau, megys adeiladu gwest-dai mawrion ac uchel, a llefydd pwrpasol i saethu cyflegrau o honynt. Tra mae yr elfen ryfelawg yn cyneu yn gyflym yn ngwythienau y trigolion yn ddarpariadol i'r goelcerth rag-bropwydoliaethol, nid yw y Dwymen felyn ac heintiau ereill yn ol o wneuthur eu rhan, neu o leiaf o ddangos eu bod wrth law, yn barod i'r ymgyrch agosâol drwy gipio ymaith eu miloedd mewn byr amser, ac y maent yn agos a gwaghau rhai dinasoedd poblog gynt.

Y ceiliogod y rhedyn hwythau, er mor fychain, ydynt ar y maes, ac mor liosog, nid yn Utah yn unig, craffer, ond trwy Gallifornia ac Oregon diîâsant bob peth braidd o'u blaen; a dywedir "fod y locustiaid mor amled yn Mississippi ag yn yr Aifft pan dywalltid barnau Duw arni," ac felly mewn Taleithiau ereill, meddir. Dengys y newyn yntau ei ddanedd duon yn Canada, ac ysgyrnyga ar ardaloedd yn y Taleithiau.

Ar eu cyffiniau gorllewinol ymffrostia yr Indiaid eu bod yn barod i dderbyn byddinoedd y Taleithiau,—herriant hwynt allan; ac mae y cleddyf wedi ei dynu o'i wain bob ochr. Ymosododd y Cadfridog Harney ar wersyll o'r Brules islaw i Fort Laramie, ac wedi lladd o 70 i 80, a chymmeryd eu *squaws* a'u *papooses* yn garcharorion, ffôdd y lleill ymaith. Amlwg i ni yw fod y Taleithiau yn cynhyrfu tarw a fedd gyrn cedyrn i wneuthur ei ran yn nydd y frwydr, fel, drwy'r oll, y gwelwn fwriadau yr Anweledig yn nghrynhoad ei "fyddin fawr" olaf; golygfa a ddychrynodd yr hen brophwyd Joel er mor belled, ac fel yr eheda colomenod yw ffenestri o flaen y 'storom ymbrys-

ured plant y goleuni tua' thref—yr unig ddiogel-fan. Ni ddysgwyliwn ni weled amser ag y bydd yn hawddach nyned i Seion nag yw yn awr; er y daw amser cyn hir pan y bydd yn hawddach gan lawer *ewyllysio* gadael Babilon nag yw yn awr; eithr y doeth a wel y drwg o hirbell a'r ffordd i'w ochelyd.

TORRIAD YR UNDEB AMERICANAIDD.

(Allan o'r "Squatter Sovereign" America.)

Darogan iad arwyddion yr amserau yw, mai, oddieithr y gosodir attalfa yn ddioed gan bobl sobr synwyrol y Gogledu, ar ysbryd anffrwynadwy penboethni sydd yn awr yn codi yn derfysg, caiff adeilad godidog rhyddid gwladol, yr hwn a gyfodwyd gan waed goreu, y dynion goreu a ddangosodd y byd erioed, ei chwilfriwio yn ddarnau, ei ddiaelodi a'i ddinystrio.

Darparir eisoes gyferbyn â'r orfodiaeth erchyll o ryfela—yn hytrach na darostyngiad gwasanaethyddol, mae yr hen Virginia, mam doethion a gwroniaid y chwyldroad, ac eiddo y Ffurf-lywodraeth, wedi dechreu ymarfogi gyferbyn â'r frwydr ddyfodol. ac adseinia hyd y nod y Dalaeth Amherodraethol y tônau rhybuddiol drwy ei chyhoeddiad penaf, a galluocaf,—y *National Democrat.* Onid oes gwladgarwch yngweddill yn y wlad a roddodd enedigaeth i Warren, i Stark, i Hamilton, a chanoedd ereill, gwaed pa rai, gan ymgymmysgu ag eiddo Washington, Morgan, Marion, ac ereill, a roddasant i'r byd y baban gwerin-lywodraethol, sydd oddiar hyny wedi cynnyddu i fod y genedl fwyaf ar y ddaear? Onid oes ynddi wladgarwch yngweddill i lethu yr anghenfil tanllyd hwn? Neu a raid i'r fath ddynion â Fred Douglas, Gerrison, a Giddings ddinystrio y deml waed-brynedig hon o ryddid?

Cyfaddefwn yr ofnwn nad oes, ac mai mewn ychydig flynyddau y byddwn yn esiampl arall o anallnogrwydd dyn i'w lywodraethu ei hun: un esiampl arall o'r drygau a'r ffolinebau a gyflawnir dan yr enw o ryddid.

MOLAWD I WIRFODDOLIAID MON AC ARFON.

Boed llwydd i'r gwirfoddoliaid
Drwy bob rhyw fan a lle,
Rhai aethant maes yn ffyddlon
Yn filwyr dros y ne';
Anturio draws y siroedd
I Wynedd wnaethant hwy;
Mae chwech o honynt yma,—
Cewch glywed genyf pwy.

Yn gyntaf mi gaf enwi,
Ein llywydd dros y lle,
Sef *William Lewis* ydyw,
'Rhwn sydd yn ddewr heb blè;
Ac hefyd y mae etto
Ychwaneg wrth eu gwaith,
Sef Daniel Lewis ddiwyd,
Sy'n fynych ar ei daith.

Mae William Vaughn a Rosser,
Elias Lewis lwys,
Ac Evan Morgans hefyd,—
Yn traethu gyda phwys;
Y maent hwy yn rai dewrion,
A ffyddlon heb nacâd,
I daenu'r egwyddorion
Drwy'r *llyfrau* dros y wlad.

Am hyny frodyr ffyddlon,
Sy'n aros yn y Dê,
Cymmerwch genyf gynghor—
Y ffordd i fyn'd tua thre':
Dewch fyny drwy Lanidloes,
A Llanfair 'creinion crwys,
Ac i Sir Fôn,—O coeliwch,—
Bydd Seion wlad ar bwys.

Yn awr mi wnaf derfynu,
Mewn gobaith daw cyn hir,
Ryw lu o filwyr gwrol
O'r dê i'r gogledd dir;

Gan adael gwag bleserau,
A dyfod at waith Duw,
Fel caffom fyn'd i Seion,—
Gwaredfan ini yw.

Conwy. ELEANOR ROBERTS.

Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg o Tach. 8fed hyd 23ain.—(Yr Addewidion Cyntaf.)

	£	s.	d.		£	s.	d.
Isaac Evans, Cwmafon	0	9	0	George Morgans etto	0	7	0
Margaret Thomas, Alltwen	0	2	6	Mary Lloyd, Abercenffig ..	0	2	6
Thomas Lewis, Cyfyng	0	5	0		£1	6	6

Yr ail Addewidion.

Llywydd Dan Jones	1	0	0	Wm Perkins, Trfeorris....	0	5	0
Wm. Owens, Aberlawy	0	10	0	Jane Perkins, ei wraig	0	5	0
William Roberts, Ystrad ..	0	5	0	Thomas Perkins. Treforris	0	5	0
David John, Glandwr	0	2	0	Thomas Griffiths, etto	0	1	0
Thomas Evans, Cyfyng....	0	2	0		£2	15	0

D.S. Dymuna y Llywydd Harries yn *daer* arnom oedi am y rhifyn hwn etto i gyhoeddi enwau y rhai na thalasant eu haddunedau cyntaf, o herwydd iddynt addaw wrtho y talant *forthwith*; ar ei gais, wele iddynt un cynnyg etto ynte, a'r olaf debygir a ofynir. Ymswyner rhag bod yn dorrwyr ammod pump-plyg fel hwn. Dymuna hefyd ar Lywyddion y Cangenau i fyned at y brodyr a'r chwiorydd i dderbyn eu haddewidion erbyn y daw efe oddiamgylch yr wythnos ganlynol.

CYMMANFAOEDD Y GOGLEUD.—Sir Fflint ar y 25ain o Dachwedd, Sir Ddinbych ar yr 2il o Ragfyr, Môn a Conwy ar y 9fed, Sir Feirionydd ar yr 16eg.

DERBYNIADAU AM LYFRAU O TACH. 10 HYD 21.—George W. Davies. £7; Evan S. Morgan, £2; Benj. Jones, £3; Wm Lewis, £1 18s; John Richards, 16s 5; Thomas D. Evans, £1

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	TUD
Yr Ymfudiad	369
Llythyr y Llywydd Young at y Llywydd F. D. Richards	374
Goiygyddiaeth.—Yr Ymfudiad—Clwyf yn mhlith y Cwarthog—Y Môr a'i Donau yn Rhuo—Terfysgwyr	376
Torriad yr Undeb Americanaidd	382
Molawd i Wirfoddoliaid Môn ac Arfon	383

ABERTAWY:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 25.] RHAGFYR 8, 1855. [Cyf. VIII.

Y DRYSORFA YMFUDOL BARHAUS.

(O'r "Star.")

Fe sefydliwyd y Drysorfa hon gyntaf yn 1849. Yn 1850 defnyddiwyd y trysorfeydd i gasglu y gwasgaredigion o Nauvoo ag oeddynt gan amlaf yn Swydd Pottowatomie, Iowa. Yn 1852 bu yn foddion i ymfudo 250 o bersonau o'r ynysoedd yma, yr hyn nifer a gynnyddwyd yn flynyddol hyd 1855, pan yr oedd y nifer yn ymfudo yn 1127.

Ymgasgliad Israel ynghyd yw gwaith mawr darpariadol y dyddiau diweddaf. Hebddo nis gellir cael nemawr gynnydd ar y profiad a'r gweithredoedd ymarferol ag ydynt anghenrheidiol er cael iachawdwriaeth drwyadl. Er cyrhaedd yr amcan mawr hwn fe ddadguddiodd yr Arglwydd gynllun i'w was Brigham, yr hwn gynllun a fabwysiadwyd, a gelwir y goruchwylwyr yn Gwmpeini y Drysorfa Ymfudol Barhaus, o dan gyfarwyddyd uniongyrchol pa rai y dygir y cynllun hwn yn mlaen, yn eu sefyllfa ymunol.

Ffurfiad y Cwmpeini drwy ddadguddiad, a'i fod dan gyfarwyddyd uniongyrchol y Brif-Lywyddiaeth sy beth ag y geill y Saint edrych arno gyda yr ymddiried mwyaf ymddibynol fel sefydliad parhaus, yr hwn a barha i gynnyddu gyda y deyrnas hon, i gynnyddu yn ei drysorfeydd ac helaethrwydd ei weithrediadau flwyddyn ar ol blwyddyn, hyd oni chyrhaedda ei gangenau i bob ardal a chenedl lle bynag y lledaena yr

Efengyl, gan deimlo am dlodion Israel, a'u casglu adref i gryfhau Seion.

Sefydliad fel hwn, mor gyffredinol o ran ei gymmeriad, helaeth ei weithrediadau, a chyrhaeddadwy ei amcan, sydd yn ymddangos yn llesg yn ei symudiadau i'r rhai ydynt yn aros yn bryderns idd eu tro lwythau ddyfod i neidio ar yr olwyn fawr, a chael eu dwyn adref gan un o'i throadau. Nis gall Cwmpeini y Drysorfa Y. Barhaus estyn cynnorthwyadau ond yn ol y moddion a fydd wrth law, ac y mae y moddion hyny yn union yr un faint ag a gyfrana y Saint. Dengys yr Arglwydd yn hwn, fel yn mhob gwaith arall perthynol i iachawdwriaeth, pa beth sydd i'w bobl wneuthur, drwy ei weision, y mae ganddynt hwy wneuthur yr aberthiadau a chyflawni y gwaith os ydynt am ennill y bendithion ystôredig iddynt. Gwna hyn bob Sant y Dyddiau Diweddaf yn bersonol yn atebol am gynnyddiant y sefydliad yma, a gwna ef befyd, i raddau mwy neu lai, yn oruchwyliwr iachawdwriaeth ei hun. Oddiwrth yr ysbryd cyffredinol o ymgasglu sydd yn gorphwys ar y bobl, a'r ymdrechiadau canlynol a wneir i ymfudo, credwn nad oes ond rhan fechan o'r Saint yn Mhrydain yn awr a feddant ddigon o fodd i groesi y môr. O ganlyniad, llwyddiant eu hymdrechiadau personol dyfodol, a chynnorthwy y D. Y. Barhaus, ydynt yn awr yr unig seiliau gobeithiol i'r cruglwyth anferthol o Saint sydd yn y wlad hon. Tra na ddymunem ddigaloni yr ymdrechiadau personol mwyaf egnïol, fel y byddo y Saint yn offerynau uniongyrchol i ymfudo eu hunain a'u teuluoedd, ni ddylent wneuthur llwyddiant y cynllun mawr, a fabwysiadwyd er cyflawni daioni cyffredinol pawb, yn ail ystyriaeth. Y mae yn debyg y fod tua 28,000 o Saint yn yr ynys hon. Caniatäwn y fod 1800 gogyfer â'r rhai ydynt hollol amddifad, neu o'r braidd yn cynnal eu hunain. Bwriwch y gwnelai y 5,000 arall, ar gyfartalwch, gan y byddai rhai yn gwneuthur mwy nag ereill yn ol a feddent, yn cyfranu chwe' cheiniog yr wythnos i'r Drysorfa Y. Barhaus; cyrhaeddai mewn blwyddyn i £19,500, ac yn ol £15 y person, ymfudai i Utah 1300 o bersonau. Pe y rhenid hyn rhwng rhai a ddiwallent hanner y modd eu hunain, ymfudai 2600. Yn awr, ychwanegweh at y swm uchod y symiau a gyfranir yn Utah, ac mewn rhanau ereill o'r byd, y symiau defnyddiadwy yn nwylaw y Cwmpeini, a defnyddiad y tryso

feydd hyn yn ol y cyffelyb gynlluniau i'r rhai a fabwysiadwyd y flwyddyn hon a blynyddau blaenorol, ac o Frydain yn unig yn lle 1127 byddai yr ymfudiad drwy y Cwmpeini yn 3000 o rifedi. Pe yr ymddeffröai holl Israel at bwysigrwydd y pwnc hwn, a gafaelyd ynddo gyda chalondid hollol a thrwyadl, nid elai ond ychydig o flynyddau heibio cyn y casglai degau o filoedd adref i Seion yn flynyddol trwy offeryn addeb y Cwmpeini hwn. Ni fyddai mwyach yn etholiad o un o'r fan yma ac un arall o'r fan draw, eithr fe draws-blanid Cangenau, Cynnadleddau, a Chyfundebau cyfain i dir mwy cydrywiol eu hetifeddiaeth. Rhaid yw i'r amser ddyfod pan na fydd mwyach yn lestr unigol ar achlysur yn aredig ei ffordd yn groes i'r dyfnder, yn llwythedig â 300 neu 400 o Saint, ond fe ddygir llyngesau cyfain yn ofynedig er casglu Israel "megys colomenod i'w ffenestri" cyn y bydd i'r ystormydd ag ydynt yn casglu ysgubo dros y ddaear. Gwir yw y fod llawer wedi cael ei wneuthur pan ystyrir y dechreuad bychan a newydd, a'r golygiadau cul a lochesid yn gyffredinol gan y Saint o'r canlyniadau mawrion a chyrhaeddiadol ag y bwriada Cwmpeini y D. Y. Barhaus eu dwyn oddiamgylch.

Y mae yr ymfudiad o'r wlad hon i Utah yn awr yn parhau am 1855. Y cyfraniadau at y D. Y. Barhaus o'r Cynnadleddau am y flwyddyn 1854 ydynt yn cyrhaedd tua £1200. Cyfartaliad hyn rhwng 15000 sydd yn fyr o gyrhaedd y drydedd wythfed ran o geiniog yr wythnos. Mae yn ddiammheu genym y fod rhai Saint yn cymmeryd rhan fywiog yn y trysorfeydd hyn, ond anaml, anaml iawn y rhaid fod y nifer hyny pan eu cymharir â'r oll, a'r fath ychydig y rhaid fod y rhai ydynt yn ymarferiadol yn gweithio allan eu hiachawdwriaeth yn y peth hwn. Ni fydd i'r rhai a weithredant gyda haelioni dirwgnachol a santeiddiedig golli eu gwobr, ond pa mor bwyllog y symuda yr olwyn fawr i fel y gwnelai pe yr estynai pob un, a arddelant ran yn y gwaith, law ewyllysgar i roddi cyflymdra a nerth iddi. Agos yw yr amser yn awr pan y bydd i filoedd nad ydynt yn awr ond yn breuddwydio pa beth a ddylent wneuthur ymddeffroi at y sylwedd ei hun, ac i ddechreu cael allan y gallant mewn gwirionedd wneuthur rhywbeth tuag at chwyddo y D. Y. Barhaus, fel y bydd i'w gweithrediadau yn flynyddol afaelyd mewn miloedd, lle na afaela yn awr ond mewn cannoedd, ac fe eill y

ffyddloniaid ag ydynt, ac a allant ddyfod i mewn i'r Eglwys, ac a fyddant amddifaid, fwynhau y gobaith dymunol na oedir eu gwaredigaeth yn hir.

Credwn nad yw yn gyfrifiad gwastraffus y byddai i hanner y swm a delir allan yn flynyddol gan y Saint drostynt eu hunain a'u teuluoedd, am gwrw, tybaco, tê, coffi, &c., gyrhaedd i £10,000.

Ni chymmerwn mewn llaw yma y cyfaddasrwydd o i bob un gadw y Gair o Ddoethineb, eithr tra y geill llaweroedd gydag ychydig neu ddim anhawsder wneuthur yn hollol heb y pethau hyn, geill y rhai ydynt wedi ymgadarnhau yn yr ymarferiad o'n defnyddio wneuthur hyny yn fwy cymhedrol nag y maent ac fe brofai pob un ganlyniadau daionus iawn. Nid yr unig bethau yw y rhai hyn yn mha rai y gallasid achub swm fawr, yr hon sydd yn waeth nâ phe eu teflid ymaith. Gwarir miloedd o bunnau mewn ceiniogau, chwe-cheiniogau, a sylltau, a ellid eu cymhwyso at y D. Y. Barhaus, heb leihau y mwynhâd o ddim ag sydd yn wir lesiol.

Y mae gan y Saint i fyfyrio ar gynnildeb; egwyddor bwysig yw sydd yn perthyn yn uniongyrchol i "Formoniaeth," ac ni wyddom am amcan gwell na mwy mawreddog a gyrhaeddir trwyddo nag ymgasglu i Seion.

Yno y gallant barhau i fyfyrio y gelfyddyd o gynnildeb, hyd oni chyrhaeddont wybodaeth o'i huwch egwyddorion, a dysgu y dulliau cyfaddasaf a defnyddiolaf o wneuthur yr elfenau a'u hamgylchynant yn ddarostyngedig i'w tyfiant a'u cynnydd yn ffordd bywyd ac iachawdwriaeth, a sefydlu teyrnas o'u heiddo eu hunain mewn cyfiawnder.

GWLAD ISRAEL AC ADDEWID ISRAEL.

(O'r Jewish Chronicle.)

Adferiad y cynnar a'r diweddar wlaw a sonir am dano yn Deut. xi, 10—17. *Jer.* v, 24. *Hosea* iii, 3. *Joel* ii, 23. *Iago* v, 7.

Y MAE yn awr, ac y mae yn ammheus genyf pa un ai nad oedd erioed, oddiar dyddiau caethgludiad y wlad, wahaniaeth amlwg yn ngwlad Judea. Y mae yn wir y fod natur wedi achosi peth o hono, ond nid yr oll. Paham na tharddai ffynnonau o

ac y ffrydiai'r aberoedd rhwng bryniau Judea mor rhwydd ag ô fryniau Ephraim a Samaria? Mewn llun a sylwedd y maent yr un; ac hefyd yr hyn sydd fwy o'u plaid yn hyn yw, eu bod yn fwy ac yn amlach. Eithr nid ydynt. Dwfr yw eu hanghen mwyaf. Mae yno eisieu mwy o ddwfrhad celfyddydol nag sydd yn mhellach i'r gogledd. Y sychder a'r gwres hyn yn y tir sydd yn gwneuthur y rhan yma o'r wlad gymmaint yn gymhwysach i winwydd a choed ffigys nag yw yn mhellach i'r gogledd. Tŷf y rhai hyn yn well mewn tir poethlyd a sych.

Fel rheol gyffredinol, gallwn ddywedyd, gwlad Judea am ffrwyth, y gwastadedd am laſuriau a gwyrdd-lysieu, a bryniau rhan ogleddol Canaan, Gilead, a Basan am fugeilio. Fel pob rheolau ereill o'r fath yma, y mae gan hon lawer o eithriadau. Y mae gan bob gwlad o'r un gradd â hon ei thymmorau sych a gwlawiog. Nid oes achos i ni yma egluro yr achosion o'r tymmorau hyn. Ond y mae yn beth a ddeallir yn eithaf, beth bynag yn awr.

Dechreua y tymmor gwlawiog tua y cyntaf o Dachwedd, a pharhâ hyd Ebrill. Yn ystod yr hanner cyntaf o'r amser gwlawia yn aml ac yn drwm yn agos bob dydd, yn gyffredin yn y prydnawn. Cyn gynted ag y dechreua y gwlawogydd, ac y meddalheir digon ar y ddaear galed a chrâs fel ag i'w ganiatâu, dechreuir aredig, a hauir hâd, fel a y geilw yr amgylchiad, yn ystod yr holl dymmor gwlyb. Pan dderfydd y gwlawogydd, derfydd yr hau yn hollol; ac yn ystod yr amser o Ebrill hyd Tachwedd, y mae ganddynt un wybren anghymylog. Yna fe wywa pob gwyrdd lysieuyn nas gall wrthsefyll y sychder yma, ac erys ei wreiddiau, fel y gwna gwreiddiau ein planhigion ni yn y gauaf, hyd oni ddechreua y gwlaw drachefn, yr hyn sydd yn amser gwanwyn iddynt hwy. Yn awr, pan y mae pethau yn bod felly, rhaid ei fod yn ddigon amlwg i undyn, mai po hiraf neu ddiweddaraf y parha y gwlawogydd, po fwyaf a pherffeithiaf y bydd cynnyrch y tir; a pho fŷraf amser y gwlaw, po gynnaraf y sych y cyfan i fyny, ac y torrir y cnŵd yn fŷr.

Bygythiwyd yr Israeliaid yn aml gan Moses a'r Prophwydi, mai pan yr anufyddhaent yr attelid y gwlawogydd. Pe yr attelid hwy, rhaid eu bod, wrth gwrs, yn peidio a pharhau cyhyd. Yn awr, y gwlawogydd a ddaethant niwedd y tymor gwlawiog, ac yn enwedig y rhai a ddaethent ar ol yr am-

ser arferol iddynt beidio, a alwyd yn ddiweddar wlaw. Ychwanegai y cawodydd achlysurol hyn, os parhaent drwy amser addfedu y ffrwythau a'r llafuriau, lawer at eu digonedd a'u perffeithrwydd. Caffai eu hattaliad yr effaith wrthgyferyniol. Y mae attaliad y diweddar wlaw, a'r addewid o'i ddychweliad, yn bethau y llefarir yn aml am danynt yn yr ysgrythyr. Mae y diweddar wlaw yma wedi cael ei attal am ganrif ar ol canrif, hyd oni ddygwyd y wlad i'r sefyllfa y cawn hi yn awr; ac ni all fod nemawr ammheuaeth nad dychweliad y gwlawogydd hyn etto a fyddant y moddion a ddefnyddia Duw, i adferyd y wlad idd ei ffrwythlondeb cyntefig. Pe na feddem ysgrythyr i'n cefnogi yn y meddwl yma, byddem yn ddigon sicr o hono, oddiwrth y ffaith anianyddol sydd ddigon gwybodus, y fod pob tir yn gofyn rhyw faint o wlaw i gario yn mlaen y dadansoddiad o sylwedd mŵnol mewn cyflawnder digonol er diwalliad blynyddol y cnydau. Y mae hyn yn anghenrheidiol neillduol yn y fath ffurfiad daearfeidrol ag sydd i wlad Palestina. Felly y gwelwn nad oes un rhwystr gorfodol ar y ffordd, canys y mae gan Dduw y moddion wrth ei law, pa bryd bynag y daw yr amser iddo ef ei wneuthur.

Am y cyfnod yma gallwn oll ddefnyddio un o'r dywediadau sydd mewn gweddi Iuddewig,—'Hwylused yr Arglwydd hyn hyd y nod yn ein dydd ni.' Ac y mae un ffaith, yr hon a nodaf ag sydd yn ymddangos fel pe yr atebid y weddi yma, 'hyd y nod yn ein dydd ni;' canys oddiar y dechreuwyd gwneuthur yr ymdrechiadau a wneir yn awr tuag at sefydliad yr Iuddewon yn Palestina, syrthiodd y gwlawogydd yn fwy nag y gwnaethant am lawer oes flaenorol. Ni ofynir un gofyniad yn amlach ynghylch y wlad yma, nâ 'Pa beth a wneir i'w hadferyd rhag ei hanffrwythlondeb?' Nid wyf yn deall y gellir rhoddi gwell atebiad nâ hyn—Gwrteithiwch hi, ac ymddiriedwch yn Nuw Abraham, Isaac, a Jacob, am y 'cynnar a'r diweddar wlaw.'

'O fewn deng mlynedd, y mae y diweddar wlaw yma, fel ffaith wirioneddol, wedi ymddangos etto. Y mae y blaid a aeth o'r America ymwneyd â thrafodaeth amaethyddol yn Mhalestina yn deall drwy y trigolion eu bod wedi cael cawodydd yn ddiweddar yn Ebrill, ar ol terfyn y tymmor gwlawiog arferol, yr hon ryfeddod ni welwyd erioed gan eu cyn-deidiau am

genedlaethau yn ol. Cyd-dystia y blaid yma yr un ffaith hefyd. Wedi bod yno am ddau neu dri thymmor, y maent wedi gweled syrthiad cawodydd breision yn Ebrill a Mai."—*Golygydd y "Deseret News."*

DESERET.

A GYFIEITHWYD GAN MR. WM. GRIFFITHS, PONTARDAWE, ALLAN O'R "MORMON."

Chwi Seintian tuag yma edrychwch yn awr,
I wlad y gorllewin,—mynyddoedd sydd fawr,
Lle gwelir dyffrynoedd mewn gwisg werddaf îr,
A'r awyr mor bured, a'r wybren yn glir;
Eich aros chwi yma a'u gwên ar eu gwedd,
Mae rhyddid ac iechyd, digonedd a hedd.

A gwelwch ein baniar yn lledu o hyd,
Tra syrthia yn chwilfriw deyrnasoedd y byd;
A phob amherodraeth ddarfyddant yn llwyr,
Ond arwydd ein rhyddid a bery 'n ddi-ŵyr;
Cyhoedda i'r lliaws mai dedwydd a rhydd,
Yw meib y mynyddau,—byth felly a fydd.

Maent hwy heb ymarfer â bywyd difudd.
A rhodiant fynyddoedd dan eira yn nghudd;
A hwy yn feddiannol ar iechyd a gwaith,—
Y neb a'u hymlidia gaiff siom ar ei daith:
Fe wel er ei ofid mai dewr galon hy',
A gododd y faniar o ryddid i chwi.

Dewch 'nawr o bob cenedl b'le bynag yr y'ch,
Rhai doeth a rhinweddol, daionus a gwych,
Can's yma arosa gwir ryddid,—a'i lais
Yn felys adleisia o'r bryniau heb drais;
Y llais per a wnaethai ei dewrion yn llon,
I ymladd wrth ochr y dewr Washington.

Yr ysbryd gynhyrfa y dewr yn y gâd,
I ymladd dros gartref, ei ryddid, a'i wlad,
Ein heiddo fydd heddwch a rhyddid ynghyd,
Tra 'n dilyn ein gwaith rhwng y bryniau o hyd;

Diwydrwydd a'n tywys i gyfoeth a hedd,
Ac undeb ac iechyd tu yma i'r bedd.

Pan fydd y bendithion odd'wrth ereill yn mhell,
Pan fydd ein gormeswyr yn y dywyll ddu gell,
Ein baniar fydd etto yn uchel i'r làn,
Ac yma bydd cartref y dewr,—a'i hoff fan;
A Seion mewn rhinwedd gynnydda 'run wedd,
Adnebir hi 'n mhob man—"Y deyrnas o hedd."

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, RHAGFYR 8, 1855.

NEWYDDION DA I YMFUDWYR!—Yr Ymfudiad, ymfudo, ac ymfudwch, yw gorchymyn mawr yr Arglwydd a'i weision i'r Saint gwasgaredig drwy y byd yn y dyddiau hyn; adref, *adref* yw eu galwad uchaf ac amlaf yn Seion, ac oddiyno drwy ei holl gyssylltiadau; prif waith pob Llywydd a fedd ysbryd Seion yw gosod Saint ei ofal ar y ffordd oreu i ymfudo, ac nid oes sôn a siarad am ddim yn mhlith y Saint gymmaint ag sydd am dalu eu dyledion o bob natur i bawb, yn enwedig i Eglwys Dduw, yn barotoadol i ymfudo. Mae ysbryd yr ymfudiad wedi llanw y Saint â'r fath awydd, nes mai y miwsig a lanwa ein clustiau yn mhob lle yr awn ydyw,—"A gaf fi ymfudo y tro nesaf?" "O, cofiwch am danaf fi beth bynag, yr wyf wedi bod yn yr Eglwys er ys saith, wyth, deg neu ychydig o flynyddau, ac wedi gwneyd fy ngoreu, ac oni chaf fyned eleni torra llinynau fy nghalon." Mae taerineb tlodion ein Duw yn nghwyneb eu gormesiant a'u hawydd, ac wrth gofio y breintiau mawrion sydd yn eu haros yn Seion, bron a syfrdanu ein clustiau, ac wedi bod er ys amser maith yn tynu ocheneidiau o'n calon ar ein Tad galluog i ateb eu cri, a hyny yn awr; ac mae yn llawenydd cyferbyniol genym allu hysbysu fod y nefoedd yn ateb eu hymbil

iau taerion, ac fod dydd eu gwaredigaeth wedi gwawrio; fod Ysbryd y cariad yn meddalhau calonau eu brodyr galluocach yn ganmoladwy; fod eu Llywydd tadol yn Seion ei hun eisoes wedi anrhegu y D. Y. Barhaus â deuddeg mil o bunnau, yn daïe, ei dy ei hun, ffermydd, tiroedd, melinau, &c. i'r dyben pwrpasol o ymfudo y ffyddloniaid, ac mae y ffyddlonaf, addfwynaf a'r duwiolaf yn cael eu dethol yn awr i'r graddau ag y gwerthir yr eiddo hwn yn y wlad yma. ac fe barheir i ddethol mor gyflym ag y gwerthir ac y ceir arian i law i'r perwyl hyny. Dyrchefwch eich penau, a llawenhewch chwi ffyddloniaid, mae amser ymwared cannoedd os nad miloedd o honoch wrth y drws; ymysgydwch allan o bob anobaith a difaterwch, ac ymbarotowch a allwch.

Tra ar y mater dyddorol hwn, dymunwn ar yr holl Lywyddion drwy'r Dywysogaeth chwilio allan, ac anfon i ni enwau, oedran, galwedigaeth, a chymmwysderau y personau hyny a'u teuluoedd, a fuont ffyddlon yn yr eglwys er yo chwech ac uchod o flynyddau i ddechreu, pa sawl blwyddyn er pan y maent yn yr eglwys, a'r geiniog uchaf a allant hwy eu hunain gynnorthwyo eu hymfudiad—dysgwyliwn hyn y cyfle cyntaf! Ac wrth ymddiried y gorchwyl pwysig hwn i'r Brodyr, hyderwn yr ymlidia Ysbryd y Duw didderbyn-wyneb bob pleidgarwch ac anghywirdeb dyben yn mhell o'n llygaid; na fydd i ffafriaeth brynedig, dylanwad perthynasol, na dim arall i beri iddynt basio heibio drws bwthyn neb teilyngach i ysgrifenu enwau rhai llai teilwng, eithr y bydd eu llygaid yn sengl at Ysbryd ac amcan Duw drwy'r Llywyddiaeth yn Seion, Lerpwl, ac oddiyno atynt eu hunain.

Heblaw yr anrhegiad o £12,000 mae gofal doionus y Llywydd Young dros y Saint yn amlwg yn ei waith yn dylanwadu ar bawb yn Seion i gyfranu at y gwaith da o ymfudo y tlodion a'i gymhelliad taer ef yw drwy gynghor ac esiampl ar i'r Saint a feddant arian yn y wlad yma eu gwneyd yn wasanaethyddol i fudo y Saint, naill ai drwy eu trysori gyda y Llywydd Richards, prynu y meddiannau a gynnygir genym ar werth yma, fel y bo ganddynt le i fyned iddo ar eu cyrhaeddiad yno, neu ar unrhyw ammodau cyfiawn arall a ddymunant. Yn ychwanegol at hyn etto, hysbyswn yr hyn a ystyrir yn destun gorfoledd i bob un a fedd awydd dyledus i fyned i Seion, sef yw, pan

oeddem yn Lerpwl yr wythnos ddiweddaf, drwy garedigrwydd y Llywydd Richards, yn nghyfeillach yr hwn ynghyd a'i gynghorwyr, a lliaws o Henuriaid o Seion, cawsom lawer o ddyddanwch, iechyd, a mwy o newyddion cysurlawn am Seion a'i hestynfeydd nag a ddeil y rhifyn hwn, yn unig, yn awr, dywedwn i ni weled llythyr oddiwrth y Llywydd Young, yn annog y Saint i ddyfod yn wersylloedd ar draed o'r wersyll-fan olaf, gan gludo eu pebyll, a'u hymborth am ychydig wythnosau, ac ychydig ddillad gyda hwynt, ar ddauolfenni ysgafn a wneir yn hwylpasol i'r ymgyrch, ac a lusgir gan y dynion, gyda hwynt caffant ychydig bedrolfenni a lusgir gan fulod neu geffylau i'w helpu i gludo ymborth, ac i fod wrth law pe dygwyddai anffawd, aflechyd, neu ffaeledd yn mhlith y llu; caffant wartheg llaeth hefyd gyda hwynt at eu gwasanaeth; bernir y gallai yr ymfudwyr yn gyffredinol deithio yn gyflymach o lawer nag y gall ychain fyned, yn enwedig wedi ymarfer am ychydig ddyddiau. Addawa y Llywydd anfon pedrolfenni o Seion ag ymborth i'w cyfarfod, efallai hyd Fort Laramie, sef hanner y ffordd, neu yn mhellach, yr hyn a gynnorthwya yn fawr i ysgafnhau eu llwythau ar y rhan olaf o'r daith. Ystyrir na chostia y daith i Seion fel hyn nemawr dros hanner y gost o fyned gydag ychain, ac nid llawer mwy na hanner yr amser; ac felly mwy na dyblir rhifedi yr ymfudwyr drwy y cynllun hwn ar y ni'er a elai ar yr un swm o arian yn y ffordd arall.

Nac arswyded neb rhag y cynllun hwn, canys i ni, ac i bob un a fu ol a blaen ar hyd yr holl ffordd i Seion, ymddengys yn amlwg iawn lawer o fanteision yn y ffordd hon ar yr hen ffordd ychain-aidd; credwn y gallai yr ymfudwyr fyned i ben eu taith mewn dwy ran o dair, os nad yn hanner yr amser, a hyny heb orfod cerdded nemawr neu ddim mwy nag a wnant gyda'r ychain. Gallant orphwyso yn awr yn yr amser a gymmerid gynt i wylied dros yr ychain y nos, chwilio am danynt ar ol dianc o honynr drwy *stampeed*, neu i'r Indiaid eu lladrata; ni byddai anghen i hanner y gwersyll eu gwylio rhag gwenwyno eu hunain drwy yfed dyfroedd yr *alcali*, &c., a byddent filldiroedd ar eu ffordd yn heinyf a chalonog fel hyn, ar lai o redeg nag oedd gynt i gael yr ychain i gychwyn, heb sôn am y gwneyd pontydd, y codi o'r llaid-byllau a'r ffosydd, a'r amser a gymmerid i drwsio pedrolfenni beunydd yn torri.

Mantais fawr arall a geir yn y ffordd hon yw y gallai yr ymfudwyr fyned yn eu blaen yn ddioedi, ac felly arbed yr aflechyd a'r gost, a'r colli bywydau canlynol a fu i'r arosiadau am fisoedd yn Kansas neu Atchinson tra yn aros am ychain, pedrolfenni, neu i'r borfa dyfu er eu porthi; arbedid fel hyn ddigon o amser i fod âr ben eu taith, mae yn debygol cyn y cynheuaf, yr hyn a fyddai yn ennill mawr i'r ymfudwyr ac i amaethwyr Seion.

Gwelodd yr hen brophwydi Saint y Dyddiau Diweddaf yn ffoi adref o blith pob cenedl, ar elorau meirch a mulod, ac nid annhebyg yw yr ymgyrch dan sylw. Diau y mawrygir unrhyw gynllun a'u cluda i Seion, os esgeulusir hwn, pan y dynesa y rhyfeloedd yn nes-nes atynt, pan y rhoddir mewn gweithrediad yr hyn a ddarogenir yn gyffredinol drwy'r wlad, sef codi milwyr drwy goelbren, a phan na fydd dyn yn ddiogel ar hyd heolydd tref na gwlad rhag crafangau y *Press gang*. Bydd, fe fydd unrhyw ffordd gyrhaeddadwy i Seion yn werthfawr os cyrhaeddadwy y pryd hyn, hefyd pan y ffarwelia y gwr a'i wraig bob tro am efallai yr olaf wrth adael drws ei dŷ i fyned at ei waith; pan y sylla, am a wyr, y gip-drem ei deulu pan elo o'u golwg, a phan arswyda ae y chwysa wrth gerdded yr heolydd rhag arswyd dynion fwy nag yr arswydodd erioed rhag bwganod y gwill, a phan yr arswyda rhag amddiffynwyr yn fwy nâ rhag ymosodwyr ar ei wlad ei hun.

Eithr wele ddrws cefn yn agored yn awr i'r doeth a wêl y drwg o bell, ae a ddewiso ddianc rhagddo. Ymchwilied pob un i'w alluoedd ei hun, oni all efe gael wyth punt, pa faint yw yn fyr o hyny, ac i'r dyben o wneyd y swm i fyny, ymaith a'r hen ddelwau, meddwn etto, oddiar ar eich parwydydd, y rhai a addolwyd gan eich hynafiaid er ys ocsoedd ; ymaith a'r clociau a'r *watches*, yr addurniadau, y modrwyau, ïe, ac hyd y nod y dilladau gwychion a ddarperid erbyn blynyddau dyfodol; gwerther yr oll ond yr ail bâr o ddillad i newid, er crynhoi yr £8, yn hytrach nâ bod ar ol yn ysglyfaeth i blâau, a chŵn rhyfel Babilon. Ni fedd y sawl a esgeulusa hyn, os yn ei allu i fyned, un hawl i honi nodded Duw drosto os arosa ar ol, fel y bydd gan y sawl na all fyned mewn un modd y tro nesaf. Gwneler hyn yn beth penaf a blaenaf, a gadawer i ni wybod, mor gynted y bo modd, pwy a all fyned gyda chwmni y ddauol.

fen. Dichon fod brodyr a chwiorydd heinyf ac iachus, a chanddynt fodd i fyned gyda y gweddeuau ychain am oddeutu prisoedd y llynedd, a gymmerant gymmaint o drugaredd ar frawd a chwaer ffyddlon arall sydd yn analluog o hono ei hun ag i fyned eu dau neu ddwy gyda y ddau-ol-fen ar gost un gyda y llall—dyma'r ffordd i wneyd i arall fel y dymunech gael; cofier mai brodyr ydym, ac mai un yw ein dyben.

Wrth y trydydd dosparth o ymfudwyr dywedwn. Os na allwch gael modd i ymfudo yn yr hen ffasiwn, sef gydag ychain fel y llynedd, yr hon sydd rhy hen a phwyllog i ganmol llawer arni, ac os na allwch fyned gyda y ffasiwn newydd am hanner y pris hwnw, neu os na fyddwch yn mhlith y dedwydd rai a ystyrir yn ddigon hen a ffyddlon i gael eu cludo, gwnewch bob ymdrech i ymfudo i'r Taleithiau, serch myned ar gost pob peth sydd o lai gwerth na gwaredigaeth.

Er y cynghorwn i wneyd y darpariadau hyn, ag i bob un fod mor barod ag a fo yn bosibl iddo, ie, pe caffai ond un dydd o rybudd, etto cynghorwn i'r Saint ymddwyn mewn doethineb, a pheidio dyrysu eu hamgylchiadau na cholledu eu hunain hyd nes y caffant sicrwydd y gallant ymfudo drwy hyny. Gofynodd ein Harglwydd gynt i'r Saint fod mor barod i'r alwad byrbwyll, fel os ar ben y tŷ nâ fyddai raid myned i fewn i'r tŷ cyn cychwyn, neu os yn y maes na ddychwelai adref i ymofyn ei gochl; nad arhosai i gladdu y meirw, i ffarwelio â pherthynasau, nac i ddim arall ond myned; ac fe fyddai yn ddoeth i'r Saint yn awr fod mor barod i alwad byrbwyll ag y gallant. Nid oes genym ddigon o ffydd i gredu y caiff pawb o'r rhai sy gymmerwn eu henwau ymfudo eleni, ac ni allwn benderfynu yn fuan efallai, pwy o honynt a gaiff y fraint, ond caffant gymmaint o rybudd ag a allwn roddi iddynt. Ac hefyd mae y nifer yn ymddibynu ar haelioni y cyfoethogion i raddau i brynu y meddiannau ag y soniwyd eisoes, a'u cyfraniadau i'r D. Y. Barhaus, &c

Wrth yr holl rai a fwriadant ymfudo gyda yr hen gynllun, yr un newydd, neu mewn unrhyw ffordd i Seion neu y Taleithiau, dywedwn, os bydd o ryw werth ganddynt gael ein cwmniaeth ni, ymbarotoant erbyn diwedd Chwefror o bellaf, ac hyderwn na arosa un yn ngweddill a fedd fodd i fyned.

O barthed i'r meddiannau cyfeiriedig sydd ar werth, dywed-

wn fod genym ddesgrifiadau o honynt, a galwn ar bawb a ddymuna sicrhau dewisiad, i wneyd brys, canys mae amryw o honynt wedi eu gwerthu eisoes, ac yn ol pob tebygolrwydd ni cheir cynnyg ar y gweddill yn hir.

"Udgorn Seion," am y gyfrol ddyfodol—Dysgwyliwn fod pob Llywydd Cynnadledd yn darparu eisoes fel arferol ar gyfer lledaenu cylchrediad ein Hudgorn ar ddechreu y flwyddyn, eu bod yn gosod eu holl ddosparthwyr, llywyddion y cangenau, a phawb a fedd ddylanwad i grynhoi enwau ychwanegol o dderbynwyr, mae y gobaith a feddir y bydd lluoedd yn ymfudo yn y gwanwyn nesaf yn profi yr anghenrheidrwydd o ymroi at hyn mewn pryd. Pe y lleiheid ei gylchrediad bydded hysbys y gorfodai hyny i godi yn ei bris, yr hyn ni chaniatâ y Saint i fod. hyderwn, canys gwell iddynt gael dau nac un am ddwy geiniog, pe y rhoddent un o'r ddau i gyfaill. Mae eu ffyddlondeb yn yr amser mynedol yn peri i ni gredu nad oes anghen dweyd chwaneg nâ'u hysbysu—*Mae eich* Udgorn *yn dymuno chwythu i chwi dônau Seion am flwyddyn ettò.*

Y Dyledion am Lyfrau.—Diolchwn yn fawr, ïe, yn fwy nag a allwn hysbysu i bawb a *deilynga*, o Gaerdydd i Fôn, am yr hyn argoelion a gawsom yn ddiweddar o welliant yn y fusnes bwysig hon; etto ni fynwn i'n canmoliaeth achosi lleihad y gronyn lleiaf, ond yn hytrach ymadnewyddiad mwy fyth i dalu yr hen ddyledion sydd yn aros am lyfrau. Cofier fod diwedd y flwyddyn a ddylai fod yn ddiwedd ar y dyledion yn agoshau—wrth y drws, fel na chawn eich coffhau ond rhyw un waith etto am hyny, a chofier mai cywilydd fydd i neb Llywydd na dosparthwr ofyn cymhorth i ymfudo cyn cwblhau y ddarpariaeth anhebgorol hon. Mae y tipyn llwyddiant a gaed ar y tipyn ymdrech a wnaed yn ddiweddar, a diolch am dano meddwn etto, yn profi fod hepian a chysgu wedi bod, ac nad oes eisieu ond deffroi tipyn chwaneg i *orphen* y gwaith,—deffroer ynte, y ddau lygad yn llydan agored.

At y Llywyddion.—Galwn sylw yn brydlon fel y cymmerer digon o amser i barotoi y tro hwn, a chael cywirdeb yn y *Cynnrychioliad hanner blynyddol* yn fwy nag a gafwyd o rai manau yn yr olaf, arferer pob manylrwydd a aller er cael cynnrychioliad *cywir*. Hefyd cofier am gyfrifon y cyfraniadau at

y D. Y. Barhaus, *ynghyd ag enwau y Cangenau!!!* a'r anrhegion at y Deml ag enwau y Trysorwyr, i fod yma y dydd olaf o'r flwyddyn. Adgoff hawn! y fod pob Llywydd Cynnadledd wedi rhoddi ei *air* y telir yr oll a ofynwyd ar ei Gynnadledd at y Deml erbyn diwedd y flwyddyn, a chofied hefyd fod anrhydedd ei air, yr hwn a ddylai fod yn werthfawrocach yn ei olwg nâ'i fywyd, yn ymddibynu ar gyflawni yr addewid hon. Hawddach fydd ymroi i grynhoi y swm nâ ffurfio esgus digonol yn ein golwg ni i'w esgusodi os peidia a gwneyd y cyfan i fynu yn brydlon!

Marwolaeth y Llywydd Orson Spencer.—Dan ddwys alâr a theimlad o ofid calon cyhoeddwn farwolaeth ein hanwyl-aidd a'n hyglodus frawd Spencer, yr hyn a gymmerodd le yn St. Louis, ar y 15fed dydd o fis Hydref. Gadawodd deulu lliosog ac anwylaidd yn Ninas y Llyn Halen Mawr i alaru eu colled. Cawsom y pleser o adnabod y Br. Spencer er yn foreu yn Nauvoo; ynghanol terfysgluoedd creulon, safodd yn wrol o blaid amddiffynwyr y gwir; ysgrifenodd amddiffyniadau campus o Joseph Smith pan yn ngharchar Carthage, a thrwy gannoedd o filltiroedd o wlad y terfysgwyr aeth a hwynt at Lywydd y Dalaeth i Springville; cladd wyd ei wraig yn yr anialwch, yn 1847, tra yr oedd efe ar genadiaeth yn Lloegr, lle y bu yn llywyddu yn llwyddiannus am dros ddwy flynedd, ac y mae miloedd a dystiant y lles a'r goleuni a fwynhasant drwy ei gynghorion doeth, a'i olygiaeth o'r *Star* yn y cyfamser

Wedi dychwelyd i Seion ni fu yn segur, oud gorlwythwyd ef â Swyddau o gyfrifoldeb mawr, y rhai a anrhydeddodd yn ddi-eithriad. Teithiasom gydag ef dros y Plains yn ol ar ei gen-adiaeth i Prussia, yn ei fawr nychdod ni rwgnachai, ond yn ufydd aeth—ei draethawd ysplenydd ar y genadiaeth hono a arddengys ei rinwedd a'i werth. Dychwelodd yn ol yn 1853 gyda chymmeradwyaeth, eithr nid i aros nemawr fisoedd cyn ei appwyntiwyd ef i fyned drachefn oddiwrth deulu ieuanc ac anwylaidd i blith cenedl wargaled yn y Taleithiau, a bu yn Llywyddu yn Cincinatti, Ohio, ac yn ohebydd medrus i'r "Luminary," y "Mormon," &c., hyd nes ar ymadawiad y Llywydd Snow yn yr Hydref diweddaf i Seion, gosodwyd y Brawd Spencer yn Olygydd ar y "Luminary" yn ei absennol-

deb. Yn y cyfamser, a chyn hyny, gwnaeth fwy na'i allu corff-orol yn ei genadiaeth yn mhlith yr Indiaid *Cherokees*, lle y gadawodd ddylanwad daionus ar ei ol a drws gobeithiol wedi ei agoryd i'r cfengyl fyned i'w plith; oddiyno dychwelodd i St. Louis dan ddylanwad afiechyd a aeth ag ef mewn ychydig wythnosau i wlad well, yn mhell tu uchaf i gyrhaeddiadau elefydau, poenau, pangau angeu a bradwriaethau terfysgwyr gelyniaethus—yn iach ehedodd ei ysbryd dewr a galluog i blith ei gyd-filwyr ar faes y gwaed a'r gofid—yn iach a buddyg-oliaethus y mae heddyw yn cyd-seinio yn nghynghorion ei frodyr fry, fel ag y gwnaeth yma; ac mor hollol ewyllysgar cydweithia gyda hwynt tu draw i'r llèn i ddatgloi carcharau oesol, ac i belydru i mewn i'w celloedd oleuni efengyl yr hedd. Nid llai gorfoleddus yw gan luoedd y carcharorion a garcharwyd yn gyflawn glywed miwsic ei lais nag oedd gan filoedd tra yma, ac nid llai ei ddewrder yno "i ddwyn y caffaeliaid oddiar y cadarn" nag oedd yn y fuchedd hon. Yno fel yma, didddiwedd ei Offeiriaeth, diderfyn ei waith, ac anniflanedig ei goron. Mawr yw ei fraint, ac ni phetruswn ddymuno boed ein diwedd ni gystal à diwedd y Brawd Spencer. Eithr er i ni feiddio croniclo hyn o weithredoedd ein hanwyl frawd, braidd fel pe na allem beidio, nid y'm am i neb feddwl fod yr awgrymiadau brysiawg hyn a nofiant gyntaf i wyneb a glàn hen fôr o goffadwriaeth yn cynnwys holl na nemawr mewn cyffelybiaeth o fawredd, hynodrwydd, galluogrwydd, ffyddlondeb na defnyddioldeb yr ymadawedig; O, na, nid ydynt i'r perwyl, nac er rhwystro galluocach llaw i wneuthur gwell cyfiawnder â'r teilwng wron ar y pwnc hwnw, pe bae eisieu help gan rywun eithr ei weithredoedd a'i canmola ef, ac y mae ei fyw-graffiad mor ddwfn ar gôf ei gydnabod fel na wellid ef gan farwnâd medrusaf

Dwywaith ymwelodd â Chymru ar ei hynt, a phwy a'i gwelodd ac a'i clywodd a all ei anghofio? Frwyth ei lafur byth a erys yn gofadail i'r byw a'r marw; ac am ei "Lythyrau at Mr. Crowell," drwyddynt hwy gwelodd lluoedd dywyllwch andwyol cyfeiliornau yr oes. Efe wedi cael ei ddwyn i fyny yn athrofeydd blaenaf yr Amerig, a dringo gyda'r uchaf i bwlpudau Sectyddiaeth, oedd o hyny y galluocaf i ddynoethi ei thwyll a'i hygoeledd, yr hyn a wnaeth mor eglur yn y llythyrau campus

dan sylw, nes y diolcha miloedd ond odid i'r Brawd Spencer etto, heblaw a fu, am agoryd eu llygaid mewn pryd.

Wedi cyfeillachgarwch anwylaidd ag ef, ac o hyd yn anwylo am tua dwsin o flwyddi, pwy a all beidio hiraethu? etto, nid fel heb obaith, diolch am hyny, ond fel rhai yn dyoddef y golled fwyaf drwy ei ennill ef. Dydd yr ymweliad amser yr adferiad neu yn gynt, ie, dydd ein tranc hyderus obeithir y cawn weled wyneb siriol y Brawd Spencer etto,—er mor felys y sôn, mil gwell y mwynhad; etto, nid cyflawn y gorfoledd hyd y dydd, y dedwydd ddydd, pan mewn anfarwoldeb y mwynheir anchwiliadwy olud ein Tad i'w blant drwy eu Brawd hynaf—diolch iddo.

Taliadau at Ddyled Cynnadledd Orllewinol Morganwg o Tach. 23ain hyd Rhag, 5med.—(Yr Addewidion Cyntaf.)

	£	s.	d.		£	s.	d.
Ann Groves, Abercenffig....	0	2	6	Jane Williams, St. Brides....	0	1	0

Yr ail Addewidion.

Elias Jones, Cwmbach.....	2	10		David Davies, Newton.....	0	2	0
Louisa Rose, Aberdawy.....	0	1	0	Rees Jones, Cwmafon	0	5	0
Thomas Fisher etto	0	7	0				
David Llywellyn Wick	0	2	0	Cwbl.....	£3	12	6
Elizabeth Llywellyn, etto....	0	2	0				

D. S. Mae y personau canlynol heb dalu eu haddewidion cyntaf:—John Jones, Aberafon; John Groves, &c., John Adams, &c., Ann Jones, John Llywellyn, &c., Abercenffig, J. J. Davies, &c., Alltwen; Abel Lloyd, Cwmafon; John Morris, Cwmbwrla; Sarah Jones, Cyfyng; David Abel, Seth Davies, Ann James, John John, Pyle; Mary Ann Commons, Mary Ann Jone, Rebecca Knight, John Paliphant, &c., David Lewis, &c., Rees Samuel, &c.—Y mae ereill a dalasant ran, a dysgwylir i'r cyfryw i'w cwblhau erbyn y Cynghor nesaf.

Derbyniadau am Lyfrau o Tach. 21 hyd Rhag. 5.—E. Middlton, £4; Evan S. Morgan, £4; G. W. Davies, £40 John Davies, £1 10s; Thomas Morgans, £3; William Lewis £2 10s.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

	tud
Y Drysorfa Ymfudol Barhaus.....	385
Gwlad Israel ac addewid Israel.....	388
Deseret.....	391
Golygydd aeth—Newyddion i Ymfudwyr—'Udgorn Seion' am y flwyddyn dd. odol—Y Dyledion am Lyfrau—At y Llywyddion—Marwolaeth y Llywydd Orson Spencer.....	392

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

Rhif. 26.] RHAGFYR 22, 1855. [Cyf. VIII.

LLYTHYR Y LLYWYDD B. YOUNG AT Y LLYWYDD F. D. RICHARDS.

Swyddfa y Llywydd, D. Ll. H. Mawr,
Medi 30ain, 1855.

Anwyl Frawd,—Wedi ysgrifenu atoch oddiar y *mail* diweddaf gyda'r Henuriaid. nid oes genym lawer o bwys idd eich hysbysu o hono ar na wyddech am dano o'r blaen—megys talu ein dyledion mawrion a ddeuant arnom yn gyson, yma ac yn St. Louis, dros yr ymfudiad eleni. Pe buasai genym tua chan mil o bunnau y fuyddyn i dreulio i'r cyfryw ddyben, buasai yn rhyw foddlonrwydd i gasglu tylodion yr Arglwydd, er y byddem yn debyg wrth wneuthur hyny o gasglu rhai o dylodion y diafol hefyd, a diafliaid tylodion gyda llaw. Eithr fe ddaw yr amser pan y cawn gymmaint â hyna o swm, ac ychwaneg mae yn debyg, ond bydd i'r gwaith hyd y nod gyd-fyned â hyny, felly nid wyf yn meddwl y cawn fwy o foddion nag a ofyna y gwaith. Yn wir, os cawn gymmaint, bydd yn gyfnod newydd yn ein pethau masnachol.

Bum yn myfyrio pa fodd y gweithredwn am fiwyddyn arall. Ni chaniatâ ein mhoddion i ni brynu pedrolfenni a gweddeuau megys ag y gwnaethom yn yr amser mynedol, o ganlyniad gorfodir fi i ddewis fy hen gynllun, sef gwneuthur dauolfenni, a gadael i'r ymfudwyr ei throedio hi, gan lusgo eu hangenrheidiau ar y daith arnynt, a chael buwch neu ddwy gyferbyn â phob

deg o honynt. Gallant ddyfod mor gynted, os nad yn nghynt, ac yn llawer rhatach, a dianc drwy hyny rhag y clefyd llywodraethol sydd yn flynyddol yn gosod cynnifer o'n brodyr yn isel yn y llwch. Mae y mwyrif o wyr yr ychain hyd y nod yn cerdded gyda y gweddeuau, gan fod mewn llawer mwy o ofal a gofid nag a gaffant wrth fod hebddynt. Ni fydd eisieu mwy o ymborth arnynt nag a barhâ am 90 o ddiwrnodau, o amser eu hymadawiad â'r afon Missouri, a chan fod y sefydliadau yn estyn i fyny i'r Platte, nid cymmaint chwaith. Gellir gwneyd y dauolfenni heb fod dim haiarn ynddynt, ac olwynion cylchedig iddynt, wedi eu gwneuthur yn gryfion ac ysgafn, ac fe wnelai un, neu os byddai y teulu yn lliosog, ddau o honynt gludo yr oll a fyddai eisieu arnynt ar y plains.

Os treuir felly unwaith, cewch weled y daw i fod y dull dewisolaf o groesi y plains; ni fydd ganddynt ddim i'w wneuthur ond gyru yn eu blaen, ac ni ryfeddwn pe teithiai Cwmpeini o'r fath hyn y daith mewn 60 neu 70 o ddyddiau. Mi a wn y gallant flaenu ar unrhyw gwmpeini ychain wrth groesi y plains. Mae arnaf eisieu gweled gwneuthur treial teg o hono, beth byang, a chredaf y bydd yn gyst.l dechreu felly y flwyddyn ddyfodol ag unrhyw amser, a setyll y gost ddirfawr o brynu wageni a gweddeuau—yn wir, fe ein gorfodir i wneuthur hyny, neu oedi gweithredu yn ol a welwyf yn bresennol.

Ofnwyf yn fawr y bydd i weithrediadau y flwyddyn hon ein rhwystro i gludo allan y peiriant gwlan sydd yn awr yn ystoredig yn St. Louis, yn y nesaf. Meddylaf mai gwell fyddai i'r ymfudiad ddyfod ar hyd y ffordd ogleddol o Gaerefrog Newydd, neu Philadelphia, neu Boston, yn gymhwys i Ddinas Iowa neu Fort Des Moines, ac i Gyngor Bluffs mor gynted ag y gorphenir y gledr-ffordd.

Daw i fod o bwys i chwi anfon cof-restr o'u henwau i ni, ac hysbysu y brodyr Taylor a Spencer, fel y trefnont yn gyfleusbyniol i hyny. Os gwnant felly, heb ammheu, gallaf addaw iddynt y cyfarfyddir hwynt â lluniaeth ac a ffryndiau yn mhell i waered ar y plains, cyn iseled etallai â Laramie, os cawn eu henwau yn brydlon; gwyddoch fod gan bawb braidd ffryndiau a pherthynasau yma yn awr, felly pan ddeallont fod eu cyfeillion yn dyfod, ânt allan i'w cyfarfod.

Ni chostia eu cludiad trwy Ddinas Iowa neu Fort Des Moines,

fwy nag 8 neu 9 doler, ac ni fyddai ond eisieu eu diwallu ag arian at brynu ymborth, ac ag ychydig wartheg, pa rai a ddylent fod o'r rhywiogaeth oreu. Ysgrifenaf at y brodyr Taylor a Spencer ynghylch y ddauolfenni, y dull o'u gwneuthur, &c. Wrth gwrs. chwi a ganfyddwch yr anghenrheidrwydd o wared u yr holl gistiau coed, a phob peth afreidiol. Ni ddylent ddyfod a dim ond newid-wisg. Cistiau tin fyddent yn debyg o fod y pethau goreu i gynnwys hyny a ddygant. Pymtheg milltir y dydd a'u dygent hwy drwyodd mewn 70 diwrnod, ac wedi y cynnefinant â'r gorchwyl, teithient 20, 25, ac hyd y nod 30 o filldiroedd gyda phob rhwyddineb, ac heb berygl o fethu, ond aent o hyd yn gryfach a chryfach; gellir cario y rhai bychain a'r cleifion os byddant, ar y ddauolfenni, eithr ni fydd oleifion yn mhen ychydig amser ar ol iddynt gychwyn. Bydd raid fod ychydig bebyll. Ysgrifenwch a fynoch at y brodyr Taylor a Spencer ynghylch yr ymfudiad. . . . . Dealled y Goruchwylwyr Teithiol eu dyledswyddau hefyd, a pha bethau a ddysgwylir oddiwrthynt, oddiwrth bwy y maent i dderbyn cyfarwyddiadau, ac yn mha fanau, fel y gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn. Fel yr ysgrifenwyd o'r blaen, eithr rhag ofn na chyrhaedda chwi, dywedwn etto, ein bod yn bwriadu anfon y brawd Lorenzo Snow i gymmeryd eich lle chwi yn gynnar y tymmor dyfodol, pan y dysgwyliwn y gwnewch chwi a Joseph, ac ereill efallai, y goreu o'ch ffordd adref. Cymhellwch bobl i brynu y meddiannau ag y cawsoch eu hanes; casglwch yr oll a allwch i dalu y ddyled yn St. Louis; a dysgwch y brodyr a feddant arian i'w dwyn gyda hwynt yma, neu eu hanfon i ni, yn lle eu defnyddio, gan wario pob dimeu o honynt cyn y cyrhaeddant yma, ac wedy'n i fod heb ddim i gynnorthwyo eu hunain, na neb arall; fel pan y delont yma y byddo ganddynt fodd i ddechreu rhyw fasnach gelfyddydol, neu ryw fasnachaeth a fydd yn ddefnyddiol er adeiladaeth teyrnas Dduw.

Mae y tywydd yn parhau yn deg, gan ein sicrhau yr addfeda y cnydau diweddar o ŷd, cloron, &c., y rhai, gyda chynnildeb, a fyddant ddigon i gyfarfod â phob rhyw anghenion gofynol, hyderwn.

Yr ydych yn debyg o gyfarfod â'r Brawd Calkins cyn y dery niwch hwn, gan ei fod wedi ei ddiwallu â'r modd anghen-

rheidiol i fyned trosodd yn ddiaros. Cychwynodd yn nghwmni y brodyr Schofield a Lavender, ar y 12fed o'r mis hwn.

Y mae pob peth yn dda gyda ni, ac amser cyffredinol o iechyd yn teyrnasu. Yr Arglwydd a'ch bendithio, ac a'ch cynnalio yw gweddi eich brawd yn Efengyl Crist.

BRIGHAM YOUNG.

UDGORN SEION,

NEU

Seren y Saint.

DYDD SADWRN, RHAGFYR 22, 1855.

YR YMFUDIAD—ydyw prif destun ein sylwadau y tro hwn etto; ac ni wyddom am ddim pwysicach yn awr nag yw iawn gyfarwyddiadau pa fodd i wneuthur y darpariadau anghenrheidiol er ymfudo. Tra yr hysbyswn y dosparth hwnw o ymfudwyr a ddewisant ymfudo yn ol yr hen gynllun, sef, myned gydag ychain a phedrolfenni, y bydd y ffordd yn rhydd iddynt oll wneuthur hyny, ac yn go debyg o ran amseryddiad a phrisiau i'r hyn oedd y llynedd er dim a wyddom, ac mai goreu po cyntaf iddynt ein hysbysu o'u bwriadau, anfon eu blaen daloedd, eu henwau, oedran, gwlad eu genedigaeth, eu trefedigaeth a'u galwedigaeth, a chael eu harian at brynu pedrolfenni, ychain, ymborth, &c., ar law yn barod i'w danfon ar y rhybudd byraf, nid ystyriwn eu bod hwy yn sefyll mewn cymmaint o anghen o'n cyfarwyddiadau yn awr ag ydyw y dosparth hwnw a ddysgwyliant am gymhorth gan ereill neu gan y Gymdeithas. Hysbysasom yn ein rhifynau blaenorol fod symiau o arian wedi cael eu cyfranu gan y Llywydd Young, ac ereill, er cynnorthwyo y Saint a fuont fyw ffyddlonaf am yr hwyaf o amser yn yr eglwys, a'n bod yn gofyn i'r Llywyddion yn mhob man i chwilio allan ag anfon i ni enwau ac oedran y ffyddloniaid, pa hyd y buont yn yr eglwys, &c., ynghyd a'r hatling eithaf a allant gynnorthwyo eu hymfudiad eu hunain, ac er fod brys mawr am hyn, a pherygl i'r arian gael eu defnyddio at fudo y

lleill a ufuddhasant i'r galwad yn fwy prydlon, ac er fod yr hoff Saint yn fyw gan ferw a dwndwr mawr am ymfudo, hysbyswn nad ydym hyd yn hyn wedi cael y gofrestr o nemawr gynnadledd! ac os colla rhai eu hamdden i ymfudo o herwydd hyny, beiant eu llywyddion ac nid nyni.

Er pan gyhoeddasom y rhifyn blaenorol o'r "UDGORN" deallasom gryn lawer o ddirgeledigaethau tra ar ein hymweliad â'r Saint mewn cyfarfodydd cyhoeddus, yn nghymdeithas y Llywyddion Spencer a Daniels, yn Merthyr a Sir Fynwy, pa rai a deilyngant fwy o'n sylw nag o'r blaen. ac â'r iawn ddealltwriaeth o ba rai mae lleshâd y Saint yn gyssylltiedig. Tra y dywedwn fod awydd mawr y Saint i ymfudo yn ein synu, a'u hymbiliau taerion yn mhob man am help a ffafr yn toddi ein calon, dywedwn hefyd yn eofn—digied a ddigio, fod esgeulusdod nid bychan yn mhlith llawer os nid yr oll i ymdrechu helpio eu hunain. Wedi deall am y ffordd newydd o groesi y plains, sef, ar draed, a chludo eu hymborth ar ddauoltenni, ac na chaniateir cynnorthwy gan y Drysorfa i ymfudo ond yn y ffordd hon, y cwestiynau cyntaf a ddeuant allan o eneuau llawer o frodyr, a chwiorydd hefyd ydynt, "Wel, wel, pa fodd y cariwn ein bonets, humberellas, parasols, a'n gwnau sidan; ac fe andwyir ein *shawls* drydfawr wrth eu cario mewn cydau! O'r anwyl, ni allaf fi feddwl myned hebddynt." "Ie," ebe arall "nid allwn fyned a'n *looking-glasses*, ein *ornaments*, ein *china*, na'r holl ddilladau newyddion a ddarparasom erbyn y daith." Cwyna y brodyr yn aml eisoes, "Wel, gwaith ofer oedd i ni brynu cynnifer parau o ddillad gan yr *hawkers*, hetiau, botasau, ac esgidiau a *watches* newydd erbyn ymfudo, gan na allwn eu cario gyda ni, hel la v ein tod mewn dyled am danynt." Ydyw, mae y dirgeledigaethau a ddarganfyddasom er ys ychydig ddyddiau ar y pwnc hwn yn profi yn amlwg yr anghen sydd i lywyddion chwilio i mewn i, ac iawn gyfarwyddo y Saint yn eu darpariadau i ymfudo, ac mae yn ddiammheuol genym fod ugeiniau os nad cannoedd yn ein plith a allant werthu digon o gelfi, dilladau, a theganau afreidiol, ag y gallent wneuthur yn well hebddynt, er ymfudo eu hunain i'r Taleithiau, neu ran fawr o'u ffordd i Seion. Wrth y cyfryw, dywedwn. nad i *gyfoethogion* fel hwynt y bwriedir rhoi cynnorthwy o'r swm dan sylw, eithr i'r rhai sydd rhy dlawd i allu trysori y fath gyf-

lawnder o nwyfau yn eu cylch i fod yn rhwystr i'w hymfudiad. Bwriedir "helpu y sawl a helpia ei hunan," mae'n wir, eithr nid y sawl a helpia ei hunan yn y ffordd yna, ond y sawl a helpia ei hunan drwy werthu yr oll a allo er helpio ei ymfudiad ei hun. A phe byddai yn bosibl iddynt gludo y fath ofer-bethau ar ddauolfenni, nid ystyriwn y byddai yn onest i neb geisio llogellu pethau felly, a thrwy hyny amddifadu ereill o'r fraint o ymfudo. Y sawl nad yw yn foddlon i ymadael â hyd y nod bob peth ond dillad newid, ïe, y geiniog ddiweddaf er ei ymfudo ei hun, nid yw yn deilwng o gael help ereill i ymfudo; arhosed hyd nes y bo digon o ysbryd Seion ynddo i wneyd hyny, ac na anfoner ei enw na'i goffawdwriaeth i ni am gymhorth. A da fyddai i'r oll ddeall y bydd yr un ysbryd ag a ddaliodd Ananias a Saphira yn eu dichell; fod yr hwn a ganfyddodd y "llafn aur" er mor gudd y cuddiodd Achan ef yn y gwersyll, a'i lygaid mor dreiddgar yn awr â'r pryd hyny, ac na chaffai ei darnguddiad hwynt o'u heiddo yn awr ond y cyffelyb effaith yn eu herbyn hwythau, neu, o leiaf, os na rwystrent eu mudiad drwy gelu rhan o'r hyn a feddent, amlwg yw mai po fwyaf o arian a feddent eu hunain, po leiaf a dollent ar y Drysorfa—tebycaf fyddent i gael y gweddill anghenrheidiol, ac felly, mwyaf yn y byd a allai fyned ar yr un arian. Na ddianged y mater pwysig hwn rhag golygon craffus y Llywyddion a ddetholant yr ymfudwyr. Nid arall a ofyna eu heiddynt, eithr gofynir iddynt ddefnyddio eu holl foddion er eu mudo eu hunain. Mae eu lleshad eu hun din yn eu cymhell i droi pob peth yn wasanaethyddol i'w eu hymfudiad. Hawddach o lawer fyddai iddynt ennill dilladau, &c., yn y Dyffryn nâ'u cludo gyda hwynt yn ol y ffordd newydd dan sylw; heblaw y llesiant ysbrydol a fwynheid drwy y fraint o fod yn Seion yn eu hennill rhagor yn Babilon.

Etto meddwn, a chraffed pawb ag y perthyna! Na fydded i'r Saint ag y cymmerir eu henwau i lawr osod eu mheddyliau mor ddidroi yn ol ar eu hymfudiad, na chredu fod rhoddi eu henwau i lawr yn *brawf* y caffant y fraint o ymfudo eleni fel y byddo siomiant, os felly y bydd, yn peri niwed i'w hamgylchiadau na'u teimladau. Dyben yr ymholiad yw cael allan y rhai teilynga i gael help erbyn y bo modd, eithr dibyna nifer y rhai a gynnorthwyir, fel y dywedasom yn ein holaf, ar y llwydd-

iant a geir i werthu y meddiannau a anrhegwyd i'r perwyl, desgrifiad o ba rai a feddwn, ac yr ydym wedi gwerthu peth eisoes, a gobeithion am werthu chwaneg; ac hefyd, doethach fyddai defnyddio eu ffydd i weddio ar yr Hwn sydd yn dal allweddau calonau y cyfoethogion idd eu datgloi, a'u llogellau hefyd, nag ymollwng dan ddylanwad penboethini i ormodedd rhysedd, rhag eu siomi.

Cyfrifed y sawl a anfona ei enw i ni beth a gaiff am y clociau, y *pictures* a'r *ornaments* a guddia barwydydd ei dŷ. y *chest of drawers*. a'r dilladau a'u llanwa, a phob peth arall a ddichon droi yn arian. Sylwer! nid eu *gwerthu* oll hyd nes y ceir sicrwydd y ceir help, eithr eu prisio oll, a chwilio pa le y gellir eu gwerthu ar rybudd byr, a hysbysu pa faint fydd yr oll. Cofier fod talu eu dyledion i bawb, *yn neillduol i eglwys i duw* yn ddarpariad anhebgorol anghenrheidiol. Y sawl na allo dalu yr oll i'r byd, danghosed egwyddor onest a chyfiawn drwy wneuthur a allo at hyny, eled at ei ofynwr, a cheisied ei gydsynied i fyned,—y tala oddi draw. Clod fo i'w henwau, mae ereill wedi talu o'r Dyffryn, yr hyn ni allent dalu yn a, a dichon pawb wneuthur yr un modd; eithr er dim na fydded i ni weled y gofynwyr yn dilyn neb o'r Saint, ac yn eu cywilyddio pan ar gychwyn o'u gwlad. Cymmoder yn brydlon rhag gwarth ar y grefydd oreu a fedd dynion.

Cyfnewidiadau ac Etholiadau.—Mae y cyfnewidiadau a'r etholiadau canlynol i gymmeryd lle yn yr Eglwys drwy y Dywysogaeth ar y dydd laf o fis Chwefror, 1856.

Rhyddheir y Llywyddion Cynnadleddau a ganlyn i'r dyben iddynt ymfudo yn y tymmor dyfodol:—

John Parry, Robert Evans, Thomas D. Giles, Benjamin Jones, John Price, Thomas Jenkins, Thomas D. Evans, John Davies, John Richards, William Lewis, Thomas Morgan, a Lewis Davies.

Mae Cynnadleddau Gogleddol a Deheuol Penfro i gael eu cyssylltu, a'u cyfenwi yn Gynnadledd Penfro.

Etholwyd yr Henuriad Abednego Williams i olynu y Llywydd Robert Evans yn Lywyddiaeth Cynnadledd Ddwyreiniol Morganwg.

Etholwyd yr Henuriad Benjamin Evans i olynu y Llywydd T. D. Giles yn Lywyddiaeth Cynnadledd Sir Fynwy,

Etholwyd yr Henuriad John Thomas i olynu y Llywydd T. Morgan yn Lywyddiaeth Cynnadledd Brycheiniog.

Etholwyd yr Henuriad Thomas Harries i barhau i olynu y Llywydd D. Jones yn Lywyddiaeth Cynnadledd Orllewinol Morganwg.

Etholwyd yr Henuriad David Davies i olynu y Llywydd B. Jones yn Llywyddiaeth Cynnadledd Llanelli.

Etholwyd yr Henuriad William Jones i olynu y Llywydd Thomas Jenkins yn Lywyddiaeth Cynnadledd Caerfyrddin.

Etholwyd yr Henuriad Edward D. Miles i gymmeryd Llywyddiaeth Cynnadledd Penfro.

Etholwyd yr Henuriad Thomas Jones i olynu y Llywydd John Richards yn Lywyddiaeth Cynnadledd Sir Aberteifi.

Etholwyd yr Henuriad John Treharn i olynu y Llywydd J. Davies yn Lywyddiaeth Cynnadledd Sir Feirionydd.

Etholwyd yr Henuriad Evan S. Morgans i olynu y Llywydd William Lewis yn Lywyddiaeth Cynnadledd Conwy a Môn.

Etholwyd yr Henuriad Griffith Roberts i olynu y Llywydd John Parry yn Lywyddiaeth Cynnadledd Sir Ddinbych.

Etholwyd yr Henuriad Thomas Rees i olynu y Llywydd L. Davies yn Lywyddiaeth Cynnadledd Sir Fflint.

Derbyniadau am Lyfrau o Rhag. 5 hyd 18.—Thomas Morgans, 15s; E. Middleton, £10; Lewis Davies, £2 15s 6c; B. Jones, £2 4s; G. W. Davies, £37; Hugh Roberts, £3; E. S. Morgans, £1 4s 4c; W. Lewis, £3 5s; J. Richards, £1 2s 6c.

Cymmanfaoedd y Deheu.—Merthyr, Rhag. 30ain; Brycheiniog, Ion. 6fed; Mynwy, ar y 13eg; Abertawy, ar yr 20fed; Llanelli, ar y 27ain; Caerfyrddin, Chwef. 3ydd; Aberteifi, ar y 10fed; Gogledd Penfro, ar y 17eg; Deheu Penfro, ar y 24ain.

☞ Gwthiodd pethau ereill daliadau Cynnadledd Orllewinol Morganwg allan hyd y rhifyn nesaf.

*** Anfoner pob llythyrau, yn cynnwys eirchion a thaliadau i *Capt. Jones*, "*Udgorn Seion*" *Office, Swansea.*

CYNNWYSIAD.

TUD

Llythyr y Llywydd B. Young at y Llywydd F. D. Richards 401
Golygyddiaeth,—Yr Ymfudiad—Cyfnewidiadau ac Etholiadau 404

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES.